*This document is available in English.*

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

Bydd cyfarfod **AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU** yn cael ei gynnal **DDYDD LLUN 15 GORFFENNAF 2024** yn rhithiol **trwy Zoom**, yn dechrau **am 09.30**.

Yr eiddoch yn gywir,
Gareth Owens
Clerc

---

## AGENDA

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datganiadau o Fuddiant**

3. **Hysbysiad o Faterion Brys**
   Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

4. **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Ebrill 2024**

5. **Materion yn Codi**

6. **Adroddiad y Cadeirydd**

7. **Yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys**

8. **Cynllun Datgarboneiddio'r Fflyd**

9. **Protocol ar Gysylltiadau Aelodau/Cyflogeion**

10. **Monitro Perfformiad Blwyddyn Ariannol 2023-24**

11. **Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024-2029**

12. **Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 2023-24**

13. **Bwrdd Pensiwn Lleol Adroddiad Blynyddol 2023-24; a Cylch Gorchwyl 2024-25**

**Parhad…**

## 14. Diweddariad ar Brosesu Unioni Cam Gwahaniaethu ar sail Oedran

## 15. Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2023-24

## 16. Datganiad o Gyfrifon 2023-24

## 17. Penodi Swyddog Priodol ar gyfer a.36 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

## 18. Materion Brys

Ystyried unrhyw eitemau y penderfynodd y Cadeirydd eu bod yn eitemau brys (yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972) ac y datganwyd eu pwysigrwydd o dan eitem 2 uchod.

## <u>RHAN II</u>

Yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, argymhellir bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem(au) busnes canlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth wedi'i heithrio yn cael ei datgelu iddynt fel sydd wedi'i diffinio ym Mharagraff(au) 12 i 18 yn Rhan 4 Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

## 19. Adolygiad Diwylliant

## 20. Canlyniad y gwrandawiad ymlaen llaw gan ET

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** a gynhaliwyd **ddydd Llun 15 Ebrill 2024** trwy **Zoom**. Dechreuodd y cyfarfod am **09.30 o'r gloch**.

| Cynghorydd | Yn Cynrychioli |
|---|---|
| Dylan Rees (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Bryan Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Marion Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| Carol Beard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Tina Claydon | Cyngor Sir y Fflint |
| Sharon Doleman | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Jeff Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Chrissy Gee | Cyngor Sir y Fflint |
| Alan Hughes | Cyngor Sir Ddinbych |
| Chris Hughes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Gareth R Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Marc Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Gwynfor Owen | Cyngor Gwynedd |
| Beverley Parry-Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Arwyn Herald Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Austin Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Gareth A Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Paul Rogers (o 09:39) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Gareth Sandilands | Cyngor Sir Ddinbych |
| Dale Selvester | Cyngor Sir y Fflint |
| Rob Triggs | Cyngor Gwynedd |
| Michelle Walker | Cyngor Sir Ddinbych |
| Marc Young | Cyngor Sir Ddinbych |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Dawn Docx | Prif Swyddog Tân (PST) |
| Stewart Forshaw | Dirprwy Brif Swyddog Tân (DBST) |
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC) |
| Justin Evans | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC) |
| Dafydd Edwards | Trysorydd |
| Gareth Owens | Clerc a Swyddog Monitro |
| Tracey Williams | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| George Jones | Gwasanaethau Cyfieithu Atebol |
| Lisa Allington | Gwasanaethau Aelodau |

1 **YMDDIHEURIADAU**

| Cynghorydd | Yn Cynrychioli |
|---|---|
| Paul Cunningham (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir y Fflint |
| John Brynmor Hughes | Cyngor Gwynedd |
| John Ifan Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Rondo Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Adele Davies-Cooke | Cyngor Sir y Fflint |

**ABSENNOL**

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|

Cynigiwyd a derbyniwyd yr ymddiheuriadau uchod.

Gofynnodd y Cadeirydd am funud o dawelwch er cof am Rob Outram, Dirprwy Bennaeth y Fflyd a Pheirianneg, a fu farw'n sydyn ar 3 Ebrill 2024. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod cerdyn o gydymdeimlad wedi'i anfon ar ran yr Awdurdod ac y byddai ef yn mynychu'r angladd hefyd.

## 2 DATGANIADAU BUDDIANT

2.1 Nid oedd datganiadau o fuddiant.

## 3 HYSBYSIAD O FATERION BRYS

3.1 Ni dderbyniwyd unrhyw rybudd o faterion brys.

## 4 COFNODION CYFARFOD YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB A GYNHALIWYD AR 22 IONAWR 2024

4.1 Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2024 i'w cymeradwyo.

4.2 Nodwyd bod y Cynghorydd Carol Beard wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod ac nad oedd wedi cynnig ymddiheuriad, fel y nodwyd yn y cofnodion.

4.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo cofnodion yr Awdurdod Tân ac Achub o 22 Ionawr 2024 fel cofnod cywir a gwir o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd, gyda'r newid a nodwyd uchod wedi'i wneud.**

## 5 MATERION YN CODI

5.1 Nid oedd angen trafod unrhyw faterion yn codi.

## 6 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

6.1 Nodwyd bod papur ysgrifenedig wedi'i roi i'r Aelodau er mwyn rhoi gwybod iddynt am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau a fynychwyd gan Gadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod yn rhinwedd swyddogol eu swyddi rhwng mis Ionawr 2024 a mis Mawrth 2024.

6.2 Nododd y Cadeirydd fod sawl cyfarfod wedi eu cynnal gyda Hannah Blythyn, y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, yn ystod y chwarter diwethaf. Fodd bynnag, yn dilyn penodi Vaughan Gething yn Brif Weinidog Cymru, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros Dân ac Achub i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, Julie James.

6.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi'r wybodaeth a ddarperir yn y papur.**

**7 ADOLYGIAD DIWYLLIANNOL ANNIBYNNOL**

7.1 Cyflwynodd y PST bapur yr Adolygiad Diwylliannol Annibynnol er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am daith ddiwylliannol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) a'r cynnydd tuag at gomisiynu Adolygiad Diwylliannol Annibynnol. Roedd hyn yn dilyn y diweddariad llafar a roddwyd eisoes mewn cyfarfod blaenorol.

7.2 Gofynnodd un Aelod sut y gallai Aelodau fod yn rhan o'r Adolygiad Annibynnol ac ymatebodd y PST drwy ddweud, er bod y papur hwn yn hysbysiad swyddogol o'r adolygiad, byddai diweddariadau rheolaidd yn cael eu rhoi a byddai briff ffurfiol yn cael ei rannu yng nghyfarfod llawn yr Awdurdod ym mis Hydref 2024.

7.3 Mynegwyd pryder ynghylch costau posibl yr adolygiad. Teimlwyd bod llawer o waith eisoes wedi'i wneud o ran diwylliant yn y Gwasanaeth a'u bod yn symud i'r cyfeiriad cywir. Gofynnwyd felly a allai Julie James wrthdroi'r penderfyniad hwn. Cadarnhaodd y PST fod rheoli costau yn flaenoriaeth ac y byddai sgyrsiau'n cael eu cynnal gyda Julie James yn y Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol ar 8 Mai, gyda'r PST a'r Cadeirydd yn bresennol, er mwyn deall ei safbwynt ar y mater.

7.4 Tynnodd y Cadeirydd sylw'r Aelodau at ran o'r papur oedd yn nodi y byddai'r adolygiad yn cael ei gyfyngu i brofiadau o fewn amserlen benodol, nad oedd wedi'i chytuno eto.

7.5 Teimlai un Aelod y dylai Undeb y Brigadau Tân fod yn rhan fawr o'r adolygiad hwn fel rhan o ymrwymiad y Gwasanaeth i weithio'n agosach gyda nhw. Ar y pwynt hwn, nododd y Cadeirydd fod Cadeirydd ac Ysgrifennydd Undeb y Brigadau Tân wedi rhoi'r gorau i'w swyddi ers cyfarfod diwethaf yr Awdurdod Tân ac Achub a'u bod yn disgwyl cadarnhad ffurfiol o ran y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd newydd. Cadarnhaodd y PST y byddai cyfranogiad pob Undeb yn cael ei geisio yn ystod y broses hon.

7.6 Gofynnodd un Aelod a oedd rhesymeg y tu ôl i osod amserlen ar gyfer yr adolygiad gan eu bod yn pryderu efallai na fyddai rhai lleisiau'n cael eu clywed o ganlyniad. Ymatebodd y PST drwy ddweud bod systemau mewnol ar waith i ymdrin â materion hanesyddol, ond y byddai unrhyw beth hanesyddol sy'n parhau yn cael ei gynnwys yn yr adolygiad.

7.7 Gofynnwyd pwy fyddai'n penodi'r Adolygydd Annibynnol ac ymatebodd y PST drwy ddweud mai'r ddau Awdurdod Tân fyddai'n penderfynu. Fodd bynnag, roedd Llywodraeth Cymru wedi nodi na ddylai fod yn rhywun sydd ag unrhyw gysylltiad presennol neu flaenorol â'r naill wasanaeth na'r llall. Teimlai un Aelod ei bod hefyd yn bwysig bod y sawl sy'n cael ei benodi neu ei phenodi hefyd yn meddu ar brofiad o'r Gwasanaethau Brys er mwyn cyflawni'r briff yn effeithiol.

7.8 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi cynnwys y papur; a**
**ii) chymeradwyo, mewn egwyddor, creu cronfa wrth gefn i ariannu'r adolygiad annibynnol a'r rolau ategol o fewn y Gwasanaeth.**

## 8 DIWEDDARIAD AR YR ADOLYGIAD O'R DDARPARIAETH FRYS

8.1 Cyflwynodd DBST Forshaw ddiweddariad ar yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar y cynnydd sy'n cael ei wneud gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen newydd yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, a sefydlwyd mewn ymateb i'r penderfyniad a wnaed gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2023 i ddatblygu opsiwn parhaol newydd ar gyfer darpariaeth frys ledled Gogledd Cymru.

8.2 Tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith fod y materion a arweiniodd at yr adolygiad hwn yn parhau a bod angen eu datrys.

8.3 Gofynnwyd a oedd unrhyw gynnydd wedi'i wneud yn y maes hwn a chadarnhaodd y DBST fod dulliau gweithredu gwasanaethau tân ac achub eraill wedi cael eu hystyried a bod y Gweithgor wedi llunio nifer o syniadau o ganlyniad i hynny. Roedd y rhain wrthi'n cael eu mireinio a'r gobaith oedd y byddai opsiwn ymarferol ar gael i'w gyflwyno i'r Aelodau yng nghyfarfod llawn yr Awdurdod ym mis Gorffennaf.

8.4 Nodwyd bod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi bod yn cyfarfod mewn gwahanol leoliadau a gofynnwyd a oeddent wedi cyfarfod yn Ne Gwynedd eto, gan fod yr ardal hon yn un o'r ardaloedd sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Ymatebodd y DBST gan ddweud y byddai'n sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cael ei rhannu gyda'r Aelodau.

8.5 Gofynnodd un Aelod sawl opsiwn oedd yn cael eu datblygu i'w cyflwyno i'r Awdurdod a dywedodd y DBST mai'r gobaith oedd cynnig un opsiwn ymarferol nad oedd yn ei hanfod yn rhy wahanol i'r hyn a gyflwynwyd i'r Awdurdod yn flaenorol. Pe bai yn wahanol iawn i'r hyn a gyflwynwyd yn flaenorol, mae'n bosibl y byddai angen cynnal ymgynghoriad cyhoeddus pellach.

8.6 Nododd y PST fod Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth frys ar hyn o bryd er mwyn mynd i'r afael â'r ardaloedd daearyddol nad oeddent yn gallu darparu sicrwydd o ran darpariaeth frys ar eu cyfer. Rhwng y ddau wasanaeth, roedd hyn yn amlwg yn broblem ehangach gan fod ardal sylweddol o Gymru, rhyngddynt, heb sicrwydd o ran darpariaeth frys.

8.7 Gofynnodd un Aelod pa waith oedd wedi'i wneud ymysg y swyddogion perthnasol o ran y cyllid ar gyfer yr opsiwn newydd posibl. Cadarnhaodd y PSTC MacArthur y byddai unrhyw opsiwn a fyddai'n cael ei gynnig yn dod o fewn y cyllid sydd ar gael.

8.8 Nododd y DBST hefyd, pe bai'r opsiwn a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf yn cael ei dderbyn gan yr Awdurdod, efallai y byddai'n bosibl ei roi ar waith yn barod ar gyfer dechrau'r flwyddyn ariannol newydd, ac y gellid felly gosod y gyllideb gyda hynny mewn golwg.

8.9 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi ymgysylltiad yr holl randdeiliaid ar Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys i gydweithio i ddatblygu opsiynau sy'n sicrhau gwelliannau i'r ddarpariaeth frys ar gyfer cymunedau Gogledd Cymru; a**

**ii) nodi'r cynnydd a wnaed gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen hyd yn hyn.**

## 9 STRATEGAETH CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT 2024-2029

9.1 Cyflwynodd y DBST Forshaw y Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2024-2029 arfaethedig i'r Aelodau. Mae'n cyflwyno ein hymrwymiadau sy'n ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ac yn nodi sut rydym yn bwriadu eu cyflawni.

9.2 Nododd y Cadeirydd fod y Panel Gweithredol eisoes wedi craffu ar y strategaeth hon, a bod y Cynghorydd Sharon Doleman wedi'i phenodi yn Hyrwyddwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yr Aelodau. Diolchwyd i'r Cynghorydd Doleman am ei hymrwymiad i'r rôl.

9.3 Gofynnodd un Aelod sut y gellid gwella cyfathrebu er mwyn sicrhau bod yr holl Aelodau yn ymwybodol o'r gwaith gwych sy'n cael ei wneud ar draws y Gwasanaeth. Ymatebodd y DBST y byddai hyn yn rhan o gyfrifoldebau'r Hyrwyddwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd. Roedd yr wybodaeth ddiweddaraf hefyd yn cael ei rhannu'n rheolaidd drwy'r Crynodeb Wythnosol; fodd bynnag, cydnabuwyd y gellid gwneud rhagor o waith yn y maes hwn.

9.4 Nododd un Aelod y gallai fod angen adolygu'r meini prawf hanfodol ym mhob un o ddisgrifiadau swyddi'r Gwasanaeth yn unol â'r Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw berson yn cael ei eithrio rhag gallu gwneud cais am resymau a allai ymwneud â nodwedd warchodedig.

9.5 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi cynnwys y papur; a**
**ii) chymeradwyo'r Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2024-29 arfaethedig.**

**10 SIARTER TEITHIO LLESOL GOGLEDD CYMRU**

10.1 Cyflwynodd y PSTC Evans bapur Siarter Teithio Llesol Gogledd Cymru a oedd yn nodi'r rhwymedigaethau a bennwyd yn Siarter Teithio Llesol Gogledd Cymru (y Siarter), yn ogystal â'r ystyriaethau ymarferol o ran eu gweithredu.

10.2 Nododd y Cadeirydd fod y Panel Gweithredol eisoes wedi craffu ar y papur hwn.

10.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo cadarnhad Siarter Teithio Llesol Gogledd Cymru o dan y telerau canlynol:**

- **Bod y Prif Swyddog Tân (PST) yn cael ei benodi i lofnodi'r Siarter ar ran yr Awdurdod;**
- **Bod Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd yn cael ei benodi'n Bwynt Cyswllt Unigol (SPoC) ar gyfer y cynllun; a**
- **Bod PSTC Justin Evans yn adrodd i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam ar gydymffurfiaeth.**

**11 ALLDRO DROS DRO 2023/24**

11.1 Cyflwynodd y Trysorydd y papur Alldro Dros Dro 2023/24 i'r Aelodau gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ragolygon gwariant cyfalaf a refeniw 2023/24, fel yr oedd ar 29 Chwefror 2024.

11.2 Nodwyd nad oedd yr Aelodau wedi craffu ar y papur hwn o'r blaen.

11.3 Gofynnodd un Aelod a oedd unrhyw waith craffu o ran y gwariant cyfalaf ac ymatebodd y PSTC MacArthur mai'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb fyddai'n gyfrifol am hyn.

11.4 Nodwyd bod y cyllid ar gyfer prosiect Firelink wedi'i dynnu'n ôl gan Lywodraeth Cymru. Gan fod hwn yn brosiect cenedlaethol, dywedodd y PSTC MacArthur wrth yr Aelodau ei fod yn parhau i fod yn her sylweddol i bob gwasanaeth tân ac achub. Roedd her gyfreithiol genedlaethol ar y cynnydd mewn costau hefyd wedi'i chyflwyno.

11.5 Gofynnodd un Aelod pa gamau oedd yn cael eu cymryd i unioni'r problemau gyda'r citiau tân. Ymatebodd y PSTC MacArthur ei bod yn bwysig bod y Gwasanaeth yn gallu darparu cit priodol i'w weithlu a bod hyn yn cael ei reoli'n ofalus ar hyn o bryd.

11.6 Gofynnwyd a oedd modd ailddefnyddio citiau tân ac ymatebodd drwy ddweud eu bod yn cael eu harchwilio'n ofalus wrth eu golchi a chyn belled â'u bod yn dal o fewn dyddiad oes y cit, eu bod yn cael eu dyrannu eto.

11.7 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi'r rhagamcanion alldro refeniw a chyfalaf drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 fel y manylir yn eu cylch yn y papur;**
**ii) nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â chwyddiant ac â materion yn y gadwyn gyflenwi; a**
**iii) chymeradwyo'r defnydd o gronfeydd wrth gefn cyffredinol a rhai wedi'u clustnodi.**

## 12 DATGANIAD POLISI TÂL 2024/25

12.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur y Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2024/25 er mwyn hysbysu Aelodau'r Awdurdod o'u cyfrifoldebau yn deillio o Ddeddf Lleoliaeth 2011 (y Ddeddf). Tynnwyd sylw at rannau allweddol o'r papur.

12.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi gofynion Deddf Lleoliaeth 2011; a**
**ii) chymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25.**

## 13 STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2024-25

13.1 Cyflwynodd y Trysorydd Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2024-25, er mwyn cyflwyno'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys arfaethedig i'r Aelodau ar gyfer y cyfnod Ebrill 2024 – Mawrth 2025.

13.2 Nodwyd bod y Pwyllgor Archwilio eisoes wedi craffu ar y papur hwn.

13.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2024/25;**

**14 STRATEGAETH GYFALAF 2024-34**

14.1 Eglurodd y PSTC MacArthur wrth yr Aelodau mai pwrpas y papur hwn oedd cyflwyno'r Strategaeth Gyfalaf arfaethedig ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2034, a darparu manylion ac esboniadau o'r Strategaeth arfaethedig.

14.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2024-2034;**

**15 STRATEGAETH CRONFEYDD ARIANNOL WRTH GEFN**

15.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur fersiwn wedi'i diweddaru o'r Strategaeth Cronfeydd Ariannol wrth Gefn (y Strategaeth) i Aelodau'r Awdurdod.

15.2 Diolchodd y Cadeirydd i'r Trysorydd, PSTC MacArthur a'r Pwyllgor Archwilio am y gwaith rhagorol a wnaed mewn perthynas â'r papurau ariannol hyn.

15.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) Cymeradwyo'r Strategaeth Cronfeydd Ariannol wrth Gefn sydd yn Atodiad 1, fel sail i reoli'r cronfeydd defnyddiadwy sydd gan yr Awdurdod.**

**16 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU AR GYFER 2023/24**

16.1 Cyflwynodd y Clerc Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2023/24 i'r Aelodau.

16.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi cynnwys adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau.**

**16i ADOLYGIAD TREIGL O GOD YMDDYGIAD Y CYNGHORWYR**

16i.1 Eglurodd y Clerc mai pwrpas y papur hwn oedd rhoi cyfle i'r Aelodau adolygu Cod Ymddygiad y Cynghorwyr (y Cod) er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gyfredol, yn enwedig o ystyried yr argymhellion a wnaed yn Adolygiad Penn.

16i.2 Nododd y PST ei fod yn cyfeirio at Aelodau'r Awdurdod yn hytrach na chyflogeion y Gwasanaeth.

16i.3 Gofynnodd un Aelod beth fyddai'r drefn pe bai Aelod wedi cael rhybudd gan yr heddlu ond heb gael ei gyhuddo'n swyddogol. Ymatebodd y Clerc gan ddweud, oherwydd bod rhybuddion fel arfer yn ymwneud â throseddau llai difrifol ac nad oeddent yn gyfystyr ag euogfarn droseddol, na fyddai unrhyw gyfrifoldeb ar Aelod i roi gwybod am hyn.

16i.4 Diolchodd y Cadeirydd i Aelodau'r Pwyllgor Safonau am eu gwaith trylwyr iawn.

16i.4 **PENDERFYNWYD:**

**i) Cynnwys yr holl nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 o fewn y gwaharddiad ar wahaniaethu; a**
**ii) Diwygio'r gofyniad i adrodd ynghylch ymddygiad troseddol gan eraill i gynnwys hefyd adrodd amdanoch chi'ch hun pan fo cynghorydd yn cael euogfarn (ac eithrio hysbysiad cosb benodedig)**

**17 MATERION BRYS**

12.1 Nid oedd materion brys i'w hystyried..

Nodwyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 15 Gorffennaf 2024.

**Daeth y cyfarfod i ben: 11:19**

*This document is available in English* **Eitem Agenda 6**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **15 Gorffennaf 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Amherthnasol** |
| Swyddog Cyswllt | **Gwasanaethau Aelodau** (members.services@northwalesfire.gov.wales) |
| Pwnc | **Adroddiad y Cadeirydd** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd iddynt yn rhinwedd eu swyddi rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2024.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r Cadeirydd a/neu'r Dirprwy Gadeirydd wedi mynd i nifer o gyfarfodydd a digwyddiadau, yn fewnol ac yn allanol, ar ran yr Awdurdod.

**ARGYMHELLIAD**

3 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) nodi'r wybodaeth a roddwyd.

**ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

4 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried gan yr Aelodau o'r blaen.

**GWYBODAETH**

5 Yn ogystal â chyfarfodydd sy'n ymwneud â'r Awdurdod, mae'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd wedi cyfarfod â'r Prif Swyddog Tân (PST) yn rheolaidd.

6 Gyda'r nos ar 8 Ebrill, ymwelodd y Cadeirydd â'r Wylfa yng Ngorsaf Dân Porthmadog a oedd yn cynnal digwyddiad recriwtio.

7 Ar 19 Ebrill, mynychodd y Cadeirydd Seremoni Cyflawniad y Ffenics yng Ngorsaf Dân Porthmadog gan gyflwyno tystysgrifau i'r disgyblion o Ysgol Eifionydd a oedd wedi cwblhau'r cwrs.

8 Ar 30 Ebrill, mynychodd y Cadeirydd wasanaeth angladd Rob Outram, gweithiwr Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth), yn Amlosgfa Mochdre.

9 Ar 8 Mai, aeth y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân i gyfarfod y Bartneriaeth Gymdeithasol a gynhaliwyd yn y Senedd yng Nghaerdydd.

10 Ar 10 Mai, aeth y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd i Seremoni Cyflawniad y Ffenics yng Ngorsaf Dân Llanfairfechan a chyflwynasant dystysgrifau i'r myfyrwyr o Goleg Llandrillo a oedd wedi cwblhau'r cwrs.

11 Ar 14 Mai, mynychodd y Cadeirydd, y Prif Swyddog Tân a'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC) Justin Evans weithdy "Siarter ar gyfer Teuluoedd sydd wedi Dioddef Profedigaeth yn sgil Trasiedi Gyhoeddus yng Nghymru" ym Mhencadlys Heddlu De Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

12 Ar 19 Mai, mynychodd y Cadeirydd y digwyddiad golchi ceir elusennol yng Ngorsaf Dân Porthaethwy.

13 Ar 3 Mehefin, ymunodd y Cadeirydd â Thîm Arweinyddol y Gwasanaeth i fynychu cyflwyniad rhithiol gan dri chwmni a oedd yn gwneud cais am y contract i gynnal adolygiad diwylliannol annibynnol o'r Gwasanaeth a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

14 Ar 13 Mehefin fe wnaeth y Cadeirydd a'r PST gwrdd â chynrychiolwyr Undeb i drafod agenda'r Panel Gweithredol sydd ar ddod.

15 Ar 27 Mehefin, mynychodd y Dirprwy Gadeirydd gyfarfod adolygu Cadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion gydag aelodau'r Pwyllgor Safonau.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Amherthnasol. |
| Cyllideb | Mae unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd a digwyddiadau a fynychir gan aelodau yn cael eu had-dalu o'r gyllideb teithio a chynhaliaeth. |
| Cyfreithiol | Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |
| Staffio | Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |
| Risgiau | Does dim risgiau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **15 Gorffennaf 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân, Polisi a Chynllunio Corfforaethol** |
| Swyddog Cyswllt | **Anthony Jones, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ar y cynnydd sydd wedi ei wneud gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, a sefydlwyd mewn ymateb i'r penderfyniad a wnaed gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2023. Pwrpas y grŵp hwn oedd ymchwilio a datblygu opsiwn parhaol newydd ar gyfer darpariaeth frys ar draws Gogledd Cymru.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Cadeiriwyd grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys gan Reolwr Criw o Orsaf Dân Glannau Dyfrdwy, ac roedd y Dirprwy Gadeirydd yn Rheolwr Gwylfa o Orsaf Dân y Rhyl. Roedd y Grŵp yn cynnwys un ar bymtheg o gydweithwyr yn gweithio ar wahanol lefelau ac mewn gwahanol orsafoedd ac adrannau o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth), gan gynnwys cynrychiolwyr Undeb y Brigadau Tân (FBU). Fe wnaethant gyfarfod ar naw achlysur rhwng mis Chwefror a mis Mai 2024, gan drafod ac ymchwilio i sawl model ymateb brys.

3 Penllanw'r gwaith hwn oedd tri darn o ymchwil i fodelau ymateb brys yn cael eu cyflwyno gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys i Weithgor Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys yr Awdurdod ar 20 Mai 2024. Mae'r tri darn hyn o ymchwil yn cynrychioli cryn dipyn o ymdrech, gwaith ac ymgysylltiad gan randdeiliaid ac aelodau Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys ac roedd pob un ohonynt yn cynnig gwelliannau posibl i'r ddarpariaeth frys.

4 Yn ei gyfarfod ar 20 Mai 2024, gofynnodd Gweithgor Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys yr Awdurdod Tân i'r Gwasanaeth adolygu'n fanwl y tri darn o ymchwil a gyflwynwyd gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys er mwyn darparu argymhellion yng nghyfarfod nesaf Gweithgor Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys yr Awdurdod ar 12 Mehefin 2024.

5 Yn dilyn dadansoddiad pellach o'r tri darn o ymchwil i fodelau ymateb brys a gyflwynwyd i Weithgor yr Awdurdod Tân ar 12 Mehefin, argymhellwyd dau o'r modelau ar gyfer gwaith datblygu pellach fel modelau ymarferol posibl ar gyfer ymateb brys yn y dyfodol sy'n gwella tegwch y ddarpariaeth frys i gymunedau Gogledd Cymru.

**ARGYMHELLIAD**

6 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) cymeradwyo bod Swyddogion yn parhau i weithio gyda staff a chyrff cynrychioliadol mewn partneriaeth gymdeithasol i symud ymlaen, datblygu a gweithredu modelau ymchwil dau a thri Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, neu amrywiadau arnynt, yn dilyn ymgynghori â staff;
ii) cymeradwyo bod y Gwasanaeth yn ymgymryd â'r trefniadau angenrheidiol i wneud y gorsafoedd a nodwyd ar gyfer cyflwyno system ddyletswydd staffio dydd yn addas ar gyfer hynny; a
iii) gwerthfawrogi ymdrechion a chyfraniad Aelodau Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys i ddatblygu opsiwn parhaol newydd ar gyfer darpariaeth frys ledled Gogledd Cymru.

**CEFNDIR**

7 Yn ystod y cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2023, ymgynghorodd yr Awdurdod â'r cyhoedd ar dri opsiwn posibl ar gyfer darparu ei ymateb brys i gymunedau Gogledd Cymru yn y dyfodol.

8 Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos o hyd, cyfarfu'r Awdurdod ar 18 Rhagfyr 2023 a phenderfynwyd fel a ganlyn:

*Gofynna'r Aelodau i'r Swyddogion barhau i weithio gyda'r holl randdeiliaid er mwyn datblygu opsiwn newydd parhaol, gan ystyried y penderfyniad a wnaed heddiw a chyfyngiadau'r gyllideb arfaethedig.*

9 Felly, gofynnwyd am fynegiadau o ddiddordeb gan staff sy'n gweithio ar bob lefel ar draws holl adrannau, gorsafoedd a systemau dyletswydd y Gwasanaeth, ac ym mis Ionawr 2024 sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys. Mae Undeb y Brigadau Tân hefyd wedi'u cynrychioli ac maent wedi bod yn bresennol ym mhob cyfarfod.

**GWYBODAETH**

10 Cynhaliodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys ei gyfarfod cyntaf ar 1 Chwefror 2024 ac maent wedi cyfarfod naw gwaith, gan drafod y model ymateb presennol yn fanwl ac archwilio dulliau arloesol o ddarparu model ymateb brys mwy teg yn y dyfodol.

11 Roedd Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys yn derbyn bod angen gwella'r ddarpariaeth frys, yn enwedig yn ardaloedd mwy gwledig Gogledd Cymru, ac roeddent yn deall bod yn rhaid i unrhyw gynigion a gyflwynid ganddynt fodloni meini prawf gwerthuso'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys a ddefnyddiwyd drwy gydol y broses o ddatblygu'r opsiynau gwreiddiol.

12 Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys wedi cael ei gefnogi gan adrannau'r Gwasanaeth yn ôl yr angen, wedi cael mynediad at ddata a modelu ymateb brys a hefyd wedi cael cyflwyniadau ar fodelau cyflenwi darpariaeth frys amgen gan Wasanaethau Tân ac Achub eraill yn y DU.

13 Yn dilyn pob cyfarfod, gofynnwyd i aelodau Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys siarad â'u cydweithwyr i gael adborth ar y syniadau oedd yn cael eu trafod er mwyn sicrhau bod y gweithlu ehangach yn parhau i fod yn ymwybodol o'r datblygiadau. Cafodd cydweithwyr eu hannog hefyd i gyflwyno eu syniadau i gynrychiolwyr Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys er mwyn iddynt gael eu cynnwys yn nhrafodaethau'r grŵp.

14 Archwiliodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys amrywiaeth o opsiynau ymateb brys ar gyfer y dyfodol ac aeth ati i adolygu'r rhain yn erbyn meini prawf gwerthuso'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys ac adborth gan gydweithwyr.

15 Datblygwyd tri darn o ymchwil i fodelau ymateb brys a chawsant eu cyflwyno gan Gadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys i Weithgor Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys yr Awdurdod Tân ar 20 Mai 2024. Dyma'r modelau hynny:

- **Model 1:** Mae'n defnyddio pob un o'r 12 diffoddwr tân System Ddyletswydd Amser Cyflawn Wledig (WDSR) ac 89% o gydnerthedd criwio* y Gwasanaeth i ddarparu dwy orsaf newydd â staff dydd.
- **Model 2:** Mae'n cyflwyno newidiadau i'r system ddyletswydd ym mhob gorsaf amser llawn er mwyn rhyddhau staff. Gan ddefnyddio'r staff sy'n cael eu rhyddhau yn sgil y newid hwn, diffoddwyr tân y System Ddyletswydd Amser Cyflawn Wledig a 78% o gydnerthedd criwio'r Gwasanaeth, darperir tair gorsaf newydd â staff dydd.
- **Model 3:** Mae'n sicrhau bod isafswm y nifer sy'n teithio ar wyth peiriant llawn-amser yn cyd-fynd ag isafswm y nifer sy'n teithio ar y System Ddyletswydd Ar Alwad (RDS), diffoddwyr tân WDSR ac ail beiriant llawn-amser Wrecsam h.y. criw o bedwar diffoddwr tân ar beiriannau. Gan ddefnyddio'r staff sy'n cael eu rhyddhau yn sgil y newid hwn, diffoddwyr tân y System Ddyletswydd Amser Cyflawn Wledig ac 11% o gydnerthedd criwio'r Gwasanaeth, darperir tair gorsaf newydd â staff dydd.

** Mae angen cydnerthedd criwio i gwmpasu absenoldebau tymor hir, swyddi gwag oherwydd ymddeoliadau rhwng ymgyrchoedd recriwtio ac i gwmpasu dyrchafiadau dros dro a secondiadau.*

16 Yn ei gyfarfod ar 20 Mai 2024, gofynnodd Gweithgor Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys yr Awdurdod Tân i Swyddogion adolygu'r modelau ymchwil a darparu argymhellion yn ei gyfarfod ar 12 Mehefin 2024.

17 Yn dilyn rhagor o ddadansoddi a gwerthuso, rhoddodd y Swyddogion gyflwyniad i Aelodau Gweithgor Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys yr Awdurdod Tân ar 12 Mehefin 2024, a nodwyd bod modelau ymchwil dau a thri yn cynnig modelau ymateb brys posibl, ymarferol sy'n bodloni nodau a meini prawf gwerthuso'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys. Nodwyd bod model ymchwil un yn creu gormod o risg i'r Gwasanaeth o ran cydnerthedd ymateb effeithiol a bod y gwelliant yr oedd yn ei gynnig o ran y ddarpariaeth frys yn gyfyngedig.

18 Argymhellodd y swyddogion i Weithgor Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys yr Awdurdod Tân ar 12 Mehefin 2024 y dylid datblygu modelau ymchwil dau a thri Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad ymhellach mewn partneriaeth gymdeithasol â staff a'r cyrff cynrychioliadol. Cymeradwywyd hyn gan Aelodau Gweithgor Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys yr Awdurdod Tân i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod ar 15 Gorffennaf 2024.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Rhaid i ganlyniadau'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys fodloni rhwymedigaethau'r Awdurdod o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| Cyllideb | Mae goblygiadau cyllidebol yr ymgynghori wedi cael eu cyhoeddi. Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys wedi bod yn adolygu opsiynau darpariaeth frys sydd o fewn y gyllideb bresennol. |
| Cyfreithiol | Mae ein deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ymgynghori â'r cyhoedd ar newidiadau i'n darpariaeth frys. Mae ymgynghoriad yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys a'r arferion gorau y mae'r Gwasanaeth yn eu dilyn, fel yr argymhellwyd gan y Sefydliad Ymgynghori, yn cefnogi'r Awdurdod i fodloni'r gofynion hyn. |
| Staffio | Mae'r Gwasanaeth wedi cynnal ymgynghoriad uniongyrchol helaeth gyda staff a'u cyrff cynrychioliadol yn ystod y cam cyn-ymgynghori ac fe barhaodd hyn yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus llawn. Fodd bynnag, wrth benderfynu ar yr opsiynau i'w cyflwyno, bydd y newidiadau arfaethedig o fewn yr opsiynau yn effeithio ar staff. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Mae Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gwasanaeth wedi ymgysylltu â grwpiau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant drwy gydol yr ymgynghoriad. Mae'r arfer gorau y mae'r Gwasanaeth yn ei ddilyn a sicrwydd ansawdd yr ymgynghoriad gan y Sefydliad Ymgynghori yn sicrhau pwyslais ar ofynion yr Awdurdod yn y maes hwn. |
| Risgiau | Mae'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, ei ymgynghoriad a gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn lleihau'r risgiau o beidio â gallu ymateb i argyfyngau yn effeithiol ac yn effeithlon yng nghymunedau Gogledd Cymru. |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **15 Gorffennaf 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Justin Evans, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Tim Christensen, Rheolwr yr Amgylchedd a Newid yn yr Hinsawdd** |
| Pwnc | **Cynllun Datgarboneiddio'r Fflyd** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Amlinella'r adroddiad hwn fanylion ein Cynllun Datgarboneiddio'r Fflyd (y Cynllun), sy'n darparu mesurau manwl ac amserlenni i liniaru'r allyriadau carbon sy'n deillio o'n fflyd o gerbydau am y cyfnod hyd at 2030.

## ARGYMHELLIAD

2 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) cymeradwyo Cynllun Datgarboneiddio'r Fflyd.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

3 O dan gyfraith Cymru, mae'n ofynnol i ni liniaru ein hôl troed carbon gweithredol erbyn 2030. Mae'r Cynllun hwn yn mynd i'r afael â'r allyriadau o'n fflyd o gerbydau, gyda chynllun manwl i ddileu'r allyriadau hyn fel sy'n ofynnol o dan ein Strategaeth Amgylcheddol.

4 Y mesur mwyaf nodedig o fewn y Cynllun yw cynnig i ddefnyddio biodanwydd cynaliadwy, Olew Llysiau Hydrodrin (HVO), yn hytrach na disel. Yn dilyn treial llwyddiannus, rydym bellach yn lleoli tanc storio a dosbarthwr fel cynllun peilot yng Ngorsaf Dân Glannau Dyfrdwy, gyda deunaw safle arall sydd wedi'u nodi i ddilyn.

5 Mae'r cynllun hefyd yn cynnig newidiadau i gaffael ceir a faniau, yn ogystal â phatrymau teithio staff.

## CEFNDIR

6 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ddeddfu cyfres o gyllidebau carbon, gan nodi llwybr i Gymru fel cenedl garbon-niwtral erbyn 2050. O dan Gyllideb Garbon 2, mae'n ofynnol i sector cyhoeddus Cymru fod wedi cyrraedd y nod hwn erbyn 2030.

7 Er mwyn cydymffurfio â'r uchelgais hwn, mabwysiadodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) Strategaeth Amgylcheddol ar 17 Gorffennaf 2023 yn cwmpasu'r cyfnod 2023-2030. Ymhlith targedau eraill, roedd y strategaeth hon yn gorfodi datblygu Cynllun Datgarboneiddio'r Fflyd, gan nodi sut y byddem yn lliniaru allyriadau carbon Cwmpas 1 (uniongyrchol) sy'n deillio o'n fflyd. Yn y Flwyddyn Ariannol 2022/23, roedd y rhain yn gyfanswm o 706 tunnell o CO2.

8 Cafodd Gweithgor Aelodau ei gynnull rhwng Ebrill a Gorffennaf 2023 i roi gwybodaeth berthnasol i'r Aelodau ac i bennu cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu cynlluniau datgarboneiddio manwl. Cymeradwyodd y grŵp hwn y strategaeth datgarboneiddio'r fflyd a nodir yn yr adroddiad hwn.

**GWYBODAETH**

9 Ac ystyried hirhoedledd peiriant tân nodweddiadol, a diffyg dewis amgen carbon isel sy'n fasnachol hyfyw, rydym yn cynnig trosglwyddo pob cerbyd disel a weithredir gan y Gwasanaeth i redeg ar HVO. Mae HVO yn ddewis amgen uniongyrchol ar gyfer disel, heb fod angen unrhyw addasiadau mecanyddol i'n cerbydau ar ei gyfer, a gellir ei gymysgu â disel mewn unrhyw gyfran, gan ganiatáu ar gyfer cadernid eithriadol o ran y gadwyn gyflenwi.

10 Rydym wedi gosod meini prawf yn y Cynllun i sicrhau y bydd yr holl HVO a ddefnyddir yn deillio o ffynonellau gwirioneddol gynaliadwy er mwyn lleihau effeithiau amgylcheddol ehangach.

11 Cynhaliwyd treial gweithredol o HVO rhwng mis Mehefin a mis Gorffennaf 2023 gan yr adrannau Hyfforddiant a Fflyd. Ni chodwyd unrhyw bryderon a gwelwyd nad oedd unrhyw wahaniaeth rhwng HVO a disel o ran perfformiad.

12 Dewiswyd 19 o orsafoedd fel safleoedd tanciau HVO ac offer dosbarthu. Pennwyd y bydd y rhain yn storio tua thri mis o gyflenwad ar gyfer y gorsafoedd hyn a'r rhai o'u cwmpas. Dewiswyd Glannau Dyfrdwy fel lleoliad peilot, a bwriedir gosod tanc yno yn ystod yr wythnosau nesaf. Mae cost y prosiect hwn a'r gosodiadau sy'n weddill wedi'i chynnwys yng nghyllideb gyfalaf 2024/25.

13 Mae mesurau eraill o fewn Cynllun Datgarboneiddio'r Fflyd yn cynnwys:

**A.** Cydymffurfio â therfyn amser Llywodraeth Cymru i gaffael (neu ddechrau proses archebu ar gyfer cyflenwi cerbyd prydles) cerbydau allyriadau sero yn unig (a lle nad yw cylch dyletswydd yn caniatáu ar gyfer cerbyd allyriadau sero, cerbyd ag allyriadau isel iawn) o ddechrau blwyddyn galendr 2025. Gall hyn gynnwys defnyddio peiriannau disel lle maent yn cael eu rhedeg yn gyfan gwbl ar HVO;

B. Rhagwelir y bydd rhai offer neu beiriannau gweddilliol yn golygu bod angen defnyddio petrol y tu hwnt i 2030, er enghraifft injanau cychod ac offer torri Holmatro. Lle y bo'n bosibl, bydd y rhain yn cael eu cyfnewid am ddewisiadau amgen di-garbon o fewn cyfnod y Strategaeth Amgylcheddol; ac

C. Amrywiaeth o fesurau i hyrwyddo teithio cynaliadwy a llesol.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r Cynllun arfaethedig yn cyd-fynd ag Amcanion Llesiant datganedig yr Awdurdod. |
| Cyllideb | • Costau cyfalaf tanciau storio HVO ac offer dosbarthu eisoes wedi'u cynnwys yng nghyllideb 2024/25;<br>• Mae cost refeniw HVO oddeutu 20% yn uwch na disel, ond gellir ei phennu hyd at flwyddyn ymlaen llaw; a<br>• Chost gyfalaf gynyddol ceir a faniau wrth inni drosglwyddo oddi wrth beiriannau tanio mewnol |
| Cyfreithiol | Risg o beidio â chydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. |
| Staffio | Ni ragwelir unrhyw newidiadau i lefelau staffio o ganlyniad i'r Cynllun hwn |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ymgynghorwyd â'r Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant trwy gydol cyfnod datblygu'r Cynllun hwn, ni chodwyd unrhyw faterion. |
| Risgiau | • Risgiau cyllidebol yn sgil anwadalrwydd pris HVO yn y dyfodol; ac<br>• Mae angen caniatâd cynllunio ar gyfer gosod tanciau, risg o wrthod. |

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Strategaeth Amgylcheddol 2023 – 2030

# Cynllun Datgarboneiddio'r Fflyd

Mai 2024

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is also available in English

**Awdur(on):**
Tim Christensen
Rheolwr yr Amgylchedd a Newid yn yr Hinsawdd

Paratowyd gan:
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0JJ

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

**Cynnwys**

*Tudalen*

1.0 Cyflwyniad ....................1
2.0 Caffael y Fflyd ....................2
2.1 Cefndir ....................2
2.2 Fflyd Goch ....................2
2.3 Fflyd Wen ....................2
3.0 Datgarboneiddio Tanwydd ....................3
3.1 Olew Llysiau Hydrodrin (HVO) ....................3
3.2 Petroliwm Di-blwm ....................3
3.3 Tanwyddau Amgen ....................3
4.0 Teithiau Staff ....................4
4.1 Cefndir ....................4
4.2 Amcan ....................4
4.3 Strategaethau a Mentrau ....................4

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.0.1 Mae Adran 10.2.1 o Strategaeth Amgylcheddol yr Awdurdod (2023 -2030) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod baratoi Cynllun Datgarboneiddio'r Fflyd sy'n nodi sut mae'n bwriadu dileu allyriadau Cwmpas 1 sy'n deillio o gludiant. Yn unol â hynny, paratowyd y Cynllun hwn yn dilyn cyfnod o ymgynghori â'r cyhoedd ac Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

1.0.2 Mae ein fflyd yn chwarae rhan hanfodol wrth ymateb i argyfyngau a chadw ein cymunedau'n ddiogel. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig ein bod yn ystyried effaith amgylcheddol ein gweithrediadau fflyd. Rydym wedi ymrwymo i leihau allyriadau ac ôl troed amgylcheddol ein fflyd, yn ogystal â hyrwyddo cludiant cynaliadwy yn ein Gwasanaeth. Fel y cadarnhawyd yn ein Strategaeth Amgylcheddol, ein nod yw arwain drwy esiampl a dangos ei bod yn bosibl cael cydbwysedd rhwng diogelwch a chyfrifoldeb amgylcheddol yn ein gweithrediadau.

1.0.3 Mae modd disgrifio ein fflyd gan ddefnyddio tri chategori gwahanol. Mae'r fflyd goch yn cynnwys cerbydau gweithredol ac ymateb. Mae'r fflyd wen yn geir a faniau wedi'u darparu gan y Gwasanaeth, ac mae'r fflyd lwyd yn cynnwys cerbydau sy'n eiddo i weithwyr a ddefnyddir ar fusnes swyddogol.

1.0.4 Mae'r fflyd goch yn cynnwys cymysgedd o beiriannau tân a cherbydau 'arbennig' - fel cerbydau ar gyfer pob math o dirwedd (ATV) a chludwyr ewyn; mae gennym hefyd beiriannau ag ysgol ac esgynlawr, offer pŵer cludadwy, offer codi a winsio ac offer arbenigol eraill i'n galluogi i ymateb i lawer o wahanol fathau o ddigwyddiadau, ynghyd ag uned rheoli digwyddiadau bwrpasol.

1.0.5 Roedd allyriadau carbon Cwmpas 1 oedd yn deillio o'n gweithrediadau fflyd ym mlwyddyn ariannol 2021/22 bron gyfwerth â 614 tunnell o $CO_2$; sy'n ddigon i lenwi 307,000 o offer diffodd tân $CO_2$.

## 2.0 CAFFAEL Y FFLYD

### 2.1 Cefndir

2.1.1 Mae caffael yn chwarae rhan hanfodol wrth drosglwyddo i fflyd wyrddach. Drwy fabwysiadu cerbydau ac offer i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, lleihau llygredd aer, a defnyddio ffynonellau ynni glanach, gall gwasanaethau tân ac achub nid yn unig gyfrannu at amgylchedd iachach a mwy cynaliadwy ond hefyd ddangos arweiniad wrth geisio dyfodol carbon isel.

2.1.2 Yn yr adran hon, byddwn yn amlinellu'r amcanion, y strategaethau a'r ystyriaethau allweddol ar gyfer y broses o gaffael y fflyd. Byddwn yn archwilio'r technolegau amrywiol a'r opsiynau tanwydd amgen sydd ar gael i sicrhau bod esblygiad ein fflyd yn cyd-fynd â'n hymrwymiadau datgarboneiddio.

2.1.3 Yn y pen draw, trwy alinio ein harferion caffael fflyd â'n hamcanion amgylcheddol ehangach, gall yr Awdurdod osod safon ar gyfer cynaliadwyedd a chyfrannu at yr ymdrechion cenedlaethol a byd-eang ehangach i frwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd, gan sicrhau diogelwch a lles ein cymunedau am genedlaethau i ddod.

### 2.2 Fflyd Goch

2.2.1 Mae gan beiriant tân gweithredol yn fflyd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru oes sy'n hwy na 15 mlynedd o ran defnydd. Ar gyfer peiriannau arbennig nad ydynt yn cael eu defnyddio'n aml, gall hyn fod yn llawer hirach. Mae cerbydau fflyd goch yn cael eu hamnewid ar sail dreigl o flwyddyn i flwyddyn, gyda pheiriannau sydd ar ddiwedd eu hoes fel arfer yn cael eu rhoi i Fire Aid.

2.2.2 Er bod peiriannau tân trydan ar gael, mae'r Awdurdod yn credu, ar hyn o bryd, bod y gost gyfalaf sylweddol sy'n ofynnol ar gyfer pob un ohonynt yn cynnig adenillion gwael o ran punnoedd sy'n cael eu gwario fesul $tCO_2e$ o allyriadau sy'n cael eu lliniaru, a byddai'r gost o ddisodli'r fflyd weithredol bresennol yn ormodol. Fodd bynnag, wrth i'r farchnad a thechnoleg esblygu yn y maes hwn, bydd defnydd o LGVau trydan yn parhau i gael ei adolygu.

2.2.3 Er mwyn bodloni'r gofyniad i ddileu allyriadau Cwmpas 1 sy'n deillio o'r rhan hon o'n fflyd, bydd yr Awdurdod yn parhau i brynu LGVau ag injanau disel, a bydd yn ceisio defnyddio tanwydd Olew Llysiau Hydrodrin (HVO) o ffynonellau cynaliadwy ar eu cyfer lle bo hynny'n bosibl (gweler Adran 3.1).

2.2.4 Mae'r arfer hwn yn fesur â therfyn amser dros gyfnod y Strategaeth Amgylcheddol, i ganiatáu consensws technolegol i ddatblygu ynghylch tanwydd LGVau, a fydd ar gael i'r farchnad dorfol gyda darbodion maint priodol a seilwaith ategol digon cadarn.

### 2.3 Fflyd Wen

2.3.1 Mae Cyllideb Garbon 2 (CB2) Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru brynu dim ond ceir a faniau allyriadau sero neu isel iawn erbyn 2025.

2.3.2 Byddwn yn cydymffurfio â'r terfyn amser hwn ac yn archebu (neu'n dechrau proses archebu ar gyfer cyflenwi cerbyd prydles) cerbydau allyriadau sero yn unig (a lle nad yw cylch dyletswydd yn caniatáu ar gyfer cerbyd allyriadau sero, cerbyd ag allyriadau isel iawn) o ddechrau blwyddyn galendr 2025. Gallai hyn gynnwys defnyddio injanau disel lle maent yn rhedeg yn gyfan gwbl ar Olew Llysiau Hydrodrin (gweler Adran 3.0).

2.3.3 Bydd unrhyw gerbydau tanwydd hydrocarbon gweddilliol sy'n dal i weithredu bryd hynny yn parhau i gael eu gweithredu tan ddiwedd blwyddyn galendr 2029, ac erbyn hynny byddwn yn rhoi'r gorau i'w defnyddio, oni bai y gellir eu rhedeg yn ddiogel ar danwydd amgen heb unrhyw allyriadau carbon Cwmpas 1.

## 3.0 DATGARBONEIDDIO TANWYDD

### 3.1 Olew Llysiau Hydrodrin (HVO)

3.1.1 Bydd yr Awdurdod yn trosglwyddo'r fflyd ddisel bresennol i HVO erbyn diwedd blwyddyn galendr 2029, ac eithrio unrhyw gerbydau gweddilliol nad ydynt yn gallu cynnal hynny'n fecanyddol (y rhai a weithgynhyrchwyd cyn cyflwyno safonau technegol Ewro 6 neu'r rhai nad ydynt wedi'u hardystio fel arall yn addas gan y gwneuthurwr).

3.1.2 Darperir y tanwydd hwn o danciau dosbarthu sydd wedi'u lleoli mewn safleoedd GTAGC dethol. Bydd stoc sydd â chynhwysedd uchaf o tua thri mis o ddefnydd yn cael ei chadw er mwyn sicrhau cadernid y cyflenwad ar gyfer cerbydau ymateb.

3.1.3 Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oes consensws ynghylch ardystio tarddiad y biomas a ddefnyddir i greu HVO. Fodd bynnag, yn ystod y broses gaffael, bydd yr Awdurdod yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau na ddefnyddiwyd unrhyw olew palmwydd, a bod yr holl HVO a brynir yn deillio yn gyfan gwbl o fiomas gwastraff, gan greu dim ychwanegedd defnydd tir. Gellir dibynnu ar unrhyw gynllun ardystio tarddiad y mae staff caffael yr Awdurdod yn credu'n rhesymol ei fod yn gredadwy at y diben hwn.

### 3.2 Petroliwm Di-blwm

3.2.1 Mae mwyafrif y defnydd presennol o betrol yn deillio o'r fflyd wen, ac felly bydd yn cael ei leihau'n sylweddol o dan y polisi caffael a amlinellir yn Adran 2.3.

3.2.2 Rhagwelir y bydd rhai offer neu beiriannau gweddilliol yn golygu bod angen defnyddio petrol y tu hwnt i 2030, er enghraifft injanau cychod ac offer torri Holmatro. Lle y bo'n bosibl, bydd y rhain yn cael eu disodli gan ddewisiadau amgen di-garbon o fewn cyfnod y Strategaeth Amgylcheddol.

3.2.3 Nid oes unrhyw eilydd sydd ar gael yn fasnachol yn lle petrol ar gael ar adeg ysgrifennu, fodd bynnag, bydd hyn yn parhau i gael ei adolygu a bydd unrhyw gynnyrch yn y dyfodol sydd â chadwyn gyflenwi gadarn a chost resymol yn cael ei ystyried fel modd i liniaru allyriadau carbon sy'n deillio o ddefnydd petrol.

### 3.3 Tanwyddau Amgen

3.3.1 Ni fydd y mesurau datgarboneiddio a nodir yn y Cynllun hwn yn rhagfarnu ystyried neu ddefnyddio unrhyw ffynonellau tanwydd newydd neu amgen a allai fod ar gael. Yr egwyddor sy'n sail i'r Cynllun hwn yw lleihau allyriadau carbon yn y modd mwyaf cynaliadwy posibl, o fewn y cyfyngiadau ariannol a gweithredol ar y Gwasanaeth.

# 4.0 TEITHIAU STAFF

## 4.1 Cefndir

4.1.1 Yn ogystal â chaffael y fflyd, mae teithio gan y staff yn agwedd hanfodol ar y strategaeth ddatgarboneiddio gyffredinol ar gyfer yr Awdurdod Tân ac Achub. Gan gydnabod pwysigrwydd lleihau allyriadau carbon yn sgil gweithwyr yn cymudo a theithio sy'n gysylltiedig â gwaith, bydd yr adran hon o'r Cynllun yn canolbwyntio ar weithredu arferion a mentrau cynaliadwy i leihau cymaint â phosibl ar yr effaith amgylcheddol sy'n gysylltiedig â staff yn teithio.

## 4.2 Amcan

4.2.1 Prif amcan mynd i'r afael â theithio gan staff o fewn y Cynllun hwn yw hyrwyddo a hwyluso opsiynau cymudo a chludiant sy'n gysylltiedig â gwaith sy'n gynaliadwy ar gyfer personél y Gwasanaeth Tân ac Achub. Trwy leihau'r ddibyniaeth ar gerbydau confensiynol ac annog dulliau cludiant amgen, ein nod yw lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn sylweddol a chyfrannu at y targedau cenedlaethol ar gyfer lleihau carbon.

## 4.3 Strategaethau a Mentrau

4.3.1 Annog Cymudo Llesol a Chynaliadwy:
- Hyrwyddo a chymell cerdded a beicio i'r gwaith trwy ddarparu cyfleusterau fel raciau beiciau, ystafelloedd newid, a chawodydd lle bo hynny'n bosibl.
- Trefnu ymgyrchoedd a digwyddiadau ymwybyddiaeth i addysgu staff am fanteision cymudo llesol a darparu arweiniad ar gynllunio llwybrau.
- Ystyried lleoliadau cartrefi staff wrth benderfynu ar fannau gwaith.

4.3.2 Cefnogi Cludiant Cyhoeddus:
- Annog defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer cymudo trwy ddarparu gwybodaeth am lwybrau bysiau a threnau, amserlenni a chymorthdaliadau.
- Archwilio partneriaethau gyda darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus i sicrhau prisiau gostyngol neu docynnau arbennig i weithwyr y Gwasanaeth Tân ac Achub.
- Parhau i hyrwyddo trefniadau gweithio hyblyg ar gyfer staff swyddfa, fel wythnosau gwaith cywasgedig neu weithio hybrid, i leihau'r angen am gymudo dyddiol.

4.3.3 Cyflwyno Fflyd Werdd ar gyfer Teithio sy'n Gysylltiedig â Gwaith:
- Blaenoriaethu'r defnydd o gerbydau allyriadau isel ar gyfer teithio sy'n gysylltiedig â gwaith, fel archwiliadau, cyfarfodydd a hyfforddiant.
- Hyrwyddo mentrau rhannu ceir a rhannu reidiau i wneud y gorau o'r nifer ym mhob cerbyd a lleihau nifer y cerbydau unigol ar y ffordd.
- Cefnogi defnydd staff o gerbydau trydan personol lle bo hynny'n bosibl drwy ystyried caniatáu defnyddio cyfleusterau gwefru am gost.

4.3.4 Addysg ac Ymwybyddiaeth:
- Cynnal rhaglenni hyfforddi ac ymwybyddiaeth i addysgu staff am bwysigrwydd arferion teithio cynaliadwy, lleihau ôl troed carbon, a manteision opsiynau cludiant amgen.
- Darparu adnoddau a gwybodaeth i gefnogi gweithwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am gymudo cynaliadwy a theithio cysylltiedig â gwaith.
- Hyrwyddo Diwrnodau Gweithredu cenedlaethol neu ymgyrchoedd tebyg i godi ymwybyddiaeth o gynaliadwyedd ac effaith amgylcheddol ymhlith staff.

*This document is available in English* **Eitem Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **15 Gorffennaf 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Matthew Powell, Dirprwy Glerc** |
| Swyddog Cyswllt | [Matthew.powell@flintshire.gov.uk](mailto:Matthew.powell@flintshire.gov.uk) |
| Pwnc | **Protocol ar Gysylltiadau Aelodau/Cyflogeion** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Adolygu'r Protocol ar Gysylltiadau Aelodau/Cyflogeion (y Protocol) i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn berthnasol.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Adolygwyd y Protocol ddiwethaf yn 2018 ac fe'i hystyriwyd yn ddiweddar gan y Pwyllgor Safonau (y Pwyllgor) yn eu cyfarfodydd ar 14 Chwefror 2024 a 5 Ebrill 2024. Mae'r Pwyllgor o'r farn ei fod yn parhau i fod yn berthnasol ond mae wedi argymell ei fod yn cael ei ddiwygio i fod yn berthnasol i bob categori o weithwyr waeth beth fo'u statws cyflogaeth cyfreithiol yn ogystal â mân ddiwygiadau i baragraffau 2.2 a 2.14.

## ARGYMHELLION

3 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) cytuno y dylid mabwysiadu'r Protocol diwygiedig fel rhan o'r Cyfansoddiad.

## ARSYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

4 Nid yw'r adroddiad hwn wedi'i ystyried o'r blaen gan Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

## CEFNDIR

5 Mae'r Pwyllgor yn adolygu pob cod a phrotocol unwaith fesul tymor yr awdurdod i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn berthnasol. Cafodd y Protocol ei adolygu ddiwethaf yn 2018.

6 Bwriad y Protocol yw darlunio ac atgyfnerthu egwyddorion sylfaenol y codau rheoleiddiol cyfreithiol-rwym sy'n berthnasol i Gyflogeion ac Aelodau. Fodd bynnag, yn y bôn mae'n ymwneud â ffyrdd da o weithio a safonau cyfathrebu rhwng Aelodau a'r rhai sy'n gweithio i'r Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth).

7 Cyn 2018, roedd y Protocol yn cyfeirio at swyddogion. Bryd hynny, gwnaed newidiadau sy'n golygu ei fod bellach yn cyfeirio at gyflogeion. Mae gan “gyflogai” ystyr benodol yn y gyfraith, hynny yw, rhywun sy'n cael ei gyflogi o dan gontract cyflogaeth.

8 Ymgynghorwyd ag uwch reolwyr o fewn y Gwasanaeth a dywedwyd wrth y Pwyllgor nad adroddwyd ynghylch unrhyw broblemau o ran defnyddio’r Protocol.

9 Roedd y Pwyllgor o'r farn bod y Protocol yn parhau i fod yn berthnasol, ond bod egwyddorion craidd y Protocol yr un mor berthnasol beth bynnag yw statws cyfreithiol cyflogaeth person ac ni waeth a ydynt yn ddarostyngedig i godau rheoleiddiol ai peidio. Felly, dylid ehangu'r Protocol i gwmpasu categorïau posibl eraill o weithwyr cyflogedig fel ei fod yn parhau i fod yn gyfredol.

10 Ystyrir bod gan y gair "Staff" ystyr ddigon eang ac fe'i defnyddir trwy gydol y Protocol diwygiedig yn hytrach na chyflogai. Amlinellir diffiniad ym mharagraff 1.2 o'r Protocol. Mae'n cwmpasu unrhyw un a gyflogir neu y sicrheir eu gwasanaeth i'r Gwasanaeth ar sail tâl (waeth beth fo'u statws cyflogaeth) i gynghori’r Gwasanaeth a gweithredu ei benderfyniadau. Mae'n cwmpasu staff sy'n ymwneud yn rheolaidd ag Aelodau.

11 Mae paragraff 2.2 wedi'i ddiwygio i egluro bod darpariaethau'r paragraff hwnnw yn berthnasol i swyddi â chyfyngiadau gwleidyddol, yn hytrach na chyfeirio at Uwch Gyflogeion yn unig. Ychwanegwyd y geiriau “yn bersonol” at baragraff 2.14 er eglurder.

12 Ystyrir mai mân newid yw ehangu'r cwmpas i gynnwys categorïau eraill o statws cyflogaeth, ac nad yw’n newid a fyddai'n debygol o olygu bod angen ymgynghori â chynrychiolwyr cyflogeion (gan nad yw'n newid cwmpas y protocol i'r graddau ei fod yn berthnasol i gyflogeion).

**GWYBODAETH**

13 Ymgynghorwyd ag uwch reolwyr yn y Gwasanaeth ar y diwygiadau i'r Protocol.

**ATODIADAU**

14 Protocol drafft diwygiedig.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ystyrir nad yw'n berthnasol |
| Cyllideb ar gyfer 2023/24 | Ystyrir nad yw'n berthnasol |
| Cyfreithiol | Rôl y Pwyllgor o dan adran 54 Deddf Llywodraeth Leol 2000 yw:<br>(a) hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau ac aelodau cyfetholedig yr Awdurdod; a<br>(b) chynorthwyo aelodau ac aelodau cyfetholedig yr awdurdod i gadw at god ymddygiad yr awdurdod |
| Staffio | Nid oes unrhyw oblygiadau wedi'u nodi |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Nid ystyrir bod unrhyw faterion y mae angen mynd i'r afael â hwy gan fod y canllawiau o fewn y Protocol yn berthnasol yn gyfartal i bob Cyflogai / Aelod, beth bynnag fo'u nodweddion gwarchodedig |
| Risgiau | Nid oes rhai wedi'u nodi |

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

## PROTOCOL AR GYFER CYSYLLTIADAU AELODAU/STAFF

### Protocol Aelodau/Staff

Mae'r protocol hwn yn codeiddio’r arfer da presennol mewn cysylltiadau rhwng aelodau a staff yn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Nid yw wedi'i fwriadu fel rhestr o gyfarwyddiadau gorfodol.

### 1. Cyflwyniad

1.1 Mae perthynas waith effeithiol rhwng aelodau a staff yn hanfodol ar gyfer gweithredu busnes yr Awdurdod yn llwyddiannus.

1.2 Mae **aelodau** yn cael eu penodi gan eu cyngor (bwrdeistref) sirol priodol ac yn gwasanaethu hyd nes y bydd eu penodiad yn cael ei derfynu, eu bod yn ymddiswyddo neu eu bod yn peidio â bod yn aelod o'u cyngor. **Staff** yw pobl a gyflogir neu sy’n gwneud gwaith i'r Awdurdod ar sail tâl (waeth beth fo'u statws cyflogaeth) i gynghori’r Awdurdod a gweithredu ei benderfyniadau.

1.3 Rhaid i gyngor a roddir gan staff fod yn gyflawn ac yn ddiduedd a dylai gynnwys yr holl opsiynau perthnasol. Rhaid iddo beidio â cheisio dyfalu penderfyniadau aelodau o flaen llaw, er enghraifft trwy eithrio opsiynau annymunol tybiedig, a rhaid iddo fod yn glir ac yn broffesiynol bob amser. Dylai’r aelodau barchu niwtraliaeth wleidyddol y staff bob amser, fodd bynnag, mae gan yr aelodau hawl i wrthod cyngor gan staff ac i weithredu eu polisïau cyfreithlon hyd yn oed os yw'r rhain yn amlwg yn wahanol i farn y staff. Mae gan aelodau hawl i ofyn am gyngor ac i alw am adroddiad i bwyllgor ar unrhyw fater o fewn ei gylch gorchwyl.

1.4 **Cysylltiadau rhwng aelodau a staff** – Er mwyn cynnal busnes yr Awdurdod yn effeithiol rhaid i aelodau a staff ddangos parch at ei gilydd ym mhob cyfarfod a chyswllt rhyngddynt. Rhaid dilyn egwyddorion sylfaenol cwrteisi cyffredin mewn lleoliadau ffurfiol ac anffurfiol. Dylai aelodau fod yn ymwybodol bod staff wedi eu cyfyngu yn yr ymateb y gallant ei roi i sylwadau cyhoeddus gan aelodau, ac ni ddylent gam-drin staff yn gyhoeddus na thrwy'r wasg, na cheisio tanseilio eu safbwynt trwy gamdriniaeth, haerllugrwydd na gwawd. Nid yw hyn mewn unrhyw ffordd yn lleihau hawl a dyletswydd briodol yr aelodau i feirniadu gweithredoedd, adroddiadau a gwaith adran neu ran o'r Awdurdod, lle maent yn credu bod beirniadaeth o'r fath yn deilwng. Os yw aelodau'n credu bod ganddynt reswm i feirniadu gwaith aelod unigol o staff, y dull priodol o wneud hynny fyddai drwy uwch reolwr yr adran neu'r Prif Swyddog Tân. Yn yr un modd, lle mae’r staff yn teimlo bod ganddynt achos da i feirniadu aelod, byddai i’r Prif Swyddog Tân gysylltu â'r Cadeirydd yn gam cyntaf synhwyrol.

1.5 Derbynnir y bydd cyswllt anffurfiol yn digwydd rhwng grwpiau o bleidiau gwleidyddol a staff ar lefel uwch, ac y bydd hyn yn aml o natur sensitif. Mae'r protocol hwn wedi'i gynllunio i ddarparu fframwaith ar gyfer cyswllt rhwng aelodau a staff, boed yn ffurfiol neu anffurfiol, ac i sicrhau bod aelodau a staff mor glir ag y gallant fod ynglŷn â’u rôl a'u cyfrifoldeb mewn perthynas â'i gilydd.

## 2. Materion Penodol

2.1 **Penodiadau** - Rhaid i bob penodiad cyflogedig i'r Awdurdod fod ar sail teilyngdod.

2.2 **Didueddrwydd Gwleidyddol** - Ni all staff sydd â swyddi â chyfyngiadau gwleidyddol fod yn gynghorwyr awdurdod lleol nac yn Aelodau o Senedd Cymru/Aelodau Seneddol, ac ni allant “adrodd neu gyhoeddi gwaith ysgrifenedig i'r cyhoedd yn gyffredinol neu i ran o'r cyhoedd gyda'r bwriad ymddangosiadol o effeithio ar gefnogaeth y cyhoedd i blaid wleidyddol”. Serch hynny, gall staff o'r fath gymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath “i'r graddau sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni eu dyletswyddau yn briodol”. (Adran 1 - 3 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a Rheoliadau Gweithwyr Llywodraeth Leol (Cyfyngiadau Gwleidyddol) 1990).

2.3 **Mae staff yn cael eu cyflogi neu’n cael cais i weithio gan yr Awdurdod,** nid gan bwyllgorau na chynghorwyr unigol, ac maent yn ddarostyngedig i weithdrefnau cyflogaeth yr Awdurdod. Ni ellir ei gwneud yn ofynnol i staff gynghori unrhyw grŵp gwleidyddol yn yr Awdurdod, naill ai o ran gwaith y grŵp nac o ran gwaith yr Awdurdod, ac ni all fod yn ofynnol iddynt fynychu unrhyw gyfarfodydd a gynhelir gan unrhyw grwpiau gwleidyddol. Mae hyn heb leihau effaith unrhyw drefniadau i'r gwrthwyneb y gellir eu gwneud gydag unrhyw staff sy'n cynnwys mesurau diogelu i warchod niwtraliaeth wleidyddol y staff mewn perthynas â materion yr Awdurdod.

2.4 **Awduraeth adroddiadau** - Dylai adroddiadau pwyllgorau gael eu hysgrifennu gan y Prif Swyddog perthnasol neu aelod arall o staff sydd wedi'i awdurdodi ganddo ef neu ganddi hi. Mae’r adroddiad yn dod gan yr aelod o staff â'i ysgrifennodd ac ni chaiff aelod ei ddiwygio. Ni all aelod unigol ychwaith gyfarwyddo aelod o staff i beidio â chyflwyno adroddiad os yw'r aelod o staff o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny. Os nad yw'r adroddiad yn cael ei ystyried yn briodol, yr ateb yw i'r pwyllgor wrthod ei argymhellion neu ei gyfeirio yn ôl.

2.5 **Penderfyniadau a grwpiau gwleidyddol** – Rhaid i aelodau a staff ddeall mai dim ond yr Awdurdod, pwyllgor neu is-bwyllgor, neu'r Prif Swyddog Tân yn gweithredu o dan awdurdod dirprwyedig, all wneud penderfyniadau'r Awdurdod. Ni ddylai aelodau na staff weithredu yn sgil penderfyniadau grŵp. Dylid cyflwyno sylwadau gan grwpiau â diddordeb ar unrhyw fater sydd i’w benderfynu gan yr Awdurdod i'r pwyllgor priodol, ac nid i grŵp gwleidyddol yn unig, lle nad oes cyngor ar gael gan staff am y pwyntiau a godir.

2.6 **Cyfathrebu cywir rhwng aelodau a staff** - Rhaid i Brif Swyddogion ddeall ei bod yn ddyletswydd arnynt i hysbysu'r aelodau'n llawn am y datblygiadau arwyddocaol diweddaraf yng ngweithgareddau'r Awdurdod. Rhaid i Brif Swyddogion hefyd adrodd yn brydlon i'r pwyllgor perthnasol am unrhyw fethiant sylweddol i weithredu penderfyniad y pwyllgor hwnnw.

Mae angen cyswllt rheolaidd rhwng aelodau ac uwch staff er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod yn gweithio'n effeithlon. Yn y cyd-destun hwn, cyfrifoldeb y Prif Swyddogion yw nodi pa uwch staff a ddylai fod mewn cysylltiad rheolaidd ag aelodau, a bydd hyn yn dibynnu ar natur y gwasanaeth y maent yn ei ddarparu a natur y cyswllt a ragwelir gyda'r aelodau ond dylai'r aelodau bob amser ddod â phryderon mawr am faterion yn uniongyrchol i sylw'r Prif Swyddog perthnasol. Gall Prif Swyddogion roi cyfarwyddiadau i'w staff i sicrhau mai dyma sy'n digwydd.

Gall problemau difrifol godi os yw aelodau'n osgoi'r llinellau cyfathrebu priodol gyda Phrif Swyddogion a'u huwch gydweithwyr ac, er enghraifft, yn delio ag aelodau staff is i geisio eu barn am faterion polisi, busnes nad yw'n arferol, neu geisio rhoi cyfarwyddiadau i staff. Effaith hyn yw amddifadu'r aelodau o'r cyngor ffurfiol, gwybodus ac atebol y mae ganddynt hawl i'w ddisgwyl gan Brif Swyddogion ac y mae ganddynt ddyletswydd i'w hystyried. Gall hefyd danseilio atebolrwydd ffurfiol staff i'w rheolwr llinell.

2.7 **Cwrteisi a chwynion** – Dylai'r cyswllt rhwng aelodau a staff fod yn gwrtais bob amser yn gyhoeddus ac yn breifat. Os oes gan aelod unigol gŵyn am aelod is o staff, dylid ei chodi gyda'r Prif Swyddog priodol.

Os yw'r gŵyn yn ymwneud ag uwch aelod o staff, dylid ei chodi gyda'r Prif Swyddog Tân. Dylid codi cwyn am y Prif Swyddog Tân gyda Chlerc yr Awdurdod. Gellir ymdrin â chwyn fel rhan o drafodaeth, goruchwyliaeth neu adolygiad arferol, neu gellir ei chyfeirio at gamau ffurfiol yn unol â gweithdrefnau'r Awdurdod ac unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n llywodraethu camau disgyblu. Fodd bynnag, nid yw hyn yn atal aelod rhag sôn yn gyhoeddus, mewn cyfarfod neu mewn ffordd briodol arall, am eu pryder am y ffordd y mae'r Gwasanaeth wedi gweithredu. Nid yw ychwaith yn atal aelodau mewn cyfarfodydd ffurfiol rhag beirniadu cyngor neu weithred gan staff nac ansawdd yr adroddiadau sydd ger eu bron.

2.8 **Mae cyswllt cymdeithasol** rhwng uwch staff ac aelodau yn fuddiol mewn lleoliad cyhoeddus a chyd-destun sy'n gysylltiedig â'r gwaith. Fodd bynnag, rhaid cynnal perthynas broffesiynol bob amser a rhaid i staff fod yn ofalus i beidio â chymdeithasu ag aelodau o un grŵp gwleidyddol i'r graddau eu bod yn eithrio rhai eraill. Gall cyswllt cymdeithasol rhwng aelod a staff is hefyd fod yn briodol ar yr amod bod hyn yn digwydd yn agored ac nad yw'n arwain at dorri cyfrinachedd neu gyfarwyddiadau rheoli, neu bod amheuaeth resymol o hynny. Rhaid i staff bob amser gymryd gofal mewn sefyllfaoedd o'r fath rhag bod amheuon yn codi am eu didueddrwydd.

2.9 **Canfasio ac ymweliadau** – Dylai'r Aelodau fod yn ymwybodol y gall fod yn drosedd ddisgyblu i aelodau staff geisio osgoi'r drefn ymgynghori y cytunwyd arni ar gyfer staff er mwyn lobïo Aelodau ar faterion sy'n peri pryder uniongyrchol iddynt fel staff. Dylai'r Aelodau gofio hefyd na ddylid defnyddio cysylltiadau anffurfiol â staff i hyrwyddo eu diddordebau personol eu hunain.

Bydd aelodau yn aml yn dod i gysylltiad â staff is wrth ymweld â safleoedd y Gwasanaeth. Anogir ymweliadau o'r fath gan eu bod yn cynyddu dealltwriaeth aelodau o swyddogaethau'r Gwasanaeth, yn rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr y gwasanaeth bod eu cynrychiolwyr etholedig yn monitro gwasanaethau, a byddant yn aml yn cael eu croesawu gan staff hefyd. Fodd bynnag, dylid trefnu ymweliadau o'r fath trwy Wasanaethau'r Aelodau a dylid cynghori'r Prif Swyddogion perthnasol fel arfer cyn ymweliadau aelodau â gwasanaethau rheng flaen.

2.10 **Dylid osgoi cysylltiadau personol agos** rhwng aelodau a staff y mae ganddynt, neu y maent yn debygol o gael, cyswllt â hwy yn ystod eu dyletswyddau fel cynghorydd. Mae hyn yn cynnwys cyfeillgarwch agos rhwng aelodau a Phrif Swyddogion, ac mae'n arbennig o berthnasol i berthnasoedd rhywiol. Os bydd perthynas o'r fath yn codi, dylai'r aelod neu'r staff ddatgelu hyn i'r Prif Swyddog Tân a fydd yn ymgynghori â'r Cadeirydd ynghylch y camau gweithredu priodol. Dylai aelodau a staff hefyd osgoi sefydlu cysylltiadau busnes neu gytundebol â'i gilydd, neu ymrwymo i fenthyciadau neu rwymedigaethau ariannol eraill.

2.11 **Cymorth i bob aelod** - Mae dyletswydd ar staff i gynnig yr un cymorth a chyfleusterau i bob aelod. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i sesiynau briffio, lle mae staff yn darparu cyngor a gwybodaeth lafar i aelodau y tu allan i brosesau ffurfiol yr Awdurdod. Efallai y bydd yr aelodau perthnasol yn gofyn amdanynt neu y bydd y Prif Swyddog yn eu cynnig, ac maent yn gyfrinachol yn yr ystyr na ddylai staff ddatgelu materion a drafodwyd mewn sesiynau briffio o'r fath. Gall aelodau unigol hefyd ofyn am gyfarfodydd briffio gan Brif Swyddogion o bryd i'w gilydd ar faterion cyffredinol sy'n effeithio ar waith yr Awdurdod. Mae'n ddyletswydd ar staff i gydymffurfio â gofynion rhesymol o'r fath.

2.12 **Gohebiaeth a chyfrinachedd** – Yn aml, bydd aelodau a staff yn gohebu, ac os nad yw'n amlwg yn gyfrinachol, gall yr ohebiaeth, yn amodol ar y rheolau isod, gael ei chopïo, gan yr anfonwr neu'r derbynnydd, ar gyfer eraill. Dylai gohebiaeth fod yn gwrtais. Ni ddylid anfon gohebiaeth i gylch eang fel modd o roi cerydd cyhoeddus i staff neu aelodau'r Awdurdod. Dylai aelodau, lle bynnag y bo modd, roi'r wybodaeth ddiweddaraf i benaethiaid adrannau neu rannau o'r Awdurdod trwy eu cynnwys mewn gohebiaeth, negeseuon e-bost ac ati neu gysylltu â nhw'n uniongyrchol i gael atebion i ymholiadau cyffredinol.

Os bydd aelod yn gofyn am wybodaeth am aelod arall, neu sy'n ymwneud ag aelod arall, neu'n gofyn am sylw am ymddygiad aelod arall, rhaid i'r aelod sy'n gofyn am y wybodaeth gael gwybod yn ysgrifenedig y bydd unrhyw ateb yn cael ei rannu gyda'r aelod y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef neu hi. Os nad yw'r aelod sy'n gwneud y cais yn cytuno i hyn, ni fydd yn cael y wybodaeth.

2.13 **Mynediad at Wybodaeth** – Mae gan Aelodau hawliau cyfreithiol i gael mynediad at ddogfennau sydd ym meddiant neu o dan reolaeth yr Awdurdod a dylai staff weithredu ceisiadau am wybodaeth gan aelodau sydd angen y wybodaeth honno er mwyn cyflawni eu dyletswyddau fel aelod.

a) Fel arfer, bydd staff yn derbyn nad yw aelodau'n gofyn am wybodaeth heb reswm da ac ni fyddant yn cwestiynu pam fod yr aelod “angen gwybod” rhywbeth ond yng ngeiriau dyfarniadau cyfreithiol perthnasol, nid oes gan aelod unrhyw hawl i “gomisiwn cyfnewidiol” ac nid yw “chwilfrydedd neu awydd yn unig” yn ddigonol. Ni all yr aelod arfer yr hawl ychwaith am ryw reswm amhriodol, e.e. i gynorthwyo rhywun mewn achos cyfreithiol sy’n ymwneud â’r Awdurdod, ei staff, ei gyflenwyr, neu ddefnyddwyr y gwasanaeth.

b) Mewn achosion prin felly, gall y Prif Swyddog Tân ddefnyddio’r prawf “angen gwybod". Bydd angen i'r aelod ddangos pam fod y wybodaeth yn angenrheidiol i gyflawni ei ddyletswyddau i'r Awdurdod. Pan fo aelod o staff o'r farn nad yw aelod wedi llwyddo i sefydlu ei “angen i wybod” i gefnogi cais am fynediad at wybodaeth ac yn gwrthod darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani, bydd y staff yn nodi’r rhesymau dros wneud hynny.

c) Dylai aelod sy'n gofyn am wybodaeth gymhleth neu swmpus fod yn hyblyg yn ei (g)ofynion os yw llunio ac atgynhyrchu'r ddogfennaeth yn arwain at gost sylweddol i adran. Fel arfer, bydd yr aelod yn gallu cadw deunydd am gyfnod rhesymol, a chopïo dogfennau unigol, ond ni chaiff ddefnyddio gwybodaeth o'r fath at ddiben amhriodol neu ddiben nad yw'n gysylltiedig â dyletswyddau'r aelod fel cynghorydd.

2.14 **Y wasg a chysylltiadau cyhoeddus** – bydd cyswllt â'r cyfryngau ar faterion yn ymwneud â'r Awdurdod, neu â busnes yr Awdurdod, gan gynnwys cyhoeddi datganiadau i'r wasg, yn cael ei drin drwy'r Tîm Cyfathrebu Corfforaethol.

Bydd unrhyw Aelod sy'n cysylltu â'r cyfryngau yn honni ei fod ef/hi yn siarad ar ran yr Awdurdod am unrhyw eitem sy'n ymwneud â'r Awdurdod, neu sy’n effeithio ar yr Awdurdod, heb yn gyntaf gysylltu neu ymgynghori â'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân yn bersonol gyfrifol am y gweithredoedd hynny.

## 3. Hawliau Cyfreithiol Aelodau

Ni fydd unrhyw beth yn y cod hwn yn amharu mewn unrhyw ffordd ar unrhyw hawl sydd gan aelod wedi'i hymgorffori yn y gyfraith ac mae’r hawliau cyfreithiol hynny yn trechu unrhyw ddarpariaethau yn y cod hwn sy'n gwrthdaro â nhw.

*This document is available in English* **Eitem Agenda 10**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **15 Gorffennaf 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Anthony Jones, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Monitro Perfformiad: Blwyddyn Ariannol 2023/24** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Darparu gwybodaeth am weithgarwch digwyddiadau yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24; perfformiad mewn perthynas ag amcanion gwella a llesiant Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod); ac unrhyw weithgarwch digwyddiadau nodedig arall.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24, bu Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) yn bresennol mewn 5,932 o ddigwyddiadau brys. Mae hyn yn gynnydd o 0.6% o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol (5,897).

3 Bu gostyngiad bychan yn nifer y tanau damweiniol yn y cartref (TDC) yr aethpwyd atynt yn ystod y cyfnod adrodd, 337 o'i gymharu â 344 yn ystod 2022/23. Fodd bynnag, bu chwe marwolaeth ddamweiniol o ganlyniad i danau mewn cartrefi yn 2023/24, o'i gymharu â dim un farwolaeth o ganlyniad i danau mewn cartrefi yn 2022/23.

4 Bu cynnydd hefyd yn nifer yr anafiadau difrifol, o dri i saith. Mae'r Gwasanaeth wedi parhau i ddarparu ymyriadau atal tân a mentrau i gefnogi diogelwch tân yng nghartrefi a chymunedau Gogledd Cymru.

5 Yn ystod y cyfnod adrodd, bu gostyngiad yn nifer y tanau gwyllt, o 35 i 14, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Bu cyfanswm o 54 cerbyd yn bresennol yn y digwyddiadau hyn, am gyfnod o dros 476 awr.

6 Aeth y Gwasanaeth i 2,901 o alwadau diangen yn ystod y cyfnod adrodd, cynnydd o 8.4% o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol. Roedd hyn o ganlyniad i gynnydd o 15.8% yn nifer y larymau tân yr aethpwyd atynt a wnaed oherwydd cyfarpar, o 1,532 i 1,774. Cafodd y Gwasanaeth 1,587 o alwadau oherwydd larymau tân awtomatig mewn safleoedd masnachol, aethpwyd at 8 ohonynt ac nid aethpwyd at 1,579, yn unol â'n polisi.

7 Mae gan yr Awdurdod bolisi sy'n pennu sut mae'n ymateb i larymau tân awtomatig. Ni fydd y Gwasanaeth yn anfon ymateb brys i larwm tân awtomatig mewn eiddo annomestig oni dderbynnir galwad 999 hefyd i gadarnhau bod tân yno.

8 Yn ogystal, derbyniwyd 498 o alwadau gan systemau larwm awtomatig mewn ysbytai; aethpwyd at 208 (41.8%) ohonynt ac nid aethpwyd at 290 (58.2%).

9 Bu cynnydd yn nifer y tanau yr aethpwyd atynt yng Ngharchar y Berwyn, o 19 i 26.

10 Cadwyd at y targed o argaeledd 18 pwmp trwy gydol y cyfnod adrodd (100%).

**ARSYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL**

11 Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn braf gweld gostyngiad yn y nifer o dannau mewn anheddau domestig.

12 Holodd un Aelod sut berthynas oedd gan y Gwasanaeth ag asiantaethau partner eraill o ran argyfyngau sy'n ymwneud â'r tywydd. Cadarnhaodd y PST fod gan y Gwasanaeth berthynas waith dda iawn gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ac â phartneriaid allweddol eraill, a'u bod yn cydweithio wrth ymateb i'r digwyddiadau hyn.

13 Dywedodd y Rheolwr Ardal Jones wrth yr aelodau fod gan y Gwasanaeth gynrychiolaeth ar Fwrdd Tanau Gwyllt Cymru Gyfan hefyd.

14 Gofynnodd un Aelod a oedd unrhyw gynlluniau i ddechrau gosod gwarchodwyr stof fel mesur ataliol a chadarnhaodd y Prif Swyddog Tân fod y Gwasanaeth wedi bod yn rhan o beilot a oedd yn effeithiol iawn a nawr maent ar gael drwy ein timau Atal ar draws y Gwasanaeth.

15 Cytunodd yr Aelodau i nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.

**ARGYMHELLIAD**

16 Bod yr Aelodau'n:

i) nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad

**CEFNDIR**

17 AMH.

**GWYBODAETH**

18 **Yr Holl Ddigwyddiadau**
Aethpwyd at **5,932** o ddigwyddiadau, o'i gymharu â **5,897** yn ystod 2022/23.

19 **Tanau**
Bu gostyngiad o 17.8% yn nifer y tanau yr aethpwyd atynt yn ystod y cyfnod adrodd, **1,654** o'i gymharu â 2,011 yn 2022/23.

20 **Tanau Glaswelltir, Coetir a Chnydau**
Bu gostyngiad o 52.3% mewn tanau glaswelltir, coetir a chnydau (472 i **225**) o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol ddiwethaf. Gostyngodd nifer y tanau glaswelltir, coetir a chnydau damweiniol eilaidd (450 i **215**), a thanau 'glaswelltir, porfa, pori ac ati' (94 i 36), a 'rhostir neu weundir' (107 i 49) oedd y prif gyfranwyr. Bu gostyngiadau hefyd mewn tanau 'gwrych' (29 i 20), a 'phrysgwydd coed (yn cynnwys coed sengl nad ydynt mewn gerddi)' (31 i 10), er y bu cynnydd mewn tanau 'Llystyfiant ger traciau rheilffordd' (0 i 4).

21 **Tanau gwyllt**
Yn ystod y cyfnod adrodd, bu gostyngiad yn nifer y tanau gwyllt yr aethpwyd atynt (35 i 14) o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2022/23, pan aeth 54 cerbyd o'i gymharu â 47. Gostyngodd yr amser a dreuliwyd mewn digwyddiadau i 476 awr, o'i gymharu â 628 awr yn ystod yr un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol.

22 **Prif Danau**
Bu gostyngiad o 7.6% yn nifer y prif danau (854 i **789**) o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2022/23, ac roeddent 6.7% yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 846. Bu gostyngiad o 8.2% yn nifer y prif danau damweiniol (711 i 653), ac roeddent 5.9% yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 694. Gostyngodd nifer y prif danau bwriadol (143 i 136) o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol, ac roeddent 10.5% yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd o 152.

23 **Tanau Eilaidd**
Bu gostyngiad o 25% yn nifer y tanau eilaidd (1037 i 778), ac roeddent 14.3% yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 908; roedd hyn yn bennaf oherwydd gostyngiad o 32.2% mewn tanau eilaidd damweiniol (661 i 448). Cofnodwyd gostyngiad mewn tanau 'glaswelltir, coetir a chnydau' eilaidd damweiniol (306 i 146) a thanau 'eraill yn yr awyr agored (gan gynnwys tir)' (205 i 164).

Bu gostyngiad o 12.2% mewn tanau eilaidd bwriadol (376 i 330), yn bennaf oherwydd gostyngiad o 50.2% yn y categori 'glaswelltir, coetir a chnydau' (144 i 69). Fodd bynnag, cofnodwyd cynnydd mewn tanau 'Strwythurau awyr-agored' (155 i 176).

24 **Tanau Simnai**
Gostyngodd tanau simnai 27.5% o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2022/23 (120 i 87). Mae hyn 34.1% yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 132.

25 **Tanau Damweiniol mewn Cartrefi (TDC)**
Bu gostyngiad o 2.0% yn nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi yr aethpwyd atynt (344 i 337) yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24.

Gwelwyd gostyngiadau a chynnydd yn y prif gyfranwyr at danau damweiniol mewn cartrefi. Roedd cynnydd yng nghategorïau 'Eitemau llosgadwy yn rhy agos at ffynhonnell gwres (neu dân)', (64 i 76); 'Nam ar offer neu beiriant', (27 i 35); (27 i 35); ‘Coginio – sosban sglodion/ffrïwr saim dwfn (10 i 15)'. Cofnodwyd gostyngiadau yng nghategorïau 'Coginio – coginio arall' (78 i 61), a 'Cyflenwad tanwydd diffygiol – trydan' (34 i 29), o’i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol.

Gwelwyd cynnydd mewn Tanau Damweiniol mewn Cartrefi o fewn y categorïau 'Byngalo – deiliadaeth sengl' (40 i **58**), a 'Fflat/Maisonette wedi’i drosi - amlfeddiannaeth' (19 i **22**). Cofnodwyd gostyngiadau yn y categorïau 'Tŷ – meddiannaeth unigol' (198 i **191**), a 'Fflat/Maisonette pwrpasol – amlfeddiannaeth' (74 i **58**), o'i gymharu â 2022/23. Mae niferoedd tanau damweiniol mewn cartrefi yn parhau i fod 8.4% yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 368.

26 **Marwolaethau/Anafiadau mewn Tanau Damweiniol mewn Cartrefi (TDC)**
Bu chwe marwolaeth o ganlyniad i Danau Damweiniol mewn Cartrefi yn 2023/24, tair yn Ch2, un yn Ch3, a dwy yn Ch4; ni chofnodwyd unrhyw farwolaethau y llynedd.

Bu tair o'r marwolaethau yng Nghonwy, dwy yng Ngwynedd ac un yn Sir y Fflint.

Roedd pob un a fu farw yn y categori mwyaf agored i niwed, pob un yn 65 oed neu'n hŷn, sef ffocws yr Archwiliadau Diogel ac Iach ar hyn o bryd. Oedran cyfartalog y rhai a fu farw oedd 78 oed, gyda thri yn ddynion (77 oed ar gyfartaledd) a thair dynes (80 oed ar gyfartaledd). Roedd tri ohonynt wedi bod yn destun Archwiliad Diogel ac Iach yn y gorffennol, gwnaethpwyd tair ymgais aflwyddiannus i gysylltu ag un arall ohonynt, a doedd NWFRS ddim yn ymwybodol o’r ddau arall.

Bu cynnydd yn y nifer a anafwyd mewn tanau damweiniol mewn cartrefi hefyd, o 71 i 72, gyda saith person yn dioddef anafiadau difrifol o’i gymharu â thri yn 2022/23.

27 **Synwyryddion Mwg – Tanau Damweiniol mewn Cartrefi (TDC)**
Roedd synwyryddion mwg/gwres yn bresennol yn 290 o’r 337 o danau damweiniol mewn cartrefi yn ystod y flwyddyn ariannol (86.1%). Bu cynnydd o 176 i 186 mewn TDC lle’r oedd synhwyrydd mwg/gwres wedi ei osod, yn gweithio ac wedi seinio’r larwm.

28 Bu gostyngiad o 43 i 32 yn nifer y digwyddiadau lle'r oedd synhwyrydd mwg/gwres wedi'i osod, yn gweithio ond heb seinio’r larwm.

29 Cafwyd cynnydd yn nifer y TDC lle nad oedd unrhyw synhwyrydd wedi’i osod, o 44 i 47. Bu gostyngiad o 81 i 72 yn nifer y digwyddiadau lle’r oedd synhwyrydd wedi’i osod a heb weithio.

30 **Prif Danau Bwriadol mewn Adeiladau Dibreswyl**

Bu cynnydd yn y prif danau bwriadol mewn adeiladau dibreswyl yr aethpwyd atynt, o 48 i 50.

31 **Galwadau Diangen**

Parhaodd y duedd gynyddol mewn galwadau diangen, ac fe aeth y Gwasanaeth at **2,901** o alwadau diangen - 8.4% yn fwy na'r flwyddyn ariannol flaenorol (2,675), a 15.9% yn fwy na'r cyfartaledd tair blynedd o 2,502. Bu cynnydd o 15.8% (1,532 i **1,774**) yn y rhai a oedd wedi tarddu o systemau Larymau Tân Awtomatig (LTA), ac roeddent yn cynrychioli 61.2% o'r galwadau diangen yr aethpwyd atynt.

32 **Larymau Tân Awtomatig (LTA) Amhreswyl**

Bu cynnydd o 4.7% yn y nifer o alwadau LTA Amhreswyl (254 i 266). Prif achosion gweithredu LTA Amhreswyl oedd larymau 'diffygiol' (95 i 128), a 'llwch' (16 i 26). Fodd bynnag, cofnodwyd gostyngiad yn y categori 'wedi'i gychwyn yn ddamweiniol/diofal' (40 i 27).

33 **LTA Preswyl Arall**

Bu cynnydd o 0.4% mewn galwadau LTA 'preswyl arall' (113 i **118**), gyda gostyngiad sylweddol yn y categori 'llety nyrsys/meddygon' (25 i 16). Fodd bynnag, bu cynnydd yn y categori 'Cartref Preswyl' (15 i 26), ac yn y categori 'Neuadd Breswyl i Fyfyrwyr' (20 i 33).

Er mai larymau 'diffygiol' oedd y prif achos yn y categori 'preswyl arall', lle gwelwyd cynnydd bach (26 i 34), bu gostyngiad bychan yn y nifer a seiniodd oherwydd 'coginio/llosgi tost' (30 i 29).

Cafwyd gostyngiadau hefyd yn y larymau a seiniodd oherwydd 'llwch', o 9 i 5, a'r rhai a oedd 'wedi'u cychwyn yn ddamweiniol/diofal', o 13 i 9.

34 **LTA mewn Cartrefi**

Parhaodd y duedd gynyddol mewn galwadau gan LTA mewn Cartrefi, gyda chynnydd o 19.1% (1,165 i 1,387); 'Fflat/maisonette pwrpasol - amlfeddiannaeth' oedd y cyfrannwr mwyaf o ran cyfanswm nifer y digwyddiadau, lle bu cynnydd o 361 i 492, ac yna 'byngalo – meddiannaeth sengl', lle bu cynnydd o 340 i 410.

Bu cynnydd yn y categori 'Tŷ – meddiannaeth unigol' (338 i 377), ac arhosodd 'Fflat/maisonette wedi'i drosi – amlfeddiannaeth' yr un fath, gyda 42 o ddigwyddiadau. Fodd bynnag, cofnodwyd gostyngiadau yn y categori 'tai gwarchod hunangynhwysol' (74 i 56).

O'r 1,387 galwad LTA mewn anheddau, 'coginio/llosgi tost' oedd prif achos seinio'r larwm, lle bu cynnydd o 600 i 738. Cofnodwyd cynnydd bach hefyd yn y galwadau gan larymau a oedd yn 'ddiffygiol' (255 i 290); galwadau oherwydd 'llwch' (37 i 40); a galwadau a oedd 'wedi'u cychwyn yn ddamweiniol/diofal' (60 i 70). Gwelwyd cynnydd bychan hefyd yn y galwadau oherwydd 'ysmygu' (22 i 27).

35 **Galwadau Diangen Diffuant**

Bu gostyngiad yn y nifer o alwadau diangen diffuant, o 1,091 i 1,087. Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd o 23.2% yn y categori 'Annedd' (431 i 531).

Cofnodwyd gostyngiad o 37.1% yn y categori 'Glaswelltir, coetir a chnydau' (116 i 73,) a hynny oherwydd gostyngiadau mewn digwyddiadau 'llosgi dan reolaeth' (88 i 60). Bu gostyngiad yn y categori 'Eraill yn yr awyr-agored (gan gynnwys tir)' hefyd (243 i 206).

36 **Galwadau Diangen Maleisus**

Bu gostyngiad o 24.5% yn nifer y galwadau diangen maleisus, o 53 i 40, o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

37 **Galwadau Gwasanaeth Arbennig**

Bu cynnydd o 13.7% mewn digwyddiadau gwasanaeth arbennig, o 1,211 i 1,377, yn ystod yr un cyfnod yn y flwyddyn ariannol flaenorol, ac roeddent 84.6% yn uwch na'r cyfartaledd tair blynedd o 746. Gellir priodoli hyn i'r newid a wnaed i'r polisi gyda'r nod o gynyddu presenoldeb y gwasanaeth tân ac achub yn y gymuned pan fo angen.

38 **Gwrthdrawiadau ar y Ffordd**

Bu cynnydd o 7.3% yn y nifer o wrthdrawiadau ar y ffordd y cafodd y Gwasanaeth eu galw iddyn nhw (234 i 251), gyda 61 (24.3%) o ddigwyddiadau pan fu rhaid i'r Gwasanaeth dynnu personau'n rhydd. Bu cynnydd o 2.8% mewn galwadau i wneud cerbyd yn ddiogel (104 i 107).

Er i'r Gwasanaeth gael eu galw i fwy o wrthdrawiadau ar y ffordd, bu gostyngiad yn y ganran lle'r oedd angen tynnu personau'n rhydd (29.5% i 26.3%), sy'n is na'r cyfartaledd tair blynedd o 33.3%.

39 **Galwadau Gwasanaeth Arbennig 'Heblaw Gwrthdrawiadau ar y Ffordd'**

Cynyddodd y nifer o Alwadau Gwasanaeth Arbennig 'Heblaw Gwrthdrawiadau ar y Ffordd' 41.0% (977 i 1,378). Y prif gyfrannwr at y cynnydd oedd y categori 'Cynorthwyo asiantaethau eraill', lle bu cynnydd o 35.2% (355 i 480). Roedd cynnydd sylweddol o 120.8% yn y galwadau i ddigwyddiadau 'llifogydd' hefyd (53 i 117).

Cofnodwyd gostyngiadau yn y categorïau 'dim gweithredu (nid galwad ddiangen)' (80 i 61), 'rhyddhau lifft' (87 i 48), ac 'Achub/rhyddhau personau Arall' (92 i 72).

40 **Archwiliadau Diogel ac Iach (ADI)**

Cwblhaodd y Gwasanaeth 19,859 ADI ac roedd 6,032 (30.4%) ohonynt yn ADI blaenoriaeth uchel. O'r ADI blaenoriaeth uchel a gwblhawyd, roedd 3,290 (54.5%) yn atgyfeiriadau gan asiantaeth bartner.

41 **Perfformiad Gorsafoedd**

Cynhaliwyd argaeledd o 18 pwmp, fel a gynlluniwyd, bob diwrnod o 2023/24 (100%).

42 **Absenoldeb Salwch**

Cofnodwyd 458 achos o absenoldeb oherwydd salwch yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae hyn yn cyfateb i golled amser o 5.13%.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'n helpu'r Awdurdod i fonitro ei berfformiad mewn perthynas â'r amcanion gwella a llesiant yng Nghynllun Corfforaethol 2021-24. |
| Cyllideb | Mae'n helpu i dynnu sylw at unrhyw effeithiau posib ar y gyllideb oherwydd gweithgarwch digwyddiadau annisgwyl. |
| Cyfreithiol | Mae'n helpu'r Awdurdod i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ateb y galw. |
| Staffio | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Risgiau | Peidio â bodloni'r gofynion cyfreithiol i fonitro ac i adrodd ar berfformiad, a allai effeithio ar y gallu i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ateb y galw. |

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB**
**GOGLEDD CYMRU**

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# Adroddiad Monitro Perfformiad

## Ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2023/24


**Mae'r ffigyrau'n rhai dros dro a gallent fod yn destun mân newidiadau.**

## Cynnwys

1 Yr Holl Ddigwyddiadau ........ 1
2 Tanau yn ôl Categori a Chymhelliant ........ 2
3 Prif Danau, yn ôl Math o Eiddo a Chymhelliant ........ 3
4 Tanau Damweiniol yn y Cartref ........ 4
5 Marwolaethau ac Anafiadau o Danau Damweiniol yn y Cartref ........ 6
6 Synwyryddion Mwg – Tanau Damweiniol yn y Cartref (TDC) ........ 6
7 Galwadau Diangen ........ 8
8 Galwadau Gwasanaeth Arbennig ........ 9
9 Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffordd a Thynnu'n Rhydd/Rhyddhau ........ 10
10 Monitro yn erbyn Amcan Gwella a Llesiant Un ........ 12
11 Argaeledd 18 Pwmp wedi'i Gynllunio ........ 14
12 Absenoldeb Salwch ........ 15
Geirfa ........ 19

## 1 Yr Holl Ddigwyddiadau

**1.1** Yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24, aeth y Gwasanaeth at 5,932 o ddigwyddiadau brys a galwadau diangen, sef newid o 0.6% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (5,897).




| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y flwyddyn hyd yma | % y newid dros y flwyddyn hyd yma | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid dros y flwyddyn hyd yma / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt | **2023-24** | **1,638** | **1,552** | **1,417** | **1,285** | **5,932** | ↓ 0.6% | 5,317 | ↑ 11.56% |
| | 2022-23 | 1,575 | 1,878 | 1,211 | 1,233 | 5,897 | | | |
| Yr holl danau | **2023-24** | **604** | **408** | **326** | **316** | **1,654** | ↓ 17.8% | 1,887 | ↓ 12.3% |
| | 2022-23 | 577 | 719 | 337 | 378 | 2,011 | | | |
| Yr holl ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig | **2023-24** | **332** | **331** | **390** | **324** | **1,377** | ↑ 13.7% | 928 | ↑ 48.7% |
| | 2022-23 | 327 | 371 | 267 | 246 | 1,211 | | | |
| Yr holl alwadau diangen | **2023-24** | **702** | **813** | **741** | **645** | **2,901** | ↑ 8.4% | 2,502 | ↑ 15.9% |
| | 2022-23 | 671 | 788 | 607 | 609 | 2,675 | | | |

*Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.


## 2 Tanau yn ôl Categori a Chymhelliant

**2.1** Aethpwyd at gyfanswm o 1,654 o danau yn 2023/24; gostyngiad o 17.8% o 2,011 yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

**2.2** **Prif danau –** Bu gostyngiad o 7.9% yn nifer y prif danau (854 i 789) o gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn ariannol flaenorol ac roeddent 6.7% yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd o 846.

**2.3** **Tanau eilaidd –** Bu gostyngiad o 25.0% yn nifer y tanau eilaidd (1,037 i 778), sef 12.6% yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 908.

**2.4** **Tanau simnai –** Cafwyd gostyngiad yn nifer y tanau simnai (120 i 87) o gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn ariannol flaenorol, sef 34.1% yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 132.




| | Prif Danau | | | | | Tanau Eilaidd | | | | | Tanau Simnai | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
| Bwriadol | 248 | 170 | 143 | 143 | 136 | 405 | 276 | 329 | 376 | 330 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Damweiniol | 719 | 634 | 738 | 711 | 653 | 433 | 533 | 550 | 661 | 448 | 145 | 157 | 120 | 120 | 87 |
| Cyfanswm | 967 | 804 | 881 | 854 | 789 | 838 | 809 | 879 | 1,037 | 778 | 145 | 157 | 120 | 120 | 87 |

| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y flwyddyn hyd yma | % y newid dros y flwyddyn hyd yma | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid dros y flwyddyn hyd yma / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif Danau | **2023-24** | **235** | **205** | **190** | **159** | **789** | ↓ 7.6% | 846 | ↓ 6.7% |
| | 2022-23 | 226 | 236 | 193 | 199 | 854 | | | |
| Tanau Eilaidd | **2023-24** | **356** | **200** | **108** | **114** | **778** | ↓ 25.0% | 908 | ↓ 14.3% |
| | 2022-23 | 332 | 476 | 100 | 129 | 1,037 | | | |
| Tanau simnai | **2023-24** | **13** | **4** | **27** | **43** | **87** | ↓ 28.0% | 132 | ↓ 34.1% |
| | 2022-23 | 19 | 7 | 44 | 50 | 120 | | | |

* Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

**Camau a gymerwyd i gefnogi lleihau digwyddiadau tân yn ystod y flwyddyn ariannol:**

- Roedd nifer y ADI a gwblhawyd ar gyfer y flwyddyn 2023/24 yn 19,859, ac yn uwch na'r targed, gyda 4,838 o atgyfeiriadau gan asiantaethau. Cwblhawyd 12,500 o'r archwiliadau gan griwiau gweithredol.

- Data Caerwysg: Mae pob Gwylfa bellach yn cwblhau gweithgaredd drws-i-ddrws am o leiaf awr y dydd, gan ddefnyddio'r data a ddarparwyd i helpu i sicrhau dull wedi'i dargedu'n well tuag at bobl dros 65 oed. Ganol Ch.4 gwellwyd y data ymhellach trwy gyflwyno dotiau oren i systemau mapio i ddynodi'r bobl hynny dros 70 oed a dotiau coch ar gyfer y rhai dros 75 oed.

- Mae Rheolwyr Partneriaeth yn parhau i feithrin perthnasoedd ag asiantaethau allanol i annog atgyfeiriadau o ansawdd uchel.

- Cynhaliwyd 3ydd "digwyddiad llesiant" ar gyfer tîm atal tân y Gwasanaeth Tân (gyda 22 yn mynychu) yn ystod Ch.4, mae hyn yn parhau i gynnig cefnogaeth i'n timau a sicrhau gweithgaredd ac allbwn lefel uchel.

- Adolygwyd ac adnewyddwyd contractau gyda Cartrefi Conwy a Gofal a Thrwsio, gan barhau felly derbyn atgyfeiriadau lefel uchel a derbyn taliad cyflog 50%.


- Mae Grŵp Llywio'r Ymgyrch wedi parhau i weithio gyda Chyfathrebu Corfforaethol i hyrwyddo diogelwch a negeseuon ynghylch Tanau Gwyllt yn rhagweithiol ar draws pob platfform cyfryngau. Bu cryn sylw yn y wasg ynghylch tanau sychwyr dillad yn arwain at bostiadau cyfryngau cymdeithasol, cyfweliadau â staff y GTA a phreswylwyr gan y BBC ac ymgyrchoedd lleol a chyfweliadau radio.

- Mae cynlluniau ymyrraeth ar gyfer cynnau tân bwriadol yn parhau i gael eu hwyluso yn fewnol a chan PentrePeryglon; Yn ystod 2023/24, cyflwynwyd 13 sesiwn FACE (Addysg Ymwybyddiaeth Tân i Blant) ac un ymyriad i oedolion gan y Tîm Lleihau Tanau Bwriadol a chyflwynwyd 34 cwrs Tân Saff gan PentrePeryglon.

## 3 Prif Danau, yn ôl Math o Eiddo a Chymhelliant

**3.1** Yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24, dechreuwyd 136 o brif danau yn fwriadol, o gymharu â 143 yn 2022/23.

**3.2** Roedd 60 tân bwriadol yng Ngharchar EF y Berwyn, o gymharu â 46 dros yr un cyfnod yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Aeth y Gwasanaeth at 26 o'r tanau yma.





| | Adeilad Annedd 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | Adeilad Amhreswyl 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | Adeilad Preswyl arall 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | Cerbyd ('Ffordd', a 'Thrafnidiaeth arall') 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | Awyr agored 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 383 | 387 | 429 | 380 | 360 | 231 | 176 | 179 | 183 | 153 | 20 | 14 | 20 | 25 | 25 | 282 | 187 | 209 | 211 | 209 | 51 | 40 | 44 | 55 | 42 |
| Bwriadol | 27 | 27 | 29 | 36 | 23 | 111 | 67 | 54 | 48 | 50 | 2 | 4 | 2 | 4 | 9 | 91 | 60 | 47 | 42 | 41 | 17 | 12 | 11 | 13 | 13 |
| Damweiniol | 356 | 360 | 400 | 344 | 337 | 120 | 109 | 125 | 135 | 103 | 18 | 10 | 18 | 21 | 16 | 191 | 127 | 162 | 169 | 168 | 34 | 28 | 33 | 42 | 29 |

| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm flwyddyn hyd yma | % y newid dros y flwyddyn hyd yma | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid dros y flwyddyn hyd yma / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr holl brif danau bwriadol | **2023-24** | **40** | **36** | **32** | **28** | **136** | ↓ 4.9% | 152 | ↓ 10.5% |
| | 2022-23 | 41 | 49 | 24 | 29 | 143 | | | |
| Yr holl brif danau damweiniol | **2023-24** | **195** | **169** | **158** | **131** | **653** | ↓ 8.2% | 694 | ↓ 5.9% |
| | 2022-23 | 185 | 187 | 169 | 170 | 711 | | | |

* Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

## 4 Tanau Damweiniol yn y Cartref

**4.1** Aeth y Gwasanaeth at 337 o danau damweiniol yn y cartref yn 2023/24; saith (2.0%) yn llai nag yn y flwyddyn ariannol flaenorol (344). Arhosodd Tanau Damweiniol yn y Cartref (TDC) yn ystod y cyfnod hwn 8.4% yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 368.




| Categori | Blwyddyn | Ch. 1 | Ch. 2 | Ch. 3 | Ch. 4 | Cyfanswm y flwyddyn hyd yma | % y newid | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid dros y flwyddyn hyd yma / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tanau damweiniol yn y cartref | **2023-24** | **91** | **70** | **106** | **70** | **337** | ↓ 2.0% | 368 | ↓ 8.4% |
| | 2022-23 | 81 | 81 | 97 | 85 | 344 | | | |

* Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

**Camau a gymerwyd i ddeall demograffeg a risg ein cymuned ymhellach yn ystod y flwyddyn flaenorol:**

- Adolygwyd a diwygiwyd y "system" sgorio yn ystod Ch.4 ac mae bellach yn sicrhau bod gan y sgorio fwy o bwysoliad i oedran.
- Rhoddwyd arweiniad ychwanegol i weinyddwyr i sicrhau cadw'n dynnach at y sgorio er mwyn sicrhau mai dim ond y rhai mwyaf agored i niwed sy'n cael eu hystyried yn flaenoriaeth uchel.
- Mae Rheolwyr Partneriaeth yn parhau i archwilio perthnasoedd newydd gyda phartneriaid allanol i nodi'r bobl hynny sydd fwyaf agored i dân; a darparu cyngor ac ymyriadau addas iddynt.
- Mae adolygiad o ddogfennau arweiniad ar y gweill gan gynnwys dogfen weithdrefn newydd ar gyfer Archwiliadau Diogel ac Iach.

## 5 Marwolaethau ac Anafiadau o Danau Damweiniol yn y Cartref

**5.1** Roedd chwe marwolaeth TDC yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24, o gymharu â dim un farwolaeth yn ystod yr un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol. Roedd saith anaf difrifol a 19 mân anaf, o gymharu â thri a 23 yn y drefn honno. Cynyddodd nifer yr archwiliadau rhagofalus (20 i 23), a gostyngodd nifer y bobl a oedd angen cymorth cyntaf yn y fan a'r lle (o 25 i 17).

Roedd tair o'r marwolaethau yng Nghonwy, dwy yng Ngwynedd ac un yn Sir y Fflint.

Roedd pob un o'r marwolaethau yn y categori mwyaf agored i niwed, gyda phob un yn 65 oed neu'n hŷn, sydd ar hyn o bryd yn bwyslais Archwiliadau Diogel ac Iach.

| Difrifoldeb yr anaf | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Archwiliadau Rhagofalus | 19 | 33 | 31 | 20 | 23 |
| Cymorth Cyntaf | 41 | 26 | 43 | 25 | 17 |
| Mân Anafiadau | 26 | 29 | 34 | 23 | 19 |
| Anafiadau Difrifol | 4 | 3 | 5 | 3 | 7 |
| Marwolaethau | 3 | 5 | 5 | 0 | 6 |
| Cyfanswm | 93 | 96 | 118 | 71 | 72 |


| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y flwyddyn hyd yma (YTD) | % y newid dros y flwyddyn hyd yma | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | Newid dros y flwyddyn hyd yma / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Anafiadau oherwydd tanau damweiniol yn y cartref | **2023-24** | **29** | **9** | **22** | **6** | **66** | ↓ 8.2% | 92 | ↓ 10.8% |
| | 2022-23 | 10 | 37 | 14 | 10 | 71 | | | |
| Marwolaethau oherwydd tanau damweiniol yn y cartref | **2023-24** | **0** | **3** | **1** | **2** | **6** | ↑ Amh% | 3 | ↑ 200% |
| | 2022-23 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | | |

* Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

## 6 Synwyryddion Mwg – Tanau Damweiniol yn y Cartref (TDC)

**6.1** Roedd synhwyrydd mwg/gwres yn bresennol yn y mwyafrif o TDC, er na wnaeth pob un weithredu. Mewn 47 o'r TDC, nid oedd synhwyrydd wedi'i osod.

**6.2** O'r 337 TDC, roedd 309 wedi'u cyfyngu i ystafell tarddiad y tân, i'r eitem a daniwyd gyntaf, neu dim ond difrod gwres/mwg oedd yno.




| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y flwyddyn hyd yma (YTD) | % y newid dros y flwyddyn hyd yma | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid dros y flwyddyn hyd yma / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Synhwyrydd mwg wedi'i osod ac wedi gweithredu a rhoi rhybudd | **2023-24** | **48** | **37** | **59** | **42** | **186** | ↑ 5.7% | 177 | ↑ 5.1% |
| | 2022-23 | 36 | 45 | 49 | 46 | 176 | | | |
| Synhwyrydd mwg wedi'i osod, wedi gweithredu ond heb roi rhybudd | **2023-24** | **16** | **4** | **9** | **3** | **32** | ↓ 25.6% | 62 | ↓ 48.4% |
| | 2022-23 | 17 | 4 | 10 | 12 | 43 | | | |
| Synhwyrydd mwg heb weithredu | **2023-24** | **22** | **19** | **25** | **16** | **72** | ↓ 13.8% | 80 | ↓ 2.5% |
| | 2022-23 | 17 | 16 | 23 | 16 | 81 | | | |
| Synhwyrydd mwg heb ei osod | **2023-24** | **10** | **13** | **15** | **9** | **47** | ↑ 6.8% | 48 | ↓ 2.1% |
| | 2022-23 | 6 | 13 | 13 | 12 | 44 | | | |


* Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

**Camau a gymerwyd i gefnogi cymunedau drwy gynyddu nifer y bobl sydd â larymau mwg ac addysg ddiogelwch yn ystod y flwyddyn ariannol, yn ychwanegol i'r rhai y soniwyd amdanynt yn flaenorol:**

- Adnewyddwyd y contract tair blynedd gyda Cartrefi Conwy.
- Bydd fideo ADI sy'n cynnwys iaith arwyddion a gwblhawyd yn ystod Ch.4 yn cael ei lansio'n swyddogol gan Grŵp Llywio'r Ymgyrch i gefnogi ymgyrch Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân.
- Mae Rheolwyr Partneriaeth yn parhau i feithrin perthnasoedd ag asiantaethau allanol i annog atgyfeiriadau o ansawdd uchel. Rhoddwyd cyflwyniadau i wahanol grwpiau yn ystod Ch.4, gan gynnwys mewn cynhadledd i ofalwyr Dementia ac mewn fforymau gwirfoddolwyr.
- Cefnogwyd 12 digwyddiad Diwrnod Dim Ysmygu ar draws y gwasanaeth ochr yn ochr ag asiantaethau eraill.

## 7 Galwadau Diangen

**7.1** Yn ystod 2023/24 cynyddodd nifer y galwadau diangen 8.4% (2,675 i 2,901). Roedd cynnydd o 15.8% mewn LTA (1,532 i 1,774). Gostyngodd galwadau diangen diffuant 0.4% (1,091 i 1,087).




| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | Cyfartaledd 3 blynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Larymau Tân oherwydd offer | 1,213 | 1,214 | 1,398 | 1,532 | 1,774 | 1,381 |
| Diffuant | 1,020 | 1,061 | 1,076 | 1,091 | 1,087 | 1,076 |
| Maleisus | 41 | 40 | 43 | 52 | 40 | 45 |
| Cyfanswm | 2,274 | 2,315 | 2,517 | 2,675 | 2,901 | 2,502 |

| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y flwyddyn hyd yma | % y newid dros y flwyddyn hyd yma | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid dros y flwyddyn hyd yma / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y galwadau diangen | **2023-24** | **702** | **813** | **741** | **645** | **2,901** | ↑ 8.4% | 2,502 | ↑ 15.9% |
| | 2022-23 | 671 | 788 | 607 | 609 | 2,675 | | | |
| Larymau Tân Awtomatig (LTA) | **2023-24** | **407** | **520** | **458** | **389** | **1,774** | ↑ 15.8% | 1,381 | ↑ 28.5% |
| | 2022-23 | 416 | 420 | 360 | 336 | 1,532 | | | |
| Galwadau Diangen Diffuant | **2023-24** | **281** | **281** | **276** | **249** | **1,087** | ↓ 0.4% | 1,076 | ↑ 1.0% |
| | 2022-23 | 241 | 353 | 238 | 259 | 1,091 | | | |
| Galwadau Diangen Maleisus | **2023-24** | **14** | **12** | **7** | **7** | **40** | ↓ 23% | 45 | ↓ 11.1% |
| | 2022-23 | 14 | 15 | 9 | 14 | 52 | | | |


* Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

**Camau a gymerwyd i leihau LTA Ysbytai yn ystod y flwyddyn ariannol:**

- Cynhaliwyd cyfarfod gyda thîm rheoli cyfleusterau BIPBC. Amlygwyd bod ganddynt gynlluniau buddsoddi ar gyfer gwahanol leoliadau ledled Gogledd Cymru i wella'r diogelwch tân dros y pum mlynedd nesaf, gan gynnwys systemau larwm tân. Bu GTAGC yn trafod y materion yn ymwneud â LTA a'r adnoddau a ddefnyddir. Bydd BIPBC yn gweithio gyda GTAGC ac yn nodi meysydd i leihau gweithredu LTA o'r fath. Er mwyn sicrhau cynnal cyfathrebu agored, cynhelir y cyfarfod nesaf yn Ch.1 2024/25.

## 8 Galwadau Gwasanaeth Arbennig

**8.1** Cynyddodd Galwadau Gwasanaeth Arbennig (GGA) 13.7% (1,211 i 1,377), o gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol. Cynyddodd gwrthdrawiadau ar y ffordd 7.3% (234 i 251), tra cynyddodd digwyddiadau 'heblaw GTFf' 15.3%, (977 i 1126). Roedd y cynnydd yn nifer y GGA yr aethpwyd atynt i'w ddisgwyl yn dilyn penderfyniad y Gwasanaeth i gynyddu ei welededd yn y gymuned.





| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y flwyddyn hyd yma (YTD) | % y newid dros y flwyddyn hyd yma | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid dros y flwyddyn hyd yma / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr holl alwadau gwasanaeth arbennig | **2023-24** | **332** | **331** | **390** | **324** | **1,377** | ↑ 13.7% | 928 | ↑ 48.4% |
| | 2022-23 | 327 | 371 | 267 | 246 | 1,211 | | | |
| Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffordd (GTFf) | **2023-24** | **77** | **63** | **55** | **56** | **251** | ↑ 7.3% | 182 | ↑ 37.9% |
| | 2022-23 | 53 | 65 | 60 | 56 | 234 | | | |
| Heblaw GTFf | **2023-24** | **255** | **268** | **335** | **268** | **1,126** | ↑ 15.3% | 746 | ↑ 50.9% |
| | 2022-23 | 274 | 306 | 207 | 190 | 977 | | | |

* Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

## 9 Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffordd a Thynnu'n Rhydd/Rhyddhau

**9.1** O'r 251 gwrthdrawiad traffig ar y ffordd yr aethpwyd atynt yn 2023/24, roedd 66 (26.3%) yn ymwneud â'r Gwasanaeth yn defnyddio offer i ryddhau o leiaf un person wedi'i anafu o'r cerbyd. Er bod 140 o ddigwyddiadau wedi arwain at anafiadau, dim ond mân anafiadau oedd gan y mwyafrif o'r rhai oedd wedi'u hanafu.




| | |
|---|---|
| **251** | Cyfanswm y gwrthdrawiadau ar y ffordd yr aethpwyd atynt |
| **140** | o ddigwyddiadau lle cafodd pobl anaf |
| **66** | o ddigwyddiadau lle bu'n rhaid torri pobl allan / eu rhyddhau |

| **Difrifoldeb yr Anaf *** | **Nifer y bobl** |
|---|---|
| Archwiliad Rhagofalus | 47 |
| Cymorth Cyntaf | 36 |
| Mân Anafiadau | 93 |
| Anafiadau Difrifol | 43 |
| Marwolaethau | 16 |
| ** Anafiadau oherwydd gwrthdrawiad ar y ffordd - caiff y rhain eu cofnodi ar y system gofnodi fewnol yn yr un categori ag anafiadau tân* | |

**Camau a gymerwyd i leihau GTFf yn ystod y flwyddyn flaenorol:**

- Mae Rheolwyr Gwylfa'r Gwasanaeth Tân yn parhau i gyflwyno Stori Olivia ac mae'n parhau i fod yn gyfredol ac i gael effaith fawr. 1,207 o bobl dros 2023/24.

- Biker down:  Bu 67 yn mynychu yn ystod 2023/24, yn ystod Ch.4 cawsom ein sesiwn gyntaf 'Paned i'r Beicwyr'. Bydd y rhain yn parhau drwy gydol 2024/25.

- Mae'r tîm Ffenics yn parhau i drafod y "5 angheuol" yn ystod cyrsiau.

- Dechreuodd Prosiect Ugain yn ystod Ch.4, gyda'r nod o gyflwyno ymgysylltu ar ochr y ffordd fel dewis amgen i bwyntiau cosb neu ddirwy. Bu 399 o ymgysylltiadau hyd yn hyn.

- Bu Rheolwyr Gwylfa'r Gwasanaeth Tân yn mynychu diwrnod Digwyddiad Mawr Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Heddlu Gogledd Cymru / Prifysgol Wrecsam (diogelwch ar y ffyrdd) ar 6 Mawrth 2024, bydd ôl-drafodaeth ar 14/03/2024. Mynychwyd seminar Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru Gyfan.


- Ymgysylltu'n rheolaidd â Heddlu Gogledd Cymru ynghylch diogelwch ar y ffyrdd i sicrhau parhau gyda chyflwyno stori Olivia a'i thargedu.

## 10 Monitro yn erbyn Amcan Gwella a Llesiant Un

*Cefnogi pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi ac i aros yn ddiogel os bydd tanau o'r fath yn digwydd.*

### 10.1 Archwiliadau Diogel ac Iach

Cwblhaodd y Gwasanaeth 19,859 o Archwiliadau Diogel ac Iach yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24, gyda 4,838 (24.3%) ohonynt wedi'u cynnal mewn ymateb i atgyfeiriad gan asiantaeth bartner.




| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Blaenoriaeth Uchel | | | | | Blaenoriaeth Ganolig | | | | | Blaenoriaeth Isel | | | | |
| Ddim wedi'i atgyfeirio gan Asiantaeth | 2,723 | 2,396 | 2,754 | 2,675 | 2,742 | 4,732 | 1,731 | 1,970 | 2,189 | 2,346 | 5,781 | 3,306 | 4,461 | 7,455 | 9,933 |
| Atgyfeiriwyd gan Asiantaeth | 3,013 | 1,987 | 3,284 | 3,487 | 3,290 | 871 | 440 | 690 | 803 | 420 | 1,900 | 1,481 | 921 | 1,443 | 1,128 |
| Cyfanswm | 5,736 | 4,383 | 6,038 | 6,162 | 6,032 | 5,603 | 2,171 | 2,660 | 2,992 | 2,766 | 7,681 | 4,787 | 5,382 | 8,898 | 11,061 |

| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y flwyddyn hyd yma | % y newid dros y flwyddyn hyd yma | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid dros y flwyddyn hyd yma / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| % yr holl Archwiliadau Diogel ac Iach a gynhaliwyd ac a ddaeth drwy atgyfeiriad gan sefydliad partner | **2023-24** | **30.5%** | **23.9%** | **30.9%** | **20.4%** | **24.3%** | ↓ 49.1% | 51.2% | ↓ 52.5% |
| | 2022-23 | 35.2% | 30.2% | 47.6% | 30.0% | 47.8% | | | |

* Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

**Camau a gymerwyd i wella perfformiad Archwiliadau Diogel ac Iach yn ystod y flwyddyn ariannol:**

- Roedd nifer y ADI a gwblhawyd ar gyfer y flwyddyn 2023/24 yn 19,859, ac yn uwch na'r targed, gyda 4,838 o atgyfeiriadau gan asiantaethau eraill. Cwblhawyd 12,500 o'r archwiliadau gan griwiau gweithredol.

- Data Caerwysg: Mae pob Gwylfa bellach yn cwblhau gweithgaredd drws-i-ddrws am o leiaf awr y dydd, gan ddefnyddio'r data a ddarparwyd i helpu i sicrhau dull wedi'i dargedu'n well tuag at bobl dros 65 oed. Ganol Ch.4 gwellwyd y data ymhellach trwy gyflwyno dotiau oren i systemau mapio i ddynodi'r bobl hynny dros 70 oed a dotiau coch ar gyfer y rhai dros 75 oed.

- Cafodd y "dangosfwrdd" i ddarparu data cyfredol ei ddrafftio yn Ch.4 a bydd yn parhau i gael ei dreialu cyn ei lansio'n swyddogol i bob gorsaf. Bydd hyn yn caniatáu dull wedi'i dargedu'n fwy fyth i'r criwiau ac yn helpu i nodi meysydd i weithio, ac yn caniatáu i dimau ardal y Gwasanaeth Tân amlygu ardaloedd ar gyfer cynnal ymgyrchoedd.

- Mae "Diwrnodau Effaith" bellach yn cael eu cwblhau ym mhob ardal (un y mis), mae'r digwyddiadau amlasiantaethol hyn yn gweithio'n dda ac yn profi'n llwyddiannus. Defnyddir criwiau gweithredol yn y digwyddiadau hyn ac fe'u trefnir gan Reolwyr Gwylfa'r Gwasanaeth Tân yn yr ardal.


- Yn ystod Ch.4, cwblhaodd criwiau gwledig y system dyletswydd amser cyflawn hyfforddiant ychwanegol ar gyflawni ADI a bellach dyrannwyd y rhan fwyaf o'r holl atgyfeiriadau Isel a Chanolig iddynt sy'n arwain at alwad ffôn ADI.  Mae gofyn i bob aelod criw wneud o leiaf 5 galwad ffôn bob dydd tra ar ddyletswydd. Bydd hyn yn caniatáu mwy o amser i'r criwiau Criw Dydd ac Amser Cyflawn ganolbwyntio ar weithgaredd drws-i-ddrws gan ddefnyddio Data Caerwysg.

- Mae Rheolwyr Partneriaeth yn parhau i weithio gydag asiantaethau allanol i geisio sicrhau bod ansawdd yr atgyfeiriadau a dderbynnir mor uchel â phosibl ac wedi'u targedu gymaint ag y bo modd, mae hon yn dasg heriol a bydd yn cymryd amser.

- Bu un Gweithiwr Cefnogi Diogelwch yn y Cartref ar adleoliad dros dro i ardal y Dwyrain i helpu gyda'r ôl-groniad o ADI hwyr. Mae goramser yn cael ei ddefnyddio gan Weithwyr Cefnogi Diogelwch yn y Cartref ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol o ran rheoli'r rhestr aros. Defnyddiwyd 80 awr a arweiniodd at gwblhau 56 ADI blaenoriaeth uchel.

- Gwnaed newidiadau yn ystod Ch.4 i'r broses sgorio ADI i sicrhau pwysoli "oedran" yn briodol.

## 11 Argaeledd 18 Pwmp wedi'i Gynllunio




*Argaeledd 18 Pwmp wedi'i Gynllunio (Ar ôl Cynllunio)- perfformiad ym mlwyddyn ariannol 2023/24*

Er y cyrhaeddwyd argaeledd 18 pwmp 100% yn 2023/24, mae'r man cychwyn bob dydd yn dangos sefyllfa hollol wahanol.

Mae argaeledd ar benwythnosau ac ar Wyliau Banc bob amser yn sylweddol well nag yn ystod yr wythnos. Dros y flwyddyn gyfan, roedd argaeledd cyfartalog yn ystod yr wythnos yn 4.8 pwmp, tra oedd argaeledd cyfartalog ar benwythnosau yn 11.2 pwmp.

Ionawr oedd y mis gorau o ran y man cychwyn cyfartalog yn ystod yr wythnos gyda 6.7 pwmp, ac Awst oedd y gwaethaf gyda 3.2 pwmp.

Nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng unrhyw ddiwrnod o'r wythnos, gydag amrediad y gwahaniaeth yn 1 pwmp. Fel y gwelir o'r tablau isod, mae argaeledd ar Benwythnosau ac ar Wyliau Banc yn sylweddol uwch.

**Cyfartaledd yn ystod yr Wythnos**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 4.6 |
| Dydd Mawrth | 5.4 |
| Dydd Mercher | 5.2 |
| Dydd Iau | 4.3 |
| Dydd Gwener | 4.5 |

**Cyfartaledd ar Benwythnosau ac ar Wyliau Banc**

| | |
|---|---|
| Dydd Sadwrn | 9.3 |
| Dydd Sul | 12.6 |
| Dydd Gwener | 10.2 |
| Dydd Llun | 14.6 |
| Dydd Mawrth (Gŵyl San Steffan) | 17 |

*Cyfartaledd Argaeledd yn ystod yr Wythnos a Phenwythnosau/Gwyliau Banc ar gyfer Gorsafoedd System Dyletswydd Ar Alwad*

## 12 Absenoldeb Salwch

Nod y Gwasanaeth yw annog ei holl weithwyr i sicrhau bod eu presenoldeb yn y gwaith mor uchel â phosibl, gan gydnabod na fydd gweithwyr, o bryd i'w gilydd, yn gallu dod i'r gwaith oherwydd salwch.

Yn ôl Adroddiad Absenoldeb Salwch y Gwasanaeth Tân ac Achub Cenedlaethol ar gyfer Ebrill 2023 – Medi 2023, 4.43 diwrnod dyletswydd o absenoldeb salwch fesul aelod staff yw'r cyfartaledd, sy'n cyfateb i 5.82%. Mae GTAGC ychydig yn is na hyn, sef 5.03% ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24. Mae sawl her allweddol y mae pob gwasanaeth brys yn eu hwynebu o ran rheoli presenoldeb a chadw gweithwyr yn y gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys gofynion emosiynol a chorfforol sy'n unigryw, lle mae'n bosibl y bydd yn rhaid i staff gweithredol aros i ffwrdd o'r gwaith yn hirach oherwydd anafiadau corfforol o gymharu â'r rheini mewn rolau anweithredol. Hefyd, mae angen i staff gweithredol fod yn gorfforol heini a bodloni'r safon ffitrwydd genedlaethol i'w galluogi i gyflawni eu rôl yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae effaith hefyd o weithlu sy'n heneiddio lle mae pobl yn byw'n hirach ac yn fwy tebygol o ddioddef o broblemau iechyd sy'n cynnwys cyfnodau o absenoldeb cynyddol.

Mae'r Gwasanaeth yn cynnig ymyriadau iechyd a llesiant i gefnogi gweithwyr fel mesur ataliol, yn ystod cyfnod o absenoldeb ac i gynorthwyo gyda dychwelyd i'r gwaith. Mae Mesurau yn cynnwys y Polisi Rheoli Presenoldeb, gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol, Ffisiotherapi, Rhaglen Cymorth i Weithwyr, Safecall (llinell gymorth gyfrinachol annibynnol), Llinell Argyfwng Atal Hunanladdiad a rhaglenni eraill Elusen y Diffoddwyr Tân.

Mae pwyslais ar lesiant gweithwyr a hyrwyddo iechyd o fudd i weithwyr a'u cyflogwyr. Gall helpu i atal afiechyd, a chefnogi unigolion i gydbwyso gwaith gan leihau effaith unrhyw symptomau afiechyd ar yr un pryd, lle bo modd. Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i ddarparu cymorth lles i staff ac yn ogystal â'r ymyriadau uchod mae gennym rwydweithiau cymorth llesiant gan gynnwys Hyrwyddwyr Golau Glas, Cefnogwyr Cydweithiwr, Dadfriffwyr Digwyddiadau Critigol, a Rhwydweithiau Staff amrywiol.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24, roedd 913 o unigolion wedi'u cyflogi ar gyfartaledd gan GTAGC. Mae absenoldebau oherwydd salwch yn ystod hanner cyntaf blwyddyn ariannol 2023/24 yn cyfateb i gyfanswm o 5.08% o amser a gollwyd. Yn ystod Ch.4, gostyngodd nifer yr unigolion sy'n cael eu cyflogi gan GTAGC i  906 o unigolion ac roedd absenoldebau oherwydd salwch yn cyfateb i 4.80% o amser a gollwyd. Drwy gydol y flwyddyn 2023/24, mae nifer yr achosion o absenoldeb tymor byr wedi codi wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen gyda'r nifer uchaf o achosion yn ystod Ch.4, sy'n cyfateb i 1.19% o'r amser a gollwyd oherwydd salwch tymor byr o gymharu â chyfartaledd 0.91% dros y flwyddyn hyd yma. Mewn cyferbyniad, mae nifer yr achosion o salwch hirdymor wedi gostwng o Ch.1, gyda Ch.2 a Ch.3 yn aros yn sefydlog ac yna gostyngiad yn nifer yr achosion yn ystod Ch.4.

Sylwer, trwy gydol yr adroddiad, ni fydd nifer yr achosion yn y flwyddyn hyd yma yn swm y chwarteri oherwydd bydd absenoldebau rhai unigolion yn ymestyn ar draws chwarteri.

| | Achosion Ch.1 | Ch.1 % yr Amser a gollwyd | Achosion Ch.2 | Ch.2 % yr Amser a gollwyd | Achosion Ch.3 | Ch.3 % yr Amser a gollwyd | Achosion Ch.4 | Ch.4 % yr Amser a gollwyd | Achosion Blwyddyn hyd yma | % yr Amser a gollwyd y flwyddyn hyd yma |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Salwch Hirdymor** | 64 | 4.43% | 66 | 4.21% | 63 | 4.27% | 59 | 3.61% | 142 | 4.13% |
| **Salwch Tymor Byr** | 88 | 0.59% | 123 | 0.93% | 143 | 0.95% | 149 | 1.19% | 479 | 0.90% |
| **Cyfanswm** | **152** | **5.03%** | **189** | **5.14%** | **206** | **5.21%** | **208** | **4.80%** | **621** | **5.03%** |

**Tymor byr** yn golygu cyfnodau unigol o salwch o 27 diwrnod calendr neu lai.
**Hirdymor** yn golygu cyfnodau unigol o 28 diwrnod calendr neu fwy

Efallai y bydd rhai systemau dyletswydd yn gweld canran uwch o amser a gollwyd, er cofnodi llai o achosion o absenoldeb. Daw hyn o ganlyniad i'r ffaith bod llai o staff o fewn y system ddyletswydd honno. Mae'r cyfrifiad canran absenoldeb salwch yn gymesur â nifer y staff o fewn y system ddyletswydd honno.

| Salwch Hirdymor a Thymor Byr | Achosion Ch.1 | Ch.1 % yr Amser a gollwyd | Achosion Ch.2 | Ch.2 % yr Amser a gollwyd | Achosion Ch.3 | Ch.3 % yr Amser a gollwyd | Achosion Ch.4 | Ch.4 % yr Amser a gollwyd | Achosion Blwyddyn hyd yma | % yr Amser a gollwyd y flwyddyn hyd yma |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gorsafoedd System Dyletswydd Amser Cyflawn | 29 | 3.94% | 44 | 4.87% | 50 | 3.99% | 46 | 4.50% | 148 | 4.42% |
| System Dyletswydd ar Alwad | 80 | 6.19% | 92 | 5.68% | 100 | 6.00% | 97 | 5.33% | 291 | 5.81% |
| Gwledig | 2 | 4.30% | 4 | 4.35% | 2 | 4.25% | 1 | 1.40% | 8 | 3.58% |
| Ystafell Reoli | 9 | 8.09% | 12 | 9.14% | 12 | 8.37% | 13 | 9.21% | 39 | 8.80% |
| Rheolwyr System Dyletswydd Hyblyg | 6 | 5.11% | 6 | 2.91% | 8 | 2.48% | 10 | 2.45% | 24 | 3.23% |
| Adrannau Gweithredol | 3 | 1.10% | 2 | 2.45% | 7 | 8.26% | 4 | 6.06% | 12 | 4.51% |
| Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth | 1 | 0.22% | 0 | 0.00% | 2 | 0.29% | 2 | 0.51% | 5 | 0.26% |
| Adrannau Corfforaethol | 22 | 3.32% | 30 | 4.73% | 25 | 4.33% | 35 | 3.72% | 95 | 4.05% |
| **Cyfanswm** | **152** | **5.03%** | **189** | **5.14%** | **206** | **5.21%** | **208** | **4.80%** | **622** | **5.07%** |

## 12.1 Salwch Tymor Byr

Arweiniodd absenoldeb tymor byr at 0.91% o amser a gollwyd ar gyfartaledd yn ystod 2023/24.

| | Achosion Ch.1 | Ch.1 % yr Amser a gollwyd | Achosion Ch.2 | Ch.2 % yr Amser a gollwyd | Achosion Ch.3 | Ch.3 % yr Amser a gollwyd | Achosion Ch.4 | Ch.4 % yr Amser a gollwyd | Achosion Blwyddyn hyd yma | % yr Amser a gollwyd y flwyddyn hyd yma |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gorsafoedd System Dyletswydd Amser Cyflawn | 17 | 0.59% | 34 | 1.31% | 43 | 1.36% | 36 | 1.46% | 124 | 1.20% |
| System Dyletswydd ar Alwad | 44 | 0.62% | 57 | 0.81% | 62 | 0.80% | 64 | 1.10% | 214 | 0.83% |
| Gwledig | 1 | 0.20% | 4 | 4.35% | 1 | 0.79% | 1 | 1.40% | 6 | 1.69% |
| Ystafell Reoli | 7 | 1.49% | 9 | 1.49% | 9 | 1.81% | 9 | 1.44% | 33 | 1.33% |
| Rheolwyr System Dyletswydd Hyblyg | 3 | 0.26% | 1 | 0.08% | 6 | 0.96% | 8 | 0.72% | 17 | 0.50% |
| Adrannau Gweithredol | 2 | 0.20% | 0 | 0.00% | 3 | 0.76% | 1 | 0.76% | 6 | 0.43% |
| Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth | 1 | 0.22% | 0 | 0.00% | 2 | 0.29% | 2 | 0.51% | 5 | 0.26% |
| Adrannau Corfforaethol | 13 | 0.62% | 18 | 1.00% | 17 | 0.83% | 28 | 1.36% | 74 | 0.93% |
| **Cyfanswm** | **88** | **0.59%** | **123** | **0.93%** | **143** | **0.95%** | **149** | **1.19%** | **479** | **0.91%** |

Y 3 Rheswm Pennaf dros Absenoldeb Salwch Tymor Byr

| | Rheswm dros Absenoldeb | Achosion | % yr Amser a Gollwyd |
|---|---|---|---|
| 1 | Annwyd, Ffliw | 103 | 0.15% |
| 2 | Anadlol – Peswch a heintiau ar y frest | 37 | 0.07% |
| 3 | Covid-19 | 41 | 0.07% |

## 12.2 Salwch Hirdymor

Arweiniodd absenoldeb hirdymor at 4.17% o amser a gollwyd ar gyfartaledd yn ystod 2023/24.

| Salwch Hirdymor a Thymor Byr | Achosion Ch.1 | Ch.1 % yr Amser a gollwyd | Achosion Ch.2 | Ch.2 % yr Amser a gollwyd | Achosion Ch.3 | Ch.3 % yr Amser a gollwyd | Achosion Ch.4 | Ch.4 % yr Amser a gollwyd | Achosion Blwyddyn hyd yma | % yr Amser a gollwyd y flwydd yn hyd yma |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gorsafoedd System Dyletswydd Amser Cyflawn | 12 | 3.35% | 10 | 3.55% | 7 | 2.63% | 10 | 3.04% | 24 | 3.11% |
| System Dyletswydd ar Alwad | 36 | 5.53% | 35 | 4.87% | 38 | 5.20% | 33 | 4.23% | 77 | 4.96% |
| Gwledig | 1 | 4.10% | 0 | 0.00% | 1 | 3.46% | 0 | 0.00% | 2 | 1.89% |
| Ystafell Reoli | 2 | 6.81% | 3 | 7.65% | 3 | 6.56% | 4 | 7.78% | 6 | 7.53% |
| Rheolwyr System Dyletswydd Hyblyg | 3 | 4.86% | 5 | 2.83% | 2 | 1.52% | 2 | 1.74% | 7 | 2.73% |
| Adrannau Gweithredol | 1 | 0.90% | 2 | 2.45% | 4 | 7.50% | 3 | 5.31% | 6 | 4.19% |
| Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth | 0 | 0.00% | 0 | 0.00% | 0 | 0.00% | 0 | 0.00% | 0 | 0.00% |
| Adrannau Corfforaethol | 9 | 2.70% | 12 | 3.73% | 8 | 3.50% | 7 | 2.36% | 21 | 3.12% |
| **Cyfanswm** | **64** | **4.42%** | **66** | **4.21%** | **63** | **4.27%** | **59** | **3.61%** | **143** | **4.17%** |

Y 3 Rheswm Pennaf dros Absenoldeb Salwch Hirdymor

| | Rheswm dros Absenoldeb | Achosion | % yr Amser a Gollwyd |
|---|---|---|---|
| 1 | Cyhyrysgerbydol - coes/ffêr/troed | 29 | 0.88% |
| 2 | Methu Archwiliad Meddygol/Prawf Ffitrwydd | 15 | 0.52% |
| 3 | Cyhyrysgerbydol - Anhwylderau cefn ac asgwrn cefn | 12 | 0.48% |

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| Tanau | Mae pob tân yn perthyn i un o dri chategori – prif danau, tanau eilaidd neu danau simnai. |
| Prif Danau | Mae'r rhain yn danau nad ydynt yn danau simnai, ac sydd mewn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafanau a threlars, storfeydd awyr agored, offer a pheiriannau, eiddo amaethyddol a choedwigaeth, a strwythurau awyr agored eraill fel pontydd, blychau post, twneli, ac ati.<br><br>Mae tanau mewn unrhyw leoliad yn cael eu categoreiddio'n brif danau os oedden nhw'n cynnwys anafiadau, achub neu ddianc, ac felly hefyd danau mewn unrhyw leoliad yr aeth pump neu fwy o beiriannau tân atynt. |
| Tanau Eilaidd | Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn danau simnai nac yn brif danau.<br><br>Nid yw tanau eilaidd yn cynnwys anafiadau, achub na dianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynd at y digwyddiad.<br><br>Tanau eilaidd yw'r rhai a fyddai fel arfer yn digwydd mewn lleoliadau fel tir agored, mewn coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried – yn yr un ffordd ag eiddo amaethyddol a choedwigaeth – i fod yn brif danau), dodrefn awyr agored, goleuadau traffig, ac ati. |
| Tanau Simnai | Tanau mewn adeiladau wedi'u meddiannu yw'r rhain, lle mae'r tân wedi'i gyfyngu i strwythur y simnai, hyd yn oed os yw gwres neu ddifrod mwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun.<br><br>Nid yw tanau simnai yn cynnwys anafiadau, achub na dianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynd at y digwyddiad. |
| Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig | Digwyddiadau heb dân yw'r rhain lle mae angen presenoldeb peiriant tân neu swyddog ac maent yn cynnwys:<br><br>a) Argyfyngau lleol, e.e. llifogydd, digwyddiadau ar y ffordd, achub personau, 'gwneud yn ddiogel' ac ati;<br>b) Trychinebau mawr;<br>c) Digwyddiadau domestig, e.e. dŵr yn gollwng, pobl wedi'u cloi i mewn neu allan ac ati;<br>d) Trefniadau blaenorol i fynd at ddigwyddiadau, a all gynnwys darparu cyngor a chynnal archwiliadau. |
| Galwadau Diangen (canllawiau cyffredinol) | Pan fo'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynd i leoliad yn credu bod digwyddiad, ond ar ôl cyrraedd yn darganfod nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli, neu wedi bodoli.<br><br>Sylwer: os yw'r peiriant tân yn cael ei 'droi rownd' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, nid yw'n cael ei ystyried fel un yr aethpwyd ato ac nid oes angen rhoi gwybod amdano. |

| | |
|---|---|
| Galwadau Diangen – Maleisus | Mae'r rhain yn alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y Gwasanaeth Tân ac Achub i fynd at ddigwyddiad sydd ddim yn bodoli, gan gynnwys bwriadau maleisus bwriadol ac amheus. |
| Galwadau Diangen – Diffuant | Mae'r rhain yn alwadau a wneir gyda phob ewyllys da, gan gredu y byddai'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynd at dân go iawn neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig. |
| Galwadau Diangen – LTA | Mae'r rhain yn alwadau sydd wedi'u cychwyn gan larwm tân ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larwm wedi'i gychwyn yn ddamweiniol neu pan fo larwm yn gweithredu a pherson yn galw'r GTA yn rheolaidd fel rhan o drefniant sefydlog, h.y. heb unrhyw 'farn', er enghraifft galwad gan ganolfan alwadau diogelwch neu berson enwebedig mewn sefydliad. |
| Adeilad – Cartrefi | Eiddo sy'n fan preswyl, h.y. wedi'i feddiannu gan aelwydydd, ac eithrio gwestai, hosteli a strwythurau preswyl nad ydynt yn barhaol. |
| Adeilad – Amhreswyl | Eiddo megis ysbytai, swyddfeydd, siopau, ffatrïoedd, warysau, bwytai, sinemâu, adeiladau cyhoeddus, adeiladau crefyddol, adeiladau amaethyddol, gorsafoedd rheilffordd, siediau, neu garchardai. |
| Adeilad – Preswyl Arall | Eiddo fel gwestai, hosteli a sefydliadau preswyl, busnesau gwely a brecwast, cartrefi nyrsio/gofal, neuaddau preswyl myfyrwyr. |
| Cerbyd (Ffordd a Thrafnidiaeth Arall) | Cerbyd ffordd, cerbyd rheilffordd, awyren, cwch. |
| Awyr agored | Caeau, glaswelltir, coetir, cynwysyddion sbwriel, blychau post. |
| Tanau gwyllt | Tân glaswelltir, coetir a chnydau lle'r aeth 4 cerbyd neu fwy at y digwyddiad, neu lle bu'r Gwasanaeth yn bresennol am 6 awr neu fwy, neu lle amcangyfrifwyd bod ardal difrod y tân yn fwy na 10,000 metr sgwâr. |
| Salwch Tymor Byr (STS) | Absenoldebau 27 diwrnod calendr a llai. |
| Salwch Hirdymor (LTS) | Absenoldebau 28 diwrnod calendr a mwy. |

*This document is available in English*

**Eitem Agenda 11**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **15 Gorffennaf 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Anthony Jones, Pennaeth Cynllunio, Perfform a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024-2029 a Chynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2024-2025** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 i) Rhoi trosolwg o'r adborth a gafwyd o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar Gynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024-2029, Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2024-2025 a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) cysylltiedig; a

ii) Cheisio cymeradwyaeth ar gyfer fersiynau terfynol y dogfennau uchod.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 O dan Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Llywodraeth Cymru 2016, un o'r prif amcanion ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru yw mynd ati'n barhaus ac mewn modd cynaliadwy i leihau risg a gwella diogelwch dinasyddion a chymunedau.

3 Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) wneud trefniadau ar gyfer gwelliant parhaus wrth arfer ei swyddogaethau, drwy osod amcanion gwella iddo'i hun ym mhob blwyddyn ariannol yn erbyn o leiaf un o saith swyddogaeth. Mae'n rhaid ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch yr amcanion hyn.

4 Mae'n ofyniad statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i Gyrff Cyhoeddus gyhoeddi amcanion llesiant blynyddol ac adrodd yn flynyddol ar eu cynnydd tuag at gyflawni eu hamcanion llesiant.

5 Mae Cylchlythyr Tân ac Achub Llywodraeth Cymru W-FRSC(2024)06 yn cadarnhau y gellir cyflawni'r dyletswyddau o dan Fesur 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 drwy gyhoeddi un adroddiad.

6 Yn lle cynllun corfforaethol newydd, mae Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024-2029 wedi'i ddatblygu, wedi'i gefnogi gan y cyntaf o bum Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol (Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2024-2025). Nod y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol yw nodi risgiau sy'n wynebu'r gymuned ac mae'n disgrifio sut y bydd yr Awdurdod yn rheoli'r risgiau hynny, ac yn parhau i atal ac ymateb i danau ac argyfyngau eraill. Ysgrifennwyd yr amcanion i ystyried gofynion y ddau ddarn o ddeddfwriaeth y cyfeiriwyd atynt uchod.

7 Roedd cefnogaeth i bob un o'r egwyddorion mor uchel â 97% (Diogelu) a dim is na 91% (Amgylchedd).

8 Mae sylwadau testun rhydd wedi'u cynnwys air am air yn atodiadau'r adroddiad, ond ni fu unrhyw newidiadau sylfaenol i fersiwn drafft pob dogfen o ganlyniad i'r adborth.

**ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

9 Oherwydd bod cyfarfod yr Awdurdod mor agos at ddyddiad cau'r ymgynghoriad, nid yw'r papur hwn wedi bod gerbron yr Aelodau o'r blaen.

**ARGYMHELLIAD**

10 Bod yr Aelodau'n:

i) Nodi cynnwys yr adroddiad adborth; a
ii) Chymeradwyo Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024-2029, Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2024-25 a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cysylltiedig sydd ynghlwm i'w cyhoeddi.

**CEFNDIR**

11 Mae'r Awdurdod eisoes wedi amlinellu ei amcanion gwella a llesiant yng Nghynllun Corfforaethol 2021-24. Mae hwn bellach wedi dod i ben ac adroddir arno yn yr Asesiad Perfformiad Blynyddol yn ddiweddarach eleni.

**GWYBODAETH**

12 Gan ddefnyddio arfer gorau a fabwysiadwyd yn ystod ymgynghoriad cyhoeddus yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, mae Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024-2029, Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2024-2025 a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cysylltiedig i gyd wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus am gyfnod o ddeuddeng wythnos, a daeth y cyfnod hwnnw i ben ar 16 Mehefin 2024.

13 Defnyddiwyd holiadur arolwg, ar y cyd â nifer o sesiynau ymgysylltu wyneb yn wyneb, i gael adborth ar fabwysiadu Ein Pum Egwyddor ar gyfer Cadw Cymunedau'n Ddiogel a'r amcanion cysylltiedig.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024/29 a Chynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2024/25 yn cynnwys datganiad Llesiant fel sy'n ofynnol yn ôl y Ddeddf. |
| Cyllideb | Amherthnasol |
| Cyfreithiol | Mae Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024/29 a Chynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2024/25 wedi'u paratoi yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i baratoi a'i ddiweddaru yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus. |
| Risgiau | Mae'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol yn cefnogi trefniadau rheoli risg yr Awdurdod. |



Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

# Cynllun Rheoli Risg Cymunedol

## 2024 – 2029

**Ein pum egwyddor ar gyfer cadw cymunedau'n ddiogel**

**POBL** | **ATAL** | **DIOGELU** | **YMATEB** | **AMGYLCHEDD**

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 4 |
| Beth yw Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRRC)? | 6 |
| Monitro'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol | 6 |
| Gogledd Cymru | 7 |
| Eich Gwasanaeth Tân ac Achub | 10 |
| Ein Llywodraethiant a Deddfwriaeth | 14 |
| Ein Rhagolwg o'r Galw | 22 |
| Ein Dangosyddion Perfformiad | 24 |
| Sut Rydym yn Asesu Risg a Galw | 25 |
| Ein Risgiau | 27 |
| Ein Pum Egwyddor | 32 |
| Ein Hegwyddor Pobl | 34 |
| Diwylliant y Gwasanaeth | 36 |
| Ein Hegwyddor Atal | 38 |
| Ein Hegwyddor Diogelu | 40 |
| Ein Hegwyddor Ymateb | 42 |
| Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys | 44 |
| Ein Hegwyddor Amgylchedd | 46 |
| Ein Hamcanion – Crynodeb | 48 |
| Ein Cyllid | 50 |
| Ein Gwerthoedd | 51 |
| Dweud Eich Dweud | 52 |







Pobl Atal Diogelu Ymateb Amgylchedd
www.tangogleddcymru.llyw.cymru




# Rhagair

Mae Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân wedi datblygu Fframwaith Strategol gyda'r bwriad o ddarparu dull mwy cyson a safonol o gynllunio rheoli risg cymunedol (CRRC) ledled y DU. Y bwriad yw cynorthwyo i wneud penderfyniadau tryloyw a chyfiawnadwy a helpu'r Gwasanaethau Tân ac Achub i adnabod cyfleoedd i gydweithredu gyda sefydliadau partner yn haws.

Mae'r CRRC hwn yn disodli ein Cynllun Corfforaethol 2021-2024 ac yn mynegi'r risgiau sy'n wynebu ein cymunedau. Mae'n disgrifio sut y byddwn yn mynd i'r afael â'r risgiau hynny, ac yn parhau i atal tanau ac ymateb i danau ac argyfyngau eraill. Bydd y CRRC hwn wedi cael ei gynhyrchu mewn ymgynghoriad â'r cyhoedd, staff tân ac achub, partneriaid lleol a chyrff cynrychioliadol.

Bydd y cynllun hwn yn cwmpasu'r pum mlynedd rhwng 2024 a 2029 a bydd yn cael ein cefnogi gan gynlluniau gweithredu blynyddol a fydd yn nodi'r hyn rydym yn anelu i'w gyflawni bob blwyddyn, yn ogystal ag asesiadau blynyddol o'n cynnydd yn erbyn y cynlluniau hynny.

Mae cynnal ein gallu, drwy ein diffoddwyr tân ymroddedig, i ddarparu ymateb brys effeithiol, yn gofyn am amrywiaeth o wahanol fodelau staffio neu 'systemau dyletswydd', sy'n cael eu hesbonio'n fanylach ar dudalen 10.



**Dawn Docx**
Prif Swyddog Tân



**Dylan Rees**
Cadeirydd Awdurdod Tân



Ar hyn o bryd, dim ond mewn 8 o'n gorsafoedd tân wedi'u lleoli'n bennaf ar hyd coridor ffordd ddeuol yr A55 yn ein rhanbarth y mae gennym wasanaeth brys wedi'i warantu. Mewn mannau eraill yng Ngogledd Cymru, rydym yn dibynnu ar ddiffoddwyr tân rhan-amser neu ar-alwad, ond mae'n anodd sicrhau bod y rhain ar gael yn ystod y dydd.

Rydym yn gweithio'n galed i recriwtio a chadw'r diffoddwyr tân hyn ond mae angen i ni gael darpariaeth frys wedi'i gwarantu mewn ardaloedd mewndirol, er mwyn sicrhau y gallwn ddarparu criw ymateb o fewn yr amser ymateb gorau posibl ym mhob rhan o Ogledd Cymru. Mewn argyfwng, mae amser yn hanfodol.

Drwy ein Hadolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, rydym wedi bod yn archwilio senarios ar gyfer darparu gwasanaeth brys yn y dyfodol, gyda'r bwriad o wella'r ddarpariaeth bresennol. Mae mwy o fanylion am yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys i'w gweld ar dudalen 44.

Rydym yn ymdrechu'n barhaus i sicrhau'r diwylliant gorau yn ein sefydliad yn unol â'n gwerthoedd craidd ond rydym yn cydnabod na all unrhyw wasanaeth cyhoeddus fforddio bod yn hunanfodlon o ran sicrhau'r safonau uchaf posibl a ddisgwylir gan ein staff ac aelodau'r cyhoedd. Nid yw ond yn iawn ein bod yn cael ein dwyn i gyfrif yn hyn o beth, ac mae'n bwysig ein bod yn ystyried unrhyw argymhellion gan eraill sydd wedi cael adolygiadau o'u diwylliant. Mae'r ymrwymiad i ddiwylliant agored, cynhwysol a chroesawgar yn berthnasol i bob un ohonom.

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yw eich gwasanaeth tân ac achub.



# Beth yw Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRRC)?

O dan Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Llywodraeth Cymru, un o'r prif amcanion ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru yw mynd ati'n barhaus ac mewn modd cynaliadwy i leihau risg a gwella diogelwch dinasyddion a chymunedau.



Nod Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRRC) yw nodi risgiau sy'n wynebu'r gymuned a disgrifio sut y bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn rheoli'r risgiau hynny, ac yn parhau i atal ac ymateb i danau ac argyfyngau eraill.

Yn flaenorol, amlinellodd yr Awdurdod ei amcanion gwella a llesiant, fel sy'n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn ei Gynllun Corfforaethol 2021-2024.

Yn unol â datblygiad Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân o Fframwaith Strategol Cynllunio Rheoli Risg Cymunedol ac i adlewyrchu risg gymunedol, mae'r hyn yr ydym wedi cyfeirio atynt yn flaenorol fel amcanion corfforaethol wedi cael eu disodli gan set o bum Egwyddor. Trwy'r egwyddorion hyn, bydd yr Awdurdod yn parhau i gyflawni ei rwymedigaethau statudol o dan y Deddfau uchod a Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Llywodraeth Cymru 2016.

Mae ein Hegwyddorion yn cael eu hesbonio ar dudalen 32.

Lluniwyd y ddogfen hon mewn ymgynghoriad â'r Awdurdod Tân ac Achub, staff y Gwasanaeth Tân ac Achub, cyrff cynrychioliadol a phartneriaid lleol.

# Monitro'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol

Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRRC) 2024-2029 yw ein cynllun hirdymor i'n helpu i ddarparu Gwasanaeth effeithiol ac effeithlon. Bydd yn cael ei fonitro a'i adolygu'n flynyddol yn erbyn Asesiad Peryglon wedi'i ddiweddaru i sicrhau bod pob egwyddor a'r camau cysylltiedig yn parhau i fod yn addas i'r diben, yn unol â'r amserlen ar gyfer cyflawni ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Gwasanaeth ar y pryd.

Byddwn yn cynhyrchu ac yn cyhoeddi cynlluniau blynyddol i ddangos ein cynnydd.





# Gogledd Cymru

Mae Gogledd Cymru yn cwmpasu ardal o 6,172 cilomedr sgwâr a phoblogaeth o 687,000, ac mae ganddi dirwedd amrywiol, gan gynnwys Parc Cenedlaethol Eryri, sy'n fynyddig, ardaloedd arfordirol, cymunedau gwledig ac ardaloedd trefol mawr. Mae Gogledd Cymru'n cynnwys chwe sir: Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Mae'r A55 yn rhedeg trwy bump o'r chwe sir ac mae'n rhan o un o'r llwybrau hiraf yn Ewrop, sy'n rhedeg rhwng Caergybi a Dwyrain Ewrop.

## Ynys Môn



Gyda llawer o'r arfordir wedi'i ddatgan yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol mae Ynys Môn yn gyrchfan boblogaidd i dwristiaid yn ogystal â phorth i Weriniaeth Iwerddon ac ohoni trwy Borthladd Caergybi. Mae economi'r sir yn seiliedig yn bennaf ar amaethyddiaeth, ynni, a thwristiaeth.

## Gwynedd



Mae Gwynedd yn gartref i Barc Cenedlaethol Eryri a Phen Llŷn, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol arall, ac mae'n ffinio ag Ynys Môn ar draws Afon Menai a Cheredigion dros aber Afon Dyfi i'r de. Mae'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru yn y sir, ac mae'n cynnwys nifer o lynnoedd a chronfeydd dŵr mwyaf Cymru, gan gynnwys y mwyaf, Llyn Tegid yn y Bala.

## Conwy



Mae trefi arfordirol Bae Colwyn, Llandudno gyda'r pier a'r Gogarth a Thrwyn y Gogarth, a Chonwy gyda'i chei a'i chastell yn gyrchfannau poblogaidd i dwristiaid drwy gydol y flwyddyn. Mae trefi mewndirol fel Llanrwst a Betws-y-Coed yn cynnig gweithgareddau awyr-agored drwy gydol y flwyddyn i drigolion ac ymwelwyr. Mae daearyddiaeth yr ardal wedi'i siapio gan Afon Conwy, sy'n ffurfio dyffryn llydan i lawr hanner gorllewinol y sir.



## Sir Ddinbych

Diffinnir daearyddiaeth Sir Ddinbych gan ddyffryn llydan Afon Clwyd, gyda threfi Dinbych a Rhuthun wedi'u hamgylchynu gan fryniau tonnog ar bob ochr heblaw'r gogledd, lle mae'n cyrraedd yr arfordir, a threfi y Rhyl a Phrestatyn. Mae'r bryniau yn rhan o Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy ac mae'r economi wedi'i seilio ar amaethyddiaeth, magu defaid a ffermio llaeth yn bennaf, a thwristiaeth drwy gydol y flwyddyn.




## Sir y Fflint

Yr Wyddgrug yw canolfan weinyddol Sir y Fflint a chadarnle'r Gymraeg yn y sir. Mae'r arfordir ar hyd aber Afon Dyfrdwy wedi'i ddatblygu'n helaeth gan ddiwydiant ac mae arfordir y Gogledd wedi'i ddatblygu'n helaeth ar gyfer twristiaeth. Mae diwydiannau gweithgynhyrchu mawr yn cynnwys ffatri Toyota, melin bapur UPM ac Airbus UK ym Mrychdyn. Parc Solar Shotwick, Glannau Dyfrdwy yw'r aráe paneli solar ffotofoltäig mwyaf yn y DU ar hyn o bryd.




## Wrecsam

Wrecsam yw'r unig sir dirgaeedig yng Ngogledd Cymru ac mae'n gartref i Ystad Ddiwydiannol Wrecsam, Clwb Pêl-droed adnabyddus Wrecsam a charchar mwyaf y DU, CEM Berwyn. Mae'r sir yn rhan o Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Mae Traphont Ddŵr Pontcysyllte ger Cefn Mawr yn ddarn pwysig o seilwaith diwydiannol cynnar sydd wedi goroesi ac mae wedi'i dynodi'n Safle Treftadaeth y Byd UNESCO. Mae Mynyddoedd y Berwyn a Mynyddoedd Rhiwabon wedi'u dynodi'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA).





Mae adnabod Gogledd Cymru heddiw yn helpu'r Awdurdod i gynllunio i wneud newidiadau cadarnhaol ar gyfer y dyfodol.

### Poblogaeth





**22.0%**
o Gymru
Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

### Arwynebedd Km²





**29.7%**
o Gymru
Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

### Dwysedd Y Boblogaeth





**112**
Cyfartaledd Cymru yw
**150**
Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

### Anheddau





**22.6%**
o Gymru
Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

### Eiddo Annomestig





**26.7%**
o Gymru
Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

### Hyd Y Ffyrdd Km





**28.1%**
o Gymru
Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

### Arwynebedd Amaethyddol Km²




**31.1%**
o Gymru
Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

### Siaradwyr Cymraeg




**31.2%**
o Gymru
Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

# Eich Gwasanaeth Tân ac Achub

## Gwneud Gogledd Cymru yn ardal mwy diogel i **fyw ynddi, I weithio ynddi ac I ymweld â hi**

Mae'r Awdurdod yn cynnwys 28 o gynghorwyr etholedig o chwe awdurdod unedol Gogledd Cymru, gyda nifer y cynrychiolwyr yn cael ei bennu gan boblogaeth yr ardal. Mae mwy o wybodaeth am yr Awdurdod, ei aelodau a'i gyfrifoldebau ar gael yma.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cael ei arwain gan Brif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr a Thîm Arweinyddol y Gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys Uwch Swyddogion a Rheolwyr sy'n gyfrifol am adrannau sy'n gofalu am swyddogaethau gweithredol a chorfforaethol allweddol ein Gwasanaeth.

**Ymateb** - Mae ein diffoddwyr tân yn ymateb i danau, gwrthdrawiadau traffig ffyrdd ac argyfyngau eraill o 44 o orsafoedd tân ar draws Gogledd Cymru. Mae gennym 54 o injanau tân. Mae gan rai o'n gorsafoedd tân ddwy injan dân. Mae gan orsafoedd eraill gerbydau arbenigol fel peiriannau ag ysgol ac esgynlawr, cerbydau cefnogi digwyddiadau neu gychod, yn dibynnu ar y risg yn eu hardal.

Mae gennym gyfanswm o 54 injan dân, ond nid ydynt i gyd ar gael ar yr un pryd. Gall hyn fod oherwydd:


- bod criwiau'n ymgymryd â hyfforddiant gorfodol,
- digwyddiadau mawr sy'n gofyn am nifer o injanau tân, neu
- oherwydd nad oes gan injanau tân ar alwad ddigon o griw.

Am y rheswm hwnnw, rydym yn symud ein diffoddwyr tân o amgylch Gogledd Cymru yn gyson i sicrhau y gallwn gyrraedd digwyddiadau cyn gynted â phosibl waeth ble maent yn digwydd. Mewn achos o ddigwyddiad sylweddol neu hirhoedlog, gallwn hefyd alw am gymorth y gwasanaethau tân ac achub cyfagos os oes angen.

Mae gennym bedair system dyletswydd fel y gallwn griwio ein peiriannau tân yn seiliedig ar risgiau ac anghenion lleol. Mae'r ffordd yr ydym yn defnyddio ein diffoddwyr tân ar hyn o bryd yn ddarostyngedig i'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, gweler tudalen 35.

### Injanau Tân Amser Cyflawn

Mae diffoddwyr tân sy'n gweithredu'r system dyletswydd amser cyflawn wedi'u lleoli yn Wrecsam, Glannau Dyfrdwy a'r Rhyl. Mae criwiau yn y gorsafoedd hyn yn gweithio shifftiau o'r orsaf gyda'r nos ac yn ystod y dydd er mwyn darparu ymateb brys 24 awr. Yn ychwanegol, mae yna hefyd ddiffoddwyr tân ar alwad yn y gorsafoedd tân hyn.




### Injanau Tân Criw Dydd

Mae diffoddwyr tân ym Mae Colwyn, Llandudno, Bangor, Caernarfon a Chaergybi yn gweithio'r system dyletswydd criw dydd. Mae'r system shifft hon yn ei gwneud yn ofynnol i'n criwiau weithio cyfuniad o oriau yn yr orsaf yn ystod y dydd a pharhau i fod ar alwad o leoliad o fewn pum munud i'r orsaf dân dros nos, i ddarparu ymateb 24 awr. Mae yna hefyd ddiffoddwyr tân ar alwad yn y gorsafoedd tân hyn.

### Diffoddwyr Tân Gwledig Dyletswydd Amser Cyflawn

Mae diffoddwyr tân gwledig sy'n gweithredu'r system dyletswydd amser cyflawn yn gweithio shifftiau dydd 12 awr dros y rhanbarth ar sail ddeinamig yn dibynnu ar yr angen.

### Injanau Tân Ar Alwad

Mae ein diffoddwyr tân ar alwad sy'n gweithredu'r system dyletswydd ar alwad yn gweithredu ar draws ein holl orsafoedd tân ond mae'r mwyafrif wedi'u lleoli mewn gorsafoedd tân gwledig yn y rhanbarth. Mae'n ofynnol iddynt fyw neu weithio o fewn pum munud i'w gorsaf dân er mwyn ymateb i argyfyngau. Maent hefyd yn mynychu nosweithiau ymarfer unwaith yr wythnos ar gyfer sesiynau hyfforddi a dyletswyddau eraill a drefnwyd ymlaen llaw.

### Staff yr Ystafell Reoli

Pan fydd unrhyw un yng Ngogledd Cymru yn ffonio 999 / 112 ac yn gofyn am y gwasanaeth tân ac achub, byddant yn cael eu rhoi drwodd i staff rheoli yn y Ganolfan Gyfathrebiadau ar y Cyd yn Llanelwy.

Mae'r Ganolfan Gyfathrebiadau ar y Cyd yn gyfleuster cydweithredol lle mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn rhannu llawr gweithredol gyda Heddlu Gogledd Cymru. Fe agorwyd y cyfleuster hwn ym mis Hydref 2008, ac achub bywydau a lleihau anafiadau difrifol oedd y prif sbardun y tu ôl i'r ganolfan.  Mae'n cynrychioli dull arloesol o weithio ar y cyd gan y gwasanaethau brys, gan roi Gogledd Cymru ar flaen y gad o ran gweithrediadau 999.

Mae staff rheoli yn gyfrifol am anfon ein diffoddwyr tân allan ar unwaith ledled Gogledd Cymru ynghyd ag unrhyw offer arbenigol sydd eu hangen. Maent yn delio â miloedd o alwadau brys bob blwyddyn, a llawer yn rhai sy'n ymwneud â sefyllfaoedd sy'n bygwth bywydau. Maent wedi'u hyfforddi i ddelio â galwyr sy'n sownd yn rhywle ac yn cynnig cymorth i ddianc o dân.




**Mae'r timau canlynol yn hanfodol i sicrhau bod gan ein diffoddwyr tân y gallu i ymateb i argyfyngau a chyflawni ein mentrau diogelwch cymunedol, yn ogystal â sicrhau bod y Gwasanaeth yn gweithredu o fewn y gyllideb, ac yn cyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol a'i gyfrifoldebau adrodd statudol:**

**Adnoddau Dynol a Chymorth Busnes** - yn rheoli, recriwtio, sefydlu a llesiant ac yn rhoi cyngor ar gysylltiadau â gweithwyr, disgyblaeth, cwynion, gwerthuso swyddi, a chydymffurfiaeth gyfreithiol.

**Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid** - yn cyhoeddi cynlluniau tymor hir statudol, asesiadau o berfformiad ac adroddiadau monitro ar ran yr Awdurdod Tân. Mae'r tîm hefyd yn goruchwylio Parhad Busnes, Risg Strategol a Rheoli Prosiectau ac yn arwain prosiectau trawsnewidiol strategol fel yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys.

**Hyfforddiant a Datblygu** - yn gyfrifol am hyfforddi personél gweithredol mewn meysydd sgiliau critigol o ran risg. Mae hefyd yn gyfrifol am gynnal achrediad ar gyfer dyfarnu cymwysterau, Iechyd, Ffitrwydd a Llesiant, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, Datblygu i Gymhwysedd, Arweinyddiaeth a Rheolaeth a'r datblygiad proffesiynol ar gyfer yr holl staff.

**Cyfathrebiadau Corfforaethol** - yn sicrhau bod negeseuon y Gwasanaeth yn cael eu gweld, eu clywed a'u deall. Mae'r tîm yn cynnal enw da'r Gwasanaeth gyda'r nod o ennill dealltwriaeth, dylanwadu ar farn ac ymddygiad ac yn sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal, er mwyn gallu cynnig dewis iaith i'r cyhoedd a'n staff, a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

**Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu** - yn sicrhau bod seilwaith TGCh hanfodol y Gwasanaeth yn cael ei amddiffyn rhag seiber-ymosodiadau ac yn hwyluso'r defnydd gorau o'r offer digidol sydd ar gael i staff y Gwasanaeth.

**Atal a Diogelu** - yn canolbwyntio ar ddiogelwch yn y cartref a'r gymuned, a diogelwch tân amhreswyl. Mae staff atal yn darparu cyngor diogelwch tân a chyngor iechyd a llesiant i aelwydydd, addysg diogelwch ffyrdd a dŵr, mentrau lleihau tanau bwriadol, ymgysylltu â phobl ifanc a rheoli gwirfoddolwyr. Mae staff diogelu yn sicrhau bod busnesau'n cyflawni eu rhwymedigaethau diogelwch tân statudol, trwy ymweliadau safle, ymgysylltu a, lle bo angen, gorfodi.

**Cyllid a Chaffael** - yn gyfrifol am dalu ein staff, talu anfonebau cyflenwyr, gweithrediad y prif Storfeydd, cynorthwyo i brynu nwyddau a gwasanaethau, a chynhyrchu gwybodaeth statudol gan gynnwys y Datganiad Cyfrifon.


**Fflyd a Pheirianneg** - yn dylunio, prynu, cynnal ac atgyweirio'r fflyd o beiriannau, cerbydau ac offer brys a darparu gwasanaeth galw allan brys 24 awr i sicrhau bod peiriannau ac offer tân rheng flaen ar gael yn barhaus i ymateb i ddigwyddiadau.

**Gweithrediadau Technegol** - yn sicrhau Iechyd a Diogelwch diffoddwyr tân drwy ddatblygu a mabwysiadu polisïau a gweithdrefnau gweithredol, gan gynnwys y Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol, Dysgu Sefydliadol ar y Cyd a Safonau Tân.

# Ein Llywodraethiant a Deddfwriaeth

Fel pob corff yn y sector cyhoeddus, rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru weithredu yn unol â nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth, sy'n cynnwys:

| |
|---|
| **Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004** |
| **Gorchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Argyfyngau) (Cymru) 2007** |
| **Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974** |
| **Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004** |
| **Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005** |
| **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009** |
| **Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) Rheoliadau 2011** |
| **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011** |
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** |
| **Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Llywodraeth Cymru 2016** |
| **Gorchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Argyfyngau) (Cymru) (Diwygio) 2017** |
| **Deddf Diogelu Data 2018** |
| **Y Ddyletswydd Trais Difrifol 2022** |
| **Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023** |








# Datganiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi "Dylai pob Gwasanaeth Cyhoeddus weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau."

Rydym wedi ymrwymo i gyflawni ein dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Trwy gydol datblygiad ein Cynllun Rheoli Risg Cymunedol, ystyriwyd nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i sicrhau ein bod yn cyfrannu at eu cyflawniad.

Bydd ein Hamcanion Gwella a Llesiant (a ddiffinnir o dan Adran Beth ydym yn bwriadu ei wneud yn ystod oes y cynllun hwn? Ein Hegwyddorion, tudalennau 32-47) yn ein helpu i gyflawni'r saith nod llesiant mewn sawl ffordd. Rydym wedi sicrhau bod y camau gweithredu ar gyfer ein Hamcanion Gwella a Llesiant wedi'u datblygu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Mae'r tabl canlynol yn esbonio sut mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi gosod amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor hon.

Trwy ein Hegwyddorion Atal a Diogelu, byddwn yn cyfrannu tuag at **Gymru Lewyrchus** drwy weithio'n arloesol i gadw pobl yn fwy diogel yn eu cartrefi a'u busnesau. Trwy leihau'r costau sy'n gysylltiedig â marwolaethau, anaf, difrod a tharfu yn sgil tân, byddwn yn gwella ein cefnogaeth i economïau lleol Gogledd Cymru. Trwy ein Hegwyddor Pobl, byddwn yn recriwtio, datblygu a chadw gweithlu dwyieithog, medrus a brwdfrydig iawn sy’n cynrychioli ac yn hyrwyddo amrywiaeth y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu a byddwn yn mabwysiadu arferion ecogyfeillgar yn ein gweithrediadau dyddiol i leihau allyriadau carbon fel rhan o'n Hegwyddor Amgylcheddol.

Mae ein Hegwyddor Amgylcheddol a'n hamcanion sylfaenol yn cyfrannu tuag at **Gymru Gydnerth** trwy fabwysiadu arferion ecogyfeillgar yn ein gweithrediadau beunyddiol i leihau allyriadau carbon ac effeithiau amgylcheddol eraill a thrwy godi ymwybyddiaeth amgylcheddol ymhlith ein staff a'n cymunedau.

Byddwn yn cyfrannu at **Gymru Iachach** drwy ein Hegwyddor Atal drwy ddarparu archwiliadau diogel ac iach i'n dinasyddion mwyaf agored i niwed a gwneud i bob cyswllt gyfrif drwy rannu unrhyw bryderon iechyd a llesiant a nodwyd gyda phartneriaid perthnasol. Trwy ein Hegwyddor Pobl byddwn yn cefnogi ein gweithlu i fod yn ffit yn gorfforol ac yn wydn yn feddyliol a thrwy ein Hegwyddor Ymateb byddwn yn gwella darpariaeth frys yn ein hardaloedd mwy gwledig, llai poblog.

Trwy ein Hegwyddor Pobl byddwn yn nodi ac yn gwneud y mwyaf o botensial staff drwy reoli a datblygu pobl yn effeithiol, gan arwain at ddiwylliant o berfformiad uchel, lle mae pobl yn gwerthfawrogi ac yn parchu ei gilydd, a thrwy hynny gyfrannu at **Gymru sy'n fwy cyfartal**.

Trwy ein Hegwyddorion Atal, Diogelu, Ymateb ac Amgylcheddol, byddwn yn cyfrannu at **Gymru o Gymunedau Cydlynus** gan sicrhau bod tanau mewn cartrefi, busnesau neu ar dir agored naill ai'n cael eu hatal neu fod eu heffaith yn cael ei lleihau cyn belled ag y bo modd.

Byddwn yn cyfrannu at **Gymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu**, drwy ein Hegwyddor Pobl drwy gynnig mynediad i'n gwasanaethau a'r gallu i gyfathrebu â ni yn Gymraeg a byddwn yn cefnogi ein staff i siarad eu dewis iaith yn y gweithle a chynnig cyfleoedd i staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg. Trwy ein Hegwyddor Diogelu, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid lleol i gadw safleoedd ac adeiladau treftadaeth yn ddiogel rhag tân.

Byddwn yn chwarae ein rhan mewn **Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang** drwy ein hegwyddorion amgylchedd a diogelu. Byddwn yn lleihau ein hallyriadau carbon ein hunain trwy newid ein fflyd o Injanau Tân Diesel i redeg ar Olew Llysiau Hydrogenedig, prynu dim ond ceir a faniau allyriadau sero neu isel iawn a dileu gwres nwy ac LPG o'n hystad yn raddol. Trwy ein gwaith Diogelu, byddwn yn ceisio osgoi neu gyfyngu ar allyriadau nwyon niweidiol i'r atmosffer o ganlyniad i danau gwastraff diwydiannol neu amgylcheddol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd yn nodi’r pum ffordd ganlynol o weithio y mae’n rhaid i ni eu hystyried a gweithredu yn unol â nhw wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau:

### Cydbwyso anghenion tymor byr gydag anghenion hirdymor

Mae edrych i’r hirdymor yn ein Cynllun 2024-29 yn ein galluogi i ystyried sut y bydd tueddiadau a newidiadau yn y dyfodol yn effeithio ar y cyhoedd a’n gwasanaethau, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd, newidiadau demograffeg a ragwelir sef poblogaeth sy’n heneiddio a chyfyngiadau ariannol sy’n effeithio ar wasanaethau cyhoeddus.

### Neilltuo adnoddau i atal problemau

Mae ein gwaith ataliol yn amrywio o weithio gyda busnesau a pherchnogion adeiladau i wneud safle’n ddiogel, i weithio gydag unigolion a grwpiau i newid ymddygiad, a’r cyfan gyda’r nod o atal yr angen am ymateb brys.

### Defnyddio dull integredig, gan gydbwyso anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol

Mae ein proses gynllunio yn cael ei chynnal ar y cyd drwy gynnwys rhanddeiliaid amrywiol gan gynnwys ein staff, ein partneriaid ac aelodau’r cyhoedd i sicrhau bod effaith cynigion yn cael ei harchwilio’n llawn.

### Cydweithio ag eraill i helpu i gyflawni amcanion llesiant

Rydym yn gweithio gydag ystod eang o bartneriaid ar lefel strategol a lleol, gan gynnwys y Fforwm Lleol Cymru Gydnerth a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, i ddatblygu a darparu dulliau lliniaru risg.

### Cynnwys eraill i adlewyrchu amrywiaeth ardal

Mae ein gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu yn sicrhau bod cyfleoedd i’r cyhoedd, gwleidyddion etholedig lleol, asiantaethau partner a’n staff gyfrannu barn a syniadau.

## Ein Datganiad Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

Ers mis Mawrth 2021, bu’n rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ystyried sut mae penderfyniadau strategol yn effeithio ar y rhai hynny sy’n byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol, er enghraifft, yn profi tlodi neu fynediad anghyfartal i wasanaethau fel trafnidiaeth. Gall anfantais o’r fath arwain at anghydraddoldebau mewn canlyniadau gan gynnwys iechyd gwaeth, cyrhaeddiad addysgol is, a chyfleoedd gwaith llai ffafriol.

Felly, rydym yn rhoi sylw dyledus i anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol, sy'n cyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r cynllun hwn wedi bod yn destun Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i sicrhau ei fod yn deg ac nad yw'n cyflwyno rhwystrau i gyfranogiad neu anfantais i unrhyw grwpiau gwarchodedig rhag cymryd rhan yn ystod ymgynghori a gweithredu.

## Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Cymru 2021

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol bob pum mlynedd. Mae'r Adroddiad yn rhoi trosolwg o bedwar ysgogwr newid mawr:

- Pobl a Phoblogaeth,
- Anghydraddoldebau,
- Iechyd a Therfynau'r Blaned,
- Technoleg

Mae'r ysgogwyr newid hyn yn debygol o effeithio ar allu Cymru i gyflawni'r saith nod llesiant, a chyfeiriwyd atynt wrth ddatblygu'r cynllun hwn.

## Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

Rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru wneud trefniadau ar gyfer gwelliant parhaus wrth arfer eu swyddogaethau, drwy osod amcanion i'w hunain ym mhob blwyddyn ariannol yn erbyn o leiaf un o saith swyddogaeth.

Isod, rydym wedi nodi pa un o'n hamcanion gwella a llesiant, a amlinellir o dan adran *Beth ydym yn bwriadu ei wneud yn ystod oes y cynllun hwn?* Ein Hegwyddorion, a fydd yn ein cefnogi i gyflawni yn erbyn y swyddogaethau hyn;

| | |
|---|---|
| **Effeithiolrwydd Strategol** | Pob Un o'n Hegwyddorion |
| **Ansawdd Gwasanaethau** | Ein Hegwyddorion Atal, Diogelu ac Ymateb |
| **Argaeledd Gwasanaethau** | Ein Hegwyddor Ymateb |
| **Tegwch** | Ein Hegwyddorion Atal, Diogelu ac Ymateb |
| **Cynaliadwyedd** | Ein Hegwyddor Amgylchedd |
| **Effeithlonrwydd** | Pob Un o'n Hegwyddorion |
| **Arloesi** | Pob Un o'n Hegwyddorion |

## Fframwaith Cenedlaethol Gwasanaethau Tân ac Achub Llywodraeth Cymru 2016

Mae'r Fframwaith hwn yn amlinellu mai prif nod Awdurdodau Tân ac Achub ddylai fod i gadw pobl, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd yng Nghymru yn ddiogel rhag tanau a pheryglon eraill mor effeithiol ac effeithlon â phosibl.



I gefnogi'r nod hwnnw, mae'r Fframwaith yn nodi'r amcanion allweddol canlynol ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub

- Mynd ati'n barhaus ac mewn modd cynaliadwy i leihau risg a gwella diogelwch dinasyddion a chymunedau – Mae ein Hegwyddorion Atal a Diogelu yn cefnogi cyflawni'r amcan hwn.
- Ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i ddigwyddiadau - Mae ein Hegwyddor Ymateb yn cefnogi cyflawni'r nod hwn.
- Bod yn atebol mewn modd eglur ac yn gyhoeddus am gyflenwi a chyllido, gan ddangos y safonau llywodraethu uchaf - Mae ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol, Asesiad o Berfformiad Blynyddol a Chyhoeddi Datganiad Cyfrifon yr Awdurdod yn cefnogi cyflawni'r amcan hwn.
- Cynnal pwysau tuag i lawr ar gostau ac achub ar bob cyfle i gyflawni arbedion effeithlonrwydd - Mae ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol, Asesiad o Berfformiad Blynyddol a Chyhoeddi Datganiad Cyfrifon yr Awdurdod yn cefnogi cyflawni'r amcan hwn.
- Cydweithio'n effeithiol gyda phartneriaid i wella effeithlonrwydd a llesiant dinasyddion a chymunedau - Mae ein Hegwyddorion Atal a Diogelu yn cefnogi cyflawni'r amcan hwn.
- Gwerthfawrogi a datblygu'r gweithlu i'r safonau uchaf – Mae ein Hegwyddor Pobl yn cefnogi cyflawni'r amcan hwn.

## Mesur Y Gymraeg (Cymru) 2011

Mae Mesur Y Gymraeg (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i'r ieithoedd Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth gyfoethog ein cymunedau ac arwyddocâd ein treftadaeth ddiwylliannol. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru.

Cyflwynodd Comisiynydd y Gymraeg eu Hysbysiadau Cydymffurfio i'r Awdurdod Tân ac Achub ar 30 Medi 2016. Mae'r ddogfen hon yn rhestru pa rai o Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i'r Awdurdod ac yn rhoi manylion am y gwasanaethau y gall dinasyddion ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg.

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n dangos sut rydym yn cydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg.

## Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) Rheoliadau 2011

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff y sector cyhoeddus, wrth arfer eu swyddogaethau, roi sylw dyledus i'r angen i:

- Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu o dan y Ddeddf hon.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.
- Meithrin perthynas dda rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gyhoeddi amcanion cydraddoldeb, er mwyn galluogi'r awdurdod i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol yn well a rhaid iddo adolygu ei amcanion cydraddoldeb bob pedair blynedd. Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn bodloni'r gofyniad hwn drwy gyhoeddi cynnydd yn erbyn ei amcanion cydraddoldeb bob blwyddyn.

## Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau)

Yn ogystal â'r dyletswyddau a osodir ar gyrff cyhoeddus unigol, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob ardal awdurdod lleol ffurfio Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC).

O ran yr ardal a gwmpesir gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, sefydlwyd tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:

- Gwynedd a Môn.
- Conwy a Sir Ddinbych.
- Sir y Fflint a Wrecsam.

Mae pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cyhoeddi 'Cynllun Llesiant' i nodi eu blaenoriaethau a sut maent yn gweithio i gyflawni'r blaenoriaethau hynny yn eu hardaloedd.

## Amcanion Gwynedd a Môn

- Rydym am weithio gyda'n gilydd i liniaru effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau.
- Rydym am weithio gyda'n gilydd i wella lles a llwyddiant ein plant a phobl ifanc er mwyn gwireddu eu llawn botensial.
- Rydym am weithio gyda'n gilydd i gefnogi ein gwasanaethau a'n cymunedau i symud tuag at Sero Net Carbon.

## Amcanion Conwy a Sir Ddinbych

- Gwneud Conwy a Sir Ddinbych yn lle mwy cyfartal gyda llai o amddifadedd. Rydym hefyd wedi nodi pedair thema allweddol i gefnogi ein prif amcan, gan gynnwys:
- Llesiant - Mae cymunedau'n hapusach, yn fwy iach ac yn fwy gwydn i wynebu heriau, megis yr Argyfwng Newid Hinsawdd a Natur, neu'r cynnydd mewn costau byw.
- Economi – Mae yna economi ffyniannus, a gefnogir gan weithlu medrus sy'n barod at y dyfodol.
- Cydraddoldeb – Mae'r rhai â nodweddion gwarchodedig yn wynebu llai o rwystrau.
- Tai – Mae gwell mynediad at dai o ansawdd da.

## Amcanion Sir y Fflint a Wrecsam

- Datblygu cymunedau sy'n ffynnu drwy leihau anghydraddoldebau ar draws yr amgylchedd, addysg, cyflogaeth, incwm a thai.
- Gwella lles cymunedol drwy alluogi pobl o bob oed i fyw bywydau diogel, iach ac annibynnol.

Rydym yn parhau i weithio gyda'r BGCau a'u cefnogi yn ein hardal. Bydd hyn yn cynnwys meincnodi ein gweithgareddau yn erbyn pob un o'r uchod er mwyn cael gwell dealltwriaeth o sut y gallwn fod yn aelodau effeithiol o'n Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, cydweithio a defnyddio dull integredig o ddarparu gwasanaethau, i helpu pobl deimlo'n ddiogel ac yn iach yn eu bywydau bob dydd.

Mae ein gwaith gyda'r BGCau yn dangos ein hymrwymiad i egwyddor datblygu cynaliadwy DLlCD, saith nod DLlCD a chymhwyso'r pum ffordd o weithio. Mae mwy o wybodaeth am y BGCau i'w gweld drwy ddilyn y dolenni isod;

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam




# Ein Rhagolwg o'r Galw

Mae rhagweld yn dechneg sy'n defnyddio data hanesyddol fel mewnbynnau i wneud amcangyfrifon gwybodus sy'n rhagfynegol wrth bennu cyfeiriad tueddiadau'r dyfodol. Mae'r fethodoleg hon wedi'i chymhwyso i'r gweithgareddau canlynol i ragweld lefel y galw y gallem ei wynebu yn ystod oes y cynllun hwn. Gall hyn hefyd ein cynorthwyo i lunio ein cynlluniau buddsoddi cyfalaf 10 mlynedd a refeniw 3 blynedd.

| **Y Galw Gweithredol Blynyddol Cyfartalog Presennol** *Yn seiliedig ar ddata o 2019-20 i 2022-23 | **Categori** | **Y Galw Gweithredol Blynyddol Cyfartalog a Ragwelir** 2024-25 i 2028-29 |
|---|---|---|
| **5,161** | Digwyddiadau yr Aethpwyd Atynt | **5,702** |
| **1,806** | Tanau | **1,299** |
| **349** | Tanau Damweiniol mewn Cartrefi | **247** |
| **200** | Tanau mewn Eiddo Annomestig | **156** |
| **498** | Tanau Bwriadol | **412** |
| **2,441** | Galwadau Diangen | **2,678** |
| **2,399** | Galwadau Diangen gan Offer | **2,642** |
| **727** | Digwyddiadau Brys Eraill | **1,593** |
| **188** | Gwrthdrawiadau Traffig Ffyrdd | **356** |
| **521** | Tanau Cerbydau | **667** |
| **87** | Llifogydd | **Methu rhagweld** |
| **24** | Tanau Gwyllt | **22** |
| **15,537** | Archwiliadau Diogel ac Iach a Gwblhawyd | **17,500** |



# Proffil Ein Galw




**Digwyddiadau fesul awr ar gyfartaledd**

Categori Digwyddiad - Glas: Galwad Diangen, Coch: Tân, Gwyrdd: Gwasanaeth Arbenigo



# Ein Dangosyddion Perfformiad

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn amlinellu dyletswydd Awdurdodau Tân ac Achub i gasglu gwybodaeth sy'n ymwneud â pherfformiad a defnyddio'r wybodaeth honno i gymharu eu perfformiad mewn blynyddoedd blaenorol a chyda sefydliadau tebyg.

Mae gan Awdurdodau Tân ac Achub ddyletswydd gyfreithiol i gasglu ac adrodd ar ddata ar gyfer y dangosyddion statudol a nodir isod.

| | | 2022-23 | | 2023-24 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cyfanswm** | **Fesul 10,000** | **Cyfanswm** | **Fesul 10,000** |
| **1** | Nifer y tanau yr aethpwyd atynt fesul 10,000 o'r boblogaeth | **2,011** | **29.27** | **1,657** | **24.08** |
| | Nifer y galwadau diangen yr aethpwyd atynt fesul 10,000 o'r boblogaeth | **2,674** | **38.92** | **2,901** | **42.15** |
| | Nifer y gwrthdrawiadau ar y ffyrdd yr aethpwyd atynt fesul 10,000 o'r boblogaeth | **234** | **3.41** | **251** | **3.65** |
| | Nifer y digwyddiadau eraill yr aethpwyd atynt fesul 10,000 o'r boblogaeth | **977** | **14.22** | **1,127** | **16.38** |
| | | **Cyfanswm** | **Fesul 100,000** | **Cyfanswm** | **Fesul 100,000** |
| **2** | Nifer y marwolaethau a'r anafiadau yn sgil pob tân fesul 100,000 o'r boblogaeth. | **40** | **5.82** | **44** | **6.39** |
| | Nifer y marwolaethau a'r anafiadau yn sgil tanau a ddechreuwyd yn ddamweiniol fesul 100,000 o'r boblogaeth. | **35** | **5.09** | **40** | **5.81** |
| **3** | Canran y tanau cartref wedi'u cyfyngu i'r ystafell wreiddiol. | **86.84%** | | **90.88%** | |






# Sut Rydym yn Asesu Risg a Galw

Wrth baratoi ein Cynllun Rheoli Risg Cymunedol fe wnaethom adolygu ystod eang o ffynonellau gwybodaeth ar lefel Cymru a'r Deyrnas Unedig, megis Cofrestr Risg Genedlaethol y DU, Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Cymru a Chofrestr Risg Cymunedol Gogledd Cymru.



Rydym wedi adolygu ein data ein hunain a data partneriaeth sy'n ymwneud â digwyddiadau hanesyddol yr adroddwyd amdanynt, i nodi'r peryglon sy'n debygol o gael effaith ar ddarparu gwasanaethau Tân ac Achub yng Ngogledd Cymru yn y dyfodol.

Mae hyn yn ystyried pryd a lle mae digwyddiadau'n digwydd, proffil cymdeithasol-ddemograffig pobl yr effeithir arnynt yn ogystal â natur yr adeiladau, cerbydau neu'r amgylcheddau dan sylw. Ystyriwyd bygythiadau sy'n dod i'r amlwg, fel technoleg, a heriau esblygol newid yn yr hinsawdd hefyd.

Rydym wedi ymgynghori â'n staff, cyrff sy'n cynrychioli staff a'n partneriaid allweddol, yn ogystal ag adolygu ein cofrestr risg strategol i benderfynu ar y risgiau mwyaf arwyddocaol wrth baratoi'r ddogfen ymgynghori hon.

Yna fe wnaethom ddadansoddi'r holl wybodaeth hon a defnyddio barn broffesiynol i nodi'r risgiau mwyaf i'n cymunedau, ein staff a'n lleoedd. Ar ôl nodi'r risgiau, fe wnaethom adolygu ein strategaethau presennol i ystyried pa mor effeithiol oeddynt o ran lliniaru yn erbyn y risgiau hynny. Lle mae bylchau, rydym yn datblygu dulliau penodol o liniaru'r risgiau hynny ymhellach. Mae'r dull hwn yn dilyn yn agos Fframwaith Strategol Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân ar gyfer Cynllunio Rheoli Risg Cymunedol.

Mae ymateb yn effeithiol i rai o'r risgiau yn golygu gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau brys eraill, awdurdodau lleol, darparwyr iechyd ac asiantaethau partner. Mae'r partneriaid hyn yn cael eu dwyn ynghyd drwy Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Gogledd Cymru i baratoi ac ymateb i ystod o argyfyngau. Rydym yn profi'r cynlluniau hyn yn rheolaidd mewn ymarferion hyfforddi ar y cyd.

Mae Fforymau Lleol Cymru Gydnerth yn cynhyrchu Cofrestr Risg Cymunedol (CRRC), sy'n tynnu sylw at risgiau posibl sy'n wynebu'r ardal. Mae'r risgiau a amlinellir yn y cynllun hwn yn cynnwys rhai o'r rhai a nodwyd yn y CRRC a'r Gofrestr Risg Genedlaethol wedi'i diweddaru gan y llywodraeth, yn ogystal â rhai risgiau tân ac achub mwy penodol.

**Diffinio sgôp**

Deall beth mae'r broses CRRC angen i lwyddo.

**Adnabod Peryglon**

Disgrifio peryglon cymunedol a phwy sydd mewn perygl.

**Dadansoddiad Risg**

Asesu tebygolrwydd a chanlyniad risg.

**Gwneud Penderfyniadau**

Penderfynu ar y camau i leihau risg.

**Gwerthuso**

Gwirio os ydi'r CRRC yn gweithio fel y cynlluniwyd.




Yn ogystal â'r gofyniad statudol i adrodd ar ddangosyddion perfformiad i Lywodraeth Cymru, datblygwyd cyfres o fesurau i fonitro effeithiolrwydd ein tactegau yn erbyn y risgiau hynny ac mae'r rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan yr Uwch Dîm Arweinyddol a'r Awdurdod Tân ac Achub.

Dim ond drwy weithio mewn partneriaeth â'n cymunedau, busnesau lleol a phartneriaid gwasanaethau cyhoeddus eraill y gellir sicrhau gostyngiad cynaliadwy mewn digwyddiadau sy'n gysylltiedig â risg. Rydym yn aelodau o'r Fforwm Lleol Cymru Gydnerth, Byrddau Gwasanaeth Partneriaeth a Grŵp Lleihau Anafiadau y Bartneriaeth Strategol.



# Ein Risgiau

## Twristiaeth

Mae'r sector twristiaeth a lletygarwch yn rhan allweddol o seilwaith economaidd Gogledd Cymru. Gydag ymwelwyr o weddill y DU a thramor, mae'r boblogaeth gyffredinol, ac felly'r risg o danau, gwrthdrawiadau traffig ffyrdd ac argyfyngau eraill, yn cynyddu'n sylweddol yn ystod y tymor twristiaeth.

## Tanau Damweiniol mewn Cartrefi




Mae dadansoddiad o'n data digwyddiadau yn dod i'r casgliad yn gyson mai'r hynaf ydych chi, y mwyaf tebygol fyddwch chi o ddioddef anaf difrifol neu farw os oes tân yn eich cartref. Mae dros 40% o'r holl danau mewn cartrefi yn cychwyn yn y gegin. Rhywbeth yn tynnu sylw yw'r ffactor dynol mwyaf sy'n gyfrifol am hynny, gan arwain at gegin llawn mwg, offer wedi'u difrodi neu, yn yr achosion gwaethaf, niwed difrifol neu marwolaeth.

Mae'r risg hon yn cynyddu dros 65 oed ac yn cynyddu ymhellach os yw'r meddiannydd yn byw ar ei ben ei hun.

Mae cyflyrau iechyd, fel dementia a symudedd gwael, yn ffactorau cyfrannol eraill sy'n cynyddu'r risg o dân neu ddamweiniau yn esbonyddol ymhlith y garfan hon.

Yn ôl data'r cyfrifiad mae gan Ogledd Cymru boblogaeth sy'n heneiddio. Cynyddodd cyfran yr aelwydydd sy'n cynnwys pensiynwyr yn unig (pobl 66 oed a hŷn) i 27%, sy'n uchel o'i gymharu â ffigur Cymru gyfan o 24.8% yn 2021.

Roedd 47,676 neu 15.8% o'r holl aelwydydd yn bensiynwyr yn byw ar eu pennau eu hunain. Mae hyn wedi cynyddu o 43,932 yn 2011, er bod yr oedran pensiwn yn is yn 2011.

## Tanau mewn Eiddo Annomestig

Mae Gogledd Cymru yn gartref i amrywiaeth eang o ddiwydiant, busnes a darparwyr gwasanaethau. O'n prifysgolion ym Mangor a Wrecsam, ysbytai, gwestai a safleoedd treftadaeth, i ddiwydiannau sy'n cael eu rheoleiddio gan COMAH (Rheoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr 2015) a chyfleuster pŵer trydan dŵr mwyaf y DU, yng Ngorsaf Bŵer Dinorwig.

Gall tân mewn unrhyw fath o eiddo busnes gael effaith ddinistriol ar fywydau a bywoliaethau. Rydym yn ymgymryd â rhaglen arolygu sy'n seiliedig ar risg i sicrhau

bod busnesau'n cydymffurfio â deddfwriaeth diogelwch tân a'u helpu i ddod yn fwy gwydn i fygythiad tân. Rydym yn blaenoriaethu'r adeiladau hynny a chanddynt hanes o ddigwyddiadau tân neu bryderon diogelwch tân hysbys, neu'r rhai gaiff eu cyfeirio atom gan asiantaethau partner neu'r gymuned. Rydym yn annog ac yn cynorthwyo busnesau i gydymffurfio â deddfau diogelwch tân neu wynebu camau gorfodi posibl.

Mae gan lawer o'r adeiladau hyn systemau larwm tân awtomatig fel mesurau lliniaru. Mae twf systemau larwm tân awtomatig ac amlder galwadau diangen wedi arwain at alw cynyddol am adnoddau ar y Gwasanaeth Tân ac Achub, a all gyfaddawdu ei allu i ymateb i argyfyngau eraill.

## Tanau Gwyllt

Yng Ngogledd Cymru mae parc cenedlaethol mwyaf Cymru, Eryri, miloedd o erwau o rostir a thair o'r pum Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yng Nghymru, ac mae'r tirwedd yn llawn diwylliant, hanes a threftadaeth.



Mae newid hinsawdd yn realiti ac yn bygwth ein tirwedd. Bu cynnydd amlwg mewn digwyddiadau tywydd garw a chynnydd yn y galw i ymateb i danau gwyllt ar draws ein rhanbarth.

Gall effaith tanau gwyllt fod yn ddinistriol. Bob blwyddyn yng Nghymru, mae tân yn gyfrifol am ddifrodi miloedd o hectarau o gefn gwlad, difrodi tir ac eiddo, niweidio ein bywyd gwyllt a'n hamgylchedd, rhyddhau carbon deuocsid a llygryddion i'r atmosffer a'r cyrsiau dŵr, ac effeithio ar gymunedau a busnesau lleol.

Mae diffodd tanau gwyllt yn waith anodd a chostus iawn, ac mae'n gofyn am offer arbenigol gan fod ein diffoddwyr tân yn aml yn wynebu gweithio dan amodau peryglus ac anodd.

Mae'r costau yn sgil tanau gwyllt yn enfawr, gan gynnwys y gwaith adfer, ffermwyr a busnesau'n colli tir a'r effaith negyddol ar gymunedau.

Mae tanau gwyllt yn cymryd adnoddau y gall fod eu hangen mewn argyfwng arall, ac oherwydd yr amgylcheddau rhyng-gysylltiedig gwledig a gwledig-trefol y maent yn tueddu i ddigwydd ynddynt, rydym wedi gweld sut mae tanau gwyllt yn rhoi bywydau mewn perygl – bywydau ein cymunedau yn ogystal â'n diffoddwyr tân.

Yn ystod haf 2022 a thymereddau uwch nag erioed, gwelwyd cynnydd dramatig yn nifer a difrifoldeb y tanau gwyllt yr aethpwyd atynt yng Ngogledd Cymru, gan godi o bedwar ym mis Mawrth ac Ebrill 2021 i 20 ym mis Mawrth ac Ebrill 2022. Roedd y darlun hwn yn debyg ar draws Cymru gyfan.



## Boddi


Gyda chyfartaledd tair blynedd o 11 marwolaeth trwy foddi y flwyddyn ar draws Gogledd Cymru, mae dyletswydd ar wasanaethau tân ac achub yng Nghymru i ymateb i lifogydd ac argyfyngau dŵr mewndirol.

Mae lleoliadau digwyddiadau boddi yn amrywiol – o fynd i mewn i'r môr, afonydd, nentydd, porthladdoedd a harbyrau i faddonau a thwbiau poeth. Er bod y rhan fwyaf o bobl yn mynd i mewn i ddŵr yn fwriadol, nid yw hyd at 40% yn gwneud hynny. O'r rhai sy'n mynd i mewn yn fwriadol, gall hynny fod am resymau hamdden, masnachol neu resymau bob dydd.

Efallai y bydd rhai pobl o dan ddylanwad cyffuriau a/neu alcohol, sy'n gallu effeithio'n ddifrifol ar allu person i oroesi mewn dŵr.

Mae rhaniad rhyw sylweddol o ran yr anffodusion, gydag 88% yn ddynion.

## Gwrthdrawiadau Traffig Ffyrdd



O'n cefnffyrdd mawr, sy'n hanfodol i'r economi, i'r isffyrdd troellog sy'n cysylltu cymunedau ac yn croesi ein tirweddau amrywiol, mae ffyrdd Gogledd Cymru yn cario ceir, cerbydau HGV, cerbydau tanwydd amgen, cerbydau amaethyddol a hamdden a mwy, pob un â'i risg unigryw ei hun.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd a chodi ymwybyddiaeth o brif achosion gwrthdrawiadau traffig ffyrdd angheuol. Mae neges y 'Pump Angheuol' yn canolbwyntio ar 'Peidiwch ag yfed a gyrru, Gyrrwch Gan Bwyll, Peidiwch â bod yn ddiofal, Gwisgwch wregys, a Diffoddwch eich ffôn symudol'.

Rydym yn mynychu gwrthdrawiadau traffig ffyrdd difrifol i gynorthwyo gwasanaethau brys eraill ac yn gweithio'n ddiflino gydag asiantaethau partner i helpu i addysgu gyrwyr am ganlyniadau goryrru neu beidio â thalu sylw wrth yrru, a allai fod yn angheuol.

Mae hyn yn arbennig o bwysig i yrwyr iau - mae llawer o dystiolaeth bod gyrwyr 16-24 oed yn anghymesur o debygol o gael eu hanafu mewn gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd. Yng Nghymru, mae'r grŵp oedran hwn yn cyfrif am 11% o'r boblogaeth ond 22% o'r holl anafiadau/marwolaethau.

## Llifogydd

Mae newid hinsawdd hefyd wedi gweld cynnydd yn y galw i ymateb i ddigwyddiadau llifogydd yng Ngogledd Cymru. Mae digwyddiadau tywydd garw yn digwydd yn amlach ledled y DU, a gyda channoedd o filltiroedd o arfordir yng Ngogledd Cymru a thros 400 milltir o afonydd yn Eryri yn unig, mae'r bygythiad a achosir gan lifogydd arfordirol, dŵr wyneb a dyfrffyrdd yn real iawn ac yn cynyddu.

Erbyn 2120 rhagwelir y bydd dros 38,000 eiddo mewn perygl o lifogydd o'r môr, i fyny o 29,000 yn 2020, ac y bydd dros 22,500 eiddo mewn perygl o lifogydd o afonydd, i fyny o 18,000 yn 2020.



Gall ymchwyddiadau storm sy'n codi lefelau llanw uchel effeithio ar lawer o gymunedau arfordirol ac arwain at ddŵr yn mynd dros yr amddiffynfeydd môr presennol. Mae hyn yn arwain at lifogydd mewn eiddo preswyl a masnachol. Mae perygl hefyd y bydd llifogydd mewn afonydd yn sgil gormod o law.

Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn y galw i ymateb i ddigwyddiadau llifogydd yng Ngogledd Cymru. Mae stormydd sylweddol yn digwydd yn amlach ledled Cymru, a hynny'n golygu bod angen ymateb brys amlasiantaethol.

Gall llifogydd ddifetha cymunedau cyfan a theimlir yr effeithiau ymhell ar ôl i'r dŵr gilio. Yn ystod digwyddiadau o'r fath, mae diffoddwyr tân yn gweithio o gwmpas y cloc yn achub bywydau, gan helpu cymunedau a darparu cymorth dyngarol.

Wrth i'r blaned barhau i gynhesu, rhagwelir y bydd amlder a maint digwyddiadau llifogydd yn cynyddu. Rhagwelir y bydd nifer y bobl yn y DU sydd mewn perygl sylweddol o lifogydd yn cynyddu 61% erbyn 2050, o dan senario cynhesu cymedrol (2°C).

[Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd: Gogledd Orllewin Cymru]

[Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd: Gogledd Ddwyrain Cymru]



## Technolegau sy'n Dod i'r Amlwg

Mae Strategaeth Ynni Gogledd Cymru yn cyfleu newid uchelgeisiol a sylweddol tuag at atebion ynni mwy newydd, mwy cynaliadwy. Mae mwy o ddibyniaeth ar gynhyrchu ynni ffotofoltäig, ar lefel ddomestig a masnachol, a'r systemau storio ynni cysylltiedig, yn peri risgiau a heriau newydd i wasanaethau tân ac achub.


Mae cerbydau tanwydd amgen, fel ceir trydan, HGVs nwy a hybrid, cerbydau di-yrrwr neu awtonomaidd, systemau deallusrwydd artiffisial (AI), a dulliau modern o adeiladu, i gyd yn cyflwyno risgiau a fydd dod i'r amlwg, ond sydd heb eu diffinio eto, a bydd angen i ni addasu ein hymateb.

Mae'r nifer cynyddol o fatris lithiwm-ion mewn cerbydau trydan, gan gynnwys batris e-feiciau ac e-sgwteri, wedi arwain at nifer o danau difrifol. Datgelodd data a gafwyd gan yr yswiriwr Zurich fod tanau o'r fath wedi cynyddu 149% ledled y DU rhwng 2020 a 2021. Mae'r mathau hyn o danau yn cynyddu, maent yn anodd eu diffodd a phan fyddant yn digwydd, maent yn datblygu'n gyflym, yn cynhyrchu gwres dwys ac yn cynhyrchu mwg ac anwedd niweidiol.

## Dulliau modern o adeiladu


Mae adeiladu eiddo gan ddefnyddio fframiau pren yn hytrach na brics, blociau a dur yn cael ei ystyried fwyfwy fel dull a ffefrir gan ddatblygwyr oherwydd yr arbedion posibl mewn amser, deunyddiau a llafur. Mae hefyd yn cael ei ystyried yn ddull mwy cynaliadwy o adeiladu.

Fodd bynnag, os cânt eu hadeiladu y tu allan i safonau cydnabyddedig, neu eu haddasu ar ôl eu hadeiladu, gall adeiladau ffrâm bren ddioddef methiannau cyflym a mawr o ran eu mesurau diogelu pe bai tân. Gall hyn beri risg sylweddol i breswylwyr yr adeilad yn ogystal ag i ddiffoddwyr tân.



# Ein Pum Egwyddor

Wrth ddiffinio cwmpas y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol, rydym wedi ymgynghori â'r Awdurdod Tân ac Achub a'n staff ar bob lefel o'n sefydliad gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau ymgynghori, gan gynnwys ein Harolwg Teulu Tân, yr ymgynghoriad Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth a gweithdai Rheolwr Canol. Yn seiliedig ar yr ymgynghoriad hwn, rydym wedi datblygu pum egwyddor, a fydd yn ein cynorthwyo i liniaru'r risgiau i'n cymunedau ac yn ein helpu i ganolbwyntio ar wella o fewn ein Gwasanaeth dros y pum mlynedd nesaf.




## Ein Hegwyddor Pobl

*Bod yn y lle cywir, ar yr adeg gywir, gyda'r sgiliau cywir.*

Sicrhau gweithlu medrus iawn drwy recriwtio, datblygu a chadw gweithlu llawn cymhelliant a dwyieithog sy'n cynrychioli ac yn hyrwyddo amrywiaeth y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

## Ein Hegwyddor Atal

*Gweithio gyda phartneriaid i helpu i wneud cymunedau'n fwy diogel.*

Lleihau'r risgiau i'n cymunedau, yn enwedig i'r bobl hynny a allai fod yn fwy agored i niwed, drwy ein rhaglenni ymyrraeth sefydledig fel Archwiliadau Diogel ac Iach a Phrosiect Ffenics. .

## Ein Hegwyddor Diogelu

*Gwneud busnesau'n fwy diogel gyda'n gilydd.*

Darparu canllawiau arbenigol i fusnesau ar ddiogelu rhag tân i helpu i sicrhau diogelwch adeiladau, gweithwyr a chwsmeriaid, a thrwy hynny gefnogi busnesau i dyfu. Mae adeiladau risg uchel yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer arolygiadau, gan gyfrannu at ddiogelwch y cyhoedd yn gyffredinol.

## Ein Hegwyddor Ymateb

*Darparu ymateb brys effeithiol.*

Bod yn barod i ymateb pan fyddwch ein hangen: i ddiogelu'r hyn sy'n bwysig i chi, i achub bywydau, lleihau niwed, ac amddiffyn cartrefi a busnesau.

## Ein Hegwyddor Amgylchedd

*Diogelu a gwarchod ein hamgylchedd naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.*

Mabwysiadu arferion ecogyfeillgar yn ein gweithrediadau beunyddiol i leihau allyriadau carbon ac effeithiau amgylcheddol eraill a chodi ymwybyddiaeth amgylcheddol ymhlith ein staff a'n cymunedau.


Pobl Atal Diogelu Ymateb Amgylchedd
www.tangogleddcymru.llyw.cymru

# Ein Hegwyddor Pobl

***Bod yn y lle cywir, ar yr adeg gywir, gyda'r sgiliau cywir.***

Sicrhau gweithlu medrus iawn drwy recriwtio, datblygu a chadw gweithlu llawn cymhelliant a dwyieithog sy'n cynrychioli ac yn hyrwyddo amrywiaeth y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

## Pam mae hyn yn bwysig?

- Mae ein gweithlu yn hanfodol i bopeth y mae ein gwasanaeth tân ac achub yn ei wneud. Mae darparu ymateb brys a gwasanaethau ataliol yn dibynnu'n llwyr ar sgiliau, ymrwymiad ac ymroddiad diffoddwyr tân, staff yr ystafell reoli a staff gwasanaethau corfforaethol.
- Mae nifer yr achosion o dân wedi bod yn gostwng ers tro, felly er mwyn cynnal effeithiolrwydd gweithredol, mae'n rhaid i ddiffoddwyr tân hyfforddi'n fwy yn hytrach na dibynnu ar brofiad a gafwyd mewn digwyddiadau go iawn.
- Yn ddiweddar, bu cryn graffu ar wasanaethau tân ledled y DU a llawer wedi'u beirniadu am eu methiannau diwylliannol.  Mae'n briodol bod y cyhoedd yn disgwyl, ac yn haeddu, y safonau a'r ymddygiad gorau oll gan gyrff cyhoeddus.

## Beth ydym wedi'i wneud hyd yn hyn?

- Cynnal rhaglenni hyfforddi cynhwysfawr i wella sgiliau a pharodrwydd ein gweithwyr.
- Recriwtio'n weithredol o gefndiroedd amrywiol i adlewyrchu'n well y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.
- Gweithredu asesiadau parhaus i sicrhau bod ein gweithlu'n cyd-fynd â safonau proffesiynol sy'n esblygu.
- Gweithredu Strategaeth Datblygu Pobl a Sefydliadol Holl Wasanaethau Tân ac Achub Cymru 2021-2024 i sicrhau cysondeb yn y dull o ddatblygu a chefnogi pobl ar draws y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru.
- Cynnal dau Arolwg Staff Teulu Tân i roi llwyfan i staff leisio eu barn a'u pryderon a defnyddio'r canlyniadau i nodi meysydd ar gyfer gwella diwylliant ac i hyrwyddo gweithle mwy cynhwysol a chefnogol.


## Beth ydym yn bwriadu ei wneud yn ystod oes y cynllun hwn?

- Gweithredu'r argymhellion a nodwyd o arolwg staff Teulu Tân 2023.



- Cynnal dau arolwg staff Teulu Tân pellach yn 2025-26 a 2027-28.
- Adolygu a gwella strategaethau recriwtio yn barhaus i gynnal gweithlu amrywiol a medrus.
- Ceisio nodi a gwneud y mwyaf o botensial staff drwy reoli a datblygu pobl yn effeithiol, gan arwain at ddiwylliant o berfformiad uchel, lle mae pobl yn gwerthfawrogi ac yn parchu ei gilydd.
- Mabwysiadu Strategaeth Datblygu Pobl a Sefydliadol newydd Holl Wasanaethau Tân ac Achub Cymru ar gyfer 2024-2028 a fydd yn darparu fframwaith ar gyfer meddwl yn arloesol a gweithio i gefnogi cydweithio a phartneriaeth barhaus.
- Datblygu achos busnes ar gyfer adeiladu canolfan hyfforddiant gwasanaeth tân ac achub newydd, gan sicrhau ei bod yn bodloni safonau uchel ar gyfer effeithlonrwydd, diogelwch a thechnoleg.
- Bydd staff ataliol yn derbyn hyfforddiant ac ymwybyddiaeth mewn Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, Caethwasiaeth Fodern, Camfanteisio ar Blant a Thrais Domestig er mwyn darparu gwasanaeth mwy effeithiol i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.
- Bydd staff Diogelwch Tân Busnes a Diffoddwyr Tân Gweithredol yn cael eu hyfforddi yn unol â Fframwaith Cymwyseddau Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân ar gyfer Rheoleiddwyr Diogelwch Tân gan weithio tuag at gofrestru o fewn Cofrestr Gyd-destunol yr Archwilydd.
- Bydd staff gweithredol yn derbyn hyfforddiant a chymhwyster perthnasol i'w galluogi i gynnal archwiliadau diogelwch busnes yn unol â chanllawiau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol.

## Bydd y camau hyn yn cyfrannu at y nodau llesiant canlynol:



Cymru gydnerth | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru iachach | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru tecach | Cymru llewyrchus

Byddwn yn monitro ein cynnydd drwy'r Pwyllgorau Llywodraethu canlynol:

- Pwyllgor Llywio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Llesiant
- Pwyllgor Presenoldeb, Cwynion Cyflogaeth a Disgyblaeth
- Pwyllgor Dysgu Sefydliadol



# Diwylliant y Gwasanaeth

Mae arweinyddiaeth y sector cyhoeddus ar draws y Deyrnas Unedig yn amlwg iawn ar hyn o bryd, gyda rhai enghreifftiau uchel eu proffil o graffu yn canfod methiannau diwylliannol sylweddol.

Rydym yn croesawu penderfyniad Llywodraeth Cymru i dderbyn ein cynnig i adolygu'n annibynnol sut yr ydym yn symud ymlaen ar ein taith ddiwylliannol, gan ein bod wedi ymrwymo'n llwyr i ragoriaeth a gwelliant parhaus a byddwn yn cyhoeddi adroddiad yn ystod 2024.

Mae gennym set o werthoedd sefydliadol sy'n cael eu cyhoeddi a'u harddangos ar draws ein holl adeiladau a gellir dod o hyd i'r rhain ar dudalen 51.

Fodd bynnag, nid pethau ar gyfer posteri yn unig yw ein Gwerthoedd Craidd, i'w harddangos ac, o bosibl, eu hanghofio; maent yn sylfaen i'n hunaniaeth a'n hymddygiad, yn arwain penderfyniadau, yn llunio ein diwylliant, yn cyfarwyddo strategaeth, ac yn darparu ymdeimlad clir o bwrpas i'n pobl. Maent yn set o egwyddorion arweiniol ar gyfer staff, ar bob lefel o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Mae ein Gwerthoedd Craidd wedi ein tywys tuag at fabwysiadu pum egwyddor. Trwy'r egwyddorion hyn, byddwn yn darparu gwasanaethau arloesol o ansawdd uchel i'n cymunedau a'r bobl sy'n ymweld â ac yn gweithio yng Ngogledd Cymru. Roedd penderfynu mai Ein Hegwyddor Pobl fyddai'r egwyddor gyntaf yn benderfyniad bwriadol.

Mae'r camau a amlinellir o dan Ein Hegwyddor Pobl wedi'u cynllunio mewn ymdrech i wella ein Gwasanaeth yn barhaus. Nod yr amcanion hyn yw gwneud Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn lle deniadol i weithio, drwy wella ymgysylltiad staff, cydnabod staff a llesiant staff, gwella sgiliau arwain, cryfhau adnoddau dynol a phrosesau cynllunio'r gweithlu fel ein bod yn recriwtio, cadw, datblygu a hyrwyddo'r bobl orau a darparu hyfforddiant parhaus, cymorth datblygu a chyfleoedd dilyniant gyrfa i'r holl staff.



Yn ddiweddar rydym wedi cynnal ein hail Arolwg Staff Teulu Tân, a oedd yn rhoi llwyfan i staff leisio eu barn a'u pryderon. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio drwy'r canfyddiadau a byddwn yn defnyddio'r canlyniadau i nodi meysydd ar gyfer gwella diwylliant ac i hyrwyddo gweithle mwy cynhwysol a chefnogol.

Byddwn yn ailadrodd yr ymarfer hwn yn 2025-26 a 2027-28 i sicrhau bod y llwyfan hwnnw ar gyfer rhannu barn a phryderon yn dod yn rhan o fusnes fel arfer.

Mae gennym hefyd drefniadau llywodraethu cryf drwy'r Pwyllgor Llywio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, gyda chefnogaeth y Grwpiau Rhwydwaith Staff, Grŵp Gweithredu Cadarnhaol a Grŵp Llywodraethu yr Iaith Gymraeg. Rydym wedi penodi Aelod o'r Awdurdod Tân ac Achub yn Aelod Eiriolwr i'r Pwyllgor Llywio. Mae'r Cyd-bwyllgor Ymgynghori a Negodi yn fforwm lle gall uwch arweinwyr gwrdd ag undebau llafur a chyrff cynrychioliadol eraill.

Byddwn yn parhau i weithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru i roi sicrwydd parhaus bod gennym drefniadau llywodraethu cadarn ar waith i sicrhau bod y gweithle yn ddiogel ac yn galluogi ein pobl i ddod â'r fersiwn orau ohonynt hwy eu hunain i'r gwaith.



# Ein Hegwyddor Atal

***Gweithio gyda phartneriaid i helpu i wneud cymunedau'n fwy diogel.***

Lleihau'r risgiau i'n cymunedau, yn enwedig i'r bobl hynny a allai fod yn fwy agored i niwed, drwy ein rhaglenni ymyrraeth sefydledig fel Archwiliadau Diogel ac Iach a Phrosiect Ffenics.

## Pam mae hyn yn bwysig?

Mae sicrhau bod ein cymunedau'n ddiogel wrth wraidd popeth a wnawn. Mae cydweithio â phartneriaid a gweithredu rhaglenni ymyrraeth wedi'u targedu yn hanfodol i liniaru risgiau, yn enwedig i unigolion agored i niwed. Trwy ymgysylltu'n weithredol â'n cymunedau, rydym yn meithrin gwytnwch, yn hyrwyddo llesiant, ac yn creu amgylchedd mwy diogel i bawb.

## Beth ydym wedi'i wneud hyd yn hyn?

- Sefydlu partneriaethau cryf gyda sefydliadau, asiantaethau ac arweinwyr cymunedol lleol i wella ein heffaith ar y cyd.
- Gweithredu rhaglenni ymyrraeth effeithiol fel Archwiliadau Diogel ac Iach a Phrosiect Ffenics, gan gyrraedd poblogaethau sy'n agored i niwed a mynd i'r afael â risgiau posibl.
- Cynnal mentrau allgymorth i godi ymwybyddiaeth am fesurau atal tân a diogelwch o fewn cymunedau.
- Gweithredu a gwerthuso ymgyrchoedd ymwybyddiaeth effeithiol i gynorthwyo preswylwyr ac ymwelwyr i sicrhau eu diogelwch.
- Defnyddio amrywiaeth o sianeli cyfathrebu i wella ymgysylltiad a sicrhau allgymorth effeithiol i unigolion a grwpiau o bobl sydd âg angehnion a dewisiadau cyfathrebu wahanol.
- Sicrhau ein bod yn darparu dewis o ran iaith i siaradwyr Cymraeg a Saesneg yn ein cymunedau ac i gydnabod unrhyw ofynion iaith eraill.


## Beth ydym yn bwriadu ei wneud yn ystod oes y cynllun hwn?

- Defnyddio data partneriaeth i fireinio ein dull seiliedig ar risg o gynnal Archwiliadau Diogel ac Iach i dargedu'r rhai dros 65 oed sydd fwyaf agored i niwed yn sgil tân yn y cartref.
- Darparu 17,500 o Archwiliadau Diogel ac Iach bob blwyddyn, drwy gydol cyfnod y cynllun hwn, i'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn sgil tân yn y cartref.



- Hyrwyddo addysg diogelwch ar y ffyrdd, ymgysylltu â phartneriaid a chynnal ymgyrchoedd o fewn y gymuned leol, er mwyn lleihau nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ein ffyrdd.
- Gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid allanol i atal boddi damweiniol yng Ngogledd Cymru, gan ddarparu canllawiau cyson ar gyfer mwynhau a rheoli gweithgareddau yn ddiogel mewn dŵr, ar ddŵr ac o gwmpas dŵr.
- Bydd ein rhaglenni addysg ieuenctid yn parhau i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc. Mae Cadetiaid Tân, Ffenics a'n menter ieuenctid newydd i gyd wedi'u cynllunio i symud bywyd person iau yn ei flaen, datgloi eu potensial a'u hysbrydoli i wneud dewisiadau cadarnhaol mewn bywyd. Bydd hyn yn cyflawni yn erbyn cyfrifoldebau o dan y Ddyletswydd Trais Difrifol.
- Hyrwyddo'r gwaith o ddiogelu ein cymunedau. Byddwn yn aelodau gweithredol o'r Byrddau Diogelu Oedolion Lleol a'r Bwrdd Diogelu Plant Lleol ac yn gweithio'n rhagweithiol i leihau'r risg o gamdriniaeth, niwed ac esgeulustod.


## Bydd y camau hyn yn cyfrannu at y nodau llesiant canlynol:



Cymru gydnerth | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru iachach | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Byddwn yn monitro ein cynnydd drwy'r Pwyllgor Llywodraethu canlynol:

- Pwyllgor Perfformiad Atal a Diogelu



# Ein Hegwyddor Diogelu

***Gwneud busnesau'n fwy diogel gyda'n gilydd.***

Darparu canllawiau arbenigol i fusnesau ar ddiogelu rhag tân i helpu i sicrhau diogelwch adeiladau, gweithwyr a chwsmeriaid, a thrwy hynny gefnogi busnesau i dyfu. Mae adeiladau risg uchel yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer arolygiadau, gan gyfrannu at ddiogelwch y cyhoedd yn gyffredinol.

## Pam mae hyn yn bwysig?

Mae sicrhau diogelwch busnesau yn rhan annatod o lesiant y gymuned. Trwy gynnig arweiniad arbenigol ar ddiogelu rhag tân, rydym nid yn unig yn diogelu asedau a phersonél busnesau ond hefyd yn cyfrannu at fywiogrwydd economaidd y rhanbarth. Mae archwilio adeiladau risg uchel yn rhagweithiol yn gwella diogelwch y cyhoedd drwy atal peryglon posibl.

## Beth ydym wedi'i wneud hyd yn hyn?

- Cynnal gweithdai diogelu tân a sesiynau hyfforddi cynhwysfawr i fusnesau wella eu parodrwydd.
- Cydweithio'n agos â busnesau lleol i ddeall eu hanghenion a'u heriau unigryw o ran diogelwch.
- Cynnal arolygiadau wedi'u targedu o adeiladau risg uchel, gan nodi a lliniaru peryglon tân posibl.

## Beth ydym yn bwriadu ei wneud yn ystod oes y cynllun hwn?

- Adolygu ein Rhaglen Arolygu Seiliedig ar Risg bresennol a sicrhau bod gennym drefn wybodus a rhesymegol sy'n seiliedig ar wybodaeth i nodi'r dosbarthiad risg perthnasol ar gyfer ein holl safleoedd ledled Gogledd Cymru.
- Parhau i ddarparu Rhaglen Arolygu Seiliedig ar Risg sy'n seiliedig ar wybodaeth er mwyn lleihau anafiadau a marwolaeth o danau mewn eiddo annomestig.
- Archwilio effaith larymau tân awtomatig ar y defnydd o'n hadnoddau a'u heffaith mewn amgylchedd annomestig.
- Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allanol, perchnogion tir a defnyddwyr tir i leihau nifer y tanau gwyllt.
- Gan weithio'n agos gyda phartneriaid amlasiantaeth a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, byddwn yn mynd i'r afael â thanau bwriadol gan ddefnyddio'r dull Paratoi, Ymroi, Atal a Diogelu.



**Bydd y camau hyn yn cyfrannu at y nodau llesiant canlynol:**

Cymru gydnerth | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru iachach | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Cymru llewyrchus

Byddwn yn monitro ein cynnydd drwy'r Pwyllgor Llywodraethu canlynol:

- Pwyllgor Perfformiad Atal a Diogelu



# Ein Hegwyddor Ymateb

***Darparu ymateb brys effeithiol.***

Bod yn barod i ymateb pan fyddwch ein hangen: i ddiogelu'r hyn sy'n bwysig i chi, i achub bywydau, lleihau niwed, ac amddiffyn cartrefi a busnesau.

## Pam mae hyn yn bwysig?

Rydym eisiau darparu'r gwasanaeth tecaf posibl i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru. Waeth ble rydych chi'n byw neu pwy ydych chi, ein nod ydy bod yno i chi pan fydd angen. Mae hyn yn golygu gallu darparu'r un gwasanaeth ar draws ein cymunedau amrywiol – amrywiol o ran lleoliad a daearyddiaeth, o ran y mathau o ddigwyddiadau rydyn ni'n ymateb iddynt, a hefyd o ran y bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu. Rydym yn anelu at gyflawni hyn drwy reoli ein hadnoddau, ein cyllideb a'n pobl mor effeithiol â phosibl.


## Beth ydym wedi'i wneud hyd yn hyn?

- Cynnal Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, gyda'r nod o wella'r ddarpariaeth frys mewn mannau gwledig.
- Cwblhau Adolygiad o Brofiad Staff y System Dyletswydd Ar Alwad dan arweiniad staff, gan ddatblygu cynllun gweithredu cadarn, gydag 85 o argymhellion, i gefnogi gwella profiad ein staff sy'n gweithio'r System Dyletswydd Ar Alwad.
- Ailstrwythuro'r gwasanaeth i flaenoriaethu timau lleol yn gweithio yn yr ardal leol.
- Trwy gweithgareddau recriwtio a chadw wedi eu targedu, ar gyfer yr ail flwyddyn yn olynol rydym wedi gweld cynnydd net yn nifer ein staff ar alwad ledled Gogledd Cymru.
- Sicrhau bod gennym sefydliad llawn o ddiffoddwyr tân amser cyflawn hyfforddedig a chymwys a recriwtio wedi'i dargedu i wella argaeledd diffoddwyr tân ar alwad sydd wedi'u hyfforddi'n briodol.
- Buddsoddi mewn tri Cerbyd Llesiant newydd i gefnogi ein staff mewn digwyddiadau.
- Blaenoriaethu diogelwch ein diffoddwyr tân drwy ehangu ein buddsoddiad mewn Cyfarpar Diogelu Personol o'r radd flaenaf i gefnogi'r gwaith o reoli halogyddion o danau a Chyfarpar Diogelu Personol pwrpasol ar gyfer tanau gwyllt.
- Sefydlu gweithgor halogi cynrychioliadol i flaenoriaethu diogelwch diffoddwyr tân ar y cyd mewn perthynas â halogyddion tân.

## Beth ydym yn bwriadu ei wneud yn ystod oes y cynllun hwn?

- Sicrhau bod lefelau recriwtio a dilyniant gyrfa amser cyflawn yn cyd-fynd yn agos â'r angen i gynnal carfan staffio amser cyflawn lawn.
- Gweithio i sicrhau bod cynifer â phosibl o ddiffoddwyr tân ar alwad yn cael eu recriwtio a'u cadw er mwyn cynyddu nifer yr eiddo ar draws y rhanbarth a fydd yn derbyn ymateb effeithiol cyn gynted â phosibl.
- Sicrhau bod galwadau brys yn parhau i gael eu trin mewn modd effeithiol drwy uwchraddio'r system gyfrifiadurol berthnasol yn yr Ystafell Reoli.
- Datblygu a chyflwyno'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys i Ogledd Cymru i sicrhau bod gennym system gyfathrebu gadarn a modern ar draws y rhanbarth.
- Gweithredu canlyniadau'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, a ddatblygwyd gan weithgor cynrychioliadol, i wella ein hymateb gweithredol yn ein hardaloedd gwledig.
- Cynnal adolygiad o'n cerbydau arbenigol, ac eithrio injanau tân, sy'n ymateb i argyfyngau.
- Parhau i flaenoriaethu diogelwch diffoddwyr tân drwy hyfforddiant, datblygu, cyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol ac offer o'r radd flaenaf a rheoli halogyddion.
- Datblygu gyda'n staff fframwaith rheoli newydd i gefnogi'r gwaith o redeg ein gorsafoedd tân yn effeithlon ac effeithiol i sicrhau ein bod yn barod ar gyfer argyfyngau.
- Gweithio gyda staff a chyrff cynrychioliadol i archwilio cyfleoedd i ehangu rôl diffoddwyr tân i gefnogi gwaith ein partneriaid a llesiant ein cymunedau.
- Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein fflyd o beiriannau tân drwy gyflwyno peiriannau tân newydd o'r radd flaenaf bob blwyddyn fel rhan o'n rhaglen amnewid cerbydau.

### Bydd y camau hyn yn cyfrannu at y nodau llesiant canlynol:



Cymru gydnerth | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru iachach | Cymru sy'n fwy cyfartal

Byddwn yn monitro ein cynnydd drwy'r Pwyllgorau Llywodraethu canlynol:

- Pwyllgor Adnoddau Sefydliadol
- Pwyllgor Dysgu Sefydliadol
- Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Llesiant



# Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys

Argymhellodd adolygiad o Gydnerthedd Corfforaethol yn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru ym mis Ebrill 2021 y dylai'r Awdurdod adolygu lleoliadau gorsafoedd tân er mwyn canfod cyfleoedd i sicrhau'r trefniadau ymateb brys gorau posibl.

Yn ddiweddarach y flwyddyn honno, cyflwynodd y Prif Swyddog Tân asesiad sefyllfaol i Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub, gan dynnu sylw at nifer o risgiau mewn perthynas â sicrhau bod diffoddwyr tân ar alwad yn gweithio ar y 36 o orsafoedd y system dyletswydd ar alwad ar gael hyd at lefel ddigonol yn ystod y dydd.

Mewn ymateb, comisiynodd yr Awdurdod Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys i nodi opsiynau ar gyfer darparu ymateb teg, cynaliadwy a theg ar draws Gogledd Cymru gyfan.

Comisiynwyd cwmni annibynnol, ORH, i weithio gyda'r Tîm Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid, gan ddarparu cymorth technegol mewn perthynas â dadansoddi a modelu data, i edrych yn feirniadol ar drefniadau'r ddarpariaeth frys gyfredol ac i nodi'r atebion gorau posibl ar gyfer gwella. Defnyddiodd y Gwasanaeth broffilio risg Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân hefyd, a amlygodd fod lleoliadau o risg uwch mewn ardaloedd mwy gwledig a oedd yn atgyfnerthu'r angen am fwy o degwch o ran y ddarpariaeth.


Buom yn gweithio'n agos gyda'r Sefydliad Ymgynghori gan sicrhau Ardystiad Sicrhau Ansawdd Ymgynghori ym mis Tachwedd 2023. Yn ystod y cam cyn-ymgynghori, cynhaliwyd cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid gan gynnwys staff, gwleidyddion lleol a chenedlaethol, grwpiau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, y cyhoedd ac asiantaethau eraill. Bu hyn yn fodd i ddatblygu tri opsiwn a aeth i ymgynghoriad cyhoeddus llawn rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2023. Dyma'r ymarferiad ymgynghori cyhoeddus mwyaf yn ein hanes a chawsom 1,726 o ymatebion, sef nifer digynsail.


The Consultation Institute
INSTITUTE ASSOCIATE

Cafodd yr adborth o'r ymgynghoriad ei gasglu a'i ddadansoddi'n annibynnol, a chyflwynwyd adroddiad i'r Awdurdod Tân ac Achub ym mis Hydref 2023. Yn eu cyfarfod ym mis Rhagfyr 2023, penderfynodd yr Awdurdod Tân beidio â symud ymlaen ag unrhyw un o'r opsiynau a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad. Yn hytrach, cyfeiriwyd swyddogion i barhau â'r lefel bresennol o ddarpariaeth frys a gweithio gyda'r holl randdeiliaid i ddatblygu opsiwn parhaol newydd gan ystyried terfynau'r gyllideb y cytunwyd arni.

Rydym eisoes wedi sefydlu gweithgor gorchwyl a gorffen, sy'n cynnwys ystod eang o staff o bob rhan o'r Gwasanaeth a chyrff cynrychioliadol i weithio gyda swyddogion i adolygu'r dystiolaeth a'r modelu a ddarparwyd gan ORH i ddatblygu cynigion eraill. Pe bai'r rhain yn wahanol iawn i'r rhai yn yr ymgynghoriad diwethaf, efallai y bydd angen ymgynghori'n bellach â'r cyhoedd yn ystod 2024-25. Unwaith y ceir cytundeb, bydd yr opsiwn a ffefrir yn cael ei weithredu yn ystod oes y CRRC hwn.

Os ydych chi eisiau darllen mwy am yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, gallwch gael mynediad at y ddogfen ymgynghori yma.



# Ein Hegwyddor Amgylchedd

***Diogelu a gwarchod ein hamgylchedd naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.***

Mabwysiadu arferion ecogyfeillgar yn ein gweithrediadau beunyddiol i leihau allyriadau carbon ac effeithiau amgylcheddol eraill a chodi ymwybyddiaeth amgylcheddol ymhlith ein staff a'n cymunedau.

## Pam mae hyn yn bwysig?

Ym mis Ebrill 2019, Llywodraeth Cymru oedd y senedd gyntaf yn y byd i ddatgan argyfwng hinsawdd ar lefel genedlaethol.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar y rheng flaen o safbwynt llawer o'r heriau sy'n digwydd yn llawer amlach oherwydd hinsawdd sy'n newid. Mae llawer o'r heriau hynny eisoes yn cael effeithiau dwys ar y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.  Felly, mae gennym gyfrifoldeb i arwain trwy esiampl a hyrwyddo stiwardiaeth gyfrifol o'n rhanbarth a'n byd ar gyfer y cenedlaethau sydd i ddod.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn mynnu ein bod ni a phob corff cyhoeddus arall yng Nghymru yn ystyried buddiannau cenedlaethau'r dyfodol yn ein holl benderfyniadau strategol.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn nodi cyfres o gyllidebau carbon, sy'n manylu ar sut y gall Cymru fod yn sero net o ran allyriadau carbon erbyn 2050. O dan Gyllideb Garbon 2, mae'n rhaid i'r sector cyhoeddus yng Nghymru gyrraedd allyriadau sero net erbyn 2030.

## Beth ydym wedi'i wneud hyd yn hyn?


- Penodi Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd, gyda chyfrifoldeb am arwain a rheoli ein symudiad tuag at gynaliadwyedd a stiwardiaeth amgylcheddol gyfrifol.
- Mae'r Awdurdod Tân ac Achub wedi datblygu a mabwysiadu Strategaeth Amgylcheddol sy'n nodi targedau perfformiad manwl a chadarn wrth leihau ein hallyriadau carbon ac effeithiau amgylcheddol sylweddol eraill, heb gyfaddawdu'r gwasanaethau hanfodol a ddarparwn i gymunedau Gogledd Cymru.
- Sefydlu llinell sylfaen allyriadau carbon, y gallwn fesur ein perfformiad a llwyddiant ein cynlluniau lliniaru carbon yn ei herbyn.
- Sefydlu Gweithgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, gyda chynrychiolaeth o bob rhan o'r Gwasanaeth, sy'n cwrdd bob chwe wythnos i fonitro ein perfformiad amgylcheddol a goruchwylio prosiectau gwella.



## Beth ydym yn bwriadu ei wneud yn ystod oes y cynllun hwn?

- Newid ein fflyd o gerbydau diesel i redeg ar Olew Llysiau Hydrogenedig, dewis amgen cynaliadwy heb ddim allyriadau carbon Cwmpas 1.
- Lle bo'n ymarferol, prynu dim ond ceir a faniau allyriadau sero neu isel iawn o 2025.
- Ehangu'r rhwydwaith Mannau Gwefru Cerbydau Trydan presennol ar safleoedd Tân ac Achub Gogledd Cymru.
- Ôl-osod ein hystad i wella effeithlonrwydd ynni.
- Yn raddol, dechrau cael gwared ar nwy a Nwy Petroliwm Hylifedig o systemau gwresogi ein gorsafoedd o 2025.

### Bydd y camau hyn yn cyfrannu at y nodau llesiant canlynol:



Cymru gydnerth | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru iachach | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Byddwn yn monitro ein cynnydd drwy'r Pwyllgor Llywodraethu canlynol:

- Pwyllgor Tir ac Eiddo, gyda chefnogaeth y Grŵp Amgylchedd a Chynaliadwyedd



# Ein Hamcanion – Crynodeb

## Pobl

- Gweithredu'r argymhellion a nodwyd o arolwg staff Teulu Tân 2023.
- Cynnal dau arolwg staff Teulu Tân pellach yn 2025-26 a 2027-28.
- Adolygu a gwella strategaethau recriwtio yn barhaus i gynnal gweithlu amrywiol a medrus.
- Ceisio nodi a gwneud y mwyaf o botensial staff drwy reoli a datblygu pobl yn effeithiol, gan arwain at ddiwylliant o berfformiad uchel, lle mae pobl yn gwerthfawrogi ac yn parchu ei gilydd.
- Mabwysiadu Strategaeth Datblygu Pobl a Sefydliadol newydd Holl Wasanaethau Tân ac Achub Cymru ar gyfer 2024-2028 a fydd yn darparu fframwaith ar gyfer meddwl yn arloesol a gweithio i gefnogi cydweithio a phartneriaeth barhaus.
- Datblygu a chwblhau'r gwaith o adeiladu canolfan hyfforddi newydd i'r gwasanaeth tân ac achub, gan sicrhau ei bod yn bodloni safonau uchel ar gyfer effeithlonrwydd, diogelwch a thechnoleg.
- Bydd staff ataliol yn derbyn hyfforddiant ac ymwybyddiaeth mewn Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, Caethwasiaeth Fodern, Camfanteisio ar Blant a Thrais Domestig er mwyn darparu gwasanaeth mwy effeithiol i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.
- Bydd staff Diogelwch Tân Busnes a Diffoddwyr Tân Gweithredol yn cael eu hyfforddi yn unol â Fframwaith Cymwyseddau Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân ar gyfer Rheoleiddwyr Diogelwch Tân gan weithio tuag at gofrestru o fewn Cofrestr Gyd-destunol yr Archwilydd.
- Bydd staff gweithredol yn derbyn hyfforddiant a chymhwyster perthnasol i'w galluogi i gynnal archwiliadau diogelwch busnes yn unol â chanllawiau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol.

## Atal

- Defnyddio data partneriaeth i fireinio ein dull seiliedig ar risg o gynnal Archwiliadau Diogel ac Iach i dargedu'r rhai dros 65 oed sydd fwyaf agored i niwed yn sgil tân yn y cartref.
- Darparu 17,500 o Archwiliadau Diogel ac Iach bob blwyddyn, drwy gydol cyfnod y cynllun hwn, i'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn sgil tân yn y cartref.
- Hyrwyddo addysg diogelwch ar y ffyrdd, ymgysylltu â phartneriaid a chynnal ymgyrchoedd o fewn y gymuned leol, er mwyn lleihau nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ein ffyrdd.
- Gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid allanol i atal boddi damweiniol yng Ngogledd Cymru, gan ddarparu canllawiau cyson ar gyfer mwynhau a rheoli gweithgareddau yn ddiogel mewn dŵr, ar ddŵr ac o gwmpas dŵr.
- Bydd ein rhaglenni addysg ieuenctid yn parhau i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc. Mae Cadetiaid Tân, Ffenics a'n menter ieuenctid newydd i gyd wedi'u cynllunio i symud bywyd person iau yn ei flaen, datgloi eu potensial a'u hysbrydoli i wneud dewisiadau cadarnhaol mewn bywyd. Bydd hyn yn cyflawni yn erbyn cyfrifoldebau o dan y Ddyletswydd Trais Difrifol.
- Hyrwyddo'r gwaith o ddiogelu ein cymunedau. Byddwn yn aelodau gweithredol o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Byrddau Diogelu Oedolion Lleol a'r Bwrdd Diogelu Plant Lleol ac yn gweithio'n rhagweithiol i leihau'r risg o gamdriniaeth, niwed ac esgeulustod.

## Diogelu

- Adolygu ein Rhaglen Arolygu Seiliedig ar Risg bresennol a sicrhau bod gennym drefn wybodus a rhesymegol sy'n seiliedig ar wybodaeth i nodi'r dosbarthiad risg perthnasol ar gyfer ein holl safleoedd ledled Gogledd Cymru.
- Parhau i ddarparu Rhaglen Arolygu Seiliedig ar Risg sy'n seiliedig ar wybodaeth er mwyn lleihau anafiadau a marwolaeth o danau mewn amgylchedd annomestig.
- Archwilio effaith larymau tân awtomatig ar y defnydd o'n hadnoddau a'u heffaith mewn amgylchedd annomestig.
- Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allanol, perchnogion tir a defnyddwyr tir i leihau nifer y digwyddiadau tanau gwyllt.
- Gan weithio'n agos gyda phartneriaid amlasiantaeth a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, byddwn yn mynd i'r afael â thanau bwriadol gan ddefnyddio'r dull Paratoi, Ymroi, Atal a Diogelu.

## Ymateb

- Sicrhau bod lefelau recriwtio a dilyniant gyrfa amser cyflawn yn cyd-fynd yn agos â'r angen i gynnal carfan staffio amser cyflawn lawn.
- Gweithio i sicrhau bod cynifer â phosibl o ddiffoddwyr tân ar alwad yn cael eu recriwtio a'u cadw er mwyn cynyddu nifer yr eiddo ar draws y rhanbarth a fydd yn derbyn ymateb effeithiol cyn gynted â phosibl.
- Sicrhau bod galwadau brys yn parhau i gael eu trin mewn modd effeithiol drwy uwchraddio'r system gyfrifiadurol berthnasol yn yr Ystafell Reoli.
- Datblygu a chyflwyno'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys i Ogledd Cymru i sicrhau bod gennym system gyfathrebu gadarn a modern ar draws y rhanbarth.
- Gweithredu canlyniadau'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, a ddatblygwyd gan weithgor cynrychioliadol, i wella ein hymateb gweithredol yn ein hardaloedd gwledig.
- Cynnal adolygiad o'n cerbydau arbenigol, ac eithrio injanau tân, sy'n ymateb i argyfyngau.
- Parhau i flaenoriaethu diogelwch diffoddwyr tân drwy hyfforddiant, datblygu, cyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol ac offer o'r radd flaenaf a rheoli halogyddion.
- Datblygu gyda'n staff fframwaith rheoli newydd i gefnogi'r gwaith o redeg ein gorsafoedd tân yn effeithlon ac effeithiol i sicrhau ein bod yn barod ar gyfer argyfyngau.
- Gweithio gyda staff a chyrff cynrychioliadol i archwilio cyfleoedd i ehangu rôl diffoddwyr tân i gefnogi gwaith ein partneriaid a llesiant ein cymunedau.
- Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein fflyd o beiriannau tân drwy gyflwyno peiriannau tân newydd o'r radd flaenaf bob blwyddyn fel rhan o'n rhaglen amnewid cerbydau.

## Amgylchedd

- Newid ein fflyd o gerbydau diesel i redeg ar Olew Llysiau Hydrogenedig , dewis amgen cynaliadwy heb ddim allyriadau carbon Cwmpas 1.
- Prynu dim ond ceir a faniau allyriadau sero neu isel iawn o 2025.
- Ehangu'r rhwydwaith Mannau Gwefru Cerbydau Trydan presennol ar safleoedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.
- Ôl-osod ein hystad i wella effeithlonrwydd ynni.
- Yn raddol, dechrau cael gwared ar nwy a Nwy Petroliwm Hylifedig o systemau gwresogi ein gorsafoedd o 2025.

# Ein Cyllid

Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer y Gwasanaeth Tân ac Achub yn cael ei dderbyn drwy ardoll gan y chwe awdurdod cyfansoddol o fewn Gogledd Cymru, a hynny'n gymesur â phoblogaeth pob awdurdod. Mae'r ffigwr ar gyfer poblogaeth pob awdurdod lleol yn cael ei osod gan Is-grŵp Dosbarthu Llywodraeth Cymru yn flynyddol. Yn ogystal, mae cyllid hefyd yn cael ei dderbyn oddi wrth Lywodraeth Cymru, drwy grantiau. Mae gwerth y grantiau wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol, 2024-25, mae gan yr Awdurdod gyllideb refeniw o £48.322 miliwn a rhaglen gyfalaf o £5.67m.

Mae'r strategaeth adnoddau tymor canolig hefyd wedi'i chymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub, sy'n cynnwys cynllun cyfalaf 10 mlynedd. Gallwch ddarllen mwy yma.

## Ein cyllid (£m)

| 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 |
|---|---|---|---|---|
| £35.9 | £37.1 | £39.4 | £44.4 | £48.3 |

## Yr hyd rydym wedi ei wario 2022-2023

(Cyhoeddir ffigurau 2023-24 yn dilyn cymeradwyo Datganiad Cyfrifon yr Awdurdodau gan yr Awdurdod Tân ac Achub).

| Pobl | Eiddo | Cludiant |
|---|---|---|
| £30.35m | £2.99m | £1.25m |
| **Cyflenwadau a Gwasanaethau** | **Cyllid Cyfalaf** | **Incwm*** |
| £4.95m | £2.42m | £2.94m |


*Gan amlaf grantiau Llywodraeth Cymru



# Ein Gwerthoedd

Ein datganiad cenhadaeth yw:

***GWNEUD GOGLEDD CYMRU YN ARDAL MWY DIOGEL I FYW YNDDI, I WEITHIO YNDDI AC I YMWELD Â HI***




I gefnogi'r genhadaeth hon, bydd yr Awdurdod yn parhau i weithio i ostwng nifer y tanau mewn cartrefi ledled y rhanbarth drwy strategaeth ataliol gynhwysfawr, a bydd yn ymchwilio ac yn dadansoddi gwybodaeth i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â phob math o dân a pheryglon eraill.

Bydd yr Awdurdod yn parhau hefyd i hybu addysg a gweithio ar y cyd â phobl sy'n byw ac yn gweithio yng Ngogledd Cymru. Mae cyfle cyfartal yn flaenoriaeth sylfaenol, ac mae'r Awdurdod yn ceisio cynyddu'r siawns o gyflogaeth i bobl a allai ei chael yn anodd cael cyflogaeth tra hefyd yn hybu tegwch a chynhwysiant yn y gweithle.

Byddwn yn edrych i alinio â Chod Moeseg Craidd Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân ar gyfer y Gwasanaethau Tân ac Achub, a ddatblygwyd i gefnogi dull cyson o ymdrin â moeseg, gan gynnwys ymddygiadau, gan y Gwasanaethau Tân ac Achub.

Bydd yn helpu i wella diwylliant sefydliadol ac amrywiaeth gweithlu Gwasanaethauau Tân ac Achub, gan sicrhau bod cymunedau'n cael eu cefnogi yn y ffordd orau.

Mae'r Cod Craidd yn nodi pum egwyddor foesegol, sy'n darparu sail ar gyfer hyrwyddo ymddygiad da a herio ymddygiad amhriodol.

- Rhoi ein cymunedau yn gyntaf
- Uniondeb
- Urddas a pharch
- Arweinyddiaeth
- Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant




Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y Cod Moeseg Craidd yma

# Dweud Eich Dweud

Ymgynghorwyd yn gyhoeddus y fersiwn ddrafft o'r ddogfen hwn o 25ain o Fawrth tan 16eg o Fehefin 2024.

Er bod y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben rydym yn parhau i edrych am ffyrdd i wella ein gwasanaeth ac i gyflwyno gwybodaeth sy'n ystyrlon. Er mwyn helpu ni i wneud hyn rydym eisiau sicrhau bod eich barn yn cael ystyriaeth wrth i ni ddarparu ein gweithgareddau a'ch hysbysu chi.

Felly, os oes gennych unrhyw sylwadau ar y cynllun hwn, neu sut y gallwn wella ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol, rydym eisiau clywed gennych chi.

### Ysgrifennwch atom:

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) Pencadlys
Ffordd Salesbury
Pare Busness Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL 17 0JJ

### Ffoniwch ni:

07787 578386

### Anfonwch e-bost atom ni ar:

EinPumEgwyddor@tangogleddcymru.llyw.cymru

### Gwneud Cais Am Archwiliad Diogel ac Iach yn y cartref

Gallwch ofyn am archwiliad diogelwch tân yn y cartref i chi'ch hun, perthynas dibynnol neu gymydog, drwy gysylltu â'r Gwasanaeth ar **0800 169 1234**.

### Ein dilyn ni

**@northwalesfire**
**@northwalesfireservice**
**@northwalesfire**
**@nwalesfireservice**



Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

# Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol

## Amcanion Llesiant a Gwella

## 2024 - 2025

**Ein pum egwyddor ar gyfer cadw cymunedau'n ddiogel**

**POBL** | **ATAL** | **DIOGELU** | **YMATEB** | **AMGYLCHEDD**

# Cynnwys


Cyflwyniad 3

Ein Gwasanaeth 3

Ein Staff 4

Ardal ein Gwasanaeth 4

Ein Llywodraethu a Deddfwriaeth 5

Ein Risgiau a'r Galw 6

Ein Hegwyddorion 6

Ein Hegwyddor Pobl 7


Ein Hegwyddor Atal 9

Ein Hegwyddor Diogelu 10

Ein Hegwyddor Ymateb 11

Ein Hegwyddor Amgylchedd 12

Dweud Eich Dweud 13










# Cyflwyniad

Un o'r prif amcanion ar gyfer gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru yw mynd ati'n barhaus ac mewn modd cynaliadwy i leihau risg a gwella diogelwch dinasyddion a chymunedau.

Nod Cynllun Rheoli Risg Cymunedol yw nodi risgiau sy'n wynebu'r gymuned ac mae'n disgrifio sut y bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn rheoli'r risgiau hynny, ac yn parhau i atal ac ymateb i danau ac argyfyngau eraill.

Gallwch ddarllen am bwrpas ein cynllun pum mlynedd yma. Bydd ein hamcanion ar gyfer 2024-25 yn sicrhau cynnydd yn erbyn ein hamcanion hirdymor.

# Ein Gwasanaeth

Mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn cynnwys 28 o gynghorwyr etholedig o chwe awdurdod unedol Gogledd Cymru, gyda nifer y cynrychiolwyr yn cael eu pennu gan boblogaeth yr ardal. Ein cenhadaeth yw gwneud Gogledd Cymru yn ardal ddiogel i fyw ynddi, i weithio ynddi ac i ymweld â hi. Gallwch ddarllen mwy am ein strwythur a'n trefniadau llywodraethu, gan gynnwys rôl yr Awdurdod Tân ac Achub, yma.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cael ei arwain gan Brif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr a Thîm Arweinyddol y Gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys uwch swyddogion a rheolwyr sy'n gyfrifol am adrannau sy'n gofalu am swyddogaethau gweithredol a chorfforaethol allweddol ein Gwasanaeth.

# Ein Staff

Mae ein diffoddwyr tân yn ymateb i danau, gwrthdrawiadau traffig ffyrdd ac argyfyngau eraill o 44 o orsafoedd tân ar draws Gogledd Cymru. Mae gennym 54 o injanau tân. Mae gan rai o'n gorsafoedd tân ddwy injan dân. Mae gan orsafoedd eraill gerbydau arbenigol fel peiriannau ag ysgol ac esgynlawr, cerbydau cefnogi digwyddiadau neu gychod, yn dibynnu ar y risg yn eu hardal.


O ddiffoddwyr tân i arbenigwyr mewn meysydd busnes, gallwch ddarllen mwy am rolau'r bobl sy'n ymateb i argyfyngau a'r bobl sy'n sicrhau bod y Gwasanaeth yn rhedeg yma.



# Ardal ein Gwasanaeth

Mae Gogledd Cymru yn cwmpasu ardal o 6,172 cilomedr sgwâr a phoblogaeth o 687,000, ac mae ganddi dirwedd amrywiol, gan gynnwys mynyddoedd Parc Cenedlaethol Eryri, ardaloedd arfordirol, cymunedau gwledig ac ardaloedd trefol mawr.

Mae Gogledd Cymru'n cynnwys chwe sir: Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Mae'r A55 yn rhedeg trwy bump o'r chwe sir ac mae'n rhan o un o'r llwybrau hiraf yn Ewrop, sy'n rhedeg rhwng Caergybi ac Dwyrain Ewrop. Gallwch ddarllen mwy am ein daearyddiaeth a'n demograffeg yma.




# Ein Llywodraethu a Deddfwriaeth

Fel pob corff yn y sector cyhoeddus, rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru weithredu yn unol â nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth. Gallwch ddarllen mwy am y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu ein Gwasanaeth yma.

Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wneud trefniadau ar gyfer gwelliant parhaus wrth arfer ei swyddogaethau, drwy osod amcanion gwella iddo'i hun ym mhob blwyddyn ariannol yn erbyn o leiaf un o saith swyddogaeth.

Ar ben hynny, rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ymgynghori â'r cyhoedd ar ei amcanion gwella arfaethedig. Roedd y cynllun hwn yn destun ymgynghoriad â'r cyhoedd a rhanddeiliaid rhwng 25 Mawrth a 16 Mehefin.

## Datganiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015




Mae ein hamcanion ar gyfer 2024-25 hefyd wedi'u datblygu yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Trwy ein Hegwyddorion Atal a Diogelu, byddwn yn cyfrannu tuag at Gymru Lewyrchus drwy weithio'n arloesol i gadw pobl yn fwy diogel yn eu cartrefi a'u busnesau. Trwy leihau'r costau sy'n gysylltiedig â marwolaethau, difrod, anafiadau a tharfu yn sgil tân, byddwn yn gwella ein cefnogaeth i economïau lleol Gogledd Cymru.

Trwy ein Hegwyddor Pobl, byddwn yn recriwtio, datblygu a chadw gweithlu dwyieithog, medrus a brwdfrydig iawn sy'n cynrychioli ac yn hyrwyddo amrywiaeth y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu a byddwn yn mabwysiadu arferion ecogyfeillgar yn ein gweithrediadau dyddiol i leihau allyriadau carbon fel rhan o'n Hegwyddor Amgylchedd.

Mae ein Hegwyddor Amgylchedd a'n hamcanion sylfaenol yn cyfrannu tuag at Gymru Gydnerth wrth fabwysiadu arferion ecogyfeillgar yn ein gweithrediadau beunyddiol i leihau allyriadau carbon ac effeithiau amgylcheddol eraill a thrwy godi ymwybyddiaeth amgylcheddol ymhlith ein staff a'n cymunedau.

Byddwn yn cyfrannu at Gymru Iachach drwy ein Hegwyddor Atal drwy ddarparu archwiliadau diogel ac iach i'n dinasyddion mwyaf agored i niwed a gwneud i bob cyswllt gyfrif drwy rannu unrhyw bryderon iechyd a llesiant a nodwyd gyda phartneriaid perthnasol.

Trwy ein Hegwyddor Pobl byddwn yn cefnogi ein gweithlu i fod yn ffit yn gorfforol ac yn wydn yn feddyliol a thrwy ein Hegwyddor Ymateb byddwn yn gwella darpariaeth frys yn ein hardaloedd mwy gwledig, llai poblog.

Trwy ein Hegwyddor Pobl byddwn yn nodi ac yn gwneud y mwyaf o botensial staff drwy reoli a datblygu pobl yn effeithiol, gan arwain at ddiwylliant o berfformiad uchel, lle mae pobl yn gwerthfawrogi ac yn parchu ei gilydd, a thrwy hynny gyfrannu at Gymru sy'n fwy Cyfartal.

Trwy ein Hegwyddorion Atal, Diogelu, Ymateb ac Amgylchedd, byddwn yn cyfrannu at Gymru o Gymunedau Cydlynus gan sicrhau bod tanau mewn cartrefi, busnesau neu ar dir agored naill ai'n cael eu hatal neu fod eu heffaith yn cael ei lleihau cyn belled ag y bo modd.

Byddwn yn cyfrannu at Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu drwy ein Hegwyddor Pobl drwy gynnig mynediad i'n gwasanaethau a'r gallu i gyfathrebu â ni yn Gymraeg a byddwn yn cefnogi ein staff i siarad eu dewis iaith yn y gweithle a chynnig cyfleoedd i staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg. Trwy ein Hegwyddor Diogelu, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid lleol i gadw safleoedd ac adeiladau treftadaeth yn ddiogel rhag tân.

Byddwn yn chwarae ein rhan mewn Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang drwy ein hegwyddorion Amgylchedd a Diogelu. Byddwn yn lleihau ein hallyriadau carbon ein hunain trwy newid ein fflyd o Injanau Tân Diesel i redeg ar Olew Llysiau Hydrogenedig, prynu dim ond ceir a faniau allyriadau sero neu isel iawn a dileu gwres nwy ac nwy petrolewm hylifol o'n hystad yn raddol. Trwy ein gwaith Diogelu, byddwn yn ceisio osgoi neu gyfyngu ar allyriadau nwyon niweidiol i'r atmosffer o ganlyniad i danau gwastraff diwydiannol neu amgylcheddol.

# Ein Risgiau a'r Galw

Mae'r gwaith o gyflawni ein hamcanion blwyddyn wedi'i gynllunio i liniaru rhai o'r risgiau a nodwyd fel rhan o ddatblygiad ein Cynllun Rheoli Risg Cymunedol. Gallwch ddarllen am sut rydym yn asesu risg a galw yma.

# Ein Hegwyddorion

Mae ein Gwerthoedd Craidd wedi ein tywys tuag at fabwysiadu pum Egwyddor. Trwy'r egwyddorion hyn, byddwn yn darparu gwasanaethau arloesol o ansawdd uchel i'n cymunedau a'r bobl sy'n ymweld â ac yn gweithio yng Ngogledd Cymru. Datblygwyd ein Hegwyddorion yn dilyn ymgynghoriad mewnol a byddant yn ein cynorthwyo i liniaru'r risgiau i'n cymunedau ac yn ein helpu i ganolbwyntio ar wella o fewn ein Gwasanaeth dros y pum mlynedd nesaf. Gallwch ddarllen mwy am ein Hegwyddorion yma.



# Ein Hegwyddor Pobl

***Bod yn y lle cywir, ar yr adeg gywir, gyda'r sgiliau cywir.***


Sicrhau gweithlu medrus iawn drwy recriwtio, datblygu a chadw gweithlu llawn cymhelliant a dwyieithog sy'n cynrychioli ac yn hyrwyddo amrywiaeth y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud yn 2024-25?

- Gweithredu'r argymhellion ar gyfer gwella yn dilyn Arolwg Staff Teulu Tân 2023.
- Mabwysiadu Strategaeth Datblygu Pobl a Sefydliadol Holl Wasanaethau Tân ac Achub Cymru ar gyfer 2024-2028 a fydd yn darparu fframwaith ar gyfer meddwl yn arloesol a gweithio i gefnogi cydweithio a phartneriaeth barhaus.
- Cyflwyno 'Fforwm Ymgysylltu Diwylliant Staff: Grymuso Diwylliant yn ein Gwasanaeth' – i esblygu a datblygu ein taith ddiwylliannol yn barhaus
- Darparu cefnogaeth iechyd a lles galwedigaethol ardderchog i sicrhau bod Rheoli Presenoldeb o fewn y Gwasanaeth yn broses gadarnhaol a chefnogol er mwyn gwella presenoldeb.
- Sicrhau gweithlu diogel a chymwys drwy ddatblygu, cynnal a chylchredeg polisïau a gweithdrefnau gweithredol yn effeithlon ac yn effeithiol.
- Sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol am risg weithredol yn cael ei chasglu, ei chofnodi, ei hasesu a'i chyfleu i bersonél gweithredol.
- Darparu cyfleoedd i ddysgu Cymraeg a hyrwyddo gweithgareddau yn unol â'n hymrwymiad i fod yn sefydliad dwyieithog.
- Ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu cynnig dylunio ar gyfer y Ganolfan Hyfforddiant a Datblygu newydd gan arwain at gyflwyno cynllun terfynol i'r Awdurdod Tân i'w gymeradwyo.
- Darparu ail flwyddyn strategaeth hyfforddiant gweithredol tair blynedd i'r holl staff gweithredol.
- Meithrin amgylchedd yn y gweithle sy'n cofleidio cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Bydd hyn yn cryfhau ein gallu i ddarparu gwasanaeth a chymorth o ansawdd uchel i'r cyhoedd yn ystod argyfyngau.
- Gwella iechyd, ffitrwydd a llesiant staff trwy ddarparu cyngor a gwybodaeth, monitro gweithredol ac addysg.
- Adolygu'r pyrth ar gyfer dyrchafiad a dilyniant gyrfa a gweithredu proses arfarnu gynhwysfawr sy'n integreiddio adborth 360 gradd.

- Bydd staff ataliol yn derbyn hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ym maes Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, Caethwasiaeth Fodern, Camfanteisio ar Blant a Thrais Domestig er mwyn darparu gwasanaeth mwy effeithiol i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.
- Bydd staff Diogelwch Tân Busnes a Diffoddwyr Tân Gweithredol yn cael eu hyfforddi yn unol â Fframwaith Cymwyseddau Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân ar gyfer Rheoleiddwyr Diogelwch Tân sy'n gweithio tuag at gofrestru o fewn Cofrestr Gyd-destunol yr Archwilydd.
- Bydd staff gweithredol yn derbyn hyfforddiant a chymwysterau perthnasol i'w galluogi i gynnal archwiliadau diogelwch busnes yn unol â chanllawiau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol.
- Nodi a gwneud y mwyaf o botensial staff drwy reoli a datblygu pobl yn effeithiol, gan arwain at ddiwylliant o berfformiad uchel, lle mae pobl yn gwerthfawrogi ac yn parchu ei gilydd.

## Bydd y camau hyn yn cyfrannu at y nodau llesiant canlynol:



| Cymru gydnerth | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru iachach | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru tecach | Cymru llewyrchus |
|---|---|---|---|---|---|

Bydd y camau hyn yn bodloni Amcanion Gwella canlynol Mesur 2009:
- Effeithiolrwydd Strategol, Tegwch, Effeithlonrwydd ac Arloesedd



# Ein Hegwyddor Atal


***Gweithio gyda phartneriaid i helpu i wneud cymunedau'n fwy diogel.***

Lleihau'r risgiau i'n cymunedau, yn enwedig i'r bobl hynny a allai fod yn fwy agored i niwed, drwy ein rhaglenni ymyrraeth sefydledig fel Archwiliadau Diogel ac Iach a Phrosiect Ffenics.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud yn 2024-25?

- Cynnal 17,500 o Archwiliadau Diogel ac Iach ledled Gogledd Cymru i'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn sgil tân yn y cartref, gan gadw pobl yn fyw ac yn ddiogel rhag tân.
- Defnyddio data partneriaeth i fireinio ein dull seiliedig ar risg o gynnal Archwiliadau Diogel ac Iach i dargedu'r rhai dros 65 oed sydd fwyaf agored i niwed yn sgil tân yn y cartref.
- Gweithio gyda'n partneriaid i ddarparu ymyriadau diogelwch cymunedol effeithiol sy'n targedu ein pobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein hardaloedd mwyaf heriol.
- Datblygu menter ieuenctid newydd i ddarparu ymyriadau cynnar gyda chanlyniadau effeithiol, gan ganolbwyntio ar wytnwch personol a ffactorau amddiffynnol ymhlith plant a phobl ifanc Gogledd Cymru.
- Hyrwyddo addysg diogelwch ar y ffyrdd, ymgysylltu â phartneriaid a chynnal ymgyrchoedd o fewn y gymuned leol, er mwyn lleihau nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ein ffyrdd.
- Gweithio'n agos â rhanddeiliaid allanol i atal boddi damweiniol yng Ngogledd Cymru, gan ddarparu canllawiau cyson ar gyfer mwynhau a rheoli gweithgareddau yn ddiogel mewn dŵr, ar ddŵr ac o gwmpas dŵr.
- Adolygu adroddiadau ac offer monitro gweithgareddau a datblygu dangosfyrddau hunanwasanaeth i gefnogi'r gwaith o gyflwyno ein gweithgareddau atal, diogelu ac ymateb.

### Bydd y camau hyn yn cyfrannu at y nodau llesiant canlynol:



Cymru gydnerth | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru iachach | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Bydd y camau hyn yn bodloni Amcanion Gwella canlynol Mesur 2009:
- Effeithiolrwydd Strategol, Ansawdd y Gwasanaeth, Tegwch, Effeithlonrwydd ac Arloesedd.

# Ein Hegwyddor Diogelu

***Gwneud busnesau'n fwy diogel gyda'n gilydd.***

Darparu canllawiau arbenigol i fusnesau ar ddiogelu rhag tân i helpu i sicrhau diogelwch adeiladau, gweithwyr a chwsmeriaid, a thrwy hynny gefnogi busnesau i dyfu. Mae adeiladau risg uchel yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer arolygiadau, gan gyfrannu at ddiogelwch y cyhoedd yn gyffredinol.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud yn 2024-25?

- Adolygu ein Rhaglen Arolygu Seiliedig ar Risg bresennol a sicrhau bod gennym drefn wybodus a rhesymegol sy'n seiliedig ar wybodaeth i nodi'r dosbarthiad risg perthnasol ar gyfer ein holl safleoedd ledled Gogledd Cymru.
- Parhau i ddarparu Rhaglen Arolygu Seiliedig ar Risg sy'n seiliedig ar wybodaeth i leihau anafiadau a marwolaeth yn sgil tanau mewn eiddo domestig ac annomestig.
- Datblygu'r ymgysylltu â busnes drwy hyfforddi ein staff a rhannu cyngor y diwydiant i leihau achosion o dân.
- Dadansoddi effaith larymau tân awtomatig ar y defnydd o'n hadnoddau a'u heffaith mewn amgylchedd annomestig.
- Gweithio gyda chymunedau lleol ar draws Gogledd Cymru i leihau nifer y digwyddiadau tanau gwyllt.
- Mabwysiadu'r dull Paratoi, Ymroi, Atal a Diogelu i fynd i'r afael â thanau bwriadol, gan weithio'n agos gyda Phartneriaid Amlasiantaeth a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

## Bydd y camau hyn yn cyfrannu at y nodau llesiant canlynol:

Cymru gydnerth

Cymru o gymunedau cydlynus

Cymru iachach

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Cymru llewyrchus

Bydd y camau hyn yn bodloni Amcanion Gwella canlynol Mesur 2009:
- Effeithiolrwydd Strategol, Ansawdd y Gwasanaeth, Tegwch, Effeithlonrwydd ac Arloesedd.

# Ein Hegwyddor Ymateb

***Darparu ymateb brys effeithiol.***

Bod yn barod i ymateb pan fydd arnoch ein hangen: i ddiogelu'r hyn sy'n bwysig i chi, i achub bywydau, lleihau niwed, ac amddiffyn cartrefi a busnesau.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud yn 2024-25?

- Parhau i ddatblygu opsiwn gyda staff, rhanddeiliaid a'r Awdurdod Tân, sy'n cyflawni nodau ac amcanion yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys i'w weithredu yn ystod 2024 / 25.
- Cefnogi ein Diffoddwyr Tân i ddarparu ymateb gweithredol effeithiol, drwy ymchwil a datblygu offer modern, asesiadau risg ac arweiniad.
- Rhaeadru manteision Microsoft 365 i'n holl bobl yn y Gwasanaeth.
- Parhau i ddatblygu a chyflwyno'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys i Ogledd Cymru i sicrhau bod gennym system gyfathrebu ddiogel, cadarn, rhyngweithredol a modern ar draws y rhanbarth.
- Cynnal adolygiad o'n cerbydau arbenigol, ac eithrio injanau tân, sy'n ymateb i argyfyngau.
- Datblygu fframwaith rheoli gorsafoedd newydd i gefnogi ein Rheolwyr i ddarparu gwasanaeth brys effeithlon ac effeithiol.
- Ymgorffori a gwella'r Broses Sicrhau Ansawdd Gweithredol.
- Cyflwyno Canllawiau Rheoli Tân Cenedlaethol Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân yn ein Canolfan Reoli ar y Cyd, er mwyn sicrhau trefniadau rheoli tân cryf a gwydn.

## Bydd y camau hyn yn cyfrannu at y nodau llesiant canlynol:

Cymru gydnerth

Cymru o gymunedau cydlynus

Cymru iachach

Cymru sy'n fwy cyfartal

Bydd y camau hyn yn bodloni Amcanion Gwella canlynol Mesur 2009:

- Effeithiolrwydd Strategol, Ansawdd y Gwasanaeth, Argaeledd y Gwasanaeth, Tegwch, Effeithlonrwydd ac Arloesedd.

# Ein Hegwyddor Amgylchedd

***Diogelu a gwarchod ein hamgylchedd naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.***

Mabwysiadu arferion ecogyfeillgar yn ein gweithrediadau beunyddiol i leihau allyriadau carbon ac effeithiau amgylcheddol eraill a chodi ymwybyddiaeth amgylcheddol ymhlith ein staff a'n cymunedau.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud yn 2024-25?

- Adolygu eitemau stoc a datblygu arferion gwaith er mwyn lleihau gwastraff.
- Datblygu'r Strategaeth Gwerth Cymdeithasol a Chaffael Cynaliadwy.
- Cyflwyno'r seilwaith gofynnol er mwyn i'n fflyd o gerbydau diesel redeg ar Olew Llysiau Hydrogenedig (HVO), dewis amgen cynaliadwy heb ddim allyriadau carbon Cwmpas 1.
- Ehangu'r rhwydwaith Mannau Gwefru Cerbydau Trydan (EVCP) presennol ar draws ein hystâd.
- Parhau i ôl-osod deunydd insiwleiddio yn adeiladau ein hystâd.
- Datblygu cynlluniau ac archwilio cyfleoedd ariannu i leihau allyriadau carbon o'n hadeiladau i gyflawni uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer Allyriadau Sero Net 2030.
- Monitro ac adrodd i Lywodraeth Cymru ar ein hallbwn carbon ar nwyon Tŷ Gwydr mewn perthynas ag ynni, dŵr a gwastraff.

### Bydd y camau hyn yn cyfrannu at y nodau llesiant canlynol:

Cymru gydnerth

Cymru o gymunedau cydlynus

Cymru iachach

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Bydd y camau hyn yn bodloni Amcanion Gwella canlynol Mesur 2009:
- Effeithiolrwydd Strategol, Cynaliadwyedd, Effeithlonrwydd ac Arloesedd

# Dweud Eich Dweud

Ymgynghorwyd yn gyhoeddus y fersiwn ddrafft o'r ddogfen hwn o 25ain o Fawrth tan 16eg o Fehefin 2024.

Er bod y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben rydym yn parhau i edrych am ffyrdd i wella ein gwasanaeth ac i gyflwyno gwybodaeth sy'n ystyrlon. Er mwyn helpu ni i wneud hyn rydym eisiau sicrhau bod eich barn yn cael ystyriaeth wrth i ni ddarparu ein gweithgareddau a'ch hysbysu chi.

Felly, os oes gennych unrhyw sylwadau ar y cynllun hwn, neu sut y gallwn wella ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol, rydym eisiau clywed gennych chi.

### Ysgrifennwch atom:

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) Pencadlys
Ffordd Salesbury
Pare Busness Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL 17 0JJ

### Ffoniwch ni:

07787 578386

### Anfonwch e-bost atom ni ar:

EinPumEgwyddor@tangogleddcymru.llyw.cymru

### Gwneud Cais Am Archwiliad Diogel ac Iach yn y cartref

Gallwch ofyn am archwiliad diogelwch tân yn y cartref i chi'ch hun, perthynas dibynnol neu gymydog, drwy gysylltu â'r Gwasanaeth ar **0800 169 1234**.

## Ein dilyn ni

**@northwalesfire**

**@northwalesfireservice**

**@northwalesfire**

**@nwalesfireservice**

# Cynllun Rheoli Risg Cymunedol Drafft 2024 – 29

# &

# Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol Drafft 2024-25

# Adroddiad Ymgynghori

# Cynnwys

**Cefndir** ........ 2
**Cyflwyniad** ........ 2
**Methodoleg** ........ 2
**Arsylwadau** ........ 3
**Risg Cymunedol** ........ 4
**Y Camau Nesaf** ........ 4
**Cipolwg ar yr Ymatebion** ........ 5
**Risgiau Cymunedol** ........ 6
**MANYLU AR ‘EIN HEGWYDDOR POBL'** ........ 7
**MANYLU AR 'EIN HEGWYDDOR ATAL'** ........ 8
**MANYLU AR 'EIN HEGWYDDOR DIOGELU'** ........ 9
**MANYLU AR 'EIN HEGWYDDOR YMATEB'** ........ 10
**MANYLU AR 'EIN HEGWYDDOR AMGYLCHEDD'** ........ 11
**Meysydd Eraill mewn Perthynas â'r Gwasanaethau rydyn ni’n eu Darparu** ........ 12
**Materion Cydraddoldeb** ........ 12
**Gwybodaeth Ychwanegol** ........ 13
**Sylwadau ac Ymatebion ar y Cyfryngau Cymdeithasol** ........ 16
**Atodiad A** ........ 17
**Atodiad B** ........ 21
**Atodiad C** ........ 26
**Atodiad D** ........ 31
**Atodiad E** ........ 34
**Atodiad F** ........ 39
**Atodiad G** ........ 42
**Atodiad H** ........ 46

## Cefndir

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, mae'n rhaid i wasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru ymgynghori ar y trefniadau y maent yn bwriadu eu rhoi ar waith i wneud gwelliannau parhaus a'r amcanion a'r safonau gwella y maent yn bwriadu eu gosod iddynt hwy eu hunain.

Gellir cyflawni'r dyletswyddau o dan Fesur 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 trwy gyhoeddi un adroddiad- Ffynhonnell:  Cylchlythyr Tân ac Achub Cymru W-FRSC (2024) 06.

Roedd y cynllun Corfforaethol tair blynedd blaenorol (2021-24) wedi dod i ddiwedd ei gyfnod adrodd.

Yn ystod mis Ebrill 2021 cymeradwyodd Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (NFCC) y 'Cynllun Rheoli Risg Cymunedol' fel Safon Tân ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub Lloegr.

Fel rhan o'r 'Safon Tân' dylai gwasanaeth tân ac achub ymgynghori'n effeithiol ac ymgysylltu (yn unol â'i drefniadau llywodraethu) â chymunedau, staff a rhanddeiliaid ar gamau priodol o'r broses cynllunio rheoli risg cymunedol.

Mae pob Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru wedi mabwysiadu canllawiau'r NFCC i gyhoeddi CRhRC.

Mae'r ddogfen CRhRC yn ceisio nodi'r risgiau a'r heriau disgwyliedig y gallai'r Gwasanaeth eu profi o fewn y pum mlynedd nesaf.

## Cyflwyniad

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar y cynnig i weithredu pum egwyddor allweddol:

- Ein Hegwyddor Pobl
- Ein Hegwyddor Atal
- Ein Hegwyddor Diogelu
- Ein Hegwyddor Ymateb
- Ein Hegwyddor Amgylchedd

Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, cwblhawyd Asesiad Effaith Integredig.

## Methodoleg

Rhwng 25 Mawrth ac 16 Mehefin, cyhoeddwyd y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol drafft 2024-2029 a'r Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol drafft, yn Gymraeg a Saesneg, ar wefan y Gwasanaeth Tân ac Achub ynghyd â dolenni uniongyrchol i holiadur yr arolwg.

Paratowyd a chyhoeddwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) yn Gymraeg a Saesneg hefyd, ac roedd cwestiwn penodol am yr asesiad hwnnw yn holiadur yr arolwg.

Dilynwyd yr arfer gorau a fabwysiadwyd yn ystod ymgynghoriad yr Adolygiad o’r Ddarpariaeth Frys y llynedd, unwaith eto, gan gynnwys Egwyddorion Gunning.

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i’r ymgynghoriad ar-lein, yn fewnol ar Hwb Tân, ar y cyfryngau cymdeithasol a thrwy hysbysebion y talwyd amdanynt ac yn y wasg ysgrifenedig.

Argraffwyd taflenni dwyieithog gyda Chod QR arnynt, gan hwyluso mynediad uniongyrchol a hawdd i holiadur yr arolwg ar-lein, ac fe’u dosbarthwyd yn ystod ymweliadau Archwiliad Diogel ac Iach a digwyddiadau ymgysylltu.

Crëwyd cyfeiriad e-bost dwyieithog pwrpasol i hwyluso ceisiadau am wybodaeth ychwanegol neu holiaduron copi caled. Crëwyd rhif ffôn symudol pwrpasol i ymateb i unrhyw ymholiadau na ellid eu cyflwyno drwy e-bost.

Anfonwyd llythyrau, yn enw'r Cadeirydd, at bawb ar y Gofrestr Rhanddeiliaid yn eu gwahodd i gymryd rhan.

Bu’r Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn ymgysylltu wyneb yn wyneb.

Gallwn ddangos ein bod wedi ymgysylltu â thua 70 o wahanol grwpiau/partneriaid sy'n dangos ein bod wedi 'dangos sylw dyledus' ac yn ein cwmpasu o safbwynt cyfreithiol.

Defnyddiwyd adolygiadau wythnosol o'r ymatebion a gyflwynwyd, i sbarduno ymgyrchoedd ymwybyddiaeth ychwanegol yn ardaloedd yr Awdurdod Lleol heb gynrychiolaeth ddigonol.

Derbyniwyd cyfanswm o **223** ymateb i arolwg yr ymgynghoriad yn ystod y cyfnod o 12 wythnos.

**221** wedi'u llenwi yn Saesneg ac **2** wedi’u llenwi yn Gymraeg.

## Arsylwadau

Nid oes amheuaeth bod camddealltwriaeth wedi bod ynghylch natur yr ymgynghoriad, gan ei fod wedi digwydd mor fuan wedi'r ymgynghoriad mwyaf a gynhaliwyd erioed gan yr Awdurdod Tân fel rhan o'r Adolygiad o’r Ddarpariaeth Frys. Fodd bynnag, mae'n ofyniad statudol o hyd o dan Fesur 2009 i ymgynghori yn flynyddol ar amcanion gwella ac esboniwyd hyn ar ddechrau Cynllun Rheoli 2024/2029 a Chynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2024/2025.

Yng ngoleuni'r pwysau ariannol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus, a chan gysylltu’r Adolygiad o’r Ddarpariaeth Frys â chyllid, heb os, roedd sylwadau yn mynegi pryder am y costau sy'n gysylltiedig ag ymarferion ymgynghori parhaus.

Roedd rhywfaint o negyddiaeth mewn perthynas ag Egwyddor yr Amgylchedd a'r cwestiynau Cydraddoldeb, sy'n dangos diffyg gwerthfawrogiad o'r gofyniad i'r Awdurdod Tân ac Achub gefnogi Llywodraeth Cymru i gyrraedd ei thargedau carbon sero net a rhwymedigaethau statudol yr Awdurdod i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

## Risg Cymunedol

Yr Egwyddorion Pobl ac Ymateb a gafodd y nifer mwyaf o sylwadau ychwanegol (109 a 105 yn y drefn honno) yn enwedig mewn perthynas â’r agweddau canlynol:

| Ein Hegwyddor Pobl | Ein Hegwyddor Ymateb |
|---|---|
| Amrywiaeth a Chynhwysiant | Lleoliad gorsafoedd |
| Cyfleoedd i bobl ifanc | Cadw gorsafoedd tân presennol |
| Dewis iaith | Creu gorsafoedd tân newydd |

Roedd rhai o'r sylwadau a'r awgrymiadau a gafwyd mewn perthynas â gweithgarwch ychwanegol yn bethau y mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub eisoes yn eu gwneud neu'n eu cynnig, gan awgrymu y gallai fod angen i'r Gwasanaeth hyrwyddo ei weithgareddau yn well neu'n ehangach.

Er enghraifft:

- Ein gweithgareddau ymgysylltu â phobl ifanc.
- Ein rhaglen o ddarparu Archwiliadau Diogel ac Iach i'r rhai sydd â mwy o angen.
- Gweithio gyda busnesau a chymunedau ffermio.

## Y Camau Nesaf

Mae unrhyw wallau teipio neu fân broblemau fformatio eraill a nodwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori wedi'u cywiro. Mae'r holl sylwadau wedi'u hadolygu a’r adborth wedi’i ystyried. Fodd bynnag, gan fod adborth yr arolwg yn dangos cefnogaeth ysgubol i'r Egwyddorion a'r amcanion Llesiant a Gwella, ni fu unrhyw newid i'r Egwyddorion na'r amcanion.

Bydd cynnwys yr adroddiad hwn yn cael ei ystyried gan aelodau yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod Tân ar 15 Gorffennaf 2024.

## Cipolwg ar yr Ymatebion

# Cynllun Rheoli Risg Cymunedol
## Adroddiad Crynodeb o'r ymgynghoriad

**Cyfanswm yr ymatebion**
**223**

**Cyfanswm yr ymatebion gan staff**
**48** (22%)

| | |
|---|---|
| Ynys Môn **13** (6%) | Sir y Fflint **65** (29%) |
| Conwy **50** (22%) | Gwynedd **27** (12%) |
| Sir Ddinbych **37** (17%) | Wrecsam **31** (14%) |

**Cyfanswm nifer y sylwadau testun a dderbyniwyd mewn perthynas â 'Ein hegwyddorion'**

Pobl **116** | Atal **104** | Amddiffyn **80** | Ymateb **113** | Amgylchedd **90**

### Crynodeb o'r ymatebion i 'Ein Hegwyddorion'

| Egwyddor | % | |
|---|---|---|
| **Ein Egwyddor Pobl**<br>Bod yn y lle iawn, ar yr adeg iawn, gyda'r sgiliau cywir. | **92%** | o ymatebion yn derbyn 'Yn gryf' or 'Cytuno' raddau' gyda'r egwyddor yma. |
| **Ein Hegwyddor Atal**<br>Gweithio gyda phartneriaid i helpu i wneud cymunedau'n fwy diogel. | **96%** | o ymatebion yn derbyn 'Yn gryf' or 'Cytuno' raddau' gyda'r egwyddor yma. |
| **Ein Hegwyddor Amddiffyn**<br>Gwneud busnesau'n fwy diogel gyda'i gilydd. | **97%** | o ymatebion yn derbyn 'Yn gryf' or 'Cytuno' raddau' gyda'r egwyddor yma. |
| **Ein Hegwyddor Ymateb**<br>Darparu ymateb brys effeithiol. | **96%** | o ymatebion yn derbyn 'Yn gryf' or 'Cytuno' raddau' gyda'r egwyddor yma. |
| **Ein Hegwyddor Amgylchedd**<br>Diogelu a gwarchod ein hamgylchedd naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. | **91%** | o ymatebion yn derbyn 'Yn gryf' or 'Cytuno' raddau' gyda'r egwyddor yma. |

**Cyrhaeddiad cyfryngau cymdeithasol**
**141,180**
(30,968 oddi ar hysbysebion Facebook)

**Ymatebion**
**865**
(557 oddi ar hysbysebion Facebook)

**Sylwadau**
**46**
(14 oddi ar hysbysebion Facebook)

**Rhannu**
**94**
(12 oddi ar hysbysebion Facebook)

**Postiadau cyfryngau cymdeithasol wedi eu cyhoeddi**
**80**
(4 oddi ar hysbysebion Facebook)

**Ymwelwyr â'r wefan**
i dudalennau perthnasol
**4487**
(gan gynnwys **363** i dudalennau Cymraeg)

**Bwletinau E-bost**

**Bwletin Saesneg 1af (ar y dechrau):**
**1298** wedi danfon, **28%** o agoriadau unigryw

**2il fwletin Saesneg (hanner ffordd):**
**1419** wedi danfon, **25%** o agoriadau unigryw

**Bwletin Cymraeg 1af (ar y dechrau):**
**1219** wedi danfon, **30%** o agoriadau unigryw

**2il fwletin Cymraeg (hanner ffordd):**
**1216** wedi danfon, **26%** o agoriadau unigryw

## Risgiau Cymunedol

Yn ein cynllun pum mlynedd rydym yn tynnu sylw at y risgiau sy'n ein hwynebu. Oes unrhyw risgiau eraill y dylem fod yn eu hystyried neu'n cynllunio ar eu cyfer yn eich barn chi?

**Cwestiwn 1:**

| Dadansoddiad yn ôl Ymateb | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ● | Oes | 77 | 35% |  |
| ● | Nac Oes | 146 | 65% | |

**Derbyniwyd cyfanswm o 76 o sylwadau pellach ar gyfer y cwestiwn hwn. (Gweler Atodiad A)**

**Cwestiwn 2:** Crynodeb

- Newidiadau i ddemograffeg – Poblogaeth gynyddol; poblogaeth sy'n heneiddio; tai newydd; pobl yn byw ar eu pennau eu hunain; mewnfudo.
- Newidiadau i'r seilwaith – Cynllun ffyrdd; traffig.
- Newidiadau i'r amgylchedd – hinsawdd; llifogydd.
- Ymwybyddiaeth o risgiau diwydiannol – Ffatrïoedd.
- Technoleg yn datblygu – ffermydd solar / dronau / E-feiciau ac E-sgwteri.
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru – Recriwtio; cynllunio olyniaeth; llesiant staff.

## MANYLU AR 'EIN HEGWYDDOR POBL'

*Bod yn y lle cywir, ar yr adeg gywir, gyda'r sgiliau cywir.*

Sicrhau gweithlu medrus iawn drwy recriwtio, datblygu a chadw gweithlu dwyieithog, llawn cymhelliant sy'n cynrychioli ac yn hyrwyddo amrywiaeth y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

**Cwestiwn 3:**

**I ba lefel ydych chi'n cytuno bod ein hamcanion yn cefnogi'r egwyddor hon?**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cytuno'n gryf | 164 | 74% |
| | Cytuno i raddau | 42 | 19% |
| | Anghytuno i raddau | 3 | 1% |
| | Anghytuno'n gryf | 14 | 6% |



**Derbyniwyd cyfanswm o 116 o sylwadau pellach ar gyfer yr egwyddor hon. (Gweler Atodiad B)**

**Cwestiwn 4:** Crynodeb

- Ein Hegwyddor Pobl a dderbyniodd y nifer mwyaf o ymatebion naratif (116), yn cofnodi ystod eang o safbwyntiau.
- Cytunwyd yn gyffredinol y dylai iechyd, diogelwch a llesiant y gweithlu fod yn flaenoriaeth, ond na ddylid cyfyngu hynny i staff gweithredol.
- Roedd barn ranedig ynghylch a ddylid recriwtio diffoddwyr tân ar sail eu gallu i wneud y swydd yn unig, ynteu a ddylid ystyried nodweddion cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Gwella prosesau recriwtio.  Ystyried cael gwared ar ffiniau mynediad (gofynion TGAU).
- Parhau ein gweithgareddau ymgysylltu â phobl ifanc a'u gwella, yn enwedig yn ystod cyfnodau recriwtio diffoddwyr tân.

## MANYLU AR 'EIN HEGWYDDOR ATAL'

*Gweithio gyda phartneriaid i helpu i wneud cymunedau'n fwy diogel.*

Lleihau'r risgiau i'n cymunedau, yn enwedig i'r bobl hynny a allai fod yn fwy agored i niwed, drwy ein rhaglenni ymyrraeth sefydledig fel Archwiliadau Diogel ac Iach a Phrosiect Ffenics.

**Cwestiwn 5:**

| I ba lefel ydych chi'n cytuno bod ein hamcanion yn cefnogi'r egwyddor hon? | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ● | Cytuno'n gryf | 170 | 76% |  |
| ● | Cytuno i raddau | 44 | 20% | |
| ● | Anghytuno i raddau | 4 | 2% | |
| ● | Anghytuno'n gryf | 5 | 2% | |

**Derbyniwyd cyfanswm o 104 o sylwadau pellach ar gyfer yr egwyddor hon. (Gweler Atodiad C)**

**Cwestiwn 6:** Crynodeb

- Roedd ymatebion yn gyffredinol yn cytuno gyda'r 'Egwyddor Atal'; hynny yw, mae'n well atal tân rhag digwydd yn y lle cyntaf.
- Cymeradwyaeth gyffredinol i'r rhaglen Archwiliadau Diogel ac Iach
- Cynyddu nifer y staff diogelwch tân i sicrhau parhad ac o bosibl ehangu yn y maes hwn.
- Mwy o gydweithio.
- Mwy o ymgysylltu â phobl ifanc.
- Bod staff diogelwch tân yn gallu siarad Cymraeg.

## MANYLU AR 'EIN HEGWYDDOR DIOGELU'

*Gwneud busnesau'n fwy diogel gyda'n gilydd.*

Darparu canllawiau arbenigol i fusnesau ar ddiogelu rhag tân i helpu i sicrhau diogelwch adeiladau, gweithwyr a chwsmeriaid, a thrwy hynny gefnogi busnesau i dyfu. Mae adeiladau risg uchel yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer arolygiadau, gan gyfrannu at ddiogelwch y cyhoedd yn gyffredinol.

**Cwestiwn 7:**

**I ba lefel ydych chi'n cytuno bod ein hamcanion yn cefnogi'r egwyddor hon?**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 155 | 70% | |
| Cytuno i raddau | 62 | 28% | |
| Anghytuno i raddau | 3 | 1% | |
| Anghytuno'n gryf | 3 | 1% | |



**Derbyniwyd cyfanswm o 80 o sylwadau pellach ar gyfer yr egwyddor hon. (Gweler Atodiad D)**

**Cwestiwn 8:** Crynodeb

- Roedd yr ymatebion yn gyffredinol yn cytuno â'r 'Egwyddor Diogelu', ond dylid cynyddu nifer y staff i gefnogi'r rhan hon o'r Gwasanaeth. (Yn debyg i'r adborth ynghylch 'Ein Hegwyddor Atal').
- Egluro'n well y diffiniad o 'Risg Uchel'.
- Gweithio gyda busnesau mewn trefi.
- Gweithio gyda ffermwyr.
- Archwilio llety rhent a sicrhau bod landlordiaid yn atebol.
- Bod staff diogelwch tân yn gallu siarad Cymraeg.
- Dylai busnesau fod yn atebol a dylai Trethi Busnes ariannu hyn.

## MANYLU AR 'EIN HEGWYDDOR YMATEB'

*Darparu ymateb brys effeithiol.*

Bod yn barod i ymateb pan fydd arnoch ein hangen: i ddiogelu’r hyn sy'n bwysig i chi, i achub bywydau, lleihau niwed, ac amddiffyn cartrefi a busnesau.

**Cwestiwn 9:**

**I ba lefel ydych chi'n cytuno bod ein hamcanion yn cefnogi'r egwyddor hon?**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cytuno'n gryf | 187 | 84% |
| | Cytuno i raddau | 28 | 13% |
| | Anghytuno i raddau | 5 | 2% |
| | Anghytuno'n gryf | 3 | 1% |



**Derbyniwyd cyfanswm o 113 o sylwadau pellach ar gyfer y cwestiwn hwn. (Gweler Atodiad E)**

**Cwestiwn 10:** Crynodeb

- Roedd yr ymatebion yn gyffredinol yn cytuno gyda'r 'Egwyddor Ymateb', ond gydag atebion cymysg ar sut y gellid cyflawni hyn orau.
- Ymhlith yr awgrymiadau roedd cynyddu nifer y diffoddwyr tân ac edrych ar newidiadau i systemau dyletswydd gweithredol.
- Gwneud i staff gweithredol ar alwad deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi’n well.
- Edrych ar leoliad gorsafoedd tân.

## MANYLU AR 'EIN HEGWYDDOR AMGYLCHEDD'

*Diogelu a gwarchod ein hamgylchedd naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.*

Mabwysiadu arferion ecogyfeillgar yn ein gweithrediadau beunyddiol i leihau allyriadau carbon ac effeithiau amgylcheddol eraill a chodi ymwybyddiaeth amgylcheddol ymhlith ein staff a'n cymunedau.

**Cwestiwn 11:**

| I ba lefel ydych chi'n cytuno bod ein hamcanion yn cefnogi'r egwyddor hon? | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cytuno'n gryf | 152 | 68% |  |
| | Cytuno i raddau | 51 | 23% | |
| | Anghytuno i raddau | 8 | 4% | |
| | Anghytuno'n gryf | 12 | 5% | |

**Derbyniwyd cyfanswm o 90 o sylwadau pellach ar gyfer yr egwyddor hon. (Gweler Atodiad F)**

**Cwestiwn 12:** Crynodeb:

- Pryderon am y gost a'r effaith ar ein cyllideb i gyflawni dyheadau'r egwyddor hon.
- Sylwadau yn cwestiynu dibynadwyedd gwybodaeth ac arweiniad ynghylch newid yn yr hinsawdd.
- Diogelu'r amgylchedd trwy leihau tanau.

## Meysydd Eraill mewn Perthynas â'r Gwasanaethau rydyn ni'n eu Darparu

*Roedd ymateb i'r cwestiynau canlynol yn ddewisol.*

A oes unrhyw feysydd eraill mewn perthynas â'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu yr hoffech i ni eu hystyried?

**Derbyniwyd cyfanswm o 96 o sylwadau pellach ar gyfer yr egwyddor hon. (Gweler Atodiad G)**


**Cwestiwn 13:** Crynodeb

- Cyfleoedd gwirfoddoli
- Cydweithio â Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
- Cydweithio â Gwasanaeth Ambiwlans Sant Ioan
- Cyfleoedd profiad gwaith
- Gorsafoedd amser llawn ym mhob ardal
- Diogelwch ar y Ffyrdd

## Materion Cydraddoldeb

**Cwestiynau 14 a 15**: Oes unrhyw faterion cydraddoldeb eraill y dylen ni fod yn meddwl amdanyn nhw?

| Dadansoddiad yn ôl Ymateb | | | |
|---|---|---|---|
| Oes | 73 | 33% | |
| Nac Oes | 145 | 65% | |
| Heb ateb | 5 | 2% | |



## Gwybodaeth Ychwanegol

*Roedd ymateb i'r cwestiynau canlynol yn ddewisol.*

**Cwestiwn 16:** Os ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad neu grŵp, rhowch wybod i ni pwy rydych chi'n ei gynrychioli a ble rydych chi/pa faes rydych chi'n ei gwmpasu.


Crynodeb o rai yn unig o'r grwpiau lleol a ymatebodd.

- Grwpiau Dementia
- Grwpiau Paned a Sgwrs
- Coleg Glannau Dyfrdwy
- Coleg Cambria
- Grwpiau ESYT
- Grwpiau Gwau a Sgwrsio


**Cwestiwn 17:** Ydych chi'n un o gyflogeion Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru?

| Dadansoddiad yn ôl Ymateb | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ● | Ydw | 48 | 22% |  |
| ● | Nac ydw | 175 | 78% | |


**Cwestiwn 18:** Dewiswch un o'r canlynol i nodi pa ardal Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru rydych yn byw ynddi, yn gweithio ynddi neu'n ymweld â hi.




**Cwestiwn 19: Pa grŵp oedran ydych chi?**




**Cwestiwn 20:** Rhywedd – beth ydy eich hunaniaeth rhywedd?


| Dadansoddiad yn ôl Ymateb | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ● | Gwryw | 71 | 32% |  |
| ● | Benyw | 127 | 57% | |
| ● | Arall | 4 | 2% | |
| ● | Heb ateb | 21 | 9% | |

**Cwestiynau 21 a 22**: Hil/Ethnigrwydd - pa un o'r canlynol sy'n eich disgrifio chi orau?





**Cwestiynau 23 a 24:** Anabledd - ydych chi'n anabl neu a oes gennych gyflwr iechyd hirdymor?

| Dadansoddiad yn ôl Ymateb | | | |
|---|---|---|---|
| Oes | 58 | 26% | |
| Nac Oes | 113 | 51% | |
| Heb ateb | 52 | 23% | |




**Cwestiwn 25:** Cyfeiriadedd Rhywiol

| Dadansoddiad yn ôl Ymateb | | | |
|---|---|---|---|
| Heterorywiol | 97 | 43% | |
| Hoyw/Lesbiaidd | 6 | 3% | |
| Deurywiol | 3 | 1% | |
| Arall | 2 | 1% | |
| Heb ateb | 115 | 52% | |



**Cwestiynau 26 a 27:** Crefydd a/neu Gred – ydych chi'n gysylltiedig ag unrhyw grefydd, ffydd neu system gred benodol?

| Dadansoddiad yn ôl Ymateb | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ● | Ydw | 66 | 30% |  |
| ● | Nac Ydw | 81 | 36% | |
| ● | Heb ateb | 76 | 34% | |

## Sylwadau ac Ymatebion ar y Cyfryngau Cymdeithasol (Gweler Atodiad H)

Cafodd negeseuon yn hyrwyddo cymryd rhan yn yr ymgynghoriad eu postio ar Facebook a Twitter drwy gydol y cyfnod ymgynghori yn ogystal â fideos gan staff yn egluro sut i gymryd rhan. Crëwyd hysbysebion taledig hefyd ar Facebook ac Instagram yn targedu aelodau o'r cyhoedd ar draws Gogledd Cymru gan eu hannog i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.

## Atodiad A

| Cyf. | RISGIAU ERAILL – SYLWADAU YCHWANEGOL |
|---|---|
| 1 | Y risg fwyaf a welaf gyda GTAGC yw eich bod yn gwastraffu amser ac adnoddau yn gyson ar ymgyrchoedd gwleidyddol a mentrau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a'ch bod yn gyrru'r holl ddiffoddwyr tân da i ffwrdd |
| 2 | Iechyd a ffitrwydd y gweithlu a'r gymuned rydych chi'n ei gwasanaethu |
| 3 | Gwastraffu gormod o'r gyllideb a rhedeg allan |
| 4 | Heb roi ymateb |
| 5 | Dronau. Effaith selio arwyneb tir yn sgil adeiladu tai newydd yn cynyddu problemau gyda fflach-lifogydd. Draeniau yn methu ymdopi |
| 6 | Demograffeg yr ardal leol. Mae gan Ogledd Cymru boblogaeth sy'n heneiddio ac effeithiau hyn ar staffio posibl a chynllunio olyniaeth. Mae hyn hefyd yn cael effaith ar ddarpar ymgeiswyr sy'n gweithio ar alwad - yn enwedig mewn ardaloedd gwledig sy'n gweld cynnydd ym mherchnogaeth ail gartrefi a phobl leol yn edrych at fyw a gweithio mewn mannau eraill. |
| 7 | ymosodiadau terfysgol |
| 8 | Demograffeg, nid yw'n sôn am bryderon gyda staffio a chynllunio olyniaeth ac ati |
| 9 | Teimlo bod y risgiau a nodir yn canolbwyntio ar yr ochr weithredol, ond bod llai o ystyriaeth tuag at y risg i'r Sefydliad o gael y bobl gywir ar waith i ddarparu'r gwasanaethau, e.e. recriwtio'r setiau sgiliau arbenigol i yrru'r gwasanaeth yn ei flaen |
| 10 | Canolbwyntio'n fawr ar yr ochr weithredol. Gweithlu cydnerth addas |
| 11 | Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024-29 [redacted] |
| 12 | Poblogaeth sy'n heneiddio |
| 13 | Mwy o draffig yng Nghymru nid yn unig yn effeithio ar y trefi twristiaeth ond y brif wythïen o drefi ar hyd coridor yr A55. Yn enwedig Sir y Fflint. Adeiladu mwy o dai newydd yn nhrefi Glannau Dyfrdwy a'r Rhyl. |
| 14 | Mwy o ddarpariaeth o bosibl yn ein trefi mwy neu o'u cwmpas gan y bydd y Rhyl a Wrecsam yn gweld datblygiad preswyl a masnachol enfawr dros y 5 mlynedd nesaf. |
| 15 | Marwolaethau oherwydd diffyg darpariaeth/cyllideb |
| 16 | Dim israddio'r ddarpariaeth tân mewn gorsafoedd amser cyflawn a rhai â chriw dydd a fyddai'n gwaethygu darpariaeth tân ac amseroedd troi allan ar gyfer y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu |
| 17 | Y cynnydd yn y boblogaeth mewn ardaloedd risg uwch. |
| 18 | Swyddi achub dŵr |
| 19 | Diogelwch ar y ffyrdd, yn enwedig beicwyr modur |
| 20 | Beicwyr a charafanau |
| 21 | Mae'n ymddangos bod recriwtio yn bryder. |
| 22 | Mae eich rhestr waith yn gynhwysfawr iawn |
| 23 | Mae eich cynllun yn sôn am danau gwyllt, ond beth am achosion tanau gwyllt. Mae miloedd o wersyllwyr yn ymweld â gogledd Cymru bob wythnos ac yn aml mae tanau gwersyll yn cael eu cynnau sy'n cynyddu'r risg rhywfaint. Er bod y rhan fwyaf o bobl yn ofalus, a yw'r gwasanaeth tân yn gwneud unrhyw waith atal i roi cyngor ar arfer diogel a thynnu sylw at ardaloedd [risg uwch] y dylai pobl eu hosgoi? |
| 24 | Byddech yn disgwyl i fwy o risgiau diwydiannol gael eu cynnwys mewn cynllun risg. Mae ffatri baent leol [ar gyrion Bethesda] a byddai'n niweidiol pe bai'n mynd ar dân. |
| 25 | Ffermydd solar. Mae llawer o ffermwyr yn edrych i arallgyfeirio ac maen nhw'n ystyried troi caeau mawr yn ffermydd solar mawr, ddim yn siŵr a ydych chi'n gwybod am y datblygiadau hyn [a risgiau posib] |

| | |
|---|---|
| **26** | Sgwteri trydan digyswllt |
| **27** | Risg o alwadau cynyddol ar ein gwasanaethau oherwydd pwysau cynyddol ar y GIG / Gwasanaeth Ambiwlans |
| **28** | Posibilrwydd o fwy o ffocws ar foddi [diogelwch dŵr] |
| **29** | Gweithgaredd atal penodol ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Nid yw newydd-ddyfodiaid yn ymwybodol o'r risgiau yma. |
| **30** | A all eich gwasanaeth ystyried pobl sy'n newydd [ac yn dod i'r amlwg] oherwydd mae cyfieithu a dehongli yn hanfodol bwysig er mwyn cyfathrebu a chyfleu negeseuon pwysig. |
| **31** | Ddim yn siŵr |
| **32** | Fel gweithiwr ieuenctid, byddai'n dda gweld mwy o wasanaethau cyhoeddus yn cysylltu â ni [Elusen EYST] a gallwch weld yr effaith enfawr rydyn ni'n ei chael ar y bobl ifanc a'u teuluoedd rydyn ni'n eu cefnogi. Rydyn ni'n brin iawn o arian, ond bydd unrhyw help y gallwch chi [GTAGC] ei roi yn ddefnyddiol. Defnyddio mannau cymunedol gorsafoedd tân? Staff tân yn trefnu gweithgareddau i bobl ifanc. Gall yr ymgysylltiad hwn eich helpu i ddarganfod beth yw'r risgiau a sut y gallwch fynd i'r afael â nhw. |
| **33** | Mwy o bwyslais ar sgiliau craidd a ffitrwydd a llawer llai neu'n hytrach dim o'r sothach cywirdeb gwleidyddol (PC) |
| **34** | Poblogaeth sy'n heneiddio a'r diffyg symudedd wrth fynd yn hŷn. |
| **35** | Yr henoed. Rydyn ni'n boblogaeth sy'n heneiddio lle mae pobl hŷn yn ynysig ac ar eu pennau eu hunain. |
| **36** | E-feiciau yn y newyddion y bore 'ma |
| **37** | Recriwtio mewn ardaloedd gwledig |
| **38** | E-feiciau |
| **39** | Gellid tynnu sylw at ardaloedd penodol sydd â risg uwch o danau gwyllt i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd. Gallai GTAGC yn wir wella'r ffordd y mae'n codi ymwybyddiaeth, cyfathrebu â'r cyhoedd ac ymgysylltu â phobl yn gyffredinol. Nid yw cyfathrebu ar-lein yn gweithio! |
| **40** | Mae e-feiciau yn bryder. Yn y newyddion y bore 'ma, roedd sôn am deulu fu farw mewn tân yn eu cartref a achoswyd gan e-feic |
| **41** | Mae e-feiciau ac e-sgwteri yn broblem enfawr nad yw cymdeithas yn ei chydnabod. Mae technolegau heb eu rheoleiddio yn beryglus. |
| **42** | Pobl hŷn â phroblemau symudedd. Mae pobl sy'n defnyddio cadeiriau trydan, yn eu storio a'u gwefru yn fy mhoeni. |
| **43** | Pobl yn syrthio i ddŵr, mae gormod o bobl/teuluoedd yn mentro i mewn i'r môr mewn tywydd garw. Pobl yn cerdded gyda'u cŵn ar hyd traciau trên. Yr A55 yn mynd yn rhy brysur, yn enwedig yn ystod y tymor gwyliau. Tywydd poeth a phobl yn mynd yn sâl. |
| **44** | E-feiciau a pheryglon gyda'r batri. Pobl sy'n gyrru wrth ddefnyddio eu ffonau symudol. Pobl yn goryrru yng nghanol trefi ac ardaloedd adeiledig. Mae llai o fynediad i wersi nofio yn golygu bod mwy o bobl nad ydynt yn gallu dysgu nofio. |
| **45** | Ystyriwch bobl sy'n byw ar eu pennau eu hunain, yn enwedig pobl sydd wedi colli eu gwŷr [neu wraig/partneriaid] |
| **46** | Fel cyn-ddiffoddwr tân fy hun, gall GTAGC ddatblygu. Rwy'n falch nad ydych wedi cau unrhyw orsafoedd tân. Roedd yn bryder pan oedd Conwy yn cael ei thrafod [yn yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys yn 2023]. |
| **47** | Nid yw'n ymddangos bod unrhyw beth am sgiliau a datblygiad diffodd tân go iawn |
| **48** | Mae risgiau yn gysylltiedig â beiciau modur yn pasio drwy rannau o ogledd Cymru sy'n dal i fod yn bryder er gwaethaf arwyddion. Dylai'r gwasanaeth tân weithio gyda'r heddlu i wneud rhagor o waith i sicrhau bod staff y gwasanaeth tân yn mynd i lai o ddigwyddiadau a all eu galluogi i ganolbwyntio ar danau ac argyfyngau eraill. |

| | |
|---|---|
| **49** | Amaethyddiaeth, tractorau yn mynd yn fwy ac yn cymryd mwy o le ar y ffyrdd. Traffig cyflym ar ffyrdd, yn enwedig yr A5 rhwng Bangor, Pont a Chapel Curig, pobl o'r tu allan i'r ardal sy'n teithio ar y ffordd i'r Wyddfa. |
| **50** | Rwy'n credu y bydd Adolygiad arall o'r Ddarpariaeth Frys yn cael ei gynnal, mae'n bwysig pwysleisio pa mor hanfodol yw Gorsaf Dân Conwy i'r ardal hon ac mae pawb rwy'n ymwneud â nhw yn cefnogi'r penderfyniad i gadw'r orsaf dân ar agor. |
| **51** | Twristiaid yn gwersylla, tanau barbeciw a thanau gwyllt. |
| **52** | Dydw i ddim yn teimlo ein bod yn ymdrin â diogelwch dŵr cystal ag y gallwn. Er bod yr ystadegau ynghylch boddi yn weddol isel, nid ydym mewn gwirionedd yn cynnwys diogelwch dŵr yn ein negeseuon diogelwch. Dydw i ddim yn credu bod ein gwasanaeth yn gwerthuso data/adborth y gweithlu gystal ag y gallem ei wneud ar draws y rhan fwyaf o rolau, ond yn enwedig o ran diffoddwyr tân ar alwad. Nid yw ein gwasanaeth yn ymgysylltu'n effeithiol â thwristiaid a grwpiau newydd sy'n dod i'r amlwg fel ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Yn naturiol, mae ymgysylltu â'r gymuned ar ei orau pan fyddwch yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau/sefydliadau eraill, ac mae angen i ni ehangu'r partneriaid er mwyn ymgysylltu'n effeithiol. Nid yw ein cyfathrebu mewnol yn dda iawn, yn enwedig o ran timau ar alwad, sydd fel rheol yn gwybod dim. Mae angen dulliau gwahanol i gyfathrebu â gwahanol bobl ar draws y gwasanaeth. Mae angen adolygiad cyflawn o gyfathrebiadau a byddai'n fan cychwyn petai'r adran gyfathrebu yn datblygu cynllun ac yn gofyn am adborth ar eu gweithgareddau arfaethedig ar gyfer y flwyddyn i ddod. O wneud hyn, byddent yn fuan yn darganfod bylchau a chyfleoedd. |
| **53** | Dyfeisiau trydanol, problemau parhaus gyda nwyddau gwyn a thechnolegau newydd sy'n dod i'r amlwg. |
| **54** | Mwy o berygl o lifogydd. Rydyn ni'n dod ar draws cynifer o bobl sydd ddim yn gallu nofio! |
| **55** | Ystyried unrhyw risg benodol i fenywod, yn enwedig menywod ifanc sy'n agored i niwed. |
| **56** | Tanau mewn tai oherwydd bod pobl yn ysmygu [Mewn ystafelloedd eraill o fewn eiddo amlfeddiannaeth] |
| **57** | Tanau yn ymwneud â ffonau symudol a theclynnau sythu gwallt. Mae gan bawb ffôn symudol nawr. Mae pobl yn eu gadael i wefru. |
| **58** | Parhau i ymgysylltu â grwpiau cymorth dementia a theuluoedd i ddogfennu risgiau mewn perthynas â phroblemau cynyddol ynghylch salwch sy'n gysylltiedig â dementia. |
| **59** | Mae pobl yn byw'n hirach, ddim yn siŵr a oes risgiau yn mynd gyda hynny. |
| **60** | Damweiniau yn y gweithle. Damweiniau car. Damweiniau ar ffermydd a safleoedd adeiladu. |
| **61** | Pobl yn byw gyda chyflyrau iechyd a dementia. Pobl mewn grwpiau oedran hŷn. Pobl â symudedd gwael. |
| **62** | Poblogaeth sy'n tyfu ac yn heneiddio. Bydd mwy o bobl hŷn yn y dyfodol a gall risgiau gynyddu oherwydd eu hiechyd. |
| **63** | Mae casglu data rheolaidd ynghylch dementia yn wael, ond mae'r ystadegau sydd ar gael yn awgrymu bod dementia ar gynnydd. Mae pwysigrwydd gwybod faint sy'n byw gyda dementia yn hanfodol bwysig oherwydd pan fydd dementia yn ei amlygu ei hun, gall person ddod yn gymaint mwy agored i niwed, mynd ar goll, dechrau coginio bwyd a'i adael heb oruchwyliaeth, anghofio ble maen nhw, peidio â gweld perygl yn yr un ffordd. |
| **64** | Risgiau penodol sy'n effeithio ar bobl hŷn pan fyddant yn dechrau dangos arwyddion o adlithro (*regression*) (h.y. dementia cynnar). Yn ein canolfan gymunedol, rydyn ni'n gweld llawer o bobl sy'n unig a dydyn nhw ddim yn mynd allan llawer ar wahân i fynychu ein cyfarfod wythnosol. Mae menywod yn tueddu i fyw yn hirach na dynion, felly ar aelwyd nodweddiadol, mae mwy o fenywod hŷn yn debygol o fod yn byw ar eu pennau eu hunain. |
| **65** | Mwy o berygl o gwympiadau ymhlith pobl hŷn. Diffyg cyrbau isel a gyrru peryglus [goryrru] wrth groesi'r ffordd. |

| | |
|---|---|
| 66 | Mae pobl hŷn yn gofalu am wyrion yn peri rhywfaint o risg. Pobl yn nofio yn Afon Dyfrdwy. |
| 67 | Byddwch yn barod i weld mwy o bobl [hŷn] yn cwympo yn y dyfodol, yn enwedig os ydyn nhw'n byw mewn fflatiau. Mae busnesau lleol amrywiol â gris wrth i chi fynd i mewn i'w safle ac mae hyn yn creu perygl baglu, yn enwedig i bobl hŷn. |
| 68 | Mae'r cynllun yn cwmpasu'r rhan fwyaf o risgiau. Newid hinsawdd a'r risgiau sy'n gysylltiedig â hynny. |
| 69 | Gwrthdrawiadau ar y Ffordd a achosir gan bobl ar ffonau wrth yrru eu ceir. Wrth sgwrsio ag eraill heddiw, problem enfawr gyda gyrwyr tractorau yn ardal Rhuthun |
| 70 | Llesiant staff |
| 71 | Mae perygl o beidio â denu pobl dalentog. Mae cynifer o gyfleoedd gyrfa ar gael i bobl y dyddiau yma, mae angen i chi [cyflogwyr] wneud ymdrech go iawn i werthu'r swydd i bobl h.y. pobl ifanc, pobl sy'n meddwl am newid gyrfa. |
| 72 | Effaith yr 20mya ar amseroedd ymateb. |
| 73 | Sut ydych chi'n ystyried risg i bobl sydd wedi cael strôc? |
| 74 | Data partneriaeth sy'n ymwneud â digwyddiadau hanesyddol a gofnodwyd, iawn, ond dylech ystyried risgiau penodol i gymunedau newydd a chymunedau sy'n dod i'r amlwg fel ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n symud i mewn i'r ardal ar fyr rybudd. Rydyn ni [elusen EYST] yn cefnogi llawer o deuluoedd a gallai gwasanaethau cyhoeddus wneud mwy gydag ymyriadau cynnar. |
| 75 | Gall cefnogi cartrefi gofal gydag ymyriadau atal fod yn un ffordd o ymgysylltu a chyfathrebu â phobl. Mae pobl anabl sy'n colli eu hannibyniaeth yn aml yn teimlo eu bod yn cael eu hanghofio. |
| 76 | Hyrwyddo hawliau dynol a hawliau traws yn y gweithle. Bydd methu â gwneud hyn yn ychwanegu at y boen y mae llawer o bobl draws yn ei profi wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus. |

## Atodiad B

| Cyf. | EIN HEGWYDDOR POBL - SYLWADAU YCHWANEGOL |
|---|---|
| 1 | Mae angen i chi weithio'n galetach i gadw Diffoddwyr Tân Ar Alwad. Dylech edrych ar ddarparu llwybr i Ddiffoddwyr Tân Ar Alwad ddod yn staff amser cyflawn. Mae llawer o siarad am hyn o hyd, ond mae'n ymddangos nad oes neb yn gwrando. |
| 2 | Does dim angen iddyn nhw fod yn 'hyrwyddwyr amrywiaeth', sôn am nonsens llwyr, does ond angen iddyn nhw fod yn fedrus ac yn gymwys |
| 3 | Rydych chi'n rhoi sgìl a dwyieithrwydd uwchlaw iechyd. Dylai iechyd a llesiant fod yn flaenoriaeth i unrhyw un |
| 4 | Dylid canolbwyntio ar sgiliau a chymhwysedd, nid cwotâu menywod a lleiafrifoedd |
| 5 | Mae recriwtio ar sail amrywiaeth ac ymdrechu i sicrhau canlyniadau cyfartal yn ffordd anghywir iawn o fynd ati i recriwtio ac adeiladu gweithlu cadarn. Dylai recriwtio fod yn rhif. Nid enw, rhyw na chefndir. Y bobl sy'n perfformio orau ar gyfer y swydd. |
| 6 | Dylai pobl barhau i fod wrth wraidd popeth a wnawn |
| 7 | Does dim angen i chi fedru siarad Cymraeg i ddiffodd tân!! |
| 8 | Byddai'n galonogol gweld rhywbeth am eich ymrwymiad i iechyd a diogelwch eich holl staff |
| 9 | Mae'r gofyniad dwyieithog yn cyfyngu ar faint eich cronfa dalent ac yn creu gogwydd tuag at siaradwyr Cymraeg. Does dim angen gofyniad i siarad Cymraeg o gwbl i ddarparu gwasanaeth tân da. |
| 10 | Mae recriwtio pobl o bob cefndir yn hanfodol. Gwnewch yn siŵr bod eich gwasanaeth yn cyflogi pobl sydd â sgiliau i ymgysylltu'n effeithiol â phobl ifanc. |
| 11 | Angen mwy o amrywiaeth |
| 12 | Dylai recriwtio'r bobl orau sydd ar gael fod yn flaenoriaeth, nid bodloni rhifau a thaflenni ticio ar gyfer siaradwyr dwyieithog neu i hyrwyddo amrywiaeth yn unig. |
| 13 | Gwaith tîm i gefnogi unigolion yn y gweithle |
| 14 | Dylai fod gan bobl sgiliau angenrheidiol, ond dylai fod lle i wella hefyd. Dileu gofynion TGAU pan fyddwch yn recriwtio gan fod hyn yn rhwystr i bobl sy'n tangyflawni yn yr ysgol |
| 15 | Mae'n dda bod y gwasanaeth tân yn dod i'r coleg i ymweld â phobl ifanc a siarad â ni am yrfaoedd a'ch cynlluniau ar gyfer y dyfodol. |
| 16 | Mae'n dda bod y gwasanaeth tân yn ymweld â ni yn y coleg. |
| 17 | Dim digon o amrywiaeth ar hyn o bryd. |
| 18 | Rhesymegol, ond sut ydych chi'n bwriadu cael mwy o fenywod i ymuno |
| 19 | Cynnwys Staff Corfforaethol yn well. Mae Staff Corfforaethol yn rhan fawr o'r gweithlu ond yn tueddu i gael eu hanwybyddu. |
| 20 | Dylid cynnig hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, Caethwasiaeth Fodern, Trais Domestig i staff ehangach ar wahân i staff Atal |
| 21 | Rydw i'n ymwybodol bod y gwasanaeth yn gweithio'n galed i wella llesiant. Fodd bynnag, byddwn yn dweud bod hyn yn gofyn am fwy o addysg. Rydw i wedi trafod fy iechyd meddwl gydag Aelodau Adnoddau Dynol a'm Rheolwyr Gwylfa, a hyd yn oed Uwch Reolwyr. Rydw i wedi cael dolenni i'r wefan a dyna i gyd, sy'n dangos cyn lleied y maent yn deall iechyd meddwl. Hefyd, nid yw'r cyfeiriad e-bost ar gyfer Bluelightinfo@mind yn gweithio. |
| 22 | Pam fyddech chi'n hyrwyddo amrywiaeth, beth sydd gan hynny i'w wneud gyda'r gwasanaeth tân? Hefyd, pam trafferthu gyda gwasanaeth dwyieithog pan mae pawb yn siarad Saesneg a chyn lleied yn siarad Cymraeg. |
| 23 | dim amrywiaeth, sbwriel. |
| 24 | Mwy o ymgysylltu â chwmnïau a busnesau lleol i'w hannog i ryddhau eu staff fel y gallant roi darpariaeth yn ystod y dydd - er enghraifft ffatri Ifor Williams yng Nghorwen |

| | |
|---|---|
| 25 | Mae'r maes hyfforddi yn ymddangos yn arbennig o bwysig yma, ac mae hyfforddi cydweithwyr wrth iddynt symud i fyny'r raddfa i feddwl fel rheolwyr yn arbennig o bwysig. |
| 26 | Rhoi gorsafoedd lle mae'r risg a sicrhau bod darpariaeth tân gyfartal ar draws Gogledd Cymru |
| 27 | Recriwtio'r gorau yn unig ar gyfer y swydd. |
| 28 | Dylai mwy o bwyslais fod ar yr unigolyn sy'n perfformio orau ac ni ddylai hynny fod yn gysylltiedig â hil, rhyw nac unrhyw agenda amrywiaeth arall. |
| 29 | Pa mor bwysig yw dwyieithrwydd? Dwi'n adnabod llawer o drigolion Cymru sydd ddim yn siarad Cymraeg. Gwerthfawrogi'r angen i flaenoriaethu a chadw'r iaith ond teimlo bod sgiliau a galluoedd diffodd tân yn drech na'r angen am hynny. |
| 30 | Recriwtio pobl o bob grŵp oedran. |
| 31 | Rydw i am weld brigâd dân barhaol yn lleol ar gael 24/7, heb orfod dibynnu ar orsaf yn Wrecsam, a allai fod allan ar alwad i rywle llawer pellach i ffwrdd, gan arwain at orfod aros yn hir iawn. Rydw i am i Lannau Dyfrdwy gael ei staffio 24/7. |
| 32 | Dylech adolygu'r ffordd rydych yn recriwtio oherwydd eich bod yn methu â chyfathrebu â rhai grwpiau ar hyn o bryd. Dydw i ddim erioed wedi clywed am eich gweithgareddau recriwtio ac rwy'n weithgar iawn ar bob platfform cyfryngau cymdeithasol ac rwy'n dal i brynu'r papurau newydd lleol. Dydw i ddim erioed wedi gweld unrhyw hysbysebion ar gyfer rolau diffoddwyr tân, sy'n dweud llawer mewn gwirionedd. |
| 33 | Na |
| 34 | Mae'r lleoliadau staffio presennol yn iawn ar gyfer yr ardaloedd hynny. Ni ddylai unrhyw welliant mewn ardaloedd lle mae angen hynny fod ar draul ardaloedd eraill |
| 35 | Dylech ganolbwyntio ar gyflogi bechgyn lleol heini a chryf |
| 36 | Pam ydych chi’n gwastraffu amser ar y nonsens ‘woke’ yma? |
| 37 | Y bobl orau ar gyfer y swydd beth bynnag fo'u cefndir |
| 38 | Mae'n bwysig hyrwyddo rolau rhan-amser er mwyn sicrhau bod [gorsaf dân] y Bala yn gallu ymateb yn effeithiol |
| 39 | Nid yw eich cynllun yn amlinellu sut rydych yn gwella strategaethau recriwtio yn llwyddiannus i gynnal gweithlu amrywiol a medrus. Er mwyn cyflawni hyn mae angen buddsoddiad ac ymrwymiad. Mae eich cynllun yn fwy o weledigaeth neu nod na chynllun |
| 40 | Mae'n dda gweld mwy o fenywod yn y gwasanaeth tân [Yn y blynyddoedd diwethaf]. |
| 41 | Mae'n siŵr y bydd pobl sydd eisiau ymuno yn ymuno. Mae'n dda eich bod yn annog pobl o wahanol gymunedau i ystyried y swydd. |
| 42 | Rydych chi'n wasanaeth da felly pam na fyddech chi'n gallu cael [denu] pobl? |
| 43 | Dylech werthfawrogi eich gilydd |
| 44 | Mae cael gweithlu medrus sy'n ddwyieithog yn bwysig i ni. |
| 45 | Mae amrywiaeth sgiliau yn gryfder. |
| 46 | Oes |
| 47 | Mae'n dda gwybod bod pobl o bob hil yn gweithio yn y gwasanaeth tân |
| 48 | Cytuno'n gryf â'ch gweledigaeth i [ddatblygu gweithlu] adlewyrchu'r gymuned |
| 49 | Swnio'n bositif |
| 50 | Cytuno |
| 51 | Chwalu'r rhwystrau i leiafrifoedd ethnig allu ymuno â'r gwasanaeth tân. Gallai staff ethnig helpu i ddarparu gwasanaethau mwy cynhwysol |
| 52 | Oes. |
| 53 | Cytuno'n gryf. |
| 54 | Mae angen gwahanol feddyliau arnoch! |
| 55 | Bod yn gynhwysol i bobl draws |
| 56 | Rydw i’n cytuno bod angen mwy o amrywiaeth yn ein gwasanaethau cyhoeddus |

| | |
|---|---|
| 57 | Mae ffrindiau sydd wedi gwneud cais yn dweud bod y broses recriwtio yn araf a bod cyfathrebu'n wael. |
| 58 | Pam ar y ddaear ydych chi'n gwastraffu amser ar hyn? Beth sydd gan hyn i'w wneud â diffodd tân? |
| 59 | Mae'r Gymraeg yn bwysig |
| 60 | Oes. Bydd sicrhau bod gennych weithlu medrus iawn yn helpu i hyrwyddo amrywiaeth y gymuned, ond sut fyddwch chi'n gwneud hyn? Nid yw'n ymddangos bod gennych chi unrhyw amrywiaeth ethnig [yn eich gweithlu], ' Rhaid gweld hynny i gredu hynny'... |
| 61 | Dylech agor eich 'diwrnodau profiad' i bobl o dan 18 oed, a byddai hyn yn helpu pobl iau i roi cynnig arni. |
| 62 | Gofalu am bobl hŷn wrth i'w hanghenion newid |
| 63 | Cytuno'n gryf. |
| 64 | Nid yw bod yn ddwyieithog yn hanfodol iawn yn Llandudno |
| 65 | Cyflogwch y bobl orau. |
| 66 | Cytuno'n gryf y dylid agor i fyny i grwpiau amrywiol, ond nid yw'r Gymraeg yn flaenoriaeth. Y sgiliau gorau ddylai fod yn brif flaenoriaeth. |
| 67 | Recriwtio pobl leol sydd â gwybodaeth leol |
| 68 | Angen mwy o fenywod |
| 69 | Rydw i'n cytuno gan fwyaf, mae yna fanteision o gael pobl o wahanol gefndiroedd. Fodd bynnag, fyddwch chi fyth yn sicrhau amrywiaeth oherwydd nid yw rhai pobl rydych chi'n ceisio eu denu yn siarad Cymraeg, ac rydych chi'n mynnu'n glir bod hynny ar CV pobl. Mae gormod o bwyslais ar y Gymraeg a all atal pobl rhag gwneud cais am rolau gyda GTAGC |
| 70 | Mae'n dda clywed eich bod yn recriwtio mwy o fenywod a bod gwaith pellach wedi'i gynllunio. |
| 71 | Gallai eich cynllun ddarparu mwy o wybodaeth am sut y bydd yn cadw gweithlu sy'n heneiddio, yn enwedig diffoddwyr tân gweithredol y mae'n ofynnol iddynt weithio'n hirach yn awr, ac ymhell i'w 50au neu 60au cynnar. |
| 72 | Cytuno'n gryf, mae'r Gymraeg yn bwysig mewn rhai rhannau o Gonwy, nid mor bwysig mewn ardaloedd eraill. Bydd yn ddiddorol sut rydych chi'n cadw pobl ag anableddau oherwydd mae nifer y bobl anabl sy'n ddi-waith yn annerbyniol ac mae angen i gyflogwyr wneud mwy i gefnogi pobl sy'n 'wahanol'. |
| 73 | Dylai recriwtio nodi a chael gwared ar rai sy'n gwastraffu amser. Os nad yw eich argaeledd yn dda iawn, dylech recriwtio pobl na fyddant yn eich siomi. Codwch eich cyflogau |
| 74 | Mae'n bryder nad oes mwy o fenywod yn gweithio yn y gwasanaeth tân. Oes, mae ychydig mwy yn ymuno ond dim digon o'i gymharu â'r GIG neu'r heddlu. |
| 75 | Recriwtio mwy o bobl mewn rhai ardaloedd. |
| 76 | Targedu pobl sydd eisiau gwneud y gwaith, peidiwch â gwastraffu gormod o amser ar bobl sydd am fod yn nyrs neu gogydd. Mae rhai pobl wedi penderfynu. |
| 77 | Mae oedran cyfartalog diffoddwyr tân yn rhy hen, bydd gennych ormod yn ymddeol ar yr un pryd. Rhaid cael rhai ifanc i mewn nawr fel y gallwch eu hyfforddi i fod yn barod a manteisio ar sgiliau'r diffoddwyr tân hŷn. |
| 78 | Dylai'r holl staff dderbyn yr hyfforddiant ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ac ati, nid dim ond staff atal. Mae hefyd yn aneglur iawn sut mae hyn yn cyfrannu at Gymru Gydnerth. Byddai'n ddefnyddiol cael brawddeg ar sut mae'r egwyddor yn berthnasol i bob nod llesiant yr ydych wedi'i restru ar gyfer pob egwyddor |
| 79 | Dim rheswm dros roi pwyslais ar fod yn ddwyieithog gan nad oes llawer o siarad yn digwydd wrth achub pobl |
| 80 | Mae angen dynion lleol cryf a heini arnoch - dyna ddylai fod yn egwyddor i chi oherwydd fe fyddwn i eisiau gweld dynion cryf pe bai fy nhŷ ar dân. |

| | |
|---|---|
| **81** | Mae llawer o sglein ar eich egwyddor, ond sut fyddwch chi'n gwneud hyn mewn gwirionedd? Nid yw eich cynllun yn esbonio sut y byddwch yn cyflawni'r nod hwn. Mae'n amlwg bod methiant o ran recriwtio pobl mewn rhai ardaloedd fel y gwnaethoch chi nodi yn eich adolygiad y llynedd. |
| **82** | Blaenoriaethu recriwtio yng Nghonwy ac unrhyw ardaloedd eraill lle rydych yn wynebu heriau o ran recriwtio [diffoddwyr tân]. |
| **83** | Mae'n dda clywed bod mwy o fenywod yn ymuno â'r gwasanaeth tân, hen bryd. Roedd menywod yn gwneud pethau anhygoel pan oedd y dynion i ffwrdd yn y rhyfel! |
| **84** | Bydd bod yn fedrus iawn yn eich helpu i wneud eich gwaith yn dda |
| **85** | Rydw i'n cytuno'n llwyr fod angen i'r gwasanaeth ehangu'r gronfa o bobl y mae'n eu denu oherwydd mae gan y GTA gymaint i'w gynnig. Dydw i ddim yn teimlo ein bod yn dathlu ein llwyddiannau digon ac os byddem yn cyfathrebu'n well gyda'n staff, yna gallent fod yn rhan o'r ateb trwy hyrwyddo'r hyn rydyn ni'n ei wneud yn dda. Mae cynifer o'n staff ar alwad ac nid ydynt yn gwybod beth sy'n digwydd yn ddyddiol, wythnosol ac weithiau mae staff ar alwad yn gwybod am unrhyw ddatblygiad o safbwynt strategol. Rydw i'n credu y gallai fod gwell DPP i'n staff ac mae diffyg go iawn o ran datblygu sgiliau meddal. Bydd buddsoddi yn yr ochr Dysgu a Datblygu yn helpu'n fawr, ond credaf nad yw rhai rheolwyr canol yn cefnogi eu staff i gwblhau hyfforddiant, felly nid yw'r Uwch Dîm Arwain bob amser yn clywed am yr hyn y mae staff ar waelod y sefydliad ei eisiau a'i angen. Ar hyn o bryd, mae ymddiriedaeth yn isel felly dyw pobl ddim yn codi llais mewn arolygon staff ac ati. |
| **86** | Gallwn ni [grwpiau lleiafrifoedd ethnig] gynnig persbectif a phrofiadau gwahanol. |
| **87** | Bydd recriwtio pobl o gefndiroedd amrywiol yn eich helpu i gyflawni'r flaenoriaeth hon. |
| **88** | Dydw i ddim mor siŵr y bydd llawer o fenywod eisiau bod yn ddiffoddwr tân neu'n gweld hyn [GTA] fel dewis gyrfa. Byddai diwrnodau blasu yn hwyl. |
| **89** | Byddai'n wych gweld mwy o fenywod yn y gwasanaeth tân. Dydw i erioed wedi gweld diffoddwr tân benywaidd. |
| **90** | Mae hi mor anodd dysgu'r Gymraeg. Gall hyn fod yn rhwystr i bobl. |
| **91** | Bydd yn dda os bydd y gweithlu yn gallu siarad ieithoedd |
| **92** | Rydw i'n cytuno'n gryf. |
| **93** | Fe fydd yn rhaid i fi feddwl am hyn. |
| **94** | Gall gostwng yr oedran mynediad i 16 neu 17 helpu i gael mwy o bobl i mewn. |
| **95** | Ceisiwch sicrhau eich bod yn datblygu gweithlu medrus iawn sy'n ymwybodol o ddementia a gall hyfforddiant eich helpu i ehangu gwybodaeth. |
| **96** | Rydw i'n credu bod diffoddwyr tân yn gweithio'n hirach nawr, a gall hynny helpu i gadw'r wybodaeth. |
| **97** | Byddwn yn eich annog i recriwtio'n uniongyrchol o'r lluoedd arfog, maent yn ddisgybledig a byddant yn barod amdani. |
| **98** | Ydych chi wedi ceisio recriwtio ffermwyr ifanc |
| **99** | Rydw i'n cytuno â [redacted] bydd recriwtio o'r lluoedd arfog [h.y. y Fyddin, yr Awyrlu, y Llynges] yn hidlo ymgeiswyr da. Nid oes unrhyw un eisiau gwneud 20 mlynedd yn y fyddin, felly byddant yn awchu am siawns i ymuno â'r frigâd dân. |
| **100** | Rydw i'n gobeithio eich bod yn barod i gefnogi pobl â dementia oherwydd mae pobl sy'n byw gyda dementia yn mynd yn iau a dylech chi [gyflogwyr] fod yn ymwybodol o hyn os ydych chi'n gwybod eisoes. |
| **101** | Fel gwasanaeth mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gwneud llawer iawn o ran iechyd a llesiant staff - byddai'n dda adlewyrchu hyn yn adran egwyddor pobl y cynllun. Rydyn ni'n cefnogi'r gwaith o adolygu strategaethau recriwtio yn barhaus i gynnal gweithlu amrywiol a medrus. Fel sefydliad angor, dylai'r Gwasanaeth Tân ystyried gwahanol ddulliau o ymgysylltu a recriwtio pobl mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol a grwpiau nodweddion gwarchodedig. Yn falch o weld cynnwys dau Arolwg Staff Diogelwch Tân pellach yn dilyn gweithredu argymhellion Arolwg Staff Teulu Tân 2023. |

| | |
|---|---|
| **102** | Mae eich cynllun i ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu canolfan hyfforddi yn ymddangos yn synhwyrol iawn. Trwy gael cyfleusterau braf a lle cadarnhaol i weithio ynddo, mae pobl yn teimlo'n falch o fynd i'r gwaith. |
| **103** | Cytuno'n gryf â'r cyfan. |
| **104** | Oes. |
| **105** | Sicrhau bod eich gweithlu wedi'i arfogi i fodloni'r gofynion a'r risgiau y bydd pobl hŷn yn eu cyflwyno. Ar hyn o bryd mae gwasanaethau mor brin o adnoddau, mae'n rhaid i ni i gyd fod yn barod i ddarparu ar gyfer poblogaeth hŷn gan fod pobl yn byw'n hirach. Gall ymateb ar y cyd â gwasanaethau ambiwlans ddod yn rhywbeth llawer mwy rheolaidd. |
| **106** | Mae gennych gyfle i drosglwyddo pobl i rolau gwahanol i fanteisio i'r eithaf ar eu sgiliau. |
| **107** | Mae eich dyddiau profiad yn wych. Mae'n gyfle i weld beth yw hanfod diffodd tân. Mae'n dda bod amrywiaeth yn cael ei gymryd o ddifrif a bod pobl yn cael eu trin ar sail eu rhinwedd eu hunain. |
| **108** | Ceir darpariaeth gynhwysfawr yn y rhan fwyaf o ardaloedd. Byddai'n dda gweld swyddi llawn-amser i lawr arfordir gogledd Cymru yn y dyfodol. |
| **109** | Recriwtio pobl o bob cefndir. Roedd hi'n ddefnyddiol mynychu eich diwrnod profiad heddiw. Roedd hi'n ddefnyddiol gwybod beth yw hanfod rôl y diffoddwr tân a hefyd gweld pa swyddi eraill sydd gennych. |
| **110** | Bydd ymgysylltu penodol [gweithredu cadarnhaol] yn helpu i feithrin perthynas ystyrlon gyda grwpiau. Cafodd hyn ei wneud yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol sawl blwyddyn yn ôl ac roeddent yn wych am recriwtio pobl. |
| **111** | Rydw i'n cytuno'n gryf bod angen i chi ddatblygu gweithlu medrus iawn, ond mae'r Gymraeg yn rhwystr penodol i recriwtio. Rydw i wedi gweld hyn yn y GIG, lle mewn gwirionedd maent wedi rhoi'r gorau i edrych ar ofynion y Gymraeg ar gyfer rolau penodol oherwydd nad oeddent yn recriwtio'n llwyddiannus. Mewn rhai ardaloedd mae'r Gymraeg yn cael ei siarad ond anaml iawn y mae angen y Gymraeg yn Saltney a'r cyffiniau. Dylech hysbysebu eich cynnig yn llawer gwell, nid yw'r gymuned yn gyfarwydd iawn gyda'r ystod o rolau sydd gennych. Mae gwasanaethau cyhoeddus eraill yn wynebu'r un broblem. Gall y GIG ddysgu gwers i chi [Y gwasanaeth tân] ynglŷn â sut i recriwtio pobl. |
| **112** | Mae gen i ddiddordeb mewn dysgu sut mae'r terfyn cyflymdra o 20mya yn effeithio ar recriwtio pobl sy'n byw mewn gorsafoedd tân ac o'u cwmpas. Rydw i'n credu y dylai lobïo gael gwared ar yr 20mya mewn rhai ardaloedd. Nid yw [20mya] tu allan i Fwcle ac wrth nesáu at Fwcle yn gwneud synnwyr ac mae'n rhaid bod hyn yn effeithio ar yr injan dân yn cyrraedd lleoedd. |
| **113** | Ydych chi'n addysgu staff am gyfathrebu â phobl ag anabledd a'r rhai sydd wedi cael strôc? |
| **114** | Llawer o ddiweithdra [yn yr ardal], cyfle i recriwtio pobl dda sydd ddim wedi cael cyfle. |
| **115** | Mae recriwtio pobl o'r dwyrain canol a chefndiroedd gwahanol yn chwalu rhwystrau, yn sicrhau eich bod chi [GTAGC] yn gymwys yn ddiwylliannol a bydd cyfathrebu'n gwella. |
| **116** | Mae eich sefydliad yn gyfaill gweladwy i hawliau a chynhwysiant LGBTQ+. Bydd y gwelededd hwn yn helpu pobl i fod eisiau gweithio i chi. |

## Atodiad C

| Cyf. | EIN HEGWYDDOR ATAL – SYLWADAU YCHWANEGOL |
|---|---|
| 1 | Angen mwy o staff i gynnal archwiliadau diogel ac iach |
| 2 | Dylai symud at ddull mwy ataliol gan ein gwasanaeth dros y blynyddoedd diwethaf barhau i fod yn ffocws |
| 3 | NI ALLWCH atal digwyddiadau y gallai fod angen i chi eu mynychu drwy daflenni a hyfforddi pobl fregus |
| 4 | Mae atal yn well ac yn rhatach nag ymateb. Mae'n bwysig cynllunio ymlaen llaw. |
| 5 | Mae eich cynllun i dargedu'r rhai mwyaf bregus yn gwneud synnwyr |
| 6 | Dim ond yn bosibl os oes darpariaeth 24/7 ar gael YMHOB ardal yn enwedig y rhai sydd â'r poblogaethau mwyaf a Pharciau Busnes/Ystadau Diwydiannol ac ati. |
| 7 | Mae'n bwysig bod cynlluniau ar waith i gadw pobl fregus yn ddiogel |
| 8 | Mae eich gwaith atal yn edrych yn anhygoel, ond gallech wneud llawer mwy i gynnwys pobl ifanc, yn enwedig mewn ardaloedd fel Glannau Dyfrdwy lle gallai cynifer o bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau |
| 9 | Barn ar y cyd yn ein grŵp yw y gall gwasanaethau cyhoeddus wneud mwy i ymgysylltu â phobl ifanc. |
| 10 | Recriwtio pobl sy'n adnabod y gymuned. Oes gennych chi ddigon o staff atal? Mae eich ffigurau yn ymddangos yn isel iawn o'i gymharu â gwasanaethau cyhoeddus eraill. |
| 11 | Ddim yn glir sut mae gwaith adrannau eraill yn cysylltu â'r egwyddor hon? |
| 12 | Rydw i’n credu ein bod eisoes yn gwneud hyn yn dda a gorau po fwyaf y gallwn wneud. |
| 13 | Mae prosiect Ffenics yn dda ond mae'r archwiliadau diogel ac iach pan na ofynnir amdanynt yn wastraff amser ac arian |
| 14 | Cyflogi mwy o gynghorwyr Diogelwch Tân yn y Cartref arbenigol i gynnal yr Archwiliadau Diogel ac Iach. Hoffwn weld cynghorwyr diogelwch gwledig mewn ardaloedd i ymgysylltu â thirfeddianwyr a'r gymuned ffermio |
| 15 | Nid yw lleihau’r ddarpariaeth mewn ardaloedd prysur gyda chyfraddau uwch o broblemau oherwydd amddifadedd, camddefnyddio sylweddau ac yn y blaen yn gwneud synnwyr. |
| 16 | Rydw i’n credu ei bod yn bwysicach mai lefel gywir y sgiliau a nifer y swyddogion yw'r flaenoriaeth ar gyfer atal |
| 17 | A ellir datblygu rhaglen cadetiaid yng Nglannau Dyfrdwy os gwelwch yn dda. Dyma ardal â phoblogaeth uchel a byddai cadetiaid yn helpu i ddatblygu pobl ifanc, ac mae gwirfoddolwyr a fyddai'n helpu. |
| 18 | Mae eich negeseuon diogelwch yn bwysig iawn, yn enwedig eich gwaith diogelwch ar y ffyrdd. Mae'r 20mya wir yn helpu i gadw gyrwyr yn ddiogel, ond hefyd beicwyr. Yn yr Wyddgrug a Llaneurgain mae'r ffyrdd yn gul iawn felly mae diogelwch ar y ffyrdd yn helpu i atal digwyddiadau yn sicr. Mae llai o bobl yn cerdded ar ffyrdd, os oedd gennych unrhyw beth i'w wneud â hyn. |
| 19 | Mae atal yn rhan bwysig o ddarpariaeth tân ond dylai ddisodli ymateb sy'n seiliedig ar risg |
| 20 | nac oes |
| 21 | Canolbwyntio ar achub bywydau |
| 22 | Dim ond paratoi ar gyfer digwyddiadau sydd angen, mae hyn yn enghraifft arall o wastraffu amser |
| 23 | Mae archwiliadau diogel ac iach yn cael eu hystyried yn werthfawr yn y gymuned |
| 24 | A allwch barhau i ddarparu archwiliadau diogel ac iach, yn enwedig i bobl â dementia cynnar. |
| 25 | Cefnogaeth lawn i'ch sesiynau BikerDown. |
| 26 | Mae eich darpariaeth BikerDown yn swnio'n dda. Mae angen hyrwyddo'r ddarpariaeth hon yn well oherwydd doeddwn i ddim wedi clywed amdani cyn heddiw. Sut ydych chi'n ei hyrwyddo? |
| 27 | Mae archwiliadau diogel ac iach wir yn helpu i gadw pobl yn ddiogel |

| | |
|---|---|
| 28 | Mae'n ymddangos eich bod yn mabwysiadu dull sy'n cael ei yrru gan ddata, sy'n rhesymegol ac yn synhwyrol. Gallai eich gwefan a'ch cyfathrebiadau wneud llawer mwy i hyrwyddo eich gwaith atal. Ychydig iawn sy'n hysbys am eich gwaith atal, ieuenctid neu ddiogelwch, felly dylai hyn fod yn flaenoriaeth wrth symud ymlaen. |
| 29 | Mae eich gwasanaeth yn gwneud gwaith gwych i gadw pobl yn ddiogel. Mae archwiliadau diogel ac iach yn bwysig i ni. |
| 30 | Cawsom archwiliad diogel ac iach ychydig flynyddoedd yn ôl ac roedd y profiad yn un positif iawn. Mae'r larymau tân a osodwyd gennych yn dda iawn. |
| 31 | Cyngor ar ddiogelwch tanau gwersyll fel y trafodwyd yn rhan gyntaf yr arolwg hwn. Mae diogel ac iach yn wasanaeth pwysig. |
| 32 | Mae consensws cyffredinol bod archwiliadau diogel ac iach yn bwysig ac yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr ymhlith y grŵp. |
| 33 | Daliwch ati i gynnal archwiliadau diogel ac iach. |
| 34 | Mae gennych amrywiaeth dda o weithgareddau atal. Doeddwn i ddim yn gwybod eich bod chi'n trefnu [darpariaeth] ieuenctid. Gallech hyrwyddo hyn yn well oherwydd mae llawer o blant heb fawr o gyfleoedd yn yr ardal. Dydy pawb ddim eisiau chwarae rygbi. |
| 35 | Mae atal yn well nag ymateb. |
| 36 | Hanfodol bwysig bod eich staff yn gallu cyfathrebu yn Gymraeg |
| 37 | Mae’n dda gweld eich gwasanaeth yn ymgysylltu â ni [grwpiau ethnig] |
| 38 | Oes |
| 39 | Mae atal yn helpu i’n hamddiffyn [ni] |
| 40 | Doeddwn i ddim yn gwybod eich bod chi'n gosod larymau tân. Mae angen hyrwyddo'r gwasanaeth hwn yn well |
| 41 | Gallech noddi grwpiau ieuenctid i helpu cydlyniant a diogelwch. Cyflwyniadau diogelwch ar beryglon BBQ. Ein defnyddio ni [EYST ieuenctid] i roi cyflwyniadau |
| 42 | Rwy’n cytuno |
| 43 | Oes, ond ni fydd pawb eisiau ymuno [â’r gwasanaeth tân]. Ond mae'n dda gweld eich bod yn mynd allan yno |
| 44 | Oes. Mae eich ymweliadau diogel ac iach yn swnio'n effeithiol iawn. |
| 45 | Cytuno'n gryf. |
| 46 | Mae atal yn fwy effeithiol na gwella! |
| 47 | Mae eich ymgysylltiad cymunedol yn dda. Rydych chi wedi gwneud llawer o waith partneriaeth gyda ni [Unique Transgender] ac mae hyn yn eich helpu i siarad â phobl y mae angen i chi siarad â nhw. Parhewch â'r gwaith a bydd y gymuned draws yn ymddiried ynoch chi. Dim llawer o ymddiriedaeth i'r gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol. |
| 48 | Mae archwiliadau diogel ac iach yn ymddangos yn boblogaidd iawn ymhlith y rhwydwaith. Doeddwn i erioed wedi clywed amdanyn nhw cyn heddiw. |
| 49 | Pa waith atal arall ydych chi'n ei wneud? |
| 50 | Mewn egwyddor ydynt, mae eich archwiliadau diogel ac iach yn helpu i sicrhau bod larymau tân yn cael eu gosod a bod pobl yn gwybod beth i'w wneud [mewn argyfwng], ond beth sy'n digwydd wedyn, sut ydych chi’n cadw llygad ar y bobl hyn eto [nid yw’r amser rhwng archwiliadau yn glir]. Oni ddylai eich meini prawf fod yn ehangach i ddiogelu mwy o bobl. Cyflogi mwy o bobl os oes angen a datgan eich achos busnes i'r llywodraeth os oes angen. Dyma beth rydyn ni'n ei wneud drwy'r amser mewn Gwaith Ieuenctid |
| 51 | Mae eich ymgysylltiad cymunedol yn dda ac rydyn ni’n gwerthfawrogi eich bod yn gwrando arnom [Grŵp Paned a Bisged] |
| 52 | Cytuno'n gryf. |
| 53 | Rwy'n gefnogwr brwd o archwiliadau diogel ac iach. |

| | |
|---|---|
| 54 | Mae diogel ac yn iach yn bwysig |
| 55 | Mae archwiliadau diogel ac iach yn wasanaeth arbennig rydych chi'n ei ddarparu. |
| 56 | Mae archwiliadau diogel ac iach yn werthfawr |
| 57 | Cadw pobl yn ddiogel |
| 58 | Gwasanaeth cwbl hanfodol rydych chi'n ei ddarparu i'r cyhoedd. |
| 59 | Cefais archwiliad Diogel ac Iach [y llynedd] ac roedd yn brofiad cadarnhaol iawn |
| 60 | Mae archwiliadau diogel ac iach yn ymddangos yn boblogaidd ymhlith y grŵp. Mae'n wych bod darpariaeth Ffenics yn digwydd. Byddai mwy o sesiynau Ffenics [mewn ardaloedd eraill] yn ychwanegu gwerth. |
| 61 | Mae eich ymyriadau atal sefydledig yn cael eu parchu'n fawr, yn enwedig eich archwiliadau Diogel ac Iach. Yn sicr, gallwch wneud mwy i hyrwyddo diogelwch ymhlith pobl hŷn, ar wahân i chi [redacted] dydyn ni ddim yn gweld unrhyw un arall [o GTA Gogledd Cymru]. |
| 62 | Mae consensws cryf bod archwiliadau diogel ac iach yn gweithio'n dda. Alla i ddim meddwl am unrhyw beth arall ar hyn o bryd. |
| 63 | ADI |
| 64 | Mae ADI yn achub bywydau. Byddwch yn gyson yn eich negeseuon. Peidiwch â defnyddio'r gadwyn ar eich drws er mwyn i chi allu dianc. Dywedodd [redacted] ei bod wedi cael archwiliad [ADI] ac na ddywedwyd wrthi am gloi ei drws. |
| 65 | Cefnogaeth gref i barhau a thyfu darpariaeth ADI. |
| 66 | Mae ADI yn gweithio. Gellir gwneud mwy i hyrwyddo risgiau eraill, gwneud mwy mewn ysgolion a gweithleoedd. |
| 67 | Eto, aneglur o ran sut mae hyn yn cyfrannu at Gymru Gydnerth. Mae'n debyg ei fod hefyd yn berthnasol i Gymru Fwy Cyfartal? Byddai hefyd yn dda gweld amcanion ynghylch estyn allan i gymunedau nad ydynt yn cael eu clywed yn aml ac ymgorffori Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y gwaith hwn hefyd |
| 68 | A yw Ffenics yn cyflawni unrhyw beth mewn gwirionedd? |
| 69 | Unwaith eto, nid yw eich cynllun yn amlinellu sut y bydd eich gwasanaeth yn lleihau'r risgiau i'n cymunedau, yn enwedig i'r bobl hynny a allai fod yn fwy agored i niwed. Nid yw archwiliadau diogel ac iach yn cyrraedd pobl yn effeithiol ac rydych yn dibynnu gormod o lawer ar wasanaethau cyhoeddus eraill i gyfeirio pobl pan nad oes ganddynt ddigon o adnoddau eu hunain. Yn amlwg, nid yw eich gwasanaeth yn buddsoddi yn y meysydd perthnasol ac mae angen mwy o gynllunio i dargedu pobl yr ydych yn eu hystyried yn agored i niwed. Rydw i’n gweithio yn Wrecsam ac rwy'n dod ar draws cannoedd o bobl bob mis sy'n agored i niwed ac mae eich gwasanaeth, ynghyd â Chyngor Wrecsam yn methu â'u cyrraedd mewn unrhyw ffordd. Methiannau sylweddol. |
| 70 | Ehangwch eich gwaith diogelwch ar y ffyrdd i gynnwys tractorau, gweithio gyda ffermwyr i'w cael i symud i’r ochr. Cenhedlaeth wahanol, roedden nhw [Ffermwyr] bob amser yn arfer symud i’r ochr, maen nhw'n achosi i bobl eu pasio a chymryd risgiau. |
| 71 | Manteisio i'r eithaf ar y potensial i gynnwys ieuenctid a phobl ifanc wrth hyrwyddo negeseuon diogelwch a gweithgareddau atal. |
| 72 | Gweithio gyda ni [Elusen Ieuenctid EYST]. Dywedwch wrthym sut i gadw'n ddiogel. |
| 73 | O siarad â'r grŵp [yma heddiw], mae gosod larymau tân [ADI] yn boblogaidd iawn ac mae'r gwasanaeth rydych chi'n ei ddarparu yn gwneud gwahaniaeth. Er, mae yna bobl nad ydynt yn mynychu'r grŵp hwn a all elwa [o archwiliad diogel ac iach] felly mewn gwirionedd mae’n fater o sut y byddwch chi'n ymgysylltu â'r bobl hynny. |
| 74 | Mae'n dda cefnogi pobl fel hyn. |
| 75 | Gall gweithgaredd atal helpu i leihau'r risg |
| 76 | Yn fy marn i, rydyn ni’n gwneud gwaith da iawn o ran atal cynifer o wahanol ddigwyddiadau, ond mae mwy y gallwn ei wneud. Mae peryglon diogelwch dŵr yn amlwg, ond dydyn ni ddim yn cysylltu â |

| | |
|---|---|
| | phartneriaid perthnasol i godi ymwybyddiaeth o beryglon padlfyrddau mewn tywydd garw, amodau gwyntog neu pan fydd y llanw wedi troi. Rydw i'n credu y gallai rhai staff amser cyflawn wneud mwy o Archwiliadau Diogel ac Iach a byddai hyn yn lleihau'r galw ar y tîm diogelwch tân bach. Gallai gwylfeydd lleol feithrin gwell perthynas â grwpiau cymunedol lleol a phan fydd cysylltiadau'n cael eu datblygu, storio manylion cyswllt mewn lleoliad canolog fel y gellir defnyddio'r wybodaeth hon i hyrwyddo ymgyrchoedd a recriwtio yn y dyfodol. Rhywbeth sy'n rhesymegol ac yn hawdd i'w weithredu a thros amser bydd gwybodaeth ddilys yn cael ei chofnodi. |
| **77** | Gallwn ni [grwpiau lleiafrifoedd ethnig] helpu gwasanaethau cyhoeddus i hyrwyddo eu gwaith o fewn gwahanol gymunedau nad ydynt yn cael eu clywed yn aml. |
| **78** | Lleihau risgiau i'n cymunedau. Gellir cyflawni hyn yn rhannol drwy weithio gydag elusennau fel EYST. |
| **79** | Mae larymau tân yn wych oherwydd maen nhw'n rhoi gwybod i chi pan fydd tân. |
| **80** | Mae ymyriadau'n dda |
| **81** | Rydw i'n cytuno'n gryf. |
| **82** | A allai elusennau helpu i osod y larymau tân i chi. Mae rhai elusennau wedi ennill ymddiriedaeth yn y gymuned. |
| **83** | Rydych yn gwneud gwaith gwych i leihau risgiau i'n cymunedau, yn enwedig i'r bobl hynny a allai fod yn fwy agored i niwed. Daliwch ati i wneud y teithiau cerdded dementia a dewch i ymweld â ni unrhyw bryd. |
| **84** | Mae eich gwaith atal yn ddefnyddiol ac yn gwneud gwahaniaeth. |
| **85** | Daeth [Diffoddwyr Tân] Glannau Dyfrdwy i'n tŷ ychydig flynyddoedd yn ôl i osod larymau tân. |
| **86** | Allech chi gydweithio â swyddfa'r post i anfon gwybodaeth [negeseuon diogelwch] |
| **87** | Larymau tân am ddim. |
| **88** | Mae'r teithiau cerdded dementia yn ffordd effeithiol o gyfleu cyngor diogelwch i mi a gweddill y grŵp. |
| **89** | Mae gan staff y Gwasanaeth Tân gyfle unigryw i gyflawni 17,500 o Archwiliadau Diogel ac Iach y flwyddyn. Byddem yn eich annog i barhau i Wneud i Bob Cyswllt Gyfrif wrth gynnal Archwiliadau Diogel ac Iach drwy ymgorffori cwestiynau iechyd / awgrymiadau trafod yn yr ymweliad megis ysmygu, alcohol, diet. Sicrhau bod monitro cydraddoldeb ar gyfer pob Archwiliad Diogel ac Iach yn cael ei gynnal a'i gofnodi i ddarparu tystiolaeth gadarn o sut mae'r Gwasanaeth Tân yn ymgysylltu â'r grwpiau sydd fwyaf mewn perygl. Dylai'r gwasanaeth tân ystyried sut mae'n ymgysylltu â grwpiau agored i niwed gan gynnwys cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid, byddem yn eich annog i barhau gyda'r negeseuon addysg diogelwch gan gynnwys diogelwch ar y ffyrdd a diogelwch dŵr ac yn gwerthfawrogi mewnbwn y Gwasanaeth Tân i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Gogledd Cymru. |
| **90** | Rydw i'n hoffi'r cynllun atal. Darparu Archwiliadau Diogel ac Iach i bobl sydd fwyaf agored i niwed, ond rydw i'n teimlo bod angen i chi ganolbwyntio hefyd ar bobl sydd yn y camau cynnar o fod yn agored i niwed hefyd. Mae hynny'n atal go iawn a gall ein grŵp cymunedol yn Saltney helpu i gyfeirio pobl pan welwn newid ynddynt. |
| **91** | Cytuno'n gryf â'r cyfan. |
| **92** | Oes |
| **93** | Sicrhau bod eich gweithlu wedi'i arfogi i fodloni'r gofynion a'r risgiau y bydd pobl hŷn yn eu cyflwyno. Gall gweithgarwch atal adlewyrchu'r risg gynyddol o gwympiadau a salwch ymhlith pobl hŷn. Ar hyn o bryd mae gwasanaethau mor brin o adnoddau, mae'n rhaid i ni i gyd fod yn barod i ddarparu ar gyfer poblogaeth hŷn wrth i bobl fyw'n hirach. |
| **94** | Darpariaeth diogel ac iach. |
| **95** | Doeddwn i ddim yn gwybod bod diffoddwyr tân yn mynd allan i dai pobl. Mae'n rhaid fod hyn yn rhoi boddhad, ac mae'n amlwg yn helpu i achub bywydau. |
| **96** | Mae'n dda bod diffoddwyr tân yn ymweld â phobl yn eu cartrefi i atal tanau. Mae'n ddiddorol dysgu bod diffoddwyr tân yn gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo rhaglenni. |

| | |
|---|---|
| **97** | Diffyg trafnidiaeth gyhoeddus i fynd allan, sy'n golygu bod pobl yn teimlo'n ynysig yn eu cartrefi. Pobl ddim yn defnyddio eu gwres oherwydd bod costau ynni yn cynyddu, mae pobl yn teimlo'n sâl ac yn byw mewn amodau llaith. Ardaloedd difreintiedig. |
| **98** | Yn yr wybodaeth ategol, fe wnaethoch chi gyflawni 15,000 o archwiliadau diogel ac iach ar gyfartaledd rhwng 2019 a 2023, ond dim ond 17,000 o archwiliadau rydych chi wedi'u nodi y byddwch yn eu cynnal wrth symud ymlaen. Mae hwn yn darged isel pan fyddwch yn ystyried bod cyfyngiadau COVID-19 ar waith yn ystod y cyfnod hwn a does bosib y gellir cyflawni mwy o archwiliadau, yn enwedig yn y Dwyrain [Glannau Dyfrdwy, Garden City, Queensferry, Queensferry, Queens Park], lle mae'r angen mwyaf o ran poblogaeth ac amddifadedd. |
| **99** | Pwy ydych chi'n ei ystyried sydd fwyaf agored i niwed?  Dydych chi ddim yn dweud yn glir pwy yw'r bobl hyn. Dywedodd y dyn tân wrthyf fod pobl hŷn yn aml yn cael eu categoreiddio fel y rhai mwyaf agored i niwed, sy'n dda i'w glywed, ond mae rhai ohonom yn llawer mwy agored i niwed nag eraill. |
| **100** | Rydw i'n cynghori'n gryf y dylid hyfforddi [eich staff] ar bynciau fel darparu gwasanaethau i bobl sydd wedi cael strôc. |
| **101** | Mae gosod larymau tân yn wasanaeth sy'n achub bywydau ac rwy'n falch iawn o weld bod y gwasanaeth hwn wedi'i gynnwys yn eich cynllun. |
| **102** | Gallwn ni [elusen EYST] eich helpu i ledaenu eich deunyddiau diogelwch atal i deuluoedd rydyn ni'n eu cefnogi. Yn aml iawn nid yw teuluoedd [Ffoaduriaid a cheiswyr lloches] yn gwybod am yr holl beryglon, felly gallant fod yn agored iawn i niwed o ran risg. |
| **103** | Gallai GTAGC wneud mwy i ymgysylltu â phobl sy'n byw mewn cartrefi gofal a gofal yn gyffredinol. Ychydig iawn o brosiectau sy'n canolbwyntio ar bobl sy'n byw mewn lleoliadau gofal, er eu bod yn grŵp bregus. |
| **104** | Rydych chi'n mynychu digwyddiadau Pride ac yn mynychu ein sesiynau Unique. Rwy'n cymryd bod eich cydweithwyr ledled yr ardal hefyd yn ymgysylltu ac yn cefnogi'n weithredol. |

## Atodiad D

| Cyf. | EIN HEGWYDDOR DIOGELU – SYLWADAU YCHWANEGOL |
|---|---|
| 1 | Rydych chi'n WASANAETH BRYS! |
| 2 | Ddim yn siŵr bod staff gorsafoedd tân yn gwneud digon o ymweliadau â busnesau |
| 3 | Nid yw eich adran diogelu yn trafferthu ymateb i bryderon a godwyd gan aelodau'r cyhoedd... Roedd yn rhaid i mi godi’r mater gydag uwch reolwr a chofnodi cwyn er mwyn cael ymateb syml. |
| 4 | Cadw busnesau'n ddiogel. Landlordiaid amheus o gwmpas. |
| 5 | Cadwch lygad ar gartrefi gofal a sut maen nhw'n storio dyfeisiau a sgwteri trydan ac ati. |
| 6 | Mae’n bwysig bod busnesau’n cadw pobl yn ddiogel er mwyn osgoi trychinebau |
| 7 | Busnesau yn ddiogel. |
| 8 | Gwneud busnesau'n atebol. |
| 9 | Eto, fel uchod. (Ddim yn glir sut mae gwaith adrannau eraill yn cysylltu â'r egwyddor hon?) |
| 10 | O’r diwedd, egwyddor a allai fod o fudd go iawn i'r gymuned! |
| 11 | Cyflogi mwy o Swyddogion Cydymffurfio fel y gellir cynnal mwy o arolygiadau. |
| 12 | Dim digon o staff, sut yn y byd allwch chi gyrraedd yr holl fusnesau sydd eich angen chi gyda'r prinder staff sydd gennych ar hyn o bryd? |
| 13 | Oes. Dylai adeiladau risg uchel fod yn flaenoriaeth |
| 14 | Mae'r tân diweddar yn yr Wyddgrug yn ein hatgoffa pa mor bwysig yw hi i fusnesau gadw'n ddiogel a chadw pobl yn ddiogel. |
| 15 | Sicrhau bod staff yng ngorsaf Glannau Dyfrdwy 24/7 |
| 16 | Ie, cytuno, ond dylai busnesau ofalu amdanynt eu hunain. Anaml y byddwch yn clywed am achosion lle mae'r gwasanaeth tân wedi mynd â busnes i'r llys, ddim yn siŵr a yw hyn yn beth da neu'n beth drwg. Ydych chi'n gwneud digon i ddal busnes nad yw'n cydymffurfio neu a ydych chi'n gwneud gwaith rhagorol sy'n atal busnesau rhag cael tanau a digwyddiadau? Gallai eich tîm cyfryngau wneud gwaith llawer gwell wrth gyfleu straeon y naill ffordd neu'r llall! |
| 17 | Dylai'r holl ddarpariaeth tân fod yn seiliedig ar y RISG ac nid amlder digwyddiadau |
| 18 | Llawer o gartrefi gwyliau, bob amser yn risg lle mae alcohol yn y cwestiwn, yn enwedig ger dŵr. |
| 19 | Cadwch lygad ar eiddo Airbnb a thai gwyliau sy'n torri corneli a ddim yn gwirio eu hymwelwyr h.y. partïon stag. Dydy alcohol a dŵr ddim yn cyd-fynd |
| 20 | Targedu parciau carafanau i roi cyngor diogelwch i westeion cyn iddynt deithio i'r Bala a thrwy'r Bala. Mae carafanau'n achosi tagfeydd a phroblemau pan nad yw gyrwyr yn gwybod sut i'w defnyddio. Gallai'r gwasanaeth tân chwarae rhan enfawr i wella diogelwch ar y ffyrdd |
| 21 | Mae'n bwysig cadw llygad barcud ar berchnogion busnesau amheus sy'n torri corneli |
| 22 | Yn debyg i’ch egwyddor pobl, rydych wedi rhestru rhai nodau, ond rydych wedi methu ag egluro sut rydych yn bwriadu gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allanol, perchnogion tir a defnyddwyr tir i leihau nifer y tanau gwyllt. Dylai cynllun amlinellu sut y byddwch yn cyflawni hyn |
| 23 | Nid oes cyfeiriad at fannau tecawê a siopau bwyd yn eich cynllun. Yn sicr, mae'r busnesau hyn yn peri risg ychwanegol i'r gymuned. Mae nifer y tecawês sy’n agor ym Mangor a Bethesda yn achosi pryder. Rydw i’n credu bod pobl hefyd yn byw yn rhai o'r cyfleusterau hyn. |
| 24 | Mae pobl eraill yn y grŵp wedi dweud bod tecawês yn broblem, efallai eu bod yn bryder ym Methesda, ond dwi ddim yn meddwl eu bod nhw'n broblem yng Nghaernarfon, ond efallai fy mod i'n anghywir. |
| 25 | Nid oes cynifer â hynny o adeiladau uchel, ond mae'n dal yn bwysig cadw pobl yn ddiogel. Nid yw'n ymddangos bod gan y brifysgol [Bangor] ormod o broblemau. |
| 26 | Y ffatri baent leol yw’r unig bryder. Mae'n debyg bod tecawês yn y dref yn risg hefyd. Mae'n swnio fel eich bod chi [Diogelwch tân busnesau] yn cadw llygad ar bopeth. |

| | |
|---|---|
| 27 | Nid oes llawer o danau mewn busnesau, felly mae'n rhaid eich bod chi [GTAGC] yn gwneud rhywbeth yn iawn. |
| 28 | Cadwch mewn cysylltiad â ffermwyr lleol i wybod beth sy'n digwydd. |
| 29 | Mae'n bwysig eich bod chi [Tîm diogelwch tân busnesau] yn cyfathrebu yn Gymraeg |
| 30 | Oes, ond diogelwch tân cymunedol yw'r flaenoriaeth i ni. |
| 31 | Oes |
| 32 | Bydd hyrwyddo hyn yn well yn helpu perchnogion busnes i wybod y safonau, yn enwedig perchnogion sydd wedi symud [ymfudo] yma o fannau eraill. |
| 33 | Rwy'n cytuno |
| 34 | Busnesau yn torri corneli. Mae tanau'n dechrau mewn ceginau |
| 35 | Mae'n dda eich bod yn bwriadu cadw busnesau ac adeiladau risg uchel yn ddiogel. |
| 36 | Cytuno i raddau |
| 37 | Ddim yn siŵr bod y ffrwd waith hon yr un mor bwysig â'r lleill! |
| 38 | Yn hynod bwysig. Mae angen i ni [Cymdeithas] osgoi tanau fel yr un yr wythnos o'r blaen [yn yr Wyddgrug]. |
| 39 | Cytuno, ond dylai busnesau gadw trefn arnynt eu hunain, felly gobeithio y bydd y galw ar eich gwasanaeth yn lleihau dros amser. |
| 40 | Doeddwn i ddim hyd yn oed yn gwybod bod gennych arbenigwyr sy'n gwneud y gwaith hwn. Efallai y dylech chi ei hyrwyddo'n well |
| 41 | Dydw i ddim yn argyhoeddedig y dylai hyn gael ei ariannu gan y trethdalwr oni bai ei fod yn cael ei ariannu o ardrethi busnes, rwy'n credu y dylai'r baich hwn fod ar gwmnïau ond gyda gorfodaeth |
| 42 | Nid yw'r ffrwd waith hon yn cael ei hyrwyddo'n dda iawn |
| 43 | Doeddwn i ddim yn ymwybodol bod y gwasanaeth tân yn gwneud hyn [darparu'r gwasanaeth hwn]. |
| 44 | Cadwch lygad ar landlordiaid amheus. |
| 45 | Cytuno i raddau |
| 46 | Oes, rwy'n credu. |
| 47 | Mae cael arbenigwyr yn bwysig. |
| 48 | Doeddwn i ddim wedi clywed am y gwaith hwn o'r blaen, fe allech chi wneud mwy i'w hyrwyddo yn y cyfryngau a thrwy gylchlythyr printiedig. |
| 49 | Mae eich egwyddor ychydig yn niwlog ac nid oes eglurder. Sut fyddwch chi'n darparu'r gwasanaeth hwn oherwydd dydw i ddim yn ymwybodol o un busnes sydd wedi derbyn y gwasanaeth hwn. Dydych chi ddim yn darparu unrhyw wybodaeth i ddiffinio beth sy'n 'risg uchel'. |
| 50 | Dydy hi ddim yn glir beth sy'n 'risg uchel' felly mae'n anodd cytuno ar rywbeth sydd ddim yn glir, mae'n ddrwg gennyf. |
| 51 | Ydy, mae'n ymddangos ei fod yn gwneud synnwyr. |
| 52 | Doeddwn i ddim yn gwybod eich bod chi'n gwneud y math hwn o waith. |
| 53 | Yn gyfreithiol ie, cadwch lygad ar fusnesau, ond mae ymgynghorwyr preifat a all eu cynghori. |
| 54 | Unwaith eto, byddai cael datganiad ar sut mae'r nodau llesiant yn berthnasol yn ddefnyddiol |
| 55 | Dylai busnes fod yn ariannu hyn, nid y trethdalwr |
| 56 | Yn syml, nid yw'r egwyddor hon yn wir. Rydych chi wir yn methu â rhoi cyngor arbenigol. Nid yw eich staff yn ymgysylltu â busnesau lleol, nac yn darparu cyngor arbenigol. Siaradais ag un swyddog tân mewn digwyddiad y llynedd ac roeddent yn weddol newydd yn y swydd, heb fod yn gymwys, a dywedon nhw eu bod yn cyfeirio pobl at gyngor, felly doedden nhw ddim yn ei ddarparu o gwbl. Nid oes gan eich gwefan www.northwalesfire.gov.wales/keeping-you-safe/at-your-business/guidance-documents/ yr wybodaeth sylfaenol y mae gwasanaethau cyhoeddus eraill yn ei darparu, cymerwch iechyd y cyhoedd sydd yn rhoi cyngor arbenigol https://phw.nhs.wales/services-and-teams/dental-public-health/information-for-the-public |
| 57 | Ddim yn gwybod beth yw hyn a dweud y gwir. |

| | |
|---|---|
| 58 | Ie, i bopeth. |
| 59 | Dim byd penodol i'w ychwanegu. |
| 60 | Ansicr beth rydych chi'n ei olygu wrth gefnogi busnesau i dyfu. |
| 61 | Dydw i ddim yn gwybod digon am y maes gwaith hwn i wneud sylwadau i fod yn onest. |
| 62 | Gallwn ni [grwpiau lleiafrifoedd ethnig] helpu GTAGC i hyrwyddo eu gwaith o fewn gwahanol fusnesau sy'n aml yn cael eu hanghofio neu na chysylltir â hwy. |
| 63 | Rydw i’n cytuno'n gryf os yw'r egwyddor diogelu yn ofyniad cyfreithiol. |
| 64 | Rydw i’n cytuno'n gryf. |
| 65 | Dydy’r egwyddor hon ddim yn effeithio gormod arnom ni mewn gwirionedd, ond mae'n gysur gwybod bod y lleoedd rydyn ni'n ymweld â nhw [Grŵp Dementia] yn ddiogel. |
| 66 | Mae'n rhaid bod gwneud busnesau'n fwy diogel yn beth da. |
| 67 | Gall gwneud busnesau'n fwy diogel wella diogelwch y cyhoedd. |
| 68 | Diogelwch y cyhoedd. |
| 69 | Rydw i’n cefnogi'n gryf rhoi arweiniad arbenigol i fusnesau ar amddiffyn rhag tân. Bydd hyn yn helpu i gadw adeiladau a'r cyhoedd yn ddiogel. |
| 70 | Mae nifer a lledaeniad ceginau 'tywyll' yn parhau i gynyddu. Mae ceginau tywyll (a elwir hefyd yn geginau cwmwl, ceginau ysbryd, ceginau rhithwir a cheginau cysgod) yn lleoedd lle mae bwyd yn cael ei baratoi ar safle i'w ddanfon i ddefnyddwyr. Nid yw'r safle ar agor i'r cyhoedd, gydag archebion yn dod i mewn o wefannau ac apiau. Yn aml, mae ceginau tywyll ar gyrion trefi a dinasoedd mewn ystadau diwydiannol a warysau. A yw gweithredwyr ceginau tywyll wedi derbyn y gweithdy diogelu tân a'r sesiynau hyfforddi cynhwysfawr i wella eu parodrwydd? Yn yr un modd â busnesau eraill, byddai'n fuddiol cwrdd â gweithredwyr ceginau tywyll i ddeall eu hanghenion a'u heriau unigryw o ran diogelwch. |
| 71 | Mae busnesau bach a chanolig angen yr holl gymorth y gallant ei gael yn ystod y cyfnod heriol hwn. |
| 72 | Cytuno'n gryf â’r cyfan. |
| 73 | Oes. |
| 74 | Ar hyn o bryd mae gwasanaethau mor brin o adnoddau, mae'n rhaid i ni i gyd fod yn barod i ddarparu ar gyfer poblogaeth hŷn gan fod pobl yn byw'n hirach. Gall ymateb ar y cyd â gwasanaethau ambiwlans ddod yn rhywbeth llawer mwy rheolaidd. |
| 75 | Mae'n amlwg yn faes cadarn o waith y mae'r gwasanaethau tân wedi'i wneud ers blynyddoedd lawer. |
| 76 | Roedd yn ddiddorol dysgu am eich trefniadau o ran diogelwch tân busnesau. |
| 77 | Ddim yn siŵr. |
| 78 | Mae mynediad corfforol yn bryder enfawr mewn gwahanol adeiladau a busnesau. Mae siopau annibynnol mewn trefi lleol yn broblem, yn enwedig os byddai tân neu argyfwng. Mae'r staff mewn llawer o siopau yn rhy fach i'ch cael chi allan. |
| 79 | Mae gen i bryderon am hygyrchedd siopau. Clywais rywun arall yn sôn am hyn ac mae'n wir. Mae grisiau i mewn i siopau a llwybrau cul yng nghanol siopau yn ei gwneud hi'n amhosib mynd allan [o rai siopau mewn argyfwng] |
| 80 | Yn sicr mae gorlenwi mewn canolfannau siopa ac mae hyn yn peri pryder pe byddai argyfwng [tân]. |

## Atodiad E

| Cyf. | EIN HEGWYDDOR YMATEB – SYLWADAU YCHWANEGOL |
|---|---|
| 1 | Dyma ddylai fod yn brif flaenoriaeth i chi |
| 2 | Blaenoriaethu sicrhau arian ychwanegol i gyflogi mwy o ddiffoddwyr tân llawn-amser yn hytrach na dwyn o'r naill law i dalu'r llall drwy'r amser |
| 3 | Roedd eich Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys yn awgrymu symud y ddarpariaeth o ardaloedd prysur, adeiledig gyda llawer iawn o alwadau i ardaloedd gwledig tawel. Os gellir sicrhau darpariaeth yn yr ardaloedd hyn heb gael gwared arni lle mae ei hangen fwyaf, yna gwych, ond dyw symud o fodel sy'n seiliedig ar risg i fodel teg ddim yn gwneud synnwyr |
| 4 | Ni ddylem fyth golli golwg ar y ffaith, er yr holl waith da y mae'r Gwasanaeth wedi'i wneud dros y blynyddoedd diwethaf, fod yn rhaid i ni sicrhau ein bod yn parhau i fod yn barod i ymateb yn gyflym, yn effeithiol ac yn ddiogel trwy hyfforddiant, offer a darpariaeth tân. |
| 5 | Roedden ni'n siomedig iawn nad oedd y Rhyl wedi newid i fod fel gorsafoedd eraill â staff dydd gan ei bod yn debycach i Fae Colwyn ac ati ac felly gallai staff fod wedi cael eu defnyddio'n well mewn ardaloedd eraill |
| 6 | Mae gorsaf dân Glannau Dyfrdwy mewn lleoliad allweddol. |
| 7 | Mae injanau tân wedi'u lledaenu'n dda ar draws yr ardal, peidiwch â lleihau nifer yr injanau tân na staff |
| 8 | Angen ymateb yn gyflym mewn ardaloedd adeiledig fel Glannau Dyfrdwy, Shotton a Chei Connah. |
| 9 | Angen ymateb da |
| 10 | Mae lledaeniad da o orsafoedd tân ar gyfer ymateb cyflym yn bwysig |
| 11 | Sicrhau'r ymateb gorau posibl ym mhob ardal |
| 12 | Angen mwy ar alwad. Rydw i'n credu pe bai mwy o ddiwrnodau agored yn y gorsafoedd, dyddiau teuluol, digwyddiadau codi arian, byddai'n gwneud i'r gwasanaeth ymddangos yn haws mynd ato a rhannu gwybodaeth am yr hyn yr ydyn ni fel gwasanaeth yn ei wneud a'r hyn a ddisgwylir gan ddiffoddwyr tân ar alwad. |
| 13 | Gwych! |
| 14 | Gwneud i aelodau o staff ar alwad deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n well. Bydd hyn yn cynorthwyo gyda recriwtio a chadw mewn ardaloedd lleol |
| 15 | Dal i feddwl bod angen adolygiad o ddarpariaeth tân, mae rhai ardaloedd mor ddifreintiedig |
| 16 | Mae angen amseroedd troi allan cyflymach 24 awr y dydd heb israddio'r ddarpariaeth gyfredol |
| 17 | Dyw ymdrechu am fodel ymateb teg ar draul model sy'n seiliedig ar risg unwaith eto ddim yn synhwyrol ac mae'n rhywbeth nad ydych yn clywed amdano mewn gwirionedd. Rydw i wedi gweithio ym maes rheoli sector preifat ers dros 20 mlynedd a byddwn yn cael fy niswyddo ar y diwrnod cyntaf am awgrym mor chwerthinllyd |
| 18 | Yr hyn sy'n bwysig yw cael y niferoedd cywir o swyddogion a pheidio â lleihau niferoedd er mwyn lleihau yn unig. Gwneud pobl yn flaenoriaeth ar gyfer ymateb. |
| 19 | Er mwyn i'r cyhoedd asesu'r cynllun mae angen mwy o ddata, dylech ddarparu data amser real ar argaeledd ac ymateb pob peiriant ac nid mesur generig yn unig. Roedd Adolygiad o Ddarpariaeth GTA Swydd Gaer yn cynnwys lefel y data oedd ei angen, roedd GTA Gogledd Cymru yn druenus o annigonol. |
| 20 | Mae Glannau Dyfrdwy yn orsaf dân bwysig, gwnewch yn siŵr ei bod yn parhau i recriwtio pobl leol sy'n adnabod yr ardal. |
| 21 | Cadwch Lannau Dyfrdwy yn gwbl weithredol / gyda staff 24/7 |
| 22 | Rydych chi'n gwneud gwaith gwych. Yn ôl y sôn, gwnaeth eich gwasanaeth waith da ar y safle yn yr Wyddgrug yn ddiweddar. A fyddwch yn cau unrhyw orsafoedd yn y dyfodol, byddai'n well gennyf weld yr holl orsafoedd tân presennol yn aros yn weithredol ac yn ychwanegu gwerth yn eu cymunedau. |

| | |
|---|---|
| 23 | Dylai'r ymateb bob amser fod ar ddadansoddiad sy'n seiliedig ar risg |
| 24 | Nac oes |
| 25 | Dyma'r unig egwyddor y dylech fod yn poeni amdani |
| 26 | Mae gan [orsaf dân] y Bala enw da. Byddai rolau amser cyflawn yn yr ardal ganolog yn gwella'r ddarpariaeth. |
| 27 | Rydyn ni'n llwyr gefnogi creu rolau diffoddwyr tân amser cyflawn yng Ngwynedd yn y dyfodol |
| 28 | Rydw i'n cefnogi gwell darpariaeth tân yn y Bala a'r ardal gyfagos i helpu i fynd i'r afael ag amseroedd prysur iawn pan welwn dorfeydd o ymwelwyr yn cyrraedd |
| 29 | Mae angen rolau llawn-amser ar y Bala a gorsafoedd tân [ar alwad] eraill i ddarparu ar gyfer pobl leol sydd am wasanaethu eu cymuned mewn ffordd broffesiynol [fel dewis gyrfa o ddifrif] |
| 30 | Rydych chi'n gwneud gwaith da |
| 31 | Nid yw eich gwasanaeth yn darparu digon o gyfleoedd ar hyn o bryd i bobl yng Ngwynedd weithio amser cyflawn, felly mae angen gwneud mwy i fynd i'r afael â hyn. Ni allwch ychwaith ddibynnu bob amser ar ddiffoddwyr tân ar alwad ac mae angen cynlluniau i greu mwy o rolau llawn-amser [yn y Bala a Gwynedd yn fwy cyffredinol] i amddiffyn y cymunedau |
| 32 | Mae'n dda gweld eich bod yn cynnal adolygiad o'ch injanau tân a'ch cerbydau arbenigol sy'n eich galluogi i ymateb yn effeithiol. |
| 33 | Mae'n gysur gwybod bod Bangor a Chaernarfon yn wylfeydd llawn-amser [gwylfeydd system dyletswydd amser cyflawn], ond mae angen gwell darpariaeth mewn ardaloedd eraill o Wynedd. |
| 34 | Allwn ni ddim gweld bai ar y gwasanaeth tân am y gwaith rydych chi'n ei wneud. Er y byddai gwell darpariaeth [yng Ngwynedd] yn helpu i gadw pobl yn ddiogel. Roeddech chi [redacted] yn crybwyll bod cynnig [yn 2023] i wneud Porthmadog a Dolgellau yn llawn-amser, byddai hyn yn gwneud synnwyr ac yn helpu i ymateb yn gyflym i argyfyngau yn yr ardal. Mae Caernarfon ymhell o Abermaw. |
| 35 | Byddai gorsaf dân ym Methesda yn lleihau'r galw ar Fangor o ran gorfod dod allan o'r ddinas. |
| 36 | Mae gorsaf dân Bangor yn gwneud gwaith da. Rydw i'n synnu mai dim ond dwy injan dân sydd ym Mangor a bod dim diffoddwyr tân llawn-amser yn ne Gwynedd. Siawns na fyddwch yn mynd i'r afael â'r bwlch hwn o fewn y cynllun hwn? |
| 37 | Daliwch ati gyda'r gwaith da. |
| 38 | Yn amlwg [o'r hyn rydych chi wedi'i ddweud] mae angen i'r gwasanaeth tân wneud mwy i osod diffoddwyr tân llawn-amser ym Mhorthmadog, ac yn is i lawr yr arfordir [De Gwynedd]. |
| 39 | Bod yn ymwybodol o'r holl risgiau a datblygiadau i ffermio lleol, yn enwedig os yw'r tir mewn ardaloedd lle mae tanau gwyllt yn digwydd. |
| 40 | Bydd diffoddwyr tân llawn-amser yma [siaradwyr Cymraeg o Wynedd] yn eich helpu i wneud eich gwaith [ymateb yn effeithiol i argyfyngau]. |
| 41 | Mae angen i Wrecsam gadw eu hinjanau tân, mae'n ddinas. |
| 42 | Mae hon yn ardal ddifreintiedig [Garden City] felly mae'r gwasanaeth tân yn chwarae rhan hanfodol i'n cadw ni'n ddiogel |
| 43 | Mae gwasanaeth tân yn wasanaeth cyhoeddus pwysig |
| 44 | Mae gorsaf dân Glannau Dyfrdwy yn gwneud gwaith da. |
| 45 | Roeddwn i'n synnu mai dim ond un injan dân [amser cyflawn] sydd gan Lannau Dyfrdwy i ymateb yn gyflym mewn ardal mor fawr. Fe ddywedoch chi fod injanau tân eraill gerllaw, ond does bosib bod angen dwy injan dân [amser cyflawn] ar Lannau Dyfrdwy i gwmpasu ardal mor fawr. |
| 46 | Ie, ymateb yw hanfod eich gwaith. Mae llawer o danau yn Sealand. Plant yn chwarae o gwmpas. Barbeciws mewn caeau. Gallai eich ymatebwyr ddod i'n hadnabod a dod â'r injan dân i lawr [i'r ganolfan ieuenctid] |
| 47 | Rydw i'n cytuno â hyn yn bendant |
| 48 | Ie wrth gwrs |

| | |
|---|---|
| **49** | Mae ymateb cyflym yn bwysig i ni. Mae llawer o bobl oedrannus yma [yn ein stryd] felly gall ymatebion cyflym eu helpu i ddianc rhag tân mewn tŷ. Mae'n ymddangos bod gan Gei Connah lawer o hen bobl a fyddai'n ei chael hi'n anodd mynd allan o dŷ yn gyflym. |
| **50** | Cytuno'n gryf. |
| **51** | Da chi, gwnewch yn siŵr bod digon o adnoddau gennych i allu ymateb! |
| **52** | Mae'n dda clywed bod argaeledd y Rhyl wedi gwella. Dal yn broblem i sicrhau darpariaeth tân mewn rhai rhannau [o Ogledd Cymru]. Mae angen cymhellion gwell i ddenu pobl i rôl y diffoddwr tân. Edrychwch yn ofalus ar yr RNLI, Sw Caer ac elusennau eraill sy'n llwyddo i recriwtio cannoedd o wirfoddolwyr. Mae'n rhaid ei bod yn werth gwneud hynny. Mae'n ymddangos fel eu bod [diffoddwyr tân ar alwad] yn gorfod gweithio gormod o oriau [bob wythnos], dydy pobl ddim eisiau cael eu clymu am ddyddiau yn olynol. Siawns nad yw'n werth edrych ar gwtogi'r nifer o oriau fel na fyddai mwy o bobl yn meindio [darparu gwasanaeth ar alwad] |
| **53** | Dyma beth rydych chi'n ei wneud. Pa bynnag blaid wleidyddol sy'n ennill [ar ôl yr etholiad], gwnewch yn siŵr eich bod chi'n dal eich tir ac nad ydych chi'n gwneud toriadau. Roedd eich dadl ar alwad yn ddiddorol, yn amlwg mae angen mwy o fuddsoddiad, ond mae'n amlwg bod cymhellion ariannol ar goll os yw'n werth i bobl fod yn gaeth i leoliad daearyddol penodol am oriau ar y tro. |
| **54** | Cytuno, mae angen mwy o ymdrech i staffio Llanberis a Chonwy |
| **55** | Sut nad yw hyn yn brif flaenoriaeth gennych? Siawns mai dyma'r UNIG egwyddor heblaw atal y dylech ganolbwyntio arni |
| **56** | Nid yw eich gwybodaeth yn edrych mewn dyfnder ar y trafferthion rydych chi'n eu profi wrth recriwtio diffoddwyr tân rhan-amser. Mae angen ymdrechion recriwtio gwell, neu newid y system i weddu i ffyrdd modern o fyw. |
| **57** | Mae'n dda clywed nad yw gorsaf dân Glannau Dyfrdwy wedi cau. Y tro diwethaf y daethoch chi [[redacted]] [i'n gweld ni] dywedasoch fod systemau dyletswydd staff yn mynd i newid. Mae Glannau Dyfrdwy yn ardal boblog iawn gyda llawer o dlodi, felly mae angen y gwasanaeth tân yma [Glannau Dyfrdwy], nid cael gwared arno. Diolch i chi am wrando arnom [Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys yn 2023]. |
| **58** | Rydyn ni'n teimlo bod gorsaf dân Glannau Dyfrdwy mewn lleoliad perffaith i ymateb i bobl yn yr ardal honno. |
| **59** | Cadwch orsaf dân Conwy ar agor. Maen nhw'n gwneud gwaith da, yn enwedig yn nhân y marina [yn 2023]. Mae tanau mynydd allan o'r ffordd felly mae pobl leol [staff ar alwad] yn gwybod ble i fynd a sut i gyrraedd yno |
| **60** | Cytuno'n gryf. |
| **61** | Dyma'ch bara menyn. Mae Llandudno [gwylfa amser cyflawn] bob amser yn cefnogi digwyddiadau lleol a Noson Tân Gwyllt. |
| **62** | Conwy i aros ar agor |
| **63** | Gwnewch yr hyn sydd ei angen i ddatblygu gorsaf dân Conwy. |
| **64** | Hynod o bwysig bod ymateb cyflym yn digwydd |
| **65** | Datblygu gorsaf Conwy |
| **66** | Mae angen mwy o waith i fynd i'r afael â'r diffyg argaeledd yng Nghonwy a lleoliadau eraill y gwnaethoch adrodd amdanynt y tro diwethaf [Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys yn 2023] y gwnaethoch chi ymweld. |
| **67** | Mae fy mab newydd wneud cais i ymuno [â GTAGC]. Rydw i'n tybio bod gorsaf dân Conwy ychydig yn dreuliedig, felly bydd uwchraddio cyfleusterau yn gwella'ch cynnig. Cael diwrnodau agored. Mae'n dda clywed bod yna fodd cyrraedd uchderau [peiriant ag ysgol ac esgynlawr] yn yr ardal sy'n gallu ymateb yn gyflym os oes angen a rhai eraill [peiriannau ag ysgol ac esgynlawr o'r Rhyl a Wrecsam] sy'n gallu cefnogi [Digwyddiad mawr] |
| **68** | Dim ond os ydych chi'n cadw gorsafoedd tân ar agor y mae ymateb effeithiol yn bosibl ac roedd eich adolygiad [Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys] yn achosi llawer o bryder [cynnig i gau gorsaf dân Conwy |

| | |
|---|---|
| | a safleoedd eraill]. Mae angen sicrhau argaeledd i gyflawni'r egwyddor hon. Rydw i’n cefnogi adolygiad o offer a cherbydau |
| 69 | Rydych chi'n awgrymu bod yn barod i ymateb, felly siawns bod hyn yn golygu na fyddwch chi'n cau unrhyw orsafoedd tân neu hyd yn oed yn cynnig hynny eto. Mae'n amlwg bod angen i chi ddatrys y mater o recriwtio [gorsafoedd ar alwad], nid yw'n swnio fel eich bod wedi datrys hyn [Yn dilyn trafodaeth yn yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys yn 2023]. |
| 70 | Cefnogaeth 100% ar gyfer ymateb yn effeithiol. |
| 71 | Mynd i'r afael â materion recriwtio yng Nghonwy i wella'ch ymateb yn yr ardal. |
| 72 | Da gweld bod gennych orsafoedd tân yn y rhan fwyaf o drefi ar hyd yr arfordir [Conwy]. |
| 73 | Gwnewch yr hyn sy’n angenrheidiol i gyrraedd atom cyn gynted â phosibl, rydych chi'n gwybod beth rydych chi'n ei wneud. |
| 74 | Gormod o ddiffoddwyr tân sydd ddim wedi ymrwymo i'r gwaith. Nid oedd argaeledd byth yn broblem [Pan oeddwn yn ddiffoddwr tân] |
| 75 | Pam mae hyn mor isel ar y rhestr? |
| 76 | Eich gwaith ymateb yw eich nodwedd gryfaf o bell ffordd. Anaml y byddwch yn clywed nad yw’r gwasanaeth tân yn darparu gwasanaeth proffesiynol da. Mae'n amlwg bod angen i chi fuddsoddi mwy mewn staffio oherwydd mae eich swyddogion wedi egluro i mi nad yw rhai gorsafoedd tân yn gweithredu ar gyfer busnes oherwydd na allant recriwtio pobl. Mae gwasanaethau cyhoeddus eraill yn recriwtio'n berffaith dda ac mae prinder swyddi ac mae diweithdra yn uchel yn Wrecsam, Cei Connah, Fflint, Yr Wyddgrug, y Rhyl felly does dim esgus o gwbl. Mae'n amlwg nad yw eich tîm recriwtio yn defnyddio'r technegau perthnasol. |
| 77 | Byddai injan dân ym Methesda yn gam positif. Byddai hyn yn creu swyddi i bobl yn y pentref. |
| 78 | Ie, i bopeth. |
| 79 | Recriwtio a galluogi [Gorsaf Dân] Conwy i gyflawni ei photensial |
| 80 | Ffyrdd cul ym mhobman [Yng Nghyffordd Llandudno] felly mae heriau enfawr [i injanau tân] i gael mynediad i rai ardaloedd yn gyflym. |
| 81 | Mae'n well i chi beidio â chau gorsafoedd tân, neu bydd pobl yn methu ymateb |
| 82 | Er mwyn gwella eich gallu i ymateb, mae'n amlwg bod angen mwy o orsafoedd tân amser cyflawn arnom, yn enwedig ar draws Gogledd Cymru. Yn bersonol, roedd cynnig yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys i sefydlu darpariaeth amser cyflawn yn Nolgellau, Porthmadog a Chorwen yn gwneud synnwyr perffaith. Mae ar ein gwasanaeth angen dybryd i ddatblygu cyfleuster hyfforddi o'r radd flaenaf i wella ein cynnig a denu pobl i mewn. Pan edrychwch ar Fanceinion Fwyaf, Swydd Gaer a gwasanaethau eraill, mae eu cyfleusterau'n wirioneddol drawiadol a phan fydd pobl yn dod am ddiwrnod agored, gweithredu cadarnhaol neu ddiwrnod dethol, mae cyfleuster hyfforddi newydd yn creu amgylchedd ysbrydoledig a chymhellol. Dylai unrhyw adolygiadau ystyried o ddifrif gollwng criwiau gweithredol i lawr i 4 o 5 oherwydd mae gwasanaethau eraill wedi gwneud hyn ac rydyn ni’n llwyddo i wneud iddo weithio gyda diffoddwyr ar alwad. |
| 83 | Mae bod yn barod i ymateb yn swnio'n dda i mi. |
| 84 | Mae'r sector brys yn chwarae rhan bwysig wrth gadw pobl yn ddiogel. Mae Wrecsam yn ddinas sy'n tyfu gyda chynlluniau mawr i ddatblygu'r brifysgol. Mae yna gyffro o amgylch y clwb pêl-droed ac rydyn ni’n gweld mwy a mwy o bobl yn dod i mewn i'r ardal o'r tu allan i'r DU. |
| 85 | Mae gan Wrecsam injan dân felly mae hyn yn fy ngwneud i'n hapus. |
| 86 | Byddai'n fantais pe bai staff ymateb yn gallu cyfathrebu mewn gwahanol ieithoedd gan gynnwys BSL. Nid yw fy ffrind yn yr ysgol yn gallu cyfathrebu ar lafar felly mae'r rhan fwyaf o'n cyfathrebu yn digwydd trwy ddefnyddio ein dwylo ac ysgrifennu. |
| 87 | Mae angen i ni fod yn barod i ymateb os oes tân yn y tŷ neu yn yr ysgol. |
| 88 | Rydw i’n cytuno'n gryf. |

| | |
|---|---|
| 89 | Mae ymateb cyflym yn arbennig o bwysig i gael pobl â dementia allan o'u cartrefi oherwydd maent yn aml yn drysu ac mae rhai ohonynt [Pobl â dementia] yn colli eu synnwyr cyfeiriad. |
| 90 | Rydw i'n tybio y gall achub bywydau fod yn anodd pan nad yw pobl yn gallu cael eu hunain allan o adeilad sy'n llosgi. Mae sawl gorsaf dân ar hyd yr arfordir, felly mae hynny'n rhoi hyder i mi am eich ymateb. Glannau Dyfrdwy yw ein gorsaf agosaf ac maen nhw'n gwneud gwaith gwych. |
| 91 | Peidiwch ag ystyried cau [gorsaf Dân] Glannau Dyfrdwy eto. Mae angen gorsaf dân ar yr ardal, ac mae hyn yn eich galluogi chi [GTAGC] i ymateb yn gyflym. |
| 92 | Mae ymateb cyflym yn hollbwysig. Gwnewch beth bynnag sydd ei angen i wneud hyn. |
| 93 | Dim ond os bydd [gorsaf dân] Glannau Dyfrdwy yn aros ar agor 24/7 y gall hyn ddigwydd. |
| 94 | Dim ond unwaith y bu angen i mi gysylltu â chi ac roedd y gwasanaeth yn brydlon. Galwad ddiangen, ond roedd yn bryder ar y dechrau. |
| 95 | Byddai'n werth cyfeirio eich ymateb i'r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posib a'ch cyfraniad at Gynllunio/Parodrwydd Gogledd Cymru ar gyfer Argyfyngau (digwyddiad mawr). |
| 96 | Rydw i'n hoffi eich cynllun i gynnal adolygiad o'ch cerbydau arbenigol a'ch injanau tân a fydd yn helpu i ddiogelu eich gallu i ymateb yn y dyfodol. Y teimlad cyffredinol ymysg y grŵp yw bod angen cadw'r holl ddiffoddwyr tân yn yr ardal hon oherwydd y risgiau a'r digwyddiadau posibl. Nid oes unrhyw ffordd y gall Glannau Dyfrdwy a Chei Connah ymdopi heb injanau tân sy'n gallu ymateb 24 awr y dydd. |
| 97 | Byddwch yn barod i ymateb |
| 98 | Cytuno'n gryf â'r cyfan. |
| 99 | Oes. |
| 100 | Wrth i bobl fyw'n hirach, gall cyd-ymateb â'r gwasanaethau ambiwlans fod yn rhywbeth sy'n digwydd yn llawer mwy rheolaidd i'r gwasanaeth tân. Gall cyfathrebu rhwng gwasanaethau ddod yn fwy perthnasol. |
| 101 | Mae'n hanfodol bod gorsaf dân Glannau Dyfrdwy yn cynnal ei system ddyletswydd bresennol i allu ymateb i argyfyngau yn yr ardaloedd difreintiedig o amgylch Glannau Dyfrdwy, y Cei a Queensferry a Garden City. |
| 102 | Doeddwn i ddim yn gwybod bod yna gynifer o orsafoedd tân. Byddaf yn ceisio ymuno yn fuan. |
| 103 | Mae'n ymddangos bod y cit gorau gennych chi. |
| 104 | Roedd y diwrnod profiad yn ddefnyddiol i ddysgu am ymateb eich gwasanaeth tân, systemau dyletswydd a phatrymau shifftiau. |
| 105 | Nid yw'n cynnwys diogelwch i staff |
| 106 | Gwnewch yr hyn sydd angen i chi ei wneud i ymateb yn gyflym. |
| 107 | Gwnewch yr hyn sydd ei angen i sicrhau bod gan orsafoedd tân lleol [Glannau Dyfrdwy, Fflint, Yr Wyddgrug, Treffynnon] ddigon o adnoddau a'u bod yn barod i ymateb. |
| 108 | Roedd gorsaf dân yn arfer bod yn Saltney, a ellid ystyried ailagor hon. |
| 109 | Heb os nac oni bai. |
| 110 | Ehangu'r amrywiaeth o ieithoedd y mae eich staff yn eu siarad er mwyn darparu ar gyfer pobl yn y gymuned. Mae llawer o athrawon a gweithwyr iechyd sy'n siarad Sbaeneg, Punjabi. Tsieinëeg yw iaith y dyfodol. |
| 111 | Gallai pobl sy'n ddi-waith [yn yr ardal] eich helpu i fynd i'r afael â'ch recriwtio [ar gyfer rolau ar alwad]. |
| 112 | Mae'n ymddangos bod eich darpariaeth yn addas yn yr ardal hon [Wrecsam a Sir y Fflint] a dydy hynny ddim yn syndod gan mai nhw yw'r ardaloedd mwyaf [poblogaeth] gyda rhai ardaloedd o dlodi. |
| 113 | Dylai unrhyw adolygiad ystyried y risgiau mewn cartrefi gofal, yn enwedig achub nifer o bobl mewn argyfwng. Ni fu lleoliad injanau tân a staff erioed yn bwysicach gyda mwy o bobl hŷn yng Nghymru a mwy o bobl yn byw gydag anabledd. |

## Atodiad F

| Cyf. | EIN HEGWYDDOR AMGYLCHEDD – SYLWADAU YCHWANEGOL |
|---|---|
| 1 | Rydych chi'n gwario ac yn poeni gormod am ôl-troed carbon, ydy, mae'n broblem ond rydych chi'n cymryd yr arian o ble mae mwy o angen amdano! |
| 2 | Mwy o nonsens, gwastraff llwyr o amser ac arian |
| 3 | Niwlog iawn |
| 4 | Gwastraff llwyr o amser ac arian |
| 5 | Bydd carbon niwtral erbyn 2030 yn her fawr |
| 6 | Nid Greta Thunberg ydych chi |
| 7 | Mae lleihau tanau mewn ardaloedd gwledig yn bwysig er mwyn gwarchod bywyd gwyllt a chefn gwlad. |
| 8 | Gall gwell ymwybyddiaeth o warchod cefn gwlad helpu pobl ifanc i osgoi gwersylla a chael barbeciws mewn rhai ardaloedd |
| 9 | Nid trydan yw'r ffordd orau ymlaen bob amser! Ddim yn hollol ddiogel |
| 10 | Gosod dyfeisiau arbed ynni nawr, i gael arbedion yn y tymor hir |
| 11 | prynu moesegol da |
| 12 | Gwell i'r amgylchedd i ystyried effaith |
| 13 | Mae'r twyll ynglŷn â'r hinsawdd yn sgâm mor amlwg, beth ydych chi'n ei wneud yn gwastraffu mwy o amser ac arian ar y nonsens hwn |
| 14 | Mwy o ddefnydd o baneli solar yn lleoliadau'r Gwasanaeth Tân |
| 15 | *Brainwash* gan y llywodraeth. |
| 16 | Mae angen i ni i gyd ganolbwyntio ar yr amgylchedd |
| 17 | Chwarae eich rhan mewn bod yn garbon niwtral |
| 18 | Mae'r agenda newid yn yr hinsawdd yn hanfodol bwysig. Dywedodd eich tîm ym Mharc Gwepra wrthyf eich bod wedi gwneud newidiadau cadarnhaol yn eich gorsafoedd tân ac wedi symud i geir trydan a'ch bod yn edrych ar injanau tân trydan newydd ar gyfer y dyfodol. Mae'n swnio fel eich bod yn gwneud llawer mwy na'r heddlu a gwasanaethau cyhoeddus eraill yn y maes hwn. |
| 19 | oes… |
| 20 | Gwastraff amser |
| 21 | Gwastraff amser llwyr |
| 22 | Mae eich gwasanaeth yn gwneud y peth iawn wrth brynu offer modern, ond byddwch yn ymwybodol wrth brynu'r eitemau trydanol diweddaraf nad ydynt efallai yn para cyhyd â pheiriannau mecanyddol a thanwydd traddodiadol. Syniad da i weithredu mesurau arbed ynni yn eich gorsafoedd tân |
| 23 | Gall cynllunio da arbed arian i chi yn y tymor hir |
| 24 | Cynllunio synhwyrol iawn |
| 25 | Ie wir i leihau carbon |
| 26 | Mae addysgu eich staff a phrynu eitemau ynni isel yn gamau da i'w cymryd |
| 27 | Rydw i'n cytuno bod angen i chi weithio tuag at sero net, ond rydw i'n anghytuno y dylech ddisodli pob car gyda dewisiadau amgen sydd ag allyriadau isel iawn oherwydd ni allwch fod yn sicr y bydd y dechnoleg yn cael eich staff i leoedd y mae angen iddynt fynd [gan awgrymu bod maint a phellteroedd yn rhy fawr ar draws Gogledd Cymru] |
| 28 | Drwy gynnal adolygiad o'n hinjanau tân a'n cerbydau arbenigol, rydw i'n tybio y byddwch yn ystyried tanwydd ac effaith bosibl ar yr amgylchedd [allyriadau CO2] |
| 29 | Mae mabwysiadu arferion ecogyfeillgar yn ein gweithrediadau beunyddiol yn cael fy nghefnogaeth i. |
| 30 | Mae'n dda eich bod yn meddwl am yr amgylchedd yn eich cynllun. |
| 31 | Synhwyrol! |
| 32 | Mae'n gadarnhaol eich bod yn cymryd camau i leihau allyriadau carbon. |

| | |
|---|---|
| 33 | Ie, rwy'n cefnogi hyn. |
| 34 | Bydd unrhyw beth y gallwch ei wneud i gadw'r aer yn lân yn helpu cenedlaethau'r dyfodol. |
| 35 | 100% |
| 36 | Oes. |
| 37 | Egwyddor dda i'w chael. |
| 38 | [Mae agwedd eich gwasanaeth at drefniadau] gweithio gartref yn helpu i leihau allyriadau carbon wrth deithio i'r gwaith. Dim ond meddwl. |
| 39 | Rwy'n cytuno |
| 40 | Mae'n drawiadol faint rydych chi'n ei wneud [ynghylch diogelu'r amgylchedd] |
| 41 | Oes. |
| 42 | Cytuno i raddau |
| 43 | Bydd mabwysiadu mesurau da yn arbed arian i chi yn y tymor hir, felly syniad gwych! |
| 44 | Mae angen i bawb wneud eu rhan. |
| 45 | Byddwch yn ofalus wrth dalu mwy na'r pris arferol am dechnoleg newydd os nad yw'n para. Sut fyddwch chi'n gwybod? Gadewch i [wasanaethau] eraill dreialu a gweld beth sy'n digwydd. |
| 46 | Cytuno bod hwn yn gam cadarnhaol |
| 47 | Mae hyn yn nonsens, rydych chi'n gwastraffu arian trethdalwyr ar fentrau gwyrdd dwl tra bod Tsieina yn llosgi tunelli o lo bob dydd, mae'n chwerthinllyd! |
| 48 | Mae'n arfer safonol i reoli'r defnydd o ynni'r dyddiau hyn |
| 49 | Mae'n swnio fel eich bod yn gwneud llawer o waith cadarnhaol [ynghylch effaith ar yr amgylchedd] |
| 50 | Rydw i'n meddwl |
| 51 | Cytuno i raddau |
| 52 | Rydw i'n tybio. |
| 53 | Cytuno i raddau, ond byddwch yn ymwybodol o dechnoleg amheus a phŵer trydan. |
| 54 | Dydw i ddim yn cefnogi symud i geir/faniau trydan yn llawn. Mae gan fy merch gar trydan o'r ansawdd gorau ac mae'n gallu ei ddefnyddio am tua 3-4 awr, dim gwerth i weithwyr brys. Yn ogystal, mae ceir trydan yn stopio'n gyfan gwbl mewn llifogydd. Peryglus iawn. |
| 55 | Nid yw arbed arian mewn perthynas ag ynni yn rhywbeth dyrys. |
| 56 | Mae'n braf clywed hyn amdanoch [Ystyried yr effaith ar yr amgylchedd]. |
| 57 | Mae angen i bawb wneud eu rhan i amddiffyn yr haen osôn. |
| 58 | Peidiwch â gorfuddsoddi mewn technoleg sydd heb ei threialu a'i phrofi. |
| 59 | Dylech osgoi buddsoddi mewn technolegau na fyddant yn para cyhyd â thechnolegau presennol. Peiriannau golchi, tegelli, wyddoch chi, does dim byd yn para'n hir y dyddiau hyn, felly byddwch yn ofalus. |
| 60 | O wneud hyn yn dda, dylai hyn hefyd gyfrannu at Gymru Lewyrchus (caffael gan fusnesau yng Nghymru ac ati). Dylid cyfeirio hefyd at yr amgylchedd naturiol/bioamrywiaeth. Mae hyn yn rhan allweddol o unrhyw waith amgylcheddol ac ar hyn o bryd dim ond cyfeiriad at ddatgarboneiddio sydd yma. Pa rôl mae'r gwasanaeth yn ei chwarae wrth wella amgylchedd naturiol bioamrywiol? |
| 61 | Sgâm |
| 62 | Ie a na i'r egwyddor hon, os ydych chi wedi bod yn cymryd camau beth bynnag, pam cymaint o ymdrech i wella pethau nawr. Gallwch wneud rhywfaint, ond rhaid i'r flaenoriaeth fod yn staffio, recriwtio a gwella eich gwasanaeth. |
| 63 | Mae arferion arbed ynni yn gwneud synnwyr. |
| 64 | Ie, i bopeth. |
| 65 | Dim byd penodol i'w ychwanegu. |
| 66 | Dylai nodau amgylcheddol fod yn gymesur ac yn gytbwys â chostau. Fel y dywedodd [redacted], osgoi prynu technolegau na fyddant yn para [Cyhyd ag injanau/faniau tân hŷn] |

| | |
|---|---|
| 67 | Credaf fod hwn yn faes hynod bwysig ac rydyn ni'n gwneud gwaith rhagorol ac yn rhoi pethau ar waith. Mae Tim yn rhagorol ac mae wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i yrru'r ffrwd waith hon yn ei blaen. Mae'r cynllun Amgylcheddol yn edrych yn wych a gallwn wneud ein rhan i leihau allyriadau, lleihau'r defnydd o ynni a sicrhau ôl-troed carbon is. |
| 68 | Rydw i'n cefnogi unrhyw fesurau sy'n helpu i ddiogelu'r blaned ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r flaenoriaeth hon yn anfon neges gref. |
| 69 | Rydyn ni'n llwyr gefnogi'r flaenoriaeth hon. |
| 70 | Ie, cadwch yr aer yn lân lle bo hynny'n bosibl. Rydych chi'n gwneud hyn pan fyddwch chi'n diffodd tanau hefyd. |
| 71 | Rydw i'n cytuno'n gryf. |
| 72 | Uwchraddio eich cyfleusterau. |
| 73 | Rydw i'n cytuno'n gryf â'r flaenoriaeth i ddiogelu'r amgylchedd naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. |
| 74 | Trowch y gwres i lawr 1 gradd. Peidiwch â gwastraffu dŵr. |
| 75 | Defnyddiwch lai o ynni, i arbed arian. Trowch y tapiau dŵr i ffwrdd cyn gynted â phosibl. |
| 76 | Yn ogystal â'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun, byddai'n dda gweld cyfeiriad at sut y gall yr agenda teithio llesol gyfrannu at yr egwyddor hon. Er enghraifft, cofrestru i ddilyn Siarter Teithio Iach Gogledd Cymru ac ymgorffori hynny yn y gwasanaeth. |
| 77 | Rydw i'n hoffi eich cynllun i adolygu eitemau stoc a datblygu arferion gwaith er mwyn lleihau gwastraff. Ceisiwch brynu cynhyrchion gyda chyn lleied o becynnu â phosibl a lleihau'r defnydd o ynni mewn gorsafoedd tân ac unrhyw swyddfeydd sydd gennych ar eich ystad. |
| 78 | Rydw i'n cefnogi arferion ecogyfeillgar. |
| 79 | Cytuno'n gryf â'r cyfan. |
| 80 | Oes. |
| 81 | Rhannu adnoddau gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill neu ganolfannau cymunedol i arbed costau. Yn yr un modd, gallech logi ystafelloedd mewn gorsafoedd tân i grwpiau cymunedol i gynhyrchu arian y gellid ei fuddsoddi'n ôl yn y gwaith o uwchraddio'r cyfleuster a'r gwaith cynnal a chadw. |
| 82 | Byddwch mor effeithlon â phosibl. |
| 83 | Mae hwn yn gynllun cyfrifol. |
| 84 | Mae gen i ddiddordeb mawr yn hyn. Gwerthoedd a rennir. |
| 85 | Roedd yn ddiddorol dysgu am y prosiectau sydd gennych h.y. ailgylchu, prynu rhai cynhyrchion, caffael moesegol. |
| 86 | Mae diffyg staff yn golygu mwy o deithio/amseroedd teithio criwiau/staff, sy'n golygu mwy o ddefnydd o gerbydau. |
| 87 | Mae'n rhaid bod unrhyw arbedion yn werth eu gwneud. |
| 88 | Bydd adolygiad o'ch arferion yn helpu i nodi ffyrdd y gallwch wella. |
| 89 | Mae pobl ifanc yn deall y flaenoriaeth ac mae angen i oedolion ddiogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. |
| 90 | Dylai uwchraddio cyfleusterau leihau eich costau a bod yn fwy diogel. |

## Atodiad G

| Cyf. | MEYSYDD ERAILL MEWN PERTHYNAS Â'R GWASANAETHAU RYDYN NI'N EU DARPARU - SYLWADAU YCHWANEGOL |
|---|---|
| 1 | Nac oes |
| 2 | Beth am gael gweithlu ffit a chryf? |
| 3 | Nac oes |
| 4 | Gwneud y strwythur rhengoedd yn deg. WMB ystafell reoli vs WMA gweithredol. Nid yw'r ystafell reoli yn rheoli hanner y staff ac nid ydynt yn cael eu rhoi mewn sefyllfaoedd eithafol. Yn yr un modd, WMA adrannol vs WMA gorsafoedd. Maen nhw'n cael eu talu'r un peth ond mae eu cyfrifoldeb yn hollol wahanol. |
| 5 | Iechyd a llesiant |
| 6 | Sgrapiwch ef, twyll yw'r cyfan |
| 7 | Cynnal neu hyd yn oed wella'r ddarpariaeth yn ein hardaloedd poblog prysur sy'n ehangu'n barhaus er mwyn sicrhau diogelwch ein diffoddwyr tân a'r cyhoedd yn y ffordd orau. |
| 8 | Stopiwch wastraffu arian fy arian ar bethau fel hyn!  Efallai y bydd arnaf eich angen mewn argyfwng, ond dydw i DDIM angen i chi fod yn orwarchodol. |
| 9 | Mae darpariaeth i ieuenctid yn brin o amgylch Glannau Dyfrdwy, Cei Connah a'r Fflint, efallai y gallai'r gwasanaeth tân wneud mwy i gael pobl ifanc i gymryd rhan a gwirfoddoli. |
| 10 | Darpariaeth ieuenctid... cadetiaid. Cyfleoedd gwirfoddoli, lleoliad profiad gwaith i fyfyrwyr AB. |
| 11 | Cyfleoedd gwirfoddoli i fyfyrwyr coleg |
| 12 | Lleoliad gwaith a chyfleoedd gwirfoddoli. |
| 13 | Mae eich gwasanaeth yn colli'r cyfle i chwilio am wirfoddolwyr sy'n barod i roi o'u hamser. |
| 14 | Cynnal ymateb cyflym i danau mewn ardaloedd fel y Fflint a Bwcle |
| 15 | Cyfleoedd gwirfoddoli a lleoliad profiad gwaith i fyfyrwyr. |
| 16 | A oes gennych bolisi ar gyfer gweithrediadau trawsffiniol gyda Chanolbarth Cymru, Swydd Gaer a Swydd Amwythig? |
| 17 | Mae ein presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol yn fach ac yn hynod ffurfiol. Rydyn ni'n anfon neges oeraidd, rydw i'n credu y dylem wneud mwy i apelio at bob oedran a cheisio dangos ochr fwy hwyliog. Mae postiadau cyfryngau cymdeithasol yr heddlu yn aml yn ddoniol neu'n ddiddorol. Mae ein rhai ni yn edrych fel rhaglen newyddion o'r 50au. |
| 18 | Beth am sicrhau bod y criwiau'n ffit ac yn gryf a rhoi'r gorau i wastraffu amser ac arian ar nonsens gwleidyddol |
| 19 | Defnyddio ein staff ar alwad i gynorthwyo Gwasanaeth Ambiwlans Cymru mewn lleoliadau gwledig lle bo hynny'n bosibl i helpu i leihau'r pwysau arnynt. Ystyriwch ailgyflwyno'r Tîm Cymorth Cymunedol profedig (CAT) i ddelio â'r nifer fawr o 'Gwympiadau'. |
| 20 | Dim |
| 21 | Teneuo'r haen uchaf o reolwyr a chynyddu staff rheng flaen ar lawr gwlad. |
| 22 | Mwy o ddarpariaeth yn ein hardaloedd adeiledig sy'n ehangu'n barhaus. Dim llai drwy ymdrech ryfedd i ddarparu gwasanaeth teg |
| 23 | Peidiwch â thorri staff neu bersonél, da chi. Mae cael y nifer cywir o staff sy'n fedrus ac yn gymwys i ymateb yn hanfodol ar gyfer gwasanaeth cymwys. |
| 24 | Cadetiaid a chysylltu ag ambiwlans Sant Ioan |
| 25 | Roeddwn yn sgwrsio â'r dyn yn y Parkrun, onid oes potensial i'r gwasanaeth gael ei leoli mewn cyfleusterau a rennir i helpu i gyrraedd digwyddiadau yn gyflymach. Er enghraifft, oni all eich injanau tân symud i ardaloedd lle mae gennych fwy o staff ar gael er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r broblem o argaeledd? |

| | |
|---|---|
| 26 | Dim toriadau i wasanaethau rheng flaen neu israddio gorsafoedd neu nifer y criwiau. Buddsoddi mewn criwiau system dyletswydd ar alwad mewn ardaloedd gwledig a buddsoddiad pellach yn y WDSR. |
| 27 | Dylid canolbwyntio ar gael gwasanaeth sy'n barod, a dim ond hynny, a rhoi'r gorau i'r holl nonsens gwleidyddol hwn |
| 28 | Recriwtio pobl leol mewn rhai ardaloedd i leihau'r angen i deithio |
| 29 | A fyddai mwy o gapasiti'n arwain at ymatebion cyflym i gyflwyno Archwiliadau Diogel ac Iach? Gall pobl risg isel ddod yn bobl risg uchel erbyn iddynt gael ymweliad mewn gwirionedd. Mae'n werth ystyried hyn o ddifrif oherwydd mae ein grŵp [Dementia] yn dystiolaeth o sut y gall salwch ddigwydd yn gyflym iawn yn wir. |
| 30 | Dylid edrych yn agosach ar y nifer cynyddol o safleoedd gwerthu bwyd. Hefyd, mae pobl sy'n cludo bwyd yn rhuthro o amgylch Bangor a phentrefi cyfagos yn peri risg ychwanegol i ddefnyddwyr y ffordd a phobl sy'n cerdded ar draws ffyrdd. |
| 31 | Nac oes. |
| 32 | Ystyriwch o ddifrif ddarparu gorsafoedd tân llawn-amser ymhob ardal. |
| 33 | Paneli solar, gwych i gynhyrchu ein hynni ein hunain ond ar ba gost os bydd tân! |
| 34 | Helpu cefnogi ffoaduriaid pan fyddant yn cyrraedd |
| 35 | Agor yr orsaf dân i'r cyhoedd. Trefnu ymweliadau clybiau ieuenctid |
| 36 | Rydych chi wedi ymdrin â llawer yn eich cynllun |
| 37 | Cyngor ac arweiniad i ffoaduriaid a newydd-ddyfodiaid i'r DU |
| 38 | Ddim mewn gwirionedd. |
| 39 | Pobl sy'n newydd [ac yn dod i'r amlwg] a fydd angen cyfieithu a dehongli |
| 40 | Mae cynifer o ffyrdd o gysylltu â phobl ifanc i ddatblygu eich gwaith. Cyfleoedd gwirfoddoli, gallant gyfleu eich swyddi a'ch cyngor diogelwch. Mae gan weithwyr ieuenctid gysylltiadau da, felly mae'n gwneud synnwyr eu defnyddio i helpu i gyfathrebu, yn llawer mwy effeithiol na Facebook ac ati. |
| 41 | Efallai gofyn i elusennau fel ni ddarparu hyfforddiant yn eich sefydliad. |
| 42 | Swyddog adeiladau treftadaeth fel siroedd eraill? |
| 43 | Bydd ehangu eich gweithgareddau atal yn helpu i gyrraedd mwy o bobl. |
| 44 | Mwy o ffocws ar ddiogelwch ar y ffyrdd ar yr A5 a ffyrdd cefn |
| 45 | Dydw i ddim yn deall pam eich bod yn credu bod angen i chi hyd yn oed boeni am unrhyw beth heblaw diffodd tanau a diogelu pobl; dyna'ch unig dasg, pam cymryd rhan yn yr holl sbwriel gwleidyddol hwn? |
| 46 | Bod yn fwy amlwg yn y gymuned. Dydych chi ddim yn gweld y gwasanaeth tân allan mor aml y dyddiau hyn |
| 47 | Ehangu archwiliadau diogel ac iach i fwy o bobl. |
| 48 | Mwy o gyfleoedd i bobl ifanc ymgysylltu â chi. |
| 49 | Pobl hŷn. Poblogaeth sy'n heneiddio |
| 50 | Rhieni sengl a neiniau a theidiau sy'n gyfrifol am fabanod a phlant ifanc |
| 51 | Gwell ymwybyddiaeth o beryglon e-feiciau. |
| 52 | Ehangu eich negeseuon diogelwch i fwy o bobl. Efallai y gallech ymweld yn rheolaidd, hyd yn oed yn fisol. Does neb wedi cael ei weld yn y flwyddyn ddiwethaf [Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys] |
| 53 | Mae angen i ymgyrchoedd ymwybyddiaeth ein cyrraedd. Yn amlwg, mae angen technegau ymgysylltu cymunedol gwell. Gallai eich diffoddwyr tân fod yn fwy gweladwy, ond rydw i'n cydnabod eich bod wedi dweud bod diffoddwyr tân Conwy yn rhai rhan-amser [ar alwad gyda gallu/argaeledd cyfyngedig i fynychu grwpiau/digwyddiadau]. |
| 54 | Nac oes. |
| 55 | Canolbwyntio ar atal ac ymateb yn unig |
| 56 | Tynnwch sylw at y peryglon gydag E-feiciau, e-sgwteri, eitemau trydanol heb eu rheoleiddio ac ati. |

| | |
|---|---|
| **57** | Daliwch ati i wneud yr hyn rydych chi'n ei wneud. Ymweliadau rheolaidd â chanolfannau cymunedol ac eglwysi. |
| **58** | Dim ond awgrym, cynhyrchu cylchlythyr copi caled y gallem ei dderbyn i'n hysbysu ni o bethau. |
| **59** | Darparu cyflwyniadau fel y timau iechyd y cyhoedd |
| **60** | Ymgyrchoedd ymwybyddiaeth ehangach i dargedu pobl sy'n mynd i mewn i ddŵr, pobl sy'n mynd â chŵn am dro a phobl sy'n rhedeg gerllaw traciau trên (h.y. iPods, ddim yn gwrando/clywed peryglon) |
| **61** | Darparu cyngor ynghylch risg sy'n gysylltiedig â thechnolegau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg, ond cyfathrebu â phobl yng Nghyffordd Llandudno drwy bartneriaid cymunedol sefydledig (h.y. Paned a Sgwrs) |
| **62** | Ymgysylltu â phobl sy'n byw ar eu pennau eu hunain. |
| **63** | Ehangu ymgysylltiad cymunedol i hyrwyddo recriwtio, ond gellir defnyddio'r amser hwn i hyrwyddo negeseuon diogelwch. |
| **64** | Sut gallai'r GTA gyfrannu at ddiwylliant Cymru? Hefyd yn ateb yma oherwydd nad yw wedi'i ofyn - mae'r nifer disgwyliedig o danau gwyllt yn isel, er bod darogan tanau gwyllt yn dangos eu bod yn debygol o gynyddu gyda hafau sychach a phoethach. Pam na allwch chi ragweld nifer y llifogydd? Hyd yn oed dim ond dweud eu bod yn debygol o gynyddu - ac rydych chi'n awgrymu y byddan nhw? Rydw i'n sylweddoli bod llawer o waith wedi mynd i bennu'r rhain ond dydy hi ddim yn glir o gwbl bod perthynas rhwng eich risg a ddisgrifir a'r rhifau a gyflwynir ar dudalen 22 |
| **65** | Pwy ar y ddaear a feddyliodd am hyn? Sôn am wastraff amser, ymdrech ac arian siŵr o fod |
| **66** | Cynifer o bethau. A allai eich dynion tân wneud mwy os oes llai o danau? Mae eich gwybodaeth ategol yn awgrymu y bydd gennych fwy o argyfyngau yn 2024/25 ond mae nifer y digwyddiadau yn isel iawn o'i gymharu â ni sy'n gweithio ym maes iechyd. Gallech gysylltu'n llawer gwell â gwasanaethau iechyd, Betsi Cadwaladr ac iechyd y cyhoedd i hyrwyddo gwasanaethau a chyfeirio atgyfeiriadau a chyngor i bobl |
| **67** | Negeseuon diogelwch ar y ffyrdd i ffermwyr/gyrwyr tractorau. A all GTAGC wneud rhywbeth i atal y problemau goryrru ar hyd yr A5 i lawr, yn enwedig y rhan rhwng Bangor a Chapel Curig. |
| **68** | Manteisio i'r eithaf ar y potensial i gynnwys ieuenctid a phobl ifanc wrth hyrwyddo negeseuon diogelwch a gweithgareddau atal. |
| **69** | ADI i fwy o bobl. Adolygu technegau ymgysylltu. |
| **70** | Ffyrdd cul ym mhobman [Yng Nghyffordd Llandudno] felly mae heriau enfawr [i beiriannau tân] i gael mynediad i rai ardaloedd yn gyflym. |
| **71** | Dylem ailedrych ar achub anifeiliaid, achub ar uchder ac ymateb cardiaidd a gallai hyn helpu i adeiladu achos busnes dros fwy o gyllid yn y dyfodol. |
| **72** | Mae potensial i GTAGC weithio'n agosach gyda ni [EYST / Prosiect Ieuenctid Diwylliannau Wrecsam] i wella bywydau pobl ifanc yn Wrecsam a Sir y Fflint. |
| **73** | Sefydlu rhaglen cadetiaid yn Wrecsam os gwelwch yn dda. |
| **74** | Rhaglen cadetiaid a chyfleoedd i ennill profiad gwaith. |
| **75** | Efallai y gall yr injan dân ddod i'r clwb ieuenctid a'r ysgol. |
| **76** | Nac oes. |
| **77** | Creu clipiau fideo diogelwch ar gyfer YouTube ac Instagram |
| **78** | Daliwch ati i wneud yr hyn rydych chi'n ei wneud. |
| **79** | Mae eich teithiau cerdded [Dementia] yn werthfawr iawn. Diolch yn fawr. |
| **80** | Teilwra gwasanaethau i grwpiau mawr fel pobl hŷn a phobl sy'n byw gyda dementia. Cymorth i'r teuluoedd. |
| **81** | Cynyddu eich gwaith atal i ddarparu ar gyfer y nifer cynyddol o bobl sy'n ymddeol a phobl hŷn sy'n byw gyda chyflyrau iechyd. |
| **82** | Ystyried pobl sy'n byw gyda dementia a'r cymhlethdodau sy'n gallu amgylchynu pobl sy'n byw mewn gwahanol leoedd, y rhai sy'n byw ar fflatiau aml-lawr, yn byw ar eu pennau eu hunain ac ati. |

| | |
|---|---|
| **83** | Parhau gyda'r holl waith gwych rydych chi'n ei gyflawni gyda phlant a phobl ifanc drwy'r rhaglenni Addysg Ieuenctid.  Sicrhau bod negeseuon hybu iechyd yn cael eu hymgorffori drwy gydol y rhaglenni hyn. |
| **84** | Rydw i'n siŵr bod eich gwasanaeth presennol yn ymdrin â phopeth, ond gall ymgysylltu mwy rheolaidd â grwpiau cymunedol fel ein grŵp ni wella eich gallu i gyfathrebu negeseuon diogelwch ataliol. Mae rhai aelodau'n defnyddio'r rhyngrwyd, ond mae'r rhan fwyaf ohonynt yn elwa o gyswllt wyneb yn wyneb. |
| **85** | Gallech gwmpasu ardal Saltney. Does dim gorsaf dân yma ar hyn o bryd. |
| **86** | Cysylltu â gwasanaethau eraill yn well, iechyd, ambiwlans, elusennau ac ati. |
| **87** | Risgiau newydd. Mae'r ganolfan hyfforddiant newydd yn beth positif. |
| **88** | Yn sicr ystyried achub anifeiliaid yn y dyfodol |
| **89** | Gallech fynd â'ch diwrnodau profiad allan i ysgolion a cholegau. Bydden nhw'n cael effaith. |
| **90** | Ddim mewn gwirionedd, ond cynyddu nifer yr archwiliadau diogel ac iach. |
| **91** | Agorwch yr orsaf dân i'r cyhoedd ymweld â hi a gweld beth rydych chi'n ei wneud. |
| **92** | Asesu a chynghori busnesau lleol ynghylch hygyrchedd. |
| **93** | Darparu gwasanaethau gyda phobl nad ydynt yn siarad Saesneg fel eu hiaith gyntaf mewn golwg. |
| **94** | Ffoaduriaid a Cheiswyr lloches. Ynysigrwydd teuluoedd sy'n newydd i'r ardal. Cydnabyddiaeth nad yw rhai teuluoedd sy'n newydd i'r ardal yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau. Gall gwasanaethau newydd ddod i'r amlwg o ymgysylltu â grwpiau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg. |
| **95** | Teilwra gwasanaethau i ddarparu ar gyfer cartrefi gofal a phobl sy'n byw mewn lleoliadau gofal. |
| **96** | Cynnig eich ystafelloedd cymunedol i'r grŵp eu defnyddio o bryd i'w gilydd. Posibilrwydd Llandudno neu Gonwy. |

## Atodiad H

| Cyf. | CYFRYNGAU CYMDEITHASOL – SYLWADAU YCHWANEGOL |
|---|---|
| 1 | Wedi'i wneud yn rhy gymhleth i anfon e-bost yn unig ac yna ei rwystro |
| 2 | Rydyn ni i gyd yn meddwl am "bum egwyddor" neu bedair neu dair neu ddeg. Rydw i'n gwneud hynny ar gyfer fy nhîm yn y gwaith (nad yw'n agos i fod mor beryglus â'r hyn rydych chi'n ei wneud).<br>Byddwn i'n meddwl, fel lleygwr sy'n edrych ar yr hyn rydych chi'n ei wneud, mai eich prif nodau fyddai:<br>Addysg<br>Diogelwch (eich staff a'r cyhoedd)<br>Ymateb<br>Adolygu<br>Rwy'n edrych ar hyn o safbwynt Sicrhau Ansawdd ac rwy'n mawr obeithio y byddwch yn ystyried hyn fel awgrym nid beirniadaeth. |
| 3 | Felly faint mae'r Ymgynghoriad hwn yn ei gostio?<br>A minnau wedi gwasanaethu yn y Gwasanaeth Tân pan oedd yn Wasanaeth disgybledig yn cael ei oruchwylio gan bersonél profiadol, rydw i'n gweld hyn yn anhygoel.<br>Yn syml, mae'r Gwasanaeth Tân yn Wasanaeth Brys, sy'n ymateb i bob galwad am ei bresenoldeb, yn cynorthwyo a chynghori ar bob agwedd ar Ddiogelwch Tân. |
| 4 | Iawn, gadewch i ni roi hyn i gyd mewn persbectif.<br>Dyma [redacted], a enwyd gan i fi ei hachub fel y ddarpariaeth 24/7 yn y Rhyl a Glannau Dyfrdwy (2 filltir o'r fan lle cefais hyd iddi). Prin y byddai unrhyw un yn meddwl bryd hynny y byddech chi'n dod yn ôl gyda'r un ymgynghoriad peryglu bywyd, cloff, diog lai na 6 mis yn ddiweddarach... heb sôn am holiadur cydraddoldeb sydd mor ddiffygiol â'r un diwethaf y nodwyd ei fod yn ddiffygiol.<br>Mae'n bryd cael newid i ymgynghoriad mwy deallus ac nid ymarfer ticio blychau nad yw'n caniatáu i bobl wneud sylwadau llawn neu onest. Rydw i wedi gwneud sgrinlun ac os caiff ei ddileu byddaf yn mynd at HMI a LlC i ofyn pam... gwnewch y peth iawn, gwrandewch, datblygwch a thyfwch eich darpariaeth achub. |
| 5 | Yn dilyn ymlaen o'r llynedd, byddwn yn atgoffa'r pwyllgor gweithredol (Tîm Rheoli'r Frigâd) bod llawer iawn o amser ac ymdrech gan bwyllgor a sefydlwyd gan gangen Gogledd Cymru o NARF, wedi arwain at ddogfen gynhwysfawr sy'n cynnig ffyrdd amgen o gyflawni darpariaeth tân amser cyflawn heb fod angen newid mawr ac aflonyddu ar fywydau personél amser cyflawn a'u teuluoedd.<br>Rydw i'n amau na roddwyd unrhyw ystyriaeth iddi a'i bod wedi ei ffeilio o dan B1N.<br>Rydw i'n cytuno â'r sylw blaenorol. Daliwch ati i ofyn yr un cwestiwn nes byddwch yn cael yr ateb yr ydych yn ei ddymuno. |
| 6 | Peidiwch â dod yn ôl ac ymrannu'r Dwyrain a'r Gorllewin ... mae'n syml iawn, ond dydy hynny ddim yn opsiwn, nag ydy?<br>Yn union fel dwyn o'r naill law i dalu'r llall bob dydd. Cywilydd ar y rhai a bleidleisiodd dros doriadau y tro diwethaf, yn enwedig un a oedd, fel cyn-ddiffoddwr tân, wedi gweld y canlyniadau |
| 7 | Mynychodd gwasanaeth tân gwirfoddol Treffynnon ein tân garej yn 2016/7 yn ystod y nos yn gyflym iawn. Mae gwirfoddolwyr yn arbennig yn fy marn i. Diolch yn fawr. |
| 8 | Mae'r cyfan yn Orwellaidd ac fel Animal Farm. Byddwn ni'n parhau nes i chi bleidleisio yn y ffordd iawn?<br>Yr un toriadau, gwahanol flwyddyn, mae gwasanaethau blaengar yn cynnal rolau'r system dyletswydd ar alwad (Swydd Amwythig er enghraifft).<br>A dweud y gwir, mae'r un toriadau ymrannol, dwyn o'r naill law i dalu'r llall, yn ffiaidd, ac i fod yn onest, yn ffars. Mae mwy o alwadau mewn ardaloedd mwy prysur, a mwy o risgiau yn y nos hefyd.<br>Ni fyddai unrhyw uwch-swyddog... sori, rheolwr, sydd wedi gweld marwolaeth yn sgil tân yn gwneud toriadau. |

| | |
|---|---|
| | [redacted] |
| | |

# FFURFLEN ASESU EFFAITH AR GYDRADDOLDEB – MATRICSAU AC AWGRYMIADAU

**Matrics Cydraddoldeb a Sgorio** - mae'r Asesiad o Effaith Integredig yn seiliedig ar y sgôr risg Coch Ambr Gwyrdd (RAG) fel a ganlyn:

| TEBYGOLRWYDD | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Annhebygol | Tebygolrwydd Isel | Posibl | Tebygolrwydd Uchel | Bron yn Sicr |
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |

| EFFAITH | | |
|---|---|---|
| **5** | **VH** | **Trychinebus – camau cyfreithiol (hawliad gwahaniaethu)** |
| 4 | H | Mawr– mater difrifol a allai arwain at gyhoeddusrwydd negyddol a chamau disgyblu o fewn cyd-destun y Gwasanaeth. |
| 3 | M | Cymedrol – cwyn allanol neu gŵyn fewnol. |
| 2 | L | Bach – mae angen gwneud mân-ddiwygiadau neu newidiadau ychwanegol i'r polisi. |
| 1 | VL | Bach iawn – dim ond mân ystyriaethau sy'n ofynnol. |

| | | | EFFAITH | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | VL | L | M | H | VH |
| | | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| TEBYGOLRWYDD | Bron yn Sicr | 5 | 5 | 10 | 15 | 20 | 25 |
| | Tebygolrwydd Uchel | 4 | 4 | 8 | 12 | 16 | 20 |
| | Posibl | 3 | 3 | 6 | 9 | 12 | 15 |
| | Tebygolrwydd Isel | 2 | 2 | 4 | 6 | 8 | 10 |
| | Annhebygol | 1 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |

| Sgôr Risg Gyffredinol | Disgrifiad | Monitro |
|---|---|---|
| **1 – 4**<br>**Modd ei reoli** | Gall y risg fod mor isel nes bod y Gwasanaeth yn dewis derbyn y risg ac yn syml gofnodi ei fod wedi ei nodi ac, oherwydd ei debygolrwydd neu effaith isel, na fydd angen cymryd camau pellach. Fel arall, efallai y bydd mân ystyriaethau ar ôl gweithredu. Fel arall, efallai y bydd angen ymdrin â mân ystyriaethau wrth eu gweithredu. | Bydd Arweinydd y Prosiect yn cynnal goruchwyliaeth ac yn parhau i reoli'n lleol. |
| **5 –** 10<br>**Canolig** | Bydd perchennog yr AEG yn lliniaru risgiau a nodwyd drwy wneud gwelliannau bach neu weithredu rheolaethau pellach i leihau neu ddileu'r risg. Fel arall, gallai'r perchennog gadarnhau bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd i liniaru'r risg ac nad oes unrhyw gamau rhesymol pellach yn bosibl. | |
| **12 –** 15<br>**Uchel** | Ni ellir cyflwyno'r polisi, y prosiect neu'r gwasanaeth hwn nes ein bod wedi ymgynghori'n fanwl yn allanol ac / neu'n fewnol gyda'r rhai y mae'r maes gwaith hwn yn effeithio arnynt. | Bydd angen gweithredu pellach ar sgorau dros 12, ac ar yr adeg honno byddai'n ddoeth ymgynghori â noddwr neu Brif Swyddog y prosiect perthnasol. . |
| **16 – 25**<br>**Uchel iawn** | Mae risg uchel wedi'i nodi, felly gweithredwch ar unwaith. Os yw camau cyfreithiol yn debygol, yna ni all y Gwasanaeth fwrw ymlaen â'r polisi heb ei newid yn sylfaenol. Os yw'r effaith yn parhau'n Tudalen ddifrifol hyd yn oed ar ôl cymryd camau lliniaru, yna bydd yn rhaid ymgynghori â grwpiau mewnol ac / neu allanol. | |

# FFURFLEN ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

## Pwrpas

Mae'r Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb (EAG) hwn yn sicrhau nad yw polisïau, prosiectau a darpariaeth y Gwasanaeth yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn unrhyw berson, yn enwedig y rhai sy'n dod o dan nodweddion gwarchodedig fel yr amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae cwmpas yr EAG penodol hwn yn sicrhau bod ein Gwasanaeth yn mynd y tu hwnt i unrhyw ofynion cyfreithiol a dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus. Mae'r ddogfen hon yn ceisio nodi risg(iau) i bobl ac yn ceisio disgrifio sut mae'r Gwasanaeth yn bwriadu lliniaru risg o'r fath.

Unwaith y bydd yr AEG wedi'i gwblhau, bydd yn rhaid iddo gael ei wirio a'i lofnodi gan y Pennaeth Adran perthnasol. Dylai unrhyw un sy'n cwblhau AEG ac sy'n aneglur ynghylch unrhyw ran o'r cynnwys gysylltu â'r Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

| | |
|---|---|
| Teitl | Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC) Mapio ac ymgysylltu Y Cyfnod ar ôl Ymgynghori. |
| Mynd i'r afael â'r amcan corfforaethol | Ein Hegwyddor Pobl<br>Bod yn y lle cywir, ar yr adeg gywir, gyda'r sgiliau cywir.<br>Sicrhau gweithlu medrus iawn drwy recriwtio, datblygu a chadw gweithlu dwyieithog, llawn cymhelliant sy'n cynrychioli ac yn hyrwyddo amrywiaeth y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.<br><br>Ein Hegwyddor Atal<br>Gweithio gyda phartneriaid i helpu i wneud cymunedau'n fwy diogel.<br>Lleihau'r risgiau i'n cymunedau, yn enwedig i'r bobl hynny a allai fod yn fwy agored i niwed, drwy ein rhaglenni ymyrraeth sefydledig fel Archwiliadau Diogel ac Iach a Phrosiect Ffenics.<br><br>Ein Hegwyddor Diogelu<br>Gwneud busnesau'n fwy diogel gyda'n gilydd.<br>Darparu canllawiau arbenigol i fusnesau ar ddiogelu rhag tân i helpu i sicrhau diogelwch adeiladau, gweithwyr a chwsmeriaid, a thrwy hynny gefnogi busnesau i dyfu. Mae adeiladau risg uchel yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer arolygiadau, gan gyfrannu at ddiogelwch y cyhoedd yn gyffredinol. |

| | |
|---|---|
| | Ein Hegwyddor Ymateb<br>Darparu ymateb brys effeithiol.<br>Bod yn barod i ymateb pan fydd arnoch ein hangen: i ddiogelu’r hyn sy'n bwysig i chi, i achub bywydau, lleihau niwed, ac amddiffyn cartrefi a busnesau.<br><br>Ein Hegwyddor Amgylchedd<br>Diogelu a gwarchod ein hamgylchedd naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.<br>Mabwysiadu arferion ecogyfeillgar yn ein gweithrediadau beunyddiol i leihau allyriadau carbon ac effeithiau amgylcheddol eraill a chodi ymwybyddiaeth amgylcheddol ymhlith ein staff a'n cymunedau. |
| Adran / swyddogaeth sy'n cynnal yr asesiad | Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid. |
| Pwy sy'n gyfrifol am weithredu'r polisi? | Noddwr y prosiect – DBST Stewart Forshaw |
| Pwy sy'n rhan o broses yr asesiad effaith? | Rheolwr Ardal Anthony Jones – Arweinydd y Prosiect<br>Gary Ashton – Rheolwr Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad<br>Benji Evans – Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant |
| Beth yw nodau / amcanion / canlyniadau disgwyliedig y polisi / y fenter / y gwasanaeth? | Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) ar ôl yr ymgynghoriad yn dogfennu gwybodaeth allweddol ac adborth sy’n deillio o ymgynghoriad y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol. Er y bydd themâu allweddol yn cael eu trafod a'u hasesu yn yr AEG hwn, bydd adroddiad dadansoddi cydraddoldeb llawn yn cael ei lunio i ddarparu arweiniad clir o ran mesurau lliniaru a'r camau nesaf. |
| Pwy fydd yn elwa o'r polisi? | Rhanddeiliaid mewnol ac allanol. |
| Ydy'r polisi / menter / gwasanaeth hwn at ddibenion allanol neu fewnol? | Mewnol ac allanol. |
| Ydy'r polisi / menter / gwasanaeth hwn yn cael effaith ar y gwasanaeth dyletswydd Ar-Alwad? | Ydy, mae pob rhanddeiliad yn cymryd rhan uniongyrchol yn yr ymgynghoriad hwn. |

| | |
|---|---|
| A oes sefydliadau eraill yn cyfrannu at y broses gyflwyno?<br>Os oes, nodwch pa sefydliadau. | Mae'r Gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda'r Sefydliad Ymgynghori i sicrhau ansawdd y broses ymgynghori. |
| Pa wybodaeth / profiad blaenorol sydd gan y Gwasanaeth, h.y. menter debyg, a beth mae'r wybodaeth hon wedi'i dysgu i ni? (Gall gwybodaeth fod yn ddata demograffig, hy canfyddiadau'r cyfrifiad, canfyddiadau ymchwil, cymariaethau rhwng polisïau tebyg yn ein Gwasanaeth ni a Gwasanaethau eraill, arolwg data, monitro data cydraddoldeb, ymarferion casglu data ad hoc). | Bydd ein Gwasanaeth yn defnyddio'r data demograffig a'r data poblogaeth diweddaraf sy'n rhoi gwybodaeth am wahanol grwpiau buddiant ym maes cydraddoldeb ar draws y rhanbarth.<br><br>Amlygodd yr AEG cyn ymgynghori grwpiau buddiant gwahanol ym maes cydraddoldeb. Hefyd, cynhaliodd y gwasanaeth ymgynghoriad llawn yn 2023 fel rhan o'u Hadolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, felly bydd y Gwasanaeth yn elwa o fethodoleg proffil risg cymunedol sydd eisoes wedi'i sefydlu. Cynhaliwyd ymarferiad mapio cynhwysfawr fel rhan o'r gwaith cyn yr ymgynghoriad a bu'r broses hon yn gymorth i nodi rhanddeiliaid, yn enwedig pobl nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed yn aml, sy'n aml yn cynnwys rhai o'r bobl sydd fwyaf tebygol o wynebu risg yn ein cymdeithas. |
| A oes asesiad effaith tebyg wedi'i gynnal gan Wasanaethau Tân ac Achub eraill neu awdurdodau lleol mewn perthynas â pholisi tebyg?<br>Os felly – a yw'n bosib addasu / ymgorffori eu canfyddiadau? | Cafodd amryw o AEG mewn ymgynghoriadau gan wasanaethau tân ac achub eraill eu rhannu gyda'r Gwasanaeth fel ffordd o fabwysiadu arfer gorau. Mae AEG blaenorol yn ein helpu i nodi risg ac mae'r Gwasanaeth yn gallu gweithredu ymyriadau addas i liniaru'r risg hon. Mae AEG blaenorol yn helpu'r Gwasanaeth i fyfyrio ar yr hyn y mae wedi'i ddysgu o brofiadau blaenorol o'i arferion ei hun yn ogystal ag o brofiadau sefydliadau tebyg eraill sydd wedi ymgynghori â'u cymunedau. |
| Dyddiad yr adolygiad nesaf (os yw'n berthnasol) | Bydd yr AEG hwn yn cael ei adolygu a'i ddefnyddio fel rhan o gam gweithredu'r gwaith arfaethedig sydd wedi'i gynnwys yn y ddogfen Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024-29. |

# Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

| Nodweddion Gwarchodedig neu Thema Gydraddoldeb | Rhesymeg dros eich dewis (cynnwys neu cyfeirio at dystiolaeth)<br><br>Sut gallai hyn gael effaith? |
|---|---|

| **Oed** (band) | | | Disgrifiad o'r band oed: |
|---|---|---|---|
| **Tebygolrwydd** | **Effaith** | **Yn gyffredinol** | Cyfanswm y boblogaeth ar draws Gogledd Cymru yw 687,000 (SYG, 2023a). Mae'r duedd o boblogaeth sy'n heneiddio wedi parhau, gyda mwy o bobl nag erioed o'r blaen yn y grwpiau oedran hŷn. Mae'r SYG (2023a) yn nodi bod 22.3% o'r boblogaeth yn 65 oed a hŷn. O'r holl awdurdodau lleol ledled Cymru, Conwy (27.4%) ac Ynys Môn (26.4%) sydd â'r canrannau uchaf o bobl 65 oed a hŷn. Conwy (1.5%) sydd â'r ganran uchaf o bobl 90 oed yng Nghymru.<br><br>Gyda chroestoriadedd mewn golwg, mae'n ddefnyddiol edrych ar anabledd ac oedran oherwydd y gwahaniaeth nodedig yn y data rhwng 2011 a 2021, yn enwedig yn y grwpiau oedran iau a hŷn (SYG, 2023b). Ar gyfer merched rhwng 15 a 19 oed, roedd canran yr anabledd yn 13.3% yn 2021, sy'n 8.1 pwynt canrannol yn uwch nag yn 2011 a 7.9 pwynt canrannol yn uwch nag yn 2001. Parhaodd y duedd hon i'r grŵp oedran 20 i 24 oed, lle cynyddodd nifer yr achosion o anabledd yn sylweddol, o 6.2% yn 2011 i 17.9% yn 2021. Ar gyfer dynion, roedd yr achosion cynyddol o anabledd yn 2021 yn dechrau mewn oedrannau cynharach; roedd 8.6% o fechgyn 5 i 9 oed yn anabl yn 2021, o'i gymharu â 5.6% yn 2011 a 6.5% yn 2001 (SYG, 2023b).<br><br>Daeth amrywiaeth o themâu i'r amlwg gan bobl ar draws pob grŵp oedran. Trefnwyd grwpiau ffocws gyda grwpiau ieuenctid, coleg addysg bellach, grwpiau cymunedol a sesiynau cymorth ar gyfer pobl sy'n byw ag anabledd a chyflyrau iechyd, a oedd yn aml yn cynnwys pobl hŷn. Mae'r adroddiad Dadansoddi Cydraddoldeb yn rhoi disgrifiad cynhwysfawr o wahanol themâu a risgiau. |
| 4 | 1 | 4 | |

| Anabledd | | | |
|---|---|---|---|
| Likelihood | Effaith | Yn gyffredinol | |
| 4 | 2 | 8 | Yn ôl y SYG (2023c), mae gan 21.1% o'r boblogaeth anabledd a/neu gyflwr iechyd hirdymor. Er mai Gwynedd (18.1%) ydy un o'r awdurdodau lleol sydd â'r gyfran isaf o bobl anabl yng Nghymru, mae canran gyfartalog pobl anabl ar draws rhanbarth Gogledd Cymru yn uwch na rhannau eraill o'r DU. Gyda chroestoriadedd mewn golwg, roedd 22.3% o ferched a 19.8% o ddynion yn anabl. Roedd canran y rhai sydd wedi'u cyfyngu ychydig yn 11.9% ar gyfer merched a 10.3% ar gyfer dynion. Nododd cyfran uwch o ferched na dynion eu bod wedi'u cyfyngu'n fawr; 10.4% a 9.5% yn y drefn honno (SYG, 2023b).<br><br>Pobl anabl yw rhai o'r bobl fwyaf difreintiedig yn ein cymdeithas, felly rydym yn cydnabod pwysigrwydd cofnodi eu hanghenion, dyheadau a disgwyliadau mewn perthynas â gwasanaeth tân ac achub modern. Trefnwyd grwpiau ffocws gyda grwpiau cymunedol a oedd yn cynnwys pobl hŷn ag anabledd yn bennaf (h.y. dementia, diabetes, clefyd coronaidd y galon, OPCD, arthritis). Mae'r adroddiad Dadansoddi Cydraddoldeb yn rhoi disgrifiad cynhwysfawr o wahanol themâu a risgiau. Daeth amrywiaeth o themâu i'r amlwg o'r adborth a gafwyd gan bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd yn ystod yr ymgynghoriad. Roedd pryderon yn aml yn ymwneud ag anallu person anabl i ddianc rhag sefyllfa o argyfwng, yn bennaf oherwydd diffyg symudedd a mwy o risg o gwympo. Roedd amryw o weithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl hŷn yn teimlo bod pobl anabl yn wynebu mwy o risg oherwydd bod rhai ohonynt yn ynysig ac roedd rhai pobl yn teimlo eu bod yn wynebu mwy o risg oherwydd eu bod yn byw ar eu pen eu hunain. Mae'r adroddiad Dadansoddi Cydraddoldeb yn rhoi disgrifiad mwy cynhwysfawr o wahanol themâu, risgiau a mesurau lliniaru. |

| Lles ac Iechyd Meddwl | | | |
|---|---|---|---|
| Tebygolrwydd | Effaith | Yn gyffredinol | |
| 4 | 3 | 12 | Er bod iechyd meddwl yn dod o dan y diffiniad o anabledd, mae GTAGC wedi gwahanu'r grŵp hwn o bobl oherwydd y natur a'r heriau sy'n gysylltiedig â thargedu pobl o safbwynt iechyd meddwl a llesiant.<br><br>Mae iechyd meddwl a llesiant yn cwmpasu grŵp eang o bobl sy'n profi hwyliau isel, pryder, iselder ac ati. Ychydig iawn o themâu yn ymwneud ag iechyd meddwl anffafriol a ddaeth i'r amlwg, er bod rhai ymatebwyr wedi disgrifio teimlo'n fwy agored i niwed oherwydd eu bod yn teimlo'n 'ynysig' ac 'yn unig'. Mae'r adroddiadau ar ddata digwyddiadau yn atgoffa'r gwasanaeth bod galwadau brys sy'n gysylltiedig â hunanladdiad ac iechyd meddwl wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, felly mae'r gwaith hwn yn bwysig er nad oedd llawer o ymatebwyr wedi codi'r mater yn uniongyrchol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | yn ystod yr ymgynghoriad. Mae'r adroddiad Dadansoddi Cydraddoldeb yn rhoi disgrifiad mwy cynhwysfawr o wahanol themâu a risgiau a allai ymwneud ag iechyd meddwl yn anuniongyrchol. |

| **Rhywedd** | | | Yn ôl y SYG (2021a), mae poblogaeth Gogledd Cymru wedi'i rhannu'n gyfartal ar draws merched (51.1%) a dynion (48.9%). Er y bydd ymgysylltu â dynion a merched yn digwydd yn organig trwy gysylltu â gwahanol grwpiau buddiant ym maes cydraddoldeb, mae rhai sefydliadau penodol seiliedig ar rywedd yn ein galluogi i gysylltu â grwpiau rhywedd sydd ag anghenion penodol (e.e. pobl hŷn, pobl ddi-waith, rhieni).<br><br>Daeth amrywiaeth o themâu i'r amlwg o'r adborth a gafwyd gan bobl o wahanol rywiau. Roedd cefnogaeth gref i'r gwasanaeth ddod yn fwy amrywiol o ran rhywedd, yn enwedig ar draws rolau gweithredol. Roedd yr ymgynghoriad yn ein hatgoffa bod y rhan fwyaf o aelodau'r cyhoedd yn dal i weld y gwasanaeth tân ac achub fel gyrfa i ddynion, yn bennaf oherwydd mai dim ond 'diffoddwyr tân gwrywaidd' y mae'r ymatebwyr yn eu gweld yng Ngogledd Cymru. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y gallai'r gwasanaeth wneud mwy i hyrwyddo gyrfaoedd ymhlith pob grŵp rhywedd; mae adborth penodol gan grwpiau ethnig lleiafrifol yn awgrymu bod angen teilwra'r dulliau ymgysylltu a chyfathrebu. Mae'r adroddiad Dadansoddi Cydraddoldeb yn rhoi disgrifiad mwy cynhwysfawr o wahanol themâu, risgiau a mesurau lliniaru. |
|---|---|---|---|
| **Tebygolrwydd** | **Effaith** | **Yn gyffredinol** | |
| 4 | 1 | 4 | |

| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | | | Er mwyn sicrhau bod GTAGC yn ymdrechu i gofnodi anghenion pobl sy'n feichiog ac yn eu cyfnod mamolaeth, mae ymarfer mapio cynhwysfawr wedi nodi partneriaid allweddol i'n helpu i gysylltu â'r gynulleidfa darged hon.<br><br>Roedd y grwpiau ffocws yn caniatau i bobl o bob grŵp i roi adborth ar delerau ac amodau cyflogaeth, polisïau ac agweddau eraill y gallai pobl fod eisiau gwybod amdanynt. Yn anuniongyrchol, gofynnodd ymatebwyr gwestiynau yn ymwneud â lleoliadau daearyddol gorsafoedd tân, patrymau shifftiau gwaith a systemau dyletswydd, ond nid yw'n hysbys a oedd y cwestiynau hyn yn ymwneud ag angen unigolyn i ystyried trefniadau gofal plant neu ar gyfer pobl sydd efallai'n bwriadu dechrau teulu yn y dyfodol. Mae'r adroddiad Dadansoddi Cydraddoldeb yn rhoi disgrifiad cynhwysfawr o wahanol themâu, risgiau a mesurau lliniaru a allai ymwneud â beichiogrwydd a mamolaeth. |
|---|---|---|---|
| **Tebygolrwydd** | **Effaith** | **Yn gyffredinol** | |
| 4 | 2 | 8 | |

| **Ailbennu rhywedd/ hunaniaeth** | | | Nid ydym yn gwybod union nifer y bobl draws ac/neu anneuaidd yng Ngogledd Cymru. Fodd bynnag, mae Stonewall (2022) yn amcangyfrif bod rhwng 0.5% ac 1% o'r boblogaeth yn draws ac/neu'n anneuaidd sy'n rhoi rhyw fath o arwydd i ni gyda phwy y mae angen i ni ymgysylltu i sicrhau bod ein hymgynghoriad yn ystyrlon.<br><br>Roedd cefnogaeth gref i'r gwasanaeth ddatblygu gweithlu mwy amrywiol sy'n cynnwys pobl o bob rhywedd, pobl sy'n eu hystyried eu hunain yn anneuaidd ac nad ydynt yn cydymffurfio o ran eu rhywedd. Roedd ymgysylltu penodol â phobl trwy ddigwyddiadau Pride lleol, elusennau LHDTC+ a grwpiau cymorth wedi helpu i sicrhau bod pobl draws ac anneuaidd yn gallu rhoi adborth. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y gallai'r gwasanaeth wneud mwy i hyrwyddo gyrfaoedd ymhlith pob grŵp rhywedd; roedd adborth penodol gan bobl sy'n eu hystyried eu hunain yn LHDTC+ yn awgrymu bod angen teilwra'r dulliau ymgysylltu a chyfathrebu. Mae'r adroddiad Dadansoddi Cydraddoldeb yn rhoi disgrifiad mwy cynhwysfawr o wahanol themâu, risgiau a mesurau lliniaru. |
|---|---|---|---|
| **Tebygolrwydd** | **Effaith** | **Yn gyffredinol** | |
| 4 | 3 | 12 | |

| **Cyfeiriadedd Rhyw** | | | Mae Stonewall yn amcangyfrif bod rhwng 5-7% o'r boblogaeth yn lesbiaidd, hoyw, deurywiol neu â chyfeiriadedd rhywiol arall sy'n wahanol i heterorywiol (Gweler y GIG, 2015). Mae Stonewall (2022) wedi cyhoeddi adroddiadau mwy diweddar sy'n awgrymu bod pobl iau yn fwy tebygol o fod yn agored am eu cyfeiriadedd rhywiol a'u hunaniaeth rhywedd. Mae gan Ogledd Cymru gymuned LGB+ sy'n tyfu ac mae cynnal mwy o ddigwyddiadau balchder, grwpiau cymorth a rhwydweithiau staff newydd yn y gweithle wedi arwain at ymgysylltu â'r gynulleidfa hon mewn ffordd fwy ystyrlon nag yn y gorffennol.<br><br>Gyda chroestoriadedd mewn golwg, mae'n ddefnyddiol gwybod proffil oedran pobl a nododd eu bod yn LGB+, sy'n tueddu i fod yn iau na'r boblogaeth gyffredinol. Roedd mwy na hanner y rhai a nododd eu bod yn LGB+ (57.9%) rhwng 16 a 34 oed (SYG, 2021d). Mewn cyferbyniad, roedd llai na thraean o'r boblogaeth yn gyffredinol rhwng 16 a 34 oed (29.6%). Mae'r wybodaeth hon yn helpu'r Gwasanaeth i wybod pwy i ymgysylltu â nhw. |
|---|---|---|---|
| **Tebygolrwydd** | **Effaith** | **Yn gyffredinol** | |
| 4 | 2 | 8 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Roedd cefnogaeth gref i'r gwasanaeth ddatblygu gweithlu mwy amrywiol sy'n cynnwys pobl beth bynnag fo'u cyfeiriadedd rhywiol. Roedd ymgysylltu penodol â phobl trwy ddigwyddiadau Pride lleol, elusennau LHDTC+ a grwpiau cymorth wedi helpu i sicrhau bod pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a'r rhai sy'n cyd-fynd â hunaniaethau rhywiol amrywiol eraill yn gallu rhoi adborth. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y gallai'r gwasanaeth wneud mwy i hyrwyddo gyrfaoedd ymhlith pob grŵp rhywedd; mae adborth penodol gan bobl sy'n eu hystyried eu hunain yn LHDTC+ yn awgrymu bod angen teilwra'r ymgysylltu a'r cyfathrebu. Mae'r adroddiad Dadansoddi Cydraddoldeb yn rhoi disgrifiad mwy cynhwysfawr o wahanol themâu, risgiau a mesurau lliniaru. |

| **Priodas a Phartneriaeth Sifil** | | | Mae 48.1% o bobl 16 oed a hŷn yn briod neu mewn partneriaeth sifil (Ystadegau Cymru, 2020). Yn gyffredinol, nid yw'r nodwedd warchodedig hon yn cyflwyno unrhyw risgiau penodol. Er, mae'n bwysig pwysleisio, ystyrir bod pobl sy'n byw ar eu pennau eu hunain mewn mwy o berygl. |
|---|---|---|---|
| **Tebygolrwydd** | **Effaith** | **Yn gyffredinol** | |
| 3 | 1 | 3 | Roedd cefnogaeth gref i'r gwasanaeth ddatblygu gweithlu mwy amrywiol sy'n cynnwys pobl beth bynnag fo'u statws perthynas. Er na roddwyd unrhyw adborth penodol ynghylch statws perthynas person, gofynnodd yr ymatebwyr amrywiaeth o gwestiynau yn ymwneud â gyrfa yn y gwasanaeth tân ac achub oedd yn ymwneud â chyflogau, hawl i wyliau, patrymau shifftiau, systemau dyletswydd, lleoliad daearyddol gorsafoedd tân, a allai fod yn berthnasol i ystyriaethau partneriaid. Themâu eraill a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr ymgynghoriad, yn enwedig ymhlith yr ymatebwyr hŷn, oedd y teimlad o fod yn 'ynysig' ac yn 'unig' mewn sefyllfaoedd lle bu farw partner. Roedd ymatebwr arall wedi sôn am deimlo'n fregus am nad oeddent yn teimlo'n hyderus ar eu traed mwyach a gan eu bod byw ar eu pennau eu hunain, does neb i helpu pe byddent yn cwympo. Mae'r adroddiad Dadansoddi Cydraddoldeb yn rhoi disgrifiad mwy cynhwysfawr o wahanol themâu a risgiau. Gellir lliniaru'r risgiau trwy weithgareddau atal. |

| Crefydd a Chred | | | |
|---|---|---|---|
| Tebygolrwydd | Effaith | Yn gyffredinol | Mae ein Gwasanaeth yn cydnabod bod rhywfaint o amrywiaeth o ran ymlyniad crefyddol a systemau cred pobl ledled Gogledd Cymru. Yn yr un modd, rhaid cydnabod bod mwy o bobl wedi nodi "Dim crefydd" yn hytrach nag ymlyniad i unrhyw grefydd unigol, gan gynyddu o 32.1% yn 2011 i 46.5% yn 2021 (LIC, 2022b). Mae'r data hwn yn dangos bod gan tua hanner poblogaeth Gogledd Cymru ymlyniadau crefyddol. Felly, mae addoldai a sefydliadau ffydd yn llwybr rhesymegol i ymgysylltu â'r gynulleidfa hon.<br><br>Er mwyn sicrhau bod GTAGC yn estyn allan ac yn cofnodi anghenion pobl grefyddol a'r rhai sy'n cadw at system gred benodol, bu'r ymarferiad mapio a gynhaliwyd cyn yr ymgynghoriad yn gymorth i nodi partneriaid allweddol ledled Gogledd Cymru. Cafwyd adborth gan bobl o wahanol grefyddau a grwpiau ffydd yn ystod yr ymgynghoriad. Yn anuniongyrchol, gofynnodd ymatebwyr gwestiynau yn ymwneud â gweithgareddau atal sy'n cyd-fynd ag ymgyrchoedd crefyddol penodol a chafwyd derbyniad da i waith y gwasanaeth hyd yn hyn. Fodd bynnag, roedd rhai o'r ymatebwyr yn teimlo y gellid cynnal mwy o weithgareddau atal. Mae'r adroddiad Dadansoddi Cydraddoldeb yn rhoi disgrifiad cynhwysfawr o wahanol themâu, risgiau a mesurau lliniaru sy'n ymwneud yn anuniongyrchol ag ymgyrchoedd diogelwch a recriwtio. |
| 3 | 3 | 9 | |

| Hîl | | | |
|---|---|---|---|
| Tebygolrwydd | Effaith | Yn gyffredinol | Fel rhanbarthau eraill yng Nghymru, mae Gogledd Cymru wedi dod yn fwy amrywiol o ran ethnigrwydd yn ystod y degawd diwethaf. Yn ôl data'r cyfrifiad yn 2021, mae grwpiau lleiafrifoedd ethnig wedi cynyddu o 4.4% yn 2011 i 6.2% yn 2021 (LIC, 2022b). I egluro, lleiafrif ethnig ydy unrhyw ethnigrwydd nad ydyw'n wyn 'Cymreig, Saesneg, Albanaidd, o Ogledd Iwerddon a Phrydeinig'.<br><br>Y grŵp lleiafrifol ethnig mwyaf ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru oedd "Gwyn Arall". Roedd cyfran y boblogaeth a oedd yn nodi eu bod yn rhan o'r grŵp ethnig hwn ar ei uchaf yn Wrecsam (4.8%) a Sir y Fflint (3%). O fewn y grŵp ethnig "Gwyn" lefel uchel, Conwy oedd yr awdurdod lleol â'r gyfran uchaf yng Nghymru o bobl oedd yn nodi eu bod yn "Wyddelig" (0.7%). Yn ddiddorol, roedd 5.3% o aelwydydd yn aelwydydd grwpiau aml-ethnig, sy'n uwch na 4.2% yn 2011 (LIC, 2022b). |
| 3 | 3 | 9 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Gyda chroestoriadedd mewn golwg, mae GTAGC yn cydnabod bod rhwystrau iaith, cyfathrebu a diwylliannol posibl yn bodoli. Yn genedlaethol yng Nghymru, roedd 2.9 miliwn o breswylwyr arferol tair oed a hŷn yn siarad Cymraeg neu Saesneg fel eu prif iaith (96.7% o'r boblogaeth, i lawr o 97.1% yn 2011).<br><br>Yn ôl Cyfrifiad 2021, o'r preswylwyr yng Nghymru nad oeddent wedi dewis Cymraeg na Saesneg fel eu prif iaith, roedd 78% yn dweud eu bod yn gallu siarad Saesneg yn dda neu'n dda iawn, tra roedd 22% ddim yn gallu siarad Saesneg yn dda iawn neu ddim o gwbl. Fel yn 2011, Pwyleg oedd y brif iaith fwyaf cyffredin ar ôl y Gymraeg neu'r Saesneg, sef 0.7% o'r boblogaeth. Arabeg (0.3%) oedd y brif iaith fwyaf cyffredin ar wahân i Saesneg, Cymraeg neu Bwyleg yn 2021. Iaith Arwyddion Prydain (BSL) oedd iaith ddewisol 900 o bobl (sy'n cyfateb i 0.03%) ymysg preswylwyr arferol tair oed a hŷn ledled Cymru.<br><br>Er mwyn sicrhau bod GTAGC yn estyn allan ac yn cofnodi anghenion pobl ar draws grwpiau ethnig gwahanol, bu'r ymarferiad mapio a gynhaliwyd cyn yr ymgynghoriad yn gymorth i nodi partneriaid allweddol ar draws Gogledd Cymru. Cafwyd adborth gan bobl o wahanol gefndiroedd ethnig yn ystod yr ymgynghoriad.<br><br>Yn anuniongyrchol, gofynnodd ymatebwyr gwestiynau am y broses recriwtio, yn enwedig yn ymwneud â'r meini prawf a'r gallu i siarad Cymraeg a Saesneg a chyfleoedd i bobl ifanc o gefndiroedd ethnig gael mwy o wybodaeth am yrfaoedd. Cafwyd sylwadau gan rai ymatebwyr ar weithgareddau atal a rhoddwyd awgrymiadau ynghylch y gwasanaeth yn teilwra'r dulliau ymgysylltu a chyfathrebu sy'n hyrwyddo mynediad cyfartal i wahanol grwpiau ethnig yn y dyfodol. Mae'r adroddiad Dadansoddi Cydraddoldeb yn rhoi disgrifiad cynhwysfawr o wahanol themâu, risgiau a mesurau lliniaru. |

| **Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol** | | | Daeth y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021 ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodedig, wrth wneud penderfyniadau strategol (fel penderfynu ar flaenoriaethau a phennu amcanion), ystyried sut y gallai eu penderfyniadau helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.<br><br>Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng ngogledd Cymru wedi'u crynhoi mewn trefi arfordirol a threfi ar y ffin (LIC, 2021). Nid yw gweithio yn atal pobl rhag profi tlodi. I esbonio hyn ymhellach, mae tlodi ymysg pobl sy'n gweithio wedi codi dros y 5 mlynedd diwethaf ac mae cyfanswm o 12.7% o weithwyr yn byw mewn tlodi oherwydd cyflogau isel neu oriau cyfyngedig (JRF, 2020).<br><br>Er mwyn sicrhau bod GTAGC yn estyn allan ac yn cofnodi anghenion pobl sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer statws economaidd isel ac amddifadedd, bu'r ymarferiad mapio a gynhaliwyd cyn yr ymgynghoriad yn gymorth i nodi partneriaid allweddol i helpu i gysylltu â'r gynulleidfa darged hon. Yn ystod yr ymgynghoriad, gwelwyd bod ymatebwyr o bob rhan o Ogledd Cymru yn cefnogi cynnig y gwasanaeth i adolygu'r ddarpariaeth frys o ran tân i sicrhau'r ddarpariaeth orau bosibl. Roedd adborth gan ymatebwyr mewn ardaloedd penodol yn cyfeirio at bwysigrwydd cael darpariaeth tân, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig (h.y. Glannau Dyfrdwy, Garden City, Bae Cinmel, Queens Park). Roedd cefnogaeth i'r gwasanaeth gynnal adolygiad o'i gerbydau arbennig sy'n gallu cefnogi digwyddiadau brys ym mhob ardal, yn enwedig mewn ardaloedd trefol difreintiedig. Mae'r adroddiad Dadansoddi Cydraddoldeb yn rhoi disgrifiad cynhwysfawr o wahanol themâu, risgiau a mesurau lliniaru sy'n ymdrin ag egwyddorion atal a phobl. |
|---|---|---|---|
| Tebygolrwydd | Effaith | Yn gyffredinol | |
| 4 | 3 | 12 | |

| Yr Iaith Gymraeg | | | |
|---|---|---|---|
| Tebygolrwydd | Effaith | Yn gyffredinol | |
| 3 | 3 | 9 | Bydd yr holl ddeunyddiau sy'n gysylltiedig â'r prosiect ymgynghori CRhRC yn cael eu cynhyrchu (yn ysgrifenedig ac ar lafar) yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Dywedodd 235,567 o bobl yng Ngogledd Cymru eu bod yn gallu siarad Cymraeg ac mae hyn gyfystyr â 34.3%. Mae'r Gwasanaeth yn hynod falch o gyfathrebu yn y Gymraeg ac rydym yn sicrhau ein bod yn bodloni a, lle bo'n bosibl, yn mynd y tu hwnt i'r safonau yng Nghymru. Mae'r data diweddaraf a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn awgrymu bod 29.1% o bobl tair oed a hŷn yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r ffigwr hwn yn cyfateb i 883,600 o bobl ac mae tystiolaeth bod y Gymraeg yn tyfu o ran poblogrwydd fel iaith lafar ac fel iaith gyntaf ar lafar. Gyda chroestoriadedd mewn golwg, rydym yn cydnabod bod canrannau uchaf y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru yn ardaloedd Gwynedd (77%) ac Ynys Môn (67%) sydd ill dwy wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru (LIC, 2022).<br><br>Yn ystod yr ymgynghoriad, cwblhaodd 223 o ymatebwyr yr holiaduron, gyda 221 ohonynt yn Saesneg a 2 yn Gymraeg. Cynigiwyd grwpiau ffocws yn fwriadol i sefydliadau partner ym mhob un o'r chwe sir ar draws Gogledd Cymru. Roedd cefnogaeth gref i warchod y Gymraeg ac roedd yr ymatebwyr yn hael eu canmoliaeth i ymrwymiad y gwasanaeth i hyrwyddo'r Gymraeg. Roedd nifer fach o ymatebwyr yn teimlo bod gallu siarad Cymraeg yn rhwystr i'r gwasanaeth wrth recriwtio rhai pobl dalentog. Mae barn rhai ymatebwyr yn atgyfnerthu'r angen i'r gwasanaeth hyrwyddo gyrfaoedd yn fwy effeithiol, yn enwedig i dynnu sylw at allu'r gwasanaeth i gynnig hyfforddiant Cymraeg i bobl sydd yn siarad ychydig bach o Gymraeg neu ddim o gwbl. Mae'r adroddiad Dadansoddi Cydraddoldeb yn rhoi disgrifiad cynhwysfawr o wahanol themâu, risgiau a mesurau lliniaru. |

| Daearyddiaeth neu leoliad | | | |
|---|---|---|---|
| Tebygolrwydd | Effaith | Yn gyffredinol | |
| 5 | 3 | 15 | Mae Gogledd Cymru yn ardal ddaearyddol fawr sydd â sawl ardal drefol gyda dwysedd uchel o bobl a grwpiau amrywiol. Mewn cyferbyniad â hyn, nifer fach iawn o bobl sy'n byw yn rhai o'r ardaloedd gwledig.<br><br>Mae'r rhanbarth yn cynnwys ardaloedd Wrecsam, Glannau Dyfrdwy, y Rhyl, Bae Colwyn, Fflint, Bangor, Llandudno a Chaergybi. Yr ardaloedd mwyaf yng Ngogledd Cymru yw dinas Wrecsam a chytrefi Glannau Dyfrdwy, y Rhyl a Phrestatyn, lle mae prif seilwaith a gwasanaethau manwerthu, diwylliannol, addysgol, twristiaeth a thrafnidiaeth Gogledd Cymru wedi'u lleoli. Bangor, Llanelwy a |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Wrecsam yw dinasoedd y rhanbarth. Bangor yw dinas hynaf Cymru, Llanelwy yw un o drefi lleiaf Cymru, a Wrecsam, a ddaeth yn ddinas yn 2022, yw anheddiad mwyaf y rhanbarth.<br><br>Yn ystod yr ymgynghoriad, cafwyd adborth gan ymatebwyr o bob un o'r chwe sir. Trefnwyd 12 grŵp ffocws ar draws Gogledd Cymru ac er i grwpiau ffocws gael eu cynnal ym mhob ardal ar wahân i Sir Ddinbych, fe wnaeth dros 100 o bobl o Sir Ddinbych naill ai ymateb yn uniongyrchol trwy'r holiadur ar-lein neu roi adborth trwy un o'r grwpiau ffocws a drefnwyd mewn lleoliad arall. Roedd cefnogaeth gyffredinol i wella'r ddarpariaeth frys ym mhob ardal ac roedd cefnogaeth i'r gwasanaeth gynnal adolygiad arall o'r ddarpariaeth frys. Mae'r adroddiad Dadansoddi Cydraddoldeb yn rhoi disgrifiad cynhwysfawr o wahanol themâu, risgiau a mesurau lliniaru. |

| **System Ar-Alwad neu ystyriaethau i staff rhan amser** | | | |
|---|---|---|---|
| **Tebygolrwydd** | **Effaith** | **Yn gyffredinol** | Mae staff ar-alwad yn cymryd rhan uniongyrchol yn y prosiect hwn. Mae timau ar-alwad wedi bod yn cymryd rhan mewn dylunio a datblygu CRhRC y Gwasanaeth trwy seminarau Penaethiaid Adrannau a rheolwyr canol. Yn naturiol, bydd staff sy'n gweithio'r system ar-alwad yn gallu rhoi adborth a fydd yn helpu i lunio'r CRhRC a chyfeiriad strategol y Gwasanaeth rhwng 2024 a 2029.<br><br>Mae'r adborth yn awgrymu bod cefnogaeth gyffredinol i wella'r ddarpariaeth frys ym mhob ardal a chyfeiriwyd yn benodol at y ffaith bod angen i'r gwasanaeth wella ei ddarpariaeth system dyletswydd ar alwad yn y dyfodol. Roedd cefnogaeth wirioneddol i'r gwasanaeth gynnal adolygiad arall o'r ddarpariaeth frys gan obeithio y gall fynd i'r afael â rhai o'r problemau parhaus o ran recriwtio a chadw diffoddwyr tân ar alwad sy'n amlwg ym mhob rhan o'r DU. Mae'r adroddiad Dadansoddi Cydraddoldeb yn rhoi disgrifiad cynhwysfawr o wahanol themâu, risgiau a mesurau lliniaru. |
| 4 | 2 | 8 | |

| Grwpiau buddiant eraill ym maes cydraddoldeb | Ar gyfer yr holl nodweddion gwarchodedig, bu cynnydd yn nifer y troseddau casineb a gofnodwyd yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2018). Mae cyfradd erlyn isel iawn yn y llys yn golygu nad yw rhai dioddefwyr troseddau casineb yn ymddiried yn y gwasanaethau cyhoeddus mewn lifrai. Er bod y diffyg ymddiriedaeth hwn yn effeithio’n bennaf ar yr heddlu a thimau ymgysylltu cymunedol mewn cynghorau lleol, mae’r gwasanaethau tân ac achub yn gallu profi rhai effeithiau niweidiol hefyd.<br><br>Mae'r adolygiadau Diwylliant diweddar yng Nghymru a Lloegr wedi amlygu materion diwylliannol yn y sector. Mae hyn yn golygu y gall fod diffyg ymddiriedaeth a hyder yn y gwasanaethau tân ac achub yn y gymuned. Er gwaethaf rhai pryderon cychwynnol, ni fu i unrhyw un o’r ymatebwyr grybwyll pryder yn ymwneud â’r adroddiad diwylliannol a gyhoeddwyd yn ddiweddar a’r sylw cysylltiedig yn y cyfryngau i’r materion diwylliannol hyn yn ymwneud â gwasanaeth tân ac achub y DU. |
|---|---|

**A oes unrhyw un o'r meini prawf uchod yn cael sgôr o 12 ac uwch ac felly angen symud i gael asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb?**

Oes ☐ Nac oes ☒

Os oes, cysylltwch â'r Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant drwy e-bost benji.evans@northwalesfire.llyw.cymru i fwrw ymlaen â'r asesiad effaith llawn.

Os yr atebwyd nac oes, a bod unrhyw un o'r meini prawf wedi cael sgôr rhwng 1-5 neu 6-10, pa fecanweithiau neu welliannau rheoli ychwanegol y gallwch eu rhoi ar waith i leihau'r sgôr hyd yn oed ymhellach? Nodwch beth fydd y sgôr ar ôl i'r cam rheoli gael ei roi ar waith.

Mae ymgynghoriad llawn wedi'i gynnal ac adroddiad Dadansoddi Cydraddoldeb wedi'i lunio.

**Pa ganlyniadau neu newidiadau cadarnhaol fydd yn digwydd o ganlyniad i unrhyw bwyntiau a nodwyd gan yr asesiad hwn?**

Mae'r AEG hwn yn dangos sut mae'r gwasanaeth wedi rhoi sylw dyledus i risgiau posibl gwahaniaethu i gymuned Gogledd Cymru. Ystyriwyd sut roedd y gwasanaeth yn ymgysylltu ac yn cyfathrebu ag aelodau ei gymuned, yn enwedig grwpiau buddiant ym maes cydraddoldeb nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed yn aml. Mae croestoriadedd wedi'i ystyried mewn gwahanol adrannau o'r AEG a'r Adroddiad Dadansoddi Cydraddoldeb. Mae'r dull hwn yn caniatáu i'r gwasanaeth gynllunio'n ofalus sut y gall liniaru unrhyw risgiau sydd wedi'u nodi, ond hefyd hyrwyddo arfer gorau o ran y cam gweithredu.

**Gwerthusiad dilynol**

Lle bo'n berthnasol, dylech ddarparu trosolwg (ystod oedran, rhywedd, ethnigrwydd ac ati) o bwy fynychodd y digwyddiad(au), neu bwy oedd yn rhan o'r polisi neu'r fenter neu'r fenter neu yr effeithiwyd arnynt gan y polisi neu'r fenter, ac unrhyw sylwadau neu gwynion perthnasol a dderbyniwyd o ran cydraddoldeb a chynhwysiant.  Yna, dylid defnyddio'r wybodaeth i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon perthnasol

| |
|---|
| |

Cyn ei gwblhau, gallech ofyn am gyngor gan Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gwasanaeth. Gallwch wneud hyn drwy ei e-bostio at benji.evans@tangogleddcymru.llyw.cymru i'w adolygu.

Ar ôl ei gwblhau, dychwelwch at benji.evans@tangogleddcymru.llyw.cymru

# Rhestr Gyfeirio

Joseph Rowntree Foundation (2020). Adroddiad Tlodi'r DU 2019/20. Canfuwyd yn: www.jrf.org.uk/report/uk-poverty-2019-20, Cyrchwyd: 12 Ebrill 2023.

Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023a) Amcangyfrifon poblogaeth ac aelwydydd, Cymru: Cyfrifiad 2021. Canfuwyd yn: www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/bulletins/populationandhouseholdestimateswales/census2021#:~:text=4.-,Age%20and%20sex%20of%20the%20population,men%20(49.0%25)%20in%20England, Cyrchwyd: 13 Ebrill 2023.

Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023b) Anabledd yn ôl Oedran, Rhyw ac Amddifadedd, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021. Canfuwyd yn: www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/disability/articles/disabilitybyagesexanddeprivationenglandandwales/census2021#:~:text=Source%3A%20Office%20for%20National%20Statistics%20–%20Census%202021,-Embed%20code&text=In%20Wales%2C%2022.3%25%20of%20females,10.4%25%20and%209.5%25%20respectively, Cyrchwyd: 13 Ebrill 2023.

Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023c) Anabledd, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021. Canfuwyd yn: www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandwellbeing/bulletins/disabilityenglandandwales/census2021#:~:text=In%20Wales%2C%20in%202021%2C%20a,(23.4%25%2C%20696%2C000), Cyrchwyd: 13 Ebrill 2023.

Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023d) Cyfeiriadedd rhywiol: oedran a rhyw, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021. Canfuwyd yn: www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/sexuality/articles/sexualorientationageandsexenglandandwales/census2021, Cyrchwyd: 15 Ebrill 2023.

Gwasanaeth Iechyd Gwladol (2015) Adroddiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Canfuwyd yn: www.ashfordstpeters.nhs.uk/images/boardpapers/300715/Paper8e.pdf, Cyrchwyd: 4 Ebrill 2023.

Ystadegau Cymru (2020) Statws Priodasol yn ôl Oedran a Rhyw. Canfuwyd yn: Statws Priodasol yn ôl Oedran a Rhyw (llyw.cymru), Cyrchwyd: 4 Ebrill 2023.

Stonewall (2022a) Attraction, identity and connection in Great Britain in 2022. Canfuwyd yn: www.stonewall.org.uk/system/files/rainbow_britain_report.pdf, Cyrchwyd: 4 Ebrill 2023.

Stonewall (2022b) The truth about trans. Canfuwyd yn: www.stonewall.org.uk/the-truth-about-trans#trans-people-britain, Cyrchwyd: 12 Ebrill 2023.

Llywodraeth Cymru (2021) Gweithredu'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol Adolygiad o dystiolaeth ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau o ran canlyniadau. Canfuwyd yn: www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2021-11/review-of-evidence-on-socio-economic-disadvantage-and-inequalities-of-outcome-revised.pdf, Cyrchwyd: 12 Ebrill 2021.

Data Llywodraeth Cymru (2022a) am yr iaith Gymraeg o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: 2020. Canfuwyd yn: www.gov.wales/cymraeg-data-blynyddol-population-survey-2020, Cyrchwyd: 14 Ebrill 2023.

Llywodraeth Cymru (2022b) Grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol, iaith a chrefydd yng Nghymru - Cyfrifiad 2021. Canfuwyd yn: Grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol, iaith a chrefydd yng Nghymru (Cyfrifiad 2021) | LLYW.CYMRU, Cyrchwyd: 12 Ebrill 2023.

# Ymgynghoriad ar y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

## Dadansoddiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb




ATAL AMDDIFFYN YMATEB
PREVENTING PROTECTING RESPONDING

## Tudalen Cynnwys


**Cyflwyniad** ... 3

**Cefndir a Chyd-destun yr Ymgynghoriad ar y Cynllun (CRMP)** ... 3

**Dadansoddiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Y Cyd-destun Cyfreithiol** ... 4

**Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus** ... 5

**Methodoleg** ... 6

**Demograffeg Ardal Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru** ... 7

- **Oedran** ... 8
- **Anabledd** ... 9
- **Rhywedd** ... 10
- **Cyfeiriadedd Rhywiol** ... 10
- **Ailbennu Rhywedd** ... 11
- **Beichiogrwydd a Mamolaeth** ... 13
- **Hil** ... 13
- **Crefydd a/neu Gred** ... 15
- **Priodas a Phartneriaeth Sifil** ... 15
- **Ystyriaethau'r Gymraeg** ... 17
- **Ystyriaethau Economaidd-gymdeithasol** ... 17

**Ymgysylltiad ac Ymgynghoriad â Grwpiau Cydraddoldeb Penodol** ... 20

**Crynodeb o Ganfyddiadau'r Dadansoddiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** ... 20

- **Egwyddor Pobl** ... 21
- **Egwyddor Atal** ... 22
- **Egwyddor Diogelu** ... 23
- **Egwyddor Ymateb** ... 24
- **Egwyddor Amgylcheddol** ... 25

## Cyflwyniad

Mae'r dadansoddiad o'r effaith ar gydraddoldeb hwn wedi'i ddatblygu ochr yn ochr ag adroddiad ymgynghori'r gwasanaeth ynghylch ei Gynllun Rheoli Risg Cymunedol (*Community Risk Management Plan* - CRMP) 2024-2029 yn dilyn y cyfnod ymgynghori rhwng 25 Mawrth 2024 ac 16 Mehefin 2024. Mae ymgysylltu'n benodol â gwahanol grwpiau buddiant ym maes cydraddoldeb yn ystod y cyfnod ymgynghori wedi'n helpu i greu darlun o'r hyn mae pobl yn ei deimlo am y ffrydiau gwaith rydym yn eu cynnig, eu barn ynglŷn a risg ac i asesu a allai unrhyw un o'r cynlluniau arfaethedig roi grwpiau penodol o bobl neu gymunedau dan anfantais.

Nod cyffredinol yr adroddiad dadansoddiad o'r effaith ar gydraddoldeb hwn yw tynnu sylw at themâu penodol a ddaeth i'r amlwg o'r adborth yn ystod ymgynghoriad Cynllun Rheoli Risg 2024-29. O'r dadansoddiad hwn, gallwn weld ble mae'r risgiau posibl o wahaniaethu a rhoi mesurau ar waith i liniaru hynny. Fel y'i diffinnir gan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, bydd yr dadansoddiad hwn yn canolbwyntio ar y nodweddion gwarchodedig sy'n dod o fewn Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (*Public Sector Equality Duty* - PSED) ac o fewn y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yng Nghymru, yn ogystal ag ystyried unrhyw oblygiadau posibl i'r iaith Gymraeg, yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg.

## Cefndir a Chyd-destun yr Ymgynghoriad ar y CRMP

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n rhaid i wasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru ymgynghori ynglŷn â'r trefniadau y maent yn bwriadu eu rhoi ar waith i sicrhau gwelliannau parhaus a'r amcanion a'r safonau gwella y maent yn bwriadu eu gosod i'w hunain.

Mae Cynllun Corfforaethol tair blynedd blaenorol y gwasanaeth (2021-24) bellach wedi dod i ben. Yn ei le, mae'r gwasanaeth wedi mabwysiadu Cynllun Rheoli Risg Cymunedol pum mlynedd gyda chynlluniau gweithredu blynyddol, yn seiliedig ar fframwaith strategol a ddatblygwyd gan Gyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân. Bwriedir iddo ein cynorthwyo i wneud penderfyniadau tryloyw y gallwn eu cyfiawnhau a helpu Gwasanaethau Tân ac Achub i weld cyfleoedd i gydweithredu â sefydliadau partner yn haws. Wrth ddatblygu'r cynllun hwn, mae gofyniad i 'ymgynghori ac ymgysylltu'n effeithiol' (yn unol â threfniadau llywodraethiant y gwasanaeth) gyda chymunedau, staff a

rhanddeiliaid ar gamau priodol o’r broses gynllunio ar gyfer rheoli risg cymunedol.

Mae dogfen y Cynllun yn nodi’r risgiau a’r heriau disgwyliedig y gallai’r Gwasanaeth eu hwynebu o fewn y pum mlynedd nesaf, felly mae’n hanfodol bwysig casglu adborth gan bobl o bob cefndir fel rhan o’r broses hon.

## Dadansoddiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb: Y Cyd-destun Cyfreithiol

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) yn rhan o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a daeth i rym ym mis Ebrill 2011.

Mae adran 149 y Ddeddf Cydraddoldeb yn nodi'r brif ddyletswydd ac yn datgan bod rhaid i awdurdodau, wrth arfer eu swyddogaethau, "roi sylw dyledus i'r angen i" ddileu unrhyw ymddygiad a waherddir gan y Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys gwahaniaethu, aflonyddu ac erlid sy'n gysylltiedig â'r 'Nodweddion Gwarchodedig', sy'n cynnwys;

- Oedran
- Anabledd (gan gynnwys cyflyrau iechyd hirdymor)
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a Phartneriaeth Sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil (Ethnigrwydd)
- Crefydd neu gred
- Rhywedd
- Cyfeiriadedd rhywiol

Er bod 'priodas a phartneriaeth sifil' hefyd yn nodwedd warchodedig, o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, nid yw’r Ddyletswydd Cydraddoldeb yn ei chwmpasu yn yr un modd â’r nodweddion gwarchodedig eraill a restrir uchod ac at ddibenion y ddyletswydd y mae i ddileu gwahaniaethu. Mae’n bwysig nodi y daeth Adran 1 o ‘Ddyletswydd economaidd-gymdeithasol’ y Ddeddf Cydraddoldeb i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021, ac mae hyn yn gofyn am yr un sylw dyledus â’r naw nodwedd warchodedig a restrir uchod.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 hefyd yn ystyriaeth gyfreithiol arall sydd

wedi'i chynnwys yn y Dadansoddiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (*Equality Impact Analysis* - EIA). Wrth gydymffurfio â'r safonau ar gyfer Llunio Polisi, sy'n rhan o hysbysiad cydymffurfio â Safonau Iaith Gymraeg y Gwasanaeth, nodir bod rhaid ystyried unrhyw effeithiau, boed yn gadarnhaol neu'n niweidiol ar y Gymraeg. Rhaid i'r Dadansoddiad gynnwys unrhyw beth a ganfuwyd sy'n effeithio ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

## Mae gan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus dair prif agwedd, sef:

1. Dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu o dan y Ddeddf hon.
2. Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.
3. Meithrin perthynas dda rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.

Mae rhoi sylw dyledus i'r angen i 'hyrwyddo cyfle cyfartal' rhwng y rhai sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt, yn cynnwys rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu neu leihau anfanteision a wynebir ganddynt. Mae rhoi sylw dyledus hefyd yn golygu bod sefydliadau cyhoeddus, fel GTAGC, yn cymryd mesurau i ddiwallu anghenion pobl o'r fath lle mae'r anghenion hynny'n wahanol i rai pobl nad oes ganddynt y nodwedd honno, ac yn annog y rhai sydd â nodwedd warchodedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus.

Fel rhan hanfodol o fodloni eu Dyletswydd Cydraddoldeb, mae awdurdodau cyhoeddus yn cynnal Dadansoddiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Bydd hyn yn cael ei ddogfennu drwy gwblhau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (*Equality Impact Assessment* - EqIA). Asesiad o bolisi arfaethedig y sefydliad yw'r Dadansoddiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, neu newid i bolisi sy'n bodoli eisoes, fel y gellir penderfynu a yw'r polisi yn cael effaith anghyfartal ar bobl sydd â'r nodweddion gwarchodedig. Er nad oes cyfarwyddyd penodol am sut i wneud hyn bellach, mae cyfraith achos wedi cynnig canllawiau i ni ar sut i gynnal dadansoddiad o'r effaith ar gydraddoldeb, sef:

- Sicrhau bod cofnod ysgrifenedig o'r ystyriaethau cydraddoldeb sy'n cael eu hystyried;
- Sicrhau bod unrhyw broses o wneud penderfyniadau yn cynnwys rhoi ystyriaeth i'r camau a fyddai'n helpu i osgoi neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar grwpiau cydraddoldeb penodol;

- Sicrhau bod y penderfyniadau a wneir yn cael eu gwneud ar sail tystiolaeth; a
- Sicrhau bod y broses benderfynu yn dryloyw.

## Methodoleg

Yn seiliedig ar dair prif agwedd y Ddyletswydd Cydraddoldeb (a restrwyd yn gynharach), mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at wahanol themâu a ddaeth i'r amlwg o adborth a gafwyd mewn ymateb i'r un cwestiynau a gafodd eu cynnwys mewn holiaduron ar-lein a grwpiau ffocws.

Mae'r adroddiad hwn a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn canolbwyntio ar y canfyddiadau sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb a ddaeth o'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd rhwng 25 Mawrth ac 16 Mehefin 2024.

Cysylltwyd â thua 70 o wahanol sefydliadau partner a grwpiau cymunedol i helpu i hyrwyddo'r ymgynghoriad. Ymhlith y partneriaethau hyn roedd grwpiau sy'n ymwneud â chydraddoldeb a oedd yn cynnwys grwpiau cymunedol, elusennau a sefydliadau sy'n cefnogi grwpiau penodol o bobl (h.y. grwpiau lleiafrifoedd ethnig, pobl ifanc, pobl sy'n byw gyda dementia i enwi ond ychydig). Roedd rhai o'r grwpiau hyn sy'n ymwneud â maes cydraddoldeb yn hapus i lenwi a hyrwyddo'r holiadur ar-lein ymhlith eu haelodau, tra'r oedd grwpiau eraill am drefnu grŵp ffocws a oedd yn ffordd o hyrwyddo cynhwysiant i bobl â sgiliau cyfathrebu cyfyngedig, pobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol a'r rhai y mae'n well ganddynt siarad â pherson a gofyn cwestiynau.

Mae'r adroddiad hwn yn dod â manylion ein gweithgarwch ymgysylltu ac ymgynghori at ei gilydd; demograffeg ardal ATAGC, gan gyfeirio'n benodol at nodweddion gwarchodedig; effaith bosibl y gweithgareddau sydd ar y gweill o safbwynt y pum egwyddor, yn benodol o ran cydraddoldeb mynediad; ac unrhyw ffactorau lliniaru a fydd yn helpu i reoli a lliniaru unrhyw risgiau posibl sy'n gysylltiedig â'r cynlluniau.

## Demograffeg Ardal Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Mae gan Ogledd Cymru boblogaeth o tua 687,000 o bobl sy'n byw dros ardal ddaearyddol o 2383 milltir sgwâr (neu 6,172 cilomedr sgwâr). Mae'r rhanbarth yn cynnwys chwe sir, sef Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn a Wrecsam. Mae ganddi dirwedd amrywiol, gan gynnwys Parc Cenedlaethol Eryri, ardaloedd arfordirol, a chymunedau gwledig. Mae cysylltiadau da i'r rhanbarth, gyda phriffyrdd mawr, rheilffyrdd, a phorthladdoedd yn ei chysylltu gyda gweddill y DU ac Ewrop.

Y ddinas fwyaf yng Ngogledd Cymru yw Wrecsam, sy'n gweithredu fel canolbwynt ar gyfer masnach a diwydiant, tra bod cytrefi mawr eraill yn cynnwys Bangor, Caernarfon, Bae Colwyn, Glannau Dyfrdwy, Llandudno a'r Rhyl. Mae'r rhanbarth hefyd yn gartref i sawl prifysgol a choleg, gan ddarparu cronfa dalent gref ar gyfer busnesau lleol a rhyngwladol sydd wedi'u lleoli yma. Yn ogystal, mae'r rhanbarth yn gyrchfan boblogaidd i dwristiaid, gan ddenu ymwelwyr o bob cwr o'r byd gyda'i harfordir trawiadol, ei hanes cyfoethog, a'i diwylliant unigryw.

Mae'r Gymraeg, fel iaith byw, yn parhau i fod wrth wraidd yr hunaniaeth Gymreig fodern. Mae mwynhau bywyd teuluol, addysg, gwaith a hamdden drwy gyfrwng y Gymraeg yn dystiolaeth o bwysigrwydd yr iaith i bobl Cymru.

O ran y 687,000 o bobl sy'n byw yng Ngogledd Cymru, mae data Cyfrifiad 2021[1] yn nodi bod 22.3% o'r boblogaeth yn 65 mlwydd oed a hŷn. O'r holl awdurdodau lleol ledled Cymru, Conwy (27.4%) ac Ynys Môn (26.4%) sydd â'r canrannau uchaf o bobl 65 oed a hŷn. Conwy (1.5%) sydd â'r canran uchaf o bobl 90 oed yng Nghymru. Gyda chroestoriadedd mewn golwg, mae'n ddefnyddiol edrych ar anabledd ac oedran oherwydd y gwahaniaeth nodedig yn y data rhwng 2011 a 2021, yn enwedig yn y grwpiau oedran iau a hŷn[2]. Ar gyfer menywod rhwng 15 a 19 oed roedd canran yr anabledd yn 13.3% yn 2021, sy'n 8.1 pwynt canrannol yn uwch nag yn 2011 a 7.9 pwynt canrannol yn uwch nag yn 2001. Parhaodd y duedd hon i'r grŵp oedran 20 i 24 oed, lle cynyddodd nifer yr achosion o anabledd yn sylweddol, o 6.2% yn 2011 i 17.9% yn 2021. Ar gyfer dynion, roedd yr achosion cynyddol o anabledd

[1] Swyddfa Ystadegau Gwladol (2021) Amcangyfrifon o'r boblogaeth a chartrefi, Cymru: Cyfrifiad 2021, Canfuwyd yn: Amcangyfrifon o'r boblogaeth a chartrefi Cymru - Office for National Statistics (ons.gov.uk)

[2] Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023b) Anabledd yn ôl Oedran, Rhyw ac Amddifadedd, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021. Canfuwyd yn: Anabledd, Cymru a Lloegr - Office for National Statistics (ons.gov.uk)

yn 2021 yn dechrau mewn oedrannau cynharach; roedd 8.6% o fechgyn 5 i 9 oed yn anabl yn 2021, o'i gymharu â 5.6% yn 2011 a 6.5% yn 2001[3].

Mae poblogaeth Gogledd Cymru yn llawer llai amrywiol o ran ethnigrwydd nag ar draws Cymru a Lloegr yn gyffredinol a nododd 96.8% o'r boblogaeth eu bod yn "Wyn" yng Nghyfrifiad 2021. Yng Ngogledd Cymru, roedd y cyfrannau uchaf o bobl o "Unrhyw gefndir Gwyn arall" yn 2021 yn Wrecsam (4.8%) a Sir y Fflint (3.9%) a'r isaf yn Ynys Môn (1.9%)[4].

## Oedran

Gall oedran unigolyn, ynghyd â ffactorau ychwanegol megis 'nodweddion gwarchodedig' eraill, effeithio ar eu mynediad at wasanaethau cyhoeddus. Gall unigolion hefyd ddioddef gwahaniaethu ac anghydraddoldebau oherwydd eu hoedran.

Canfu Arolwg Cymdeithasol Ewrop 2012 mai gwahaniaethu ar sail oedran oedd y math mwyaf cyffredin o ragfarn a wynebwyd yn y DU, gyda 28% o'r ymatebwyr yn dweud eu bod wedi wynebu rhagfarn ar sail eu hoedran. Yn yr adran hon y categori oedran y rhoddir y sylw mwyaf iddo yw 65+, gan mai dyma'r band oedran sy'n wynebu'r gwahaniaethu mwyaf ar sail oedran. Mae dadansoddiad o ddata Cyfrifiad 2021 yn dangos bod trigolion Gogledd Cymru sy'n 65 oed neu'n hŷn yn fwy tebygol na'r rhai o dan 65 oed i:

- Fod â salwch hirdymor sy'n eu cyfyngu;
- Bod ag iechyd gwael;
- Bod yn byw ar eu pennau eu hunain;

**Bod heb fynediad at gar;**

- Bod yn darparu gofal di-dâl o 50 awr neu fwy yr wythnos;
- Bod yn byw mewn aelwyd heb wres canolog.

**Roedd pobl dros 50 oed yn fwy tebygol na'r rhai o dan 50 oed i:**

---

[3] Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023b) Anabledd yn ôl Oedran, rhyw ac amddifadedd, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021. Canfuwyd yn: Anabledd, Cymru a Lloegr - Office for National Statistics (ons.gov.uk)

[4] Llywodraeth Cymru (2022) Grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol, iaith a chrefydd yng Nghymru - Cyfrifiad 2021. Canfuwyd yn: Grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol, iaith a chrefydd yng Nghymru (Cyfrifiad 2021) | LLYW.CYMRU

- Fod yn byw ar eu pennau eu hunain;
- Bod yn ynysig ac wedi'u heithrio;
- Bod yn darparu gofal di-dâl; a
- Bod heb unrhyw gymwysterau.

Mae'r ffaith bod y boblogaeth yn heneiddio yn golygu y bydd yna oblygiadau ariannol ac o ran adnoddau am ei bod yn debygol mai dyma'r oedran lle mae anghenion iechyd a gofal cymdeithasol unigolion yn cynyddu.

## Anabledd

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae gan berson anabledd os oes ganddynt amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol hirdymor sylweddol ar allu'r person hwnnw i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. Mae hyn yn gyson â diffiniad y Cyfrifiad o broblem iechyd hirdymor sy'n cyfyngu.

Yn ôl data Cyfrifiad 2021, mae 20.7% o gyfanswm poblogaeth Gogledd Cymru yn dweud bod ganddynt anabledd a/neu gyflwr iechyd hirdymor. Y cyfartaledd cenedlaethol yng Nghymru yw 21.1% ac at ddibenion cymharu, mae'n 17.7% yn Lloegr[5].

Mae cysylltiad agos rhwng anabledd ac oedran, gyda phobl hŷn yn fwy tebygol o fod yn anabl. Yng Ngogledd Cymru, mae data Cyfrifiad 2021 yn dangos mai'r grŵp oedran sydd â'r gyfran uchaf o bobl ag iechyd gwaeth na'r cyfartaledd yw'r rhai 65 oed a hŷn (12.5%), gyda'r gyfran isaf ymhlith y rhai 15 oed ac iau (0.5%). Gwelwyd hyn ym mhob awdurdod lleol gyda rhywfaint o fân amrywiad yn y canrannau.

Yng Ngogledd Cymru, roedd y ganran uchaf o fewn y boblogaeth 17 oed neu iau oedd ag iechyd gwaeth na'r cyfartaledd rhwng 16 ac 17 oed (1.2% o'r boblogaeth hon), ac roedd y ganran isaf yng Ngogledd Cymru ymhlith y rhai 2 oed ac iau (0.3 % o'r boblogaeth hon). Roedd rhywfaint o amrywiad yn yr awdurdodau lleol er bod y ganran uchaf ymhlith y rhai 16 i 17 oed ym mhob awdurdod lleol ac eithrio Sir Ddinbych lle'r oedd y ganran uchaf ymhlith y rhai 15 oed (1.7% o'r boblogaeth hon). Nid yw'n bosibl cymharu'r data hwn â'r data

[5] Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023c) Anabledd, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021. Canfuwyd yn: www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandwellbeing/bulletins/disabilityenglandandwales/census2021#:~:text=In%20Wales%2C%20in%202021%2C%20a,(23.4%25%2C%20696%2C000)

a gynhwyswyd yn yr adroddiad blaenorol gan y defnyddiwyd ffynhonnell ddata wahanol.

## Rhywedd

Yn ôl data Cyfrifiad 2021, poblogaeth Gogledd Cymru yn ôl rhywedd yw 51% benywaidd a 49% gwrywaidd. O'i gyfuno â ffactorau ychwanegol fel byw ar eich pen eich hun, statws cyflogaeth, incwm ariannol, anghenion iechyd a gofal cymdeithasol, mae ymchwil yn awgrymu y gall rhywedd person arwain at ganlyniadau anghyfartal. Mae pobl yn cael eu heffeithio'n anghyfartal gan eu rhywedd pan edrychwn ar wahanol gysyniadau gan gynnwys troseddau casineb a cham-drin domestig[6], bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac incwm ariannol[7], cael mynediad at ofal iechyd[8], iechyd meddwl[9], cam-drin domestig[10] a gall unigolion hefyd brofi gwahaniaethu ac anghydraddoldebau oherwydd eu rhywedd[11].

## Cyfeiriadedd Rhywiol

Mae cyfeiriadedd rhywiol yn derm cyffredinol sy'n cwmpasu hunaniaeth rywiol, atyniad ac ymddygiad. Yn ôl Stonewall[12], mae tua 7% o bobl yn nodi bod ganddynt gyfeiriadedd rhywiol sy'n golygu eu bod yn cael eu denu at bobl o fwy nag un rhywedd.

Yn ôl Cyfrifiad 2021[13], mae 89.4% o boblogaeth Cymru yn nodi eu bod yn

---

[6] Stop Hate (2023) Trosedd Gasineb ar sail Rhywedd, Canfuwyd yn www.stophateuk.org/about-hate- crime/gender-based-hate-crime/

[7] SYG (2022) Bwlch Cyflog Rhwng y Rhyweddau 2022, Canfuwyd yn www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/bulletins/genderpaygapintheuk/2022

[8] SYG (2022) Bwlch Cyflog Rhwng y Rhyweddau 2022, Canfuwyd yn www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/bulletins/genderpaygapintheuk/2022

[9] Sefydliad Iechyd Meddwl (2023) Dynion ac Iechyd Meddwl, Canfuwyd yn www.mentalhealth.org.uk/explore-mental-health/a-z-topics/men-and-mental-health

[10] SYG (2021) Dioddefwyr Cam-drin Domestig, Canfuwyd yn www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/domesticabusevictimcharacteristicsenglandandwales/yearendingmarch2022

[11] Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (2023) Rhywedd Cydraddoldeb Gwaith, Canfuwyd yn www.cipd.org/uk/views-and-insights/cipd- viewpoint/gender-equality-work/

[12] Stonewall (2022) Rainbow Britain Report, Canfuwyd yn: www.stonewall.org.uk/system/files/rainbow_britain_report.pdf

[13] SYG (2021) Cyfeiriadedd Rhywiol, Oedran a Rhyw, Cymru a Lloegr, Canfuwyd yn: www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/sexuality/articles/sexualorientationageandsexenglandandwales/census2021

heterorywiol neu'n syth, 7.6% o'r boblogaeth 'heb ateb', gyda 3% o'r boblogaeth yn nodi eu bod yn Hoyw, Lesbiaidd, Deurywiol neu 'arall'.

Mae ymchwil i brofiad pobl o ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus wedi canfod bod pobl sy'n ystyried eu hunain yn Hoyw, Lesbiaidd, Deurywiol neu gyfeiriadedd heblaw heterorywiol, yn aml yn profi anghydraddoldeb a mynediad cyfyngedig. Er mai prin iawn yw'r ymchwil ar gyfer gwasanaethau tân ac achub, mae mynediad cyfyngedig wedi dod i'r amlwg mewn amryw o wasanaethau cyhoeddus gan gynnwys gofal iechyd[14], awdurdodau'r Heddlu ac Awdurdodau Lleol[15].

## Ailbennu Rhywedd

Diffinnir ailbennu rhywedd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 fel rhywun sy'n bwriadu mynd trwy, sy'n mynd trwy neu sydd wedi mynd trwy broses (neu ran o broses) at ddiben ailbennu eu rhyw trwy newid nodweddion ffisiolegol neu briodoleddau rhyw eraill. Mae hyn yn golygu nad oes angen bod unigolyn wedi cael unrhyw driniaeth neu lawdriniaeth i gael eu diogelu gan y gyfraith. Mae tystiolaeth yn dangos, pan fydd pobl drawsryweddol (41%) a/neu anneuaidd (31%) yn datgelu eu hamrywiad rhywedd, eu bod yn agored i risg o wahaniaethu, bwlio a throseddau casineb[16].

Roedd 67% o bobl drawsryweddol a 70% o bobl anneuaidd wedi profi iselder yn ystod y flwyddyn ddiwethaf[17]. Roedd bron i hanner y bobl a nododd eu bod yn drawsryweddol (46%) wedi meddwl am gymryd eu bywyd eu hunain yn ystod y flwyddyn ddiwethaf; roedd 60% yn meddwl nad oedd eu bywyd yn werth ei fyw; ac roedd 12% wedi ceisio lladd eu hunain.

Mewn cymhariaeth, amcangyfrifir bod tua 20% o'r boblogaeth gyffredinol yn profi teimladau hunanladdol yn ystod eu hoes[18] a bod tua 13% yn hunan-niweidio[19]. Felly, mae pobl drawsryweddol ac anneuaidd mewn mwy o berygl

---

14 Stonewall (2018) LGBT+ in Britain Report 2018, Canfuwyd yn: www.stonewall.org.uk/system/files/lgbt_in_britain_health.pdf
15 Stonewall (2017) LGBT+ in Britain: Hate Crime, Canfuwyd yn: www.stonewall.org.uk/system/files/lgbt_in_britain_hate_crime.pdf
16 Stonewall (2018) LGBT+ in Britain: Trans Report, Canfuwyd yn: www.stonewall.org.uk/system/files/lgbt_in_britain_-_trans_report_final.pdf
17 Prifysgol Manceinion (2018) Canfuwyd yn: https://sites.manchester.ac.uk/carms/2020/06/17/gender-identity-why-are-transgender-and-non-binary-people-more-at-risk-of-suicide/
18 Time To Change (2020). Suicidal feelings, Canfuwyd yn: https://www.time-to-change.org.uk/about-mental-health/types-problems/suicidal-feelings#toc-2
19 Selfharm UK (2020) Ystadegau hunan-niweidio, Canfuwyd yn: https://www.selfharm.co.uk/get- information/the-facts/self-harm-statistics

o lawer o amrywiaeth o brofiadau hunanladdol, gan eu bod yn wynebu problemau iechyd meddwl a phrofiadau hunanladdol ar gyfraddau sylweddol uwch na'r boblogaeth gyffredinol, yn enwedig ymhlith pobl iau[20][21].

Mae ymchwil hefyd wedi canfod bod pobl draws a/neu anneuaidd yn wynebu anawsterau mawr o ran cael a defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol oherwydd diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth, ac weithiau rhagfarn[22], gan y staff.

Canfu ymchwil a gynhaliwyd gan Stonewall[23] nad oedd chwarter y staff iechyd a gofal cymdeithasol yn hyderus yn eu gallu i ymateb i anghenion gofal penodol cleifion a defnyddwyr gwasanaethau oedd yn bobl draws a/neu anneuaidd.

Mae nifer cynyddol o bobl draws yn mynd at Glinigau Hunaniaeth Rhywedd; nid yw'n glir a yw hyn yn cynrychioli cynnydd yn y boblogaeth draws neu bod mwy o'r boblogaeth draws yn defnyddio Gwasanaethau Hunaniaeth Rhywedd[24].

Er nad oes unrhyw amcangyfrifon swyddogol o'r niferoedd sy'n ailbennu rhywedd yn genedlaethol na rhanbarthol, mae Stonewall yn amcangyfrif[25] bod tua 1% o'r boblogaeth yn nodi eu bod yn draws, gan gynnwys y rhai sy'n nodi eu bod yn anneuaidd. Felly, byddai'n rhesymegol amcangyfrif bod rhwng 6,000 a 7,000 o bobl yng Ngogledd Cymru yn profi rhywfaint o amrywiad rhywedd.

---

20 Stonewall (2017) School Report, Canfuwyd yn: www.stonewall.org.uk/resources/school-report- 2017

21 Transgender Trend (2016) The Suicide Myth, Canfuwyd yn: www.transgendertrend.com/the-suicide-myth/

22 Coleg Nyrsio Brenhinol (2020) Fair Care for Trans and Non-Binary, Canfuwyd yn: www.rcn.org.uk/Professional-Development/publications/rcn-fair-care-trans-non-binary-uk- pub-009430

23 Stonewall (2018) LGBT+ in Britain: Trans Report, Canfuwyd yn: www.stonewall.org.uk/system/files/lgbt_in_britain_-_trans_report_final.pdf

24 LGBT Foundation (2017) Transforming Outcomes A review of the needs and assets of the trans community, Canfuwyd yn: https://dxfy8lrzbpywr.cloudfront.net/Files/acd2bcc5-a2d4-4203-8e22-aed9f4843921/TransformingOutcomesLGBTFdn.pdf

25 Prifysgol Bryste (2018) Ensuring trans people in Wales receive dignified and inclusive health and social care in later life: The Trans Ageing and Care (TrAC) project, 2016-18, Canfuwyd yn: www.bristol.ac.uk/policybristol/policy-briefings/trans-ageing-and-care-project/

## Beichiogrwydd a Mamolaeth

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diogelu pobl sy'n feichiog, sydd wedi rhoi genedigaeth yn ystod y 26 wythnos diwethaf (mewn cyd-destun lle nad ydynt yn gweithio) neu sydd ar absenoldeb mamolaeth (mewn cyd-destun gweithio) yn erbyn gwahaniaethu oherwydd eu beichiogrwydd.

Yn yr 20 mlynedd diwethaf, mae rhwng 7,086 a 7,826 o enedigaethau byw yng Ngogledd Cymru bob blwyddyn. Dros y cyfnod hwn, roedd y cyfrannau mwyaf o'r genedigaethau hyn yn y grŵp oedran 25 i 29 oed. Roedd yr ail gyfran fwyaf o enedigaethau yn y grŵp 30 i 34 oed, a'r grŵp dros 40 oed oedd yr isaf. Dros y ddau ddegawd diwethaf, mae genedigaethau yn yr arddegau wedi cyfrif am rhwng 4.7% a 9.6% o holl enedigaethau Gogledd Cymru bob blwyddyn. Ac eithrio ambell flwyddyn, mae genedigaethau yn yr arddegau wedi gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn ers 2003.

## Hil

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn datgan bod hil yn cynnwys lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu darddiad cenedlaethol. Mae 96.8% o bobl Gogledd Cymru yn ystyried eu bod yn Wyn Cymreig/Prydeinig. Asiaidd neu Asiaidd Cymreig/Prydeinig oedd yr ail grŵp ethnig mwyaf (1.4%), ac yna grwpiau ethnig cymysg neu luosog (1.1%), grŵp ethnig arall (0.4%) a Du, Cymreig Brydeinig/Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd (0.3%).

Mae poblogaeth Gogledd Cymru yn llawer llai amrywiol o ran ethnigrwydd nag ar draws Cymru a Lloegr yn gyffredinol a nododd 96.8% o'r boblogaeth eu bod yn "Wyn" yng Nghyfrifiad 2021. Yng Ngogledd Cymru, roedd y cyfrannau uchaf o bobl o "Unrhyw gefndir Gwyn arall" yn 2021 yn Wrecsam (4.8%) a Sir y Fflint (3.9%) a'r isaf yn Ynys Môn (1.9%).

Cafodd pandemig COVID-19 effaith anghyfartal ar bobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig ac yn ddiweddar dangosodd Llywodraeth Cymru[26] bod llawer o bobl, gan gynnwys rhai a anwyd yng Nghymru, yn dal i brofi hiliaeth yn rheolaidd.

26 Llywodraeth Cymru (2022) Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, Canfuwyd yn: www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-06/cyflwyniad-i'r-cynllun-cymru-wrth-hiliol.pdf

Roedd adroddiad gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol[27] o 2016 yn trafod amryw o faterion sy'n dal i fod yn berthnasol yn 2023 i bobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig sy'n parhau i wynebu gwahaniaethu ac anghydraddoldeb mewn addysg, byd gwaith, tai, cyflogau a safonau byw, iechyd a'r system cyfiawnder troseddol.

Ymhlith pobl 65 oed a hŷn, roedd pobl Asiaidd/Asiaidd Prydeinig a phobl Ddu Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig yn fwy tebygol na phobl o gefndiroedd ethnig eraill o fod â salwch hirdymor oedd yn eu cyfyngu ac o fod ag iechyd gwael.

Roedd pobl o dras Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig gryn dipyn yn fwy tebygol o fod mewn iechyd gwael o'i gymharu â phob grŵp ethnig arall (15.9% o Sipsiwn/Teithwyr Gwyddelig o'i gymharu â 4.6% o bobl Wyn Brydeinig). Mae Sipsiwn a Theithwyr yn dal i gael eu hystyried fel y rhai sydd â'r iechyd gwaethaf a'r disgwyliad oes isaf yn y DU.

Roedd aelwydydd gyda phobl o gefndiroedd ethnig 'Gwyn arall', cymysg/lluosog, Asiaidd/Asiaidd Prydeinig, Du Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig a chefndiroedd ethnig 'eraill' i gyd yn fwy tebygol nag aelwydydd â phobl o gefndiroedd Gwyn Prydeinig o fod â llai o ystafelloedd gwely nag oedd eu hangen arnynt. Roedd pobl o gefndiroedd cymysg/lluosog a Du Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig yn fwy tebygol na grwpiau ethnig eraill o fyw mewn tai cymdeithasol. Roedd pobl o gefndiroedd Gwyn Prydeinig a Gwyn Gwyddelig yn llai tebygol na grwpiau ethnig eraill o fod yn byw mewn tai rhent preifat.

Roedd pobl o bob grŵp nad oeddent yn Wyn Prydeinig yn fwy tebygol na phobl Wyn Brydeinig o fod yn byw mewn cartref heb gar neu fan.

Ymhlith pobl 25-34 oed, roedd pobl o gefndiroedd Gwyn yn llai tebygol o fod yn ddi-waith na phobl o gefndiroedd Du a Lleiafrifoedd Ethnig. Ymhlith pobl 25-34 oed, roedd pobl o gefndiroedd Gwyn Gwyddelig ac Asiaidd/Asiaidd Prydeinig yn fwy tebygol o feddu ar gymwysterau lefel 4 (gradd neu uwch) na phobl Wyn Brydeinig, tra bod pobl o gefndir Du Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig, Gwyn 'eraill' a chefndiroedd ethnig 'eraill' yn llai tebygol na phobl Wyn Brydeinig o feddu ar y lefel hon o gymhwyster.

Ymhlith pobl 16-24 oed, roedd pobl o gefndiroedd ethnig lluosog cymysg, Gwyddelig Gwyn, Gwyn 'eraill' ac 'eraill' i gyd yn fwy tebygol na phobl o

[27] Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2016) Healing a divided Britain, Canfuwyd yn: www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/2021/healing-a-divided-britain-august-2016.pdf

gefndiroedd Gwyn Prydeinig o fod heb unrhyw gymwysterau. Yn yr un grŵp oedran, roedd pobl o gefndiroedd Asiaidd/Asiaidd Prydeinig yn llai tebygol na phobl Wyn Brydeinig o fod heb unrhyw gymwysterau. Roedd canran y bobl yn y grŵp oedran hwn heb unrhyw gymwysterau yn debyg ar gyfer pobl Ddu Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig a Gwyn Prydeinig.

Ymhlith pobl 25-49 oed, roedd pobl o gefndiroedd Gwyn Gwyddelig, Gwyn Prydeinig a Gwyn 'eraill' yn llai tebygol o fod yn ddi-waith na phobl o gefndiroedd Du a Lleiafrifoedd Ethnig. Ymhlith pobl 25-49 oed, roedd pobl Wyn Gwyddelig ac Asiaidd/Asiaidd Prydeinig yn fwy tebygol o fod mewn swyddi rheoli, gweinyddol a phroffesiynol uwch na phobl Wyn Brydeinig, tra bod pobl Ddu Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig, Gwyn 'eraill', cymysg/lluosog a chefndiroedd ethnig 'eraill' yn llai tebygol na phobl Wyn Brydeinig o fod mewn galwedigaethau o'r fath.

## Crefydd a/neu Gred

Yn ôl Cyfrifiad 2021[28], Cristnogaeth yw'r grefydd fwyaf cyffredin ym mhob oedran yng Ngogledd Cymru ac mae'n cynrychioli 49.8% o'r boblogaeth. Er bod y prif grŵp nesaf, ar 41.7%, wedi nodi nad oedd ganddynt unrhyw grefydd mae ystadegau'n dangos bod 1.8% o'r boblogaeth yn bobl sy'n dilyn crefyddau Bwdhaidd, Hindŵaidd, Iddewig, Mwslimaidd a Sikhaidd. Dewisodd 6.7% o bobl beidio â datgan eu crefydd neu gred.

I grynhoi, mae gan Ogledd Cymru gyfran uwch o bobl sy'n Gristnogion, heb unrhyw grefydd, neu heb ddatgan crefydd na'r ffigurau cenedlaethol. Mewn cyferbyniad, mae ganddi gyfran is o bobl sy'n dilyn crefydd heblaw Cristnogaeth, sy'n adlewyrchu cyfansoddiad ethnig y grefydd.

## Priodas a Phartneriaeth Sifil

Fel y soniwyd yn gynharach yn yr adroddiad, nid yw priodas a phartneriaeth sifil yn dod o dan y Ddyletswydd Cydraddoldeb (PSED) yn yr un modd â'r nodweddion gwarchodedig eraill. Fodd bynnag mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn amddiffyn unigolion sydd mewn partneriaeth sifil, neu briodas, rhag wynebu gwahaniaethu. Mae'r Gwasanaeth wedi ystyried y nodwedd warchodedig hon yn yr un modd, yn bennaf oherwydd bod statws perthynas

28 Swyddfa Ystadegau Gwladol (2021) Crefydd, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021 Canfuwyd yn: https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/religion/bulletins/religionenglandandwales/census2021

person yn un o'r ffactorau niferus a all eu rhoi mewn mwy o 'risg' o dân yn y cartref. Er enghraifft, os yw pobl yn byw ar eu pen eu hunain, maent mewn mwy o berygl o gael tân yn y cartref. Mae pobl 65 oed a throsodd sy'n byw ar eu pen eu hunain mewn mwy fyth o berygl.

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod bod yn briod yn gysylltiedig â gwell iechyd meddwl[29], ac iechyd corfforol[30]. Mae llai o dystiolaeth ynglŷn â manteision bod mewn partneriaeth sifil, ond mae'n debygol bod yr un manteision hefyd i bobl mewn perthynas gadarn o'r fath fel partneriaethau sifil. Lle mae cyplau heterorywiol yn wahanol i barau mewn perthynas o'r un rhyw a phartneriaethau sifil, maent yn profi troseddau casineb, gwahaniaethu ac erledigaeth oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol[31] ac mae hyn yn debygol o gael effaith negyddol ar eu lles meddyliol a'u hymdeimlad o ddiogelwch. Gall hyn hefyd fod yn gysylltiedig â diffyg cydnabyddiaeth gyhoeddus a fframwaith cymdeithasol cyson y gellir adeiladu perthynas o'r fath arno[32].

Ar draws grwpiau oedran hŷn, roedd dynion a menywod sy'n byw fel cwpl yn fwy tebygol o fod mewn iechyd da neu iechyd da iawn o'i gymharu â'r rhai nad oeddent yn byw fel cwpl, p'run a oedd y rhai nad oeddent yn byw fel cwpl yn byw gyda phobl eraill ai peidio[33].

Fel y byddech yn ei ddisgwyl, pobl 16-24 oed sydd fwyaf tebygol o fod yn sengl, a'r rhai 65+ oed yw'r grŵp oedran mwyaf tebygol o fod yn weddw neu'n bartner sydd ar ôl o bartneriaeth sifil o'r un rhyw[34]. Mae partneriaethau sifil o'r un rhyw yn fwyaf cyffredin ymhlith pobl 35–49 oed, lle maent yn cyfrif am 0.2% o gyfanswm y grŵp oedran. Mae cyfran y bobl sy'n briod, wedi gwahanu neu wedi ysgaru yn cynyddu gydag oedran, hyd at 65+ pan fydd yn dechrau gostwng, i ystyried y gyfran gynyddol o bobl sydd wedi colli partner.

---

29 Kiecolt-Glaser, J. K. & Newton, T. L. (2001) Marriage and health: his and hers. Psychological bulletin, Cyfrol 127(4), 472.
30 Johnson, D.R. & Wu, J. (2002) An empirical test of crisis, social selection, and role explanations of the relationship between marital disruption and psychological distress: A pooled time-series analysis of four-wave panel data. Journal of marriage and family, Cyfrol 64(1), 211-224.
31 King et al (2003) Mental health and quality of life of gay men and lesbians in England and Wales: controlled, cross-sectional study. The British Journal of Psychiatry, Cyfrol 183(6), 552-558.
32 King, M. & Barlett, A. (2006) What same sex civil partnerships may mean for health Canfuwyd yn: www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC2465551/
33 Swyddfa Ystadegau Gwladol (2021) Pobl Poblogaeth a Chymuned, Canfuwyd yn: www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/ageing/articles/profileoftheolderpopulationlivinginenglandandwalesin2021andchangessince2011/2023- 04-03
34 Swyddfa Ystadegau Gwladol (2021) Pobl Poblogaeth a Chymuned, Canfuwyd yn: www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/ageing/articles/profileoftheolderpopulationlivinginenglandandwalesin2021andchangessince2011/2023- 04-03

## Ystyriaethau'r Gymraeg

Yn ôl Cyfrifiad 2021[35], yn arwyddocaol, mae'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru i'w gweld yn siroedd Gwynedd (64.4%) ac Ynys Môn (55.8%) yng Ngogledd Cymru. Mae Gogledd Cymru fel rhanbarth yn gartref i dros draean o boblogaeth Cymru sy'n siarad Cymraeg.

Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith y gweithle a'r gymuned, ac mae'n adrodd ar hyn yn flynyddol fel sy'n ofynnol o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) (2011). Ochr yn ochr â hyn, mae'r Gwasanaeth yn cefnogi strategaeth Gymraeg 'Cymraeg 2050' Llywodraeth Cymru gyda'r targed o filiwn o siaradwyr erbyn 2050 (Llywodraeth Cymru, 2017). Nod y strategaeth yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a chreu amodau ffafriol i hyn ddigwydd, gan gynnwys cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ar draws pob sector.

Mae mwy o wybodaeth wedi'i chyhoeddi yn adroddiad monitro'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol cliciwch yma.

## Ystyriaethau Economaidd-gymdeithasol

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru wedi'u crynhoi mewn trefi arfordirol a threfi ar y ffin yng Ngogledd Cymru[36][37].

Mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys Y Rhyl a Bae Cinmel. Yn Ne-orllewin Y Rhyl, mae amddifadedd yn effeithio ar tua 70% o aelwydydd yn ôl y map. Mae gan ardaloedd eraill, megis Abergele, Gorllewin Dinbych a Gronant gyfraddau uchel o amddifadedd hefyd, sef tua 60%. Mae o leiaf un math o amddifadedd yn effeithio ar tua 50% o gartrefi yn Llanelwy, Dyserth a Mostyn. Mae Cymuned Parc Caia yn Wrecsam o fewn y 10 ardal fwyaf difreintiedig o ran parthau incwm, addysg a diogelwch cymunedol. Mae ardaloedd difreintiedig eraill yn cynnwys cymunedau arfordirol ar draws Sir y Fflint megis Glannau Dyfrdwy,

[35] Llywodraeth Cymru (2022) Y Gymraeg yng Nghymru, Canfuwyd yn: www.llyw.cymru/y-gymraeg-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html

[36] Llywodraeth Cymru (2022) Dadansoddiad o nodweddion poblogaeth yn ôl amddifadedd ardal (Cyfrifiad 2021), Canfuwyd yn: www.llyw.cymru/dadansoddiad-o-nodweddion-poblogaeth-yn-ol-amddifadedd-ardal-cyfrifiad-2021

[37] Llywodraeth Cymru (2021) Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET): Ebrill 2020 i Fawrth 2021. Canfuwyd yn: www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2022/10/1/1666014008/pobl-ifanc-heb-fod-mewn-addysg-cyflogaeth-neu-hyfforddiant-neet-ebrill-2020-i-fawrth-2021.pdf

Delyn ac Alyn. Cynhaliwyd llawer o waith ymgysylltu yn yr ardaloedd difreintiedig hyn ac fe geir dadansoddiad llawn yn adroddiad llawn yr ymgynghoriad.

Gogledd Cymru (14.4%) sydd â'r gyfran uchaf o bobl ifanc (16 i 24 oed) nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET), o'i gymharu â 13.1% yn Ne Cymru sydd â'r isaf[38]. Gyda chroestoriadedd mewn golwg, roedd 55.8% (26,600) o ddynion 16 i 24 oed yn y categori NEET, o'i gymharu â 44.2% (21,100) o fenywod 16 i 24 oed. Mae pobl ifanc anabl yn fwy tebygol o fod yn y categori NEET na phobl ifanc nad ydynt yn anabl ac mae cyfran y bobl anabl sy'n NEET yn codi o 18.1% yn yr oedran 16 i 18, i 41.2% rhwng 19 a 24 oed[39].

Y gyfradd gyflogaeth ar gyfer pobl rhwng 16 a 64 oed yng Nghymru oedd 73.0% yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2023, i lawr 0.6 pwynt canran o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol[40].
Mae cyfraddau diweithdra yn amrywio ar draws Gogledd Cymru, fel a ganlyn: gyda Gwynedd (26.4%), Sir Ddinbych (26.1%), Sir Conwy (24.2%), Ynys Môn (22.6%), Wrecsam (22.1%) a Sir y Fflint (21.3%)[41].

Nid yw bod mewn cyflogaeth (neu weithio) yn gwarchod pobl rhag profi tlodi ac amddifadedd. Gwaith cyflog isel yw'r cyfrannwr mwyaf at dlodi mewn gwaith gan ei fod yn ei gwneud hi'n anodd iawn dianc rhag tlodi, yn bennaf oherwydd nad yw rhai pobl yn cael digon o gyflog neu nad oes llawer o swyddi sy'n talu'n dda mewn ardal benodol[42]. Mae bylchau cyflog a thlodi mewn gwaith yn effeithio llawer mwy ar rai grwpiau penodol nag eraill, ac mae'r risg o dlodi mewn gwaith yn fwy i weithwyr anabl a lleiafrifoedd ethnig[43].

---

[38] Llywodraeth Cymru (2023) Cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg ac yn y farchnad lafur: 2021 a 2022 (dros dro), Canfuwyd yn: www.llyw.cymru/cyfranogiad-pobl-ifanc- mewn-addysg-ac-yn-y-farchnad-lafur-2021-2022-dros-dro-html

[39] Llywodraeth Cymru (2022) Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET): Ebrill 2020 i Fawrth 2021, Canfuwyd yn: www.llyw.cymru/pobl-ifanc-heb-fod-mewn-addysg-cyflogaeth-neu-hyfforddiant-neet-ebrill-2020-i-fawrth-2021

[40] Llywodraeth Cymru (2023) Ystadegau'r farchnad lafur (Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth): Ebrill 2022 i Fawrth 2023. Canfuwyd yn: www.llyw.cymru/ystadegaur-farchnad-lafur-arolwg-blynyddol-or-boblogaeth-2023-html

[41] Llywodraeth Cymru (2023) Ystadegau'r farchnad lafur (Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth): Ebrill 2022 i Fawrth 2023. Canfuwyd yn: www.llyw.cymru/ystadegaur-farchnad-lafur-arolwg-blynyddol-or-boblogaeth-2023-html

[42] Joseph Rowntree Foundation (2020) UK Poverty Report 2019/20. Canfuwyd yn: www.jrf.org.uk/report/uk-poverty-2019-20

[43] Llywodraeth Cymru (2019) Mae'r rhan fwyaf o blant sydd mewn tlodi yn byw ar aelwydydd sy'n gweithio. Canfuwyd yn: www.llyw.cymru/maer-rhan-fwyaf-o-blant-sydd-mewn-tlodi-yn-byw-ar-aelwydydd-syn-gweithio-adroddiad-newydd

O ran iechyd, mae aelwyd yn cael ei hystyried yn un lle mae amddifadedd os yw iechyd cyffredinol unrhyw berson ar yr aelwyd yn wael neu'n wael iawn neu mae'n cael ei adnabod fel person anabl[44]. Gellir gweld dadansoddiad o anabledd yn yr adran berthnasol ar dudalen 12; mae'n werth nodi bod gan 21.1% o boblogaeth Gogledd Cymru anabledd a/neu gyflwr iechyd hirdymor[45]. Er mai Gwynedd (18.1%) ydy un o'r awdurdodau lleol sydd â'r gyfran isaf o bobl anabl yng Nghymru, mae canran gyfartalog pobl anabl ar draws y rhanbarth yn uwch na rhannau eraill o'r DU. Gyda chroestoriadedd mewn golwg, roedd 22.3% o ferched a 19.8% o ddynion yn anabl. Roedd canran y rhai sydd wedi'u cyfyngu ychydig yn 11.9% ar gyfer merched a 10.3% ar gyfer dynion. Nododd cyfran uwch o ferched na dynion eu bod wedi'u cyfyngu'n fawr; 10.4% a 9.5%, yn y drefn honno[46].

Gyda chroestoriadedd mewn golwg, mae cysylltiad uniongyrchol rhwng yr argyfwng costau byw ac iechyd gyda 60% o bobl yng Nghymru yn dweud bod eu hiechyd wedi gwaethygu oherwydd costau cynyddol[47].

Mae disgwyliad oes yn ystyriaeth bwysig wrth edrych ar safonau byw ac iechyd. Yng Nghymru, y disgwyliad oes adeg genedigaeth oedd 82 mlynedd i fenywod a 78 mlynedd i ddynion ar gyfer 2018-20[48]. Roedd hyn yn ostyngiad bach i ddynion a menywod, yn dilyn cyfraddau marwolaeth uwch yn 2020 yn ystod pandemig COVID-19. Roedd disgwyliad oes iach yn 62 mlynedd i fenywod a 61 mlynedd i ddynion rhwng 2018 a 2020.

Mae ystadegau Llywodraeth Cymru[49] yn awgrymu mai'r disgwyliad oes uchaf

---

44 Swyddfa Ystadegau Gwladol (2021) Newidyn amddifadedd y cartref: Cyfrifiad 2021, Canfuwyd yn: https://cy.ons.gov.uk/census/census2021dictionary/variablesbytopic/demographyvariablescensus2021/householddeprivation

45 Llywodraeth Cymru (2023) Iechyd, anabledd a darpariaeth gofal di-dâl yng Nghymru (Cyfrifiad 2021), Canfuwyd yn: https://www.llyw.cymru/iechyd-anabledd-darpariaeth-gofal-di-dal-yng-nghymru-cyfrifiad-2021

46 Swyddfa Ystadegau Gwladol (2021) Anabledd yn ôl oedran, rhyw ac amddifadedd, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021, Canfuwyd yn: www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/disability/articles/disabilitybyagesexanddeprivationenglandandwales/census2021#:~:text=In%20England%2C%2018.7%25%20of%20females,19.8%25%20of%20males%20were%20disabled.

47 Gwasanaeth Iechyd Gwladol (2022) 60 per cent of people in Wales say their health has worsened due to rising cost of living. Canfuwyd yn: www.nhsconfed.org/news/60-cent-people-wales-say-their-health-has-worsened-due-rising-cost-living

48 Llywodraeth Cymru (2022c) Llesiant Cymru, 2022. Canfuwyd yn: Llesiant Cymru, 2022: Cymru iachach [HTML] | LLYW.CYMRU

49 Llywodraeth Cymru (2022c) Llesiant Cymru, 2022. Canfuwyd yn: Llesiant Cymru, 2022: Cymru iachach [HTML] | LLYW.CYMRU

i fenywod yng Ngogledd Cymru oedd 83.1 o flynyddoedd yng Nghonwy a Gwynedd, tra mai yng Ngwynedd roedd y disgwyliad oes uchaf i ddynion (79.5). Roedd y disgwyliad oes isaf i fenywod yng Ngogledd Cymru yn Sir Ddinbych (81.1) ac mewn dynion roedd yn Sir Ddinbych a Wrecsam (78.3).

## Ymgysylltiad ac Ymgynghoriad â Grwpiau Cydraddoldeb Penodol

Trefnwyd cyfres o grwpiau ffocws yn edrych ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant mewn partneriaeth â grwpiau buddiant ym maes cydraddoldeb ledled Gogledd Cymru. Yn ystod pob grŵp ffocws, rhoddwyd trosolwg o'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol a chasglwyd adborth yn cyfateb i'r un cwestiynau ag a restrwyd yn yr holiadur ymgynghori. Roedd y dull hwn yn sicrhau bod y cwestiynau a ofynnwyd i aelodau'r gymuned yn gyson, ac y gellid cymharu a chyferbynnu'r adborth.

Trefnwyd cyfanswm o 12 grŵp ffocws mewn partneriaeth â'r grwpiau buddiant ym maes cydraddoldeb a oedd yn cynnwys grwpiau cymunedol a grwpiau ieuenctid, elusennau ac adrannau penodol o fewn awdurdodau lleol a oedd yn cefnogi pobl sydd yn draddodiadol yn fwy 'mewn perygl' o dân ac argyfyngau eraill. Cynhaliwyd y 12 grŵp ffocws yng Nghonwy (x 1), Sir y Fflint (x 5), Gwynedd (x 3), Wrecsam (x 2) ac Ynys Môn (x 1).

Cwblhawyd holiaduron ymgynghori yn ystod y grwpiau ffocws a bu ysgrifenyddion yn cynorthwyo rhai pobl nad oeddent yn gallu ysgrifennu. Dewisodd rhai a oedd yn bresennol fynd â'r holiadur a'r wybodaeth i ffwrdd gyda nhw i'w gwblhau yn ddiweddarach. Mae grwpiau ffocws yn ffordd effeithiol iawn o gasglu adborth, yn enwedig ymhlith pobl nad ydynt yn gwybod fawr ddim am y gwasanaeth tân ac achub gan eu bod yn gallu gofyn cwestiynau a gofyn am esboniad o wybodaeth nad yw'n glir.

Er bod 223 o bobl wedi ymateb i'r ymgynghoriad, roedd rhai o'r ymatebwyr yn rhoi adborth ar ran grŵp llawer ehangach o bobl (h.y. eu grŵp 'cymunedol' neu elusen). Ymhlith y 12 grŵp ffocws, cynrychiolwyd dros 1000 o bobl yn yr adborth.

## Crynodeb o Ganfyddiadau'r Dadansoddiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae themâu sy'n ymwneud â chydraddoldeb ar gyfer pob un o'r pum egwyddor wedi'u cynnwys yn yr adrannau perthnasol. Mae'r adborth wedi'i grynhoi isod ynghyd â'r mesurau lliniaru.

## Egwyddor Pobl

**Datblygu timau amrywiol:** Roedd consenswS cryf ymhlith yr ymatebwyr bod recriwtio a datblygu timau amrywiol yn ychwanegu gwerth ac yn helpu i gyflwyno gwasanaethau cynhwysol. Roedd rhywfaint o gyfeiriadau penodol at rywedd, ethnigrwydd ac anabledd.

**Mesurau lliniaru:** Er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn denu ac yn recriwtio pobl dalentog o bob cefndir, mabwysiadir amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu. Mae'r gwasanaeth hefyd yn adolygu ei arferion recriwtio yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn mabwysiadu'r arfer gorau.

**Rhwystrau ieithyddol a diwylliannol:** Mynegwyd pryderon bod gwahanol grwpiau ethnig lleiafrifol yn wynebu rhwystrau iaith o ran recriwtio ac am sut y gallai arferion crefyddol a diwylliannol wrthdaro â gweithgarwch recriwtio.

**Mesurau lliniaru:** Mae gweithgarwch recriwtio yn digwydd mewn ymateb i ofynion y gwasanaeth, ond mae recriwtio diffoddwyr tân yn digwydd yn barhaus sy'n golygu bod nifer o gyfleoedd i bobl wneud cais ar adegau penodol allweddol bob blwyddyn.

**Cyfathrebu:** Mae adborth yr ymatebwyr yn awgrymu bod angen teilwra gweithgareddau recriwtio'r gwasanaeth a'r wybodaeth gysylltiedig er mwyn denu pobl o wahanol gefndiroedd. Mae'r adborth yn awgrymu bod angen i'r gwasanaeth fabwysiadu amrywiaeth lawer ehangach o ddulliau ymgysylltu a chyfathrebu i gyrraedd cynulleidfaoedd gwahanol.

**Mesurau lliniaru:** Bydd y gwasanaeth yn gwrando ar yr adborth hwn ac mae dulliau cyfathrebu'n cael eu hadolygu'n flynyddol.

**Mynd i'r afael â'r mater o recriwtio staff ar alwad:** Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai'r gwasanaeth wella'r ffordd y mae'n recriwtio pobl i rolau ar-alwad i ddarparu gwasanaeth brys mwy effeithiol. Roedd cyfeiriad penodol at wella'r ddarpariaeth yng Ngwynedd ac mewn ardaloedd canolog, gyda'r fantais ychwanegol o greu swyddi newydd i bobl mewn lleoliadau penodol.

**Mesurau lliniaru:** Bydd y gwasanaeth yn cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth frys a bydd canlyniad yr adolygiad yn penderfynu pa systemau dyletswydd a threfniadau gofal tân a ddefnyddiwn y dyfodol i sicrhau bod y gofal tân gorau posibl yn cael ei gyflwyno.

## Egwyddor Atal

**Darpariaeth Diogel ac Iach:** Roedd cefnogaeth enfawr i archwiliadau Diogel ac Iach, er bod rhai grwpiau cydraddoldeb o'r farn y dylai'r gwasanaeth gynnal mwy o archwiliadau Diogel ac Iach bob blwyddyn. Codwyd pryderon gan nifer o ymatebwyr bod pobl anabl a phobl hŷn yn fwy agored i'r risg o dân ac argyfyngau am eu bod wedi'u hynysu, yn ei chael yn anoddach symud ac oherwydd na allant ddianc o adeilad yn gyflym ac yn annibynnol.

**Mesurau lliniaru:** Does dim cynlluniau i gynyddu nifer yr archwiliadau Diogel a Iach a gynhelir bob blwyddyn, ond drwy ddefnyddio data a thechnoleg bwriadwn eu targedu yn well er mwyn sicrhau ein bod yn cynnwys y bobl sydd fwyaf mewn perygl o dân yn eu cartref, gan gynnwys pobl hŷn a phobl anabl.

**Rhwystrau iaith a diwylliannol:** Gwnaed awgrymiadau gan wahanol grwpiau ethnig lleiafrifol ynghylch eu harferion diwylliannol ac y dylid datblygu ymyriadau atal a diogelwch tân yn unol â phroffil risg y rhanbarth.

**Poblogaeth ag anableddau:** Mae cyfran sylweddol o boblogaeth Gogledd Cymru yn anabl neu'n byw gyda chyflyrau iechyd hirdymor, fel yr amlygwyd gan ddata'r Cyfrifiad diweddaraf. Cafodd pobl anabl eu cynrychioli'n dda yn ystod yr ymgynghoriad. Roedd pobl anabl yn teimlo eu bod mewn mwy o berygl o syrthio ac mae'n anoddach iddyn nhw symud sy'n cyfyngu ar eu gallu i ddianc o sefyllfa frys. Gyda chroestoriadedd mewn golwg, roedd pobl anabl sy'n byw ar eu pennau eu hunain yn pryderu mwy am eu diogelwch, yn enwedig pobl hŷn.

**Mesurau lliniaru:** Adolygir ein gweithgareddau atal yn flynyddol ac mae'r gweithgarwch rydym yn ei gynllunio yn cael ei lunio i gyd-fynd ag ymgyrchoedd diogelwch a thueddiadau newydd, a rhai sy'n datblygu, sy'n cael eu trafod yn y Grŵp Llywio Ymgyrchoedd. Mae'r dull cyfannol hwn yn sicrhau bod y gwasanaethau'n canfod beth yw'r risgiau ac yn datblygu negeseuon diogelwch i helpu i atal argyfyngau all ddigwydd yn eu sgil.

**Pobl sy'n byw mewn tlodi:** Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at statws economaidd-gymdeithasol fel ffactor i bobl sy'n wynebu risg uwch oherwydd amddifadedd a byw mewn tlodi. Roedd y trafodaethau'n ymwneud â phobl nad ydynt yn bwyta'n iach a phobl nad ydynt yn gwresogi eu cartrefi oherwydd yr argyfwng costau byw.

**Mesurau lliniaru:** Mae'r Gwasanaeth yn atgyfeirio pobl sy'n wynebu caledi. Mewn rhai sefyllfaoedd penodol, mae'r Gwasanaeth yn helpu pobl yn uniongyrchol trwy ddarparu dewisiadau amgen diogel fel dillad gwely a dyfeisiau. Yn anuniongyrchol, mae timau gweithredol a thimau atal yn cefnogi amryw achosion (h.y. banciau bwyd adeg y Nadolig).

**Pryderon yn ymwneud â Diogelwch ar y Ffyrdd:** Roedd rhai ymatebwyr, yn enwedig pobl hŷn, yn poeni'n arw am ddiogelwch ar y ffyrdd, gan gyfeirio'n benodol bod y cyfyngiad cyflymder o 20mya yn achosi gyrru peryglus, ac at bobl yn gyrru tra ar y ffôn a cherbydau amaethyddol modern yn cymryd gormod o le ar y ffyrdd.

**Mesurau lliniaru:** Bydd yr adborth o fudd i'r tîm atal a'r asiantaethau partner sy'n cydweithio i fynd i'r afael â phryderon ynghylch diogelwch ar y ffyrdd.

**Technolegau Newydd a Datblygol:** Roedd llawer o'r ymatebwyr yn pryderu am e-feiciau ac e-sgwteri o ran risg tân, ond hefyd am sut y maent yn beryglus ar lwybrau a ffyrdd.

**Mesurau lliniaru:** Bydd yr adborth hwn yn ychwanegu at y nifer cynyddol o adroddiadau sy'n galluogi'r gwasanaeth i asesu pryderon a godwyd gan y cyhoedd a'r data am ddigwyddiadau sy'n rhoi gwybodaeth inni am risg, ein hymateb a'n gweithgarwch atal.

## Ein Hegwyddor Diogelu

**Cefnogaeth gref i'r gwaith diogelu:** Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn bod gwaith diogelu'r gwasanaeth yn werthfawr a bod dull sy'n seiliedig ar risg yn helpu i sicrhau bod busnesau lleol yn ddiogel, ac yn hyrwyddo diogelwch y cyhoedd.

**Pryderon seilwaith a mynediad:** Mae'r adborth yn awgrymu bod llawer o bobl ledled Gogledd Cymru yn wynebu problemau gyda chael mynediad i siopau ac adeiladau hŷn sydd â grisiau i'r fynedfa (neu'r allanfa) a mynediad cul. Yn naturiol bydd hyn yn effeithio ar bobl anabl, ond mae nifer anghymesur o bobl anabl o fewn y grwpiau oedran hŷn. Ar ben hynny, amlygwyd pryderon bod cyfyngiadau cyflymder yn effeithio ar amseroedd ymateb brys, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol adeiledig gyda mynedfeydd cul a cheir wedi'u parcio yn cyfyngu ar fynediad i eiddo.

**Mesurau lliniaru:** Trwy raglen arolygu ac atgyfeiriadau sy'n seiliedig ar risg, mae'r gwasanaeth yn cynghori busnesau lleol yn unol â'r gofyn, gan felly wneud landlordiaid a pherchnogion busnes yn atebol am risgiau posibl a risgiau gwirioneddol i ddiogelwch y cyhoedd.

**Technolegau Newydd a Datblygol:** Roedd llawer o'r ymatebwyr yn pryderu am e-feiciau ac e-sgwteri o ran risg tân, yn enwedig mewn llety a rennir. Soniwyd am eitemau trydanol eraill megis cadeiriau modur, yn enwedig o ran sut y maent yn cael eu storio mewn cartrefi gofal a phreswyl.

**Mesurau lliniaru:** Mae'r Gwasanaeth yn casglu gwybodaeth sy'n helpu i asesu risg. Gweithredir ar unrhyw adroddiadau penodol wedyn gan y tîm diogelu.

## Egwyddor Ymateb

**Poblogaeth sy'n heneiddio:** Gyda chyfran sylweddol o boblogaeth Gogledd Cymru yn 65 oed a hŷn, codwyd pryderon yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch amseroedd ymateb, yn enwedig mewn ardaloedd lle gallai amseroedd ymateb brys arafach effeithio ar eu diogelwch. Roedd cefnogaeth gyffredinol o blaid cynnal adolygiad arall o'r ddarpariaeth frys, cefnogaeth gref i barhau gyda'r ddarpariaeth gofal tân bresennol a grŵp bach o bobl yn awgrymu adeiladu gorsafoedd tân newydd fel ffordd o wella'r ddarpariaeth.

**Pryderon ynghylch seilwaith a mynediad:** Mae'r adborth yn awgrymu bod llawer o bobl ledled Gogledd Cymru yn wynebu problemau gyda chael mynediad i siopau ac adeiladau hŷn sydd â grisiau i'r fynedfa (neu'r allanfa) a mynediad cul. Yn naturiol bydd hyn yn effeithio ar bobl anabl, ond mae nifer anghymesur o bobl anabl o fewn grwpiau oedran hŷn. Ar ben hynny, amlygwyd pryderon bod cyfyngiadau cyflymder yn effeithio ar amseroedd ymateb brys.

**Mesurau lliniaru:** Er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cyflwyno gofal tân a darpariaeth frys effeithiol ledled Gogledd Cymru, bydd adolygiad cynhwysfawr yn cael ei gynnal mewn partneriaeth â'r cyrff cynrychioladol.

**Anabledd ac oedran:** Mae'r adborth yn awgrymu bod anabledd yn dod yn fwy cyffredin mewn gwahanol grwpiau oedran, a allai effeithio ar yr anghenion mewn ymatebion brys ac ar allu rhai unigolion i ddianc mewn argyfwng, megis tân. Roedd dros hanner yr ymatebwyr dros 65 oed ag anawsterau symud ac yn

llai abl i ddianc o sefyllfa frys.

**Mesurau lliniaru:** Mae'r gwasanaeth yn targedu pobl hŷn, pobl anabl a'r rhai sy'n bodloni meini prawf eraill i dderbyn archwiliadau Diogel ac Iach sy'n eu galluogi i gael cyngor am sut i ddianc o adeilad yn ddiogel ac yn gyflym, ynghyd â chael systemau synhwyro tân wedi'u gosod i'w rhybuddio am dân cyn gynted â phosibl.

**Cefnogaeth gyffredinol i adolygu cerbydau arbenigol:** Roedd nifer fach o ymatebwyr wedi amlygu'n benodol eu cefnogaeth i'r syniad bod y gwasanaeth yn cynnal adolygiad o'n cerbydau arbenigol a'n injanau tân. Roedd cyfeiriad penodol at y ffrwd waith hon i'w weld ymhlith pobl hŷn a phobl anabl a oedd yn teimlo y byddai cerbydau arbenigol yn helpu i sicrhau y bydd y gwasanaeth yn gallu ymateb yn effeithiol yn y dyfodol.

## Egwyddor Amgylcheddol

**Cefnogaeth gyffredinol i leihau'r ôl troed carbon:** Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r flaenoriaeth hon ymhlith yr holl grwpiau buddiant ym maes cydraddoldeb, yn enwedig o ran newidiadau a fydd yn lleihau costau yn y tymor hir a newidiadau sy'n gwneud ein cyfleusterau'n fwy hygyrch.

**Mesurau lliniaru:** Mae'n fwriad gan y gwasanaeth leihau ei ôl troed carbon a dod yn fwy effeithlon o ran ynni trwy amryw brosiectau y gellir eu gweld yn Strategaeth Amgylcheddol 2023-2030 y gwasanaeth.

**Os oes angen yr adroddiad hwn arnoch mewn fformat amgen,**
cysylltwch â ni,
dros y ffôn: 01745 535250
neu drwy e-bost: enquiries@tangogleddcymru.llyw.cymru

*This document is available in English* **Eitem Agenda 12**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **15 Gorffennaf 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Anthony Jones, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno drafft o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod), fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Cyflwynwyd y drafft hwn i Archwilio Cymru cyn 31 Mai, fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth uchod.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol i ddangos:

- Bod busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol
- Bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac y cyfrifir amdano'n briodol
- Bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddiwastraff, effeithlon ac effeithiol i gyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt er budd pobl leol.

3 Amlinellir y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft ar gyfer 2023/24 yn Atodiad 1 ac mae wedi'i baratoi yn unol â'r egwyddorion a nodir yn Fframwaith 'Delivering Good Governance in Local Government' CIPFA/Solace (2016). Mae'r flaenraglen waith ar gyfer 2024/25 wedi'i chynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft.

4 Cyhoeddir y Datganiad Llywodraethu Blynyddol fel rhan o gynhyrchu'r datganiadau ariannol statudol ar gyfer 2023/24. Gwneir asesiad gan yr archwilydd allanol i gadarnhau a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol ac a yw wedi'i lunio yn unol â'r Fframwaith.

5 Yn dilyn yr asesiad hwn, cyflwynir fersiwn derfynol o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'r Awdurdod i'w gymeradwyo a'i gyhoeddi'n fewnol ac yn allanol wedyn.

## ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

6 Gan mai drafft yw hwn, nid yw wedi bod trwy'r Pwyllgor Archwilio na'r Panel Gweithredol. Fodd bynnag, bydd y fersiwn derfynol yn cael ei chyflwyno i gyfarfod llawn yr Awdurdod ym mis Hydref i'w chadarnhau.

## ARGYMHELLIAD

7 Gofynnir i'r Aelodau:

i) nodi'r trefniadau llywodraethu a amlinellir yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2023/24;
ii) nodi'r flaenraglen waith ar gyfer 2024/25; a
iii) chymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2023/24.

## CEFNDIR

8 Mae'n ofynnol i bob corff llywodraeth leol, yn ôl Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, baratoi Datganiad Llywodraethu Blynyddol a gyhoeddir fel rhan o'r Cyfrifon Statudol.

9 Pwrpas y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw asesu ac arddangos bod system gadarn o lywodraethu corfforaethol wedi'i sefydlu ar draws y sefydliad.

## GWYBODAETH

10 Yn 2016, cyhoeddodd CIPFA a Solace fframwaith llywodraethu newydd, sef 'Developing Good Governance in Local Government: Framework' (y Fframwaith). Mae'r Fframwaith wedi'i strwythuro o gwmpas saith egwyddor llywodraethu sy'n galluogi'r Awdurdod i ddangos ei drefniadau cyffredinol ac i nodi sut y mae wedi cyflawni ei gyfrifoldebau.

11 Pwrpas y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw nodi trefniadau'r Awdurdod i sicrhau:

- bod busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol;
- bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac y cyfrifir amdano'n briodol; a
- bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddiwastraff, effeithlon ac effeithiol i gyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt er budd pobl leol.

12 Amlinellir y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2023/24 yn Atodiad 1. Mae'n rhoi trosolwg o'r trefniadau llywodraethu ac yn cadarnhau'r cynllun gwaith ar gyfer 2024/25.

13 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei adolygu gan Archwilio Cymru i gadarnhau ei fod yn gyson â'i wybodaeth am yr Awdurdod a'r datganiadau ariannol.

14 Ar ôl ei gyhoeddi, bydd perfformiad yn erbyn blaengynllun gwaith 24/25 yn cael ei fonitro drwy Fwrdd Perfformiad Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth bob chwarter.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Dim goblygiadau |
| Cyllideb | Dim goblygiadau |
| Cyfreithiol | Mae paratoi a chyflwyno'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'r Archwilydd Cyffredinol yn cydymffurfio â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 |
| Staffio | Dim goblygiadau |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Mae'r Datganiad yn cyfeirio'n benodol at gydymffurfio â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb a Safonau'r Gymraeg. |
| Risgiau | Dim goblygiadau |

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023-2024

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

North Wales Fire and Rescue Authority



Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru


ATAL AMDDIFFYN YMATEB
PREVENTING PROTECTING RESPONDING

# DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL AR REOLAETH FEWNOL

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

Paratowyd y Datganiad hwn yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 ac â'r canllawiau a luniwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE), sef fframwaith 'Delivering Good Governance in Local Government' 2016.

Mae'r berthynas rhwng y saith egwyddor ar gyfer llywodraethu da yn y sector cyhoeddus i'w gweld isod.




Ffig. 1 Sut mae egwyddorion llywodraethu da yn berthnasol i'w gilydd.

Ffynhonnell: [Fframwaith Rhyngwladol: Llywodraethu Da yn y Sector Cyhoeddus]

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn egluro sut mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'r fframwaith llywodraethu da a'i saith egwyddor graidd er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu cyfeirio yn unol â'r polisi a'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt.

## Cwmpas y Cyfrifoldeb

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gyfrifol am sicrhau:

- bod busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol
- bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac y cyfrifir amdano'n briodol
- bod adnoddau yn cael eu defnyddio mewn modd diwastraff, effeithlon, effeithiol a theg er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ac sydd er budd pobl leol.

Wrth gyflawni ei gyfrifoldeb cyffredinol, mae gan yr Aelodau a'r Uwch-swyddogion gyfrifoldeb i sefydlu trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu materion yr Awdurdod Tân ac Achub ac i ofalu am yr adnoddau sydd ar gael iddo, gan gynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.

Mae'r Awdurdod Tân a'i amrywiol Bwyllgorau, paneli a gweithgorau yn rhoi arweinyddiaeth strategol sy'n galluogi'r Aelodau i benderfynu ar y materion sy'n effeithio ar y gwaith o gynnal yr Awdurdod Tân, yn unol ag egwyddorion tryloywder ac atebolrwydd democrataidd.

## Diben y System o Reolaeth Fewnol

Er mwyn cyflawni ei ystod eang o swyddogaethau, rhaid i'r Awdurdod fodloni amcanion gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy. Golyga hyn fod y cyfyngiadau a'r cymhellion allanol a mewnol sydd arno yn wahanol i'r rhai a geir yn y sector preifat, ac mae pob un ohonynt yn effeithio ar ei drefniadau llywodraethu.

Un darn allweddol o ddeddfwriaeth yng Nghymru yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried y tymor hwy wrth wneud ei benderfyniadau, ac i gydweithio â chyrff cyhoeddus eraill i wella llesiant yng Nghymru.

Felly, mae gan randdeiliaid ddiddordeb mewn materion fel:

- a yw'r allbynnau a gynlluniwyd gan yr Awdurdod wedi'u cyflawni a'r canlyniadau wedi'u cael, ac
- a yw hyn wedi'i wneud mewn modd effeithlon, diwastraff, effeithiol a theg.

Er mwyn sicrhau llywodraethu da yn y sector cyhoeddus, mae angen i gyrff llywodraethu yn ogystal ag unigolion sy'n gweithio i sefydliadau'r sector cyhoeddus weithredu er budd y cyhoedd trwy'r adeg pan fyddant yn ceisio cyflawni eu hamcanion, sy'n awgrymu mai'r flaenoriaeth yw'r budd i

gymdeithas, a dylai hynny arwain at ganlyniadau cadarnhaol i'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill.

Mae'r Datganiad hwn yn rhoi sicrwydd bod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cydymffurfio â'r fframwaith llywodraethu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024.

**Y Fframwaith Llywodraethu**

Mae Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn cynnwys 28 o gynghorwyr etholedig o chwe awdurdod unedol Gogledd Cymru, gyda nifer y cynrychiolwyr wedi'i bennu gan boblogaeth yr ardal. Mae mwy o wybodaeth am yr Awdurdod, ei aelodau a'i gyfrifoldebau ar gael yma.

Rhaid i'r Awdurdod adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau bob blwyddyn er mwyn sicrhau bod y system lywodraethu yn gadarn. Dyma rai o'r prif bethau sy'n cyfrannu at hyn:

Bod â strwythur Awdurdod a phwyllgorau sydd:

- yn monitro effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg
- yn adolygu'r trefniadau llywodraethu yn rheolaidd
- yn ystyried ac yn adolygu strategaethau, cynlluniau ac adroddiadau archwilio mewnol ac allanol
- yn adolygu, yn craffu ar ac yn cymeradwyo'r datganiad cyfrifon blynyddol.

Bod â Panel Gweithredol sydd:

- yn rhoi arweiniad o ran llywodraethu
- yn cyfrannu at gwblhau ac at adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol
- yn darparu arweiniad clir i'r Gwasanaeth a'r uwch reolwyr.

Y defnydd o wybodaeth o wahanol ffynonellau i lywio'r trefniadau llywodraethu, er enghraifft:

- adroddiadau byrddau gwella a pherfformiad
- trefniadau rheoli risg
- adroddiadau gan reoleiddwyr allanol
- adroddiadau Archwilio Mewnol

Mae cyfarfodydd arferol yr Awdurdod Tân ac Achub yn cael eu mynychu o bell. Mae'r cyfarfodydd yn cael eu gweddarlledu yn y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd. Mae'r holl gyfarfodydd ar gael i'r cyhoedd wylio, petaent yn gwneud cais i wneud hynny.

Yn gynnar yn 2023, sefydlodd yr Awdurdod dri gweithgor er mwyn cefnogi datblygiad tair blaenoriaeth sefydliadol allweddol:

- Gweithgor yr Adolygiad o’r Ddarpariaeth Frys
- Gweithgor newydd y Ganolfan Hyfforddi a Datblygu.


Hefyd, mae aelod o'r Awdurdod Tân ac Achub yn rhan o’r Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant fel Hyrwyddwr yr Aelodau.

Ym mis Mawrth 2024 cymeradwyodd yr Awdurdod Tân ac Achub ddrafft o’r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRMP) pum mlynedd newydd ar gyfer 2024-2029, yn ogystal â drafft o’r Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol drafft ar gyfer 2024-25. Byddant yn disodli Cynllun Corfforaethol 2021-24. Ar hyn o bryd, mae’r cyhoedd a rhanddeiliaid yn ymgynghori ar y ddau gynllun.

Nod y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRMP) yw nodi risgiau sy'n wynebu'r gymuned ac mae'n disgrifio sut y bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn rheoli'r risgiau hynny, ac yn parhau i atal ac ymateb i danau ac argyfyngau eraill.

Mae'r Awdurdod wedi datblygu pum egwyddor er mwyn cadw cymunedau'n ddiogel, ac mae’r CRMP:

- Yn cydnabod gofynion deddfwriaeth allweddol
- Yn ystyried gwaith parhaus y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Yn nodi'r risgiau sy'n wynebu ein cymunedau
- Yn amlinellu gweithgarwch yr Awdurdod i fynd i'r afael â'r risgiau hyn
- Yn egluro pa gamau y bydd yr Awdurdod yn eu cymryd dros y pum mlynedd nesaf i liniaru'r risgiau hynny
- Yn cyd-fynd â chyllideb refeniw yr Awdurdod, ei gynllun cyfalaf a’i gynllun ariannol tymor canolig.




Ffig 2. Pwyllgorau'r Awdurdod Tân ac Achub

Y Grŵp Gweithredol, sy'n cynnwys y Prif Swyddogion, y Prif Swyddog Tân, y Dirprwy a'r Swyddogion Tân Cynorthwyol, sy'n gyfrifol am arweinyddiaeth strategol.

Mae'r Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth (SLT), yn cynnwys y Prif Swyddogion, y Rheolwyr Ardal a'r Penaethiaid Adran. Mae'n cyfarfod fel Bwrdd Perfformiad er mwyn craffu ar berfformiad, ac fel Bwrdd Gwella er mwyn herio ac i oruchwylio rhaglenni, prosiectau a pholisïau ar lefel uchel. Mae Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth yn rhoi arweinyddiaeth sefydliadol ac yn cyflwyno'r gwasanaethau.

Mae Strwythur Llywodraethu a Sicrwydd y Gwasanaeth, sef y pwyllgorau a'r grwpiau, sy'n adrodd i Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth, wedi'i ymgorffori ar draws y sefydliad, gan ddangos bod y llywodraethu yn gadarn o ran adrodd, monitro, craffu a gwneud penderfyniadau ym mhob rhan o'r sefydliad.




Ffig 3. Strwythur Arweinyddiaeth y Gwasanaeth

## Cyfranwyr Allweddol at Ddatblygu a Chynnal y Fframwaith Llywodraethu

| | |
|---|---|
| **Cyfansoddiad** | Diben y Cyfansoddiad yw nodi sut mae'r Awdurdod Tân yn gweithio a'r ffordd y mae'n gwneud penderfyniadau, a hynny mewn iaith glir |
| **Awdurdod Tân** | Darparu'r arweinyddiaeth strategol, y rhyngwyneb gwleidyddol a'r her gorfforaethol mewn perthynas â darparu gwasanaethau tân ac achub ledled Gogledd Cymru, gan annog cyfranogiad y cyhoedd a chan gynnal ei faterion mewn modd agored a thryloyw. Mae'n cytuno ar y Cynllun Gwella a Llesiant, a'r cyllidebau refeniw a chyfalaf |
| **Y Panel Gweithredol** | Monitro perfformiad y Gwasanaeth a gwneud argymhellion i'r Awdurdod ar ei bolisïau allweddol, gan gynnwys y Cynllun Gwella a Llesiant. Mae'r Panel yn adolygu'r gofrestr risg strategol. |
| **Y Pwyllgor Archwilio** | Darparu adolygiad annibynnol o'r fframweithiau llywodraethu, rheoli risg a rheoli, yn ogystal â goruchwylio'r adroddiadau ariannol, gan gynnwys Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r cyfrifon blynyddol. |
| **Y Pwyllgor Safonau** | Hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymhlith Aelodau'r Awdurdod yn ogystal â goruchwylio polisi chwythu'r chwiban ar gyfer cwynion yn erbyn Aelodau'r Awdurdod. Hefyd, pan fo hynny'n bosibl yn statudol, cael adroddiadau a chŵynion am Aelodau, cynnal neu oruchwylio ymchwiliadau, a gwneud argymhellion i'r Awdurdod. |
| **Gweithgorau'r Awdurdod Tân** | Ymgymryd â gwaith manwl sy'n gysylltiedig â phroses cynllunio a phennu cyllidebau'r Awdurdod. Maen nhw'n cyflwyno eu sylwadau i'r Panel Gweithredol sydd yn ei dro'n gwneud argymhellion i'r Awdurdod o ran gwella/lleihau risg/amcanion llesiant. |
| **Grŵp Gweithredol** | Gweithredu'r fframwaith polisi a chyllidebol a bennir gan yr Awdurdod Tân, a rhoi cyngor i'r Awdurdod Tân o ran datblygu materion polisi a chyllidebol yn y dyfodol. |
| **Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth** | Gosod safonau llywodraethu ar draws y Gwasanaeth ac arwain y gwaith o'u gweithredu. Derbyn y cynllun gwella blynyddol a chyfrannu at yr hunanasesiad blynyddol. |
| **Swyddog Adran 151** | Sicrhau bod penderfyniadau'n gyfreithlon ac yn ddarbodus yn ariannol.<br>Gweinyddu materion ariannol.<br>Yn atebol am ddatblygu a chynnal fframwaith llywodraethu, risg a rheoli yr Awdurdod Tân.<br>Cyfrannu at reolaeth a llywodraethiant corfforaethol effeithiol yr Awdurdod Tân |
| **Swyddog Monitro** | Adrodd ar achosion o fynd yn groes i unrhyw ddeddfiad neu reolaeth y gyfraith.<br>Adrodd ar unrhyw gamweinyddu neu anghyfiawnder pan fo'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol wedi cynnal ymchwiliad.<br>Cynnal a diweddaru'r Cyfansoddiad.<br>Cynnal cofrestrau o fuddiannau aelodau yn ogystal â rhoddion a lletygarwch.<br>Cynghori Aelodau ar sut i ddehongli'r Cod Ymddygiad. |
| **Archwilio Mewnol** | Darparu sicrwydd annibynnol a barn flynyddol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheoli yr Awdurdod Tân.<br>Cyflwyno rhaglen flynyddol o weithgarwch archwilio sy'n seiliedig ar risgiau, gan gynnwys gweithgarwch atal ac ymchwilio i dwyll.<br>Gwneud argymhellion ar gyfer gwella'r gwaith o reoli risgiau. |

Egwyddorion CIPFA - Sicrwydd Llywodraethu

## Egwyddor A: Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith.

Cyhoeddir cenhadaeth a Gwerthoedd yr Awdurdod yn y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol ac ar wefan yr Awdurdod.

Mae'r Cyfansoddiad yn nodi cyfrifoldebau'r Awdurdod Tân ac Achub a'i bwyllgorau ac mae'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion wedi'i gynnwys ynddo.

Mae'r Swyddog Monitro yn sicrhau bod y penderfyniadau a wneir yn gyfreithlon ac yn cydymffurfio â darpariaethau'r Cyfansoddiad.

Mae'r Cyfansoddiad yn cynnwys y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau ac mae hwn yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Safonau.

Pan fo angen, ceisir cyngor cyfreithiol i lywio penderfyniadau.

Mae Codau Ymddygiad ar waith ar gyfer Aelodau a Swyddogion , sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddatgan buddiannau busnes a chofnodi rhoddion a/neu letygarwch a gafwyd. Cyhoeddir y rhain ar wefan yr Awdurdod fel rhan o broffil personol pob Aelod.

Mae polisïau allweddol ar waith i atal ac i leihau risg twyll. Mae'r polisïau'n cynnwys: Polisi Chwythu'r Chwiban, Polisi Gwrth-dwyll, Llygredigaeth a Rheoliadau, Ariannol a Rheolau a Gweithdrefn Contractau. Pan amheuir afreoleidd-dra, mae trefniadau ar waith i sicrhau bod ymchwiliad trwyadl yn cael ei gynnal.

Mae'r polisi recriwtio a'r prosesau sefydlu a hyfforddiant yn cynnwys ymddygiadau personol a gwerthoedd moesegol.

Cael dyfarniad Aur a Phlatinwm gan raglen Iechyd Corfforaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru, cynllun gwobrwyo sy'n cael ei redeg gan Cymru Iach ar Waith, ar ran Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r gwobrau hyn yn caniatáu i gyflogwyr arddangos polisïau a gweithredoedd a ddyluniwyd i feithrin gweithluoedd hapusach ac iachach.

Sefydlwyd Pwyllgor Llywio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) yn 2022, a datblygwyd a chyhoeddwyd Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant bum mlynedd.

Cyhoeddir Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar wefan yr Awdurdod Tân yn unol â Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Caiff amcanion cydraddoldeb eu hadolygu bob blwyddyn a'u monitro drwy gydol y flwyddyn.

Bydd gweithrediad y strategaeth yn cael ei arwain gan gynllun gweithredu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant blynyddol manwl, y bydd ei berfformiad yn cael ei reoli gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant sy'n cyfarfod bob chwarter.

Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i gynnal safonau ac yn cymryd pob pryder o ddifrif. Ymchwilir i achosion disgyblu ac i unrhyw honiadau o gamwedd yn unol â Llawlyfr Disgyblu'r Gwasanaeth. Mae'r Gwasanaeth yn bwriadu recriwtio swyddog penodol ar gyfer ymdrin â chŵynion a disgyblaeth.

Cyhoeddir Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg ar wefan yr Awdurdod, sy'n manylu ar gydymffurfiad yr Awdurdod â'r Safonau.

Mae ein hymrwymiad i'r Gymraeg yn golygu bod rhaid i bob aelod newydd o staff gyrraedd o leiaf Lefel 2 yn eu sgiliau Cymraeg.

Ar hyn o bryd mae'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol, sy'n cynnwys amcanion Gwella a Llesiant, yn destun ymgynghoriad â'r cyhoedd ac â rhanddeiliaid. Bydd y Cynllun Pum Mlynedd a Chynllun Gweithredu 2024-25, wedi iddynt gael eu cymeradwyo, yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod. Mae hyn yn bodloni ein rhwymedigaethau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae polisi a gweithdrefn Diogelu ar waith i gyfeirio unrhyw bobl agored i niwed y daw'r Gwasanaeth i gysylltiad â nhw at asiantaethau eraill.

Mae'r holl gynlluniau a pholisïau adrannol, lle bo'n berthnasol, yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r Gwasanaeth wedi cyflwyno llinell adrodd gyfrinachol o'r enw 'Safecall' ar gyfer staff.

Ers 1 Ebrill 2024, mae'r Gwasanaeth wedi mabwysiadu'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol, a bydd yn adeiladu ar y trefniadau sefydledig hynny sydd rhwng y Gwasanaeth a'r cyrff sy'n cynrychioli staff er mwyn ymgynghori ar amcanion a phenderfyniadau strategol ynghylch sut mae'n bwriadu cyflawni'r amcanion hynny.

## Egwyddor B: Sicrhau didwylledd ac ymgysylltiad eang â rhanddeiliaid.

Mae pob cyfarfod yn cael ei hysbysebu ac mae cyfarfodydd llawn yr Awdurdod yn cael eu gweddarlledu. Mae agendâu a phapurau i'w cael ar wefan yr Awdurdod.

Cyhoeddir gwybodaeth ar wefan yr Awdurdod fel rhan o'r cynllun cyhoeddi. Darperir fersiynau Darllen/Dweud a fersiynau Cymraeg o ddogfennau.

Mae trefniadau ymgynghori cyhoeddus ar waith i wahodd barn rhanddeiliaid cyn i newidiadau allweddol gael eu datblygu a'u gweithredu. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori ar yr Amcanion Gwella o fewn Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2024-25.

Mae'r Sefydliad Ymgynghori wedi cydnabod bod gan yr Awdurdod 'Arfer Da' ym mhob elfen o'r ymgynghoriad cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'r Adolygiad parhaus o'r Ddarpariaeth Frys. Cadarnhawyd fod y drefn ymgynghori yn bodloni 'Egwyddorion Gunning', sef y sylfaen gyfreithiol gydnabyddedig a ddefnyddir i asesu cyfreithlondeb ymgyngoriadau cyhoeddus.

Mae'r ymrwymiad i ddidwylledd hefyd yn cael ei ddangos trwy:

- gwblhau asesiadau effaith ar gyfer pob penderfyniad allweddol;
- y Weithdrefn Cwyno a Chanmoliaeth, sy'n cynnwys y gallu i uwchgyfeirio materion pwysig;
- y Strategaeth Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd;
- ymgysylltu â Chyrff Cynrychioliadol y Cyflogeion, yn anffurfiol ac yn ffurfiol, drwy'r Cydbwyllgor Ymgynghori a Thrafod, rhywbeth a fydd yn cael ei gryfhau ymhellach trwy fabwysiadu'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol yn y flwyddyn ariannol newydd;
- ymrwymiad unwaith bob dwy flynedd i ymgysylltu â staff drwy arolwg 'Teulu Tân'.
- aelodaeth o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Fforwm Arweinwyr Cydraddoldeb Gogledd Cymru, Cyngor Hil Cymru a Fforwm Rhyng-ffydd Gogledd Cymru.

Defnyddir amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu gan gynnwys:

- cyfathrebu wedi'i gyfeirio gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, gyda chyfrifon ar Facebook a X (Twitter cynt). Mae hyn yn cynnwys cyfrifon corfforaethol yn ogystal â'r cyfrifon cyfryngau cymdeithasol a gynhelir gan staff gorsafoedd tân i ehangu ymgysylltiad mewn cymunedau lleol;
- y gallu i gofrestru ar y wefan i gael diweddariadau e-bost ar faterion penodol;
- ymgysylltu â phobl ifanc drwy raglen Ffenics, Cadetiaid tân ac ymweliadau ysgol;
- gwaith diogelwch cymunedol gyda deiliaid tai a busnesau;
- grŵp Gweithredu Cadarnhaol, dan gadeiryddiaeth y Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynwysoldeb, i gynllunio a

chyfarwyddo digwyddiadau ar gyfer yr holl waith recriwtio diffoddwyr tân;
- mynychu diwrnodau agored/digwyddiadau - er enghraifft digwyddiadau wedi'u trefnu, fel yr Eisteddfod, yn ogystal â digwyddiadau gorsafoedd tân a drefnir gan staff;
- cyfathrebu mewnol, gan gynnwys cylchlythyr electronig y Crynodeb Wythnosol i staff;
- ymgyrchoedd cyfathrebu allanol, dan arweiniad y Rheolwyr Diogelwch Cymunedol.
- Drwy weithgareddau Atal a Recriwtio mae'r gwasanaeth yn ymgysylltu â phobl o bob oed a chefndir amrywiol

Mae trefniadau partneriaeth yn eu lle ar gyfer:

- Grŵp Gwasanaethau Brys ar y Cyd Cymru Gyfan,
- Fforymau Cydnerthedd Lleol;
- y tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lleol;
- y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol;
- y Bwrdd Strategol Lleihau Tanau Bwriadol;
- y Byrddau Diogelu Oedolion Lleol a’r Bwrdd Diogelu Plant Lleol;
- cydweithio â Gwasanaethau Brys eraill.

## Egwyddor C: Diffinio canlyniadau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.

Mae'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol pum mlynedd yn pennu cyfeiriad strategol yr Awdurdod ac yn manylu ar yr amcanion gwella yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, a’r amcanion llesiant yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae polisïau'r Awdurdod yn adlewyrchu egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nod y Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig, sy’n cynnwys Cynllun Cyfalaf 10-mlynedd, a phroses y gyllideb flynyddol yw sicrhau bod adnoddau ariannol yn cael eu cyfeirio at flaenoriaethau'r Awdurdod.

Mae'r Gwasanaeth yn parhau i sicrhau bod yr holl staff yn ymgymryd â'r e-ddysgu gorfodol mewn perthynas â'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Fel cyflogwr Hyderus o ran Anabledd, mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i recriwtio a chadw pobl anabl a'r rhai â chyflyrau iechyd.

Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi llofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog, sy'n addewid gan y genedl i sicrhau bod y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog, a'u teuluoedd, yn cael eu trin yn deg. Cefnogir hyn gan Bolisi Lluoedd Arfog wrth Gefn a Chyn-filwyr.

Mae'r Gwasanaeth yn talu mwy na'r cyflog byw go iawn.

Mae polisi a gweithdrefn diogelu ar waith er mwyn cyfeirio unrhyw bobl agored i niwed y daw'r Gwasanaeth i gysylltiad â nhw at asiantaethau eraill.

Mae gan y Gwasanaeth ddyletswydd statudol i sefydlu trefniadau parhad busnes. Mae cynlluniau ar draws y Gwasanaeth yn cael eu hadolygu'n flynyddol ac mae cydweithio parhaus gyda'r gwasanaethau tân ac achub eraill yng Nghymru i wella cynllunio ac ystyried risgiau cyfredol.

Mae pob penderfyniad allweddol yn cael asesiad effaith integredig, sy'n ystyried cydraddoldeb; diogelu data; iechyd, diogelwch a lles; y Gymraeg; cyllid; cynaliadwyedd a staffio; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, a bydd hefyd yn ystyried y Ddyletswydd Iechyd statudol y disgwylir iddi gael ei chyflwyno.

Mae'r Awdurdod wedi datblygu a mabwysiadu Strategaeth Amgylcheddol sy'n nodi targedau perfformiad manwl a chadarn i leihau ein hallyriadau carbon ac effeithiau amgylcheddol sylweddol eraill.

## Egwyddor D: Pennu'r ymyriadau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl.

Cynhelir ymgyngoriadau cyhoeddus fel rhan o broses gosod amcanion yr Awdurdod, sydd wedi eu nodi yn y Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol.

Cyhoeddir asesiad o berfformiad yr Awdurdod yn erbyn ei amcanion blynyddol ym mis Hydref bob blwyddyn.

Mae Polisi Rheoli Risg Strategol yr Awdurdod (sydd ar hyn o bryd yn cael ei adolygu yn sgil archwiliad mewnol) yn nodi'r broses a ddefnyddir i nodi ac i reoli amlygiad i ansicrwydd, a allai effeithio ar gyflawni'r amcanion neu'r gweithgareddau. Caiff ei adolygu drwy gydol y flwyddyn i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol.

Cyflwynir adroddiadau perfformiad ac ariannol i'r Awdurdod a'i bwyllgorau, ar ôl i'r Grŵp Gweithredol gael cyfle i graffu arnynt.

Mae Adroddiad Monitro Perfformiad Chwarterol yn cael ei baratoi ar gyfer y Panel Gweithredol, ac mae Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth yn craffu ar ddata sy'n ymwneud â digwyddiadau, tueddiadau sy'n dod i'r amlwg, ac

argaeledd yng nghyfarfodydd y Bwrdd Perfformiad, gan sicrhau bod materion yn cael eu nodi ac y cytunir ar ymyriadau priodol.

Mae'r prosesau cynllunio'r gyllideb, sy'n cynnwys arweinwyr y Gwasanaeth ac Aelodau'r Awdurdod, yn sicrhau bod cyllidebau'n cael eu dyrannu i gefnogi amcanion sy'n seiliedig ar risg a'u bod yn cydbwyso'r costau sy'n gysylltiedig â chynnal ystadau, cerbydau ac offer. Mae Pwyllgor y Gyllideb, Monitro a Chaffael yn darparu'r llywodraethu a'r oruchwyliaeth strategol angenrheidiol.

Mae'r Pwyllgor Dysgu Sefydliadol yn darparu goruchwyliaeth strategol ac yn llywodraethu'r Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol a'r Dysgu Gweithredol ar y Cyd sydd ar gael ac yn gweithredu unrhyw newidiadau angenrheidiol.

Rhoddir adroddiadau am ddigwyddiadau Iechyd a Diogelwch, a chânt eu hadolygu a'u monitro er mwyn sicrhau bod diogelwch yr holl staff cystal ag y gall fod a bod y risgiau'n cael eu lleihau. Mae'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles yn llywodraethu ac yn rhoi goruchwyliaeth strategol.

Mae'r Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau ar gyfer Cymru Gyfan yn nodi saith ymrwymiad lefel uchel mewn perthynas ag atal ac ymateb i danau mewn anheddau. Rhoddir adroddiadau blynyddol arni fel rhan o Asesiad Perfformiad Blynyddol yr Awdurdod.

## Egwyddor E: Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion sy'n rhan ohono.

Mae Cyfansoddiad yr Awdurdod yn amlinellu rolau aelodau etholedig a swyddogion dynodedig i alluogi cyd-ddealltwriaeth o rolau ac amcanion. Mae'r swyddi dynodedig yn cynnwys y Prif Swyddog Tân, y Trysorydd a'r Swyddog Monitro.

Mae cydweithio rhanbarthol a chenedlaethol yn bodoli, er enghraifft, mae'r tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru yn cymryd rhan yn y Fforwm Hyfforddiant ar Ymchwilio i Danau ar gyfer Cymru Gyfan, ac mae hynny'n cefnogi dysgu ar y cyd ac yn annog cysondeb yn y dulliau a ddefnyddir ar draws Cymru.

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol Cymru Gyfan 2024-2028, a dyma sylfaen yr ymrwymiad i ddysgu gydol oes a chymhwysedd yn y gweithle.

Mae'r prosesau cynefino i Aelodau a chyflogeion yn cynnwys cyflwyniad i werthoedd craidd y sefydliad, y safonau ymddygiad, a gofynion y rôl.

Nodir anghenion datblygu cyflogeion mewn cyfarfodydd un-i-un.

Darperir cymorth iechyd a lles i gynnal lles corfforol a meddyliol. Mae ystod o fesurau wedi'u sefydlu i gyflawni hyn, gan gynnwys polisïau a chanllawiau AD, dull gweithio hyblyg, y gwasanaeth iechyd galwedigaethol a'r rhaglen cymorth i weithwyr. Mae'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles yn llywodraethu ac yn rhoi goruchwyliaeth strategol.

Mae gan y Gwasanaeth adran hyfforddi bwrpasol, gyda fframweithiau cymhwysedd ar gyfer staff gweithredol. Rhoddir hyfforddiant gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau sy'n cynnwys modiwlau e-ddysgu gorfodol ar gyfer rhai pynciau e.e. Diogelu Data. Mae'r Pwyllgor Dysgu Sefydliadol yn llywodraethu ac yn rhoi goruchwyliaeth strategol.

Mae'r staff yn aelodau o gyrff proffesiynol perthnasol ac yn ymgymryd â'r datblygiad proffesiynol parhaus gofynnol.

Mae'r Gwasanaeth yn sicrhau bod ei brosesau dyrchafu yn cyd-fynd â fframwaith arwain Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (NFCC).

## Egwyddor F: Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.

Mae'r Trysorydd yn gyfrifol am weinyddu materion ariannol yr Awdurdod yn briodol fel sy'n ofynnol gan Adran 151 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1972.

Mae'r Swyddog Monitro yn sicrhau y cydymffurfir â pholisïau, gweithdrefnau, deddfau a rheoliadau sefydledig.

Mae'r Polisi Rheoli Risg Strategol (sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd yn dilyn archwiliad mewnol) yn manylu ar y broses ar gyfer nodi a rheoli risgiau. Mae'r Adran Cynllunio Corfforaethol yn cadw cofrestr risgiau corfforaethol ac mae'n cael ei monitro drwy gydol y flwyddyn.

Mae adroddiadau i'r Awdurdod a'i bwyllgorau yn cynnwys asesiad effaith integredig i lywio ac i gefnogi penderfyniadau.

Mae trefniadau parhad busnes ar waith i sicrhau y gellir parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol bob amser, a chânt eu hadolygu bob blwyddyn.

Mae Pwyllgor Archwilio'r Awdurdod yn sicrhau bod argymhellion gwella gan yr Archwilydd Allanol, Archwilio Cymru, a'r Archwilydd Mewnol yn cael eu cytuno a'u monitro.

Rhoddir adroddiadau chwarterol i Aelodau ac uwch reolwyr am welliant a pherfformiad y Gwasanaeth yn erbyn dangosyddion perfformiad a cherrig milltir allweddol.

Mae gan yr Awdurdod drefniadau i gadw cofrestrau o fuddiannau personol a busnes yr Aelodau a chofrestr o roddion a lletygarwch. Cyhoeddir y rhain ar wefan yr Awdurdod fel rhan o broffil personol pob Aelod.

Ceir polisïau ar gyfer Gwrth-dwyll a Llygredigaeth a Chwythu'r Chwiban sy'n cadarnhau ymrwymiad yr Awdurdod i weithredu’n deg a thryloyw.

Mae polisïau a threfniadau ar waith i reoli'r modd y caiff data eu trin. Y rhain yw’r Polisi Diogelu Data, y Polisi Rhyddid Gwybodaeth, y Polisi Cadw Data a Pholisi Diogelu Cyfathrebu a Gwybodaeth. Mae’r polisïau hyn yn cael eu hategu gan hyfforddiant, ac mae'r modiwl e-ddysgu ar ddiogelu data yn orfodol i'r holl staff.

Datblygwyd a chytunwyd ar weithdrefnau rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid.

Mae rheolaeth ariannol yn cefnogi’r ddarpariaeth o wasanaethau a newid trawsnewidiol yn ogystal â sicrhau stiwardiaeth dda. Cyflwynir diweddariad ariannol yn holl gyfarfodydd yr Awdurdod, gydag adroddiadau ar gael i'r cyhoedd ar y wefan.

Mae’r trefniadau Rheoli Trysorlys yn dilyn arferion proffesiynol ac yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan yr Aelodau.

Mae Datganiadau Cyfrifon yr Awdurdod a'i berfformiad yn erbyn meysydd risg a blaenoriaeth allweddol yn destun craffu drwy archwiliad allanol.

## Egwyddor G: Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adroddiadau ac archwiliadau er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol.

Mae'r Awdurdod, gyda chymorth y Swyddog Monitro, yn goruchwylio ac yn adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu a'r amgylchedd rheoli mewnol.

Mae agendâu a chofnodion cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub ar gael i'r cyhoedd ar y rhyngrwyd, ynghyd â gweddarllediadau o gyfarfodydd yr Awdurdod.

Mae adroddiadau'r Awdurdod yn dilyn fformat strwythuredig sy'n sicrhau bod gwybodaeth allweddol yn cael ei chyflwyno mewn modd clir a chyson i gynorthwyo penderfyniadau.

Mae gan y Gwasanaeth ddyletswydd statudol i sefydlu trefniadau parhad busnes. Mae cynlluniau ar draws y Gwasanaeth yn cael eu hadolygu'n flynyddol ac mae cydweithio parhaus gyda'r gwasanaethau tân ac achub eraill yng Nghymru i wella cynllunio ac ystyried risgiau cyfredol.

Mae’r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol yn dogfennu amcanion gwella a llesiant yr Awdurdod ac mae’n cael ei adolygu gan Archwilio Cymru mewn cysylltiad â dyfarnu Tystysgrif Cydymffurfio.

Cynhyrchir y Datganiad Cyfrifon Blynyddol mewn fformat hawdd ei ddefnyddio. Mae hwn yn rhoi gwybodaeth glir am incwm a gwariant ac yn dangos y stiwardiaeth ar arian cyhoeddus ar gyfer y flwyddyn. Cyflwynir y cyfrifon i'w harchwilio erbyn y dyddiad cau statudol.

Mae'r Datganiad Polisi Tâl Blynyddol yn cael ei gymeradwyo a'i gyhoeddi yn unol â Deddf Lleoliaeth 2011. Telir cyflogau'r Aelodau yn unol â phenderfyniadau'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol ac adroddir amdanynt ar y rhyngrwyd.

Mae Aelodau ac uwch swyddogion yn datgan buddiannau perthnasol yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y DU. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r Awdurdod i nodi ac i roi gwybod am unrhyw drafodion parti perthynol.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn darparu tryloywder ar y trefniadau llywodraethu a'r camau gweithredu i wella llywodraethu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw'r archwilydd allanol a benodir drwy statud ac mae'n rhoi barn ar y Datganiad o Gyfrifon, a gyhoeddir ar wefan yr Awdurdod. Mae'r Awdurdod yn gweithredu ar argymhellion ac, yn ôl yr angen, yn cymryd camau cywiro.

Mae'r trefniadau Archwilio Mewnol yn cynnwys dull sy'n seiliedig ar risg, ac mae’n rhoi sicrwydd bod risgiau allweddol yn cael eu rheoli. Mae'r Awdurdod yn gweithredu ar argymhellion ac, yn ôl yr angen, yn cymryd camau cywiro.

Yn dilyn adolygiad o’r trefniadau mewnol, penodwyd Archwilydd Mewnol newydd gan y Gwasanaeth ym mis Mehefin 2023, a hynny er mwyn cryfhau’r trefniadau sicrwydd.

Mae prosesau ar waith i sicrhau bod argymhellion gan gyrff arolygu a rheoleiddio yn cael eu gweithredu.

**Sut aeth yr Awdurdod i'r afael â Chamau Gwella Llywodraethu 2023/24**

| Maes Gwella Llywodraethu | Cam Gweithredu a Gynlluniwyd | Fforwm | Cyfrifoldeb | Cynnydd erbyn mis Mawrth 2024 |
|---|---|---|---|---|
| Lleihau Allyriadau Carbon | Ymateb i argymhellion Adroddiad Archwilio Cymru ar Leihau Allyriadau Carbon – Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru Mawrth 2022 | Pwyllgor Tir ac Eiddo Grŵp Amgylcheddol a Chynaliadwyedd | PSTC Gweithrediadau<br><br>Rheolwr yr Amgylchedd a Newid yn yr Hinsawdd | Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau. Mae mesurau wedi'u rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r pum argymhelliad a nodwyd gan adroddiad Archwilio Cymru ar leihau ein hallyriadau carbon.<br><br>Roedd y rhain yn cynnwys sefydlu gwaelodlin carbon, paratoi Strategaeth Amgylcheddol 2023-2030, a drafftio cynlluniau datgarboneiddio pwrpasol ar gyfer y fflyd, gwresogi, a phŵer.<br><br>Rydym hefyd wedi paratoi Strategaeth Gwerth Cymdeithasol a Chaffael Cynaliadwy, Cynllun Lleihau Gwastraff, a Chynllun Allyriadau Carbon Gweddilliol. |
| Lleihau Galwadau Tân Diangen | Ymateb i argymhellion Adroddiad Archwilio Cymru ar leihau galwadau tân diangen – Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru Ebrill 2023 | Pwyllgor Perfformiad Atal a Diogelu | PSTC Gweithrediadau<br><br>Pennaeth Atal a Diogelu | Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau.<br>Datblygwyd rhaglen o arolygiadau dilynol ar gyfer y rhai sydd â risg tân uwch, a hynny o fewn pum mlynedd i'r Archwiliad Diogel ac Iach gwreiddiol.<br>Dadansoddwyd gwerth naw mlynedd (2015 i 2023) o ddata am Larymau Tân Awtomatig (AFA), boed y gwasanaeth wedi mynd allan mewn ymateb neu ddim, er mwyn nodi tueddiadau e.e. lleoliadau sy'n ymddangos yn aml, namau ar systemau a chamgymeriadau gan bobl.<br>Cynhaliwyd astudiaeth amser-mudiant, gan roi sylw arbennig i ba adeg o'r dydd y mae Larymau Tân Awtomatig yn tueddu i seinio (Risg v PDA v Adeg o'r dydd).<br>Mae Larymau Tân Awtomatig mewn lleoliadau Masnachol ac Ysbytai bellach yn cael eu hadolygu'n |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | amlach, gan ddefnyddio dangosfwrdd perfformiad sy'n galluogi ymyriadau mwy amserol.<br>Mae staff Diogelwch Tân wedi ailgysylltu â CEF y Berwyn er mwyn adfywio'r rhaglen ymyriad cynnau tanau i oedolion oherwydd trosiant uchel ymhlith staff y Carchar. |
| Cydnerthedd Cymunedol a Hunanddibyniaeth | Adolygu argymhellion adroddiad 'Gyda'n gilydd fe allwn ni – Cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau' Archwilio Cymru er mwyn nodi unrhyw effeithiau a goblygiadau i GTAGC | Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth - Bwrdd Gwella | Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid | Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau.<br>Er bod yr adroddiad 'Gyda'n gilydd fe allwn ni – Cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau' yn berthnasol i wasanaethau cyhoeddus ehangach, mae Archwilio Cymru wedi cadarnhau ei fod wedi'i anelu'n bennaf at awdurdodau lleol, ac ni fyddant yn disgwyl ymateb ffurfiol gan ATAGC. |
| Ailstrwythuro'r Gwasanaeth (cyflwynwyd 1 Ebrill 2022) | Gweithredu drwy Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth i gynllunio proses flynyddol, sy'n cynnwys Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth a'r adran Archwilio Mewnol yn benodol, i asesu i ba raddau y mae egwyddorion y | Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth - Bwrdd Gwella | DBST<br><br>Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid | Nid yw'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau.<br>Bydd yn cael ei gynnwys yng nghamau gweithredu 2024/25 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Fframwaith Llywodraethu Da yn cael eu cymhwyso. | | | |
| Cyfansoddiad | Cam gweithredu i Glerc yr Awdurdod ychwanegu at y Cyfansoddiad y trefniadau ar gyfer y cyfnodau cyn-etholiadol sy'n arwain at etholiadau llywodraeth leol ac ar gyfer cyfnodau saib rhwng Awdurdodau. | GTAGC | Clerc yr Awdurdod Tân ac Achub. | Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau.<br>Cyflwynodd y Clerc bapur i'r Panel Gweithredol ar 18 Rhagfyr a oedd yn argymell diwygiadau i'r Cyfansoddiad, fel y disgrifir yn y weithred, ac fe'i cymeradwywyd. |
| Cynllunio Adrannol | Cynnal adolygiad o'r fframwaith cynllunio adrannol ar gyfer cynlluniau adrannol 23/24, ac mae hyn yn blaenoriaethu casglu tystiolaeth yn erbyn y Blociau Adeiladu, amcanion y Cynllun Corfforaethol ac amcanion Deddf | Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth | Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid. | Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau.<br>Yn ogystal ag alinio'r amcanion adrannol, mae'r templed hefyd yn cynnwys newidiadau i risgiau adrannol a chynllunio'r gweithlu, gan roi trosolwg mwy cyflawn o bob adran. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. | | | |
| Asesiad Rheoli Risg Cymunedol (CRMP) a Chynllunio Corfforaethol | Cwblhau CRMP newydd sy'n cyd-fynd â Rhaglen Rheoli Risg Cymunedol NFCC, ac amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. | Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth Bwrdd Gwella | Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid. | Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau. Cyhoeddwyd Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024-2029 a'r Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2024-2025 ar 25 Mawrth 2024, ac maent yn destun cyfnod o ymgynghori cyhoeddus yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys amcanion Llesiant a Gwella. Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ym mis Mehefin a bydd fersiynau terfynol o'r Cynlluniau yn cael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub ym mis Gorffennaf 2024. |
| Ymgynghoriad yr Adolygiad o’r Ddarpariaeth Frys | Gweithio tuag at alinio ag 'Arfer Gorau' y Sefydliad Ymgynghori o ran sicrhau ansawdd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus a gwblheir ar gynigion yr Adolygiad o’r Ddarpariaeth Frys. | Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth - Bwrdd Perfformiad | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol<br><br>Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid | Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau.<br>Yn sgil cwblhau’r Dadansoddiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a’r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar Adolygiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru o’r Ddarpariaeth Frys, bodlonwyd gofynion y broses sicrhau ansawdd ffurfiol a oruchwyliwyd gan y Sefydliad Ymgynghori.<br><br>Cydnabuwyd bod gan yr Awdurdod ‘Arfer Da’ ym mhob elfen o’r ymgynghoriad.<br><br>Cadarnhaodd hyn fod y drefn ymgynghori yn bodloni 'Egwyddorion Gunning', sef y sylfaen gyfreithiol gydnabyddedig a ddefnyddir i asesu cyfreithlondeb ymgyngoriadau cyhoeddus. |

## Camau Gwella Llywodraethu'r Awdurdod 2024/25

| Maes Gwella o fewn Llywodraethu | Cam Gweithredu a Gynlluniwyd | Fforwm | Cyfrifoldeb | I'w gwblhau erbyn |
|---|---|---|---|---|
| Adolygiad o'r Fframwaith Llywodraethu | Gweithredu drwy Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth i gynllunio proses flynyddol, sy'n cynnwys Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth a'r adran Archwilio Mewnol yn benodol, i asesu i ba raddau y mae egwyddorion y Fframwaith Llywodraethu Da yn cael eu cymhwyso. | Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth - Bwrdd Perfformiad | Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid | Mawrth 2025 |
| Trefniadau Llywodraethu | Ystyried y canfyddiadau a'r argymhellion sy'n deillio o adolygiad Archwilio Cymru o Drefniadau Llywodraethu. | Awdurdod Tân ac Achub | Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid | Mawrth 2025 |
| Effeithiolrwydd Gweithgareddau Atal | Ystyried y canfyddiadau a'r argymhellion sy'n deillio o adolygiad Archwilio Cymru o Atal. | Awdurdod Tân ac Achub | Pennaeth Atal a Diogelu | Mawrth 2025 |
| Rheoli Risg Strategol | Gweithredu argymhellion yr adolygiad gan Archwilio Mewnol o Reolaethau Craidd Rheoli Risg | Grŵp Rheoli Risg | Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid | Mawrth 2025 |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: | Y rhwymedigaeth statudol i sicrhau bod yr amcanion llesiant yn y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol yn cael eu hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau bod yr amcanion yn cael eu cyflawni; | Bwrdd Perfformiad Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth | Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid | Mawrth 2025 |
| Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 | Ymgorffori egwyddorion a gofynion Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023. | Cyd-bwyllgor Ymgynghori a Negodi | Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid | Mawrth 20205 |

# Cydymffurfio â'r Cod Rheoli Ariannol

Cynlluniwyd Cod Rheoli Ariannol CIPFA (Cod RhA CIPFA) i gefnogi arfer da ym maes rheoli ariannol ac i gynorthwyo'r Awdurdod i ddangos ei gynaliadwyedd ariannol. Mae Cod RhA CIPFA felly'n gosod safonau rheoli ariannol i'r Awdurdod.

Mae'r Cod yn seiliedig ar gyfres o egwyddorion a gefnogir gan safonau a datganiadau ymarfer penodol yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i ddarparu'r sylfaen gref i:

- Reoli cyllid yr Awdurdod yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir
- Rheoli gwydnwch ariannol er mwyn ateb y galw a ragwelir ar wasanaethau
- Rheoli cyllid pan fo newidiadau annisgwyl yn eu hamgylchiadau ariannol.

Rhaid i bob Awdurdod ddangos bod gofynion y Cod yn cael eu bodloni.

Fel Swyddog Adran 151 mae gen i Gyfrifoldeb Statudol (gyda chefnogaeth yr Uwch Dîm Arweinyddol ac Aelodau'r Awdurdod) dros sicrhau cydymffurfiaeth â Chod RhA CIPFA. Rwyf wedi cynnal asesiad llawn o gydymffurfiad â Chod RhA CIPFA fel rhan o'r adolygiad blynyddol o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a gallaf gadarnhau bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r cod yn y mwyafrif o feysydd yn fy marn i.

| | | |
|---|---|---|
| **Llofnod** | ______________________ | **(Trysorydd) 2024** |

# Casgliad a Barn Llywodraethu

Mae'r Awdurdod yn cydnabod mai llywodraethu da sy'n gosod y sylfaen ar gyfer darparu gwasanaethau o ansawdd da sy'n diwallu anghenion rhanddeiliaid, ac sy'n sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n dda. Mae'r adolygiad hwn yn cadarnhau'r systemau llywodraethu a'r monitro a oedd ar waith ar gyfer 2023/24 a'r camau a gymerwyd i sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol.

Mae'r Awdurdod yn fodlon bod trefniadau llywodraethu priodol ar waith a bydd ei ymroddiad i wella'r rhain yn parhau drwy weithredu'r cynllun gweithredu ar gyfer 2024/25.

**Llofnod** ______________________ **(Cadeirydd) 2024**

**Llofnod** ______________________ **(Prif Swyddog Tân) 2024**

**Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**
**North Wales Fire and Rescue Authority**

*Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg* **Eitem Agenda 13**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **15 Gorffennaf 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Cyllid ac Adnoddau** |
| Pwnc | **Bwrdd Pensiwn Lleol Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân – Adroddiad Blynyddol 2023/24** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol (y Bwrdd) i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) sy'n rhoi manylion gwaith y Bwrdd yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24. Mae'r adroddiad blynyddol yn atodiad 1.

2 Gofyn am gymeradwyaeth yr Aelodau i gynyddu aelodaeth y Bwrdd Pensiwn Lleol. Nodir y newidiadau arfaethedig hyn yn y Cylch Gwaith sydd wedi'i ddiweddaru yn atodiad 2.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

3 Mae adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol yn rhoi manylion y gwaith a wnaed gan y Bwrdd yn ystod 2023/24 ac yn darparu rhaglen waith ar gyfer 2024/25.

4 Mae'n ofynnol i'r Bwrdd gael cydbwysedd cyfartal o ran aelodau sy'n gyflogeion ac yn gyflogwyr. Mae cyfanswm o wyth aelod ar hyn o bryd, ond oherwydd problem argaeledd cafodd un cyfarfod ei ganslo yn ystod y flwyddyn ariannol ac un ei ohirio. Cynigir cynyddu'r aelodaeth i ddeg aelod er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn gallu cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn.

**SYLWADAU GAN Y BWRDD PENSIWN LLEOL**

5 Cafodd Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol 2023/24 ei ystyried gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 18 Ebrill 2024. Cafodd yr adroddiad ei gymeradwyo yn amodol ar fân newid i gadarnhau manylion aelodaeth y Bwrdd.

6 Cafodd y Cylch Gwaith ei ystyried gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 24 Ionawr 2024 ac fe'i cymeradwywyd i'w ystyried a'i gymeradwyo gan yr Awdurdod.

**ARGYMHELLIAD**

7 Argymhellir bod yr Aelodau yn:

i) **cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol 2023/24; ac yn**
ii) **cymeradwyo cylch gwaith y Bwrdd Pensiwn Lleol, gan nodi'r cynnydd yn yr aelodaeth i 10 aelod.**

**CEFNDIR**

8 Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gwaith a wnaed gan Fwrdd Pensiwn Lleol yr Awdurdod. Yr Awdurdod yw Rheolwr y Cynllun fel y'i diffinnir o dan Adran 4 Deddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013. Mae'r Bwrdd wedi'i sefydlu yn unol ag Adran 5 o'r Ddeddf honno.

9 Cyflwynwyd y gofynion llywodraethu'n ymwneud â phensiynau o ganlyniad i Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 (y Ddeddf). Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer trefniadau llywodraethu cliriach gyda rolau diffiniedig penodol, cyhoeddi mwy o wybodaeth yn gyson, a bod yr arferion gweinyddu'n cyd-fynd â'r rheini yn y sector preifat.

10 Daeth Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Llywodraethu) 2015 sy'n ymwneud â chreu pensiynau lleol a pharhau i'w gweithredu i rym ar 1 Ebrill 2015. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod sefydlu Bwrdd Pensiwn Lleol mewn perthynas â Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân erbyn 1 Ebrill 2015.

11 Rôl a chylch gwaith y Bwrdd yw cynorthwyo'r Awdurdod yn rhinwedd ei swydd fel Rheolwr y Cynllun drwy sicrhau ei fod yn gweinyddu Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn effeithiol ac yn effeithlon a'i fod yn cydymffurfio â deddfau a rheoliadau perthnasol. Er mwyn hybu tryloywder, mae'n ofynnol i Reolwr y Cynllun gyhoeddi adroddiad blynyddol ei Fwrdd Pensiwn Lleol.

12 Fel y pennwyd yng nghylch gwaith y Bwrdd, dylai'r adroddiad blynyddol gynnwys:

- crynodeb o waith y Bwrdd a chynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod;
- manylion meysydd o bryder yr adroddwyd yn eu cylch i'r Bwrdd neu a godwyd ganddo ac argymhellion a wnaed;
- manylion unrhyw wrthdaro buddiannau sydd wedi codi mewn perthynas ag aelodau unigol o'r Bwrdd a sut cafodd y rhain eu rheoli;
- unrhyw feysydd risg neu bryder y mae'r Bwrdd yn dymuno eu codi â Rheolwr y Cynllun;
- manylion yr hyfforddiant a dderbyniwyd ac anghenion hyfforddi a nodwyd; a
- manylion unrhyw dreuliau a chostau yr aethpwyd iddynt gan y Bwrdd ac unrhyw dreuliau a ragwelir ar gyfer y flwyddyn i ddod.

## GWYBODAETH

13 Mae Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol 2023/24 wedi'i nodi yn Atodiad 1. Cafodd yr adroddiad ei ystyried gan Aelodau'r Bwrdd yn ei gyfarfod ar 18 Ebrill 2024. Cymeradwyodd yr Aelodau yr adroddiad a gofyn am un newid i gynnwys manylion Aelodau'r Bwrdd.

14 Adolygwyd Cylch Gwaith y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 23 Ionawr 2024 a nodwyd eu bod yn gyson â gofynion Deddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013. Cymeradwyodd y Bwrdd y Cylch Gwaith arfaethedig gan nodi'r cynnydd mewn aelodaeth i 10.

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ystyriwyd nad ydy hyn yn berthnasol. |
| Cyllideb | Mae cost y Bwrdd Pensiwn Lleol yn cael ei hariannu o'r gyllideb bresennol Gwasanaethau Aelodau. |
| Cyfreithiol | Cyflwynwyd y gofynion llywodraethu newydd sy'n ymwneud â phensiynau o ganlyniad i Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013.<br>Rheoliadau Llywodraethu Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Diwygio) 2015. |
| Staffio | Ystyriwyd nad ydy hyn yn berthnasol. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/y Gymraeg | Nid ystyrir bod angen mynd i'r afael ag unrhyw faterion gan fod yr argymhellion yn berthnasol i'r holl Aelodau beth bynnag fo'u nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb Sengl. |
| Risgiau | Mae angen i bob Awdurdod Tân ac Achub gydymffurfio â'r canllawiau a ddarperir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau ynghylch y trefniadau llywodraethu ar gyfer Byrddau Pensiwn Lleol. |

Atodiad 1

# Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
# Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân

# Bwrdd Pensiwn Lleol
# Adroddiad Blynyddol
# 2023-24

## Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 3 |
| 2. | Rolau a Swyddogaethau | 3 |
| 3. | Aelodaeth a chyfarfodydd y Bwrdd | 3 |
| 4. | Polisi Gwrthdaro Buddiannau | 4 |
| 5. | Gwybodaeth a Dealltwriaeth | 4 |
| 6. | Rhaglen Waith 2023/24 | 5 |
| 7. | Rhaglen Waith 2024/25 | 7 |

## 1.0 Cyflwyniad

Dyma Adroddiad Blynyddol Bwrdd Pensiwn Lleol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Bwrdd), sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys sylwadau ar y pethau canlynol:

- Manylion unrhyw wrthdaro buddiannau sydd wedi codi mewn perthynas ag aelodau'r Bwrdd;
- Manylion yr hyfforddiant a dderbyniwyd ac anghenion hyfforddi a nodwyd ar gyfer aelodau'r Bwrdd;
- Crynodeb o'r gwaith a wnaed gan y Bwrdd yn ystod 2023/24;
- Meysydd sy'n peri pryder neu feysydd risg yr adroddwyd yn eu cylch wrth y Bwrdd neu a godwyd ganddo; a'r
- Rhaglen waith ar gyfer 2024/25.

## 2.0 Rolau a Swyddogaethau

Yn unol ag Adran 5 ac Adran 30 (1) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a Rheoliad 4A o Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Llywodraethu) 2015, sefydlwyd y Bwrdd ym mis Ebrill 2015. Rôl a chylch gwaith y Bwrdd yw cynorthwyo Rheolwr y Cynllun (Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, "yr Awdurdod") i sicrhau cydymffurfiaeth â:

- Y cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol;
- Unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r Cynllun;
- Y gofynion a osodir gan y Rheoleiddiwr mewn perthynas â'r Cynllun; a
- Sicrhau bod y Cynllun yn cael ei lywodraethu a'i weinyddu'n effeithiol ac yn effeithlon.

Disgwylir i'r Bwrdd ategu a gwella trefniadau presennol yr Awdurdod ar gyfer rheoli cynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân. Nid yw'n disodli'r trefniadau presennol ac nid yw'n gorff gwneud penderfyniadau. Yn hytrach, fe'i cynlluniwyd i weithredu fel cyfaill beirniadol i'r Awdurdod a'i swyddogion wrth iddynt weithredu yn rhinwedd swydd rheolwr y cynllun.

## 3.0 Aelodaeth a chyfarfodydd y Bwrdd

Yn ei gyfarfod ar 23 Ionawr 2024, cynyddodd aelodaeth y Bwrdd i 10 fel a ganlyn:

- Pump o gynrychiolwyr y cyflogwyr yn cynnwys tri aelod o'r Awdurdod, Clerc yr Awdurdod (neu ddirprwy enwebedig) a Thrysorydd yr Awdurdod.

- Pump o gynrychiolwyr y cyflogeion – y mae pedwar ohonynt o bob corff cynrychioliadol sy'n gysylltiedig yn swyddogol â'r Awdurdod ac un yn cynrychioli'r system dyletswydd ar alwad.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24 cafwyd nifer o ymddiswyddiadau o'r Bwrdd a phenodiadau newydd.  Ceir crynodeb o'r aelodaeth isod:

| Enw | Rôl | Yn Cynrychioli | Dyddiadau (yn cyd-fynd â dyddiadau cyfarfodydd ar gyfer rhan o'r flwyddyn) |
|---|---|---|---|
| Bryan Apsley | Aelod ATA | Cyflogwr | Blwyddyn lawn |
| Dafydd Edwards | Trysorydd yr Awdurdod | Cyflogwr | Blwyddyn lawn |
| Gareth Owens | Swyddog Monitro | Cyflogwr | Blwyddyn lawn |
| John Brynmor Hughes | Aelod ATA | Cyflogwr | Blwyddyn lawn |
| Richard Fairhead (Cadeirydd hyd at 28/4/24) | Cymdeithas yr Arweinwyr Tân | Cyflogeion | 01/04/2023-28/04/2023 |
| Stuart Stanley | Undeb y Brigadau Tân | Cyflogeion | 01/04/2023-24/10/2023 |
| Matt Ryan | Undeb y Brigadau Tân | Cyflogeion | 01/04/2023-18/03/2024 |
| Stuart Millington (Cadeirydd o 28/04/23 – 12/02/24) | Cymdeithas yr Arweinwyr Tân | Cyflogeion | 01/04/2023-12/02/2024 |
| Gwynfor Owen | Aelod ATA | Cyflogwr | 07/08/2024 hyd heddiw |
| Dawn Docx | Cymdeithas yr Arweinwyr Tân | Cyflogeion | 13/02/2024 hyd heddiw |
| Paul Kay (Cadeirydd 23/01/24) | Cymdeithas y Swyddogion Tân | Cyflogeion | 23/01/2024 hyd heddiw |
| Geraint Evans | Cynrychiolydd y system dyletswydd ar alwad | Cyflogeion | 23/11/2023 hyd heddiw |
| Terry Ledden | Undeb y Brigadau Tân | Cyflogeion | 08/01/2024 hyd heddiw |

Yn ogystal ag aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol, mae'r swyddogion allweddol canlynol yn cefnogi'r Bwrdd ac yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd:

- Y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyllid ac Adnoddau; a'r
- Rheolwr Pensiynau

**Cadeirydd y Bwrdd**

Bydd rôl Cadeirydd y Bwrdd yn cael ei chylchdroi bob dwy flynedd rhwng aelod sy'n cynrychioli'r cyflogwyr a'r rhai sy'n cynrychioli aelodau'r cynllun.

Etholwyd PSTC Stuart Millington yn Gadeirydd am y cyfnod 2023/24, gan gynrychioli'r Gymdeithas Arweinwyr Tân. Mae'r Cadeirydd hefyd wedi'i enwebu i eistedd ar Fwrdd Cynghori Cenedlaethol Cymru ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

Trefnwyd i'r Bwrdd gyfarfod ar bedwar achlysur yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24 a chynhaliwyd y cyfarfodydd ar y dyddiadau canlynol:

- 28 Ebrill 2023
- 11 Gorffennaf 2023
- 24 Hydref 2023
- 23 Ionawr 2024

## 4.0 Polisi Gwrthdaro Buddiannau

Mae'n ofynnol yn ôl Deddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 (y Ddeddf) nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau'n ymwneud ag aelod o fwrdd pensiwn. Diffinnir gwrthdaro buddiannau fel buddiant ariannol neu fuddiant arall sy'n debygol o amharu ar y modd y mae person yn arfer ei swyddogaethau fel aelod o fwrdd pensiwn. Mae'r Ddeddf yn glir nad yw bod yn aelod o un o Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân ynddo'i hun yn wrthdaro buddiannau, felly ni fyddai hynny'n atal aelod o'r cynllun rhag gwasanaethu ar y Bwrdd.

Mae gan y Bwrdd bolisi ar gyfer rheoli gwrthdaro posibl er mwyn sicrhau nad yw'n dod yn wrthdaro gwirioneddol ac mae holl aelodau'r Bwrdd yn gyfarwydd â'r polisi. Yn ogystal, mae gwrthdaro buddiannau yn eitem sefydlog ar holl agendâu'r Bwrdd a chaiff unrhyw fuddiannau a nodir gan Aelodau eu cofnodi fel y gellir cymryd camau priodol i reoli'r gwrthdaro.

Ni wnaed datganiadau gan unrhyw Aelod, ymgynghorydd nac unrhyw un a fynychodd gyfarfodydd yn ystod y cyfnod perthnasol.

Gellir dod o hyd i gopi o'r polisi Gwrthdaro Buddiannau yma:

[Polisi Gwrthdaro Buddiannau]

## 5.0 Gwybodaeth a Dealltwriaeth

Mae'n ofyniad statudol yn ôl Deddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 y dylai aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol fod â'r gallu i ymgyfarwyddo â materion manwl yn ymwneud â phensiynau, a datblygu gwybodaeth amdanynt, i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

Rhaid i bob unigolyn a benodir i'r Bwrdd fod â gwybodaeth am y gyfraith yn ymwneud â phensiynau a dealltwriaeth ohoni, ac unrhyw faterion eraill a allai fod yn ofynnol yn ôl deddfwriaeth arall.

Dylai fod gan aelod o'r Bwrdd ddealltwriaeth o'r hyn sy'n berthnasol i'w rôl yn y meysydd canlynol:

- Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân;
- Unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r cynlluniau;
- Gofynion sy’n cael eu gorfodi gan y Rheoleiddiwr Pensiynau; gan gynnwys
- Y safonau a'r disgwyliadau a nodir mewn unrhyw god ymarfer perthnasol a gyhoeddir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau.

Ar ôl cael eu penodi, mae'n ofynnol i Aelodau gwblhau'r modiwlau hyfforddi ar-lein sydd ar gael ar wefan y Rheoleiddiwr Pensiynau. Yn ogystal, mae'r Awdurdod yn darparu hyfforddiant cynefino i Aelodau newydd o'r Bwrdd a sesiynau hyfforddi parhaus yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd i'r holl Aelodau i'w cynorthwyo i gyflawni eu rôl.

Mae Rheolwr y Cynllun yn cadw cofnodion priodol o'r gweithgareddau dysgu a ddarperir i Aelodau unigol a'r Bwrdd cyfan. Anogir Aelodau'r Bwrdd i nodi eu hanghenion hyfforddi eu hunain fel bod yr hyfforddiant a ddarperir yn parhau i fod yn berthnasol ac yn briodol. Darperir hyfforddiant trwy becyn cymorth sector cyhoeddus y rheoleiddiwr pensiynau, trwy ddigwyddiadau allanol fel y rhai a ddarperir gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol a hefyd trwy hyfforddiant mewnol.

Gweler amserlen yn manylu ar yr hyfforddiant a gyflawnwyd gan Aelodau'r Bwrdd yn ystod 2023/24 isod:

| Dyddiad | Pynciau a Gwmpaswyd |
|---|---|
| 28 Ebrill 2023 | Ariannu'r cynllun pensiwn |
| 11 Gorffennaf 2023 | Prisiad y cynllun pensiwn |
| 24 Hydref 2023 | Newidiadau i'r cynllun yn dilyn gwahaniaethu ar sail oedran |
| 28 Chwefror 2024 | Trosolwg o'r cynllun |

## 6.0 Rhaglen Waith 2023/24

Cyfarfu'r Bwrdd ar bedwar achlysur yn ystod y flwyddyn ariannol a diffiniwyd cwmpas ei waith gan y Cylch Gwaith. Mae'r Bwrdd yn cymeradwyo ac yn adolygu'r Cylch Gwaith yn flynyddol a chafodd y fersiwn diweddaraf ei gymeradwyo yn y cyfarfod ar 11 Gorffennaf 2023. Gellir dod o hyd i'r Cylch Gwaith trwy'r ddolen ganlynol:

Bwrdd Pensiwn Lleol - Awdurdod Tân ac Achub - Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (llyw.cymru)

Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024, cafodd y materion penodol canlynol eu hystyried gan y Bwrdd:

- Adolygu a chymeradwyo'r Cylch Gwaith;
- Ystyried yr her gyfreithiol genedlaethol sy'n ymwneud â'r trefniadau cynllun pensiwn trosiannol (Dyfarniad McCloud);
- Ystyried y mater cyfreithiol sy'n ymwneud â'r trefniadau pensiwn ar gyfer diffoddwyr tân ar alwad (Dyfarniad O'Brien);
- Diweddariad ar y Gronfa Bensiwn yn dilyn cyfrifon archwiliedig 2022/23
- Cadarnhad o ganlyniad prisiad GAD 2020;
- Diweddariad gwybodaeth a hyfforddiant;
- Y newyddion diweddaraf am achosion yr Ombwdsmon Pensiynau; a
- Diweddariad ar y risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynllun ac adolygiad i'r gofrestr risg.

Mae pob agenda hefyd yn cynnwys yr eitemau sefydlog canlynol:

- Datganiadau o Fuddiant;
- Cofnodion y cyfarfod diwethaf;
- Adroddiad Diweddaru Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân sy'n canolbwyntio ar aelodaeth a chŵynion mewnol ac achosion a gyfeiriwyd at yr Ombwdsmon Pensiynau;
- Adroddiad Diweddaru'r Gweinyddwyr (Cronfa Bensiwn Dyfed) yn cadarnhau cydymffurfiaeth â chylchlythyrau Llywodraeth Cymru ac ansawdd data;
- Diweddariad ar faterion cyfreithiol sy'n effeithio ar y cynllun;
- Diweddariad Bwrdd Cynghori'r Cynllun;
- Hyfforddiant ar gyfer aelodau'r BPLl;
- Cofrestr Risg; a
- Materion i'w huwchgyfeirio i'r Awdurdod llawn.

Ers sefydlu'r Bwrdd Pensiwn Diffoddwyr Tân Lleol yn 2015, mae gwaith y Bwrdd wedi'i lywio gan aelodau'r Bwrdd a chan y swyddogion sy'n cefnogi'r Bwrdd. Mae rhai adroddiadau rheolaidd wedi cael eu datblygu, sef:

- Adroddiad Diweddaru Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am ddarnau sylweddol o waith yn ymwneud â phensiynau, ac sy'n cynnwys materion lleol a chenedlaethol. Yn ogystal â gwella gwybodaeth a dealltwriaeth aelodau'r Bwrdd, mae'r adroddiad rheolaidd hwn yn sbarduno trafodaeth ar lefel y Bwrdd am effaith materion ar aelodau'r Cynllun Pensiwn a sut mae llwythi gwaith yn cael eu rheoli. Mae hyn yn helpu i gyflawni pwrpas y Bwrdd, sef sicrhau llywodraethu a gweinyddu effeithiol;
- Adroddiad Diweddaru Cronfa Bensiwn Dyfed, sy'n cael ei baratoi gan y gweinyddwyr ac sy'n rhoi sicrwydd bod y cynllun yn cael ei weinyddu'n briodol. Yn ogystal â darparu diweddariadau rheoleiddiol, mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar faterion llwyth gwaith penodol, megis cysoni â'r Isafswm Pensiwn Gwarantedig, ansawdd data, apeliadau, achosion o dor-diogelwch a lefelau gweithgarwch ar y teclyn 'Fy Mhensiwn Ar-lein'; a
- Rhannau penodol o'r Gofrestr Risg sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd gan Reolwr y Cynllun ac a gyflwynir i'r Bwrdd ym mhob cyfarfod, gan dynnu sylw at unrhyw newidiadau. Mae hyn yn galluogi i'r Bwrdd gadw golwg ar y risgiau allweddol a'r mesurau rheoli sydd wedi'u cynllunio i reoli'r risgiau hynny.

Mae mwy o fanylion ar gael yn agendâu a chofnodion y cyfarfodydd Bwrdd uchod, a gellir cael gafael arnynt trwy ddilyn y ddolen ganlynol: Bwrdd Pensiwn Lleol

## 8.0 Rhaglen Waith 2024/25

Mae Bwrdd Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn cynnal rhaglen waith sy'n cael ei hystyried ym mhob cyfarfod. Gan fod y Bwrdd wedi cwblhau nifer o weithgareddau hyfforddi, bydd yn dechrau dewis pynciau i'w dadansoddi'n fanwl gyda'r bwriad o wneud argymhellion i'r Awdurdod yn ôl yr angen.

Mae'r Rhaglen Waith ar gyfer 2024/25 fel y nodir isod:

## Blaenraglen Waith y Bwrdd Pensiwn Lleol 2024/25

| **Eitem agenda** | Cyfarfod 1 | Cyfarfod 2 | Cyfarfod 3 | Cyfarfod 4 |
|---|---|---|---|---|
| Adolygu'r aelodaeth a chadarnhau dyddiadau cyfarfodydd | X | | | |
| Adroddiad diweddaru'r Gwasanaeth | X | X | X | X |
| Adroddiad diweddaru'r Gweinyddwr | X | X | X | X |
| Heriau cyfreithiol a materion rheoleiddiol | X | X | X | X |
| Bwrdd Cynghori'r Cynllun i Gymru | X | X | X | X |
| Y Gofrestr Risg | X | X | X | X |
| Cynefino Aelodau | Mae hyn yn mynd rhagddo wrth i aelodau newydd gael eu penodi i'r BPLl | | | |
| Dadansoddiad o anghenion hyfforddi | X | | | |
| Diweddariad hyfforddiant | X | X | X | X |
| Y Rheoleiddiwr Pensiynau – agweddau ar lywodraethu da | | X | X | X |
| Adroddiad Blynyddol | X | | | |
| Diweddariad Polisi yn ôl Disgresiwn | | | X | |
| Adolygiad o'r Cylch Gwaith | | | | X |
| Eitemau arwyddocaol i'w huwchgyfeirio i'r Awdurdod Tân ac Achub | X | X | X | X |

**Atodiad 2**

## Cylch Gwaith Bwrdd Pensiwn Lleol
## Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

1. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r cylch gwaith ar gyfer Bwrdd Pensiwn Lleol Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, fel sy'n ofynnol yn ôl Deddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Diwygio) (Llywodraethu) 2015.

### Rheoli'r Cynllun

2. Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, fel yr awdurdod gweinyddu, yw Rheolwr y Cynllun. Cyflawnir ei swyddogaethau yn unol â chynllun dirprwyo'r Awdurdod gan y Trysorydd a'r Prif Swyddog Tân.

### Y Bwrdd Pensiwn Lleol

3. Rôl y Bwrdd Pensiwn Lleol yw cynorthwyo Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod), fel yr awdurdod gweinyddu, gyda'r pethau canlynol:

   - sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau'r cynllun a deddfwriaeth arall sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r cynllun;
   - sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion a osodwyd mewn perthynas â'r cynllun gan y Rheoleiddiwr Pensiynau;
   - sicrhau bod Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn cael eu llywodraethu a'u gweinyddu'n effeithiol ac effeithlon ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed;
   - rôl y Bwrdd fydd goruchwylio'r materion hyn ac nid gwneud penderfyniadau;
   - gwneud unrhyw waith perthnasol yn ôl y gofyn; ac
   - unrhyw faterion eraill y gall rheoliadau'r cynllun eu pennu.

4. Bydd y Bwrdd Pensiwn Lleol yn sicrhau y cydymffurfir â'r Cod Ymarfer ar lywodraethu a gweinyddu a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau. Bydd y Bwrdd hefyd yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion gwybodaeth a dealltwriaeth yng Nghod Ymarfer y Rheoleiddiwr Pensiynau.

5. Mae'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn atebol i'r Rheoleiddiwr Pensiynau, Bwrdd Cynghori Cenedlaethol y Cynllun a'r Awdurdod Gweinyddu yn eu rôl fel Rheolwr y Cynllun.

6. Bydd prif swyddogaethau'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn cynnwys, ymhlith pethau eraill:

- adolygu prosesau gwneud penderfyniadau, polisïau a gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau perthnasol;
- ceisio sicrwydd bod y rhain yn cael eu dilyn o ran penderfyniadau ynghylch Pensiynau;
- ceisio sicrwydd bod y perfformiad gweinyddol yn cydymffurfio â fframwaith perfformiad yr Awdurdod a bod trefniadau monitro yn ddigonol a chadarn;
- ystyried effeithiolrwydd cyfathrebu gyda chyflogwyr ac aelodau'r cynllun gan gynnwys adolygiad o'r Strategaeth Gyfathrebu; ystyried a rhoi sylwadau ar argymhellion archwilio mewnol ac adroddiadau archwilwyr allanol.

7. Ymdrinnir ag unrhyw gŵyn neu honiad o dorri'r Rheoliadau a ddygir i sylw'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn unol â'r Cod Ymarfer a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau.

## Amlder Cyfarfodydd a Rhoi Gwybod am Gyfarfodydd

8. Bydd y Bwrdd Pensiwn Lleol yn cyfarfod yn ddigon rheolaidd i gyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau'n effeithiol; bydd pedwar cyfarfod yn cael eu trefnu yn ystod pob blwyddyn ariannol.

9. Bydd y Swyddog Cyswllt Aelodau yn rhoi gwybod i holl aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol am bob cyfarfod o'r Bwrdd, gan gynnwys dyddiad, lleoliad ac amser y cyfarfod, a bydd yn sicrhau bod cofnod ffurfiol o drafodion y Bwrdd Pensiwn Lleol yn cael ei gadw.

10. Darperir y papurau dri diwrnod gwaith cyn pob un o gyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd Pensiwn Lleol.

11. Bydd holl agendâu, a phapurau a chofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Pensiwn Lleol nad ydynt yn gyfrinachol, yn cael eu cyhoeddi ar wefan ATAGC, ynghyd â Chylch Gwaith y Bwrdd a manylion am aelodaeth y Bwrdd.

## Aelodaeth

12. Bydd y Bwrdd Pensiwn Lleol yn cynnwys dim llai na 10 aelod (cyfanswm), a rhaid iddo gynnwys cydbwysedd cyfartal o gynrychiolwyr cyflogwyr ac aelodau'r cynllun (cyflogeion). Bydd y rhain fel a ganlyn:

| Etholaeth | Diffiniad/Cyfyngiadau |
|---|---|
| Cyflogwr | Cynrychioli ATAGC |
| Aelod o'r Cynllun (cyflogai) | Cynrychioli holl aelodau'r cynllun (gweithredol, gohiriedig a phensiynwyr) |

13. Bydd cyfnod swydd holl aelodau'r Bwrdd yn cyd-fynd ag etholiadau'r cyngor ac felly rhagwelir y bydd yr aelodaeth yn parhau tan 2027. Gall aelodau, ar ddiwedd eu tymor, fynegi dymuniad i gael eu hystyried ar gyfer cael eu hailethol.

14. Rhaid i aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol fodloni gofynion presenoldeb a hyfforddiant allweddol er mwyn cadw eu haelodaeth yn ystod y cyfnod hwn. Rhaid i bob aelod:

- ymdrechu i fynychu holl gyfarfodydd y Bwrdd;
- cydymffurfio â'r cynllun hyfforddi a gynhyrchwyd gan y Rheolwr Pensiynau; a
- sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Chod Ymarfer y Rheoleiddiwr Pensiynau.

15. Bydd gan bob Cynrychiolydd Cyflogwr a Chynrychiolydd Aelodau'r Cynllun hawl unigol i bleidleisio.

16. Rhaid i bob aelod o fewn Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân gael cyfle cyfartal i gael eu henwebu ar gyfer rôl cynrychiolydd aelodau.

17. Er mwyn penodi cynrychiolwyr cyflogwyr i'r Bwrdd, ceisir enwebiadau gan holl aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub. Bydd y Trysorydd a'r Swyddog Monitro (neu ddirprwy) hefyd yn cynrychioli'r cyflogwr.

18. Er mwyn penodi cynrychiolwyr aelodau'r cynllun (cyflogeion) i'r Bwrdd, gofynnir am enwebiadau drwy'r Cynrychiolwyr Adrannol a Fforwm yr Undebau Llafur a gofynnir am enwebiadau pellach drwy roi hysbyseb ar wefan yr Awdurdod. Lle derbynnir mwy na thri enwebiad bydd ymgeiswyr yn cael eu hystyried, eu rhoi ar y rhestr fer a'u cyfweld gan gynrychiolydd Rheolwr y Cynllun a fydd wedyn yn gwneud argymhellion i'r Prif Swyddog Tân i'w penodi'n ffurfiol.

19. Os bydd aelod o'r Bwrdd Pensiwn Lleol sy'n gweithredu fel cynrychiolydd cyflogwr yn gadael cyflogaeth y cyflogwr y mae'n ei gynrychioli, ni fydd bellach yn gymwys i eistedd ar y Bwrdd.

20. Os bydd aelod o'r Bwrdd yn absennol yn gyson, neu os bydd yn methu â bodloni'r gofynion presenoldeb a hyfforddiant allweddol fel y nodir yn (13) uchod, bydd deiliadaeth yr aelod hwnnw'n cael ei hadolygu. Yn achos cynrychiolydd aelodau, gwneir hyn gan gynrychiolydd Rheolwr y Cynllun, a all wneud argymhelliad i ddiddymu'r aelodaeth os ystyrir bod angen. Mewn achos o'r fath, bydd hawl i apelio i'r Prif Swyddog Tân cyn unrhyw argymhelliad. Yn achos cynrychiolydd cyflogwr, bydd unrhyw benderfyniad o'r fath yn cael ei ystyried gan gadeirydd yr Awdurdod Tân ac Achub.

21. Os yw cynrychiolydd cyflogwr neu aelodau'r cynllun yn dymuno ymddiswyddo rhaid iddynt ysgrifennu at y Prif Swyddog Tân, gan roi o leiaf mis o rybudd.

22. Bob dwy flynedd, bydd Cadeiryddiaeth y Bwrdd Pensiwn Lleol yn newid am yn ail rhwng aelod sy'n cynrychioli'r cyflogwyr ac aelod sy'n cynrychioli aelodau'r cynllun.

23. Swyddogaeth cynrychiolydd sy'n gweithredu fel Cadeirydd fydd:

- cytuno ar a gosod yr agenda ar gyfer cyfarfod o'r Bwrdd
- rheoli'r cyfarfodydd i sicrhau bod busnes y cyfarfod yn cael ei gwblhau o fewn yr amser y cytunwyd arno
- sicrhau bod holl aelodau'r Bwrdd yn dangos parch dyledus i'r broses a bod pob barn yn cael ei chlywed a'i hystyried yn llawn
- ymdrechu cymaint â phosibl i gael consensws fel canlyniad
- sicrhau bod y camau gweithredu a'r rhesymeg dros y penderfyniadau a wneir yn glir ac yn cael eu cofnodi'n gywir.

24. Oherwydd natur arbenigol gwaith y Bwrdd, disgwylir presenoldeb personol ym mhob cyfarfod gan holl aelodau'r Bwrdd heb unrhyw ddarpariaeth ar gyfer eilydd. Fodd bynnag, byddai dirprwyon yn cael eu caniatáu, ond byddent yn gyfrifol am gynnal eu hyfforddiant eu hunain i sicrhau eu bod yn gyfarwydd â materion pensiynau.

25. Gall y Bwrdd, gyda chymeradwyaeth y Prif Swyddog Tân, gyfethol personau nad ydynt yn aelodau i gynorthwyo'r Bwrdd am gyfnod neu ar gyfer tasg benodol lle byddai hynny'n darparu sgiliau, gwybodaeth neu brofiad ychwanegol. Ni fyddai'r aelodau cyfetholedig yn cael pleidleisio.

**Cworwm**

26. Rhaid i chwe aelod o'r Bwrdd fod yn bresennol er mwyn i gyfarfod fod â chworwm. Os yw'r Cadeirydd yn absennol mewn cyfarfod a bod cworwm, yna rhaid i'r aelodau sy'n mynychu ddewis Cadeirydd i lywyddu'r cyfarfod hwnnw.

**Gwybodaeth a Sgiliau**

27. Rhaid i aelod o'r Bwrdd Pensiwn fod yn gyfarwydd â'r pethau canlynol:

- deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig y pedwar Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân; ac
- unrhyw bolisïau, gweithdrefnau neu brosesau gwneud penderfyniadau ynghylch gweinyddu'r Cynlluniau a fabwysiadwyd gan ATAGC a Chronfa Bensiwn Dyfed.

28. Rhaid i aelod o'r Bwrdd Pensiwn Lleol feddu ar wybodaeth a dealltwriaeth o'r gyfraith sy'n ymwneud â phensiynau ac unrhyw faterion eraill a ragnodir yn y Rheoliadau.

29. Mater i aelodau unigol y Bwrdd Pensiwn yw bod yn fodlon bod ganddynt yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth briodol i'w galluogi i arfer eu swyddogaethau'n briodol fel aelod o'r Bwrdd Pensiwn.

30. Mae'n ofynnol i aelodau'r Bwrdd Pensiwn allu dangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ac adnewyddu a diweddaru eu gwybodaeth. Mae'n ofynnol felly i aelodau'r Bwrdd Pensiwn gadw cofnod ysgrifenedig o hyfforddiant a datblygiad perthnasol.

31. Rhaid i aelodau'r Bwrdd Pensiwn gadarnhau i'r Rheolwr Pensiynau o fewn chwe mis o ymuno â'r Bwrdd eu bod wedi cwblhau hyfforddiant y Rheoleiddiwr Pensiynau.

32. Yn ystod cyfarfod cyntaf y flwyddyn ariannol, rhaid i aelodau'r Bwrdd Pensiwn ystyried a chytuno ar raglen hyfforddi flynyddol.

## Safonau Ymddygiad a Gwrthdaro Buddiannau

33 Mae rôl aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn gofyn am y safonau ymddygiad uchaf ac felly bydd 'saith egwyddor bywyd cyhoeddus' yn gymwys i holl aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol. Bydd yn ofynnol i aelodau'r Bwrdd gadw at god ymddygiad yr aelodau a pholisïau diogelu data yr Awdurdod. Mae'n ofynnol i'r Bwrdd weithredu o fewn y cylch gwaith hwn bob amser. Yn unol â Deddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 ni ddylai aelod o'r bwrdd fod â buddiant ariannol neu fuddiant arall a allai achosi rhagfarn wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau i'r Bwrdd. Nid yw hyn yn cynnwys buddiant ariannol neu fuddiant arall sy'n codi yn rhinwedd aelodaeth o'r cynllun pensiwn (FPS) yn unig.

34 Felly, bydd yn ofynnol i bob aelod o'r Bwrdd Pensiwn Lleol ddatgan unrhyw fuddiannau ac unrhyw wrthdaro buddiannau posibl yn unol â gofynion Deddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a Chod y Rheoleiddiwr Pensiynau. Mae angen y datganiadau hyn fel rhan o'r broses benodi, yn ogystal ag ar adegau rheolaidd drwy gydol cyfnod aelodaeth yr aelod.

## Adrodd

35 Disgwylir i'r Bwrdd gynhyrchu adroddiad blynyddol i'r Awdurdod a ddylai gynnwys:

- crynodeb o waith y Bwrdd Pensiwn Lleol a chynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod;
- manylion meysydd o bryder yr adroddwyd yn eu cylch i'r Bwrdd neu a godwyd ganddo ac argymhellion a wnaed;
- manylion unrhyw wrthdaro buddiannau sydd wedi codi mewn perthynas ag aelodau unigol o'r Bwrdd Pensiwn Lleol a sut cafodd y rhain eu rheoli;
- unrhyw feysydd risg neu bryder y mae'r Bwrdd yn dymuno eu codi â Rheolwr y Cynllun;

- manylion yr hyfforddiant a dderbyniwyd ac anghenion hyfforddi a nodwyd;
- manylion unrhyw dreuliau a chostau yr aethpwyd iddynt gan y Bwrdd Pensiwn Lleol ac unrhyw dreuliau a ragwelir ar gyfer y flwyddyn i ddod.

36 Er mai dim ond un adroddiad blynyddol y mae'n ofynnol i'r Bwrdd ei lunio, bydd cofnodion pob cyfarfod o'r Bwrdd yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

37 Pe bai gan y Bwrdd bryderon y credir eu bod yn ddigon difrifol i'w hadrodd ar lefel uwch na'r arfer (i'r Rheolwr Pensiynau) dylent adrodd i'r Prif Swyddog Tân. Gall hyn gynnwys, ymhlith pethau eraill, achlysuron pan fydd y Bwrdd yn teimlo na weithredwyd ar argymhellion blaenorol. Mewn achosion eithafol megis toriad sylfaenol o Reoliadau neu fethiant sylfaenol gan yr Awdurdod Gweinyddu i sicrhau bod y gronfa'n cael ei llywodraethu'n effeithiol, gall y Bwrdd ystyried adrodd i Fwrdd Cynghori Cenedlaethol y Cynllun a/neu'r Rheoleiddiwr Pensiynau.

**Cydnabyddiaeth ariannol**

38 Bydd cydnabyddiaeth ariannol i aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn cael ei chyfyngu i ad-daliad o'r treuliau gwirioneddol yr aethpwyd iddynt wrth fynychu cyfarfodydd y Bwrdd a hyfforddiant. Disgwylir y bydd cyflogwyr aelodau'r bwrdd yn darparu capasiti priodol i ganiatáu i'r aelod gyflawni'r rôl hon o fewn ei ddiwrnod gwaith arferol heb unrhyw ostyngiad mewn cyflog.

39 Dylid cyflwyno hawliadau am dreuliau heb fod yn hwy nag un mis ar ôl y gwariant.

**Cyhoeddi Gwybodaeth y Bwrdd Pensiwn Lleol**

40 Bydd yr wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei chyhoeddi ar wefan yr Awdurdod gan ddangos:

- enwau a manylion aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol;
- sut mae aelodau'r cynllun a chyflogwyr yn cael eu cynrychioli ar y Bwrdd Pensiwn Lleol;
- cyfrifoldebau'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn ei gyfanrwydd;
- cylch gwaith llawn a pholisïau'r Bwrdd Pensiwn Lleol a sut maent yn gweithredu; a
- phroses benodi'r Bwrdd Pensiwn Lleol.

**Adolygiad**

41 Mabwysiadwyd y cylch gwaith hwn yn ffurfiol gan y Bwrdd yn ei gyfarfod cyntaf ar 20 Ebrill 2015 a chaiff ei adolygu'n flynyddol, neu ar adeg newidiadau statudol neu reoleiddiol.

42 Mae'r Prif Swyddog Tân wedi'i awdurdodi i wneud mân newidiadau, o ganlyniad i newid statudol neu reoleiddiol, neu i ddiweddaru trefniadau yn sgil ffactorau allanol eraill.

*This document is available in English* **Eitem Agenda 14**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **15 Gorffennaf 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyllid ac Adnoddau** |
| Pwnc | **Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân – y diweddaraf am yr heriau cyfreithiol** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) am y newidiadau statudol i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn dilyn heriau cyfreithiol sylweddol. Cyfeirir atynt gan amlaf fel ymarferion rhwymedi pensiwn McCloud ac O'Brien (Matthews 2).

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae'r heriau cyfreithiol diweddar i gynlluniau pensiwn sector cyhoeddus y DU wedi arwain at newidiadau rheoleiddiol i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân. Mae angen gwneud y newidiadau hyn er mwyn mynd i'r afael â dau brif fater: gwahaniaethu ar sail oedran yn dilyn cyflwyno Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2015 (Dyfarniad McCloud); a mater hanesyddol yn ymwneud â'r trefniadau pensiwn ar gyfer gweithwyr rhan-amser (Dyfarniad O'Brien).

3 Mae'r newidiadau a wnaed yn sgil dyfarniad McCloud yn golygu y bydd angen adolygiad ôl-weithredol o fuddion pensiwn yr aelodau pensiwn cymwys ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022. Mae hyn yn cynnwys rhoi dewisiadau pensiwn i aelodau sydd wedi ymddeol, i fuddiolwyr, i aelodau gohiriedig ac i aelodau gweithredol. Mae'r gwaith o gysoni cofnodion cyflogres a phensiwn y staff sydd o fewn cwmpas hyn wedi dechrau, a bydd hyn yn caniatáu i ddatganiadau gwasanaeth rhwymedïol gael eu cynhyrchu erbyn y terfyn amser, sef 31 Mawrth 2025. Fodd bynnag, nid oes modd bwrw ymlaen â'r gwaith o brosesu dewisiadau rhai aelodau sydd wedi ymddeol oherwydd mater treth cenedlaethol.

4 Mae'r newidiadau a wnaed yn sgil dyfarniad O'Brien yn golygu bod angen adolygu'r contractau sy'n ymwneud â staff rhan-amser cymwys sy'n mynegi diddordeb mewn derbyn buddion pensiwn o ddechrau eu cyflogaeth. Bydd staff sy'n dymuno bwrw ymlaen yn cael caniatâd i brynu eu hawl pensiwn yn ôl. Mae'r rheoliadau'n nodi bod rhaid cwblhau'r gwaith hwn erbyn 31 Awst 2025.

## ARGYMHELLIAD

5 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) Nodi'r gofynion statudol i weithredu'r newidiadau a wnaed i reoliadau'r Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân; a
ii) Chymeradwyo'r cynigion a nodir yn yr adroddiad hwn ar gyfer rheoli achosion y mae'r deddfau treth yn effeithio arnynt.

## SYLWADAU GAN Y BWRDD PENSIWN LLEOL

6 Mae'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn cael diweddariadau rheolaidd ar gynnydd y gwaith o weithredu'r newidiadau gofynnol, ac mae wedi nodi cymhlethdod y materion hyn ynghyd â'r heriau sylweddol o ran bodloni'r amserlenni statudol.

## CEFNDIR

7 Deddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus (2013) yw'r brif ddeddfwriaeth alluogi ar gyfer holl gynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus. Gan fod y cyfrifoldeb dros reoli Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn swyddogaeth ddatganoledig yng Nghymru, y Senedd sydd yn gyfrifol am ddiweddaru ac am gynnal y rheoliadau. Yr Awdurdod yw Rheolwr y Cynllun, ac mae'n gyfrifol am gydymffurfio â'r rheoliadau sylfaenol.

8 Bu dwy her gyfreithiol sylweddol sy'n berthnasol i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân: Dyfarniad McCloud sy'n ymwneud â gwahaniaethu ar sail oedran, a Dyfarniad O'Brien sy'n ymwneud â'r trefniadau pensiwn ar gyfer gweithwyr rhan-amser.

## GWYBODAETH

## DYFARNIAD MCCLOUD

9 Yn dilyn adolygiad yr Arglwydd Hutton o bensiynau'r sector cyhoeddus yn 2011, darparodd Deddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus (2013) fframwaith cyfreithiol ar gyfer diwygio cynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus. Roedd y diwygiadau yn cynnwys cyfyngu ar gynlluniau cyflog terfynol oedd yn bodoli eisoes, ymestyn oedrannau ymddeol, a chyflwyno cynlluniau Enillion Gyrfa Cyfartalog wedi'u Hailbrisio (CARE).

10 Yn 2015, diwygiwyd y rhan fwyaf o gynlluniau pensiwn y gwasanaethau cyhoeddus er mwyn darparu buddion diffiniedig, ar sail CARE, ac ymestynnwyd oedran ymddeol arferol aelodau. Diwygiwyd rheoliadau'r cynlluniau pensiwn er mwyn cyflwyno'r newidiadau hyn, ac roedd y rheoliadau diwygiedig hefyd yn diogelu rhai aelodau penodol o gynlluniau cyflog terfynol oedd yn bodoli eisoes. Roedd y diogeliad hwn yn gysylltiedig ag oedran, a rhoddwyd diogeliad llawn i aelodau a oedd wedi cyrraedd yr oedran pensiwn arferol o 55 erbyn 31 Mawrth 2012, gyda'r aelodau eraill yn cael diogeliad graddedig yn ddibynnol ar eu hoedran. Cydnabuwyd mai diogeliad trosiannol oedd hwn, a chafodd aelodau nad oeddent yn gymwys ar gyfer y diogeliad trosiannol neu fel arall (heb ddiogeliad) eu symud o'u cynlluniau gwreiddiol i'r cynllun newydd, Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân 2015, ar 1 Ebrill 2015.

11 Yn 2018, dyfarnodd y Llys Apêl fod elfen diogeliad trosiannol diwygiadau 2015 i bensiynau'r gwasanaethau cyhoeddus, o fewn Cynlluniau Pensiwn Diffoddwyr Tân, yn gyfystyr â gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail oedran. Cyfeirir at hyn bellach fel achos McCloud/Sargeant. Ar sail y penderfyniad hwn, cadarnhaodd y Llywodraeth y byddai'n cael gwared ar y gwahaniaeth hwn o ran y ffordd yr oedd aelodau'n cael eu trin ym mhob un o gynlluniau pensiwn y gwasanaethau cyhoeddus.

12 Ym mis Hydref 2020, ymrwymodd Llywodraeth y DU i ymgynghori â'r cyhoedd ar y ffordd ymlaen o ran cynlluniau pensiwn y gwasanaethau cyhoeddus ac, yn benodol, sut y dylai ymateb i'r manylion a amlinellwyd yn y dyfarniad. Cyhoeddwyd canlyniadau'r ymgynghoriad ar 4 Chwefror 2021, a mabwysiadwyd yr opsiwn a elwid 'the Deferred Choice Underpin'. Golyga hyn y bydd aelodau'n cael dewis o blith opsiynau buddion y cynlluniau ychydig amser cyn y telir eu buddion o'r cynllun, ar yr adeg pan fyddant yn ymddeol. Yn y cyfamser, ar gyfer y cyfnod rhwymedïol, ystyrir mai yn eu cynlluniau gwreiddiol y cronnodd yr aelodau eu buddion, yn hytrach nag yn y cynlluniau diwygiedig. Penderfynwyd mai'r cyfnod rhwymedïol yw'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022.

13 Rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022 (PSPJO) ar 10 Mawrth 2022, ac mae'n darparu fframwaith eang i ganiatáu i gynlluniau pensiwn y gwasanaethau cyhoeddus gywiro effaith gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail oedran.

14 Roedd dwy elfen ar wahân i'r newidiadau a wnaed i'r ddeddfwriaeth: daeth y gyntaf i rym ar 1 Ebrill 2022 ac fe'i gelwid yn Rhwymedi Arfaethedig, gan olygu y byddai holl aelodau Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn dod yn aelodau o Gynllun Diwygiedig 2015 yn awtomatig o'r dyddiad hwnnw.

15 Daeth yr ail, sy'n cael ei galw'n Rhwymedi Ôl-weithredol, i rym ar 1 Hydref 2023, ac roedd yn golygu bod y rhai a oedd yn aelodau o gynllun tân yn ystod y cyfnod rhwymedïol yn cael dewis cymryd y buddion hynny naill ai yn y cynllun gwreiddiol cyflog terfynol neu yn y cynllun diwygiedig cyfartaledd gyrfa.

16 Mae'r newidiadau cymhleth hyn, sy'n rhan o'r Rhwymedi Ôl-weithredol, yn rhan fawr o'r ymarfer rhwymedïol cenedlaethol sy'n digwydd ar hyn o bryd. Mae amserlenni Ymarfer Rhwymedi McCloud wedi'u nodi yn y ddeddfwriaeth newydd, ac maent yn nodi bod rhaid i aelodau gweithredol y cynllun pensiwn, y rhai sydd eisoes wedi ymddeol, a dibynyddion aelodau fod wedi derbyn Datganiad Gwasanaeth Rhwymedïol erbyn 31 Mawrth 2025 ar yr hwyraf.

17 Mae'r gwaith i ddarparu'r Datganiad Gwasanaeth Rhwymedïol yn cynnwys adolygiad llawn o bob cofnod cyflogres ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, a hynny er mwyn pennu'r elfennau pensiynadwy ar gyfer y cynllun gwreiddiol a'r cynllun cyfartaledd gyrfa.

18 Er mwyn hwyluso cynnydd y prosiect, mae'r aelodau wedi cael eu rhannu'n garfanau, gyda gwahanol gerrig milltir wedi'u gosod a chefnogaeth genedlaethol ar gael gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol. Gosodwyd y cerrig milltir hyn er mwyn cadw'r prosiect ar y trywydd iawn, er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei gwblhau'n brydlon, a hefyd er mwyn helpu i reoli disgwyliadau aelodau.

19 Gall y newidiadau i'r ddeddfwriaeth bensiwn hefyd arwain at oblygiadau treth canlyniadol i'r rhai yr effeithir arnynt, ac mae'r diweddariadau cyfreithiol hefyd wedi cynnwys newidiadau i ddeddfwriaeth treth. Fodd bynnag, daeth i'r amlwg nad yw'r ddeddfwriaeth dreth bresennol yn ddigonol ar gyfer yr holl amgylchiadau a bod angen newidiadau pellach i'r ddeddfwriaeth dreth sylfaenol neu Ddatganiad Gweinidogol Ysgrifenedig. Ni wnaethpwyd digon o gynnydd ar hyn cyn i etholiad cyffredinol y DU gael ei alw, ac nid oes disgwyl i'r sefyllfa gael ei datrys tan ddechrau'r hydref.

20 Nid yw'r rheoliadau treth cyfredol yn caniatáu i dreth sydd eisoes wedi'i thalu ar gyfandaliadau gael ei gosod yn erbyn symiau sy'n ddyledus pan gaiff y cyfandaliad ei ailgyfrifo at ddibenion rhwymedi. Oni cheir datrysiad, bydd hyn yn golygu bydd aelod yn atebol i dalu mwy o dreth nag y gellid ei hawlio yn ôl ar hyn o bryd. Dim ond ar aelodau sydd eisoes wedi ymddeol ac a dderbyniodd gyfandaliad anawdurdodedig ar eu hymddeoliad (h.y. oherwydd rheolau'r cynllun roedd y cyfandaliad yn fwy na'r cyfandaliad di-dreth a ganiateir o dan reolau CThEF) y mae hyn yn effeithio.

21 Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o achosion ac o'r risg sy'n gysylltiedig â'r mater treth, a chynigir y bydd y rhai yn y categori gwyrdd yn symud ymlaen yn unol â'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt. Bydd yr achosion ambr yn cael eu hystyried fesul achos tra bydd yr achosion coch yn cael eu gohirio dros dro hyd nes y bydd y goblygiadau treth yn cael eu datrys.

| Gwyrdd | Ambr | Coch |
|---|---|---|
| • Aelodau FPS 2007 gwreiddiol sydd **ddim** yn gymwys dan Matthews 2 neu sydd heb ddewis eto<br>• Aelodau RDS addasedig gwreiddiol sydd **ddim** yn gymwys dan Matthews 2 neu sydd heb ddewis eto<br>• Aelodau FPS 1992 gwreiddiol oedd â dewis cyfnewid cyfyngedig pan ymddeolon nhw (h.y. 50 oed gyda 25 mlynedd o wasanaeth)<br>• Aelodau FPS 1992 gwreiddiol sydd dal o fewn terfynau awdurdodedig (h.y. dim cyfandaliad neu o fewn terfyn CThEF) | • Haen uwch salwch (salwch ffynhonnell sengl)<br>• Aelodau FPS 1992 gwreiddiol oedd â diogeliad neu ddiogeliad graddedig ac a ddewisodd gael y cyfandaliad mwyaf (h.y. wedi talu ffi dreth anawdurdodedig)<br>*****nad oeddent****, pan ymddeolon nhw, wedi ymuno'n raddol ag FPS 2015*<br>• Aelodau FPS 2007 gwreiddiol **sydd** â dewis Matthews 2 ond heb ei wneud eto<br>• Aelodau RDS addasedig gwreiddiol **sydd** â dewis Matthews 2 ond heb ei wneud eto | • Aelodau FPS 1992 gwreiddiol oedd â diogeliad graddedig neu heb ddiogeliad ac a ddewisodd gael y cyfandaliad mwyaf (h.y. wedi talu ffi dreth anawdurdodedig)<br>**a oedd, pan ymddeolon nhw, wedi ymuno'n raddol ag FPS 2015* |

22 Mae baich gweinyddol sylweddol yn deillio o'r newidiadau i'r rheoliadau, sydd wedi arwain at orfod blaenoriaethu achosion. Mae'r holl staff sy'n ymddeol o'r Gwasanaeth yn cael y dewis o gael buddion eu cynllun gwreiddiol neu fuddion cyfartaledd gyrfa am gyfnod y rhwymedi. Yna, mae'r gwaith yn mynd rhagddo i fodloni'r terfynau amser a bennwyd, sy'n cynnwys darparu datganiadau gwasanaeth rhwymediol ac mae'n cynnwys aelodau sydd wedi ymddeol, buddiolwyr, aelodau gohiriedig ac aelodau gweithredol.

## CEFNDIR – O'BRIEN

23 Ym mis Ebrill 2006, rhoddwyd y gorau i dderbyn aelodau newydd i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992 (FPS 1992), a chyflwynwyd Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2007 (FPS 2007), a oedd yn galluogi Diffoddwyr Tân Ar Alwad i fod yn aelodau o'r cynllun pensiwn o'r dyddiad hwnnw. Er hyn, ni newidiodd Cynllun FPS 1992 i'r diffoddwyr tân arferol hynny a oedd eisoes yn aelodau.

24 Yn hanesyddol, ni châi Diffoddwyr Tân ar Alwad ymuno â Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992 (FPS 1992), a heriwyd hyn o dan Reoliadau Gweithwyr Rhan-Amser (Atal Triniaeth Lai Ffafriol) 2000. Arweiniodd hyn at benderfyniad a alluogodd rai Diffoddwyr Tân Ar Alwad a wasanaethodd rhwng 1 Gorffennaf 2000 a 5 Ebrill 2006 i ymuno â chynllun pensiwn.

25 Rhwng 2014 a 2015, cynhaliwyd ymarfer opsiynau a roddodd gyfle i'r rhai a oedd yn gymwys i ymuno â chynllun pensiwn y diffoddwyr tân. Gan na châi aelodau newydd ymuno â chynllun 1992, addaswyd cynllun FPS 2007 er mwyn cynnig buddion a oedd yn cyfateb i gynllun 1992 (a'i alw'n gynllun addasedig 2007). Hwn oedd yr ymarferiad opsiynau cyntaf, a chyfeirir ato'n aml yn awr fel Matthews 1.

26 Yn fwy diweddar, cafodd y dyfarniad hwn ei herio yn Llys Cyfiawnder Ewrop, a hynny mewn perthynas â barnwyr y talwyd ffi iddynt. Yn yr achos hwnnw, dyfarnodd y Llys y dylid ystyried gwasanaeth o'r adeg pan ddechreuwyd cyflogaeth, a derbyniodd llywodraeth y DU fod yr un egwyddorion yn berthnasol i rai Diffoddwyr Tân Ar Alwad, p'un a oeddent wedi cyflwyno her gyfreithiol ai peidio.

27 O ganlyniad, bydd ail ymarfer opsiynau yn cael ei gynnal yn awr er mwyn caniatáu i Ddiffoddwyr Tân Ar Alwad cymwys brynu gwasanaeth pensiynadwy, wedi'i ôl-ddyddio i'r dyddiad pan ddechreuasant eu cyflogaeth. Yn rhan o'r ymarfer hwn, bydd yr unigolion canlynol yn gymwys ar gyfer yr ail ymarfer opsiynau:

I. Diffoddwyr tân ar alwad a gyflogwyd unrhyw bryd rhwng 7 Ebrill 2000 a 30 Mehefin 2000 (gan gynnwys y ddau ddyddiad hynny);
II. Diffoddwyr tân ar alwad a gyflogwyd unrhyw bryd rhwng 7 Ebrill 2000 a 30 Mehefin 2000 (gan gynnwys y ddau ddyddiad hynny) yn ogystal ag unrhyw bryd rhwng 1 Gorffennaf 2000 a 5 Ebrill 2006 (gan gynnwys y ddau ddyddiad hynny); a
III. Diffoddwyr tân ar alwad a gyflogwyd unrhyw bryd rhwng 1 Gorffennaf 2000 a 5 Ebrill 2006 (gan gynnwys y ddau ddyddiad hynny), ond ddim ar unrhyw ddyddiad rhwng 7 Ebrill ac 1 Gorffennaf 2000, a oedd yn gymwys i gymryd rhan yn yr ymarfer opsiynau cyntaf ond na chawsant gyfle i wneud hynny.

28 Er mwyn galluogi bwrw ymlaen â'r ail ymarfer opsiynau, mae'r Senedd wedi gwneud y newidiadau rheoleiddiol angenrheidiol i'r rheoliadau pensiwn. Daeth y rhain i rym ar 1 Chwefror 2024, gydag amserlen 18 mis ar gyfer gweithredu'r prosiect hwn yn llawn.

29 Mae'r Gwasanaeth wedi ysgrifennu at yr holl staff cymwys i gadarnhau eu bod yn cael eu hystyried o fewn cwmpas y broses. Mae'n rhaid i'r rhai sydd eisiau cael eu cynnwys lenwi ffurflen mynegi diddordeb, a hynny er mwyn hwyluso cyfrifiad o'u buddion os ydynt yn dymuno prynu eu hawliau pensiwn yn ôl. Mae hyn yn hynod gymhleth ac ystyried y gall hyd gwasanaeth rhai unigolion ddyddio yn ôl i'r 1960au. Mae gan y Gwasanaeth dri mis, o'r adeg pan dderbynnir y ffurflen, i ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol i'r unigolion.

30 Mae'r Gwasanaeth wedi cysylltu â staff sy'n cael eu hystyried i fod y tu allan i gwmpas y broses hefyd (h.y. diffoddwyr tân Ar Alwad a ddechreuodd wasanaethu rhwng 1 Gorffennaf 2000 a 5 Ebrill 2006 ac na chymerodd ran yn yr ymarfer opsiynau cyntaf ond a gafodd gyfle i wneud hynny), ac mae'r rhain yn cael eu trin fesul achos.

31 Ar gyfer rhai diffoddwyr tân Ar Alwad, mae cyd-ddibyniaethau rhwng ymarferion Rhwymedi McCloud ac O'Brien, a gallai hyn beri cymhlethdod wrth fodloni'r terfynau amser hyn ar gyfer rhai unigolion.

32 Mae Adran Actiwari'r Llywodraeth wedi darparu cyfrifiannell sy'n galluogi Gwasanaethau i roi gwybodaeth i staff cymwys ynghylch prynu gwasanaeth blaenorol. Mae'r broses yn un gymhleth iawn sy'n gofyn am gael gwybodaeth am gyflog ar gyfer pob blwyddyn o gyflogaeth, cyfrifo'r cyfraniadau y dylid bod wedi'u talu, y dreth a'r llog sy'n berthnasol, ynghyd â'r buddion y byddai gan yr unigolion hynny hawl i'w derbyn pe byddent yn prynu'r gwasanaeth hwn yn ôl.

33 Mae nifer o ymholiadau treth heb eu datrys, gan gynnwys goblygiadau treth taliadau ôl-weithredol a wneir mewn un flwyddyn dreth, a allai gael effaith ar sefyllfa dreth unigolyn a'r gyfradd dreth sy'n berthnasol.

34 Oherwydd y materion treth a godwyd a'r trafodaethau hir sydd ar y gweill, nid yw'n amlwg eto a fydd y terfynau amser prosesu yn cael eu diwygio.

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae gweithrediad effeithiol y cynlluniau pensiwn yn cefnogi lles staff. |
| Cyllideb | Nid oes unrhyw oblygiadau cyllidebol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r amserlenni hyn. |
| Cyfreithiol | Mae gan yr Awdurdod ofyniad statudol i sicrhau bod yr holl newidiadau deddfwriaethol yn cael eu gweithredu'n gywir ac o fewn yr amserlenni a roddir. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod weinyddu'r cynllun yn unol â'r rheoliadau cynllun sydd eisoes yn bodoli yn ogystal â rhai newydd. |
| Staffio | Mae gweithredu'r cynlluniau pensiwn yn dryloyw ac effeithiol yn sicrhau bod staff yn cael eu trin yn deg. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Nid ystyrir bod unrhyw faterion y mae angen mynd i'r afael â hwy gan fod yr argymhellion yn berthnasol yn gyfartal i bob Aelod, beth bynnag fo'u nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb Sengl. |
| Risgiau | Ac ystyried cymhlethdodau'r prosiectau hyn, yr ystyriaethau adnoddau a'r amserlenni, mae risg na ellir bodloni'r terfynau amser statudol. |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 15**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **15 Gorffennaf 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur PSTC Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Angharad Ellis, MIAA** |
| Pwnc | **Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2023/24** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 O dan delerau Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 Rhan 3 5. (2), mae'n ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) gynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ei system Rheolaeth Fewnol. Mae Archwilio Mewnol yn rhan annatod o’r system honno, ac mae’n gwneud cyfraniad sylweddol i’r gwaith o lunio’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

2 Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus CIPFA 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i’r Pennaeth Archwilio Mewnol ddarparu sicrwydd i’r Awdurdod ynglŷn â’r holl system rheolaeth fewnol, gan gynnwys pa mor ddigonol yw’r trefniadau rheoli risg a llywodraethu corfforaethol.

3 Mae’r adroddiad yn dadansoddi gwaith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2023/24 ac yn cynnwys y datganiad sicrwydd yn seiliedig ar waith Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2024.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

4 Mae’r Pennaeth Archwilio Mewnol yn gallu rhoi sicrwydd i’r Awdurdod, yn seiliedig ar y gwaith archwilio mewnol a wnaed, ynghyd â’n gwybodaeth barhaus am y sefydliad a’i weithdrefnau, fod gan yr Awdurdod drefniadau effeithiol ar gyfer llywodraethu corfforaethol, rheoli risgiau a rheolaeth fewnol er mwyn rheoli’r gwaith o gyflawni amcanion yr Awdurdod.

5 Mae'r adolygiadau archwilio yn rhoi lefel sylweddol o sicrwydd ynghylch digonolrwydd y systemau rheolaeth fewnol sydd ar waith, gyda 23 o argymhellion wedi'u gwneud yn ystod y flwyddyn i fynd i'r afael â rhai gwendidau. Mae proses ddilynol ffurfiol yn ei lle i sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu gweithredu o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt.

6 Nid yw’r gwaith Archwilio Mewnol wedi canfod unrhyw wendidau a fyddai’n rhoi amod ar y farn hon ac nid oes unrhyw faterion o bwys yn berthnasol wrth lunio’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

7 Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys sicrwydd fod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gweithredu yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig i alluogi'r Awdurdod i gael sicrwydd o'r farn hon.

## SYLWADAU GAN BWYLLGOR ARCHWILIO/PANEL GWEITHREDOL

8 Cafodd yr adroddiad hwn ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 17 o Fehefin 2024 ac argymhellwyd iddo gael ei gymeradwyo.

## ARGYMHELLION

9 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) cymeradwyo cynnwys Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio a Chaffael a'r 'farn' gyffredinol ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw fframwaith yr Awdurdod ar gyfer llywodraethu, rheoli risgiau a rheolaeth.

## CEFNDIR

### Rôl Archwilio Mewnol

10 O dan delerau Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, mae gan Awdurdodau Tân gyfrifoldeb statudol i gynnal "system ddigonol ac effeithiol o archwilio mewnol".

11 Rôl y Gwasanaethau Archwilio Mewnol yw darparu, i'r rheolwyr, asesiad gwrthrychol ynghylch p'un ai yw'r systemau a'r rheolaethau'n gweithio'n iawn ai peidio. Mae'n rhan allweddol o system rheolaeth fewnol y sefydliad oherwydd ei fod yn mesur ac yn gwerthuso pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r rheolaethau eraill, fel bod:

- Yr Awdurdod a'r uwch reolwyr yn ymwybodol i ba raddau y gallant ddibynnu ar yr holl system; a bod
- rheolwyr unigol yn ymwybodol o ba mor ddibynadwy yw'r systemau a'r rheolaethau y maent yn gyfrifol amdanynt.

12 Mae'r system rheolaeth fewnol yn cynnwys yr holl rwydwaith o systemau a rheolaethau a sefydlwyd i reoli'r Awdurdod, a hynny er mwyn sicrhau y caiff ei amcanion eu cyflawni. Mae'n cynnwys rheolaethau ariannol a rheolaethau eraill, a hefyd y trefniadau ar gyfer sicrhau bod yr Awdurdod yn cael gwerth am arian o'i weithgareddau.

13 Yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, mae'n ofynnol i'r Pennaeth Archwilio gyflwyno barn ac adroddiad archwilio mewnol blynyddol y gall yr Awdurdod eu defnyddio i lywio ei ddatganiad llywodraethu.

## GWYBODAETH

### Barn Archwilio Mewnol 2023/24

14 Mae'r Cyfarwyddwr Sicrwydd Rhanbarthol yn fodlon bod y gwaith archwilio mewnol a gyflawnwyd, ynghyd â'n gwybodaeth barhaus am y sefydliad a'i ddulliau, yn ein galluogi i ddod i gasgliad rhesymol ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu'r Awdurdod.

15 Y farn a roddir gan y Cyfarwyddwr Sicrwydd Rhanbarthol yw bod system dda o reolaeth fewnol wedi'i chynllunio i gyflawni amcanion y sefydliad a'i bod, yn gyffredinol, yn cael ei chymhwyso'n gyson.

16 Wrth roi barn archwilio, dylid nodi na all sicrwydd fyth fod yn absoliwt er bod hyn yn rhoi sicrwydd rhesymol yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn y flwyddyn honno, nad oes unrhyw wendidau mawr y mae angen eu dwyn i sylw'r Awdurdod.

17 Gellir defnyddio'r farn archwilio gyffredinol wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac mae'r adroddiad llawn wedi'i gynnwys yn Atodiad A

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcan llesiant hirdymor yr Awdurdod sef hwyluso gwasanaethau tân ac achub ymatebol, o ansawdd uchel sydd wedi'u hintegreiddio'n well fel y gall gweithgareddau atal ac ymateb mewn argyfwng barhau i fod ar gael pan fo'u hangen, a hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg. |
| Cyllideb | Mae'r Gwasanaethau Archwilio Mewnol yn cael eu darparu gan gontractwr allanol cymwys ac o fewn y gyllideb y cytunwyd arni. |
| Cyfreithiol | Mae'r adroddiad yn cefnogi'r Awdurdod i gyflawni ei gyfrifoldebau cyfreithiol. |
| Staffio | Amh. |
| Cydraddoldebau/ Hawliau Dynol/ Y Gymraeg | Amh. |
| Risgiau | Mae'r Datganiad Sicrwydd yn cael ei gyflwyno'n unol â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Heb sicrwydd o'r fath gan yr archwilydd mewnol, ni fyddai'r Aelodau'n ymwybodol o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a rheolaeth fewnol a'i allu cysylltiedig i gyflawni ei amcanion. |

# Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol a Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol 2023/24

## Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

miaa

# Cynnwys


1 Crynodeb Gweithredol

2 Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol

3 Cwmpas ac Allbynnau Archwilio Mewnol

4 Meysydd i'w hystyried – eich Datganiad Llywodraethu Blynyddol

5 Dangosyddion Ansawdd Gwasanaeth MIAA

# 1 Crynodeb Gweithredol

Rydym yn falch o fod wedi darparu eich gwasanaethau archwilio mewnol ar gyfer 2023/24. Mae uchafbwyntiau ein darpariaeth gwasanaethau wedi'u crynhoi yn yr adroddiad hwn.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn darparu eich Barn Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2023/24, ynghyd â'r cwmpas a'r allbynnau archwilio mewnol a gynlluniwyd yn ystod 2023/24 a Dangosyddion Ansawdd Gwasanaeth MIAA.

| Maes Allweddol | Crynodeb |
| --- | --- |
| Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol | Mae’r farn gyffredinol ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024 yn darparu Sicrwydd Sylweddol, bod system dda o reolaeth fewnol wedi'i chynllunio i gyflawni amcanion y sefydliad, a bod y rheolaethau yn cael eu cymhwyso'n gyson ar y cyfan.<br><br>Mae'r farn hon yn cael ei darparu yn y cyd-destun bod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, fel sefydliadau eraill ar draws y sector cyhoeddus, yn wynebu nifer o faterion heriol a ffactorau sefydliadol ehangach, yn enwedig o ran heriau ariannol a chydweithio cynyddol ar draws sefydliadau a systemau.<br><br>Wrth ddarparu'r farn hon gallwn gadarnhau cydymffurfiaeth barhaus â'r diffiniad o archwilio mewnol (fel y nodir yn eich Siarter Archwilio Mewnol), cod moeseg a safonau proffesiynol. Rydym hefyd yn cadarnhau annibyniaeth sefydliadol y gwaith archwilio ac na fu unrhyw ymyrraeth o ran cwmpasu, cyflawni ac adrodd.<br><br>Diben ein Barn Pennaeth Archwilio Mewnol yw cyfrannu at y sicrwydd sydd ar gael i'r Swyddog Atebol a'r Awdurdod Tân sy'n sail i'w hasesiad eu hunain o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. O'r herwydd, mae'n un elfen y mae'r Swyddog Atebol yn ei hystyried wrth wneud ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol.<br><br>Nid yw'r farn yn awgrymu ein bod wedi adolygu'r holl risgiau a sicrwydd sy'n ymwneud â'r sefydliad. Mae'r farn yn deillio'n sylweddol o weithrediad cynlluniau sy'n seiliedig ar risg a gynhyrchir o fframwaith sicrwydd cadarn a arweinir gan y sefydliad. |
| Cwmpas ac Allbynnau Archwilio a Gynlluniwyd | Mae Cynllun Archwilio Mewnol 2023/24 wedi'i gyflawni gan ganolbwyntio ar ddarparu eich Barn Pennaeth Archwilio Mewnol. Adroddwyd am y sefyllfa hon yn yr adroddiadau cynnydd dros y flwyddyn ariannol. Mae cwmpas yr adolygiad wedi canolbwyntio ar:<br>• Fframwaith sicrwydd y sefydliad<br>• Adolygiadau craidd a mandadol, gan gynnwys gwaith dilynol; ac<br>• Amrywiaeth o adolygiadau sicrwydd unigol sy'n seiliedig ar risg. |

| Maes Allweddol | Crynodeb |
|---|---|
| | *Dylech gynnwys y testun crynhoi yn y tabl uchod wrth gyfeirio at Farn y Pennaeth Archwilio Mewnol yn eich Datganiad Llywodraethu Blynyddol.* |
| Argymhellion / Camau gan y Rheolwyr | • Rydym wedi nodi 23 o argymhellion fel rhan o'r adolygiadau a gynhaliwyd yn ystod 2023/24.<br>• O blith yr argymhellion hyn: roedd 0 yn gritigol ac roedd 1 yn argymhelliad risg uchel yn ymwneud ag adolygiadau o Reolaethau Sefydliadol Seiber.<br>• Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cynnal adolygiadau dilynol a gallwn ddod i'r casgliad bod y sefydliad wedi cyflawni 7 cam gweithredu yn ystod 2023/24.<br>• Cyfanswm yr argymhellion sydd eto i'w gweithredu ar ddiwedd mis Mawrth 2024 yw 16, mae 1 o'r rhain yn risg uchel ac yn ymwneud â'r adolygiad o Reolaethau Sefydliadol Seiber.<br>• O'r 16 cam gweithredu sydd eto i'w cyflawni, nid oes yr un yn hwyr. |
| **Dangosyddion Ansawdd Gwasanaeth MIAA** | Mae MIAA yn gweithredu systemau i Safonau Ansawdd ISO. Mae'r Asesiad Ansawdd Allanol, a gynhaliwyd gan CIPFA (2020), yn rhoi sicrwydd o gydymffurfiaeth lawn MIAA â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS). Rydym hefyd yn cynnal asesiadau mewnol rheolaidd i sicrhau ein bod yn parhau i gydymffurfio â'r gofynion. Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom gwblhau ein hunanasesiad blynyddol o gydymffurfiaeth â PSIAS a gallwn barhau i gadarnhau cydymffurfiaeth lawn â'r safonau hyn.<br><br>Mae MIAA wedi ymrwymo i ddarparu ac arddangos y safonau uchaf o lywodraethu gwybodaeth a seiberddiogelwch i ddiogelu nid yn unig ein gwybodaeth a'n systemau ond hefyd y data rydym yn ei gasglu a'i greu trwy ein gweithgareddau archwilio a chynghori gyda chleientiaid.<br><br>Rydym wedi cyflwyno ffurflen Pecyn Cymorth Diogelwch a Diogelu Data y GIG sy’n cydymffurfio yn gyson ac rydym yn un o ddim ond tua 20 o sefydliadau'r GIG sydd wedi'u hardystio i safon Cyber Essentials Plus.  Roedd sicrhau ardystiad i'r safon hon yn gofyn am brofion annibynnol trylwyr o'n rheolaethau seiberddiogelwch ar draws ein dyfeisiau.  Mae'r ffaith ein bod wedi cael yr ardystiad hwn nid yn unig yn dangos diogelwch ein dyfeisiau ond hefyd yn dilysu’r monitro a'r cynnal a chadw rhagweithiol sydd gennym ar waith i amddiffyn data a systemau rhag bygythiadau maleisus. |

## 2 Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol

Mae eich gwasanaeth archwilio mewnol wedi'i gyflawni yn unol â methodoleg archwilio mewnol MIAA sy'n cydymffurfio â PSIAS. Mae PSIAS yn mynnu ein bod yn cydymffurfio â gofynion moesegol perthnasol, gan gynnwys gofynion annibyniaeth, a'n bod yn cynllunio ac yn cyflawni ein gwaith i gael tystiolaeth ddigonol, briodol i seilio ein casgliad arni.

### 2.1 Rolau a Chyfrifoldebau

Mae'r Awdurdod Tân yn atebol ar y cyd am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol ac mae'n gyfrifol am wneud trefniadau i gael sicrwydd am effeithiolrwydd y system gyffredinol honno.

Mae’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn ddatganiad blynyddol gan y Swyddog Atebol ar ran yr Awdurdod Tân, sy'n nodi:

- sut mae cyfrifoldebau unigol y Swyddog Atebol yn cael eu cyflawni o ran cynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisïau, nodau ac amcanion;
- diben y system rheolaeth fewnol trwy gyfrwng disgrifiad o'r prosesau rheoli ac adolygu risg, gan gynnwys proses y Fframwaith Sicrwydd; a’r
- modd y cynhelir yr adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol a’i ganlyniadau, gan gynnwys unrhyw ddatgeliadau o fethiannau rheoli sylweddol ynghyd â sicrwydd bod camau gweithredu yn cael eu cymryd neu y byddant yn cael eu cymryd lle bo hynny'n briodol i fynd i'r afael â’r materion sy'n codi.

Dylai fframwaith sicrwydd y sefydliad ddwyn ynghyd yr holl dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi gofynion y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Yn unol â PSIAS, mae'n ofynnol i'r Pennaeth Archwilio Mewnol ddarparu barn flynyddol, yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd ac yn gyfyngedig i hynny, ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol prosesau rheoli risg a llywodraethu risg y sefydliad (h.y. system rheolaeth fewnol y sefydliad). Cyflawnir hyn drwy gynllun gwaith sy'n seiliedig ar risg, y cytunwyd arno gyda'r rheolwyr a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio, a all roi sicrwydd, yn amodol ar y cyfyngiadau cynhenid a ddisgrifir isod. Darperir canlyniadau a chyflwyniad y cynllun archwilio mewnol yn Adran 4.

### 2.2 Barn

Mae ein barn wedi'i nodi fel a ganlyn:

- Sail y Farn:
- Barn Gyffredinol; a
- Sylwadau

### 2.2.1 Sail y Farn:

Mae'r sail ar gyfer ffurfio ein barn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 1 | Asesiad o ddyluniad a gweithrediad y gwaith llywodraethu strategol sylfaenol, trefniadau rheoli risg a phrosesau ategol. |
| 2 | Asesiad o'r ystod o sicrwydd unigol sy'n deillio o'n haseiniadau archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg a nodwyd drwy gydol y cyfnod. Mae'r asesiad hwn wedi ystyried perthnasedd cymharol y systemau a adolygwyd a chynnydd y rheolwyr o ran mynd i'r afael â'r gwendidau rheoli a nodwyd. |
| 3 | Asesiad o ymateb y sefydliad i argymhellion Archwilio Mewnol, ac i ba raddau y cawsant eu gweithredu. |

### 2.2.2 Barn Gyffredinol

Ein barn gyffredinol ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024 yw:

| | |
|---|---|
| Sicrwydd Uchel - mae system gref o reolaeth fewnol sydd wedi'i chynllunio'n effeithiol i gyflawni amcanion y sefydliad, ac mae rheolaethau'n cael eu cymhwyso'n gyson ym mhob maes a adolygwyd. | |
| **Sicrwydd Sylweddol** - mae system dda o reolaeth fewnol sydd wedi'i chynllunio'n effeithiol i gyflawni amcanion y sefydliad, ac mae rheolaethau'n cael eu cymhwyso'n gyson yn gyffredinol. | ✓ |
| Sicrwydd Cymedrol - mae system ddigonol o reolaeth fewnol, fodd bynnag, mewn rhai meysydd mae gwendidau o ran dylunio a/neu gymhwyso rheolaethau'n anghyson yn peryglu cyflawni rhai agweddau ar amcanion y sefydliad. | |
| Sicrwydd Cyfyngedig - mae'r system o reolaeth fewnol dan fygythiad gan fod gwendidau o ran dylunio a/neu gymhwyso rheolaethau'n anghyson yn effeithio ar y system rheolaeth fewnol gyffredinol ac yn peryglu cyflawni amcanion y sefydliad. | |
| Dim Sicrwydd - mae system annigonol o reolaeth fewnol gan y gallai gwendidau rheolaeth a/neu ddiffyg cydymffurfio cyson â rheolaethau arwain at fethu â chyflawni amcanion y sefydliad, neu bod hynny eisoes wedi digwydd. | |

### 2.2.3 Sylwadau

Mae'r sylwadau isod yn darparu'r cyd-destun ar gyfer ein barn ac ynghyd â'r farn dylid eu darllen yn eu cyfanrwydd.

Mae ein barn yn ymdrin â'r cyfnod 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024 gan gynnwys y ddau ddyddiad hynny, ac mae'n seiliedig ar y gwaith a wnaed drwy'r cynllun archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg.

**Fframwaith Risg a Sicrwydd**

Mae ein gwaith wedi cynnwys adolygu rheolaethau rheoli risg craidd i asesu a ydynt wedi'u cynllunio'n ddigonol. Roedd hyn yn cynnwys asesiad o'r trefniadau rheoli risg, a chafwyd golwg fanwl ar y mesurau uwchgyfeirio a'r sicrwydd sydd ar waith.

**Adolygiadau Craidd ac Adolygiadau yn Seiliedig ar Risg a Gyhoeddwyd**

Dyma'r hyn a gyhoeddwyd gennym:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dim barn sicrwydd **uchel**. | | Dim barn sicrwydd cyfyngedig. | |
| Dwy farn sicrwydd **sylweddol**: | Adolygiad o Reolaethau Prosesu Trafodion Ariannol Allweddol<br>Cyflogres a Rheoli Presenoldeb | Dim barn dim sicrwydd. | |
| Un farn sicrwydd **cymedrol**: | Rheolaethau Sefydliadol Seiber | Dau adolygiad heb sgôr sicrwydd: | Rheoli Risg - Rheolaethau Craidd<br>Y Fenter Twyll Genedlaethol |

**Gwaith Dilynol**

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi cynnal adolygiadau dilynol a gallwn ddod i'r casgliad bod y sefydliad wedi gwneud **cynnydd da** o ran gweithredu argymhellion. Byddwn yn parhau i olrhain a mynd ar drywydd y camau gweithredu sy'n weddill.


Chris Harrop
Rheolwr Gyfarwyddwr, MIAA
Mawrth 2024

Louise Cobain
Cyfarwyddwr Sicrwydd, MIAA
Mawrth 2024

## 3 Cwmpas ac Allbynnau Archwilio Mewnol

Mae Cynllun Archwilio Mewnol 2023/24 wedi'i gyflawni gan ganolbwyntio ar ddarparu eich Barn Pennaeth Archwilio Mewnol. Adroddwyd am y sefyllfa hon yn yr adroddiadau cynnydd dros y flwyddyn ariannol.

O blith yr adolygiadau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd sgôr sicrwydd mewn tri achos. Nid oedd sgôr sicrwydd yn berthnasol ar gyfer dau adolygiad, oherwydd natur y gwaith hwn. Mae elfen aseiniad archwilio'r Farn wedi'i chyfyngu i gwmpas ac amcanion pob un o'r adolygiadau unigol. Mae gwybodaeth fanwl am gyfyngiadau (gan gynnwys cwmpas ac ymdriniaeth) yr adolygiadau wedi'i darparu yn yr adroddiadau archwilio unigol a thrwy Adroddiadau Cynnydd y Pwyllgor Archwilio drwy gydol y flwyddyn.

Mae crynodeb o'r adolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei ddarparu isod:

| | Adolygiad | Barn Sicrwydd | Argymhellion a Godwyd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Ddim wedi'i Sgorio | Critigol | Uchel | Canolig | Isel | Cyfanswm |
| 1 | Adolygiad o Reolaethau Prosesu Trafodion Ariannol Allweddol | Sylweddol | 0 | 0 | 0 | 1 | 3 | 4 |
| 2 | Cyflogres a Rheoli Presenoldeb | Sylweddol | 0 | 0 | 0 | 4 | 3 | 7 |
| 3 | Rheolaethau Sefydliadol Seiber | Cymedrol | 0 | 0 | 1 | 5 | 0 | 6 |
| 4 | Rheolaethau Craidd Rheoli Risg | Amh. | 6 | 0 | 0 | 0 | 0 | 6 |
| 5 | Y Fenter Twyll Genedlaethol | Amh. | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | | CYFANSWM | **6** | **0** | **1** | **10** | **6** | **23** |

Nid oedd unrhyw argymhellion risg uchel yn hwyr ar adeg yr adroddiad.

Byddwn yn parhau i olrhain cynnydd ar yr holl argymhellion fel rhan o Gynllun Archwilio Mewnol 2024/25.

| |
|---|
| CEFNOGAETH AC ARWEINIAD CYNGHOROL: Meysydd lle mae MIAA wedi cefnogi'r sefydliad i gryfhau trefniadau ynghylch llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol. |
| Fe wnaethom adolygu sawl polisi a gweithdrefn, yn cynnwys Polisi chwythu'r chwiban, Gwrth-dwyll a Llygredd, a Rhoddion a Lletygarwch o safbwynt Gwrth-Dwyll. Gwnaed nifer o argymhellion i gryfhau'r polisïau sydd ar waith. |
| Presenoldeb a chefnogaeth mewn cyfarfodydd Craffu ar y Gyllideb. |

| |
|---|
| CYFRANIAD AT WELLIANNAU LLYWODRAETHU, RHEOLI RISG A RHEOLAETH FEWNOL: *Meysydd ychwanegol lle mae MIAA wedi darparu cyfraniadau gwerth ychwanegol.* |
| Sicrhau golwg fanwl ar brosesau Llywodraethu a Sicrwydd cyffredinol drwy gyswllt drwy gydol y flwyddyn gyda'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol / Trysorydd, Uwch Dîm Rheoli a Swyddogion. |
| Ymwneud a pherthynas â'r sefydliad (e.e. mynychu cyfarfodydd Craffu ar y Gyllideb). |
| Ymwneud a chynrychiolaeth barhaus ar Gyrff Cenedlaethol gan gynnwys y Sefydliad Archwilwyr Mewnol (IIA) a CIPFA gan ein galluogi i fod yn rhagweithiol wrth rannu arfer gorau, meincnodi ehangach a darparu mewnwelediadau cynnar ar faterion cenedlaethol. |

## 4 Meysydd i'w Hystyried – eich Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Mae barn y Pennaeth Archwilio Mewnol yn un ffynhonnell sicrwydd sydd gan y sefydliad wrth ddarparu ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol, a dylid ystyried sicrwydd gan drydydd partïon eraill hefyd. Yn ogystal, dylai'r sefydliad ystyried sicrwydd annibynnol arall sy'n cael ei ystyried yn berthnasol.

Rydym wedi nodi nifer o heriau strategol eraill y dylai'r Swyddog Atebol eu hystyried ar ran yr Awdurdod Tân wrth ddrafftio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Er y byddai cwmpas y Cynllun Archwilio Mewnol wedi ystyried elfennau o'r rhain, mae'n bwysig bod yr Awdurdod Tân yn adlewyrchu'n ehangach ar sut y dylid cynnwys rhain yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r meysydd i'w hystyried yn cynnwys:


- Partneriaeth / cydweithio ac ymgysylltu ehangach ar draws Ôl Troed Gogledd Cymru.
- Newidiadau i drefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol (gan gynnwys yr effaith ar brosesau gwneud penderfyniadau).
- Arweinyddiaeth y Gwasanaeth, gan gynnwys unrhyw newidiadau sylweddol i'r Uwch Dîm Rheoli.
- Gallu, ymgysylltiad, lles a datblygiad y gweithlu.
- Sicrhau bod seilwaith addas i'r diben.
- Diogelwch seiber, risgiau llywodraethu gwybodaeth ac unrhyw ddigwyddiadau cysylltiedig y dylid rhoi gwybod i'r Comisiynydd Gwybodaeth amdanynt.
- Perthynas a rheolaeth darparwyr trydydd parti y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt, a gwaith darparu sicrwydd rhain.
- Cydymffurfio â'r holl gyfreithiau, safonau a rheoliadau perthnasol a Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru 2016.
- Arolygiadau ac adborth yn ystod 2023/24 gan gynnwys unrhyw gamau a gymerwyd i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd datblygu.
- Perfformiad sefydliadol, gan gynnwys heriau wrth gyflawni dyletswyddau ariannol, darparu Cyllidebau yn Seiliedig ar Flaenoriaeth a phwysau gwasanaeth a reolwyd yn ystod y flwyddyn.
- Risgiau a heriau gweithio mewn partneriaeth ehangach.

## 5 Sicrhau Ansawdd

Mae strategaeth MIAA yn cadw ansawdd wrth wraidd popeth a wnawn ac mae ein dull cyffredinol o sicrhau ansawdd yn cynnwys achrediad ISO9001:2015, cydymffurfio â PSIAS, ansawdd ein pobl a sut rydym yn eu cefnogi, lefelau staffio, mesurau cydymffurfio a chanlyniadau.

### Safonau ac Achrediadau Proffesiynol

Mae MIAA yn cydymffurfio'n llawn ag arfer gorau proffesiynol, safonau archwilio mewnol a gofynion cyfreithiol.



## Mesurau darparu gwasanaethau a chanlyniadau

Mae'n bwysig bod sefydliadau cleientiaid yn sicrhau Gwasanaeth Archwilio Mewnol effeithiol, ac er bod mesurau mewnbwn a phrosesau yn cynnig rhywfaint o sicrwydd, dylai'r pwyslais fod ar ganlyniadau ac effaith y gwasanaeth. Mae'r ffeithlun ar y dudalen hon yn cadarnhau'r mesurau yr ydym ni'n credu eu bod yn dangos gwasanaeth effeithiol i chi.

Mae MIAA yn adrodd yn rheolaidd ar fewnbwn a phrosesau dangosyddion perfformiad allweddol fel rhan o'n hadroddiadau Cynnydd Pwyllgor Archwilio, a gellir asesu'r mesurau effaith ac effeithiolrwydd trwy Farn y Pennaeth Archwilio Mewnol.

**MESURAU MEWNBWN**

- Cyfuniad o sgiliau uchel
- Ffioedd
- Canolbwyntio ar Farn Pennaeth Archwilio Mewnol
- Ymwneud a Phroffil Cenedlaethol
- Darparu arbenigwyr
- Partneriaethau

**MESURAU PROSESU**

- Adolygu SA
- Prydlondeb adroddiadau ac ymateb rheolwyr
- Cydymffurfio â PSIAS
- Hyfforddi a Datblygu Staff
- Ymchwil a Datblygiad

**GWERTH YCHWANEGOL (EFFAITH AC EFFEITHIOLRWYDD)**

- Asesiad risg yn canolbwyntio ar risgiau strategol allweddol
- Darparu sicrwydd mewn meysydd critigol a chymhleth
- Mewnwelediadau, Meincnodi a Briffio sy'n tynnu sylw at feysydd i ganolbwyntio arnynt a rhannu arfer gorau
- Digwyddiadau lleol gyda siaradwyr cenedlaethol nodedig a chyfleoedd rhwydweithio



miaa

**Anne-marie Harrop**
Cyfarwyddwr Sicrwydd Rhanbarthol
Rhif ffôn: 07920150313
E-bost: Anne-marie.Harrop@miaa.nhs.uk

**Angharad Ellis**
Uwch Reolwr Archwilio
Rhif ffôn: 07469378328
E-bost: Angharad.Ellis@miaa.nhs.uk

*This document is available in English*

**Eitem Agenda 16**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **15 Gorffennaf 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Dafydd Edwards, Trysorydd yr Awdurdod** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen Howard, Pennaeth Cyllid a Chaffael** |
| Pwnc | **Datganiad o Gyfrifon 2023/24** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cadarnhau'r sefyllfa alldro diwedd blwyddyn ar gyfer 2023/24 a chyflwyno'r Datganiad o Gyfrifon heb ei archwilio ar gyfer 2023/24 (ynghlwm fel Atodiad A). Gofynnir i'r Aelodau nodi'r amserlen ar gyfer archwilio'r datganiad o gyfrifon hefyd.

2 Mae'r adroddiad yn rhoi cadarnhad ar faterion ariannol eraill sy'n ymwneud â 2023/24, gan gynnwys sefyllfa Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) o ran cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio, dileu dyledion drwg, a dangosyddion darbodus ar gyfer y flwyddyn gyfan.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

3 Cafodd y gofyniad cyllideb net o £44.394m ei gymeradwyo ar 16 Ionawr 2023, pan gymeradwyodd yr Awdurdod hefyd fesurau anghylchol er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg sylfaenol, a oedd yn cynnwys gohirio gwariant yn ogystal â defnyddio cronfeydd wrth gefn.

4 Y gwariant gwirioneddol ar gyfer 2023/24 oedd £44.300m, sy'n cynnwys costau sy'n gysylltiedig â phrosiectau amrywiol, setliadau cyflog cenedlaethol sydd uwchlaw'r ddarpariaeth yn y gyllideb, a phwysau cyffredinol oherwydd chwyddiant. Lliniarwyd y costau ychwanegol trwy ddefnyddio'r darpariaethau, y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, a'r gronfa gyffredinol.

5 Roedd y gyllideb gyfalaf o £6.532m ar gyfer 2023/24 yn cynnwys £3.00m i brynu tir ar gyfer y ganolfan hyfforddi arfaethedig, a disgwylir bellach i hyn gael ei gwblhau yn ystod 2024/25. Bu'r rhaglen gyfalaf dan bwysau o ran costau ac felly cafodd rhai cynlluniau eu blaenoriaethu er mwyn aros o fewn y cyllid a oedd ar gael. Roedd y gwariant diwedd blwyddyn yn £2.182m gyda gofyniad i drosglwyddo £3.951m o gyllid ymlaen.

## ARGYMHELLION

6 Gofynnir i'r Aelodau:

i) nodi'r sefyllfa alldro refeniw a chyfalaf heb ei harchwilio ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24, gan gynnwys y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, fel y nodwyd o fewn yr adroddiad;
ii) nodi'r sefyllfa o ran mantolen 31/03/2024 heb ei harchwilio;
iii) derbyn a nodi'r Datganiad o Gyfrifon drafft ar gyfer 2023/24, sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad A;
iv) nodi'r dangosyddion darbodus fel yr oeddent yn chwarter pedwar 2023/24; a
v) nodi'r dileadau a gymeradwywyd gan y Trysorydd, yn unol â'r rheoliadau ariannol.

## SYLWADAU GAN Y PWYLLGOR ARCHWILIO

7 Clywodd y Pwyllgor Archwilio ddiweddariad llafar ar y gwaith o gynhyrchu'r datganiad o gyfrifon yn ei gyfarfod ar 17 Mehefin 2024. Mae'r dyledion drwg a ddilëwyd wedi bod yn destun craffu gan y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb.

## CEFNDIR RHEOLEIDDIOL CENEDLAETHOL

8 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod baratoi a chyhoeddi datganiad o gyfrifon yn flynyddol. Mae'r amserlenni cyn-Covid a ragnodir o fewn y Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i ddatganiad drafft o gyfrifon gael ei gyhoeddi erbyn 31 Mai, gyda dyddiad cau archwilio o 31 Gorffennaf bob blwyddyn.

9 Yn dilyn ymgynghoriad â Chymdeithas Trysoryddion Cymru ac Archwilio Cymru, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y dylid paratoi'r datganiad drafft o gyfrifon ar gyfer 2023/24 erbyn 30 Mehefin 2024 fan bellaf, ac y dylid archwilio'r datganiad o gyfrifon erbyn 30 Tachwedd 2024.

## DULL YR AWDURDOD

10 Mae swyddogion cyllid wedi ymdrechu o'u gwirfodd i gadw at yr amserlenni gwreiddiol ar gyfer cau cyfrifon a ragnodwyd yn Rheoliadau 2014, gan fod eu cau'n gynnar yn caniatáu iddyn nhw ganolbwyntio ar ddyletswyddau cyfrifyddu eraill wedyn, sy'n ychwanegu mwy o werth.

11 Ar 31 Mai, cafodd sefyllfa alldro'r Awdurdod, heb ei harchwilio, ar gyfer gwariant refeniw a chyfalaf, ei chwblhau, a chafodd y Datganiad o Gyfrifon drafft ar gyfer 2023/24 ei lofnodi gan y Trysorydd a'i gyflwyno i Archwilio Cymru. Mae'r Datganiad o Gyfrifon drafft ynghlwm fel Atodiad A, er gwybodaeth.

## Y GYLLIDEB REFENIW

12 Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Awdurdod bennu cyllideb refeniw gytbwys a rhaid iddi gael ei chymeradwyo mewn cyfarfod o'r Awdurdod llawn. Cafodd y gyllideb derfynol ar gyfer 2023/24 ei chymeradwyo gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 16 Ionawr 2023. Cadarnhaodd hyn ofyniad cyllideb refeniw net o £44.394 miliwn i'w ariannu gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol. Roedd hyn yn cynnwys newidiadau i'r llif cyllid o £1.08m yn gymorth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pensiynau diffoddwyr tân. Yn flaenorol, roedd hwn yn cael ei ariannu'n uniongyrchol i'r Awdurdod, ond ar gyfer 2023/24 cafodd y grant yma ei drosglwyddo i Awdurdodau Tân ac Achub drwy setliad grant cynnal refeniw (RSG) terfynol yr awdurdodau lleol cyfansoddol.

13 Y sefyllfa derfynol ar gyfer 2023/24 oedd tanwariant o £0.094m, gan gynnwys trosglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn ac ohonynt.

14 Mae'r prif benawdau gwariant a'r sefyllfa alldro ddrafft wedi'u nodi isod:

| 2023/24 | Cyllideb (£000) | Alldro (£000) | Defnydd o Gronfeydd wrth Gefn (£000) | Cyfraniadau CERA (£000) | Alldro Terfynol (£000) | Amrywiant (£000) | Amrywiant (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogeion | 31,902 | 31,369 | | | 31,369 | (533) | -2% |
| Eiddo | 3,616 | 3,297 | | | 3,297 | (319) | -9% |
| Cludiant | 1,273 | 1,390 | | | 1,390 | 117 | 9% |
| Cyflenwadau | 5,453 | 5,392 | 833 | | 6,226 | 773 | 14% |
| Taliadau Trydydd Parti | 342 | 319 | | | 319 | (23) | -7% |
| Cyllid Cyfalaf a Thaliadau | 3,129 | 2,165 | (130) | 1,101 | 3,136 | 7 | 0% |
| Incwm | (1,321) | (1,437) | | | (1,437) | (116) | 9% |
| **Alldro** | **44,394** | **42,496** | **704** | **1,101** | **44,300** | **(94)** | **-0.2%** |

## COSTAU CYFLOGEION

15 Mae costau cyflogeion yn rhan sylweddol o'r gyllideb (72%) ac yn cynnwys cyflogau, costau pensiwn, cost recriwtio a hyfforddi, a gwasanaethau i gyflogeion, megis gwasanaethau iechyd galwedigaethol. Wrth gymeradwyo'r gyllideb yn derfynol ym mis Ionawr 2023, cymeradwywyd ystod o fesurau gan yr Aelodau i gyfyngu ar wariant staff. Nid yw'r rhain yn gylchol eu natur, ac roeddent yn cynnwys mesurau fel oedi cyn llenwi swyddi gwag o fewn y strwythur a gymeradwywyd, a chyfyngu ar y cynnydd a ragwelwyd o ran recriwtio i orsafoedd dyletswydd ar alwad.

16 Y sefyllfa alldro ar gyfer costau cyflogeion yw tanwariant o £0.533m, ac mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o hynny. Mae hyn yn cynnwys ad-daliad o £0.503m o Gronfa Bensiwn Clwyd mewn perthynas â chyfraniadau cyflogwyr, yn dilyn yr ailbrisiad actiwaraidd.

| Costau Cyflogeion | £000 |
|---|---|
| Dyfarniad cyflog uwchlaw'r gyllideb | 730 |
| Arbedion swyddi gwag yn ystod y flwyddyn | -1290 |
| Oriau ychwanegol i gwmpasu dyletswyddau gweithredol | 863 |
| Costau eraill cyflogeion | -323 |
| Rhagamcan o gostau pensiwn | -513 |
| **Rhagamcan o Danwariant** | **-533** |

17 Mae'r dyfarniad cyflog, a oedd yn uwch na'r disgwyl, wedi cael ei liniaru'n rhannol gan yr arbedion a wnaed o gael swyddi gwag yn ystod y flwyddyn, er y bu'n rhaid defnyddio goramser ac oriau ychwanegol i gynnal capasiti yr ochr weithredol.

18 Mae camau yn parhau i gael eu cymryd er mwyn cynyddu nifer y diffoddwyr tân dyletswydd ar alwad, a hynny er mwyn mynd i'r afael â materion argaeledd, ond gan gofio cyfyngiadau'r gyllideb. Yn ystod hanner cyntaf 2024/25 bydd proses yn cael ei chynnal er mwyn recriwtio diffoddwyr tân amser cyflawn, a hynny i gymryd lle staff sydd wedi ymddeol yn ystod y flwyddyn a'r rhai sydd am ymddeol yn 2024/25.

## COSTAU NAD YDYNT YN GYFLOGAU

19 Bu pwysau sylweddol ar y gyllideb ar gyfer costau nad ydynt yn gyflogau, a bu gorwariant o £0.548m. Roedd hyn yn cynnwys costau tanwydd, ac mae argaeledd a chostau nwyddau eraill yn peri pryder hefyd, fel cyflenwadau adeiladu, offer TGCh a darnau ar gyfer y fflyd, yn enwedig ac ystyried cymhlethdod y cadwyni cyflenwi hyn ynghyd â'r ansicrwydd byd-eang.

20 Ers yr adroddiad diwethaf mae sawl adran, gan gynnwys Cyfleusterau, TGCh a Gweithrediadau, wedi adrodd bod oedi o ran nwyddau a gwasanaethau y disgwylid eu cwblhau neu eu cyflenwi yn 2023/24. O ganlyniad, mae'r sefyllfa alldro ar gyfer eleni wedi lleihau, ond bydd yn rhoi pwysau ar gyllideb 2024/25.

### Eiddo

21 Rhagwelwyd y byddai gorwariant o £0.370m ar gostau eiddo, ond tanwariant o £0.319m oedd y sefyllfa derfynol. Mae'r tanwariant hwn yn bennaf oherwydd y gostyngiad mewn costau nwy a thrydan yn chwarter olaf y flwyddyn ariannol, ac oherwydd na chwblhawyd gwaith cynnal a chadw adeiladau fel y rhagwelwyd. Mae'r Awdurdod wedi elwa o ostyngiad mewn ardrethi annomestig cenedlaethol yn dilyn llwyddiant apelau ardrethu.

## Cludiant

22 Bu gorwariant o £0.117m yn y gyllideb cludiant o'i gymharu â'r gorwariant disgwyliedig o £0.357m. Y prif reswm am hyn oedd y gostyngiad mewn gwariant ar danwydd (olew, diesel a phetrol), argaeledd cydrannau cerbydau a chwblhau atgyweiriadau, yn ogystal ag addasiad cyfrifyddu technegol diwedd blwyddyn ar gyfer stoc y fflyd.

## Cyflenwadau

23 Y gyllideb cyflenwadau net yw £5.453m, gyda gorwariant diwedd blwyddyn o £0.773m (gorwariant o'r adroddiad diwethaf: £1.141m). Mae'r maes gwariant hwn yn cynnwys meysydd sy'n hanfodol i'r busnes, fel prynu offer a chyfarpar diogelu personol (PPE) ar gyfer yr ochr weithredol, trwyddedau TGCh hanfodol, y contract Firelink ac yswiriant.

24 Mae nifer o feysydd sy'n hanfodol i'r busnes wedi wynebu pwysau chwyddiant sylweddol, ac mae camau wedi'u cymryd i liniaru ac i gyfyngu ar y rhain, lle bo hynny'n bosibl.

25 Un o'r elfennau gwariant mwyaf yw'r contract Firelink cenedlaethol. Dyma'r contract gwasanaeth brys sy'n galluogi i bartneriaid yn y gwasanaethau brys gyfathrebu, rhyngweithio, ac ymateb i ddigwyddiadau. Mae'r trafod cyfreithiol yn parhau mewn perthynas â'r contract hwn. Mae Motorola, sydd mewn contract gyda'r Swyddfa Gartref i ddarparu'r Gwasanaeth hwn, wedi apelio yn erbyn penderfyniad gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i osod cap ar brisiau ym mis Gorffennaf 2023. Yn 2023/24, o ganlyniad i'r cap prisiau, bu gostyngiad o £0.262m yn y costau. Fodd bynnag, gan nad yw penderfyniad y Llys Apêl yn hysbys, mae'r swm hwn wedi'i roi o'r neilltu mewn cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, rhag ofn y bydd yn rhaid ei ad-dalu.

26 Bu gwariant sylweddol hefyd wrth brynu cit tân ychwanegol, oherwydd yr adolygiad halogion, gwerth cyfanswm o £0.474m. Mae trafodaethau parhaus wedi bod yn cael eu cynnal ledled Cymru gyda chyflenwr y cit tân, a hynny oherwydd yr oedi o ran cyflenwi. Mae'r cyflenwr bellach wedi cydnabod na fydd mwyafrif y cit tân yn cael ei gyflenwi tan 2024/25, felly mae'r £0.447m wedi'i gadw mewn cronfa wedi'i chlustnodi ar ddiwedd y flwyddyn er mwyn talu'r costau hyn yn 2024/25.

## Taliadau Trydydd Parti

27 Mae taliadau trydydd parti yn ymwneud â chytundebau lefel gwasanaeth gyda phartneriaid, gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Sir Gâr, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r cytundebau yn cynnwys darparu gwasanaethau cyfreithiol, gwasanaethau swyddog monitro, cymorth a gweinyddu pensiynau, a rheoli cyfleusterau. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd tanwariant o £0.023m.

**Ariannu Cyfalaf**

28 Mae'r gyllideb ariannu cyfalaf yn neilltuo cyllid refeniw er mwyn ariannu gwariant cyfalaf ac mae'n cynnwys y ddarpariaeth isafswm refeniw a chostau llog ar fenthyca

29 Oherwydd anwadalrwydd y sefyllfa economaidd, mae cost benthyca wedi parhau i gynyddu. Fodd bynnag, ni fu angen benthyca pellach gan y fod gwariant cyfalaf hyd yma wedi bod yn llawer arafach na'r disgwyl.

30 Y gwariant ar ddiwedd y flwyddyn oedd £3.136m, o'i gymharu â chyllideb o £3.129m.

**INCWM**

31 Yn ogystal â'r ardoll gan awdurdodau lleol cyfansoddol, mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys incwm disgwyliedig o ffioedd a thaliadau, a grantiau. Mae ffioedd a thaliadau yn ymwneud yn bennaf ag ailgodi tâl ar gyfer adeiladau a rennir â chyrff eraill yn ogystal â ffioedd hyfforddi ar gyfer prentisiaethau.

32 Bu cynnydd mewn incwm arall o ganlyniad i'r cynnydd mewn ailgodi tâl ar gyrff eraill a gwaredu cerbydau ac offer, pan fo'r swm a dderbyniwyd yn llai na £10k ac yn gallu cael ei drin fel derbyniad refeniw o'r herwydd.

**Cyllid Grant**

33 Cyfanswm dyraniadau cyllid grant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023/24 yw £0.891m, a chaiff ei ddadansoddi isod. Caiff pob grant ei fonitro'n ofalus drwy gydol y flwyddyn ariannol er mwyn nodi unrhyw amrywiannau ac i'n galluogi i gymryd camau adferol.

| Grant | Dyraniad £'000 |
|---|---:|
| Lleihau Tanau Bwriadol | 169 |
| Offer Diogelwch yn y Cartref | 240 |
| Cydnerthedd Cenedlaethol Cymru Gyfan | 322 |
| Ymgysylltu â Phobl Ifanc ac Ieuenctid | 141 |
| Ymgyrch Ugain | 14 |
| Hanfodion Seibr | 5 |
| **CYFANSWM** | **891** |

**RHAGLEN GYFALAF**

34 Aseswyd bod gofyniad cyllideb gyfalaf o £6.532m ac fe'i cymeradwywyd gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 16 Ionawr 2023. Ers hynny, mae llithriant yn rhaglen 2023/24 wedi arwain at symud cynlluniau gwerth £3.951m ymlaen i 2024/25, gan gynnwys pryniant y tir ar gyfer y ganolfan hyfforddi arfaethedig.

35 Oherwydd oedi parhaus, nid yw prosiectau adeiladu y cytunwyd arnynt yn 2023/24 wedi'u cwblhau, ac mae disgwyl y bydd gwerth £0.612m o waith yn cael ei gwblhau o fewn chwarter cyntaf 2024/25.

36 Fel yr hyn a welwyd gyda'r gyllideb refeniw, mae'r rhaglen gyfalaf wedi wynebu pwysau o ran costau, gyda chostau cynyddol mewn perthynas â phrynu cerbydau a gwaith adeiladu. Ymdriniwyd â hyn drwy flaenoriaethu cyflawni prosiectau oedd yn hanfodol i'r ochr weithredol.

37 Mae angen trosglwyddo £3.951m o gyllid ymlaen, fel y manylir isod, a hynny oherwydd oedi wrth gwblhau gwaith adeiladu a phrynu tir. Mae pum peiriant tân wedi'u harchebu; ond disgwylir i'r rhandaliadau ymestyn i 2024/25 oherwydd oedi o ran argaeledd slotiau adeiladu gyda'r cyflenwr.

38 Mae manylion y cynlluniau i'w gweld isod:

| Cynllun | Dyraniad Diwygiedig £000 | Rhagolwg £000 | Arian Treigl £000 |
|---|---|---|---|
| Adnewyddu Peiriannau Tân | 475 | 475 | 960 |
| Faniau amlbwrpas | 189 | 268 | - |
| Peilot Fan Trydan | - | 107 | - |
| Unedau Lles | 150 | 150 | - |
| Adfywio Gorchymyn a Rheoli | - | 71 | - |
| Man Waith Adeiladu | 600 | - | - |
| Tyrau Hyfforddi | 100 | 52 | 48 |
| Fflyd - system rhwystro cwympiadau a gwaith to | 250 | - | |
| Drysau bae peiriannau | 126 | - | 134 |
| Uwchraddio Gwresogi Llandudno | 180 | 165 | 19 |
| Gwaith yn Nhŷ Mwg Dolgellau | 150 | - | 150 |
| Tir canolfan hyfforddi arfaethedig | 365 | 256 | - |
| Heb ei ddyrannu | 3,000 | - | 2,630 |
| **Cyfanswm: Cynllun Cyfalaf** | 947 | - | |
| **Arian Treigl 2022/23** | **6,532** | **1,544** | **3,941** |
| Tyrau Hyfforddi | | | |
| Faniau gorsaf amlbwrpas | 307 | 318 | 10 |
| Adeiladau - Man Waith | 160 | 162 | - |
| **Cyfanswm: Arian Treigl** | 158 | 158 | - |
| **Cyfanswm** | **625** | **638** | **10** |
| | **7,157** | **2,182** | **3,951** |

**BENTHYCA**

39 Mae gwariant cyfalaf yn cael ei ariannu'n bennaf trwy fenthyciadau allanol, ond yn y tymor byr mae'r Awdurdod yn defnyddio arian refeniw dros ben, a elwir yn 'fenthyca mewnol', a chronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio pan fo'n bosibl.

40 Mae'r Awdurdod yn parhau i ddefnyddio benthyca mewnol. Mae hyn yn golygu nad yw'r benthyciad cyfalaf sydd ei angen, fel y'i cyfrifwyd yn y Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR), wedi'i ariannu'n llawn gan ddyled benthyciadau allanol, gan fod arian parod ar gyfer cronfeydd wrth gefn, balansau a llif arian parod yr Awdurdod wedi'i ddefnyddio dros dro er mwyn ariannu gwariant cyfalaf ac i gynhyrchu arbedion refeniw. Fodd bynnag, wrth i gronfeydd wrth gefn gael eu defnyddio, bydd rhaid newid y benthyca mewnol yn fenthyca allanol.

41 Ni fu angen unrhyw fenthyciadau allanol newydd yn ystod 2023/24. Cyfanswm y llog a dalwyd ar fenthyciadau cyfredol yn ystod y flwyddyn oedd £0.692m.

**DEFNYDDIO'R GRONFA GYFFREDINOL A CHRONFEYDD WRTH GEFN WEDI'U CLUSTNODI**

42 Nod cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod yw darparu cyllid i'w fuddsoddi yng ngweithgareddau'r dyfodol ac i fod yn rhwyd ddiogelwch rhag heriau ariannol tymor byr o ganlyniad i ofynion gweithgarwch, neu bwysau annisgwyl. Ar 31 Mawrth 2024, cyfanswm y cronfeydd wrth gefn y gellid eu defnyddio oedd £8.620m

| | **Balans 31 Mawrth 2023 £'000** | **Trosglwyddiadau (i mewn/)/allan 2023/24 £'000** | **Balans 31 Mawrth 2024 £'000** |
|---|---|---|---|
| Cronfeydd Wrth Gefn Wedi'u Clustnodi | (6,222) | (703) | (6,925) |
| Cronfa Gyffredinol | (1,480) | (94) | (1,574) |
| Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso | (85) | 37 | (48) |
| Cronfa Derbyniadau Cyfalaf | (34) | (39) | (73) |
| **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy** | **(7,821)** | **(799)** | **(8,620)** |

43 Ni sefydlwyd unrhyw gronfeydd wedi'u clustnodi newydd yn 2023/24.

44 Yn 2023/24, bu rhaid cynyddu'r cronfeydd wrth gefn. Fel y nodwyd uchod, mae cynnydd o £0.708m yn y cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi wedi'i gynnwys mewn perthynas â'r cit PPE a chontract Airwave. Mae'r holl symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi i'w gweld isod.

| | Balans 31 Mawrth 2023 £'000 | Trosglwyddiadau (i mewn/)/allan 2023/24 £'000 | Balans 31 Mawrth 2024 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cronfeydd Wrth Gefn y Gwasanaeth** | | | |
| Cronfa Bensiwn Wrth Gefn | (545) | 0 | (545) |
| Cronfa Ariannu Cyfalaf Wrth Gefn | (300) | 0 | (300) |
| Atgyweirio Hydrantau Tân | (90) | 0 | (90) |
| Gwisg / Stoc PPE | (250) | (447) | (697) |
| Newid Trawsffurfio | (851) | 0 | (851) |
| Gwella Cyfleusterau | (651) | 0 | (651) |
| Atebolrwydd Cyfreithiol | (186) | (124) | (310) |
| Hyfforddiant | (250) | 0 | (250) |
| Digwyddiadau Mawr | (150) | 0 | (150) |
| Gwella Systemau | (711) | 0 | (711) |
| Chwyddiant | (250) | 0 | (250) |
| **Cronfeydd Cyfalaf a Grantiau Wrth Gefn** | | | |
| Prosiectau cyfalaf | (1,043) | 129 | (914) |
| Cynllun Radio | (750) | (261) | (1,011) |
| Gostyngiad Grant Diogelwch Tân | (195) | 0 | (195) |
| **Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd** | **(6,222)** | **(703)** | **(6,925)** |

**DANGOSYDDION DARBODUS – 2023/24**

45 Mae'r Awdurdod yn mesur ac yn rheoli ei wariant cyfalaf a'i fenthyciadau trwy gyfeirio at y dangosyddion canlynol. Bellach mae'n ofynnol yn ôl Cod Darbodus CIPFA bod y rhain yn cael eu hadrodd bob chwarter. Cyfrifir y dangosyddion yn seiliedig ar yr wybodaeth yn Strategaeth Gyfalaf 2023/24 a gymeradwywyd gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 24 Mawrth 2023.

**Gwariant Cyfalaf**

46 Mae'r Awdurdod wedi ymgymryd â gwariant cyfalaf ac mae'n cynllunio gwariant cyfalaf fel y nodir isod:

| | gwirioneddol 2022/23 £m | gwirioneddol 2023/24 £m | cyllideb 2024/25 £m | cyllideb 2025/26 £m |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau'r Gronfa Gyffredinol | 3.366 | 2.182 | 5.887 | 6.424 |
| Canolfan Hyfforddi Arfaethedig | 0 | 0.000 | 2.630 | 0.000 |
| Cyfanswm | 3.366 | 2.182 | 8.517 | 6.424 |

47 Ceir manylion pellach am brosiectau cyfalaf y Gronfa Gyffredinol hyd yn hyn yn adran Rhaglen Gyfalaf yr adroddiad hwn, uchod.

**Gofyniad Ariannu Cyfalaf**

48 Mae swm cronnol yr Awdurdod o gyllid dyled sy'n weddill yn cael ei fesur gan y Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR). Mae hwn yn cynyddu gyda gwariant cyfalaf newydd a ariennir gan ddyled ac yn lleihau gyda darpariaeth isafswm refeniw a derbynion cyfalaf a ddefnyddir i ddisodli dyled.

| | gwirioneddol 31.03.23 £m | gwirioneddol 2023/24 £m | blaenamcan 2024/25* £m | blaenamcan 2025/26* £m |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau'r Gronfa Gyffredinol | 28.877 | 27.949 | 32.215 | 38.666 |

*Nid yw'r tabl uchod yn cynnwys costau adeilad y ganolfan hyfforddi arfaethedig.

**Dyled Gros a'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf**

49 Mae'r canllawiau statudol yn nodi y dylai dyled aros yn is na'r gofyniad ariannu cyfalaf, ac eithrio yn y tymor byr. Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio ac yn disgwyl parhau i gydymffurfio â'r gofyniad hwn yn y tymor canolig fel y dangosir isod.

| | gwirioneddol 31.03.23 | gwirioneddol 31.03.24 | cyllideb 2024/25 | cyllideb 2025/26 |
|---|---|---|---|---|
| Dyled (gan gynnwys Prydlesi Cyllid) | 26.650 | 17.780 | 24.493 | 28.508 |
| Gofyniad Ariannu Cyfalaf | 28.877 | 27.949 | 32.215 | 38.666 |

**Dyled a'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol**

50 Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod osod terfyn benthyca fforddiadwy (a elwir hefyd yn Derfyn Awdurdodedig ar gyfer dyled allanol) bob blwyddyn. Yn unol â'r canllawiau statudol, mae "ffin weithredol" is hefyd yn cael ei gosod fel lefel rhybudd pe bai'r ddyled yn nesáu at y terfyn.

| | Uchafswm dyled Ch2 2023/24 £m | Dyled ar 31.03.24 £m | Terfyn Awdurdodedig 2023/24 £m | Ffin Weithredol 2023/24 £m | Wedi cydymffurfio Do/Naddo |
|---|---|---|---|---|---|
| Benthyca | 26.650 | 17.780 | 30.999 | 28.990 | Do |

51 Gan fod y ffin weithredol yn arf rheoli ar gyfer monitro yn ystod y flwyddyn, nid yw'n arwyddocaol os yw'r ffin weithredol yn cael ei thorri ar adegau oherwydd amrywiadau mewn llif arian, ac ni fyddai'n cael ei gyfrif fel methiant cydymffurfio. Fodd bynnag, arhosodd benthyca 2023/24 o fewn y ffin weithredol.

**Cyfran Costau Ariannu i'r Llif Refeniw Net**

52 Er na chaiff gwariant cyfalaf ei godi'n uniongyrchol ar y gyllideb refeniw, mae'r llog sy'n daladwy ar fenthyciadau ac MRP yn cael ei godi ar refeniw. Gelwir y tâl blynyddol net yn gost ariannu; mae hyn yn cael ei gymharu â'r llif refeniw net h.y. y swm a ariennir o'r ardoll a grantiau cyffredinol y llywodraeth.

| | **Gwirioneddol 2022/23 £m** | **2023/24 gwirioneddol £m** | **cyllideb 2024/25 £m** | **cyllideb 2025/26 £m** |
|---|---|---|---|---|
| Costau ariannu (£m) | 2.351 | 2.605 | 3.189 | 3.968 |
| Cyfran y llif refeniw net | 5.96% | 5.87% | 6.60% | 7.53% |

**Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys**

53 Mae'r dangosyddion hyn o fewn Adroddiad Rheoli'r Trysorlys Ch4 2023/24, a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio.

**Y FANTOLEN**

54 Mae'r Fantolen yn cynnig rhagor o wybodaeth am sefyllfa ariannol hirdymor yr Awdurdod ac mae'n cynnwys asedau a rhwymedigaethau.

**ASEDAU SEFYDLOG A BENTHYCIADAU**

55 Asedau sefydlog yw eitemau sydd â chost uwch na £10,000 ac y disgwylir eu defnyddio am gyfnod hirach na 12 mis. Mae asedau sefydlog yr Awdurdod yn cynnwys tir ac adeiladau, cerbydau, offer yr ochr weithredol ac offer TGCh. Yr amcangyfrif o'r gwerth ar 31 Mawrth 2024 yw £57.184 miliwn (2022/23: £57.062 miliwn).

56 Cafodd adeiladau'r gorsafoedd eu hailbrisio ar 31 Mawrth 2024. Arweiniodd hyn at ostyngiad net o £0.589m o ran gwerth. Tir ac adeiladau'r Awdurdod sydd yn cyfrif am 82% o gyfanswm ei asedau, ac mae ganddynt werth llyfr net o £45.797 miliwn ar 31 Mawrth 2024.

57 Caniateir i'r Awdurdod ymrwymo i drefniadau benthyca er mwyn ariannu unrhyw asedau sefydlog a brynir ganddo. Ar 31 Mawrth 2024, gwerth y benthyciadau, heb unrhyw log, oedd £17.78 miliwn (2022/23: £26.46 miliwn).

**ASEDAU CYFREDOL A RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL**

58 Rhaid i'r Awdurdod fod â digon o adnoddau i sicrhau ei fod yn gallu bodloni ei ymrwymiadau. Gwneir hyn trwy reoli arian parod ynghyd â balansau dyledwyr a chredydwyr. Ar ddyddiad y fantolen, cofnododd yr Awdurdod falans o £4.25 miliwn (2022/23: £9.22 miliwn) yn gysylltiedig ag arian parod a dyledwyr. Caiff hyn ei wrthbwyso gan £5.95 miliwn (2022/23: £4.29 miliwn) yn gysylltiedig â'r symiau sy'n ddyledus gan yr Awdurdod i gredydwyr.

59 Y balans arian parod ar ddiwedd y flwyddyn oedd £2.97m. Mae £2.32m o'r balans hwn yn ymwneud â'r grant atodol pensiynau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2023/24, nas defnyddiwyd, oherwydd bod nifer yr ymddeoliadau ymhlith diffoddwyr tân yn is na'r disgwyl.

**RHWYMEDIGAETHAU PENSIWN**

60 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod roi cyfrif am y rhwymedigaethau amcangyfrifedig sy'n ymwneud â'i gynlluniau pensiwn. Mae gan yr Awdurdod ddau gynllun, sef Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân a'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Caiff gwerth rhwymedigaethau'r dyfodol ei gyfrifo gan yr actiwari ar gyfer pob cynllun ac amcangyfrifir ei fod yn £230.37 miliwn ar 31 Mawrth 2024 (2022/23: £227.14 miliwn). Mae'r prisiad hwn yn cynnwys asesiad actiwaraidd o gostau heriau cyfreithiol cenedlaethol gan gynnwys dyfarniad McCloud sy'n ymwneud â gwahaniaethu ar sail oedran yng nghynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus a dyfarniad O'Brien sy'n ymwneud â gwahaniaethu yn erbyn gweithwyr rhan-amser.

**DILEU DYLEDION DRWG**

61 Yn ystod y flwyddyn, yn unol â'r Rheoliadau Ariannol, cymeradwyodd y Trysorydd ddileu 18 dyled ddrwg â chyfanswm o £1,492.34, a hynny gan y byddai yn aneconomaidd mynd ar eu trywydd.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant tymor hir yr Awdurdod. Mae cyllid ar gyfer y Gwasanaeth o fudd i gymunedau Gogledd Cymru ac yn sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn cael ei wneud mewn seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith atal ymhell i'r dyfodol. |
| Cyllideb | Mae'r gyllideb yn cael ei gosod bob blwyddyn yn unol â darpariaeth arfaethedig y gwasanaeth sy'n cynnwys ymateb brys a gwaith atal. |
| Cyfreithiol | Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Awdurdod lunio'r Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r safonau a ragnodir. |
| Staffio | Mae rheolaeth ariannol effeithiol yn cefnogi strategaeth hirdymor y gweithlu i sicrhau bod yr Awdurdod yn gallu cyflawni ei gyfrifoldebau. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Mae incwm a gwariant yn cael eu monitro'n agos er mwyn sicrhau bod unrhyw achosion o wyro o'r gyllideb a gymeradwywyd yn cael eu canfod yn briodol, a'u hadrodd i'r Aelodau. |

# Dataganiad o Gyfrifon

2023-2024

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service



Mae'r dudalen hon wedi'i gadael yn fwriadol wag

DRAFFT

## DATGANIAD O GYFRIFON


| DATGANIAD O GYFRIFON | TUDALEN |
|---|---|
| Adroddiad Naratif | 2-11 |
| Datganiad o Gyfrifoldebau | 12 |
| Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol | 13-16 |
| Dadansoddiad o Wariant a Chyllid | 17 |
| Datganiadau Ariannol Craidd | 18-22 |
| Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol Craidd | 23-58 |
| Cyfrif Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân | 59-60 |
| Polisïau Cyfrifyddu | 61-75 |


DRAFFT

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw cynnal a chadw gwefan yr Awdurdod a sicrhau ei bod yn gywir; nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac felly nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan yn wreiddiol.

## ADRODDIAD NARATIF


Diben yr adroddiad naratif hwn ydi rhoi gwybodaeth glir i bartïon â diddordeb ynghylch sefyllfa ariannol a pherfformiad ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24.

## TROSOLWG O'R SEFYDLIAD

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (ATAGC) yn cynnwys 28 Aelod Etholedig sydd wedi eu henwebu gan bob un o'r chwe awdurdod lleol ac maent yn darparu cyfeiriad a llywodraethu'r gweithgarwch dydd i ddydd a ddarperir gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) yn gwasanaethu cymunedau oddi mewn i ardaloedd Gwynedd ac Ynys Môn, Conwy a Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint.

Mae ATAGC yn gyfrifol am ddarparu, hyfforddi a chyflenwi Gwasanaeth Tân ac Achub gyda'r gallu i ymgymryd â'r swyddogaethau canlynol:





DRAFT

Mae'r Gwasanaeth yn delio gyda phob math o argyfyngau, digwyddiadau Tân, gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd, llifogydd a gollyngiadau cemegol. Caiff gwaith helaeth ei gyflawni gydag ysgolion, busnesau a chymunedau lleol i hyrwyddo diogelwch tân ac atal a helpu i gadw pobl ac eiddo yn ddiogel.

Caiff yr Awdurdod ei ariannu trwy gyfraniadau gan y chwe awdurdod cyfansoddol, mewn cyfrannedd â phoblogaeth.

Ceir manylion am ein hardal gwasanaeth, dull ariannu a gweithgarwch yn y tudalennau canlynol

# Ynglŷn â'n Hardal Gwasanaeth




DRAFT

## Adnoddau

**44** gorsaf dân

**54** injan dan rheng flaen

**39** peiriant arbennig gan gynnwys cychod achub a pheiriannau cyrraedd yn uchel

**909** o staff gyda **20%** ohonynt yn

## Gweithgareddau Atal ac Amddiffyn

Cwblhawyd **19,859** o Archwiliadau Diogel ac Iach

Cynhaliwyd **482** o archwiliadau busnes

**216** o sgyrsiau diogelwch gyda **20,837** o blant a phobl ifanc

**22** o gyrsiau ffenics gyda **190** o gyfranogwyr yn

## Gweithgareddau ymateb

Deliwyd â **12,743** o alwadau brys

Wedi mynychu **5935** o ddigwyddiadau brys

Mynychwyd **1656** o danau gyda **14** ohonynt yn danau gwyllt

**2900** fo alwadau diangen

DRAFT

## AMCANION GWELLA A LLESIANT YR AWDURDOD

Mae'n rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru gyhoeddi amcanion gwella yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ac amcanion llesiant yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. At ddibenion prosesau cynllunio'r Awdurdod cânt eu trin fel un.

Mae'r amcanion tymor hir hyn yn newidiadau y mae'r Awdurdod am eu cyflwyno yng Ngogledd Cymru er mwyn helpu i wella llesiant yn lleol a symud Cymru gam yn nes tuag at gyflawni ei nodau llesiant. Ar ôl nodi ei amcanion tymor hir, mae gan yr Awdurdod ddyletswydd i gymryd pob cam rhesymol i'w cyflawni ac i adrodd yn gyhoeddus am y cynnydd a wnaed ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

Ym mis Mawrth 2021 cyhoeddodd yr Awdurdod ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2021/24, gyda set o saith o amcanion hirdymor:

- Gweithio tuag at wneud gwelliannau i iechyd, diogelwch a lles pobl yng Ngogledd Cymru
- Parhau i weithio ar y cyd i helpu cymunedau i fod yn fwy cadarn
- Gweithredu mor effeithiol ac effeithlon â phosibl, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael
- Parhau i ganfod cyfleoedd i annog mwy o ymgysylltiad â phobl, cymunedau, staff a rhanddeiliaid
- Cynnal gweithlu sy'n addas o gadarn, medrus, proffesiynol a hyblyg
- Datblygu ffyrdd o fod yn fwy ymwybodol o'r amgylchedd er mwyn lleihau'r effaith y mae ein gweithgarwch yn ei chael ar yr amgylchedd
- Sicrhau bod gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd yn cael eu hystyried, gan gynnwys yn ystod prosesau caffael.

DRAFT

Mae'r ddolen ganlynol yn rhoi gwybodaeth am weithgareddau a pherfformiad Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru o gymharu ag amcanion gwella dros y deuddeg mis diwethaf - Gwybodaeth ac ystadegau – Perfformiad a gwella – Amdanom Ni – Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (llyw.cymru)

Y dyddiad cau statudol ar gyfer cyhoeddi Asesiad Perfformiad Blynyddol yw 30ain Medi 2024. Bydd yr Asesiad Perfformiad Blynyddol ar gael ar y wefan yn Cynllunio Corfforaethol – Perfformiad a gwella – Amdanom Ni – Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (llyw.cymru)

## CYNALIADWYEDD A NEWID YN YR HINSAWDD

Yn ystod 2023/24, cymeradwyodd yr Awdurdod ei Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer y cyfnod 2023-2030. Mae Gweithgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, dan gadeiryddiaeth Rheolwr yr Amgylchedd a Newid yn yr Hinsawdd, wedi datblygu cynlluniau datgarboneiddio manwl yn dilyn cyfres o Weithgorau gydag aelodau'r Awdurdod dros y flwyddyn, gan gyd-fynd â'n nod o gyrraedd allyriadau carbon Sero Net erbyn 2030. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys y fflyd, ystadau a chaffael.

I ddechrau'r broses o ddatgarboneiddio ein fflyd, cynhaliwyd treial gweithredol o Olew Llysiau wedi'i Hydro-drin fel dewis amgen cynaliadwy yn lle diesel. Bu'r treial hwn yn

llwyddiannus a chyn bo hir bydd treial gweithredol mewn gorsafoedd, cyn cyflwyno tanciau ac offer dosbarthu o amgylch ein hystad.

Yn ogystal, fe wnaeth Adran y Fflyd gaffael pedair fan gwbl drydanol sydd ar brawf ar hyn o bryd, ar draws gwahanol adrannau, i brofi eu hymarferoldeb o ran gofynion y gwasanaeth.



Llun: Fan EV yn y gweithdy

Gan weithio'n agos gyda Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, mae cynllun wedi'i ddatblygu i ddatgarboneiddio ein systemau gwresogi. Bydd hyn yn sail i raglen o ddisodli'r system wresogi ar sail dreigl dros y blynyddoedd nesaf, wedi'i blaenoriaethu fel y mae cyllid a gofynion gweithredol yn caniatáu.



Llun: Gorsaf Dân Bae Colwyn

Mae nifer o gynlluniau gwella bioamrywiaeth wedi'u cynnal, gan gynnwys gosod blychau nythu gwenoliaid du ar rai o'n safleoedd, mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

DRAFT

Mae gwaith yn parhau i ddatblygu System Rheoli Amgylcheddol bwrpasol yn seiliedig ar safon ISO:14001. Mae hon yn system a fydd yn helpu i adnabod, rheoli, monitro a rheoli'r effaith y mae'r gwasanaeth yn ei chael ar yr amgylchedd. Bydd hyn yn helpu i wella perfformiad amgylcheddol trwy ddefnyddio adnoddau yn fwy effeithlon a lleihau gwastraff.

## PERFFORMIAD ARIANNOL

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi ymrwymo i barhau i ddarparu gwasanaethau atal a gorfodi diogelwch tân rhagorol, yn ogystal ag ymateb brys cynhwysfawr. Mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyfrannu at greu cymunedau cryfach a mwy diogel, ond mae hefyd yn cydnabod bod y sefyllfa ariannol yn golygu y bydd angen llawer iawn o hyblygrwydd ac arloesedd yn y dyfodol i gynnal darpariaeth y gwasanaethau.

Er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod a chynnal lefelau gwasanaeth, cytunodd yr Aelodau ar strategaeth ariannol tymor canolig 3 blynedd. Cytunodd yr Aelodau i gynyddu'r cyfraniadau gan yr awdurdodau cyfansoddol 9.9% ar gyfer 2023/24, i £44,394k. Wrth bennu cyllideb 2023/24, fe wnaeth yr Aelodau hefyd gymeradwyo ystod o fesurau anghylchol oedd yn angenrheidiol er mwyn sicrhau cydbwysedd ariannol o fewn 2023/24 ac sydd wedi cael effaith ar gyflwyno gwasanaethau ac ar gapasiti corfforaethol. Roedd y rhain yn cynnwys gohirio gwariant a, lle roedd angen, defnyddio cronfeydd wrth gefn cyffredinol a rhai a glustnodwyd; camau a oedd yn angenrheidiol er mwyn mynd i'r afael â cholli £0.4m o

incwm grant gan Lywodraeth Cymru yn sgil cytundeb Airwave, pwysau hysbys eraill, yn ogystal ag ansicrwydd yn ymwneud â thrafodaethau cyflog cenedlaethol.

Ym mis Mehefin 2023, cafodd y strwythur staffio ei fireinio. Er hyn, mae wedi parhau i fod yn anodd penodi i rolau corfforaethol arbenigol a diffoddwyr tân ar alwad. Yn ystod 2023/24 parhaodd y gwaith i weithredu'r argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad o'r system ddyletswydd ar alwad (RDS), gan ystyried y drafodaeth genedlaethol ynghylch telerau ac amodau, sydd wedi disodli rhai elfennau o'r adolygiad.

Yn ystod 2022/23 comisiynodd yr Awdurdod Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys i ystyried modelau darparu gwasanaethau yn y dyfodol i fynd i'r afael â materion argaeledd mewn cymunedau gwledig ac i ystyried risgiau yn y dyfodol. Yn ystod 2023/24, cynhaliodd yr Awdurdod ymgynghoriad ar nifer o fodelau, a chafodd y canlyniadau eu hystyried gan yr Awdurdod ym mis Rhagfyr 2023. Ni wnaeth yr Awdurdod symud ymlaen gyda'r argymhellion ac mae gwaith pellach yn parhau er mwyn datblygu opsiwn newydd yn 2024/25.

Mae dyfarniadau cyflog uwch na'r disgwyl a chwyddiant ar gyfer costau heblaw cyflog, yn enwedig cyfleustodau, costau adeiladu, tanwydd a chostau TGCh, wedi rhoi pwysau sylweddol ar y gyllideb. Fodd bynnag, mae'r pwysau hyn o ran costau wedi'u lliniaru i raddau helaeth gan yr arbedion a wnaed yn sgil swyddi gwag staff, derbyniadau incwm eithriadol yn ystod y flwyddyn ac oedi o ran gwario. Mae adrannau'n parhau i fonitro effaith y sefyllfa economaidd gan gydnabod y gallai newidiadau ddigwydd o ran refeniw a chyfalaf dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf.

Bydd gofyn i'r Awdurdod yn y tymor canolig roi sylw gofalus i'r holl wariant, ond yn arbennig y pwysau oherwydd costau'n ymwneud â phensiynau a chyflogres.

DRAFT

## PERFFORMIAD REFENIW

Adroddodd yr Awdurdod danwariant o £94,000 yn 2023/24. Mae dadansoddiad o'r gwariant yn cael ei nodi isod.

| 2023/24 | Cyllideb (£000) | Outturn (£000) | Defnyddio cronfeydd wrth gefn £000 | CERA Cyfraniadau £000 | Cyfanswm £000 | Amrywiant (£000) | Amrywiant (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogwyr | 31,902 | 31,370 | | | 31,370 | (532) | -2% |
| Safle | 3,616 | 3,297 | | | 3,297 | (319) | -9% |
| Trafnidiaeth | 1,273 | 1,390 | | | 1,390 | 117 | 9% |
| Cyflenwadau | 5,453 | 5,392 | 833 | | 6,225 | 772 | 14% |
| Taliadau Trydydd Parti | 342 | 319 | | | 319 | (23) | -7% |
| Cyllid Cyfalaf a Thaliadau | 3,129 | 2,165 | (130) | 1,101 | 3,136 | 7 | 0% |
| Incwm | (1,321) | (1,437) | | | (1,437) | (116) | 9% |
| **Rhagolwg Alldro** | **44,394** | **42,496** | **704** | **1,101** | **44,300** | **(94)** | **-0.2%** |

## CRONFEYDD WRTH GEFN Y GELLIR EU DEFNYDDIO

Mae'r cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio wedi cynyddu £0.703m yn 2023/24, i dalu am ofynion parhaus y gwasanaeth gan gynnwys hawliadau yswiriant a chit tân. Rhagwelir y bydd y cronfeydd wrth gefn yn cael eu lleihau yn y blynyddoedd i ddod. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Nodyn 8.

| | **Balans 31 Mawrth 2023 £'000** | **Trosglwyddiadau (i mewn/)/allan 2023/24 £'000** | **Balans 31 Mawrth 2024 £'000** |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi | (6,222) | (703) | (6,925) |
| Cronfa Gyffredinol | (1,480) | (94) | (1,574) |
| Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso | (85) | 37 | (48) |
| Cronfa Derbyniadau Cyfalaf | (34) | (39) | (73) |
| **Cyfanswm Cronfeydd Defnyddiadwy** | **(7,821)** | **(799)** | **(8,620)** |

## PERFFORMIAD CYFALAF

Cyfanswm y gwariant cyfalaf ar gyfer 2023/24 oedd £2,182k, ac mae manylion y gwahanol gynlluniau yn y tabl isod.



Llun: Uned Lles yn y Gweithdy

Mae problemau'n ymwneud â'r gadwyn gyflenwi a phwysau chwyddiant yn parhau a bu'n rhaid adolygu a diwygio'r rhaglen gyfalaf i adlewyrchu prosiectau y gellid eu cyflawni yn ystod y flwyddyn.

Prynodd Adran y Fflyd gerbydau amrywiol i gynorthwyo gyda darparu gwasanaethau, gan gynnwys 3 cerbyd lles ac 8 cerbyd gorsaf aml-ddefnydd.

Un maes arbennig o heriol yw darparu tyrau newydd. Er bod y tendrau wedi'u dyfarnu, bu oedi oherwydd newidiadau dylunio, capasiti cyflenwyr a chaniatâd cynllunio.

Trefnwyd i gyfanswm o bum tŵr newydd gael eu cwblhau yn ystod 2023/24. O'r rhain, bydd tri yn cael eu cwblhau yn chwarter cyntaf 2024/25 erbyn hyn.




Llun: Cerbyd gorsaf aml-bwrpas

DRAFT

Mae angen trosglwyddo cyllid o £3,951k ymlaen i gwblhau prosiectau parhaus, fel y manylir isod.

| Cynllun | Dyraniad Diwygiedig £000 | Rhagolwg £000 | Arian Treigl £000 |
|---|---|---|---|
| Adnewyddu Peiriannau Tân | 475 | 475 | 960 |
| Faniau amlbwrpas | 189 | 268 | - |
| Peilot Fan Trydan | - | 107 | - |
| Unedau Lles | 150 | 150 | - |
| Adfywio Gorchymyn a Rheoli | - | 71 | - |
| Man Waith Adeiladu | 600 | - | - |
| Tyrau Hyfforddi | 100 | 52 | 48 |
| Fflyd - system rhwystro cwympiadau a gwaith to | 250 | - | |
| Drysau bae peiriannau | 126 | - | 134 |
| Uwchraddio Gwresogi Llandudno | 180 | 165 | 19 |
| Gwaith yn Nhŷ Mwg Dolgellau | 150 | - | 150 |
| Tir canolfan hyfforddi arfaethedig | 365 | 256 | - |
| Heb ei ddyrannu | 3,000 | - | 2,630 |
| **Cyfanswm: Cynllun Cyfalaf** | 947 | - | |
| **Arian Treigl 2022/23** | **6,532** | **1,544** | **3,941** |
| Tyrau Hyfforddi | | | |
| Faniau gorsaf amlbwrpas | 307 | 318 | 10 |
| Adeiladau - Man Waith | 160 | 162 | - |
| **Cyfanswm: Arian Treigl** | 158 | 158 | - |
| **Cyfanswm** | **625** | **638** | **10** |
| | **7,157** | **2,182** | **3,951** |

DRAFFT

Caiff y cynllun cyfalaf ei ariannu fel a ganlyn:

| Cyllid | Swm £'000 |
|---|---|
| Benthyca Mewnol | 1,010 |
| Cyllid Grant | 71 |
| Cyfraniadau | 1,101 |
| **Cyfanswm** | **2,182** |

## RHEOLI'R TRYSORLYS

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys, sy'n sicrhau bod gan yr Awdurdod fesurau ar waith i reoli risgiau ariannol. Cymeradwywyd Strategaeth Rheoli Trysorlys yr Awdurdod ar gyfer 2023/24 mewn cyfarfod ar 20 Mawrth 2023. Mae'r Strategaeth yn nodi'r Dangosyddion Darbodus (PI) ar gyfer y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn mae adroddiadau chwarterol yn manylu ar y cynnydd yn erbyn y strategaeth.

Ar ddiwedd y flwyddyn, mae adroddiad terfynol yn nodi sut mae'r Awdurdod wedi perfformio yn ystod y flwyddyn. Mae manylion ynghylch sut mae'r Awdurdod yn rheoli risgiau sy'n deillio o offerynnau ariannol yn cael eu nodi yn adroddiadau'r trysorlys a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio a gellir cael mynediad iddynt o wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru - https://www.northwalesfire.gov.wales/?lang=cy-gb

Roedd hyn yn cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddangosyddion darbodus, gyda benthyca diwedd blwyddyn yn £17.78 miliwn.  Bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro effaith cyfraddau llog cynyddol wrth bennu cyllidebau yn y dyfodol.

## COSTAU PENSIYNAU

### Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân

Yn ystod 2023/24, roedd cyfraniadau arferol y cyflogwr i'r Gronfa Bensiwn yn £4.055 miliwn (2022/23: £3.893 miliwn). Cyfanswm gwerth y taliadau i aelodau sydd wedi ymddeol oedd £9.005 miliwn, gyda chymorth ariannol wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru.

Nid yw'r cynllun wedi'i ariannu ac mae'r rhwymedigaeth o ran ymrwymiadau pensiwn yn y dyfodol wedi gostwng i £231.610 miliwn (2022/23: £225.390 miliwn). Roedd hyn oherwydd newid yn y rhagdybiaethau actiwaraidd.

Bydd canlyniadau prisiad ffurfiol 2020 o'r gronfa bensiwn yn arwain at gynnydd yng nghyfraniadau cyflogwyr o 27.3% i 31.0%, o 1 Ebrill 2024.

### Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL)

Mae cynlluniau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) wedi'u rhagnodi'n statudol ac mae ganddynt broses arferol benodol ar gyfer penderfynu ar gyfraniadau cyflogwyr. Cynhelir y broses hon ar gyfer y gronfa bensiwn yn ei chyfanrwydd, ond gosodir cyfraddau cyfrannu ar wahân ar gyfer pob cyflogwr. Gosodir cyfraddau am gyfnod o dair blynedd, yn seiliedig ar gyngor actiwaraidd gan ystyried y prisiad tair blynedd diweddaraf. Mae'r cyfraddau ar gyfer pob cyflogwr wedi'u gwahanu'n ffurfiol i:

- brif gyfraddau, sy'n cwrdd â chost croniad parhaus ar gyfer aelodau gweithredol presennol, a
- chyfraddau eilaidd, sy'n bennaf yn lleihau diffyg ariannol neu'n lleihau gwarged dros gyfnod penodol.

Mae'r gyfradd eilaidd yn cynyddu neu'n lleihau cyfraniad y cyflogwr yn seiliedig ar ffactorau sy'n benodol i'r cyflogwr hwnnw. Yn bennaf, mae'r gyfradd eilaidd yn:

- lleihau diffygion yn narpariaeth pensiwn y cyflogwr drwy ddarparu cyfraniadau ychwanegol i'r gronfa, neu'n
- lleihau gwargedion yn narpariaeth pensiwn y cyflogwr drwy leihau lefel y cyfraniadau i'r gronfa.

DRAFT

O 1 Ebrill 2023, cynyddodd prif gyfradd cyfraniadau y cyflogwr o 17.0% i 18.3%. Yn 2023/24, roedd cyfraniadau cyflogwyr i'r Gronfa Bensiwn, yn seiliedig ar y brif gyfradd cyfraniadau, yn £1.112m. (2022/23: £1.02m).

Fodd bynnag, roedd lefel y cyfraniadau a dalwyd i'r gronfa bensiwn yn is oherwydd gostyngiad yn y gyfradd eilaidd o £503k.

Yr atebolrwydd a aseswyd yn fras ar 31 Mawrth 2024 oedd £1.238 miliwn (2022/23: £1.753 miliwn). Roedd y gostyngiad oherwydd newid mewn tybiaethau actiwaraidd a ddefnyddir i ailfesur rhwymedigaethau cynllun.

Mae nodyn 30 a Chyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn rhoi rhagor o wybodaeth.

## GWYBODAETH BELLACH

Mae gwybodaeth ychwanegol am y cyfrifon hyn ar gael gan y Trysorydd. Mae hawl statudol gan aelodau'r cyhoedd â diddordeb i weld y cyfrifon cyn i'r archwiliad gael ei gwblhau. Hysbysebir bod y cyfrifon ar gael i'w gweld ar wefan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (https://www.northwalesfire.gov.wales/fire-and-rescue-authority/financial/) a rhoddir hysbysiad ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Ffordd Salesbury, Llanelwy, LL17 0JJ.

DRAFFT

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O GYFRIFON

### CYFRIFOLDEBAU'R AWDURDOD

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod wneud y canlynol:

- gwneud trefniadau i weinyddu ei faterion ariannol yn gywir ac i sicrhau bod gan un o'i swyddogion y cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny. Yn yr Awdurdod hwn, y cyfryw swyddog yw'r Trysorydd
- rheoli ei faterion i sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau ac i ddiogelu ei asedau
- cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

**ARDYSTIAD YR AWDURDOD**

Rwy'n cymeradwyo Datganiad o Gyfrifon Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2024.

Llofnod ______________________________ Dyddiad _________________

**Y Cynghorydd, Cadeirydd, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

DRAFFT

### CYFRIFOLDEBAU'R TRYSORYDD

Y Trysorydd sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad o Gyfrifon yr Awdurdod yn unol ag arferion priodol fel y nodir yng Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod).

Wrth baratoi'r Datganiad o Gyfrifon, mae'r Trysorydd wedi:

- dethol polisïau cyfrifyddu addas, ac yn wedi eu defnyddio'n gyson
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus
- cydymffurfio â'r Cod Ymarfer
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol a oedd yn gyfoes
- cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac anghysonderau eraill.

**ARDYSTIAD Y TRYSORYDD**

Rwy'n tystio bod y cyfrifon yn darparu golwg gwir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2024, ynghyd â'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

Llofnod D L Edwards Dyddiad 31/05/2024

**Trysorydd, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

[Adroddiad Archwilwyr Annibynnol i'w mewnosod yma]

DRAFFT

[Adroddiad Archwilwyr Annibynnol i'w mewnosod yma]

DRAFFT

[Adroddiad Archwilwyr Annibynnol i'w mewnosod yma]

DRAFFT

[Adroddiad Archwilwyr Annibynnol i'w mewnosod yma]

DRAFFT

## DADANSODDIAD O WARIANT A CHYLLID

Mae'r datganiad hwn yn dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei ddefnyddio a'i ariannu o adnoddau (grantiau, cyfraniadau ac ati) gan awdurdodau lleol o'i gymharu ag adnoddau a ddefnyddir neu a enillir gan awdurdodau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae hefyd yn dangos sut mae'r gwariant hwn yn cael ei ddyrannu at ddibenion gwneud penderfyniadau yn unol â'r math o wariant yr eir iddo. Caiff Incwm a Gwariant y cyfrifir amdanynt o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol (GAAP) eu cyflwyno'n llawnach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

| 2022/23 | | | | 2023/24 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Net y gellir ei Godi ar y Gronfa Gyffredinol £'000** | **Addasiadau Rhwng y Sail Gyfrifyddu a'r Sail Gyllido £'000** | **Gwariant Net yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant £'000** | | **Gwariant Net y gellir ei Godi ar y Gronfa Gyffredinol £'000** | **Addasiadau Rhwng y Sail Gyllido a'r Gyfrifyddu £'000** | **Gwariant Net yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant £'000** |
| 38,797 | (3,081) | 35,716 | Darparu Gwasanaethau Tân | 43,596 | (7,682) | 35,914 |
| (39,412) | 8,805 | (30,607) | Incwm a Gwariant Arall | (44,394) | 10,557 | (33,837) |
| **(615)** | **5,724** | **5,109** | **Diffyg (neu Warged) ar Ddarparu Gwasanaethau** | **(798)** | **2,875** | **2,077** |

| 2022/23 | | | | 2023/24 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Balans y Gronfa Gyffredinol £'000** | **Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd y Gronfa Gyffredinol £'000** | **Cyfanswm y Gronfa Gyffredinol £'000** | | **Balans y Gronfa Gyffredinol £'000** | **Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd y Gronfa Gyffredinol £'000** | **Cyfanswm y Gronfa Gyffredinol £'000** |
| (1,520) | (5,805) | (7,325) | Dygwyd Ymlaen | (1,480) | (6,341) | (7,821) |
| (615) | | (615) | (Gwarged)/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | (798) | | (798) |
| | 153 | 153 | Trosglwyddo rhwng Balans y Gronfa Gyffredinol a Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso | | 37 | 37 |
| 655 | (689) | (34) | Trosglwyddo rhwng Balans y Gronfa Gyffredinol a Chronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol a Glustnodwyd | 703 | (742) | (39) |
| **(1,480)** | **(6,341)** | **(7,821)** | **Balans Terfynol y Gronfa Gyffredinol** | **(1,575)** | **(7,046)** | **(8,621)** |

DRAFT

## DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Mae'r datganiad hwn yn dangos y gost gyfrifo yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol (GAAP), yn hytrach na'r swm sydd i'w ariannu o gyfraniadau. Mae gwariant yr Awdurdod yn cael ei ariannu gan gyfraniadau gan y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddu. Dangosir y sefyllfa cyfrannu yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

| 2022/23 | | | | 2023/24 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant Gros £'000 | Incwm Gros £'000 | Gwariant Net £'000 | | Sylwer | Gwariant Gros £'000 | Incwm Gros £'000 | Gwariant Net £'000 |
| 38,640 | (2,925) | 35,715 | Darparu Gwasanaethau Tân | | 37,351 | (1,437) | 35,914 |
| **38,640** | **(2,925)** | **35,715** | **Cost Gwasanaethau** | | **37,351** | **(1,437)** | **35,914** |
| (11) | 0 | (11) | Treuliau Gweithredu Eraill | | (14) | 0 | (14) |
| 9,130 | (61) | 9,069 | Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi | **9** | 11,071 | (429) | 10,642 |
| 0 | (39,664) | (39,664) | Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol | **10** | 0 | (44,465) | (44,465) |
| | | **5,109** | **(Gwarged)/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | | | | **2,077** |
| 0 | (9,832) | (9,832) | (Gwarged) neu ddiffyg ar Ailbrisio Eiddo, ac Asedau Offer | **18** | 557 | 0 | 557 |
| | | (109,388) | Ailfesur yr Ymrwymiad Buddion Diffiniedig Net | **18** | | | (142) |
| | | **(119,220)** | **(Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | | **415** |
| | | **(114,111)** | **Cyfanswm (Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | **2,492** |

DRAFT

## DATGANIAD SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN

Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiad yn y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd sydd gan yr Awdurdod, wedi'i ddadansoddi'n gronfeydd defnyddiadwy' (sef y rhai y gellir eu defnyddio i ariannu gwariant neu i leihau cyfraniadau gan yr Awdurdodau Cyfansoddol) a chronfeydd eraill. Mae'r Gwarged neu'r (Diffyg) ar y llinell Darparu Gwasanaethau yn dangos gwir gost economaidd darparu gwasanaethau'r Awdurdod, a dangosir rhagor o fanylion am hynny yn y Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant. Mae'r rhain yn wahanol i'r symiau statudol sydd angen eu codi ar Falans y Gronfa Gyffredinol, sy'n cael ei hariannu gan gyfraniadau gan y chwe awdurdod cyfansoddol. Mae'r llinell Cynnydd / Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Gronfeydd a Glustnodwyd yn dangos Balans y Gronfa Gyffredinol cyn i'r Awdurdod wneud unrhyw drosglwyddiadau dewisol i'r cronfeydd a glustnodwyd ac ohonynt.

DRAFT

| **2023-24** | **Sylwer** | **Balans y Gronfa Gyffredinol £'000** | **Cronfeydd wrth Gefn a Grantiau a Glustnodwyd £'000** | **Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso £'000** | **Derbyniadau Cyfalaf a Glustnodwyd £'000** | **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £'000** | **Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio £'000** | **Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod £'000** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | | **(1,480)** | **(6,222)** | **(85)** | **(34)** | **(7,821)** | **199,227** | **191,406** |
| **Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod 2023/2024** | | | | | | | | |
| Diffyg (neu Warged) ar y Ddarpariaeth o Wasanaethau | | 2,077 | 0 | 0 | 0 | 2,077 | 0 | 2,077 |
| (Incwm) a Gwariant Arall Cynhwysfawr | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 415 | 415 |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | **2,077** | **0** | **0** | | **2,077** | **415** | **2,492** |
| Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu a sail ariannu o dan y rheoliadau | 7 | (2,877) | 0 | | 0 | (2,877) | 2,877 | 0 |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i'r Cronfeydd wrth Gefn a glustnodwyd** | | **(800)** | **0** | **0** | **0** | **(800)** | **3,292** | **2,492** |
| Trosglwyddiadau Eraill i/o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd | 8 | 705 | (703) | 37 | (39) | 0 | 0 | 0 |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2023/24** | **6** | **(95)** | **(703)** | **37** | **(39)** | **(800)** | **3,292** | **2,492** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | | **(1,575)** | **(6,925)** | **(48)** | **(73)** | **(8,621)** | **202,519** | **193,898** |

## DATGANIAD SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD

| **2022-23** | **Sylwer** | **Balans y Gronfa Gyffredinol £'000** | **Cronfeydd wrth Gefn a Grantiau a Glustnodwyd £'000** | **Grantiau cyfalaf heb eu cymhwyso £'000** | **Cronfeydd Cyfalaf a Glustnodwyd £'000** | **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £'000** | **Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio £'000** | **Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod £'000** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | | **(1,520)** | **(5,567)** | **(238)** | **0** | **(7,325)** | **312,842** | **305,517** |
| **Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod 2022/2023** | | | | | | | | |
| Diffyg (neu Warged) ar y Ddarpariaeth o Wasanaethau | | 5,109 | 0 | 0 | 0 | 5,109 | 0 | 5,109 |
| (Incwm) a Gwariant Arall Cynhwysfawr | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (119,220) | (119,220) |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | **5,109** | **0** | **0** | | **5,109** | **(119,220)** | **(114,111)** |
| Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu a sail ariannu o dan y rheoliadau | **4** | (5,605) | 0 | | 0 | (5,605) | 5,605 | 0 |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i'r Cronfeydd wrth Gefn a glustnodwyd** | | (496) | 0 | 0 | 0 | (496) | (113,615) | (114,111) |
| Trosglwyddiadau Eraill i/o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd | **8** | 536 | (655) | 153 | (34) | 0 | 0 | 0 |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2022/23** | **6** | **40** | **(655)** | **153** | **(34)** | **(496)** | **(113,615)** | **(114,111)** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | | **(1,480)** | **(6,222)** | **(85)** | **(34)** | **(7,821)** | **199,227** | **191,406** |

DRAFT

## Y FANTOLEN

Mae'r Fantolen yn dangos gwerth, ar ddyddiad y Fantolen, yr asedau a'r ymrwymiadau a gydnabyddir gan yr Awdurdod. Mae asedau net yr Awdurdod (asedau llai ymrwymiadau) yn cael eu cyfateb gan y cronfeydd sydd gan yr Awdurdod. Adroddir ynghylch cronfeydd mewn dau gategori. Y categori cyntaf o gronfeydd yw cronfeydd defnyddiadwy sef cronfeydd y gall yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gynnal lefel ddarbodus o gronfeydd ac unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu defnydd (e.e. y Gronfa Dderbyniadau na ellir ond ei defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyled). Yr ail gategori o gronfeydd yw'r rhai nad yw'r Awdurdod yn gallu eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori hwn o gronfeydd yn cynnwys cronfeydd sy'n dal enillion na wireddwyd a cholledion (e.e. y Gronfa Ailbrisio), pryd na fyddai symiau ond ar gael i ddarparu gwasanaethau os caiff yr asedau eu gwerthu; ac mae cronfeydd sy'n dal gwahaniaethau amseru yn cael eu dangos yn y llinell Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd 'Addasiadau rhwng y sail cyfrifyddu a'r sail ariannu o dan reoliadau.'

| 31 Mawrth 2023 £'000 | | Sylwer | 31 Mawrth 2024 £'000 |
|---:|---|:---:|---:|
| 56,841 | Eiddo, Peiriannau ac Offer | **11** | 56,044 |
| 222 | Asedau Anniriaethol | **11** | 141 |
| 33 | Dyledwyr Tymor Hir | **14** | 62 |
| **57,096** | **Asedau Tymor Hir** | | **56,247** |
| 638 | Rhestrau Stoc | **13** | 614 |
| 5,041 | Dyledwyr Tymor Byr | **14** | 1,275 |
| 0 | Buddsoddiadau Tymor Byr | **15** | 0 |
| 4,177 | Arian a Chyfwerth Ariannol | **15** | 2,973 |
| **9,856** | **Asedau Cyfredol** | | **4,862** |
| (8,868) | Benthyca Tymor Byr | **12** | (3,925) |
| (273) | Darpariaethau | **17** | (217) |
| (4,287) | Credydwyr Tymor Byr | **16** | (5,947) |
| **(13,428)** | **Ymrwymiadau Cyfredol** | | **(10,089)** |
| (227,143) | Rhwymedigaeth Pensiwn | **18** | (230,372) |
| 0 | Darpariaethau Tymor Hir | **17** | (473) |
| (17,787) | Benthyca Tymor Hir | **12** | (14,073) |
| **(244,930)** | **Rhwymedigaethau Tymor Hir** | | **(244,918)** |
| **(191,406)** | **Asedau Net** | | **(193,898)** |
| (7,821) | Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy | **8** | (8,621) |
| 199,227 | Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio | **18** | 202,519 |
| **191,406** | **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn** | | **193,898** |

DRAFT

## DATGANIAD LLIF ARIAN

Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newidiadau yn arian a chyfwerth ag arian yr Awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut mae'r Awdurdod yn creu ac yn defnyddio arian a chyfwerth ag arian trwy gategoreiddio llif arian fel gweithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llif arian net sy'n deillio o'r gweithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o'r graddau y mae gweithrediadau'r Awdurdod yn cael eu hariannu trwy gyfraniadau ac incwm grant neu gan dderbynwyr y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod. Mae'r gweithgareddau buddsoddi yn dangos y graddau y mae'r all-lifiadau arian wedi eu gwneud ar gyfer adnoddau sydd â'u bwriad o gyfrannu at y modd y gall yr Awdurdod ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r llifoedd arian sy'n deillio o weithgareddau ariannu yn ddefnyddiol wrth ragweld ceisiadau o lifiadau arian yn y dyfodol gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyca) i'r Awdurdod.

| 2022/2023 £'000 | | Sylwer | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|---|
| **5,109** | **(Gwarged)/Diffyg Net wrth Ddarparu Gwasanaethau** | | **2,077** |
| (7,889) | Addasiadau i'r (Gwarged) neu Ddiffyg Net wrth Ddarparu Gwasanaethau ar gyfer Symudiadau nad ydynt yn Arian | **19** | (11,788) |
| (404) | Addasiadau ar gyfer Eitemau sydd yn y (Gwarged) neu Ddiffyg net wrth Ddarparu Gwasanaethau sy'n Weithgareddau Buddsoddi neu Ariannu | **19** | (263) |
| (3,184) | Llifoedd Arian Net o Weithgareddau Gweithredu | **19** | (9,974) |
| 3,356 | Gweithgareddau Buddsoddi | **20** | 2,240 |
| (1,816) | Gweithgareddau Cyllido | **21** | 8,937 |
| (1,644) | (Cynnydd) neu Ostyngiad Net mewn Arian a Chyfwerth ag Arian | | 1,203 |
| **(2,533)** | **Arian a Chyfwerth ag Arian ar ddechrau'r Cyfnod adrodd** | | **(4,177)** |
| **(4,177)** | **Arian a Chyfwerth ag Arian ar ddiwedd y Cyfnod adrodd** | **15** | **(2,974)** |

DRAFFT

## NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

Mae'r nodiadau'n rhoi gwybodaeth am sail y gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol a'r polisïau cyfrifyddu penodol a ddefnyddiwyd.  Maent yn darparu gwybodaeth nad yw'n cael ei chyflwyno yn unlle arall yn y datganiadau ariannol ac sy'n berthnasol er mwyn deall y cyfrifon.

### 1 SAFONAU CYFRIFYDDU SYDD WEDI CAEL EU CYHOEDDI OND NAD YDYNT WEDI'U MABWYSIADU ETO

Pan fo Safon newydd wedi'i chyhoeddi ond heb ei mabwysiadu gan y Cod, rhaid i'r Awdurdod ddatgelu gwybodaeth sy'n ymwneud ag effaith y newid o ran cyfrifyddu.  Dyma'r newidiadau a gyflwynwyd gan God 2024/25:

a) **IFRS 16 Prydlesi** a gyhoeddwyd yn Ionawr 2016, i'w weithredu gan yr Awdurdod yn 2024/25. Gweler Nodyn 29 am fwy o wybodaeth.

b) **Dosbarthu Rhwymedigaethau fel rhai Cyfredol neu Anghyfredol (Diwygiadau i IAS 1)** a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020. Y diwygiadau:

- pennu bod yn rhaid i hawl yr endid i ohirio'r setliad fodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd
- egluro nad yw dosbarthiad yn cael ei effeithio gan fwriad neu ddisgwyliadau rheolwyr ynghylch a fydd yr endid yn arfer ei hawl i ohirio'r setliad
- egluro sut mae amodau benthyca yn effeithio ar ddosbarthiad, ac
- egluro'r gofynion ar gyfer dosbarthu rhwymedigaethau y bydd endid yn eu setlo, neu rai y gallent eu setlo, trwy gyhoeddi ei offerynnau ecwiti ei hun.

c) **Atebolrwydd am Brydles wrth Werthu a Lesio'n Ôl (Diwygiadau i  IFRS 16)** a gyhoeddwyd ym mis Medi 2022. Mae'r diwygiadau i IFRS 16 yn ychwanegu gofynion mesur dilynol ar gyfer trafodion gwerthu a lesio'n ôl.

d) **Rhwymedigaethau Anghyfredol sydd â Chyfamodau (Diwygiadau IAS 1)** a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2022. Roedd y diwygiadau yn gwella'r wybodaeth a ddarperir gan endid pan fo ei hawl i ohirio setliad atebolrwydd am o leiaf 12 mis yn amodol ar gydymffurfio â chyfamodau.

e) **Diwygio Trethi Rhyngwladol: Rheolau Model Colofn Dau (Diwygiadau i  IAS 12)** a gyhoeddwyd ym mis Mai 2023. Mae Colofn Dau yn berthnasol i grwpiau rhyngwladol sydd ag isafswm trosiant. Roedd y gwelliannau yn cyflwyno:

- eithriad dros dro i'r gofynion i adnabod ac i ddatgelu gwybodaeth am rwymedigaethau ac asedau treth ohiriedig sy'n gysylltiedig â threthi incwm Colofn Dau, a
- gofynion datgelu wedi'u targedu ar gyfer yr endidau sy'n cael eu heffeithio.

f) **Trefniadau Cyllid Cyflenwyr (Diwygiadau i  IAS 7 and IFRS 7)** a gyhoeddwyd ym mis Mai 2023. Mae'r diwygiadau'n ei gwneud yn ofynnol i endid wneud datgeliadau ychwanegol ynghylch ei drefniadau cyllid cyflenwyr.Datblygwyd y gofynion newydd gan yr IASB er mwyn rhoi gwybodaeth i'r rhai sy'n defnyddio datganiadau ariannol a fyddai'n eu

- asesu sut mae trefniadau cyllid cyflenwyr yn effeithio ar rwymedigaethau a llif arian parod yr endid
- deall effaith trefniadau cyllid cyflenwyr ar y risg hylifedd i endid, a pha effaith fyddai colli'r trefniadau hynny yn ei chael ar yr endid.

Er eu bod yn cynnig eglurhad, mae'n debyg na fydd eitemau b), c) a d) yn cael effaith sylweddol ar y symiau sy'n cael eu rhagweld ar gyfer y datganiadau ariannol. Bydd eitemau e) ac f) yn cael defnydd cyfyngedig.

DRAFT

## 2 DYFARNIADAU HOLLBWYSIG WRTH GYMHWYSO POLISIAU CYFRIFYDDU

Wrth ddilyn y polisïau cyfrifyddu sydd yn Atodiad 1, mae'r Awdurdod wedi gorfod arfer doethineb wrth ymdrin â thrafodion cymhleth neu'r rhai lle mae ansicrwydd am y dyfodol. Y dyfarniad beirniadol yn y Datganiad Cyfrifon yw:

- Mae llawer o ansicrwydd ynghylch lefelau cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol yn y dyfodol.

Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi penderfynu nad yw'r ansicrwydd hwn yn ddigon eto i ddarparu arwydd y gallai asedau'r Awdurdod gael eu niweidio o ganlyniad i'r angen i ostwng lefelau darpariaeth gwasanaethau.

## 3 RHAGDYBIAETHAU A WNEIR AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU PWYSIG ERAILL O AMCANGYFRIF AC ANSICRWYDD

Mae'r datganiad o gyfrifon yn cynnwys ffigurau amcangyfrifedig sy'n seiliedig ar ragdybiaethau a wnaed gan yr awdurdod ynglŷn â'r dyfodol neu eu bod fel arall yn ansicr. Llunnir amcangyfrifon gan ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau presennol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan nad oes modd pennu balansau gyda sicrwydd, gallai canlyniadau gwirioneddol fod yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon.

Mae'r prif eitemau ym Mantolen yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2024, y mae risg sylweddol y bydd angen addasiad perthnasol ar eu cyfer yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod fel a ganlyn:

**Eiddo, Peiriannau ac Offer** - Mae'r Awdurdod yn ailbrisio ei asedau bob 5 mlynedd. Mae'n bosibl y gallai gwerth eiddo barhau i amrywio, yn enwedig ar adegau o ansicrwydd economaidd. Mae prisiadau'n seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch cyflwr asedau, bywyd defnyddiol, gwerthoedd gweddilliol ac amodau'r farchnad. Mae'r dyfarniadau hyn yn seiliedig ar y wybodaeth orau sydd ar gael ac yn cael eu gwneud gan briswyr cymwys.

Cwblhawyd yr ailbrisiad llawn diwethaf ar 31 Mawrth 2023. Oherwydd bod data pellach ar gael mewn perthynas â phrisio gorsafoedd tân, mae adolygiad wedi'i gwblhau, o holl adeiladau'r orsaf, ar 31 Mawrth 2024.

**Ymrwymiad Pensiwn** - Mae'r amcangyfrif o'r rhwymedigaeth net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy'n ymwneud â'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir, y gyfradd y rhagwelir y bydd cyflogau yn cynyddu yn unol â hi, newidiadau mewn oedran ymddeol, cyfraddau marwolaethau ac, ar gyfer Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, yr enillion a ddisgwylir ar asedau'r gronfa bensiwn.

Penodir actiwarïaid ymgynghorol i roi cyngor arbenigol i'r Awdurdod ynglŷn â'r rhagdybiaethau i'w cymhwyso. Darperir rhagor o wybodaeth o fewn cyfrif y gronfa bensiwn.

## 4 DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Mae'r Datganiad o Gyfrifon wedi cael ei awdurdodi I'w gyhoeddi gan y Trysorydd ar 16 Hydref 2024. Nid yw digwyddiadau sy'n digwydd ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol na'r nodiadau.

DRAFT

Pan oedd digwyddiadau a gynhaliwyd cyn y dyddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am yr amodau sy'n bodoli ar 31 Mawrth 2024, mae'r ffigurau yn y datganiadau a'r nodiadau ariannol wedi'u haddasu ym mhob ffordd berthnasol i adlewyrchu effaith y wybodaeth hon.

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau perthnasol ar ôl dyddiad y fantolen.

## 5 NODYN I'R DADANSODDIAD O WARIANT A CHYLLID

| **2023/24** | **Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf £'000** | **Tâl net ar gyfer Addasiadau Pensiwn £'000** | **Arall Addasiadau £'000** | **Cyfanswm Addasiadau £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Darparu Gwasanaethau Tân | (1,217) | (7,008) | 543 | (7,682) |
| **Cost Net Gwasanaethau** | **(1,217)** | **(7,008)** | **543** | **(7,682)** |
| **Incwm a Gwariant Arall**<br>Incwm a Gwariant Arall o'r dadansoddiad gwariant ac ariannu | (85) | 10,379 | 263 | 10,557 |
| **Gwahaniaethau rhwng gwarged y Gronfa Gyffredinol a gwarged Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar ddarparu gwasanaethau** | **(1,302)** | **3,371** | **806** | **2,875** |

| **2022/23** | **Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf £'000** | **Tâl net ar gyfer Addasiadau Pensiwn £'000** | **Arall Addasiadau £'000** | **Cyfanswm Addasiadau £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Darparu Gwasanaethau Tân | (3,444) | 367 | (4) | (3,081) |
| **Cost Net Gwasanaethau** | **(3,444)** | **367** | **(4)** | **(3,081)** |
| **Incwm a Gwariant Arall**<br>Incwm a Gwariant Arall o'r dadansoddiad gwariant ac ariannu | (264) | 8,666 | 403 | 8,805 |
| **Gwahaniaethau rhwng gwarged y Gronfa Gyffredinol a gwarged Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar ddarparu gwasanaethau** | **(3,708)** | **9,033** | **399** | **5,724** |

**Addasiadau at ddibenion cyfalaf** – mae'r golofn hon yn ychwanegu dibrisiant ac enillion a cholledion amhariad ac ailbrisio yn y llinell gwasanaethau, ac ar gyfer:

- Gwariant gweithredu arall – yn addasu ar gyfer gwarediadau cyfalaf drwy drosglwyddo incwm wrth waredu asedau a'r symiau a ddilëwyd ar gyfer yr asedau hynny.
- Gwariant ac incwm ariannu a buddsoddi - y newidiadau statudol ar gyfer ariannu cyfalaf h.y. didynnir isafswm darpariaeth refeniw a chyfraniadau refeniw eraill o wasanaethau gan nad yw'r rhain yn symiau y gellir codi amdanynt o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.

DRAFT

- Trethiant ac incwm a gwariant grant amhenodol - caiff grantiau cyfalaf eu haddasu ar gyfer incwm na ellir codi amdano o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae grantiau refeniw yn cael eu haddasu o'r rhai y gellir eu derbyn yn y flwyddyn i'r rhai y gellir eu derbyn heb amodau neu y bodlonwyd amodau ar eu cyfer drwy gydol y flwyddyn. Mae'r llinell trethiant ac incwm a gwariant grant amhenodol yn cael ei gredydu â grantiau cyfalaf y gellir eu derbyn yn y flwyddyn heb amodau neu rai y bodlonwyd amodau ar eu cyfer yn y flwyddyn.

**Newid net ar gyfer yr addasiadau pensiwn -** Newid net ar gyfer dileu cyfraniadau pensiwn ac ychwanegu gwariant ac incwm Buddiannau Cyflogeion IAS19 sy'n ymwneud â phensiwn:

- Ar gyfer gwasanaethau, mae hyn yn cynrychioli dileu cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a wnaed gan yr awdurdod fel y'i caniateir drwy statud a disodli costau gwasanaeth presennol a chostau gwasanaeth a roddwyd.
- Ar gyfer incwm a gwariant ariannu a buddsoddi – codir y llog net ar y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**Addasiadau Eraill** - Gwahaniaethau eraill rhwng symiau a ddebydwyd/credydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a symiau taladwy/derbyniadwy i'w cydnabod o dan statud:

- Ar gyfer incwm a gwariant ariannu a buddsoddi, mae'r golofn addasiadau statudol arall yn cydnabod addasiadau i'r Gronfa Gyffredinol ar gyfer y gwahaniaethau amseru ar gyfer premiymau a gostyngiadau.
- Mae'r tâl o dan Drethiant ac incwm a gwariant grant amhenodol yn cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng yr hyn y gellir ei godi o dan reoliadau statudol y rhagamcanwyd y byddid yn ei dderbyn ar ddechrau'r flwyddyn a'r incwm a gydnabyddir o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn y Cod. Mae hwn yn wahaniaeth amseru gan y bydd unrhyw wahaniaeth yn cael ei ddwyn ymlaen mewn Gwargedion neu Ddiffygion ar y Gronfa Gyffredinol yn y dyfodol.

DRAFT

## 6 DADANSODDI GWARIANT AC INCWM YN ÓL NATUR

| 2022/23 £000 | | 2023/24 £000 |
|---:|---|---:|
| | **Gwariant** | |
| 30,194 | Gweithwyr | 24,476 |
| 8,522 | Costau Gweithredu Eraill | 10,079 |
| 419 | Gwasanaethau Cefnogi | 318 |
| (11) | Enillion ar waredu asedau | (14) |
| 9,131 | Gwariant Ariannu a Buddsoddi | 11,071 |
| (495) | Costau Ariannu Cyfalaf | 2,478 |
| **47,760** | **Cyfanswm y Gwariant** | **48,408** |
| | **Incwm** | |
| (540) | Ffioedd, Taliadau & Incwm Gwasanaeth Arall | (546) |
| (61) | Incwm Llog a Buddsoddi | (429) |
| (39,412) | Cyfraniadau gan Awdurdodau Cyfansoddol | (44,394) |
| (2,638) | Grantiau a Chyfraniadau'r Llywodraeth | (962) |
| **(42,651)** | **Cyfanswm yr Incwm** | **(46,331)** |
| **5,109** | **(Gwarged)/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | **2,077** |

## 7 ADDASIADAU RHWNG Y SAIL GYFRIFYDDU A'R SAIL ARIANNU YN ÓL STATUD

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a'r gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan yr awdurdod yn ystod y flwyddyn yn unol ag arfer cyfrifyddu priodol i nodi'r adnoddau y mae darpariaethau statudol yn pennu eu bod ar gael i'r awdurdod i fodloni gwariant cyfalaf a refeniw yn y dyfodol.

Mae'r canlynol yn nodi disgrifiad o'r cronfeydd wrth gefn y gwneir yr addasiadau yn eu herbyn.

**Balans y Gronfa Gyffredinol**

Y Gronfa Gyffredinol yw'r gronfa statudol y mae'n ofynnol i holl dderbyniadau awdurdod gael eu talu iddi ac y mae holl rwymedigaethau'r awdurdod i'w talu ohoni, ac eithrio i'r graddau y gallai rheolau statudol ddarparu fel arall. Gall y rheolau hyn hefyd nodi'r flwyddyn ariannol lle dylai rhwymedigaethau a thaliadau effeithio ar falans y Gronfa Gyffredinol, nad yw o reidrwydd yn unol ag arfer cyfrifyddu priodol. Felly, mae balans y Gronfa Gyffredinol yn crynhoi'r adnoddau y mae'r awdurdod wedi'i rymuso'n statudol i'w wario ar ei wasanaethau neu ar fuddsoddiad cyfalaf (neu'r diffyg adnoddau y mae'n ofynnol i'r awdurdod ei adennill) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**Cronfa derbyniadau cyfalaf**

Mae'r gronfa derbyniadau cyfalaf yn dal yr elw o waredu tir neu asedau eraill, sydd wedi'i gyfyngu gan statud rhag cael ei ddefnyddio heblaw am ariannu gwariant cyfalaf newydd neu i'w neilltuo i ariannu gwariant cyfalaf hanesyddol. Mae'r balans ar y gronfa wrth gefn yn dangos yr adnoddau sydd eto i'w cymhwyso at y dibenion hyn ar ddiwedd y flwyddyn.

**Grantiau cyfalaf heb eu cymhwyso**

Mae'r cyfrif (cronfa wrth gefn) grantiau cyfalaf heb eu cymhwyso yn dal y grantiau a'r cyfraniadau a dderbyniwyd tuag at brosiectau cyfalaf y mae'r awdurdod wedi cwrdd â'r amodau ar eu cyfer ac a fyddai fel arall yn gofyn am ad-dalu'r arian, ond nad ydynt wedi'u cymhwyso eto i dalu am wariant. Mae'r balans wedi'i gyfyngu gan delerau grant o ran y gwariant cyfalaf y gellir ei gymhwyso yn ei erbyn a/neu'r flwyddyn ariannol y gellir gwneud hyn.

DRAFT

| 2022/23 | | | | | | 2023/24 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Balans y Gronfa Gyffredinol £'000 | Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso £'000 | Cronfeydd Cyfalaf a Glustnodwyd £'000 | Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £'000 | Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £'000 | **Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifyddu a'r Sail Ariannu o dan y Rheoliadau** | Balans y Gronfa Gyffredinol £'000 | Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso £'000 | Cronfa Derbyniadau Cyfalaf £'000 | Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £'000 | Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £'000 |
| (2,089) | 0 | 0 | (2,089) | 2,089 | Dibrisiant ac amhariad | (2,446) | 0 | 0 | (2,446) | 2,446 |
| 2,584 | 0 | 0 | 2,584 | (2,584) | Colledion/enillion ailbrisio/enillion ar Eiddo | (32) | 0 | 0 | (32) | 32 |
| 11 | 0 | (34) | (23) | 23 | Gwaredu asedau nad ydynt yn gyfredol | 14 | 0 | (39) | (25) | 25 |
| 525 | 0 | 0 | 525 | (525) | Gwariant cyfalaf wedi'i ariannu o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd/CERA | 1,101 | 0 | 0 | 1,101 | (1,101) |
| 253 | (36) | 0 | 217 | (217) | Ariannu gwariant cyfalaf o grantiau | 71 | 0 | 0 | 71 | (71) |
| 1,959 | 0 | 0 | 1,959 | (1,959) | Cyllid Ariannu (MRP) | 1,902 | 0 | 0 | 1,902 | (1,902) |
| **3,243** | **(36)** | **(34)** | **3,173** | **(3,173)** | | **610** | **0** | **(39)** | **571** | **(571)** |
| 9,386 | 0 | 0 | 9,386 | (9,386) | Cyfraniadau a thaliadau Pensiwn Cyflogwyr i bensiynwyr | 10,532 | 0 | 0 | 10,532 | (10,532) |
| (18,419) | 0 | 0 | (18,419) | 18,419 | Gwrthdroi buddion ymddeol yn y CIES | (13,903) | 0 | 0 | (13,903) | 13,903 |
| **(9,033)** | **0** | **0** | **(9,033)** | **9,033** | | **(3,371)** | **0** | **0** | **(3,371)** | **3,371** |
| 0 | 189 | 0 | 189 | (189) | Addasiad i'r Gronfa Grantiau wrth Gefn | 0 | 37 | 0 | 37 | (37) |
| 66 | | | 66 | (66) | Symuiad o ran cronni Absenoldeb Cronedig | (114) | | | (114) | 114 |
| **(5,724)** | **153** | **(34)** | **(5,605)** | **5,605** | **Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail ariannu o dan y rheoliadau** | **(2,875)** | **37** | **(39)** | **(2,877)** | **2,877** |

DRAFT

## 8 CRONFEYDD WRTH GEFN DEFNYDDIADWY

Mae'r nodyn hwn yn nodi'r symiau a neilltuwyd o falans y Gronfa Gyffredinol mewn cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i ddarparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwariant yn y dyfodol a'r symiau a drosglwyddwyd yn ôl o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i fodloni gwariant y Gronfa Gyffredinol yn 2023/24.

| Cronfa | Diben y Gronfa Wrth Gefn | Balans 1 Ebrill 2022 £'000 | Trosglwydd-iadau (i mewn/) / allan 2022/23 £'000 | Balans 31 Mawrth 2023 £'000 | Trosglwydd-iadau (i mewn/) / allan £'000 | Balans 31 Mawrth 2024 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfeydd Wrth Gefn y Gwasanaeth** | | | | | | |
| Cronfa Bensiwn | Costau pensiwn ychwanegol yn ymwneud â newidiadau i reolau pensiwn | (85) | (460) | (545) | 0 | (545) |
| Cronfa wrth gefn ar gyfer Llog | Gwrthbwyso cynnydd mewn cyfraddau llog a fyddai'n effeithio ar y gyllideb refeniw | (300) | 0 | (300) | 0 | (300) |
| Atgyweirio Hydrantau Tân | Ariannu ôl-groniad o ran atgyweirio hydrantau | (90) | 0 | (90) | 0 | (90) |
| PPE Gwisg / Stoc | Mwy o gostau gwisg oherwydd newidiadau mewn deddfwriaeth | (250) | 0 | (250) | (447) | (697) |
| Newid Trawsffurfio | Cyllid ar gyfer cyflawni prosiectau newid trawsnewidiol | (851) | 0 | (851) | 0 | (851) |
| Gwella Cyfleusterau | Sicrhau bod adeiladau'n cwrdd â'r safon ofynnol a gwella effeithlonrwydd ynni | (1,323) | 672 | (651) | 0 | (651) |
| Atebolrwydd Cyfreithiol | Ariannu rhwymedigaethau cyfreithiol yn y dyfodol ar gyfer hawliadau hysbys/ disgwyliedig | (225) | 39 | (186) | (124) | (310) |
| Hyfforddiant | Gweithredu gofynion deddfwriaethol ar gyfer newidiadau i ddarpariaeth hyfforddiant | (250) | 0 | (250) | 0 | (250) |
| Digwyddiadau mawr | Gwrthbwyso costau digwyddiadau mawr sy'n fwy na'r gyllideb | (150) | 0 | (150) | 0 | (150) |
| Gwella Systemau | Cyllid ar gael i weithredu gwelliannau i'r system | (848) | 137 | (711) | 0 | (711) |
| Chwyddiant | Gwrthbwyso costau chwyddiant sy'n fwy na'r gyllideb | (250) | 0 | (250) | 0 | (250) |
| **Cronfeydd Cyfalaf a Grantiau Wrth Gefn** | | | | | | |
| Prosiectau Cyfalaf | Cyllid ar gyfer cynlluniau lle ceir oedi a chostau cadw | 0 | (1,043) | (1,043) | 129 | (914) |
| Cynllun Radio | Uwchraddio'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys - gwrthbwyso rhai o'r costau ychwanegol | (750) | 0 | (750) | (261) | (1,011) |
| Gostyngiad Grant | Gwrthbwyso gostyngiad yn y cyllid Diogelwch Tân gan Lywodraeth Cymru | (195) | 0 | (195) | 0 | (195) |
| **Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd** | | **(5,567)** | **(655)** | **(6,222)** | **(703)** | **(6,925)** |
| Cronfa Gyffredinol | Ar gael at ddibenion cyffredinol ac i ddarparu gwytnwch gweithredol | (1,520) | 40 | (1,480) | (95) | (1,575) |
| Cronfa Derbyniadau Cyfalaf | Yn dal derbyniadau o werthu asedau, ar gael i ariannu gwariant cyfalaf yn y dyfodol | 0 | (34) | (34) | (39) | (73) |
| Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso | Yn dal y grantiau a'r cyfraniadau a dderbyniwyd tuag at brosiectau cyfalaf y mae'r Awdurdod wedi cwrdd â'r amodau ar eu cyfer ac a fyddai fel arall yn gofyn am ad-dalu'r arian, ond nad ydynt wedi'u cymhwyso eto i dalu am wariant. | (238) | 153 | (85) | 37 | (48) |
| **Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd** | | **(7,325)** | **(496)** | **(7,821)** | **(800)** | **(8,621)** |

DRAFT

## 9 INCWM A GWARIANT ARIANNU A BUDDSODDI

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| 464 | Llog sy'n daladwy a thaliadau tebyg a godir | 692 |
| (61) | Llog a dderbynnir ac incwm tebyg | (429) |
| 8,666 | Llog Net ar rwymedigaeth buddiannau diffiniedig net | 10,379 |
| **9,069** | **Cyfanswm** | **10,642** |

## 10 TRETHIANT AC INCWM GRANT AMHENODOL

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| 6,631 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 7,478 |
| 3,916 | Cyngor Sir Ynys Môn | 4,403 |
| 7,018 | Cyngor Gwynedd | 7,914 |
| 5,381 | Cyngor Sir Ddinbych | 6,064 |
| 8,814 | Cyngor Sir y Fflint | 9,936 |
| 7,652 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 8,599 |
| **39,412** | **Cyfraniadau gan Awdurdodau Cyfansoddol** | **44,394** |
| 252 | Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau | 71 |
| **39,664** | **Cyfanswm Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol** | **44,465** |

Yn 2023/24, mae'r cyfraniadau a dderbyniwyd gan yr Awdurdodau Lleol cyfansoddol yn cynnwys £1.081m a dderbyniwyd yn flaenorol fel grant gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â Chostau Cyfraniad Cyflogwr Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

DRAFT

# 11 EIDDO, PEIRIANNAU AC OFFER AC ASEDAU ANNIRIAETHOL

## Symudiadau ar Falansau

| 2023-2024 | Tir ac Adeiladau £'000 | Cerbydau ac Offer £'000 | Asedau Wrthi'n cael eu Hadeiladu £'000 | Eiddo, Peiriannau ac Offer Cyfanswm £'000 | Asedau Anniriaethol Cyfanswm £'000 | Asedau a Gedwir i'w Gwerthu Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwerth Llyfr Gros ar 1 Ebrill 2023** | **47,289** | **24,721** | **85** | **72,095** | **431** | **0** |
| Ailgategoreiddio asedau | 0 | 36 | (36) | 0 | 0 | 0 |
| Ychwanegiadau | 414 | 758 | 1,011 | 2,183 | 0 | 0 |
| Cynnydd / (gostyngiad) ailbrisio a gydnabuwyd yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn | (1,352) | 0 | 0 | (1,352) | 0 | 0 |
| Cynnydd / (gostyngiad) ailbrisio a gydnabuwyd yn y Gwarged / Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | (95) | 0 | 0 | (95) | 0 | 0 |
| Dadgydnabyddiaeth - Gwarediadau | (3) | (1,303) | 0 | (1,306) | 0 | 0 |
| Dadgydnabyddiaeth - Arall | 0 | (83) | 0 | (83) | (198) | 0 |
| **Gwerth Llyfr Gros ar 1 Mawrth 2024** | **46,253** | **24,129** | **1,060** | **71,442** | **233** | **0** |
| **Dibrisiant Cronedig & Amhariad** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | (4) | (15,250) | 0 | (15,254) | (209) | 0 |
| Dibrisiant ac Amorteiddiad a godir | (897) | (1,468) | 0 | (2,365) | (81) | 0 |
| Dibrisiant wedi'i ysgrifennu o'r Gronfa Ailbrisio | 795 | 0 | 0 | 795 | 0 | 0 |
| Dibrisiant wedi'i ysgrifennu i'r Gwarged / Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | 63 | 0 | 0 | 63 | 0 | 0 |
| Dadgydnabyddiaeth - Gwarediadau | 0 | 1,280 | 0 | 1,280 | 0 | 0 |
| Dadgydnabyddiaeth - Arall | 0 | 83 | 0 | 83 | 198 | 0 |
| **Dibrisiant Cronedig ar 31 Mawrth 2024** | **(43)** | **(15,355)** | **0** | **(15,398)** | **(92)** | **0** |
| **GWERTH LLYFR NET AR 1 MAWRTH 2024** | **46,210** | **8,774** | **1,060** | **56,044** | **141** | **0** |
| **GWERTH LLYFR NET AR 1 MAWRTH 2023** | **47,285** | **9,471** | **85** | **56,841** | **222** | **0** |

DRAFT

| 2022-2023 | Land and Buildings £'000 | Vehicles and Equipment £'000 | Assets Under Construction £'000 | Property Plant & Equipment Total £'000 | Intangible Assets Total £'000 | Assets Held for Sale Total £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwerth Llyfr Gros ar 1 Ebrill 2022** | **34,836** | **22,250** | **1,027** | **58,113** | **672** | **0** |
| Ailgategoreiddio asedau | 0 | 1,027 | (1,027) | 0 | 0 | 0 |
| Ychwanegiadau | 696 | 2,461 | 85 | 3,242 | 125 | 0 |
| Cynnydd / (gostyngiad) ailbrisio a gydnabuwyd yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn | 9,173 | 0 | 0 | 9,173 | 0 | 0 |
| Cynnydd / (gostyngiad) ailbrisio a gydnabuwyd yn y Gwarged / Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | 2,584 | 0 | 0 | 2,584 | 0 | 0 |
| Dadgydnabyddiaeth - Gwarediadau | 0 | (1,004) | 0 | (1,004) | 0 | 0 |
| Dadgydnabyddiaeth - Arall | 0 | (13) | 0 | (13) | (366) | 0 |
| **Gwerth Llyfr Gros ar 1 Mawrth 2023** | **47,289** | **24,721** | **85** | **72,095** | **431** | **0** |
| **Dibrisiant Cronedig & Amhariad** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 0 | (14,948) | 0 | (14,948) | (446) | 0 |
| Dibrisiant ac Amorteiddiad a godir | (663) | (1,297) | 0 | (1,960) | (129) | 0 |
| Dibrisiant wedi'i ysgrifennu o'r Gronfa Ailbrisio | 659 | 0 | 0 | 659 | | 0 |
| Dibrisiant wedi'i ysgrifennu i'r Gwarged / Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dadgydnabyddiaeth - Gwarediadau | 0 | 982 | 0 | 982 | 0 | 0 |
| Dadgydnabyddiaeth - Arall | 0 | 13 | 0 | 13 | 366 | 0 |
| **Dibrisiant Cronedig ar 31 Mawrth 2023** | **(4)** | **(15,250)** | **0** | **(15,254)** | **(209)** | **0** |
| **GWERTH LLYFR NET AR 1 MAWRTH 2023** | **47,285** | **9,471** | **85** | **56,841** | **222** | **0** |
| **GWERTH LLYFR NET AR 1 MAWRTH 2022** | **34,836** | **7,302** | **1,027** | **43,165** | **226** | **0** |

DRAFT

**Dibrisiad**
Mae’r dibrisio'n seiliedig ar y Dull Beacon, sef pan wneir amcangyfrif o gydrannau'r adeilad ac oes ddefnyddiol pob cydran.

Mae asedau eraill yn cael eu cydnabod ar y gost hanesyddol, sy'n brocsi ar gyfer y gost bresennol ar asedau ag oes fer ac yn cael ei ddibrisio dros eu hoes ddefnyddiol.

**Ailbrisiadau ac Amariadau**
Mae'r awdurdod yn sicrhau bod yr holl eiddo, peiriannau ac offer y mae'n ofynnol eu mesur ar eu gwerth cyfredol yn cael eu hailbrisio'n ddigon rheolaidd fel nad yw eu swm cario yn sylweddol wahanol i'w gwerth presennol ar ddiwedd y flwyddyn, ac o leiaf bob pum mlynedd. Cyflawnwyd yr holl brisiadau’n fewnol. Cynhaliwyd prisiadau tir ac adeiladau yn unol â'r methodolegau a'r sail ar gyfer amcangyfrif a nodir yn safonau proffesiynol Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig.

Cynhaliwyd adolygiad o holl adeiladau'r gorsafoedd tân, fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2024, yn dilyn cyngor gan y priswyr bod y gost o godi adeiladau eraill yn eu lle wedi gostwng. Mae gorsafoedd tân yn cael eu prisio ar gost codi adeilad arall yn eu lle gyda dibrisiant. Cafodd y swyddfeydd a’r gweithdai eu hailbrisio yn 2022/23 ac maent wedi’u prisio ar sail gwerth eu defnydd presennol.

Mae prisiadau cerbydau, peiriannau ac offer yn seiliedig ar brisiau cyfredol lle mae marchnad ail-law weithredol neu'r prisiau rhestr diweddaraf wedi'u haddasu yn ôl cyflwr yr ased.

**YMRWYMIADAU CYFALAF**

Mae'r Awdurdod wedi ymrwyo i wariant cyfalaf mewn cyfnodau yn y dyfodol sy'n deillio o gontractau a oedd yn bodoli ar ddyddiad y Fantolen. Mae'r gwariant cyfalaf yr ymrwymwyd iddo ar 31 Mawrth 2024 ar gyfer cyfnodau yn y dyfodol yn cyfateb i £3,804k (2022/23: £882k). Mae'r ymrwymiadau'n ymwneud â'r canlynol:

| **Disgrifiad** | **£’000** |
|---|---|
| Gwaith Adeiladu | 214 |
| Prynu tir | 2,629 |
| Peiriant tân | 961 |
| **Cyfanswm** | **3,804** |

**ASEDAU DROS BEN (Eiddo, peiriannau ac offer nad ydynt yn weithredol**)

Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw asedau perthnasol dros ben.

DRAFT

## 12 OFFERYNNAU ARIANNOL

### Categorïau Offerynnau Ariannol

Mae'r categorïau canlynol o offerynnau ariannol yn cael eu cario yn y Fantolen:

| | Heb fod yn gyfredol | | Cyfredol | |
|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2024 £'000 | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2024 £'000 |
| **Asedau Ariannol ar Gost** | | | | |
| Arian parod a Chyfwerth ag arian parod | 0 | 0 | 4,177 | 2,973 |
| Dyledwyr | 33 | 62 | 5,041 | 1,275 |
| **Rhwymedigaeth Ariannol ar Gost Amorteiddiedig**: | | | | |
| Llog Cronedig | 0 | 0 | (194) | (211) |
| Benthyciadau | (17,787) | (14,073) | (8,674) | (3,714) |
| Cyfanswm Benthyciadau | (17,787) | (14,073) | (8,868) | (3,925) |
| Credydwyr | 0 | 0 | (4,287) | (5,946) |

### Offerynnau Ariannol Enillion/Colledion

Mae'r enillion a'r colledion a gydnabuwyd yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant mewn perthynas ag offerynnau ariannol yn cynnwys yr eitemau canlynol:

| | 2022/23 | | 2023/24 | |
|---|---|---|---|---|
| | Ymrwymiadau Ariannol<br>Mesur ar gost amorteiddiedig<br>£'000 | Asedau Ariannol<br>Benthyciadau a derbyniadau<br>£'000 | Ymrwymiadau Ariannol<br>Mesur ar gost amorteiddiedig<br>£'000 | Asedau Ariannol<br>Benthyciadau a derbyniadau<br>£'000 |
| Gwariant llog | 464 | | 692 | |
| **Cyfanswm y gwariant yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | **464** | | **692** | |
| Incwm llog | | (61) | | (429) |
| **Cyfanswm yr incwm yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | | **(61)** | | **(429)** |
| **Enillion net/(colledion) am y flwyddyn** | **464** | **(61)** | **692** | **(429)** |

DRAFT

## Gwerth Teg Asedau ac Ymrwymiadau sy'n cael eu Cario ar Gost Amorteiddiedig

Mae'r ymrwymiadau ariannol a'r asedau ariannol a gynrychiolir gan fenthyciadau a derbyniadau yn cael eu cario ar y Fantolen ar gost amorteiddiedig (mewn asedau/ymrwymiadau tymor hir gyda llog cronedig mewn asedau/ymrwymiadau cyfredol). Gellir asesu eu gwerth teg trwy gyfrifo gwerth presennol y llif arian sy'n digwydd dros weddill oes yr offerynnau, gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:

- O ran benthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus a benthyciadau eraill sy'n daladwy, mae benthyciadau gan y Bwrdd wedi cael eu defnyddio i ddarparu gwerth teg dan weithdrefnau ad-dalu dyledion y Bwrdd;
- O ran benthyciadau a dderbynnir, defnyddiwyd y cyfraddau farchnad meincnod cyffredinol i ddarparu'r gwerth teg;
- Ni chydnabyddir ad-daliad cynnar nac amhariad;
- Pan fo offeryn yn aeddfedu ymhen llai na 12 mis, neu pan fo'n swm masnach neu'n swm derbyniadwy arall, cymerir mai'r gwerth teg yw'r swm sy'n cario neu'r swm ar yr anfoneb;
- Cymerir mai gwerth teg swm masnach neu swm derbyniadwy arall yw'r swm ar yr anfoneb neu'r infois.

Dyma'r gwerthoedd teg a gyfrifir:

| | 31-Mar-23 | | 31-Mar-24 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Swm cario £'000** | **Gwerth teg £'000** | **Swm cario £'000** | **Gwerth teg £'000** |
| Dyled y BBGC | (20,460) | (18,630) | (17,787) | (17,118) |
| Dyled nad yw'r BBGC | (6,000) | (6,000) | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Dyledion** | **(26,460)** | **(24,630)** | **(17,787)** | **(17,118)** |

Mae'r gwerth teg wedi ei gyfrifo gan gyfeirio'n benodol at ddyfynbrisiau a gyhoeddwyd mewn marchnad weithredol. Yn achos yr Awdurdod Tân ac Achub, maent yn seiliedig ar bremiymau a fyddai'n daladwy pe ildiwyd benthyciadau'r BBGC ac maent yn darparu rhagamcan o'r llog ychwanegol sy'n daladwy i'w gymharu â'r un benthyciad ar gyfraddau cyfredol y farchnad â disgownt yn ôl i'r cyfnod presennol.

## 13 RHESTRAU STOC

| | Prif Storfeydd | | Stoc Fflyd | | Cyfansymiau | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2022/23 £'000** | **2023/24 £'000** | **2022/23 £'000** | **2023/24 £'000** | **2022/23 £'000** | **2023/24 £'000** |
| Balans ar ddechrau'r flwyddyn | 420 | 451 | 181 | 187 | 601 | 638 |
| Pryniadau | 101 | 314 | 203 | 229 | 304 | 543 |
| Dileuadau | (15) | (50) | (1) | (1) | (16) | (51) |
| Cydnabyddir fel Gwariant yn y flwyddyn | (55) | (302) | (196) | (214) | (251) | (516) |
| **Balans sy'n weddill ar ddiwedd y flwyddyn** | **451** | **413** | **187** | **201** | **638** | **614** |

DRAFT

## 14 DYLEDWYR

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---:|---|---:|
| | **Tymor Hir** | |
| 33 | Rhagdaliadau | 62 |
| **33** | **Cyfanswm Tymor Hir** | **62** |
| | **Tymor Byr** | |
| 372 | Symiau Derbyniadwy Eraill | 286 |
| 3,692 | Symiau Masnach Derbyniadwy | 488 |
| 977 | Rhagdaliadau | 501 |
| **5,041** | **Cyfanswm Tymor Byr** | **1,275** |
| **5,074** | **Cyfanswm Dyledwyr Tymor Hir a Thymor Byr** | **1,337** |

## 15 ARIAN PAROD A CHYFWERTH AG ARIAN PAROD

| 31-Mar-23 £'000 | | 31-Mar-24 £'000 |
|---:|---|---:|
| 4,167 | Balansau Arian Parod a Balansau Banc | 1,483 |
| 0 | Adneuon Tymor Byr | 1,480 |
| 10 | Imprest Arian Mân | 10 |
| **4,177** | **Cyfanswm** | **2,973** |

DRAFT

## 16 CREDYDWYR

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---:|---|---:|
| (811) | Symiau Taladwy Eraill | (3,364) |
| (3,476) | Symiau Masnach Taladwy | (2,583) |
| **(4,287)** | **Cyfanswm** | **(5,947)** |

## 17 DARPARIAETHAU

Ar 31 Mawrth 2024, roedd gan yr Awdurdod ddarpariaethau yn werth £690k yn ymwneud ag ymrwymiadau tuag at weithwyr cyflogedig. Defnyddir y ddarpariaeth hon yn erbyn gwariant refeniw, pan fydd yn digwydd:

| | Balans Agoriadol £'000 | Symudiadau I Mewn £'000 | Symudiadau Allan £'000 | Balans Terfynol £'000 |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Darpariaethau Tymor Byr | (273) | (25) | 81 | (217) |
| Darpariaethau Tymor Hir | 0 | (473) | 0 | (473) |
| **Cyfanswm** | **(273)** | **(498)** | **81** | **(690)** |

## 18 CRONFEYDD WRTH GEFN NA ELLIR EU DEFNYDDIO

| 31-Mar-23 £'000 | | 31-Mar-24 £'000 |
|---|---|---|
| (18,175) | Cronfa Ailbrisio | (17,304) |
| (10,013) | Cyfrif Addasu Cyfalaf | (10,935) |
| 227,143 | Cronfa Pensiynau | 230,372 |
| 272 | Cyfrif Absenoldebau Cronedig | 386 |
| **199,227** | **Cyfanswm** | **202,519** |

### 18a Cronfa Ailbrisio

Mae'r Gronfa Ailbrisio yn cynnwys yr enillion a wnaed gan yr Awdurdod sy'n deillio o gynnydd yng ngwerth ei Eiddo, ei Beiriannau a'i Offer.

Bydd y balans yn cael ei ostwng pan fo asedau gydag enillion cronedig yn:
- cael eu hailbrisio am i lawr, neu'n cael eu hamharu a'r enillion yn cael eu colli;
- cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, a'r enillion yn cael eu treulio trwy ddibrisiad, neu'n cael eu gwaredu, a'r enillion yn cael eu gwireddu.

Nid yw'r Gronfa ond yn cynnwys enillion cronedig ers 1 Ebrill 2007, sef y dyddiad y crewyd y Gronfa. Mae enillion cronedig sy'n deillio cyn y dyddiad hwnnw yn cael eu cyfuno yn y balans ar y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| **(8,550)** | **Balans ar 1 Ebrill** | **(18,175)** |
| (9,832) | Ailbrisio asedau am i fyny | 0 |
| 0 | Ailbrisio asedau a cholledion amhariad i lawr nas codir ar y gwarged/diffyg wrth ddarparu gwasanaethau | 557 |
| 57 | Addasiad o'r Cyfrif Addasu Cyfalaf | 0 |
| 150 | Gwahaniaeth rhwng dibrisiad gwerth teg a dibrisiad cost hanesyddol | 314 |
| **(18,175)** | **Balans ar 31 Mawrth** | **(17,304)** |

DRAFFT

### 18b Cyfrif Addasu Cyfalaf

Mae'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sydd rhwng y trefniadau gwahanol ar gyfer rhoi cyfrif am dreuliant asedau anghyfredol ac ar gyfer ariannu caffael, adeiladu neu wella'r asedau hynny dan y darpariaethau statudol.

Debydir y Cyfrif gyda chost caffael, adeiladu neu wella gan fod dibrisiad, colled amhariad ac amorteiddiad yn cael eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gyda chofnodion cyson o'r Gronfa Ailbrisio i drosi ffigyrau gwerth teg yn sail cost hanesyddol). Credydir y Cyfrif gyda'r symiau a neilltuwyd gan yr Awdurdod fel arian ar gyfer costau caffael, adeiladu a gwella. Mae'r Cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion cronedig ar Eiddo Buddsoddi, ac enillion a gydnabuwyd ar asedau rhoddedig sydd eto i gael eu defnyddio gan yr Awdurdod.

Mae'r Cyfrif hefyd yn cynnwys enillion prisio a gronnwyd ar Eiddo, Peiriannau ac Offer cyn 1 Ebrill 2007, sef y dyddiad y crewyd y Gronfa Ailbrisio ar gyfer dal enillion o'r fath.

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| **(6,444)** | **Balans ar 1 Ebrill** | **(10,013)** |
| 2,089 | Taliadau am ddibrisiad ac amhariad asedau anghyfredol | 2,445 |
| 23 | Swm yr ased anghyfredol wedi'i ddileu wrth waredu neu werthu | 25 |
| (57) | Addasiad Blwyddyn Flaenorol - trosglwyddo rhwng CAC ac CA | 0 |
| (2,584) | Addasiad sy'n ymwneud ag ailbrisio asedau | 32 |
| (150) | Addasu symiau a ddilëwyd o'r Gronfa Ailbrisio | (314) |
| **(679)** | **Swm net a ddilëwyd o gost yr asedau anghyfredol a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn** | **2,188** |
| (216) | Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a ddefnyddiwyd ar gyfer ariannu cyfalaf | (71) |
| (525) | Gwariant cyfalaf a godir yn erbyn y Gronfa Gyffredinol/ Cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi | (1,101) |
| (189) | Defnydd o grantiau i ariannu cyfalaf o'r cyfrif grantiau cyfalaf nas defnyddiwyd | (36) |
| (1,960) | Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiad cyfalaf a godwyd yn erbyn y Gronfa Gyffredinol | (1,902) |
| **(2,890)** | **Ariannu Cyfalaf a Ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn** | **(3,110)** |
| **(10,013)** | **Balans ar 31 Mawrth** | **(10,935)** |

## 18c Cronfa Pensiynau

Mae'r gronfa pensiynau yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n digwydd oherwydd y trefniadau gwahanol ar gyfer cyfrifyddu buddion ôl-gyflogi a buddion ariannu yn unol â'r darpariaethau statudol. Mae'r Awdurdod yn rhoi cyfrif am fuddion ôl-gyflogi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gan fod y buddion yn cael eu hennill gan weithwyr sy'n cronni blynyddoedd o wasanaeth, gan ddiweddaru'r ymrwymiadau a gydnabyddir i adlfewyrchu chwyddiant, newid rhagdybiaethau ac adenillion buddsoddiadau ar unrhyw adnoddau a neilltuir i gwrdd â'r costau. Fodd bynnag, mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw fuddion a enillir gael eu hariannu gan fod yr awdurdod yn gwneud cyfraniadau cyflogwr i'r cronfeydd pensiwn neu yn y pen draw yn talu unrhyw bensiynau y mae'n gyfrifol amdanynt yn uniongyrchol. Felly mae'r balans debyd ar y gronfa pensiynau yn dangos diffyg sylweddol yn y buddion a enillwyd gan weithwyr blaenorol a chyfredol a'r adnoddau y mae'r Awdurdod wedi eu neilltuo ar eu cyfer. Bydd y trefniadau statudol yn sicrhau y bydd cyllid wedi'i neilltuo erbyn adeg talu'r buddion.

DRAFT

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| **327,498** | **Balans Agoriadol ar 1 Ebrill** | **227,143** |
| (109,388) | Ailfesur yr ymrwymiad budd diffiniedig net | (142) |
| 18,419 | Gwrthdroi eitemau yn berthnasol i fuddion ymddeoliad wedi'u debydu i'r Darpariaeth Gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 13,903 |
| (9,386) | Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn | (10,532) |
| **(100,355)** | **Symudiad ar y Gronfa Pensiynau** | **3,229** |
| **227,143** | **Balans ar 31 Mawrth** | **230,372** |

## 18d Cyfrif Absenoldebau Cronedig

Mae'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau a fyddai fel arall yn digwydd ar falans y Gronfa Cyffredinol o ganlyniad i absenoldebau digolledol a enillwyd ond chymerwyd yn y flwyddyn e.e hawl i wyliau blynyddol wedi ei gario drosodd ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn mynnu bod yr effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol yn cael ei niwtraleiddio trwy drosglwyddo i mewn neu allan o'r Cyfrif.

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| **338** | **Balans ar 1 Ebrill** | **272** |
| (338) | Setlo neu ganslo croniad a wnaed ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol | (272) |
| 272 | Symiau a gronnwyd ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol | 386 |
| **272** | **Balans ar 31 Mawrth** | **386** |

DRAFT

## 19 DATGANIAD LLIF ARIAN - GWEITHGAREDDAU GWEITHREDU

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| **5,109** | **(Gwarged)/Diffyg Net wrth Ddarparu Gwasanaethau** | **2,077** |
| | **Addasiadau i (warged)/diffyg net ar gyfer symudiadau anariannol** | |
| 38 | Cynnydd/(Gostyngiad) yn y Stoc | (26) |
| 1,310 | Cynnydd/(Gostyngiad) yn y Dyledwyr | (3,737) |
| (1,240) | Cynnydd/(Gostyngiad) yn y Credydwyr | (1,659) |
| (2,089) | Cost Dibrisio | (2,446) |
| 34 | Cyfraniadau a Dderbyniwyd/Derbyniadau Cyfalaf | 39 |
| (9,033) | Addasiadau Pensiwn IAS 19 | (3,371) |
| 2,584 | Codi am Amhariad/Ailbrisio Asedau | (32) |
| (23) | Swm cario Asedau Anghyfredol wedi'u gwerthu neu eu dadadnabod | (25) |
| 464 | Cyfraniad (i)/o Wahanol Ddarpariaethau | (417) |
| 0 | Eitemau anariannol eraill sydd wedi eu costio i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau | 0 |
| 66 | Cronfa wrth gefn Absenoldebau Cronedig | (114) |
| **(7,889)** | **Llai Cyfanswm** | **(11,788)** |
| | **Addasiadau am eitemau sydd yn y (Gwarged) neu'r Diffyg net ar Ddarparu Gwasanaethau sy'n Weithgareddau Buddsoddi ac Ariannu** | |
| (465) | Llog a dalwyd | (692) |
| 61 | Llog a gafwyd | 429 |
| **(404)** | | **(263)** |
| **(3,184)** | **Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredol** | **(9,974)** |

## 20 DATGANIAD LLIF ARIAN - GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| 3,367 | Prynu eiddo, peiriannau ac offer, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol | 2,183 |
| (11) | Enillion o werthu eiddo, peiriannau ac offer, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol | (14) |
| 0 | Derbyniadau eraill o weithgareddau buddsoddi | 71 |
| **3,356** | **Llifau arian net o weithgareddau buddsoddi** | **2,240** |

## 21 DATGANIAD LLIF ARIAN - GWEITHGAREDDAU ARIANNU

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| (13,000) | Derbyniadau arian parod o fenthyca tymor byr a thymor hir | 0 |
| 10,780 | Ad-dalu benthyca tymor byr a thymor hir | 8,674 |
| 404 | Taliadau eraill am weithgareddau ariannu | 263 |
| **(1,816)** | **Llif arian net o weithgareddau ariannu** | **8,937** |

DRAFT

## 22 LWFANSAU AELODAU

Talodd yr Awdurdod y symiau canlynol i aelodau'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn:

| 2022/23<br>£ | | 2023/24<br>£ |
|---|---|---|
| 73,317 | Lwfansau Aelodau Etholedig | 84,804 |
| 1,226 | Treuliau Aelodau Etholedig | 2,209 |
| 910 | Costau Aelodau Cyfetholedig | 2,390 |
| **75,453** | **Cyfanswm** | **89,403** |

Mae ffigurau 2022/23 wedi'u haddasu i adlewyrchu'r newid yn y ffordd y caiff y lwfansau eu hadrodd.

DRAFFT

## 23 TALIADAU SWYDDOGION

Mae'r taliadau a delir i uwch weithwyr yr Awdurdod fel a ganlyn:

| Teitl Swydd | Blwyddyn | Cyflog (gan gynnwys Ffioedd a Lwfansau) £ | Treuliau a ad-dalwyd £ | Budd mewn Nwyddau £ | Cyfanswm (Ac Eithrio Cyfraniadau Pensiwn) £ | Cyfraniadau Pensiwn £ | Cyfanswm y Taliadau £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif Swyddog Tân: Dawn Docx** | 2022/23 | 138,685 | 57 | 0 | 138,742 | 23,576 | 162,318 |
| | **2023/24** | **160,231** | **0** | **0** | **160,231** | **15,348** | **175,579** |
| Dirprwy Brif Swyddog Tân | 2022/23 | 110,948 | 5,565 | 1,380 | 117,893 | 30,289 | 148,182 |
| | **2023/24** | **127,594** | **0** | **0** | **127,594** | **34,833** | **162,427** |
| Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (wedi ymddeol Mehefin 2023) | 2022/23 | 105,795 | 126 | 1,896 | 107,817 | 28,882 | 136,699 |
| | **2023/24** | **31,348** | **21** | **0** | **31,369** | **6,888** | **38,257** |
| Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (eiliwyd Mawrth 2024)* | 2022/23 | 104,014 | 0 | 1,595 | 105,609 | 17,682 | 123,291 |
| | **2023/24** | **104,335** | **0** | **0** | **104,335** | **28,483** | **132,818** |
| Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** | 2022/23 | 104,014 | 0 | 0 | 104,014 | 28,396 | 132,410 |
| | **2023/24** | **120,176** | **0** | **0** | **120,176** | **11,511** | **131,687** |
| Temporary Prif Swyddog Cynorthwyol (penodwyd ym mis Mawrth 2024) | 2022/23 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | **2023/24** | **6,523** | **7** | **0** | **6,530** | **1,421** | **7,951** |
| Trysorydd - Swyddog Adran 151 (15 diwrnod y flwyddyn) | 2022/23 | 8,020 | 251 | 0 | 8,271 | 0 | 8,271 |
| | **2023/24** | **8,180** | **0** | **0** | **8,180** | **2,860** | **11,040** |

Mae'r ffigurau uchod yn cynnwys ôl-daliadau o £38k, o fis Ionawr 2022, oherwydd setliad dyfarniad cyflog Rheolwyr y Frigâd y cytunwyd arno ym mis Mai 2023.

*Prif Swyddog Tân Cynorthwyol ar secondiad dros dro i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru fel Prif Swyddog Tân, o 12 Chwefror 2024. Mae costau cyflog o'r dyddiad hwn, sef cyfanswm o £23,589, wedi'u talu gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

**Yn 2023/24, bu gostyngiad cyfandaliad yng nghyfradd eilaidd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Ar gyfer y swyddogion hynny sy'n aelodau o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol mae cyfraniad y cyflogwr yn cynnwys dosraniad o'r gostyngiad, yn seiliedig ar ganran o gyfanswm tâl pensiynadwy.

DRAFT

Mae'r Swyddog. Monitro yn cael ei ddarparu gan Gyngor Sir y Fflint fel rhan o Gytundeb Lefel Gwasanaeth felly ni ddangosir unrhyw gostau unigolyn yn y tabl uchod. Ceir rhagor o wybodaeth ar gostau'r Swyddog Monitro yn Nodyn 27 - Partion Cysylltiedig.

Talwyd y symiau canlynol i gyflogeion eraill yr awdurdod a oedd yn cael cydnabyddiaeth o fwy na £60,000 ar gyfer y flwyddyn (heb gynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr):

| BAND TALIAD | 2022/23 NIFER Y GWEITHWYR CYFLOGEDIG | 2023/24 NIFER Y GWEITHWYR CYFLOGEDIG |
|---|---|---|
| £60,000 - £64,999 | 9 | 19 |
| £65,000 - £69,999 | 7 | 6 |
| £70,000 - £74,999 | 0 | 6 |
| £75,000 - £79,999 | 4 | 1 |
| £80,000 - £84,999 | 0 | 0 |
| £85,000 - £89,999 | 0 | 2 |
| £90,000 - £94,999 | 0 | 1 |

Mae'r tabl canlynol yn rhoi'r gymhareb rhwng tâl y Prif Swyddog Tân a thál canolrifol staff y Gwasanaeth Tân ac Achub:

| 2022/23 £ | | 2023/24 £ |
|---|---|---|
| 138,685 | Prif Swyddog Tân | 152,034 |
| 34,501 | Canolrif | 36,226 |
| 4.02 | Cymhareb | 4.20 |

Mae'r staff sy'n cael eu cyflogi dan Gontractau'r System RDS wedi eu cynnwys yn y cyfrifiad ar eu pwynt graddfa Cyfwerth â Llawn Amser yn hytrach na'u henillion gwirioneddol. Mae'r data uchod yn cynnwys cyfanswm y cyflog a dalwyd (ac eithrio cyfraniadau pensiwn).

Nid oedd unrhyw becynnau ymadael yn 2023/24 a 2024/25.

## 24 COSTAU ARCHWILIO ALLANOL

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| | Ffioedd sy'n daladwy i Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â gwasanaethau archwilio allanol a gynhelir gan yr archwilydd penodedig | |
| 56 | Gwaith archwilio ariannol | 60 |
| 16 | Gwaith Archwilio Perfformiad | 16 |
| **72** | **Cyfanswm** | **76** |

DRAFT

## 25 GRANTIAU

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| | **Credydwyd i Wasanaethau** | |
| 416 | Ffioedd Gwasanaeth Firelink | 0 |
| 179 | Lleihau Tanau Bwriadol | 169 |
| 226 | Offer Diogelwch yn y Cartref | 240 |
| 10 | Gofyn a Gweithredu | 0 |
| 314 | Cydnerthedd Cenedlaethol Cymru Gyfan | 322 |
| 147 | Ymgysylltu â Phobl Ifanc ac Ieuenctid | 141 |
| 1,081 | Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Costau Cyfraniadau Cyflogwr | 0 |
| 2 | Arolwg Gwresogi | 0 |
| 10 | Rheoli Digwyddiadau Gwybodaeth Diogelwch | 0 |
| 0 | Operation Ugain | 14 |
| 0 | Hanfodion Seibr | 5 |
| **2,385** | **CYFANSWM** | **891** |
| | **Credydwyd i drethiant ac incwm a gwariant amhenodol** | |
| 133 | Cydnerthedd Cenedlaethol Cymru Gyfan | 71 |
| 120 | Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan | 0 |
| **253** | **CYFANSWM** | **71** |

## 26 GWASANAETHAU ASIANTAETH

Mae'r Awdurdod yn gweithredu fel asiant ar ran Llywodraeth Cymru wrth weinyddu dau gynllun grant ar gyfer yr holl Wasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru. Mae'r grantiau cymeradwy yn cael eu talu i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru sydd wedyn yn gyfrifol am ddosbarthu'r grantiau i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Mae'r Awdurdod yn gweithredu fel asiant ar gyfer y Fforwm Cadernid Lleol. Mae hon yn bartneriaeth amlasiantaeth sy'n cynnwys cynrychiolwyr o wasanaethau cyhoeddus lleol, gan gynnwys y gwasanaethau brys, awdurdodau lleol, y GIG, Asiantaeth yr Amgylchedd ac eraill. Mae cyfraniadau gan y cyrff cyhoeddus amrywiol yn cael eu talu i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Defnyddir y cyllid hwn i dalu am wariant y Fforwm. Ar 31 Mawrth 2024, roedd gan yr Awdurdod gyllid o £36k yn ymwneud â'r Fforwm.

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| 2,545 | Cydnerthedd Cenedlaethol Cymru Gyfan | 3,144 |
| 247 | Ymgysylltu â Phlant ac Ieuenctid | 266 |
| 129 | Fforwm Cydnerthedd Lleol | 135 |
| **2,921** | **Cyfanswm** | **3,545** |

DRAFT

## 27 PARTION CYSYLLTIEDIG

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddatgelu trafodion o bwys gyda phartion cysylltiedig – cyrff neu unigolion a allai reoli neu ddylanwadu ar yr Awdurdod neu gael eu rheoli neu eu dylanwadu gan yr Awdurdod. Mae datgelu'r trafodion hyn yn galluogi'r darllenwyr i asesu i ba raddau y gallai'r Awdurdod fod wedi cael ei gyfyngu yn ei allu i weithredu'n annibynnol neu fod wedi sicrhau'r gallu i gyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhwydd â'r awdurdod.

### Llywodraeth Cymru

Mae gan Lywodraeth Cymru gryn ddylanwad dros weithrediad cyffredinol yr Awdurdod – mae'n gyfrifol am ddarparu'r fframwaith statudol y mae'r awdurdod yn gweithredu o'i fewn. Mae'n darparu'r rhan fwyaf o'i gyllid ar ffurf grantiau (caiff y Grant Cynnal Refeniw ei dalu i awdurdodau cyfansoddol) ac mae'n rhagnodi telerau llawer o'r trafodion sydd gan yr awdurdod â phartion eraill. Yn Nodyn 25, dangosir y derbyniadau grant a geir yn uniongyrchol, ac yn Nodyn 10 dangosir cyfraniadau'r awdurdodau cyfansoddol.

### Aelodau

Mae gan aelodau'r awdurdod reolaeth uniongyrchol dros bolisiau ariannol a gweithredol yr awdurdod. Yn Nodyn 22 gwelir cyfanswm lwfansau'r aelodau a dalwyd yn 2023/24.

Cwblhaodd 22 Aelod ffurflen datganiad o fuddiant gyda phartïon cysylltiedig ar gyfer y flwyddyn 2023/24. Ni wnaeth 6 aelod ddychwelyd eu ffurflenni, er gofyn iddynt dro ar ôl tro. Yn achos y 6 aelod na wnaethant ddychwelyd eu ffurflenni, cwblhawyd adolygiad o'r wybodaeth a gedwir gan eu hawdurdod cyfansoddol.

Ac eithrio lwfanau a threuliau, ni nodwyd unrhyw drafodion eraill. Ni thalwyd dim gan yr Awdurdod yn ystod 2023/24, dan drefniadau o'r fath (2022/23: dim), ac nid oedd yr Awdurdod wedi derbyn unrhyw incwm yn ystod 2023/24 (2022/23: dim).

Mae rhestr o fuddiannau Aelodau Etholedig yn cael ei chadw gan y Swyddog Monitro ac mae ar gael i'w gweld ar y wefan - Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru - Awdurdod Tân ac Achub - Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (gov.wales)

DRAFT

### Uwch Swyddogion

Roedd yr Uwch Swyddogion wedi cwblhau datganiad buddiannau gyda phartion cysylltiol am y flwyddyn 2023/24. Yn Nodyn 23, dangosir cydnabyddiaeth ariannol yr Uwch Swyddogion.

Roedd un o'r Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol wedi datgan buddiant fel un o ymddiriedolwyr Pentre Peryglon. Mae'r elusen annibynnol yn rhedeg canolfan gweithgareddau addysg sydd wedi'i lleoli yng Ngogledd Cymru. Roedd taliadau gwerth £12,844 wedi cael eu gwneud i Bentre Peryglon yn 2023/24 fel rhan o gyllid grant Llywodraeth Cymru (2022/23: £5,450). Hefyd, darperir cyllid ar gyfer cost gweinyddwr, sy'n werth £32,258 (2022/23: £29,287).

Am y cyfnod Ebrill i Fehefin 2023, roedd y Trysorydd hefyd yn cael ei gyflogi gan Gyngor Gwynedd fel Cyfarwyddwr Cronfa Bensiwn Gwynedd, a chan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri fel Swyddog Adran 151.

Nid oedd yr Awdurdod wedi derbyn unrhyw incwm yn ystod 2022/23 a 2023/24.

**Cyrff Cyhoeddus Eraill**
Mae Cyngor Sir y Fflint yn darparu rôl Swyddog Monitro. Delir y swydd hon gan y Prif Swyddog (Llywodraethu)/Swyddog Monitro ac roedd taliadau yn £19k (2022/23: £18k).

Darparwyd gwasanaethau cyfreithiol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, a chyfanswm y taliadau am hyn oedd £12k (2022/23: £12k). Ar 31 Mawrth 2024, roedd £12k yn ddyledus.

Ers 1 Ebrill 2023, mae Mersey Internal Audit wedi darparu gwasanaethau archwilio mewnol, a thalwyd cyfanswm o £24k amdanynt. Ar 31 Mawrth 2024, nid oedd unrhyw daliadau'n ddyledus.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, sy'n gweithredu ar ran Cronfa Bensiwn Dyfed, yn rheoli'r taliadau a wneir i ddiffoddwyr tân sy'n bensiynwyr ar ran yr Awdurdod. Maent hefyd yn gyfrifol am reoli cofnodion pensiynwyr presennol ac aelodau gweithredol y cynllun. Roedd y trafodion yn y flwyddyn yn £91k (2022/23: £98k). Ar 31 Mawrth 2024, nid oedd unrhyw daliadau'n ddyledus.

Ym mis Chwefror 2024, dechreuodd cytundeb secondiad gyda Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru er mwyn cael Arweinydd Pensiwn Diffoddwyr Tân, a chyfanswm y gost am hyn oedd £2k. Roedd y balans hwn yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae trefniadau ar y cyd gyda Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn ogystal ag ystafell reoli a rennir. Cyfanswm cyfraniad yr Awdurdod tuag at reoli cyfleusterau oedd £220k (2022/23: £219k), ac ar gyfer cyngor caffael, talwyd £7k (2022/23: £7k). Ar 31 Mawrth 2024 arhosodd £117k yn rhagorol.

DRAFT

## 28 GWARIANT CYFALAF AC ARIANNU CYFALAF

Dangosir cyfanswm y gwariant cyfalaf yr aed iddo yn ystod y flwyddyn yn y tabl isod, (gan gynnwys gwerth asedau a gaffaelwyd dan brydlesi ariannu a chytundebau PFI), ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w ariannu. Lle y bwriedir ariannu gwariant cyfalaf yn y dyfodol drwy daliadau a godir ar refeniw wrth i asedau gael eu defnyddio gan yr awdurdod, mae'r gwariant yn arwain at gynnydd yn y gofyniad ariannu cyfalaf, sef mesur o'r gwariant cyfalaf yr aed iddo'n hanesyddol gan yr awdurdod sydd eto i'w ariannu.

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---:|---|---:|
| 28,401 | Gofyniad Ariannu Cyfalaf Agoriadol | 28,877 |
| | **Buddsoddiad Cyfalaf** | |
| 3,366 | Eiddo, Peiriannau ac Offer | 2,267 |
| | **Ffynonellau Cyllid** | |
| (406) | Grantiau a Chyfraniadau'r Llywodraeth | (107) |
| (1,959) | Symiau wedi'u neilltuo o refeniw | (1,902) |
| (525) | Cyfraniadau Refeniw Uniongyrchol | (1,101) |
| **28,877** | Gofyniad Ariannu Cyfalaf Terfynol | **28,034** |
| 476 | Cynnydd)/gostyngiad yn yr angen gwaelodol i fenthyca (heb gymorth ariannol gan y llywodraeth) | (843) |
| **476** | **Cynnydd / (gostyngiad) mewn Gofyniad Ariannu Cyfalaf** | **(843)** |

## 29 PRYDLESI

### Prydlesi Cyllid

Yn 2016/17 cafodd yr Awdurdod orsaf dân Wrecsam dan les cyllid. Mae'r ased a gafwyd dan y les yn cael ei chario ar y Fantolen dan Eiddo, Peiriannau ac Offer gyda gwerth net o £6,663k. Rhent rhad yw'r taliad les ar gyfer Gorsaf Dân Wrecsam, felly nid oes cysoniad rhwng cyfanswm y taliadau les gofynnol yn y dyfodol a'r gwerth presennol.

### Prydlesi Gweithredu

Mae'r Awdurdod wedi caffael cerbydau a chyfarpar drwy gael prydlesi gweithredu ag oes o bedair blynedd fel arfer.

Hefyd, mae'r Awdurdod yn prydlesu tri adeilad, â chyfnodau prydlesu o bum mlynedd fel arfer.

Dyma'r cyfnodau prydlesu isaf ar gyfer y dyfodol o dan brydlesi na ellir eu canslo yn y dyfodol:

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---:|---|---:|
| 362 | Dim hwyrach na blwyddyn | 444 |
| 644 | Hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na 5 mlynedd | 1,182 |
| 59 | Hwyrach na 5 mlynedd | 72 |
| **1,065** | | **1,698** |

### IFRS 16 Prydlesi Gweithredu

Bydd IFRS 16 yn arwain at newid yn y modd y caiff prydlesi eu trin yn natganiadau ariannol yr Awdurdod.

Bydd IFRS 16 yn ei gwneud yn ofynnol i brydlesi a ddaliwyd yn flaenorol fel prydlesi gweithredu gael eu cydnabod ar y fantolen drwy ased 'hawl i ddefnyddio', sy'n cyd-fynd â'r diffiniad o wariant cyfalaf.

Nodir effaith ddisgwyliedig gweithredu IFRS16 yn y tabl isod, lle mae costau'r prydlesi gweithredu cyfredol wedi'u rhannu i ddangos yr elfen o'r les a fydd yn cael ei thrin fel ased cyfalaf.

| 2023/24 Prydlesi Gweithredu Cyfredol £'000 | | 2023/24 Trosglwyddo i asedau Hawl i Ddefnyddio £'000 | 2023/24 Costau'r Gwasanaeth a godir ar refeniw £'000 | 2023/24 Prydlesi gwerth isel sydd wedi'u heithrio o IFRS16 £'000 |
|---:|---|---:|---:|---:|
| 444 | Dim hwyrach na blwyddyn | 273 | 169 | 2 |
| 1,182 | Hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na 5 mlynedd | 607 | 575 | 0 |
| 72 | Hwyrach na 5 mlynedd | 70 | 2 | 0 |
| **1,698** | | **950** | **746** | **2** |

DRAFT

## 30 CYNLLUNIAU PENSIWN BUDDION DIFFINIEDIG

**Cymryd rhan mewn Cynlluniau Pensiwn**

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion, mae'r Awdurdod yn gwneud cyfraniad tuag at gost buddion ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddion hyn yn daladwy mewn gwirionedd nes bod gweithwyr cyflogedig yn ymddeol, mae gan yr Awdurdod ymrwymiad i wneud y taliadau (ar gyfer y buddion hynny) a'u datgelu ar yr adeg y mae gweithwyr cyflogedig yn ennill eu hawl iddynt yn y dyfodol.

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) yn cael ei weithredu o dan y fframwaith rheoleiddio ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a chyfrifoldeb Cronfa Bensiwn Clwyd, Cyngor Sir y Fflint yw llywodraethu'r cynllun. Penderfynir ar y polisi yn unol â Rheoliadau Cronfeydd Pensiynau. Mae rheolwyr buddsoddi'r gronfa yn cael eu penodi gan bwyllgor pensiynau Cyngor Sir y Fflint. Prif risgiau'r cynllun i'r awdurdod yw'r rhagdybiaethau hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun, newidiadau strwythurol i'r cynllun (h.y. tynnu allan o'r cynllun ar raddfa fawr), newidiadau i chwyddiant, arenillion bond a pherfformiad y buddsoddiadau ecwiti a ddelir gan y cynllun. Mae'r rhain yn cael eu lliniaru i raddau gan y gofynion statudol i'w codi i'r Gronfa Gyffredinol a'r symiau sy'n ofynnol gan statud fel y disgrifir yn y nodyn polisïau cyfrifyddu. Rydym yn cydnabod cost buddion ymddeol yng nghost gwasanaethau a nodwyd pan gânt eu hennill gan weithwyr cyflogedig, yn hytrach na phan delir y buddion ar ffurf pensiynau yn y pen draw.

Fodd bynnag, mae'r taliad y mae'n rhaid inni ei godi yn erbyn yr ardoll yn seiliedig ar yr arian sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn, felly caiff cost wirioneddol buddion ôl-gyflogaeth / buddion ymddeol ei gwrthdroi o'r Gronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r trafodion canlynol wedi'u gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn.

Mae buddion ôl-ymddeol yn ôl disgresiwn ar ymddeoliad cynnar yn drefniant buddion diffiniedig heb ei ariannu, lle mae ymrwymiadau yn cael eu cydnabod pan wneir dyfarniadau. Nid oes unrhyw asedau cynllun wedi'u cronni i fodloni'r ymrwymiadau pensiwn hyn.

Mae Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn gynllun diffiniedig heb ei ariannu â buddion, sy'n golygu na ddelir buddsoddiadau i ariannu'r ymrwymiadau. Mae cyfraniadau, ar gyfradd a bennir gan Lywodraeth Cymru, a wneir gan y cyflogwr a'r gweithwyr cyflogedig yn cael eu cadw mewn cyfrif cronfa bensiwn; codir buddion a delir i'r cyfrif gydag unrhyw falans ar y cyfrif yn cael ei dderbyn neu ei dalu i Lywodraeth Cymru.

**O'Brien**

Yn dilyn proses gyfreithiol hir, cyhoeddwyd y dyfarniad yn achos O'Brien vs Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystod 2019. Canfu hwn fod y penderfyniad i gyfyngu ar y cyfnod pryd y gallai gweithiwr rhan-amser ymuno â'r cynllun pensiwn yn un gwallus ac y dylai gweithwyr cymwys gael ymuno â'r cynllun perthnasol o ddechrau eu contractau.

Mae gan y dyfarniad hwn oblygiadau cenedlaethol i staff sy'n cael eu cyflogi fel diffoddwyr tân ar alwad ac y dechreuodd eu contract cyflogaeth cyn 1 Gorffennaf 2000 neu'r rhai nad ydynt eto wedi cael y cyfle llawn i brynu gwasanaeth blaenorol yr oedd ganddynt hawl iddo.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud diwygiadau i Gynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân 2007

DRAFT

(Diwygiedig) i ddarparu mecanwaith ar gyfer mynd i'r afael â'r mater hwn. Cafodd Gorchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu’r Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Cymru) 2024 ei wneud a’i osod ym mis Ionawr a daeth i rym ar 1 Chwefror 2024. Bydd pob person cymwys yn cael cyfle i brynu hawliau pensiwn yn ôl o fewn yr amserlenni a nodir yn y gorchymyn (h.y. i’w gwblhau erbyn 31 Gorffennaf 2025).

Ni ellir cyfrifo’n llawn effaith ariannol lawn y rheoliadau wedi'u diweddaru er bod amcangyfrif wedi'i gynnwys ym mhrisiad 2020 rhwymedigaethau cynllun pensiwn yr Awdurdod a gynhaliwyd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD).

**Cyfartalu a Mynegeio Isafswm Pensiwn Gwaranatedig (GMP)**

Yn ddiweddar, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar fynegeio a chyfartalu Isafswm Pensiynau Gwarantedig, a'r cynnig yw ymestyn y "datrysiad interim” i'r aelodau sy’n cyrraedd Oedran Pensiwn Gwladol ar ôl 5 Ebrill 2021.

Cafodd cost gwasanaeth blaenorol ei gynnwys yn natgeliadau 2019/20 ar gyfer ymestyn y cyfartalu i bawb sy'n ymddeol yn y dyfodol. Roedd dyfarniad llys pellach hefyd ar 20 Tachwedd 2020 ynghylch cyfartalu GMP. Dyfarnodd y llys fod rhaid i ymddiriedolwyr cynlluniau ailedrych ar gyn-Werthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) er mwyn sicrhau bod GMP yn cael ei gyfartalu. Gallai hyn arwain at atodiadau ychwanegol pan fo cyfartalu GMP yn golygu nad yw aelodau wedi derbyn eu holl hawliad. Ar gyfer cynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus, disgwylir y bydd y dyfarniad hwn yn cael ei ddilyn ar draws cynlluniau, a bydd angen mewnbwn cyfreithiol.

Efallai y bydd hyn yn gofyn am ailedrych ar achosion CETV yn y gorffennol ar gyfer aelodau ag oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar ôl 5 Ebrill 2016 ac a gymerodd CETV o'r cynllun cyn i CETV gael ei gyfartalu. Nid yw cwmpas unrhyw gostau wedi'i bennu eto. Nid yw data ar CETV hanesyddol ar gael i amcangyfrif yr effaith bosibl. Disgwylir y bydd hwn yn godiad cymharol fach ar gyfer is-set gymharol fach o aelodau (h.y. y rhai a gymerodd CETV ac sydd o fewn y cwmpas ar gyfer ychwanegiad atodol).

**Dyfarniad McCloud a rheolaeth gwerth y costau 2016**

Yn dilyn dyfarniad y Llys Apêl i achos McCloud yn Rhagfyr 2018, daethpwyd i’r casgliad bod yr amddiffyniadau trosiannol a gyflwynwyd yn 2015 yn gwahaniaethu ar sail oedran. Yn dilyn hyn cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynlluniau i fynd i’r afael â’r gwahaniaethu ar draws cynlluniau pensiwn sector cyhoeddus y DU yn cynnwys Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân. Ailafaelwyd yn mecanwaith y cap ar gyfer prisiad 2016 ers hynny a chwblhawyd y cyfrifiadau, a'r canlyniad oedd dim newidiadau i fuddion na chyfraniadau.

Cyhoeddwyd hefyd y byddai’r materion yn ymwneud â’r gwerthusiad actiwariadd yn 2016 yn cael eu datrys ac y byddai’r costau yn gysylltiedig â dyfarniad McCloud yn dod o dan y categori ‘cost aelod’ yn yr elfen rheoli costau o brisiad. Wrth ystyried y cynnydd o ganlyniad i rwymedi McCloud bydd gwerth y costau rheoli ar gyfer cynllun yn uwch na’r disgwyl.

Mae’r costau gwasanaeth blaenorol wedi’u hamcangyfrif er mwyn ystyried effaith dyfarniad McCloud ac maent wedi'u cynnwys yn y Gronfa Bensiwn ers 2018/19. Mae'r amcangyfrifon hyn wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r rhwymedi a amlinellwyd gan Lywodraeth y DU a'r newidiadau gofynnol i Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân a osodwyd gan Weinidogion Cymru a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2023.

DRAFT

| LGPS 2022/23 £'000 | FFPS 2022/23 £'000 | Trosglwyddiadau'r Gronfa Gyffredinol | LGPS 2023/24 £'000 | FFPS 2023/24 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | |
| | | **Cost Gwasanaethau** | | |
| | | **Cost Gwasanaeth sy'n cynnwys:** | | |
| 2,295 | 7,170 | Cost cyfredol y gwasanaeth | 1,055 | 1,620 |
| 0 | 0 | Cost blaenorol y gwasanaeth | 0 | 0 |
| 46 | 0 | Costau Gweinyddu | 49 | 0 |
| | | **Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi** | | |
| 396 | 8,270 | Gwariant Llog Net | 69 | 10,310 |
| 0 | 0 | Trosglwyddiadau allan o'r cynllun | 0 | 0 |
| 0 | 220 | Trosglwyddiadau i mewn i'r cynllun | 0 | 800 |
| 22 | 0 | Cwtogiadau | 0 | 0 |
| **2,759** | **15,660** | **Cyfanswm y Buddion Ôl-gyflogaeth a Godir ar Ddarparu Gwasanaethau** | **1,173** | **12,730** |
| | | **Buddion Ôl-gyflogaeth Eraill a Godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | |
| | | **Ailfesur y budd/rhwymedigaeth net diffiniedig yn cynnwys:** | | |
| 4,634 | 0 | Adenillion ar Asedau'r Cynllun (ac eithrio llog) | (1,852) | 0 |
| 4,966 | (10,560) | (Enillion) / Colledion Actwaraidd yn dellio o Newidiadau i'r Rhagdybiaethau Demograffig | (331) | 0 |
| (24,238) | (101,710) | (Enillion) / Colledion Actwaraidd yn dellio o Newidiadau i'r Rhagdybiaethau Ariannol | (1,359) | (4,410) |
| 0 | 17,520 | (Enillion) / Colledion Actiwaraidd - profiad | 0 | 7,810 |
| **(14,638)** | **(94,750)** | **Cyfanswm y Buddion Ôl-gyflogaeth a Godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | **(3,542)** | **3,400** |
| | | **Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd** | | |
| 2,759 | 15,660 | Gwrthdroi costau net a wnaed i'r gwarged neu diffyg yn y Ddarpariaeth Gwasanaethau Buddion Ôl-gyflogaeth yn unol â'r Cod | (1,173) | (12,730) |
| | | **Symiau Gwirioneddol a godir ar y Gronfa Gyffredinol ar gyfer pensiynau yn y flwyddyn** | | |
| 0 | 8,470 | Buddion Ymddeol sy'n daladwy i Bensiynwyr | 0 | 9,910 |
| 916 | 0 | Cyfraniadau'r Cyflogwr sy'n daladwy i'r cynllun | 622 | 0 |

DRAFT

Mae'r swm a gynhwyswyd yn y Fantolen sy'n codi o rwymedigaeth yr Awdurdod mewn perthynas â'r cynlluniau buddion diffiniedig fel a ganlyn:

| LGPS 2022/23 £'000 | FFPF 2022/23 £'000 | Asedau a Rhwymedigaethau Pensiynau a Gydnabuwyd yn y Fantolen | LGPS 2023/24 £'000 | FFPF 2023/24 £'000 |
|---:|---:|---|---:|---:|
| (40,312) | (225,390) | Gwerth presennol y rhwymedigaeth buddion diffiniedig | (40,392) | (231,610) |
| **(40,312)** | **(225,390)** | **Is-Gyfanswm** | **(40,392)** | **(231,610)** |
| 38,559 | | Gwerth Teg asedau'r cynllun | 41,630 | 0 |
| **(1,753)** | **(225,390)** | **Rhwymedigaeth net sy'n codi o'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig** | **1,238** | **(231,610)** |

| LGPS 2022/23 £'000 | FFPF 2022/23 £'000 | Symudiad yng Ngwerth Asedau'r Cynllun | LGPS 2023/24 £'000 | FFPF 2023/24 £'000 |
|---:|---:|---|---:|---:|
| 41,971 | 0 | Gwerth Teg Agoriadol Asedau'r Cynllun | 38,559 | 0 |
| 1,176 | 0 | Incwm Llog | 1,837 | 0 |
| | | **Enillion / Colledion wrth Ailfesur** | | |
| (4,634) | 0 | Yr enillion ar asedau'r cynllun, heb gynnwys y swm a gynhwyswyd yn y draul llog net | 1,852 | 0 |
| 916 | 10,270 | Cyfraniadau gan y cyflogwr | 622 | 11,520 |
| 369 | 0 | Cyfraniadau gan weithwyr cyflogedigi'r cynllun | 419 | 0 |
| (1,193) | (10,270) | Buddion/trosglwyddiadau a Dalwyd | (1,610) | (11,520) |
| (46) | 0 | Costau Gweinyddu | (49) | 0 |
| **38,559** | **0** | **Gwerth teg terfynol asedau'r cynllun** | **41,630** | **0** |

| LPGS 2022/23 £'000 | FFPF 2022/23 £'000 | Symudiad yng Ngwerth Teg Rhwymedigaethau'r Cynllun | LGPS 2023/24 £'000 | FFPF 2023/24 £'000 |
|---:|---:|---|---:|---:|
| (56,519) | (312,950) | Balans Agoriadol ar 1 Ebrill | (40,312) | (225,390) |
| (2,295) | (7,170) | **Cost Cyfredol y Gwasanaeth** | (1,055) | (1,620) |
| 0 | (220) | Trosglwyddiadau i mewn | 0 | (800) |
| (1,572) | (8,270) | Costau Llog | (1,906) | (10,310) |
| (369) | (1,800) | Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun | (419) | (1,610) |
| | | **Enillion a Cholledion wrth Ailfesur** | | |
| 0 | (17,520) | Enillion / Colledion Actiwaraidd - profiad | 331 | (7,810) |
| (4,966) | 10,560 | Enillion / Colledion Actwaraidd yn dellio o newidiadau i'r rhagdybiaethau demograffig | 1,359 | 4,410 |
| 24,238 | 101,710 | Enillion / Colledion Actwaraidd yn dellio o newidiadau i'r rhagdybiaethau ariannol | 1,610 | 11,520 |
| 1,193 | 10,270 | Buddion/trosglwyddiadau a Dalwyd | 0 | 0 |
| (22) | 0 | Cwtogiadau | 0 | 0 |
| 0 | 0 | Cost Blaenorol y Gwasanaeth | 0 | 0 |
| **(40,312)** | **(225,390)** | **Balans ar 31 Mawrth** | **(40,392)** | **(231,610)** |

DRAFT

## Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL): Asedau sy'n Cynnwys:

| Dyfynnwyd 2022/23 £'000 | Gwerth Teg Asedau'r Cynllun | Dyfynnwyd 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| | **Arian a Chyfwerth Arian** | |
| 1,697 | Cyfrifon Arian | 2,122 |
| 0 | Buddsoddiadau Dros Dro | 0 |
| **1,697** | **Is-gyfanswm Arian a Chyfwerth Arian** | **2,122** |
| | **Gwarantu Ecwiti** | |
| 2,236 | Dyfynnwyd yn fyd-eang | 5,787 |
| 1,967 | Marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg | 0 |
| **4,203** | **Is-gyfanswm Ecwiti** | **5,787** |
| | **Bondiau** | |
| 3,933 | Eraill Tramor | 4,205 |
| 10,604 | LDI | 10,990 |
| **14,537** | **Is-gyfanswm Bondiau** | **15,195** |
| | **Eiddo** | |
| 2,044 | DU | 1,748 |
| 308 | Tramor | 167 |
| **2,352** | **Is-gyfanswm Eiddo** | **1,915** |
| | **Dewisiadau amgen** | |
| 2,776 | Cronfeydd Ymddiogelu | 2,040 |
| 5,013 | Ecwiti Preifat | 6,119 |
| 2,236 | Seilwaith | 2,498 |
| 193 | Coed ac Amaethyddiaeth | 167 |
| 4,511 | DGF | 4,746 |
| 1,041 | Credyd Preifat | 1,041 |
| **15,770** | **Is-gyfanswm Dewisiadau Amgen** | **16,611** |
| | | |
| **38,559** | **Cyfanswm yr Asedau** | **41,630** |

Mae gan holl asedau'r cynllun brisiau a ddyfynnir mewn marchnadoedd gweithredol.

DRAFFT

## Y Sail ar gyfer Amcangyfrif Asedau ac Ymrwymiadau

Mae gwerth yr ymrwymiadau wedi eu seilio’n actiwaraidd gan ddefnyddio’r dull unedau rhagamcanol sy’n asesu ymrwymiadau’r cynllun yn y dyfodol gyda disgownt i’w gwerth presennol.

Mae gwerth Cynllun y Diffoddwyr Tân wedi ei wneud gan Adran Actiwaraidd y Llywodraeth.

Mae gwerth ymrwymiadau LGPS wedi ei wneud gan Mercer, sef cwmni annibynnol o actiwariaid. Dyma’r prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiadau ac maent yn seiliedig ar brisiad llawn diweddaraf y cynllun ar 1 Ebrill 2023.

| 2022/23 | LGPS | 2023/24 |
|---|---|---|
| | **Rhagdybiaethau ynglŷn â Marwolaethau** | |
| | Disgwyliad oes wrth ymddeol ar gyfer pensiynwyr presennol: | |
| 21.4 | Dynion | 21.0 |
| 23.8 | Menywod | 23.5 |
| | Disgwyliad oes wrth ymddeol ar gyfer pensiynwyr y dyfodol: | |
| 22.9 | Dynion | 22.4 |
| 25.6 | Menywod | 25.3 |
| | **Rhagdybiaethau Eraill** | |
| 2.7% | Cyfradd Chwyddiant | 2.6% |
| 4.0% | Cyfradd y Cynnydd mewn Cyflogau | 3.9% |
| 2.8% | Cyfradd y Cynnydd mewn Pensiynau | 2.7% |
| 4.8% | Cyfradd Disgowntio Ymrwymiadau'r Cynllun | 4.9% |
| 2.7% | Cyfradd Ailbrisio CARE | 2.6% |

| 2022/23 | Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân | 2023/24 |
|---|---|---|
| | **Rhagdybiaethau ynglŷn â Marwolaethau** | |
| | Disgwyliad oes wrth ymddeol ar gyfer pensiynwyr presennol: | |
| 21.2 | Dynion | 21.3 |
| 21.2 | Menywod | 21.3 |
| | Disgwyliad oes wrth ymddeol ar gyfer pensiynwyr y dyfodol: | |
| 22.9 | Dynion | 22.9 |
| 22.9 | Menywod | 22.9 |
| | **Rhagdybiaethau Eraill** | |
| 2.6% | Cyfradd Chwyddiant | 2.6% |
| 3.9% | Cyfradd y Cynnydd mewn Cyflogau | 3.9% |
| 2.6% | Cyfradd y Cynnydd mewn Pensiynau | 2.6% |
| 4.7% | Cyfradd Disgowntio Ymrwymiadau'r Cynllun | 4.8% |
| 3.9% | Cyfradd Ailbrisio CARE | 3.9% |

DRAFFT

Mae'r amcangyfrif o'r ymrwymiadau buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraidd a nodir yn y tabl uchod.

Mae'r dadansoddiadau o sensitifrwydd isod wedi'u pennu yn seiliedig ar newidiadau posibl rhesymol yn y rhagdybiaethau sy'n digwydd ar ddiwedd y cyfnod adrodd ac sy'n tybio ar gyfer pob newid bod y rhagdybiaeth a ddadansoddwyd yn newid ond bod yr holl ragdybiaethau eraill yn aros yn gyson. Mae'r rhagdybiaethau o ran hirhoedledd, er enghraifft, yn tybio bod y disgwyliad oes yn cynyddu neu'n gostwng ar gyfer dynion a menywod. Yn ymarferol, mae hyn yn annhebygol o ddigwydd, a gall newidiadau mewn rhai o'r rhagdybiaethau eraill fod yn gydgysylltiedig. Mae'r amcangyfrifon yn y dadansoddiad o sensitifrwydd wedi dilyn y polisïau cyfrifyddu ar gyfer y cynllun, h.y. ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau credyd. Ni newidiodd y dulliau a'r mathau o ragdybiaethau a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad o sensitifrwydd isod o'r rhai a ddefnyddiwyd yn y cyfnod blaenorol.

**Effaith Rhagdybiaethau ar yr ymrwymiad - LGPS**

| | Fel yr Adroddwyd | +0.5% gostyngiad y flwyddyn | +0.25% chwyddiant y flwyddyn | +0.25% twf cyflog y flwyddyn | Cynnydd o 1 flwyddyn mewn disgwyliad oes | +/-1% o newid yn enillion buddsoddi 2023/24 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | +1% | -1% |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Ymrwymiadau | 40,392 | 37,228 | 42,073 | 40,711 | 41,380 | 40,392 | 40,392 |
| Asedau | (41,630) | (41,630) | (41,630) | (41,630) | (41,630) | (42,043) | (41,217) |
| Diffyg (gwarged) | (1,238) | (4,402) | 443 | (919) | (250) | (1,651) | (825) |
| Cost y Gwasanaeth a Ragamcanwyd ar gyfer y flwyddyn nesaf | 982 | 851 | 1,053 | 982 | 1,008 | 982 | 982 |
| Cost Llog Net a Ragamcanwyd ar gyfer y flwyddyn nesaf | (75) | (254) | 7 | (59) | (27) | (96) | (55) |

DRAFT

| | Fel yr Adroddwyd<br>£000 | Cyfradd disgownt ar rwymedigaeth-au Cynnydd o 0.5%<br>£000 | Cynnydd mewn cyflogau Cynnydd o 0.5%<br>£000 | Disgwyliad oes Cynnydd o 1 flwyddyn<br>£000 | Cynnydd mewn pensiynau Cynnydd o 0.5%<br>£000 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Effaith** | -6.50% | 1% | 6.50% | 2% |
| FFPS | (231,610) | (216,555) | (233,926) | (246,665) | (236,242) |

### Effaith ar lif arian yr Awdurdod

Cydnabyddir cost buddion ymddeol yng nghost gwasanaethau a nodwyd pan gânt eu hennill gan weithwyr cyflogedig, yn hytrach na phan delir y buddion ar ffurf pensiynau yn y pen draw. Fodd bynnag, mae'r taliad sy'n rhaid ei godi yn erbyn yr ardoll yn seiliedig ar yr arian sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn, felly caiff cost wirioneddol buddion ôl-gyflogaeth / buddion ymddeol ei gwrthdroi o'r Gronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r trafodion canlynol wedi'u gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a balans y Gronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn.

## 31 NATUR A MAINT Y RISGIAU SY'N DEILLIO O OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys, sy'n sicrhau bod gan yr Awdurdod fesurau ar waith i reoli risgiau ariannol. Cymeradwywyd Strategaeth Rheoli Trysorlys yr Awdurdod ar gyfer 2023/24 yn ffurfiol yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 20 Mawrth 2023. Mae'r Strategaeth yn nodi'r Dangosyddion Darbodus (PI) ar gyfer y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn mae adroddiadau chwarterol yn manylu ar gynnydd yn erbyn y strategaeth ac, os oes angen, adolygiad o'r Dangosyddion Perfformiad.

Ar ddiwedd y flwyddyn, mae adroddiad terfynol yn nodi sut mae'r Awdurdod wedi perfformio yn ystod y flwyddyn. Ceir manylion ynghylch sut mae'r Awdurdod yn rheoli risgiau sy'n deillio o offerynnau ariannol yn adroddiadau'r trysorlys a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio ac maent ar gael o wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru - https://www.northwalesfire.gov.wales

Mae gweithgareddau'r awdurdod yn ei amlygu i amrywiaeth o risgiau ariannol, gan gynnwys:

### Risg Credyd

Dyma'r posibilrwydd y gallai partion eraill fethu â thalu symiau sy'n ddyledus i'r Awdurdod.

Mae'r risg credyd uchaf ar gyfer buddsoddiadau ac mae'r rhain yn cael eu rheoli drwy Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, sy'n nodi'r paramedrau ar gyfer rheoli risgiau sy'n gysylltiedig ag Offerynnau Ariannol ac yn pwysleisio bod blaenoriaeth i'w rhoi i ddiogelwch a hylifedd, yn hytrach nag arenillion. Polisi'r Awdurdod ar fuddsoddiadau'r trysorlys yw rhoi arian dros ben tymor byr i gyfrifon banc hyd nes y bydd angen. Nid oes gan yr Awdurdod fuddsoddiadau tymor hir. Mae arian parod sy'n debygol o gael ei wario yn y tymor agos yn cael ei fuddsoddi'n ddiogel, gyda banciau o ansawdd uchel dethol, i leihau'r risg o golled.

DRAFT

**Risg Hylifedd**

Dyma'r posiblrwydd na fydd gan yr Awdurdod ddigon o arian ar gael i ateb ei ymrwymiadau i wneud taliadau.

Mae'r Awdurdod yn monitro ei falans arian parod i sicrhau bod arian parod ar gael yn ôl yr angen. Mae'r Awdurdod yn gallu cael gafael yn rhwydd ar fenthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, ac nid oes unrhyw risg sylweddol na fyddai'r Awdurdod yn gallu codi'r arian i gwrdd â'i ymrwymiadau dan yr offerynnau ariannol. Yn hytrach, y risg yw y bydd yr Awdurdod yn rhwym o ailgyflenwi cyfran sylweddol o'i fenthyciadau ar adeg o gyfraddau llog anffafriol.

**Risg y Farchnad**

Dyma'r posibilrwydd y gallai colled ariannol ddigwydd i'r Awdurdod o ganlyniad i newidiadau mewn mesurau fel cyfraddau llog a symudiadau yn y farchnad stoc.

Ar 31 Mawrth 2024, nid oedd gan yr Awdurdod unrhyw fenthyciadau marchnad.

Mae'r Awdurdod yn agored i symudiadau mewn cyfraddau llog ar ei fenthyciadau a'i fuddsoddiadau. Mae symudiadau mewn cyfraddau llog yn cael effaith gymhleth ar yr Awdurdod, yn dibynnu ar sut mae cyfraddau llog amrywiol a sefydlog yn symud ar draws gwahanol gyfnodau offerynnau ariannol. Er enghraifft, byddai cynnydd mewn cyfraddau llog amrywiol a sefydlog yn cael yr effeithiau canlynol:

- Benthyciadau ar gyfraddau amrywiol – bydd y gost llog a godir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn codi;
- Benthyciadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg y benthyca yn gostwng (dim effaith ar falansau refeniw);
- Buddsoddiadau ar gyfraddau amrywiol – bydd yr incwm llog a gredydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn codi; a
- Buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg yr asedau yn gostwng (dim effaith ar falansau refeniw);

DRAFFT

Nid yw benthyciadau’n cael eu cario ar werth teg ar y fantolen, felly ni fyddai enillion a cholledion nominal ar fenthyciadau cyfradd sefydlog yn effeithio ar y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethauneu neu Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall. Fodd bynnag, bydd newidiadau yn y llog sy’n daladwy neu’n dderbyniadwy ar fenthyciadau a buddsoddiadau cyfradd amrywiol yn cael eu postio i’r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau ac yn effeithio ar Falans y Gronfa Gyffredinol.

## 32 YMRWYMIADAU DIBYNNOL

### Hawliadau Cyfreithiol

Ar hyn o bryd mae'r awdurdod yn delio â hawliadau cyfreithiol ond mae llai na 50% yn debygol o sicrhau setliad. Mae'r Awdurdod wedi cadw £0.310 miliwn wrth gefn rhag ofn y cyfyd ceisiadau nad ydynt yn cael eu cydnabod ar hyn o bryd. Gwerth yr achosion cyfreithiol hysbys yw £0.063 miliwn.

### Hawliadau Pensiwn

Yn dilyn proses gyfreithiol hir, cyhoeddwyd dyfarniad yn achos O'Brien vs Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystod 2019. Canfu hwn fod y penderfyniad i gyfyngu ar y cyfnod pryd y gallai gweithiwr rhan amser ymuno â'r cynllun pensiwn yn un gwallus ac y dylai gweithwyr cymwys gael ymuno â'r cynllun perthnasol o ddechrau eu contractau.

Mae gan y dyfarniad hwn oblygiadau cenedlaethol i staff sy'n cael eu cyflogi fel diffoddwyr tân ar alwad y dechreuodd eu contract cyflogaeth cyn 1 Gorffennaf 2000 neu'r rhai nad ydynt eto wedi cael y cyfle llawn i brynu gwasanaeth blaenorol yr oedd ganddynt hawl iddo.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud diwygiadau i Gynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân 2007 (Diwygiedig) i ddarparu mecanwaith ar gyfer mynd i'r afael â'r mater hwn. Cafodd Gorchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Cymru) 2024 ei wneud a'i osod ym mis Ionawr a daeth i rym ar 1 Chwefror 2024. Bydd pob person cymwys yn cael cyfle i brynu hawliau pensiwn yn ôl o fewn yr amserlenni a nodir yn y gorchymyn (h.y. i'w gwblhau erbyn 31 Gorffennaf 2025).

Ni ellir cyfrifo effaith ariannol lawn y rheoliadau wedi'u diweddaru er bod amcangyfrif wedi'i gynnwys ym mhrisiad 2020 rhwymedigaethau cynllun pensiwn yr Awdurdod a gynhaliwyd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD).

### Contract Gwasanaethau Brys Airwave

Ym mis Hydref 2021, cychwynnodd Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ymchwiliad i wasanaethau rhwydwaith radio symudol yn sgil pryderon nad yw'r farchnad yn gweithio'n dda. Daeth yr ymchwiliad i'r casgliad nad oes gan wasanaethau brys y DU unrhyw ddewis ar hyn o bryd ond parhau i ddefnyddio Rhwydwaith Airwave Motorola, oherwydd diffyg darparwyr eraill. O'r herwydd, cododd Motorola brisiau ar y Swyddfa Gartref sy'n negodi contractau ar ran y gwasanaethau brys, sydd ymhell uwchlaw lefelau cystadleuol, gan arwain at gostau uwch i'r gwasanaethau brys.

Er mwyn lleihau'r costau hyn, gosododd Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd gap prisiau ym mis Gorffennaf 2023, a ddaeth â'r pris i lawr i lefel y gellir ei ddisgwyl mewn marchnad gystadleuol sy'n gweithredu'n dda.

Apeliwyd y penderfyniad hwn gan Motorola Solutions Limited ac ym mis Rhagfyr 2023, fe wnaeth y Tribiwnlys Apêl Cystadleuaeth, mewn penderfyniad unfrydol, gadarnhau canfyddiad Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd fod Motorola yn codi prisiau gormodol oherwydd bod ganddynt, i bob pwrpas, fonopoli digyfyngiad ar ddarparu gwasanaethau rhwydwaith cyfathrebu i wasanaethau brys y DU.

DRAFT

Mae Motorola Solutions wedi apelio'r mater i Lys Apêl y DU. Hyd at 31 Mawrth 2024 ni chafwyd unrhyw benderfyniad.

Yn 2023/24, o ganlyniad i'r cap prisiau, bu gostyngiad o £261,518.93 yn y costau, fodd bynnag gan nad yw penderfyniad y Llys Apêl yn hysbys, mae'r swm hwn wedi'i roi o'r neilltu mewn cronfeydd wedi'u clustnodi, rhag ofn bydd yn rhaid ei ad-dalu.

## 33 ASED DIBYNNOL

**Cyfreithia Cartel Tryc**

Ym mis Gorffennaf 2016, roedd y Comisiwn Ewropeaidd wedi rhoi dirwy o 2.926 biliwn ewro i weithgynhyrchwyr tryciau Ewropeaidd am bennu prisiau a gweithgareddau cartél eraill rhwng 1991 a 2001. Roedd DAF, Daimler, Iveco, MAN, a Volvo/Renault wedi cyfaddef eu bod yn euog (mae Scania yn dal i gael ei ymchwilio) gan gadarnhau eu bod wedi gwneud y canlynol:

- Ar lefel uwch reolwyr y Pencadlys, wedi pennu prisiau gros sefydlog ac weithiau prisiau net.
- Wedi alinio prisiau rhestr gros yn Ewrop gan gynnwys y DU ar ddechrau'r cartél.
- Wedi lleihau ad-daliadau pan gyflwynwyd yr Ewro.
- Oedi cyn cyflwyno technolegau Ewro 3, 4, 5 a 6 mwy effeithlon o ran tanwydd.
- Cytunwyd ar y gost y dylai gweithredwyr ei dalu am dechnolegau Ewro.

Mae hyn yn cynnwys unrhyw loriau o 6 thunnell a throsodd, a brynwyd yn llwyr, a ariannwyd neu a brydleswyd rhwng 1997 a 2011. Mae achos cyfreithiol bellach yn mynd rhagddo i adennill peth o'r arian a gollwyd oherwydd y pris cartél hwn. Ni thrafodwyd unrhyw werth na chanran benodol hyd yma, a gall y camau cyfreithiol gymryd sawl blwyddyn i'w cwblhau.

O dan y Cytundeb Cyllido Ymgyfreitha, dim ond y TAW sy'n daladwy gan yr Awdurdod am y costau cyfreithiol.

Cyfanswm y taliadau cyfredol o dan y Cytundeb Cyllido Ymgyfreitha (TAW yn daladwy yn unig) ar gyfer 2023/24 oedd £67 (2022/23: £52).

DRAFT

## CYFRIF CRONFA BENSIWN DIFFODDWYR TÂN

Cyfrif Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2024

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| | **Cyfraniadau a Dderbynnir:** | |
| (3,893) | Cyfraniadau arferol y cyflogwr | (4,055) |
| (135) | Tâl afiechyd y cyflogwr | 0 |
| 0 | Cyfraniadau ôl-ddyddiedig y cyflogwr | 0 |
| (1,822) | Cyfraniadau arferol yr aelodau | (1,928) |
| (100) | Cyfraniadau ôl-ddyddiedig yr aelodau | (122) |
| (221) | Trosglwyddiadau i mewn | (798) |
| **(6,171)** | **CYFANSWM** | **(6,903)** |
| | **Buddion yn Daladwy:** | |
| 8,246 | Taliadau Pensiwn | 9,005 |
| 2,381 | Gohirio Pensiynau a Chyfandaliadau buddion ymddeol | 1,596 |
| 67 | Taliadau Gohirio Ôl-ddyddiedig | 0 |
| | **Taliadau i Ymadawyr ac ar eu rhan:** | |
| 413 | Trosglwyddiadau allan | 195 |
| **11,107** | **CYFANSWM** | **10,796** |
| 4,936 | Diffyg am y flwyddyn cyn i grantiau a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru | 3,893 |
| (4,936) | Grant atodol a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru | (3,893) |
| **0** | **SWM NET (TALADWY)/A DDERBYNNIR AR GYFER Y FLWYDDYN** | **0** |

DRAFT

### Datganiad Asedau Net ar 31 Mawrth 2024

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| | **Asedau cyfredol** | |
| 2,616 | Swm sy'n ddyledus (gan) / i'r Gronfa Gyffredinol | (2,320) |
| **2,616** | **Cyfanswm Asedau Cyfredol** | **(2,320)** |
| | **Ymrwymiadau Cyfredol** | |
| 0 | Taliadau ymlaen llaw i Bensiynwyr | 0 |
| (2,616) | Grant atodol yn daladwy (gan) / i Lywodraeth Cymru | 2,320 |
| **(2,616)** | **Cyfanswm Ymrwymiadau Cyfredol** | **2,320** |

## Nodiadau i Gronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân

Sefydlwyd y Gronfa ar 1 Ebrill 2007, dan Orchymyn Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007, ac mae'n cynnwys Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992, 2007 a 2015 ac fe'i gweinyddir gan yr Awdurdod. Mae'r cynllun yn un nad yw'n cael ei ariannu, nid oes ganddo asedau buddsoddi, a bydd unrhyw wahaniaeth rhwng y buddion sy'n daladwy a'r cyfraniadau derbyniadwy yn cael ei ateb gan Grant Atodol gan Lywodraeth Cymru.

Telir cyfraniadau'r cyflogwr a gweithwyr i'r Gronfa, a gwneir taliadau i bensiynwyr ohoni. Mae lefelau cyfraniadau'r gweithwyr a'r cyflogwr yn seiliedig ar ganrannau o'r cyflog pensiynadwy a osodir yn genedlaethol gan Lywodraeth Cymru, ac maent yn agored i ailwerthusiad bob tair blynedd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD).

Trosglwyddiadau i'r cynllun yw trosglwyddo buddion pensiwn o gynllun pensiwn arall ar gyfer gweithwyr newydd neu bresennol, a throsglwyddiadau allan yw trosglwyddo buddion i weithwyr sydd wedi gadael yr Awdurdod ac wedi ymuno â chynllun pensiwn arall.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am dalu cyfraniadau'r cyflogwr i'r gronfa. Dyma'r costau sydd wedi'u cynnwys yn y cyfrifon ar gyfer yr Awdurdod.

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, gwneir asesiad ynghylch swm y Grant Atodol sydd ei angen gan Lywodraeth Cymru. Mae'r amcangyfrif yn cynnwys asesiad o nifer y diffoddwyr tân sydd i fod i ymddeol o fewn y flwyddyn, yn seiliedig ar oedran a blynyddoedd o wasanaeth.

### Cyfraddau Cyfraniadau

Ar 1 Ebrill 2023, trosglwyddwyd holl gyfranogwyr y cynllun i gynllun 2015. Dan Reoliadau Pensiwn Diffoddwyr Tân, 27.3% (2022/23: 27.3%) o'r cyflog pensiynadwy oedd cyfradd cyfraniadau cyflogwyr ar gyfer cynllun 2015, gyda chyfraddau'r gweithwyr fel y bandiau cyflog pensiynadwy a nodir isod:

| Band Cyflog Pensiynadwy | Cyfradd Cyfraniad % 2023/24 |
|---|---|
| Hyd at £27,818 | 11.0 |
| £27,819 i £51,515 | 12.9 |
| £51,516 i £142,500 | 13.5 |
| Mwy na 142,501 | 14.5 |

Nid yw Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn cymryd ystyriaeth o'r ymrwymiadau am bensiynau a buddion eraill wedi diwedd y cyfnod, gan mai cyfrifoldeb yr Awdurdod yw hyn. Mae manylion am yr ymrwymiadau pensiwn tymor hir i'w cael yn Nodyn 30 o'r datganiadau ariannol craidd.

DRAFT

**Atodiad 1**

# POLISÏAU CYFRIFYDDU

## 1. EGWYDDORION CYFFREDINOL

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion yr Awdurdod ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 a'i sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2024. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi Datganiad Cyfrifon blynyddol gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyfrifon gael eu paratoi yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol. Mae'r arferion hyn, o dan adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, yn cynnwys yn bennaf y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2023/24 a gefnogir gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Mae'r confensiwn cyfrifyddu a fabwysiadwyd yn y Datganiad Cyfrifon yn gost hanesyddol yn bennaf, wedi'i haddasu drwy ailbrisio categorïau penodol o asedau ac offerynnau ariannol nad ydynt yn gyfredol.

## 2. CRONIADAU O INCWM A GWARIANT

Yn y cyfrifon refeniw, cyfrifir am incwm a gwariant, heb TAW (oni bai bod y TAW yn anadferadwy), yn y flwyddyn maent yn digwydd, nid dim ond pan fydd taliadau arian parod yn cael eu gwneud neu eu derbyn.

- Caiff treuliau mewn perthynas â gwasanaethau a dderbynnir (gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan gyflogeion) eu cofnodi fel gwariant pan dderbynnir y gwasanaethau yn hytrach na phan wneir taliadau gan gwsmeriaid yn cael eu cyfrif fel incwm ar y dyddiad mae'r Awdurdod yn darparu'r nwyddau neu'r gwasanaethau perthnasol.

- Mae cyflenwadau yn cael eu cofnodi fel gwariant pan gânt eu defnyddio - lle mae bwlch rhwng y dyddiad y mae cyflenwadau yn cael eu derbyn a'u defnydd maen nhw'n cael eu cario fel rhestrau ar y fantolen.

- Cyfrifir am log y gellir ei dderbyn ar fuddsoddiadau ac sy’n daladwy ar fenthyciadau ac y gellir ei dderbyn ar sail y gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn ariannol perthnasol yn hytrach na'r llif arian a sefydlir neu a bennir gan y contract.

- Pan fo refeniw a gwariant wedi cael eu cydnabod ond nad yw arian parod wedi'i dderbyn na'i dalu, cofnodir dyledwr neu gredydwr am y swm perthnasol yn y fantolen. Lle na fydd dyledion yn cael eu setlo o bosibl, caiff balans y dyledwyr ei nodi a chodir tâl ar y refeniw o incwm ariannu a buddsoddi a’r gwariant ar gyfer yr incwm na fydd, o bosibl, yn cael ei gasglu.

DRAFT

## 3. ARIAN PAROD A CHYFWERTH AG ARIAN PAROD

Mae arian parod yn golygu arian mewn llaw ac adneuon gyda sefydliadau ariannol sy'n ad-daladwy heb gosb ar rybudd o ddim mwy na 24 awr. Mae cyfwerth ag arian parod yn golygu buddsoddiadau sy'n aeddfedu mewn dim mwy na thri mis neu lai o'r dyddiad caffael ac sy'n hawdd eu trosi'n symiau hysbys o arian parod sydd â risg bach iawn y bydd ei werth yn newid.

Yn y Datganiad Llif Arian, dangosir arian parod a chyfwerth ag arian parod heb orddrafftiau banc sy'n ad-daladwy yn ôl y galw ac yn ffurfio rhan annatod o system rheoli arian parod yr Awdurdod.

## 4. ADDASIADAU CYFNOD BLAENOROL, NEWIDIADAU MEWN POLISÏAU CYFRIFYDDU AC AMCANGYFRIFON A GWALLAU

Gall addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisïau cyfrifyddu neu er mwyn cywiro gwall perthnasol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhagolygol, h.y. yn y blynyddoedd presennol ac i ddod yr effeithir arnynt gan y newid ac nid ydynt yn arwain at addasiad cyfnod blaenorol.

Gwneir newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu dim ond pan fo angen hynny gan arferion cyfrifyddu priodol neu os yw'r newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, amodau a digwyddiadau eraill ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol yr Awdurdod. Pan wneir newid, caiff ei gymhwyso'n ôl-weithredol (oni nodir yn wahanol) trwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol am y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi newydd wedi cael ei gymhwyso erioed. Mae gwallau materol a ddarganfuwyd mewn ffigurau cyfnod blaenorol yn cael eu cywiro'n ôl-weithredol trwy ddiwygio balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol.

DRAFT

## 5. TALIADAU I REFENIW AR GYFER ASEDAU NAD YDYNT YN GYFREDOL

Caiff gwasanaethau, gwasanaethau cymorth a chyfrifon masnachu eu codi am amcangyfrif cyfrifyddol o'r gost o ddal asedau nad ydynt yn gyfredol yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys:

- dibrisiant y gellir ei briodoli i'r asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth perthnasol
- ailbrisio a cholledion amhariad ar asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth lle nad oes enillion cronedig yn y gronfa ailbrisio y gellir dileu colledion yn eu herbyn
- amorteiddio asedau anniriaethol y gellir eu priodoli i'r gwasanaeth.

Nid yw'n ofynnol i'r awdurdod godi ardoll i ariannu dibrisiant, ailbrisio a cholledion amhariad neu amorteiddio. Fodd bynnag, mae'n mae'n ofynnol iddo wneud cyfraniad blynyddol o refeniw tuag at y gostyngiad yn ei ofyniad benthyca cyffredinol (sy'n cyfateb i swm a gyfrifir ar sail ddarbodus a bennir gan yr awdurdod yn unol â chanllawiau statudol). Felly, caiff dibrisiant, a cholledion ailbrisio ac amhariad, ac amorteiddio eu disodli gan y cyfraniad o fewn balans y Gronfa Gyffredinol – MRP, trwy gyfrwng trafodiad addasu gyda'r cyfrif addasiad cyfalaf yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd ar gyfer y gwahaniaeth rhwng y ddau

## 6. BUDDION I WEITHWYR

### Buddion sy'n daladwy yn ystod eu cyflogaeth

Buddion gweithwyr tymor byr yw'r rhai sydd i fod i gael eu setlo'n gyfan gwbl o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion fel tâl a chyflogau, gwyliau blynyddol â thâl ac absenoldeb salwch â thâl, taliadau bonws a buddion anariannol (ee ceir) ar gyfer gweithwyr cyfredol. Fe'u cydnabyddir fel treuliau am wasanaethau yn ystod y flwyddyn y mae’r gweithwyr yn rhoi gwasanaeth i'r awdurdod. Gwneir croniad am gost yr hawliau gwyliau (neu unrhyw fath o wyliau, ee amser i ffwrdd yn lle oriau a weithir) a enillir gan weithwyr ond na chaiff ei gymryd cyn diwedd y flwyddyn y gall gweithwyr eu dwyn ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Gwneir y croniad ar sail y cyfraddau tâl a chyflog cymwys yn ystod y flwyddyn gyfrifyddu ganlynol, sef y cyfnod y mae'r cyflogai'n cymryd y budd. Codir am y croniad i warged neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau, ond yna caiff ei wrthdroi trwy'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd i'r cyfrif absenoldebau cronedig fel y codir am hawliadau gwyliau i refeniw yn y flwyddyn ariannol y mae'r absenoldeb gwyliau yn digwydd.

### Buddion ôl-gyflogaeth

Mae gweithwyr yr awdurdod yn aelodau o ddau gynllun pensiwn ar wahân:

- Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân, a weinyddir gan Gronfa Bensiwn Dyfed, Cyngor Sir Caerfyrddin
- y Cynllun Pensiynau Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gyngor Sir y Fflint.

Roedd y ddau gynllun yn darparu buddion diffiniedig i aelodau (cyfansymiau ymddeol a phensiynau), a enillwyd wrth i weithwyr weithio i'r awdurdod.

### Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (FFPS)

Ystyrir cynllun pensiwn y Diffoddwyr Tân fel cynllun buddion diffiniedig heb ei ariannu - nid oes gan y cynllun unrhyw asedau nac incwm buddsoddiadau:

- Mae rhwymedigaethau'r Gronfa wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull uned ragamcanol — h.y. asesiad o'r taliadau yn y dyfodol a wneir mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yma gan weithwyr, yn seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, cyfraddau trosiant gweithwyr, ac ati, a rhagamcanion enillion ar gyfer y gweithwyr presennol.
- Mae rhwymedigaethau’n cael eu gostwng i'w gwerth yn ôl y prisiau cyfredol yn seiliedig ar arenillion bondiau’r Llywodraeth o hyd priodol ynghyd ag elw ychwanegol. Mae'r newid yn yr atebolrwydd pensiwn net yn cael ei ddadansoddi i'r cydrannau canlynol:

Cost gwasanaeth sy'n cynnwys:

- Cost bresennol y gwasanaeth — y cynnydd mewn rhwymedigaethau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni — a ddyrannwyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau y bu'r gweithwyr yn gweithio iddynt.

DRAFT

- Cost gwasanaeth yn y gorffennol — y cynnydd mewn rhwymedigaethau o ganlyniad i ddiwygio neu gwtogi cynllun y mae ei effaith yn ymwneud â blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd yn ystod blynyddoedd cynharach — wedi ei ddebydu i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

- Buddiant net ar y rhwymedigaeth budd diffiniedig net, h.y. costau llog net i'r Awdurdod — y newid yn ystod y cyfnod i'r rhwymedigaeth budd diffiniedig net sy'n deillio o dreigl amser y codir amdani i linell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr — caiff hyn ei gyfrifo trwy gymhwyso'r gyfradd gostyngiad a ddefnyddir i fesur y rhwymedigaeth budd diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod i'r rhwymedigaeth budd diffiniedig net ar ddechrau'r cyfnod — gan ystyried unrhyw newidiadau yn y rhwymedigaeth budd diffiniedig net yn ystod y cyfnod o ganlyniad i daliadau cyfraniadau a buddion.

Ailfesuriadau sy'n cynnwys:

- Enillion a cholledion actiwaraidd — newidiadau yn y rhwymedigaeth pensiynau net sy'n codi oherwydd nad yw digwyddiadau wedi cyd-daro â rhagdybiaethau a wnaed yn y prisiad actiwaraidd diwethaf neu oherwydd bod yr actiwarïau wedi diweddaru eu rhagdybiaethau — y codir amdanynt i'r Gronfa Bensiwn fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

- Cyfraniadau a dalwyd i'r Gronfa — arian parod a delir fel cyfraniadau cyflogwr i'r gronfa bensiwn wrth setlo rhwymedigaethau; nid yw'n cael ei gyfrif fel cost.

Mewn perthynas â buddion ymddeol, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i falans y Gronfa Gyffredinol dalu am y swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa bensiwn neu'n uniongyrchol i'r pensiynwr yn y flwyddyn, nid y swm a gyfrifir yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd, golyga hyn fod yna drosglwyddiadau i ac o'r Gronfa Bensiwn i gael gwared ar y credydau a'r debydau tybiedig ar gyfer buddion ymddeol ac yn eu lle roi debydau am yr arian a dalwyd i'r gronfa bensiwn ac i bensiynwyr ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol ar y Gronfa Bensiwn Wrth Gefn felly'n mesur yr effaith fuddiol i'r Gronfa Gyffredinol o orfod cyfrif am fuddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na buddion sy'n cael eu hennill gan weithwyr.

## Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL)

Ystyrir y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol fel cynllun buddion diffiniedig:

- Mae rhwymedigaethau Cronfa Bensiwn Clwyd i'r a briodolir i'r awdurdod wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull uned ragamcanol — h.y. asesiad o'r taliadau yn y dyfodol a wneir mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yma gan weithwyr, yn seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, cyfraddau trosiant gweithwyr, ac ati, a rhagamcanion enillion ar gyfer y gweithwyr presennol.
- Caiff rhwymedigaethau eu gostwng i'w gwerth yn ôl y prisiau cyfredol, gan ddefnyddio cyfradd gostyngol yn seiliedig ar y gyfradd enillion ddangosol ar fondiau corfforaethol.
- Mae asedau Cronfa Bensiwn Clwyd y gellir eu priodoli i'r awdurdod wedi'u cynnwys yn Fantolen yn ôl eu gwerth teg:



DRAFT

– gwarannau a ddyfynnwyd – pris cyfredol y cynnig
– gwarannau heb eu dyfynnu – amcangyfrif proffesiynol
– gwarannau unedol – pris cyfredol y cynnig
– eiddo – gwerth y farchnad.

Mae'r newid yn y rhwymedigaeth pensiynau net yn cael ei ddadansoddi o dan y cydrannau canlynol:

Cost gwasanaeth sy'n cynnwys:

- cost bresennol y gwasanaeth – y cynnydd mewn rhwymedigaethau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd y flwyddyn hon – a ddyrennir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau y gweithiodd y gweithwyr iddynt
- cost gwasanaeth yn y gorffennol – y cynnydd mewn rhwymedigaethau o ganlyniad i wella neu gwtogi cynllun y mae ei effaith yn gysylltiedig â'r blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd yn ystod blynyddoedd cynharach – wedi'i ddebydu i'r gwarged neu'r diffyg ar y ddarpariaeth gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr [nodwch y bydd y modd y caiff costau gwasanaeth yn y gorffennol eu trin yn dibynnu ar benderfyniadau'r awdurdod ynghylch sut y cânt eu dyrannu i segmentau gwasanaeth]
- buddiant net ar y rhwymedigaeth budd diffiniedig net (ased), h.y. gwariant llog net ar gyfer yr awdurdod – y newid yn ystod cyfnod y rhwymedigaeth budd diffiniedig net (ased) sy'n digwydd oherwydd treigl amser y codir amdano o linell incwm a gwariant cyllido a buddsoddi y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr – cyfrifir hyn drwy gymhwyso'r gyfradd ostyngiad a ddefnyddir i fesur y rhwymedigaeth budd diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod i'r rhwymedigaeth budd diffiniedig net (ased) ar ddechrau'r cyfnod – gan ystyried unrhyw newidiadau yn y rhwymedigaeth budd diffiniedig net (ased) yn ystod y cyfnod o ganlyniad i daliadau cyfraniadau a buddion.

DRAFT

Ailfesuriadau sy'n cynnwys:

- yr enillion ar asedau'r cynllun – ac eithrio symiau sydd wedi'u cynnwys o fewn llog net ar y rhwymedigaeth budd net diffiniedig (ased) – y codir amdanynt i'r gronfa bensiwn wrth gefn fel incwm a gwariant cynhwysfawr arall
- enillion a cholledion actiwaraidd – newidiadau yn y rhwymedigaeth pensiynau net sy'n codi oherwydd i ddigwyddiadau beidio â chyd-daro â rhagdybiaethau a wnaed yn y prisiad actiwaraidd diwethaf neu oherwydd bod yr actiwarïau wedi diweddaru eu rhagdybiaethau – y codir amdanynt i'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn fel incwm a gwariant cynhwysfawr arall.
- cyfraniadau a delir i'r Gronfa — arian parod a delir fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r gronfa bensiwn wrth setlo rhwymedigaethau; nid yw'n cael ei gyfrif fel cost.

Mewn perthynas â buddion ymddeol, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i falans y Gronfa Gyffredinol dalu am y swm sy'n daladwy gan yr awdurdod i'r gronfa bensiwn neu'n uniongyrchol i bensiynwyr yn y flwyddyn, nid y swm a gyfrifir yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd, golyga hyn fod yna drosglwyddiadau i ac o'r gronfa pensiynau wrth gefn i gael gwared ar y debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer buddion ymddeol a'u disodli â debydau ar gyfer yr arian a delir i'r gronfa bensiwn ac i bensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sy'n codi ar y gronfa bensiwn felly yn mesur yr effaith fuddiol

i'r Gronfa Gyffredinol o orfod cyfrif am fuddion ymddeol ar sail llif arian parod yn hytrach na buddion sy'n cael eu hennill gan weithwyr.

**Buddion Dewisol**:

Mae gan yr Awdurdod hefyd bwerau cyfyngedig i ddyfarnu buddion ymddeol yn ôl ei ddisgresiwn os bydd gweithwyr yn ymddeol yn gynnar. Caiff unrhyw rwymedigaethau yr amcangyfrifir eu bod o ganlyniad i ddyfarniad i unrhyw aelod o staff eu cronni yn ystod blwyddyn y penderfyniad i wneud y dyfarniad a chyfrifir amdano gan ddefnyddio'r un polisïau ag a gymhwysir i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

## 7. DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Digwyddiadau ar ôl cyfnod adrodd y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd dyddiad y Fantolen a'r dyddiad pan fydd y datganiad cyfrifon yn cael ei awdurdodi i'w gyhoeddi. Gellir nodi dau fath o ddigwyddiad.

- y rhai sy'n darparu tystiolaeth o amodau oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – caiff y datganiad cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath.
- y rhai sy'n arwydd o amodau a gododd wedi'r cyfnod adrodd – nid yw'r datganiad cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond lle byddai digwyddiadau o'r fath
  yn cael effaith berthnasol, gwneir datgeliad yn y nodiadau o natur y digwyddiadau a'u heffaith ariannol amcangyfrifedig.

Ni chaiff digwyddiadau sy'n digwydd ar ôl dyddiad awdurdodi ei gyhoeddi eu hadlewyrchu yn y datganiad cyfrifon.

## 8. OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae Offeryn Ariannol yn cael ei ddiffinio fel 'unrhyw gontract sy'n arwain at ased ariannol i un endid a rhwymedigaeth ariannol neu offeryn ecwiti i un arall'. I ddechrau, caiff rhwymedigaeth ariannol (benthyciadau) ac asedau ariannol (buddsoddiadau) eu mesur yn ôl gwerth teg a chânt eu cario ar sail eu cost wedi'i hamorteiddio. Mae'r llog blynyddol a delir ac a dderbynnir yn y cyfrif Incwm a Gwariant yn seiliedig ar swm cario'r benthyciad neu'r buddsoddiad wedi'i luosi â'r gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn. Ar gyfer yr holl fenthyciadau a buddsoddiadau sydd gan yr awdurdod, y symiau a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prif weddill ynghyd ag unrhyw log cronedig am y flwyddyn.

Caiff rhwymedigaethau ariannol eu cydnabod ar y fantolen pan ddaw'r awdurdod yn rhan o ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol a chânt eu mesur yn y lle cyntaf yn ôl gwerth teg a'u cario ar sail eu cost wedi'i hamorteiddio. Mae taliadau blynyddol i'r llinell incwm a gwariant ariannu a buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) ar gyfer llog sy'n daladwy yn seiliedig ar swm cario'r rhwymedigaeth, wedi'i luosi â'r gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn. Y gyfradd llog effeithiol yw'r gyfradd sy'n gostwng taliadau arian parod amcangyfrifedig y dyfodol yn union dros oes yr offeryn i'r swm y cafodd ei gydnabod yn wreiddiol.

DRAFT

Ar gyfer y rhan fwyaf o'r benthyciadau sydd gan yr awdurdod, golyga hyn mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prif swm ad-daladwy sy'n weddill (ynghyd â llog cronedig); a'r llog y codir amdano i'r CIES yw'r swm sy'n daladwy am y flwyddyn yn ôl cytundeb y benthyciad.

**Asedau ariannol**

Mae asedau ariannol yn cael eu dynodi ar sail dull dynodi a mesur sy'n adlewyrchu'r model busnes ar gyfer dal yr asedau ariannol a'u nodweddion llif arian. Mae'r awdurdod yn dal asedau ariannol a fesurir ar sail:

- costau wedi'u hamorteiddio, a
- gwerth teg drwy elw neu golled (FVPL)

Model busnes yr awdurdod yw dal buddsoddiadau i gasglu llif arian cytundebol. Felly mae asedau ariannol yn cael eu dynodi fel cost wedi'i hamorteiddio.

**Asedau ariannol a fesurir ar sail cost wedi'i hamorteiddio**

Mae asedau ariannol a fesurir ar sail cost wedi'i hamorteiddio yn cael eu cydnabod ar y Fantolen pan ddaw'r awdurdod yn rhan o ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol a chânt eu mesur yn y lle cyntaf yn ôl gwerth teg. Wedi hynny fe'u mesurir ar sail eu cost wedi'i hamorteiddio. Mae credydau blynyddol i'r llinell incwm a gwariant ariannu a buddsoddi yn y CIES ar gyfer llog sy'n daladwy yn seiliedig ar swm cario'r ased wedi'i luosi â'r gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r asedau ariannol a ddelir gan yr awdurdod, golyga hyn mai'r swm a gyflwynwyd yn y Fantolen yw'r prif swm taladwy sy'n weddill (ynghyd â llog cronedig), a Llog a gredydir i'r CIES yw'r swm taladwy ar gyfer y flwyddyn o fewn cytundeb y benthyciad.

Mae unrhyw enillion a cholledion sy'n codi wrth ddadgydnabod ased ariannol yn cael eu credydu neu eu debydu i'r llinell incwm a gwariant ariannu a buddsoddi yn y CIES.

DRAFT

## 9. TRAFODION ARIAN TRAMOR

Pan fo'r awdurdod wedi ymrwymo i drafodiad mewn arian cyfred tramor, caiff y trafodiad ei drawsnewid yn sterling yn ôl y gyfradd gyfnewid sy'n gymwys ar ddyddiad y trafodiad. Pan fydd symiau mewn arian cyfred tramor yn weddill ar ddiwedd y flwyddyn, maent yn cael eu trosi eto ar sail y gyfradd gyfnewid ar 31 Mawrth. Cydnabyddir enillion neu golledion canlyniadol yn y llinell incwm a gwariant ariannu a buddsoddi o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

## 10. CYFRIF AM GRANTIAU'R LLYWODRAETH

P'un a ydynt yn cael eu talu ar gyfrif, mewn rhandaliadau, neu mewn ôl-ddyledion, cydnabyddir bod grantiau'r llywodraeth a chyfraniadau a rhoddion trydydd parti yn ddyledus i'r Awdurdod pan fo sicrwydd rhesymol y bydd:

- yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r amodau sy'n gysylltiedig â'r taliadau, ac
- y bydd y cyfraniadau neu'r grantiau yn cael eu derbyn.

Nid yw symiau a gydnabyddir fel rhai sy'n ddyledus yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr nes bod yr amodau sydd ynghlwm wrth y grant neu'r cyfraniad wedi cael eu bodloni.

Caiff arian a gafwyd fel grantiau a chyfraniadau nad yw'r amodau wedi'u bodloni ar eu cyfer eu cario yn y Fantolen fel credydwyr. Pan fodlonir yr amodau, caiff y grant neu'r cyfraniad ei gredydu i'r llinell wasanaeth berthnasol (grantiau a chyfraniadau refeniw y gellir eu priodoli) neu Incwm Trethiant a Grantiau Amhenodol (grantiau refeniw heb eu neilltuo a'r holl grantiau cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo grantiau cyfalaf yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, cânt eu gwrthdroi allan o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd. Pan nad yw'r grant wedi'i ddefnyddio eto i ariannu gwariant cyfalaf, caiff ei roi yn y Gronfa Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso. Lle mae wedi'i gymhwyso, caiff cael ei roi yn y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf. Caiff symiau yn y Gronfa Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf unwaith y byddant wedi'u cymhwyso i ariannu gwariant cyfalaf

## 11. ASEDAU ANNIRIAETHOL

Caiff gwariant ar asedau anariannol sydd heb sylwedd ffisegol ond sy'n cael eu rheoli gan yr awdurdod o ganlyniad i ddigwyddiadau'r gorffennol (ee trwyddedau meddalwedd) ei gyfalafu pan ddisgwylir y bydd buddion economaidd neu botensial gwasanaeth yn y dyfodol yn deillio o'r ased anniriaethol i'r awdurdod.

Caiff asedau anniriaethol eu mesur ar sail cost i ddechrau. Caiff symiau eu hailbrisio dim ond pan ellir pennu gwerth teg yr asedau a ddelir gan yr awdurdod drwy gyfeirio at farchnad weithredol. Yn ymarferol, nid oes unrhyw ased anniriaethol sy'n cael ei dal gan yr awdurdod yn bodloni'r maen prawf hwn, ac felly maent yn cael eu cario ar sail cost llai'r dibrisiant cronedig ac unrhyw golledion amhariad cronedig. Bydd swm dibrisiadwy ased anniriaethol yn cael ei amorteiddio dros gyfnod ei oes ddefnyddiol i'r llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Rhoddir prawf ar ased am amhariad pryd bynnag y mae arwydd bod gwerth yr ased wedi lleihau – bydd unrhyw golledion a nodir yn cael eu gosod ar y llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Bydd unrhyw enillion neu golledion sy'n codi ar ôl gwaredu neu adael ased anniriaethol yn cael eu symud i'r llinell gwariant gweithredu arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Lle gellir ystyried gwariant ar asedau anniriaethol fel gwariant cyfalaf at ddibenion statudol, ni chaniateir i amorteiddio, colledion amhariad ac enillion a cholledion gwaredu gael effaith ar falans y Gronfa Gyffredinol. Felly, caiff yr enillion a'r colledion eu gwrthdroi o falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd a'u symud i'r cyfrif addasu cyfalaf ac (ar gyfer unrhyw enillion o werthu sy'n fwy na £10,000) i'r gronfa derbyniadau cyfalaf wrth gefn.

DRAFT

## 12. RHESTRAU STOC

Mae rhestrau stoc wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar sail y gwerth cost a net isaf y gellir ei wireddu. Caiff cost rhestrau stoc ei bennu gan ddefnyddio fformiwla cost FIFO.

## 13. LESOEDD

### Lesoedd Cyllid

Mae lesoedd yn cael eu dynodi fel lesoedd cyllid pan fo telerau'r les yn trosglwyddo'n sylweddol yr holl risgiau a'r gwobrwyon sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth ar yr eiddo, peiriannau neu offer o'r lesydd i'r lesai. Mae'r holl lesoedd eraill yn cael eu dynodi fel lesoedd gweithredu.

Caiff eiddo, peiriannau ac offer a ddelir o dan lesoedd cyllid eu nodi ar y Fantolen ar ddechrau'r les ar sail eu gwerth teg a fesurir ar ddechrau'r les (neu werth presennol y taliadau les isaf, os yw'n is). Caiff yr ased a gydnabyddir ei gyfateb gan rwymedigaeth dros dalu'r lesydd. Ychwanegir costau uniongyrchol cychwynnol yr awdurdod at swm cario'r ased. Mae premiymau a delir wrth gychwyn les yn cael eu cymhwyso wrth nodi rhwymedigaeth y les.

Caiff rhenti wrth gefn eu codi fel treuliau yn y cyfnodau maent yn cael eu tynnu.

Mae taliadau les yn cael eu dosrannu rhwng:

- tâl am gaffael y buddiant yn yr eiddo, peiriannau neu offer – wedi'i gymhwyso i nodi rhwymedigaeth y les, a
- thâl cyllid (wedi'i ddebydu i'r llinell incwm a gwariant ariannu a buddsoddi o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cyffredinol).

Cyfrifir am eiddo, peiriannau ac offer a gydnabyddir o dan lesoedd gan ddefnyddio'r polisïau a gymhwysir yn gyffredinol i asedau o'r fath, yn amodol ar godi am ddibrisiant dros gyfnod y les os yw hyn yn fyrrach nag oes ddefnyddiol amcangyfrifedig yr ased (lle nad yw perchnogaeth yr ased yn trosglwyddo i'r awdurdod ar ddiwedd cyfnod y les).

Nid yw'n ofynnol i'r awdurdod godi ardoll i dalu am golledion dibrisiant neu ailbrisio a cholledion amhariad sy'n deillio o roi asedau ar les. Yn hytrach, gwneir cyfraniad blynyddol darbodus o gronfeydd refeniw tuag at y buddsoddiad cyfalaf tybiedig yn unol â gofynion statudol. Felly, caiff dibrisiant a cholledion ailbrisio ac amhariad eu disodli gan gyfraniad refeniw o fewn balans y Gronfa Gyffredinol, trwy gyfrwng trafodiad addasu gyda'r cyfrif addasiad cyfalaf yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd ar gyfer y gwahaniaeth rhwng y ddau.

### Lesoedd Gweithredu

Codir am renti a delir o dan lesoedd gweithredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel treuliau i'r gwasanaethau sy'n elwa o ddefnyddio'r eiddo, peiriannau neu offer sy'n cael eu rhoi ar les. Gwneir taliadau ar sail llinell syth dros oes y les, hyd yn oed os nad yw hyn yn cyfateb i batrwm y taliadau (e.e. cyfnod di-rent ar ddechrau'r les).

DRAFFT

**IFRS16 - mae'r polisi cyfrifyddu drafft a fydd yn berthnasol ar gyfer cyfrifon 2024/25 wedi'i nodi isod i roi'r hyn sy'n sail i'r amcangyfrif ar gyfer 2023/24 yn ei gyd-destun**

Bydd polisi IFRS16 yr Awdurdod yn berthnasol i'r prydlesi hynny pan mai'r Awdurdod yw'r lesddeiliad.

Eithriad cost isel
Yn unol â Chod Ymarfer 2023/24 paragraff 4.2.2.33 a pharagraffau B3 i B8 o IFRS16, mae ATAGC wedi asesu'r hyn y mae'n credu y dylid ei ystyried yn ased gwerth isel. Dyma grynodeb o'r asesiad hwn.

Y gwerth gwreiddiol ar gyfer eithriad cost isel yn IFRS16 yw £5,000. I'w ddefnyddio yn y DU, yn hytrach na'i drosi yn bunnoedd sterling bob tro y caiff prydles ei hadolygu, mae'n haws tybio ei fod yn £5,000 pan osodwyd y safon.

Cyhoeddwyd y safon ym mis Ionawr 2016 (i'w rhoi ar waith yn wreiddiol o 1 Ionawr 2019 ymlaen yn dibynnu ar gael ei derbyn). O ystyried bod hyn sawl blwyddyn yn ôl bellach a'r cynnydd diweddar mewn chwyddiant mae'n gwneud synnwyr ailosod y sylfaen hon o £5,000 i ddechrau er mwyn ystyried effaith chwyddiant. Yn ystod y cyfnod ers mis Ionawr 2016 (hyd at fis Mai 2023) mae'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) wedi codi o 99.5 i 131.3. Mae hyn gyfwerth â chwyddiant o 31.96% dros y cyfnod hwnnw. O ystyried y chwyddiant hwn, byddai'r £5,000 yn cyfateb i £9,896.99 erbyn hyn.

Mae CIPFA wedi cadarnhau mai penderfyniad lleol ar gyfer pob Awdurdod yw gosod lefel yr eithriad cost isel. Yn seiliedig ar yr ailbennu sylfaen hwn, y cynnig ar gyfer y rhan yma o'r polisi cyfrifyddu prydlesu yw bod yr eithriad cost isel yn cael ei osod i ddechrau ar £10,000 ac yna'n cael ei adolygu bob blwyddyn a, lle bo angen, ailbennu'r sylfaen gan ddefnyddio cyfradd CPI mis Mawrth bob blwyddyn (wedi'i dalgrynnu i'r £1,000 agosaf). Bydd hyn cymryd i ystyriaeth effaith amser ar arian, yn enwedig yn ystod cyfnodau o chwyddiant uchel.

Defnyddio portffolio o brydlesi sydd â nodweddion cymharol debyg

Yn dilyn adolygiad o drefniadau prydlesu presennol yn yr Awdurdod, penderfynwyd y dylid cymhwyso'r hwylusydd portffolio (paragraff 4.2.2.31 Cod Ymarfer 2023/24) ar gyfer llungopiwyr a pheiriannau tebyg (dyfeisiau amlddefnydd (MFD), peiriannau ffrancio ac ati). Y rheswm dros hyn yw nad yw'r Awdurdod yn disgwyl y bydd hyn yn wahanol iawn i gymhwyso IFRS16 ar gyfer prydlesi unigol o fewn y portffolio hwnnw. Mae gan bob un ohonynt hefyd nodweddion tebyg o ran swyddogaeth, cost a chytundebau prydlesi. Ar y sail hon bydd pob un ohonynt yn dod o fewn ffiniau'r eithriad cost isel.

Contractau presennol ar y dyddiad gweithredu

Yn seiliedig ar baragraff 4.2.1.5 Cod Ymarfer 2023/24, ni fydd ATAGC yn ailasesu unrhyw gontractau presennol ar y dyddiad gweithredu i benderfynu a ydynt yn cynnwys prydles. Wrth symud ymlaen o'r dyddiad gweithredu cychwynnol (1 Ebrill 2024) bydd angen asesu pob contract newydd i benderfynu a ydynt yn cynnwys trefniant prydlesu.



DRAFT

## 14. EIDDO, PEIRIANNAU AC OFFER

Mae asedau sydd â sylwedd ffisegol ac sy'n cael eu dal i'w defnyddio wrth gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, i'w rhentu i eraill, neu at ddibenion gweinyddol ac y disgwylir iddynt gael eu defnyddio yn ystod mwy nag un flwyddyn ariannol yn cael eu dynodi fel Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar.

### Cydnabod

Caiff gwariant ar gaffael, creu neu wella eiddo, peiriannau ac offer ei gyfalafu ar sail croniadau, ar yr amod ei bod yn debygol y bydd y manteision economaidd neu'r potensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r eitem yn y dyfodol yn mynd i'r Awdurdod ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy. Bydd gwariant sy'n cynnal ond nid yn ychwanegu at botensial yr ased i roi buddion economaidd neu botensial gwasanaeth yn y dyfodol (h.y. atgyweirio a chynnal a chadw) yn cael ei godi fel treuliau wrth ei ysgwyddo.

Mae lefel gwariant isaf o £10,000 wedi'i gosod ar gyfer Eiddo, Peiriannau ac Offer. Ni fydd gwariant oddi tano'n amodol ar ofynion cyfrifyddu cyfalaf. Pan fydd ased yn cael ei ailbrisio o dan £10,000, bydd unrhyw wariant a dibrisiant cysylltiedig fel arfer yn cael eu dileu a bydd yr ased yn cael ei dynnu o'r Gofrestr Asedau Sefydlog.

### Mesur

Caiff asedau anniriaethol eu mesur ar sail cost i ddechrau, sy'n cynnwys:

- y pris prynu
- unrhyw gostau y gellir eu priodoli i'r broses o ddod â'r ased i'r lleoliad a'r cyflwr angenrheidiol er mwyn iddo allu gweithredu yn y modd a fwriadwyd gan y rheolwyr
- amcangyfrif cychwynnol o gostau datgymalu a gwaredu'r eitem ac adfer y safle lle mae wedi'i leoli

Nid yw'r awdurdod yn cyfalafu costau benthyca a dynnir tra bod asedau'n cael eu hadeiladu. Ystyrir mai cost yr asedau sy'n cael eu caffael, ac eithrio trwy eu prynu, yw eu gwerth teg.

Mae asedau'n cael eu cario ar y Fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur canlynol:

- Tir ac Adeiladau: Swyddfeydd/Gweithdai – gwerth cyfredol (Gwerth Defnydd Presennol)
- Tir ac Adeiladau: Gorsafoedd Tân – gwerth cyfredol (Cost Adnewyddu Wedi'i Dibrisio)
- Asedau sy'n cael eu hadeiladu – cost hanesyddol
- Yr holl asedau eraill – gwerth cyfredol, wedi'i bennu fel y swm a fyddai'n cael ei dalu am yr ased yn ei ddefnydd presennol (gwerth defnydd presennol – EUV).

Lle nad oes tystiolaeth seiliedig ar y farchnad o'i werth cyfredol oherwydd natur arbenigol ased, defnyddir cost adnewyddu wedi'i ddibrisio (DRC) i amcangyfrif ei werth cyfredol.

Lle mae oes ddefnyddiol asedau nad ydynt yn eiddo yn fyr neu eu gwerthoedd yn isel (neu'r ddau), defnyddir eu cost hanesyddol wedi'i disbrisio fel sail ar gyfer eu gwerth cyfredol.

DRAFT

Mae cynnydd mewn prisiadau'n cael eu cyfateb gan gredydau i'r gronfa ailbrisio wrth gefn i gydnabod enillion na chafodd eu gwireddu. [Mewn achosion eithriadol, gellid credydu enillion i'r gwarged neu'r diffyg ar ddarparu gwasanaethau lle maent yn codi o wrthdroi colled a godwyd yn flaenorol ar wasanaeth.]

Pan fo gwerthoedd wedi gostwng, cyfrifir amdanynt fel a ganlyn:

- lle mae gweddill o enillion drwy ailbrisio ar gyfer yr ased yn y gronfa ailbrisio, bydd swm cario'r ased yn cael ei roi yn erbyn y gweddill hwnnw (hyd at swm yr enillion cronedig)
- lle nad oes gweddill yn y gronfa ailbrisio neu os nad oes gweddill digonol, bydd swm cario'r ased yn cael ei roi yn erbyn y llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**Amhariadau Gwerth**

Caiff asedau eu hasesu ar ddiwedd pob blwyddyn i weld a oes unrhyw arwydd bod gwerth yr ased wedi lleihau. Os oes arwyddion o'r fath a bod unrhyw wahaniaethau posibl yn cael eu hamcangyfrif yn rhai perthnasol, gwneir amcangyfrif o swm adferadwy'r ased ac, os yw hyn yn llai na swm cario'r ased, bydd unrhyw golled drwy amhariad yn cael ei gydnabod ar gyfer y diffyg.

Pan gaiff colledion amhariad eu nodi, cyfrifir amdanynt fel a ganlyn:

- lle mae gweddill o enillion drwy ailbrisio ar gyfer yr ased yn y gronfa ailbrisio, bydd swm cario'r ased yn cael ei roi yn erbyn y gweddill hwnnw (hyd at swm yr enillion cronedig)
- lle nad oes gweddill yn y gronfa ailbrisio neu os nad oes gweddill digonol, bydd swm cario'r ased yn cael ei roi yn erbyn y llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fydd colled drwy amhariad gwerth yn cael ei gwrthdroi, caiff y gwrthdroad ei gredydu i'r llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, hyd at swm y golled wreiddiol, wedi'i haddasu ar gyfer dibrisiant a fyddai wedi cael ei godi amdano pe na bai'r golled wedi cael ei chydnabod.

DRAFT

**Dibrisiant**

Darperir ar gyfer dibrisiant yn yr holl asedau eiddo, peiriannau a chyfarpar drwy ddyrannu eu symiau dibrisiadwy'n systematig dros eu hoes ddefnyddiol.

**Oes Economaidd Ddefnyddiol Asedau**

| | |
|---|---|
| Tir | Diddiwedd (dim dibrisiant) |
| Adeiladau | oes ddefnyddiol yr eiddo (yn ôl amcangyfrif y prisiwr) |
| Adeiladau (ar les) | Tymor y les |
| Cerbydau, Peiriannau ac Offer | 5 - 20 mlynedd |
| Asedau Anniriaethol | 5 mlynedd |

Darperir dibrisiant ar sail llinell syth, gyda'r hyn a gaffaelir yn cael ei ddibrisio yn y flwyddyn ar ôl ei brynu. Codir am ddibrisiant blwyddyn gyfan yn ystod y flwyddyn waredu.

Caiff adeiladau eu dibrisio gan ddefnyddio Dull Gweithredu Beacon. Gwneir amcangyfrif o gydrannau'r adeilad ac oes ddefnyddiol pob cydran. Yna defnyddir y dull cyfartaledd pwysedig i bennu'r tâl dibrisiant. Dyma’r canrannau a ddefnyddir:

| | |
|---|---|
| Adeiladau – gorsafoedd tân | 2.12% - 2.22% |
| Adeiladau – swyddfeydd/gweithdai | 2.22% - 2.23% |

Codir am ddibrisiant o fewn y cyfrif incwm a gwariant. Mae'r swm hwn yn cael ei gredydu i Falans y Gronfa Gyffredinol ac mae'n cael effaith niwtral ar y cyfraniadau a wneir gan yr awdurdodau cyfansoddol.

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod wneud cyfraniad blynyddol o’i refeniw tuag at y gostyngiad yn ei ofyniad benthyca cyffredinol. Felly, caiff dibrisiant, colledion ailbrisio ac amhariadau gwerth, ac amorteiddio eu disodli gan y cyfraniad o Falans y Gronfa Gyffredinol (MRP) trwy drafodiad addasu gyda'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd i gael y gwahaniaeth rhwng y ddau.

Mae enillion ailbrisio hefyd yn cael eu dibrisio, gyda swm sy'n hafal i'r gwahaniaeth rhwng y dibrisiant gwerth cyfredol y codir amdano ar asedau a'r dibrisiant a fyddai wedi bod yn daladwy ar sail ar eu costau hanesyddol yn cael eu trosglwyddo bob blwyddyn o'r gronfa ailbrisio wrth gefn i'r cyfrif addasiad cyfalaf.

**Gwaredu**

Pan ddaw’n debygol y bydd swm cario’r ased yn cael ei adennill yn bennaf drwy drafodiad gwerthu yn hytrach na thrwy barhau i’w ddefnyddio, caiff ei ail-ddynodi’n ased sy’n cael ei ddal i’w werthu. Caiff yr ased ei ailbrisio’n union cyn ei ail-ddynodi a’i gario wedyn ar y swm hwn neu’r gwerth teg, pa un bynnag yw’r isaf, llai’r costau i’w werthu. Os bydd gostyngiad dilynnol i’r gwerth teg llai’r costau i’w werthu, caiff y golled ei symud i’r llinell gwariant gweithredu arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Bydd enillion o ran gwerth teg yn cael eu cydnabod hyd at swm unrhyw golledion a gydnabuwyd o’r blaen yn y gwarged neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau. Ni chodir am ddibrisiant ar asedau sy’n cael eu dal i’w gwerthu.

Pan fydd ased yn cael ei waredu neu ei ddadgomisiynu, caiff swm cario'r ased yn y Fantolen (boed yn eiddo, peiriannau ac offer neu’n asedau sy’n cael eu dal i'w gwerthu) ei ddileu i'r llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r enillion neu'r golled wrth waredu.

Caiff derbyniadau gwaredu (os oes rhai o gwbl) eu credydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r enillion neu'r colledion wrth waredu (h.y. ei debydu yn erbyn gwerth cario'r ased ar adeg ei waredu). Bydd unrhyw enillion ailbrisio a gronnwyd ar gyfer yr ased yn y gronfa ailbrisio yn cael eu trosglwyddo i'r cyfrif addasiadau cyfalaf.

Mae symiau o fwy na £10,000 a dderbynnir am waredu yn cael eu dynodi’n dderbyniadau cyfalaf. Bydd gweddill y derbyniadau’n aros o fewn y gronfa derbyniadau cyfalaf, ac yna dim ond ar gyfer buddsoddi cyfalaf newydd y gellir ei ddefnyddio [neu ei neilltuo i leihau angen

DRAFT

sylfaenol yr awdurdod i fenthyca (y gofyniad cyllido cyfalaf)]. Caiff derbyniadau eu priodoli i'r gronfa wrth gefn o weddill y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd.

Nid yw'r gwerth sydd wedi'i ddileu o waredu yn dâl a godir yn erbyn yr ardoll, gan fod darpariaeth lawn ar gyfer cost asedau nad ydynt yn gyfredol o dan drefniadau ar wahân ar gyfer ariannu cyfalaf. Mae'r symiau'n cael eu priodoli i'r cyfrif addasiadau cyfalaf o falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd.

## 15. DARPARIAETHAU, RHWYMEDIGAETH DDIGWYDDIADOL AC ASEDAU DIGWYDDIADOL.

### Darpariaethau

Gwneir darpariaethau pan fo digwyddiad wedi digwydd ar ddyddiad y Fantolen neu ynghynt:

- sy'n rhoi rhwymedigaeth bresennol i'r awdurdod
- y mae'n debyg y bydd angen ei setlo drwy drosglwyddo buddion economaidd neu botensial gwasanaeth, a
- phan fydd amcangyfrif dibynadwy'n gallu cael ei wneud o swm y rhwymedigaeth.

Os nad yw'n glir a yw digwyddiad wedi digwydd ar ddyddiad y Fantolen neu cyn hynny, bernir ei fod yn arwain at rwymedigaeth bresennol os, gan ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael, ei bod yn fwy tebygol na pheidio bod rhwymedigaeth bresennol yn bodoli ar ddyddiad y Fantolen. Gall y rhwymedigaeth bresennol fod yn gyfreithiol neu'n adeiladol.

Codir am ddarpariaethau fel treuliau i'r llinell wasanaeth briodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fydd rhwymedigaeth ar yr awdurdod, a chânt eu mesur ar sail yr amcangyfrif gorau ar ddyddiad y Fantolen o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth, gan ystyried risgiau ac ansicrwydd perthnasol. Bydd amcangyfrifon y setliadau'n cael eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Pan ddaw'n llai na thebygol y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd (neu fod setliad is na'r disgwyl yn cael ei wneud), caiff y ddarpariaeth ei gwrthdroi a'i gredydu yn ôl i'r gwasanaeth perthnasol.

Pan fydd disgwyl i rywfaint neu'r cyfan o'r taliad sy'n ofynnol i setlo darpariaeth gael ei adennill gan barti arall (e.e. o hawliad yswiriant), bydd hwn ond yn cael ei gydnabod fel incwm os yw'n sicr bron y bydd ad-daliad yn cael ei dderbyn pan fydd yr awdurdod yn setlo'r rhwymedigaeth.

### Rhwymedigaethau Digwyddiadol

Cwyd rhwymedigaeth ddigwyddiadol pan fydd digwyddiad wedi digwydd sy'n rho rhwymedigaeth bosibl i'r awdurdod y bydd ei bodolaeth ond yn cael ei chadarnhau gan ddigwyddiadau ansicr yn digwydd yn y dyfodol neu fel arall ac nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr awdurdod. Bydd rhwymedigaethau digwyddiadol hefyd yn codi mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall ond naill ai nad yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau neu na ellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddigon dibynadwy.

Ni chaiff rhwymedigaethau digwyddiadol eu cydnabod yn y Fantolen ond byddant yn cael eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon.

DRAFT

**Asedau Digwyddiadol**

Cwyd ased digwyddiadol pan fydd digwyddiad wedi digwydd sy'n rhoi ased posibl i'r awdurdod y bydd ei fodolaeth ond yn cael ei gadarnhau gan ddigwyddiadau ansicr yn digwydd yn y dyfodol neu fel arall ac nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr awdurdod.

Nid chaiff asedau digwyddiadol eu cydnabod yn y Fantolen ond byddant yn cael eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon lle mae'n debygol y bydd mewnlif o fuddion economaidd neu botensial gwasanaeth.

## 16. CRONFEYDD WRTH GEFN

Mae'r awdurdod yn neilltuo symiau penodol fel cronfeydd wrth gefn at ddibenion polisïau'r dyfodol neu i dalu am argyfyngau. Caiff cronfeydd wrth gefn eu creu drwy drosglwyddo symiau allan o falans y Gronfa Gyffredinol. Pan fydd gwariant fydd yn cael ei ariannu gan gronfa wrth gefn yn digwydd, codir amdano i'r gwasanaeth priodol yn y flwyddyn honno i sgorio yn erbyn y gwarged neu'r diffyg ar ddarparu gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Yna caiff y gronfa wrth gefn ei throsglwyddo'n ôl i falans y Gronfa Gyffredinol fel nad oes tâl net yn cael ei godi yn erbyn yr ardoll am y gwariant.

Cedwir rhai cronfeydd wrth gefn i reoli'r prosesau cyfrifyddu ar gyfer asedau nad ydynt yn gyfredol, offerynnau ariannol, buddion gweithwyr ac ymddeoliad ac nid ydynt yn cynrychioli adnoddau y gallai'r awdurdod eu defnyddio – mae'r cronfeydd wrth gefn hyn yn cael eu hesbonio yn y polisïau perthnasol.

## 17. TAW

Mae'r TAW sy'n daladwy wedi'i gynnwys fel treuliau dim ond i'r graddau na ellir ei adennill gan CThEM. Mae'r TAW sy'n daladwy wedi'i eithrio o'r incwm.

DRAFT

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

MEWN CYFYNGDER Y GELWAIST

*This document is available in English* **Eitem Agenda 17**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **15 Gorffennaf 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Gareth Owens, Clerc** |
| Swyddog Cyswllt | **Gareth Owens, Clerc (01745 535286)** |
| Pwnc | **Penodi Swyddog Priodol ar gyfer a.36 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000** |

**Pwrpas yr Adroddiad**

1. Penodi'r Prif Swyddog Tân a'r Clerc i gyflawni rôl swyddog priodol, a elwir yn "berson cymwysedig", a all gymhwyso'r eithriad o dan adran 36 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("DRhG")

**Crynodeb Gweithredol**

2. Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus sicrhau bod yr wybodaeth a gadwant ar gael ar gais. Mae rhai categorïau gwybodaeth (e.e. gwybodaeth fasnachol sensitif neu wybodaeth sy'n ymwneud ag atal neu ganfod trosedd) yn destun eithriadau a gellir eu dal yn ôl. Dim ond y "person cymwysedig" all arfer un eithriad o'r fath o dan adran 36, sef gwybodaeth a allai beryglu cynnal materion cyhoeddus yn effeithiol. Yn Lloegr, defnyddir offeryn statudol i ddynodi pa swyddogion all weithredu fel y "person cymwysedig", ond yng Nghymru mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus ddynodi'r "person cymwysedig" eu hunain.

**Argymhellion**

3. Argymhellir bod yr Aelodau'n:

    i) dynodi'r Prif Swyddog Tân a'r Clerc fel y personau cymwysedig at ddiben cymhwyso'r eithriad yn adran 36 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

**Arsylwadau'r Panel Gweithredol/Pwyllgor Archwilio**

4. Nid yw'r Pwyllgor Archwilio na'r Panel Gweithredol wedi ystyried y papur hwn o'r blaen.

## Cefndir

5. Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus ddarparu unrhyw wybodaeth sydd yn eu meddiant pan wneir cais ysgrifenedig amdani, ar yr amod nad yw'r wybodaeth dan sylw wedi'i heithrio. Mae sawl categori eithrio, gan gynnwys gwybodaeth fasnachol sensitif neu wybodaeth sy'n ymwneud ag atal neu ganfod trosedd. Gellir dirprwyo'r holl eithriadau, heblaw am un, yn y ffordd arferol. Mae'r eithriad o dan adran 36, peryglu cynnal materion cyhoeddus yn effeithiol, yn anarferol gan mai dim ond y "person cymwysedig" a all ei arfer.

## Gwybodaeth

6. Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ei hun yn pennu, mewn perthynas â threfniadaeth cyrff cyhoeddus, pwy a ddynodir yn "berson cymwysedig". Yn Lloegr, mae offeryn statudol sy'n diffinio mai'r Prif Weithredwr/Prif Swyddog Tân a'r Swyddog Monitro yw'r person cymwysedig. Nid oes offeryn statudol o'r fath yng Nghymru, ac felly mae'n rhaid i'r Awdurdod ddynodi ei "berson cymwysedig" ei hun.

7. Gellir cymhwyso'r eithriad pan

   ym marn resymol y person cymwysedig, byddai datgelu'r wybodaeth o dan y Ddeddf hon yn—
   (a)…
   (b) atal, neu yn debygol o atal,—
      (i) cyngor rhag cael ei roi yn rhydd a didwyll, neu
      (ii) barn rhag cael ei chyfnewid yn rhydd a didwyll wrth drafod, neu
   (c) yn peryglu fel arall, neu'n debygol o beryglu fel arall, cynnal materion cyhoeddus yn effeithiol.

8. Cyhoeddwyd canllawiau manwl gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar gymhwyso'r eithriad ond, yn fras, rhaid penderfynu a fyddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o amharu ar sut y rhoddir cyngor i gynghorwyr neu ar y ffordd y mae'r awdurdod yn gweithredu. Hynny yw, a fyddai swyddogion yn gallu rhoi cyngor llawn a phriodol, ac a fyddai cynghorwyr yn gallu ei dderbyn, os oes posibilrwydd y bydd y cyngor yn cael ei gyhoeddi rhyw dro? Er mai mater i awdurdodau cyfansoddol yw hyn fel arfer, mae achlysuron pan fo cynghorwyr eisiau gallu gofyn cwestiynau a cheisio cyngor mewn "man diogel" - cwestiynau ar ffurfio polisïau, er enghraifft.

9. Yn amlwg, mae'r Awdurdod Tân yn agored ac yn dryloyw iawn yn y ffordd y mae'n gweithio. Pur anaml y defnyddiwyd ac y defnyddir yr eithriad, os defnyddir ef o gwbl. Fodd bynnag, mae'r dynodiad yn bwysig fel mesur wrth gefn. Trwy gyfyngu ar nifer y personau cymwysedig, gall yr Awdurdod gael sicrwydd y bydd yn cael ei gymhwyso'n ddoeth.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ystyrir nad yw'n berthnasol |
| Cyllideb ar gyfer 2024/25 | Ni fydd dynodi personau cymwysedig yn cael unrhyw effaith ar y gyllideb |
| Cyfreithiol | Byddai'n rhaid i'r Awdurdod arfer y swyddogaeth ei hun os na chaiff ei dirprwyo. |
| Staffio | Ystyrir nad yw'n berthnasol |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Cynhyrchwyd yr adroddiad ar ffurf ddwyieithog |
| Risgiau | Os na ellir cymhwyso'r eithriad adran 36, gallai pob cofnod o'r cyngor a roddwyd i gynghorwyr fod yn destun datgeliad posibl o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. |